

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe

Asesiad o Les Lleol 2022

Y sylfaen dystiolaeth ar gyfer Cynllun Llesiant Abertawe

MAI 2022



BGC Abertawe Asesiad Llesiant Lleol 2022: f3.0_30-09-2022

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe:

Asesiad o Les Lleol 2022



Neges gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe

Croeso i'r ail Asesiad o Les Lleol yn Abertawe.

Fel partneriaeth rydym wedi cynnal dadansoddiad o wahanol agweddau ar les cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol yn Abertawe yn 2021-22.

Prif ddiben yr asesiad yw helpu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe i nodi nifer o amcanion lles a fydd yn cyfrannu at y nodau lles cenedlaethol a nodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r nodau yn darparu'r weledigaeth a'r uchelgeisiau i Gymru heddiw ac i'r dyfodol, ac maent yn cydnabod pwysigrwydd cydweithio rhwng cyrff er mwyn eu cyflawni. Nod y Ddeddf yw gwneud i gyrff cyhoeddus feddwl mwy am y tymor hir, gweithio'n well gyda'i gilydd, pobl a chymunedau yn ogystal â cheisio atal problemau a chymryd ymagwedd fwy cydlynol. Bydd hyn yn ein helpu i greu Cymru (ac Abertawe) rydym oll am fyw ynddi, nawr ac yn y dyfodol.

Yn ogystal â helpu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe i nodi'i amcanion llesiant a llywio ei Gynllun Llesiant yn 2023, gobeithiwn y bydd yr asesiad hwn yn adnodd hefyd i unrhyw un sy'n gweithio mewn cysylltiad ag unrhyw rai o'r materion hyn, a bod yn ffocws dadlau a thrafod.

Mae'r cyfnod hwn ers yr asesiad blaenorol yn 2017 wedi bod yn gyfnod eithriadol o bwysig ac anghyffredin iawn mewn sawl ffordd. Mae'r ymwybyddiaeth gynyddol o fygythiad trychineb hinsawdd ac ecolegol lleol a byd-eang yn gyfunol a chydberthnasol wedi arwain at y datganiadau o Argyfyngau Hinsawdd a Natur. Mae effeithiau hirdymor Brexit ar ffyniant economaidd a llesiant yn gyffredinol yn parhau'n aneglur, ond ceir effeithiau mwy pendant mewn rhai sectorau o'r economi a rhai ardaloedd. Bydd yr argyfwng costau byw diweddar a'r cynnydd sylweddol mewn biliau ynni yn cael effaith negyddol sylweddol ar aelwydydd ar draws Abertawe. Mae pandemig COVID-19 wedi effeithio'n sylfaenol ar lesiant pobl, aelwydydd a chymunedau mewn nifer fawr o ffyrdd ers mis Mawrth 2020, gan gynnwys y rhagolygon ar gyfer plant a phobl ifanc, yr effeithiau ar iechyd corfforol a meddyliol, incwm a chyflogaeth, troseddu a cham-drin, cydraddoldeb, cysylltedd a ffyrdd o fyw – i enwi ond rhai. Mae effeithiau'r siociau hyn yn parhau o hyd, a hynny'n aml gydag effeithiau cyfunol neu gronnol na ellid yn hawdd fod wedi'u rhagweld pan gynhaliwyd yr asesiad diwethaf. Bydd digwyddiadau geo-wleidyddol byd-eang mwy diweddar a pharhaus, er eu bod yn amlwg yn effeithio'n bennaf ar y rheini sy'n ymwneud yn uniongyrchol â hwy, yn arwain at ganlyniadau i les pobl yn lleol yn y pen draw.

Mae effeithiau'r ffactorau diweddar, allanol hyn yn parhau, yn aml gydag effeithiau cyfunol neu gronnus na ellid fod wedi'u rhagweld yn hawdd pan gynhaliwyd yr asesiad diwethaf yn 2017.

Pwy sydd wedi llunio'r asesiad hwn?

Mae'r dystiolaeth yn y ddogfen hon wedi'i llunio gan dîm o swyddogion o sefydliadau partner Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe - partneriaeth o asiantaethau cyhoeddus sy'n gweithio yn Abertawe. Gallwch gael gwybod mwy am y Bwrdd ar y dudalen we www.abertawe.gov.uk/bgc.

Mae'r Asesiad wedi'i lunio mewn dau gam yn dilyn ymagwedd a gytunwyd gan Gyd-bwyllgor y Bwrdd yn gynnar yn 2021. Cafodd dogfen ddrafft ei llunio'n gyntaf a'i rhannu mewn ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod mis Chwefror a mis Mawrth 2022. Yna cafodd canlyniadau'r ymgynghoriad hwn eu hystyried yn ofalus gan grŵp amlasiantaeth a chytunwyd ar newidiadau a fwydwyd i'r ddogfen ddiwygiedig hon. Yn unol ag Egwyddorion Cenedlaethol Cynnwys y Cyhoedd rydym wedi rhestru'r holl gynigion a glywsom gan yr ymgynghoriad, ynghyd â sut rydym wedi ymateb i bob un, mewn Adroddiad ar Adborth o'r Ymgynghoriad ar wahân.

Mae'r dasg hon wedi bod yn arbennig o heriol yn ddiweddar, i raddau helaeth oherwydd effeithiau eang pandemig COVID-19 ar ein gallu i asesu lles. Mae hyn wedi effeithio ar argaeledd data ar gyfer rhai pynciau, ond yn fwy sylfaenol, adnoddau a gallu partneriaid. Gan fod y gwaith hwn wedi'i wneud yng nghyd-destun adnoddau cyfyngedig iawn, mae cydweithio wedi bod yn ffactor allweddol wrth lunio'r asesiad.

Hoffai'r Bwrdd achub ar y cyfle hwn i fynegi'i werthfawrogiad diffuant o ymdrechion pawb sydd wedi cyfrannu at yr asesiad hwn, o nifer o wahanol gyrff sector cyhoeddus a gwirfoddol, sydd wedi gallu dod ag ystod eang o dystiolaeth ynghyd mewn cyfnod byr iawn.

Yr Asesiad Terfynol

Ystyriwyd a chytunwyd ar y fersiwn derfynol hon o Asesiad Abertawe 2022 gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe yn gynnar ym mis Mai 2022.

Yn dilyn yr ymgynghoriad ar yr asesiad drafft, mae nifer o ffynonellau ychwanegol wedi'u cynnwys:

- Gwybodaeth ddiweddaedig a data ystadegol y bu'n bosib eu hymgorffori rhwng y drafft a'r cyhoeddiad terfynol.
- Golwg fanylach ar yr wybodaeth a gafwyd drwy ein harolwg lles cyhoeddus ar-lein, a adlewyrchwyd o fewn yr asesiad ac mewn atodiad diweddaedig.
- Awgrymiadau a dderbyniwyd i wella'r asesiad a gafwyd drwy'r ymgynghoriad, fel y manylwyd yn yr adroddiad ar yr adborth o'r ymgynghoriad.
- Atodiadau ychwanegol: 'Ynglŷn â'r Asesiad' (gan ddarparu cefndir pellach) ac 'Ardaloedd Cymunedol yn Abertawe' (proffiliau ystadegol pob Ardal Gymunedol).

Er bod hyn yn nodi diwedd y broses asesu ar gyfer 2021/2022, gwyddwn fod llawer iawn o waith pellach i'w wneud o hyd. Erys bylchau cydnabyddedig yn yr asesiad a nifer o faterion a godwyd yn yr ymgynghoriad nad oeddem wedi gallu mynd i'r afael â nhw ar y cam hwn Mae'r rhain yn cynnwys:

- Bylchau mewn agweddau ar ein hasesiad o les cymdeithasol yn arbennig; gan gynnwys pynciau iechyd corfforol, iechyd meddwl, unigrwydd ac unigedd.
- Ystyried goblygiadau llawn adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru.

Bydd rhai agweddau ar ymatebion y sefydliad i'r ymgynghoriad, er enghraifft gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a Llywodraeth Cymru, yn cael eu hystyried fel rhan o raglen ddatblygu fwy hirdymor i'r Bwrdd fwrw ymlaen â hi. Mae'r rhain wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad ar Adborth o'r Ymgynghoriad.

Camau Nesaf

Gyda'n partneriaid rhanbarthol yn BGC Castell-nedd Port Talbot, rydym wedi comisiynu ymchwil academaidd gan Brifysgol Abertawe sy'n ceisio amlygu'r goblygiadau a'r negeseuon allweddol (yr 'ac felly?') o'r asesiad, y cysylltiadau allweddol rhwng pynciau a dimensiynau lles, a beth y mae hyn yn ei olygu mewn termau ymarferol i Abertawe. Bydd y darn hwn o waith yn gam pwysig tuag at elfen 'dadansoddi ymateb' y broses gyffredinol, a chaiff ei ddefnyddio i lywio Cynllun Lles y flwyddyn nesaf.

Er ein bod o'r farn bod yr Asesiad hwn yn werthfawr ynddo'i hun, rydym yn glir mai ei brif bwrpas yw llywio Cynllun Lles ar gyfer Abertawe a fydd yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i ddinasyddion.

Mae trefniadau'n cael eu datblygu i lunio'r cynllun hwn erbyn Mai 2023. Bydd y broses hon yn defnyddio cynnwys yr Asesiad hwn ac yn cynnwys:

- Drafftio cyfres o amcanion a chamau lleol i fynd i'r afael â nhw
- Derbyn cyngor gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol
- Casglu gwybodaeth gan bartneriaid
- Ymgymryd ag Asesiadau Effaith a Chydraddoldeb Integredig
- Ymgynghori â'r cyhoedd cyn i'r amcanion terfynol gael eu cytuno.

Drwy gydol y cyfnod hwn bydd cyfleoedd i'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill sydd â diddordeb gyfrannu at y Cynllun Lles ar gyfer Abertawe.

Diolch am gymryd yr amser i ddarllen yr asesiad hwn.

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe

Mai 2022

Cynnwys

| Adran | Tudalen |
|--|------------|
| Neges gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe | 2 |
| Cyflwyniad | 7 |
| Cefndir | 7 |
| Sut rydym ni'n gweithio? | 7 |
| Beth yw 'llesiant'? | 7 |
| Ymagwedd gyffredinol at Aseiad 2022 | 8 |
| Ymgysylltiad ac ymglymiad | 8 |
| Ardaloedd cymunedol yn Abertawe | 9 |
| Dimensiynau llesiant: cynnwys y bennod | 9 |
| Proffil Abertawe | 11 |
| Llesiant cymdeithasol | 20 |
| Cyflwyniad | 20 |
| Gofal Cymdeithasol | 21 |
| Gofal Cymdeithasol i Oedolion | 22 |
| Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd | 27 |
| Gofalwyr a Gofalwyr Ifanc | 31 |
| Y Gweithlu | 35 |
| Y Blynyddoedd Cynnar | 37 |
| Gwranddo ar Blant a Phobl Ifanc | 44 |
| Heneiddio'n Dda | 48 |
| Gwranddo ar Bobl Hŷn | 48 |
| Dinas Ystyriol o Oed | 51 |
| Tlodi | 53 |
| Incwm islaw'r safonau gofynnol | 54 |
| Mynediad at wasanaethau, cyfleoedd ac adnoddau angenrheidiol | 57 |
| Tai | 65 |
| Trosedd a diogelwch | 79 |
| Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol | 80 |
| Camddefnyddio Sylweddau | 84 |
| Peryglon Bywyd ar y Stryd | 87 |
| Economi'r Nos | 89 |
| Troseddau Casineb | 98 |
| Cydlyniant Cymunedol | 104 |
| Tanau gwylt | 108 |
| Llesiant economaidd | 113 |
| Cyflwyniad | 113 |
| Seilwaith Economaidd Abertawe | 117 |
| Sylfaen Fusnes Abertawe | 126 |

| | |
|--|------------|
| Gweithlu Abertawe | 129 |
| Cyrhaeddiad Addysgol mewn Ysgolion Cynradd ac Uwchradd | 130 |
| Sgiliau a Chymwysterau Oedolion | 134 |
| Safonau Byw Da | 140 |
| | |
| Llesiant amgylcheddol | 145 |
| Cyflwyniad | 145 |
| Cadernid Bioamrywiaeth ac Ecosystemau | 148 |
| Adnoddau Dŵr | 156 |
| Perygl Llifogydd | 162 |
| Priddoedd, defnydd tir, a bwyd | 168 |
| Rheoli Seilwaith Gwyrdd a Chreu Lleoedd | 175 |
| Ansawdd Aer | 180 |
| Trafnidiaeth Gynaliadwy a Theithio Llesol | 186 |
| Rheoli Gwastraff yn Gynaliadwy | 195 |
| Cynhyrchu a Defnyddio Ynni | 201 |
| | |
| Llesiant diwylliannol | 208 |
| Cyflwyniad | 208 |
| Asedau Diwylliannol | 209 |
| Celfyddydau, Diwylliant a Thwristiaeth | 218 |
| Chwaraeon ac Iechyd | 229 |
| Yr Iaith Gymraeg | 238 |
| Cyfranogiad Cymunedol | 242 |
| | |

Cyflwyniad

Cefndir

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ('y Ddeddf') yn pennu gofyniad ar bob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) yng Nghymru i baratoi a chyhoeddi Asesiad o gyflwr llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn ei ardal unwaith bob pum mlynedd.

Lluniwyd yr Asesiad o Les Lleol hwn ar gyfer 2022 gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe, partneriaeth o asiantaethau cyhoeddus sy'n gweithio yn Abertawe. Ei nod yw darparu darlun cynhwysfawr o lesiant pobl a chymunedau yn Abertawe, a nodi'r prif ffactorau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol sy'n effeithio ar fywydau pobl.

Prif ddiben yr asesiad yw darparu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer Cynllun Llesiant Lleol BGC Abertawe yn 2023. Bydd hefyd yn helpu'r Bwrdd i nodi nifer fach o amcanion llesiant a fydd yn cyfrannu at y nodau llesiant cenedlaethol a bennwyd yn y Ddeddf. Mae'r nodau'n dangos y math o Gymru (ac Abertawe, felly) y carwn ei gweld, sef fel a ganlyn:

- Cymru lewyrchus;
- Cymru gydnerth;
- Cymru iachach;
- Cymru sy'n fwy cyfartal;
- Cymru o gymunedau cydlynus;
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu; a
- Chymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

Sut rydym ni'n gweithio?

Yng Nghymru, datblygu cynaliadwy yw'r egwyddor drefniadol ganolog sy'n llywio'r hyn rydym yn ei wneud a sut rydym yn gweithio. Wrth lunio'r ddogfen hon, rydym wedi bod yn ystyriol o'r pum dull o weithio sy'n sail i'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

Hirdymor: Wrth feddwl am lesiant yn Abertawe, rydym wedi ystyried materion presennol neu dymor byr a thueddiadau'r dyfodol (cyn belled ag y bo modd), ac wedi rhoi ystyriaeth i'r ddau.

Atal: Rydym wedi ystyried cryfderau Abertawe a sut gallai'r asedau sydd gennym helpu atal problemau rhag digwydd neu waethygu yn y dyfodol.

Integreiddio: Bydd yr asesiad yn helpu'r cyrff cyhoeddus gwahanol yn Abertawe i adnabod eu nodau llesiant unigol ac ar y cyd mewn ffordd gydgyssylltiedig.

Cydweithio: Lluniwyd yr asesiad mewn partneriaeth gan y gwahanol gyrff sy'n rhan o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe ac mae'n cynrychioli'u barn gyffredin.

Cynnwys: Rhannom fersiwn ddrafft o'n gwaith yn gynnar yn y broses a gofynnem i amrywiaeth o sefydliadau ac ymarferwyr am eu barn. Cynhaliom arolwg lles cyhoeddus ar-lein a gwahoddwyd y cyhoedd i gyfrannu at yr asesiad yn ystod cam drafft yr ymgynghoriad.

Beth yw 'llesiant'?

Mae 'llesiant' ymhell o fod yn gysyniad syml, ac mae llawer o ddisgrifiadau a dehongliadau posibl o'r term. Bydd gan bobl farnau gwahanol am yr hyn y mae llesiant yn ei olygu iddyn nhw'n bersonol ac i'w cymunedau.

Fodd bynnag, at ddibenion y Ddeddf a chanllawiau cysylltiedig, mae Llywodraeth Cymru'n diffinio llesiant yn fwyaf eglur yn y detholiadau canlynol o "Rhannu Pwrpas; Rhannu Dyfodol (SPSF) 1 Canllaw Craidd, adran 2 – yr hanfodion":

17. Mae datblygu cynaliadwy yn ymwneud â chydabod bod llawer o bethau sy'n penderfynu ar ansawdd bywyd person (eu llesiant), ac y gallai'r rhain, yn y lle cyntaf gael eu dosbarthu fel ffactorau amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol. Mae'r rhain yn cael eu cynnwys yn y nodau llesiant. Mae hyn yn golygu y gallai gwella ansawdd ein hamgylchedd, ein heconomi a'n cymdeithas a'n diwylliant wella llesiant unigolion a Chymru yn gyffredinol.

20. Mae'n bwysig adnabod y gwahaniaeth rhwng llesiant Cymru, a llesiant unigolion. Mae datblygiad cynaliadwy yn cysylltu'r amgylchedd yr ydym yn byw ynddo, yr economi rydym yn gweithio ynddi, y gymdeithas rydym yn ei mwynhau a'r diwylliannau yr ydym yn eu rhannu â phobl ac ansawdd eu bywydau.

Ar y sail hon, gellid diffinio llesiant (yn fyr) fel *y ffactorau amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol sy'n pennu ansawdd bywyd unigolyn*. Fodd bynnag, er y gallai hwn fod yn ddefnyddiol fel diffiniad gwaith, nid yw'r berthynas rhwng llesiant ac ansawdd bywyd yn uniongyrchol nac yn syml.

Ymagwedd gyffredinol at Asesiad 2022

Mae'r asesiad hwn yn amcanu at adeiladu ar yr asesiad cyntaf a gyhoeddwyd yn 2017, ond mae ein hymagwedd wedi newid mewn rhai ffyrdd allweddol. Yng ngwanwyn 2021, cytunodd y Bwrdd i strwythuro'r Asesiad hwn o amgylch y pedwar dimensiwn llesiant yn y Ddeddf: cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol. Hefyd, sefydlwyd gweithgorau (o gynrychiolwyr partner BGC) i ddatblygu'r asesiad, gan gynnwys Grŵp Golygyddol llai (i lywio'r prosiect), Is-grŵp Ymgysylltu a Fforwm Ymchwil. Ar ôl hynny, aeth pedwar o grwpiau seiliedig ar y dimensiynau ati i ddatblygu cynnwys manwl ar gyfer yr asesiad.

Symudwyd ymlaen â'r asesiad hefyd yn erbyn cefndir o gydweithio rhanbarthol mwy gyda BGC Castell-nedd Port Talbot a Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg – yn gweithio gyda'i gilydd ar ymagwedd gyffredin ac ar y cyd at yr Asesiadau Llesiant Lleol a'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth (sy'n ofynnol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014). Sefydlwyd Bwrdd Cydlynu rhanbarthol hefyd i ddarparu cyfeiriad a chymorth ar gyfer yr asesiadau amrywiol sy'n ofynnol ar draws y trefniadau llywodraethu presennol.

Ymgysylltiad ac ymglymiad

Mae'r asesiad hwn wedi'i seilio'n bennaf ar dystiolaeth ystadegol a thystiolaeth yn seiliedig ar ymchwil, ond mae cyd-destun o brofiad bywyd yn helpu darparu dogfen gytbwys a mwy ystyrlon. Nod yr ymagwedd hon yw sicrhau bod bylchau'n cael eu hadnabod a bod lleisiau'r rhai y prin y clywir ganddynt yn cael eu hystyried. Felly, mae safbwynt dinasyddion yn ganolog i'r Asesiad, gan ategu'r manylion technegol y tu ôl i ystadegau gyda phrofiadau pobl, ac adlewyrchu realiti ar lawr gwlad.

I'r perwyl hwn, cynhaliwyd arolwg o farnau pobl Abertawe ar lesiant yn yr hydref 2021 – i helpu deall beth sydd bwysicaf i unigolion yn Abertawe a beth mae hyn yn ei olygu i'n heconomi, ein cymdeithas, ein hamgylchedd a'n diwylliant. Hefyd, gofynnwyd i bobl rannu'u profiadau a'u storïau er mwyn helpu egluro hyn. Roedd lefel ac ansawdd yr ymateb yn

galonogol, ac mae detholiad o ddyfyniadau a dderbyniwyd gan bobl leol yn ystod yr arolwg wedi'u cynnwys yn y ddogfen.

Mae rhagor o wybodaeth am yr arolwg lles, a'r cyd-destun ehangach i'n hymagwedd at ymgysylltu a chynnwys i'w chael mewn atodiadau i'r Aseiad.

Ardaloedd cymunedol yn Abertawe

Fel o'r blaen, mae'n ofynnol i'r Aseiad bennu 'ardaloedd cymunedol' o fewn ardal y Bwrdd a dadansoddi cyflwr llesiant ym mhob ardal. Mae ein dadansoddiad yn cyfeirio at yr ardaloedd cymunedol a'r gwrthgyferbyniadau rhyngddynt o fewn y penodau penodol cyn belled ag y bo modd.

At y diben hwn, mae'r ddinas a'r sir wedi'u rhannu yn chwe ardal gymunedol:

- Dwyrain y Bae
- Y Ddinas
- Lluchwr
- Gorllewin y Bae
- Cwm Tawe
- Penderi

Yr un ardaloedd yw'r rhain ag a nodwyd yn Aseiad 2017, ac maent yn cyd-daro'n bennaf a'n Hardaloedd Rhwydwaith Gofal Sylfaenol Lleol – sef rhwydwaith Cymru gyfan o ardaloedd clwstwr meddygon teulu a ddefnyddir ar draws y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol yn benodol. Fodd bynnag, mae'r fwyaf ohonynt ('Bae'), sy'n cynnwys Gŵyr wledig a rhannau mwy trefol Abertawe, wedi'i rhannu yn ardaloedd y Dwyrain a'r Gorllewin.

Mae'r ardaloedd yn cynnwys grwpiau o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA) – sef daearyddiaeth ystadegol genedlaethol ar gyfer ardaloedd bach. Mae map ac ystadegau cryno ar gyfer yr ardaloedd ar gael yn adran Proffil Abertawe.

Dimensiynau llesiant: cynnwys y bennod

Er mwyn darparu strwythur cydlynus ar gyfer dadansoddi ar draws meysydd pwnc amrywiol, dilynwyd proses debyg gan y rheiny sy'n gweithio ar yr adrannau unigol o'r aseiad. I ddechrau rydym wedi casglu tystiolaeth am lesiant lleol ar lefel pwnc, gan grynhoi gwybodaeth sydd ar gael o ffynonellau ystadegol a sefydliadol cyhoeddus, a data meintiol lleol ac adborth.

Mae pob un o brif adrannau neu benodau'r aseiad hwn, sy'n cyfateb i bedwar trywydd neu ddimensiwn llesiant, yn dechrau gyda chyflwyniad a chrynodeb o'r hyn y teimlwn y mae pob dimensiwn yn ei gynnwys (yn absenoldeb diffiniadau cenedlaethol cytûn) ac i gyflwyno'r cefndir ar gyfer y cynnwys pwnc manwl sy'n dilyn.

Nod y crynodebau pwnc yw ystyried y dystiolaeth sydd ar gael yn ymwneud â llesiant sy'n gysylltiedig â phob pwnc mewn fformat cyffredin, a chynnwys yr agweddau canlynol cyn belled ag y bo modd:

- **Cryfderau ac asedau:** cofnodi'r prif gryfderau neu asedau ym mhoblogaeth neu amgylchedd Abertawe yn ymwneud â'r pwnc, ac amlinellid o'r gwasanaethau presennol a'r partneriaethau sy'n eu cefnogi.
- **Newidiadau dros gyfnod:** gwybodaeth sydd ar gael sy'n seiliedig ar dueddiadau yn gysylltiedig â'r dystiolaeth yn ymwneud â'r pwnc hwn.

- **Cymariaethau â lleoedd eraill:** gyda Chymru/yng Nghymru a’r DU, fel y bo’n briodol.
- **Gwahaniaethau o fewn Abertawe:** cymariaethau rhwng ein hardaloedd cymunedol dynodedig (i’r graddau bod tystiolaeth ar gael) neu ardaloedd/daearyddiaethau lleol eraill; ac agweddau gwahanol ar lesiant sy’n effeithio ar grwpiau poblogaeth gwahanol, gan gynnwys y rheiny a nodwyd yn y Ddeddf.
- **Canfyddiadau a phersbectifau:** tystiolaeth arolygon perthnasol, o’n Harolwg llesiant cyhoeddus diweddar, ac ymchwil sylfaenol ac adroddiadau perthnasol eraill.
- **Tueddiadau a rhagolygon i’r dyfodol:** asesiad o’r hyn fydd yn digwydd os yw’r sefyllfa a’r cyfeiriad presennol yn parhau; a sut y gallai tueddiadau disgwylidig y dyfodol effeithio ar y pwnc. Bydd adroddiad Tueddiadau’r Dyfodol Llywodraeth Cymru yn cael ei ystyried yn ddiweddarach.
- **Integreiddio:** cysylltiadau dynodedig rhwng y pwnc hwn a phynciau a dimensiynau eraill llesiant; ac effeithiau neu gysylltiadau â’r nodau llesiant cenedlaethol.
- **Gwelliant:** beth fyddem yn gobeithio’i weld pe bai’r sefyllfa bresennol yn gwella, er enghraifft newidiadau mewn dangosydd(ion) ac unrhyw dystiolaeth arall o welliant.
- **Ynglŷn â’r dystiolaeth:** nodiadau ar y ffynhonnell dystiolaeth (ffynonellau tystiolaeth) ar gyfer y pwnc, eu cryfderau a chyfyngiadau, ac unrhyw gysylltiadau (neu anghysonderau) rhyngddynt. Bylchau yn y dystiolaeth ac unrhyw waith pellach sy’n ofynnol; yn y cam drafft hwn ac yn y tymor hwy (pum mlynedd).
- **Casgliadau a negeseuon allweddol:** beth mae’r dystiolaeth ynglŷn â’r pwnc yn ei ddweud wrthym am lesiant a beth sydd angen i ni wneud.

I gael gwybodaeth bellach am y broses, y ddogfen asesu ac atodiadau cefndir, ewch i’r wedudalen www.abertawe.gov.uk/asesiadbgc2022

Byddem yn gwerthfawrogi’n fawr eich adborth a’ch awgrymiadau parhaus ar gyfer gwella, felly os oes gennych unrhyw sylwadau am yr Aseiad neu’r Cynllun Lles, e-bostiwh BGCAbertawe@abertawe.gov.uk

Proffil Abertawe

Abertawe, sydd yng nghanol arfordir de Cymru, yw'r ail ddinas fwyaf yng Nghymru ac mae'n ganolfan ranbarthol ar gyfer de-orllewin Cymru. Dau awdurdod lleol cyfagos Abertawe yw Sir Gâr i'r gorllewin a Chastell-nedd Port Talbot i'r dwyrain.

Mae'r Ddinas a'r Sir yn cynnwys arwynebedd tir o 378 km sg. a gellir ei rhannu'n fras i bedair ardal ddaearyddol: gweundiroedd agored ucheldiroedd Lliw i'r gogledd; penrhyn gwledig Gŵyr yn y gorllewin, sy'n cynnwys Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol gyntaf y DU; yr ardal faestrefol sy'n ymestyn o ymyl Abertawe i aneddiadau yn y gorllewin a gerllaw coridor yr M4; a'r sribed arfordirol o gwmpas Bae Abertawe, sy'n cynnwys canol y ddinas a chanolfannau ardal cyfagos gan gynnwys Uplands, Sgeti a'r Mwmbwls.

Proffil lle: Tirwedd Abertawe

Mae penrhyn Gŵyr yn enwog am ei ansawdd golygfaol, yn enwedig yr arfordir a'r bryniau agored amlwg megis Mynydd Rhosili a Chefn Bryn, ei golygfeydd atyniadol o'r môr a'r arfordir a'i ymdeimlad cryf o le. Mae rhan fawr wedi'i dynodi'n Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AoHNE), y gyntaf yn y DU. Mae gan ardal Abertawe ddaeareg a geomorffoleg ysblennydd, sy'n bwysig yn rhyngwladol, gan gynnwys 20 o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) daearegol a 9 Safle Daearegol a Geomorffaidd Pwysig Rhanbarthol (RIG). Mae arfordir de Gŵyr yn gilfachog, gyda chlogwyni creigiog, pentiroedd a baeau tywodlyd sy'n cefnu ar dwyni. Mae arfordir gogledd Gŵyr yn nodedig am ei chorsydd aberol eang, rhan o Ardal Cadwraeth Arbennig Bae a Morydau Caerfyrddin pwysig rhyngwladol, ac mae ganddi olygfeydd ar draws moryd Lluchwr. Mae gan ardal fewnol Gŵyr gaeau tir amaeth tonnog agored a gwrychoedd gyda phentrefi gwledig darluniadwy a thawel. Mae diddordeb hanesyddol yn amlwg trwy holl ardal wledig Gŵyr, gan gynnwys system gaeau ganoloesol y Vile yn Rhosili a nodweddion cynhanesyddol yr ucheldiroedd. Mae Gŵyr yn hynod o bwysig ar gyfer adloniant arfordirol, gan gynnwys syrffio, hwylio a nofio ac ar gyfer cerdded ar hyd yr arfordir a'r ucheldir.


Mae twristiaeth, yn arbennig meysydd gwersylla a pharciau carafanau, yn bwysig yno. O amgylch ymylon Abertawe, mae tiroedd comin, dyffrynnoedd bach coediog a thir amaeth yn darparu cyfleoedd ar gyfer cerdded, beicio a marchogaeth. Mae Cors Crymlyn yn warchodfa natur o bwysigrwydd cenedlaethol, ac mae parcdir a choedwig ym Mhenllergaer yn darparu gweithgareddau hamdden anffurfiol. I ffwrdd o goridor yr M4, mae'r ardaloedd hyn yn gallu bod yn heddychlon. Mae Pen y Mwmbwls a thraeth ysgubol Bae Abertawe'n diffinio arfordir y ddinas ac yn darparu'r ffocws ar gyfer hamdden, cerdded a beicio arfordirol. Mae bryniau tonnog ucheldiroedd agored a chymoedd yn flaenllaw yn rhan ogleddol yr ardal, gyda golygfeydd helaeth dros Sir Gâr a'r Mynydd Du. Mae'r ucheldiroedd hefyd yn ardaloedd pwysig ar gyfer hamddena. Mae aneddiadau, coetiroedd a thir pori yn flaenllaw yn y cymoedd, sy'n llwybrau pwysig ar gyfer cerdded a beicio sy'n aml yn gysylltiedig ag isadeiledd hanesyddol megis camlesi a rheilffyrdd segur fel yng Nghwm Tawe.

Poblogaeth

Yr amcangyfrif swyddogol diweddaraf o boblogaeth Dinas a Sir Abertawe (ym mis Mehefin 2020) yw 246,600. Mae gan Abertawe yr ail boblogaeth awdurdod lleol fwyaf yng Nghymru sydd bron 8% o'i chyfanswm poblogaeth (3,169,600).

Ardaloedd Cymunedol

Mae chwe ardal gymunedol a nodwyd yn Abertawe yn amrywio o ran maint y boblogaeth o 28,800 (Gorllewin y Bae) i 58,900 (Cwm Tawe), ac mewn arwynebedd o 9 metr sgwâr (Penderi) i 158 metr sgwâr (Gorllewin y Bae). Mae map amlinellol a thabl cryno sy'n dangos poblogaeth, arwynebedd a dwysedd isod:



Ffigur P1: Ardaloedd Cymunedol yn Abertawe

Tabl P1: Ystadegau Allweddol ar gyfer Ardaloedd Cymunedol

| Ardal Gymunedol: | Pobl oed: | | | Poblogaeth (canol 2020) | Newid (2015-20) | Ardal (km sgwâr) | Dwysedd (pobl/Km sgwâr) |
|---------------------|---------------|----------------|---------------|----------------------------|---------------------|---------------------|----------------------------|
| | 0-15 | 16-64 | 65+ | | | | |
| Dwyrain y Bae | 5,100 | 27,100 | 8,200 | 40,400 | -1,400 (-3%) | 19 | 2,128 |
| Gorllewin y Bae | 4,300 | 15,200 | 9,200 | 28,800 | -200 (-1%) | 158 | 183 |
| Dinas | 6,100 | 28,600 | 5,200 | 39,900 | +2,000 (+5%) | 12 | 3,418 |
| Cwm Tawe | 10,800 | 36,900 | 11,300 | 58,900 | +1,700 (+3%) | 45 | 1,313 |
| Llŵchwr | 8,400 | 27,900 | 9,700 | 46,000 | +1,200 (+3%) | 137 | 335 |
| Penderi | 6,800 | 20,400 | 5,300 | 32,600 | +900 (+3%) | 9 | 3,532 |
| <i>cyfanswm</i> | <i>41,600</i> | <i>156,000</i> | <i>49,000</i> | <i>246,600</i> | <i>+4,200 (+2%)</i> | <i>380</i> | <i>653</i> |


Ffynhonnell: Amcanestyniadau poblogaeth hyd at 2020 ac ystadegau arwynebedd tir/dwysedd, Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS).

Mae proffiliau ystadegol manylach o'r Ardaloedd Cymunedol ar gael fel Atodiad i'r asesiad hwn.

Dwysedd poblogaeth

Dwysedd cyfartalog poblogaeth Dinas a Sir Abertawe yw 653 o bobl y cilometr sgwâr (amcangyfrif 2020), sef y pumed uchaf o 22 o ardaloedd awdurdod lleol Cymru (cyfartaledd: 153 o bobl y cilometr sgwâr). Nid yw'r boblogaeth wedi'i dosbarthu'n gyfartal yn Abertawe, gyda'r rhan fwyaf o bobl yn byw yn yr ardal drefol a'r aneddiadau angylchynol i'r gogledd, gan gynnwys Treforys, Clydach, Gorseinon a Phontarddulais.

Mae dwysedd poblogaeth ardaloedd cymunedol Abertawe'n amrywio'n fawr, ond hyd yn oed yn fwy ar lefel ward gyda chrynodeiadau uchel o boblogaeth yn y ddinas ac o'i chwmpas (ward y Castell) a wardiau cyfagos Cwmbwrla, Townhill ac Uplands (sef 6,693 o bobl fesul cilomedr sgwâr - y dwysedd poblogaeth ward uchaf yn y sir).



Mae'r rhain yn wahanol i ardaloedd gwledig prin eu poblogaeth yn ardal Gŵyr a gogledd Lliw. Mae gan wardiau Mawr a Gŵyr ddwysedd poblogaeth o 32 o bobl fesul metr sgwâr, yr isaf yn y sir.

Mae'r map gyferbyn yn dangos dwysedd poblogaeth amcangyfrifedig pob ward yn Abertawe yn 2020.

Ffigur P2: Dwysedd poblogaeth fesul Ward

Ffynhonnell: Amcanestyniadau poblogaeth (SYG, 2020) ac arwynebedd tir (km sgwâr).

Strwythur y boblogaeth

Mae amcangyfrifon diweddaraf y SYG o strwythur rhyw ac oed poblogaeth Abertawe (ym Mehefin 2020) wedi'u nodi yn y tabl isod, ynghyd â'r canrannau cyfwerth ar gyfer Cymru a DU.

Tabl P2: Cyfansoddiad poblogaeth Abertawe yn ôl rhyw ac oedran, canol 2020


| Oedran | Abertawe | | | | Cymru % | Y DU % |
|-----------------|----------------|----------------|----------------|------------|------------|------------|
| | Gwrywod | Benywod | Cyfanswm | % | | |
| 0-4 | 6,100 | 5,900 | 12,000 | 4.9 | 5.1 | 5.6 |
| 5-15 | 15,400 | 14,200 | 29,600 | 12.0 | 12.7 | 13.3 |
| 16-24 | 18,200 | 15,300 | 33,500 | 13.6 | 10.9 | 10.5 |
| 25-44 | 32,100 | 30,200 | 62,300 | 25.3 | 24.1 | 26.1 |
| 45-64 | 29,300 | 31,000 | 60,200 | 24.4 | 26.2 | 25.8 |
| 65-74 | 12,100 | 13,800 | 25,900 | 10.5 | 11.4 | 10.0 |
| 75+ | 9,600 | 13,400 | 23,000 | 9.3 | 9.7 | 8.6 |
| Cyfanswm | 122,700 | 123,900 | 246,600 | 100 | 100 | 100 |

Ffynhonnell: Amcangyfrifon Poblogaeth Canol Blwyddyn 2020, SYG.

Mae cyfran poblogaeth oed gweithio Abertawe (h.y. pob un sydd rhwng 16 a 64 oed) sef 63.3% yn uwch na Chymru (61.2%) a'r DU (62.4%). Fodd bynnag, mae gan Abertawe gyfran is o blant (0-15 oed), sef 16.9%, na Chymru (17.8%) a'r DU (19.0%).

Mae'r pyramid poblogaeth gyferbyn yn dangos yr amcangyfrifon diweddaraf ar gyfer Abertawe yn ôl oed a rhywedd.

**Ffigur P3:
Poblogaeth Abertawe, canol 2020**



Mae'r pyramid yn amlygu'n arbennig y cynnydd mawr yn y carfannau poblogaeth rhwng 19 a 22 oed, sy'n rhannol gysylltiedig â myfyrwyr yn nwy brifysgol Abertawe. Mae ystadegau cyhoeddus ar gyfer 2020-21 yn cofnodi 24,400 o fyfyrwyr amser llawn mewn Addysg Uwch yn y ddwy brifysgol leol (Prifysgol Abertawe a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant) gyda 4,600 o fyfyrwyr amser llawn ychwanegol mewn Addysg Bellach yng Ngholeg Gŵyr Abertawe.

Newid mewn poblogaeth

Mae'r amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn a gyhoeddwyd yn y tymor hir (SYG) yn awgrymu bod poblogaeth Abertawe wedi tyfu'n raddol rhwng 2001 a 2019 (er bod gostyngiad bach yn y flwyddyn hyd at ganol 2020). Rhwng 2015 a 2020, cyfradd gyfartalog twf y poblogaeth yn Abertawe oedd tua +850 o bobl (+0.4%) y flwyddyn.

Mae'r amcangyfrifon elfennau allweddol newid mewn poblogaeth - sef genedigaethau, marwolaethau a mudo - yn awgrymu mai'r prif ysgogydd ar gyfer twf y boblogaeth yn Abertawe ers 2001-2015 fu mudo. Yn ystod y pum mlynedd diwethaf (2015 i 2020), amcangyfrifwyd mai'r mewnlif net blynyddol cyfartalog o'r holl fudo oedd tua 1,100; er mae hyn wedi arafu'n sylweddol dros y ddwy flynedd ddiwethaf (2018-20). Ers 2017, bu allfudo mewnol net (y DU) o Abertawe; er bod twf poblogaeth amcangyfrifedig o fudo rhyngwladol wedi parhau'n uchel (dros 1,400 ym mhob un o'r pum mlynedd diwethaf).

O ran newid naturiol, mae nifer y genedigaethau byw a gofnodwyd yn Abertawe wedi gostwng yn gyffredinol ers 2015. Arhosodd marwolaethau'n gymharol gyson o 2015 i 2018, yna gostyngodd y rhain yn 2019, ac yna bu cynnydd sydyn yn ystod y flwyddyn hyd at fis Mehefin 2020. Y canlyniad net yw bod nifer y marwolaethau wedi mynd yn fwy na nifer y genedigaethau o 2015 ymlaen, gan arwain at newid naturiol negyddol ym mhoblogaeth Abertawe (yn groes i'r cyfnod rhwng 2005 a 2014).

Newid yn ôl oedran

Gellir darparu trosolwg o dueddiadau diweddar drwy ddadansoddi'r prif newidiadau yn strwythur oed poblogaeth Abertawe dros y cyfnod pum mlynedd, 2015-2020.

O ran y grwpiau 'cyfnod bywyd' allweddol, mae'r tueddiadau cyffredinol fel a ganlyn:

- **Pob person:** cynnydd o 4,200 (+1.8%), o 242,300 i 246,600.
- **Plant (0 i 15 oed):** newid dibwys (-100 / 0.2%) i 41,600.
- **Oedran gweithio (16-64):** cynnydd o 2,200 (+1.4%) i 156,000, sy'n is na'r gyfradd gyffredinol gyfwerth y cynnydd yn y boblogaeth ar gyfer Abertawe.
- **Pobl 65 oed ac yn hŷn:** cynnydd o 2,100 (+4.6%) i 49,000; sy'n adlewyrchu poblogaeth sy'n heneiddio, yn unol â thueddiadau cenedlaethol.

Ar gyfer carfanau llai penodol, dyma'r tueddiadau ar gyfer Abertawe dros y cyfnod pum mlynedd hwn:

- 0-4 oed: dirywiad cyffredinol o oddeutu 1,200 (-9.4%), gyda niferoedd yn y garfan hon yn syrthio yn y blynyddoedd diweddar, yn bennaf oherwydd cyfraddau genedigaethau llai
- 5-15 oed: cynnydd o 1,200 (+4.1%). Mae'r cynnydd hwn i'w weld yn bennaf yn y grŵp oed 10-14 (+900/+6.8%), sy'n rhannol gysylltiedig â'r cynnydd bach mewn genedigaethau ar ddechrau 2006
- 20-24 oed: twf o 1,000 (+4.6%), sy'n rhannol gysylltiedig â lefelau cynyddol o fewnfudo mewnol gan fyfyrwyr o fannau eraill yn y DU a thramor.
- 25-29 oed: cynnydd sylweddol arall yn y garfan boblogaeth hon, o 1,600 o bobl (+9.7%), y gellir ei briodoli i fewnfudiad, cadw myfyrwyr, a thwf yn niferoedd y boblogaeth o fewn y genhedlaeth flaenorol (e.e. y rheini sydd bellach yn 55-59 oed).
- 30-39 oed: cynnydd cyffredinol o 2,000 (+7.0%)
- 40-54 oed: gostyngiad o 2,800 (-5.9%), mewn cyferbyniad â charfannau ar y naill ochr a'r llall.
- 55-59 oed: cynnydd o 1,200 (+8.2%), yn rhannol oherwydd y cynnydd mawr mewn genedigaethau babanod yn y 1960au.

- 65-74 oed: cynnydd cyffredinol o 800 (+3.2%), gyda gostyngiadau yn nifer y bobl 65-69 oed wedi'u gwrthbwysu gan gynnydd yn y grŵp oed 70-74 (sy'n adlewyrchu'r cynnydd mawr mewn genedigaethau ar ôl y rhyfel).
- 85 oed ac yn hŷn: amcangyfrifir ei fod wedi cynyddu 5.4% (+300) dros y pum mlynedd i 2020, i oddeutu 6,600 o bobl yn Abertawe. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod cyfradd y cynnydd yn niferoedd y bobl 85+ oed wedi arafu yn y blynyddoedd diweddar.

Disgwyliad oes


Mae disgwyliad oes yn Abertawe, fel mewn mannau eraill, wedi cynyddu dros y tymor hir, gan gyfrannu at boblogaeth sy'n heneiddio'n gyffredinol. Mae ffigurau diweddaraf y SYG ar ddisgwyliad oes cyfartalog ar adeg geni (ar gyfer 2018-20) bellach yn 77.5 mlynedd i ddynion yn Abertawe (Cymru 78.3) ac 81.8 ar gyfer menywod (Cymru 82.1). Pum mlynedd cyn hyn, h.y. 2013-15, roedd disgwyliad oes yn Abertawe yn 78.0 mlynedd i ddynion (Cymru 78.4) ac 82.5 mlynedd i fenywod (Cymru 82.3). Mewn blynyddoedd diweddar felly, mae gwelliannau hirdymor mewn disgwyliad oes wedi gwrthdroi ychydig.

Rhagamcan o newid yn y boblogaeth

Mae amcanestyniadau poblogaeth diweddaraf Llywodraeth Cymru sy'n seiliedig ar dueddiadau'n awgrymu y bydd poblogaeth Abertawe yn tyfu 7.5% (+18,400 o bobl) i 264,800 rhwng 2018 a 2043. Yn yr amcanestyniadau hyn (yn seiliedig ar 2018), Abertawe sydd â'r pumed gyfradd twf uchaf amcanol o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Mewn cymhariaeth, mae'r amcanestyniadau'n awgrymu cynnydd o 3.7% yn y boblogaeth ledled Cymru dros y cyfnod o 25 mlynedd.

Mewn gwirionedd, gall yr amcanestyniadau hyn roi syniad o boblogaeth y dyfodol dim ond os bydd tueddiadau demograffig diweddar yn parhau, gan ddarparu un senario'n unig yn seiliedig ar set benodol o dybiaethau. Mae amcanestyniadau 2018 yn seiliedig ar dueddiadau'r gorffennol, gan ddefnyddio pum mlynedd o ddata ffrwythlondeb, marwolaethau a mudo yn ei hanfod (hyd at ganol 2018).

Mae'r amcanestyniadau hyn yn awgrymu bod nifer y bobl 65 oed a throsodd yn debygol o gynyddu 10,700 (+22.3%) i 58,800 dros y cyfnod 2018-2043 – cynnydd cyfartalog blynyddol o 430 (+0.9%). Y prif reswm am hyn yw'r gwelliannau tymor hir mewn cyfraddau marwolaeth (sy'n cael ei adlewyrchu yn y ffaith bod pobl yn byw'n hwy) a rhai carfanau poblogaeth yn heneiddio. Fodd bynnag, mae'r amcanestyniadau'n awgrymu cyfraddau twf llai yn y boblogaeth oed gweithio (16-64 oed) dros y cyfnod 25 mlynedd, o 6,300 (+4.0%) yn gyffredinol, cyfartaledd o 250 o bobl neu 0.2% y flwyddyn. Awgryma'r newid a ragwelir yn y grŵp oedran 0-15 gynnydd llai o 1,400 (+3.2%) dros y 25 mlynedd. Bydd y rhagamcanion swyddogol yn cael eu hadolygu'n ddiweddarach o ganlyniad i ryddhau canlyniadau Cyfrifiad 2021.



Ffigur P4: Newid yn y boblogaeth yn Abertawe, 2010 i 2040 – amcangyfrifon a rhagamcanion

Ffynhonnell: Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn: SYG ac Amcanestyniadau Is-genedlaethol o'r Boblogaeth, Llywodraeth Cymru.

Cyfansoddiad aelwydydd

Amcangyfrifir bod cyfanswm nifer yr aelwydydd (â phreswylwyr) yn Abertawe yng nghanol 2020 yn 109,700 (wedi'i dalgrynnu), cynnydd o oddeutu 200 (neu 0.2%) ar ffigur 2019. Ers 2015, mae nifer yr aelwydydd yn Abertawe wedi cynyddu 3,400 (+3.2%), gyda maint cyfartalog aelwyd yn disgyn yn araf i 2.20 o bobl (2020).

Yn 2020, aelwydydd ag oedolyn sengl (38,900 / 35.5% o'r cyfanswm) ac aelwydydd 2 berson 0 plant (32,200 / 29.4%) oedd y mathau mwyaf cyffredin o aelwydydd yn Abertawe. Rhwng 2015 a 2020, cynyddodd nifer yr aelwydydd pobl sengl 2,400 (+6.6%), gyda newid arwyddocaol arall yn digwydd mewn aelwydydd 2 oedolyn 0 plentyn (cynnydd o 900 neu 2.7%) ac aelwydydd 4+ oedolyn 0-plentyn (cynnydd o 200 neu 5.6%); mae hyn efallai'n adlewyrchu'n rhannol y cynnydd mewn aelwydydd myfyrwyr. Mewn cyferbyniad â hyn, mae nifer yr aelwydydd 2 oedolyn, 1 plentyn neu fwy yn Abertawe wedi gostwng 300 (-1.7%) dros y cyfnod pum mlynedd.

Nodweddion Poblogaeth:

- Yn ôl grŵp ethnig

Mae amcangyfrifon Cyfrifiad 2011 (y rhai diweddaraf sydd ar gael) yn awgrymu bod 14,326 o bobl yn Abertawe yn dod o grŵp ethnig nad yw'n wyn, 6.0% o'r boblogaeth gyfan; sy'n uwch na'r ffigur cyfatebol ar gyfer Cymru (4.4%) a'r drydedd ganran uchaf o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru, er yn is na chyfradd gyfatebol y DU.

Roedd 20,368 (8.5%) o boblogaeth Abertawe yn 'Brydeinig, heb fod yn wyn' yn 2011 (h.y. hefyd yn cynnwys grwpiau ethnig gwyn eraill); uwch na chyfartaledd Cymru (6.8%) ac eto'r drydedd gyfradd uchaf yng Nghymru, ond yn is na chanran y DU.

Dros y cyfnod 2001 i 2011, cynyddodd y gyfran o bobl yn Abertawe o grŵp ethnig heb fod yn wyn o 2% o'r boblogaeth i 6%, cynnydd cyffredinol o 9,500 (+198%). Cynyddodd nifer y bobl 'Brydeinig, heb fod yn wyn' 10,800 (+113%).

Mae data Cyfrifiad 2011 yn awgrymu mai'r grwpiau ethnig heb fod yn wyn mwyaf yw:

- Tsieinaidd - 2,052 o bobl (0.9% o boblogaeth Abertawe)
- Bangladeshaidd – 1,944 (0.8%)
- Asiaidd arall – 1,739 (0.7%)
- Affricanaidd Du – 1,707 (0.7%)
- Arabaidd – 1,694 (0.7%).

Ymhlith y grwpiau ethnig heb fod yn wyn, roedd y cynnydd amcangyfrifedig mwyaf yn y boblogaeth rhwng 2001 a 2011 yn y grwpiau Affricanaidd Du (+1,500 yn fras), Bangladeshaidd ac Indiaidd (y ddau yn +900). Cynyddodd y boblogaeth 'Gwyn - Arall' 1,400.

Mae data Cyfrifiad Ysgolion yn awgrymu bod nifer y disgyblion ym mhoblogaeth yr ysgol nad ydynt yn 'Wyn-Prydeinig' wedi cynyddu o 3,700 yn 2015 i 4,600 yn 2020 (+900 neu 25%).

Mae'r dadansoddiad o boblogaeth Abertawe yn ôl grwpiau ethnig fesul ardal gymunedol hefyd ar gael o Gyfrifiad 2011. Cofnodwyd y poblogaethau lleiafrifoedd ethnig mwyaf yn ardaloedd cymunedol y ddinas (5,154 / 14.5%) a Dwyrain y Bae (3,681 / 8.9%). Ar lefel fwy lleol, mae gan wardiau'r Castell ac Uplands boblogaethau lleiafrifoedd ethnig o fwy na 10% (2011).

- Yn ôl crefydd

Yng Nghyfrifiad 2011, Cristnogaeth yw'r prif grefydd yn Abertawe (55%); fodd bynnag, nid oes gan 34% o bobl unrhyw gredoau crefyddol ac nid atebodd 7% (mae cwestiwn y Cyfrifiad ar grefydd yn wirfoddol).

Yn ôl cyfran mae gan y Castell (13%), Uplands a Glandŵr (8% ar gyfer y ddau) y cyfraddau poblogaeth uchaf a chrefydd nad yw'n Gristnogol.

- Y Gymraeg

Mae cyfran y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg yn Abertawe wedi lleihau o 13.4% (28,938) yn 2001 i 11.4% yn 2011 (26,332 o bobl); gostyngiad o 9.0% er gwaethaf cynnydd cyffredinol yn y boblogaeth.

Mae newidiadau mewn sgiliau Cymraeg rhwng Cyfrifiadau yn amrywio yn ôl oedran. Yn Abertawe, cynyddodd cyfran y plant 3-4 oed sy'n gallu siarad Cymraeg o 10.5% yn 2001 i 14.6% yn 2011, gyda chynnydd bach hefyd yn y grŵp oedran 5-15, i 26.0%.

Yn Abertawe (2011), ardal gymunedol Llŵchwr oedd â'r nifer a'r ganran uchaf o'i phoblogaeth (3+ oed) a oedd yn gallu siarad Cymraeg, sef 7,823 (18.4%), ac yna Cwm Tawe (6,957 / 12.6%). Yn 2011, Dinas a Phenderi oedd â'r cyfrannau isaf o bobl a oedd yn gallu siarad Cymraeg (dan 7.5%).

- Gweithgarwch economaidd

Mae data diweddar ar strwythur gweithlu Abertawe'n awgrymu bod gweithgarwch economaidd a chyfraddau cyflogaeth yn Abertawe'n gymharol agos at gyfartaledd Cymru ond

yn is na chyfraddau cyfwerth y DU. Fodd bynnag, mae'r nifer a'r gyfran fawr o fyfyrwyr sy'n byw yn Abertawe wedi cael peth effaith ar y ffigurau hyn.

Tabl P3: Strwythur gweithlu Abertawe, 2021

| <i>Ardal</i> | Yn weithgar yn economaidd (16 oed ac yn hŷn) | Cyfradd anweithgarwch economaidd (oed gweithio) | Cyflogaeth (16 oed ac yn hŷn) | Cyfradd gyflogaeth (oedran gweithio) |
|---------------------------|--|---|---|--|
| Abertawe: Cyfanswm | 125,100 | 76.5% | 117,100 | 71.5% |
| Dynion | 65,000 | 78.9% | 61,300 | 74.4% |
| Menywod | 60,100 | 74.0% | 55,800 | 68.6% |
| Cymru | 1,512,800 | 76.4% | 1,449,800 | 73.1% |
| Y Deyrnas Unedig | 33,582,500 | 78.2% | 32,099,400 | 74.7% |

Ffynhonnell:

Amcangyfrifon Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth (APS), y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2021, SYG.

Adlewyrchir sefyllfa Abertawe fel canolfan weinyddol, fasnachol a hamdden ranbarthol yn ne-orllewin Cymru yn y cyfrannau uwch o gyflogaeth yn y sectorau gwasanaeth, a chyfraddau cyflogaeth gweithgynhyrchu is cyfatebol.

Mae gan Abertawe gyfran gymharol uchel o breswylwyr oedran gweithio sydd â NVQ lefel 3 ac uwch, ond hefyd y rheini heb gymwysterau. Mae gan 39.4% o breswylwyr Abertawe (16-64 oed) gymwysterau NVQ lefel 4 (lefel gradd) ac uwch, yn uwch na ffigur Cymru (38.7%) ond yn is na'r DU (43.5%). Fodd bynnag, nid oes gan 7.7% o boblogaeth oedran gweithio Abertawe unrhyw gymwysterau (Cymru 8.2%; DU 6.7%) (APS, 2021).

Dangosir statws Abertawe fel canolfan is-ranbarthol hefyd gan y data diweddaraf ar batrymau cymudo, lle'r amcangyfrifir bod ffigur sylweddol sef 27,000 o bobl (mewn lif net +6,800) yn mewnlifo'n ddyddiol i Abertawe. Daw'r rhan fwyaf o'r cymudo mewnol o Gastell-nedd Port Talbot (11,500) a Sir Gâr (7,400) (APS, 2021).

Cyfrifiad 2021

Darperir proffil demograffig mwy diweddar o Abertawe a newid diweddar yn y boblogaeth drwy ganlyniadau Cyfrifiad cenedlaethol 2021. Disgwylir i'r rhain ddod i'r amlwg erbyn canol 2022, ynghyd â'r boblogaeth ganol blwyddyn flynyddol ddiweddaraf (2021) ac amcangyfrifon blynyddol diwygiedig yn ôl i 2012. Bydd y rhain yn darparu meincnod newydd ar gyfer poblogaeth Abertawe (fel yn 2021), darlun mwy diweddar o nodweddion poblogaeth ac aelwydydd, tueddiadau'r gorffennol a byddant yn ddiweddarach yn sail i amcanestyniadau cenedlaethol a lleol diwygiedig o boblogaeth ac aelwydydd yn y dyfodol. Mae'r data hefyd yn elfen allweddol o arolygon poblogaeth, gan gynnwys fel enwaduron ar gyfer yr arolwg blynyddol o'r boblogaeth ac arolygon cenedlaethol eraill.

O ganlyniad, mae'n bosib y bydd llawer o'r dadansoddiad a gynhwysir yma'n newid, a hynny'n sylweddol mewn rhai achosion, yn ystod 2022 a 2023.

Llesiant cymdeithasol

Cyflwyniad

Mae'n bosibl mai llesiant cymdeithasol yw'r dimensiwn mwyaf cymhleth ac amrywiol o bedwar dimensiwn llesiant, ac nid yw'n hawdd ei ddiffinio. Mewn ystyr syml, gall ymwneud yn fwyaf uniongyrchol â chymdeithas ac â bywydau pobl yn gyffredinol. Yn fwy penodol, mae ymchwil i lesiant cymdeithasol yn tueddu i ganolbwyntio ar iechyd meddwl a chorfforol pobl a'r modd y mae pobl yn gofalu am ei gilydd. Mae'n ystyried pa mor ddiogel, cysylltiedig a chyfforddus yr ydym yn teimlo yn ein cymunedau, ac i ba raddau y mae gennym annibyniaeth, cydraddoldeb a pharch. Y nodau cenedlaethol sy'n dylanwadu'n benodol ar ddimensiwn cymdeithasol llesiant yw:

- *Cymru iachach* – Cymdeithas lle yr hyrwyddir llesiant corfforol a meddyliol pobl, a lle y deellir dewisiadau ac ymddygiadau sy'n fuddiol i iechyd yn y dyfodol, a
- *Cymru o gymunedau cydlynus* – Cymunedau deniadol, hyfyw a diogel, sydd wedi'u cysylltu'n dda.

"Mae holl feysydd lles cymdeithasol yn gysylltiedig a gellir mynd i'r afael â nhw ar y cyd. H.y. os ydym yn ymddiried ym mhobl a chymunedau Abertawe, gall y mentrau y gellir eu datblygu effeithio'n gadarnhaol ar iechyd corfforol a meddyliol a chyfleoedd i heneiddio'n dda, i blant a phobl ifanc" – ymatebydd i'r arolwg.

Mae pandemig COVID-19 wedi rhoi pwysau sylweddol a digynsail ar ein gwasanaethau cyhoeddus, ein staff a'n dinasyddion. Ar ddechrau'r pandemig yn ystod mis Mawrth 2020, cafodd llawer o'n gwasanaethau cyhoeddus allweddol naill ai eu hatal, neu eu hailffocysu er mwyn ymateb i'r argyfwng uniongyrchol. Cafodd y rhai a barhaodd yn ystod y pandemig eu darparu mewn ffordd hollol wahanol ac yn unol â chanllawiau a negeseuon Llywodraeth Cymru i "aros adref a chadw pawb yn ddiogel". Wrth i ni symud trwy gamau a thonnau gwahanol y pandemig, mae gwasanaethau cyhoeddus wedi wynebu heriau gwahanol mewn perthynas ag ymateb i bwysau uniongyrchol y pandemig ac yn ystod y camau adfer gwahanol. Yn yr un modd, mae effeithiau pandemig COVID-19 wedi amrywio ledled ein cymunedau, ac mae pobl agored i niwed wedi wynebu, o bosibl, y risgiau a'r heriau mwyaf.

Mae'r gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi wynebu'r pwysau mwyaf mewn perthynas â phob cam o'r pandemig, ac maent yn parhau i'w hwynebu. Mae natur ddigynsail y pandemig wedi golygu bod modelau gweithredu blaenorol a "busnes fel arfer" wedi cael eu gohirio. Mewn perthynas â llunio'r asesiad hwn, mae'r pwysau o ymateb i'r pandemig wedi golygu nad yw rhai partneriaid wedi gallu cyfrannu at yr asesiad. At hynny, dim ond mewn ffordd gyfyngedig y mae llawer o bartneriaid wedi gallu cyfrannu o ganlyniad i gapasiti a'r angen i ymateb i bwysau sy'n fwy o faterion brys. Caiff effeithiau diffyg cyfranogiad a/neu gyfranogiad cyfyngedig yn yr asesiad hwn eu hadlewyrchu fwyaf yn y bennod Gymdeithasol, efallai, gan fod cwmpas y llinyn arbennig hwn yn gofyn am gyfraniad gan y rhai sydd wrth galon yr ymateb i'r argyfwng.

"Mae iechyd corfforol a meddyliol yn allweddol ar gyfer lles cyffredinol a chyfraniad cynyddol i gymdeithas"

"Dygwyd problemau iechyd meddwl i'n sylw yn ystod y pandemig, mae hyn yn dangos pa mor bwysig yw mynd i'r afael â'r mater hwn"

"Mae unigrwydd ac unigedd yn broblem enfawr o hyd ac yn cael effaith ar iechyd meddwl a heneiddio'n dda, er nid yw'n broblem i bobl hŷn yn unig" – ymatebydd i'r arolwg

Mae'r wybodaeth ganlynol yn y bennod ddrafft hon, felly, yn gyfyngedig o ran nifer o agweddau allweddol, sef, yn bennaf, iechyd corfforol a meddyliol, y blynyddoedd cynnar ac unigrwydd/yngysgrwydd, gan arwain at fylchau, anghysondebau a chyfyngiadau. Serch hynny, mae'r bennod hon yn cynnwys data, gwybodaeth a dadansoddiadau craff, sy'n helaeth ac o ansawdd da, mewn perthynas â llesiant cymdeithasol yn Abertawe.

Mae pennod Cymdeithasol yr asesiad yn cynnwys dadansoddiad o'r pynciau canlynol:

- Gofal Cymdeithasol: gan gynnwys Gofal Cymdeithasol i Oedolion; Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd; Gofalwyr a Gofalwyr Ifanc; y Gweithlu
- Y Blynyddoedd Cynnar
- Gwrando ar Blant a Phobl Ifanc
- Heneiddio'n Dda: Dinas Ystyriol o Oed; Gwrando ar Bobl Hŷn (50+ oed)
- Tlodi: Incwm islaw'r safonau gofynnol; Mynediad at wasanaethau, cyfleoedd ac adnoddau angenrheidiol
- Tai
- Trosedd a Diogelwch: Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol; Camddefnyddio Sylweddau; Peryglon Bywyd y Stryd; Economi'r Nos a Gyda'r Hwyr; Troseddau Casineb; Cydlyniant Cymunedol.

Oherwydd cyfyngiadau ar adnoddau ac amser, nid oeddem wedi gallu datblygu a mireinio cynnwys y bennod hon ymhellach rhwng y fersiwn ddrafft a'r asesiadau terfynol. Fodd bynnag, mae amrywiaeth o gynnwys a gwybodaeth mewn perthynas ag anghenion gofal a chefnogaeth leol wedi'u cynnwys yn yr Asesiad Anghenion Poblogaeth rhanbarthol a ddatblygwyd ar yr un pryd o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae dolen i'r asesiad hwn isod:

www.westglamorgan.org.uk/west-glamorgan-population-needs-assessment-2022-2027

Gofal Cymdeithasol

Mae mynediad da at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol modern yn galluogi pobl i fyw bywydau cyflawn gydag ymdeimlad o lesiant yn rhan o deuluoedd cefnogol a chymunedau cryf. Mae yna angen cynyddol am ofal a chymorth ym mhob grŵp poblogaeth. Mae blynyddoedd o gyni, ynghyd ag effaith barhaus COVID-19, y galw cynyddol am ofal a chymorth, y straen a roddir ar ofalwyr, a recriwtio/cadw gweithlu gofal cymdeithasol medrus, wedi gadael eu hól ar gyllid cyhoeddus. Mae'r holl ffactorau hyn yn awgrymu y bydd yna heriau sylfaenol sylweddol. Nodwedd amlycaf y dirwedd gofal a chymorth yn Abertawe a

Chymru yw cymhlethdod. Mae dadansoddiad o fewn y pwnc cyffredinol hwn yn cael ei rannu'n bedwar is-bwnc, sef: Gofal Cymdeithasol i Oedolion; Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd; Gofalwyr a Gofalwyr Ifanc; Gweithlu.

"Nid oes digon o adnoddau ar gael ym maes gofal cymdeithasol, mae angen i hyn fod yn brif flaenoriaeth i'r ardal" – ymatebydd i'r arolwg.

i. Gofal Cymdeithasol i Oedolion

Cryfderau ac Asedau

Mae dull gweithredu Abertawe yn ymwneud â chefnogi mwy o bobl i barhau'n ddiogel ac yn iach gartref, a hynny trwy iddynt fyw mewn cymunedau cefnogol. Mae ein hymagwedd at Ofal Cymdeithasol i Oedolion yn canolbwyntio ar atal, ymyriad cynnar a galluogi, gyda'r nod o ddarparu gwell cymorth i bobl, a hynny gan wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael a chyswrtu gweithlu medrus iawn sy'n cael ei werthfawrogi.

Ein nod yw helpu ein pobl fwyaf agored i niwed i gadw'n ddiogel, a'u hamddiffyn rhag niwed, gan roi cyfleoedd iddynt arfer eu llais, eu dewis a'u rheolaeth ym mhob agwedd ar eu bywydau. Mae COVID-19 wedi amlygu'r risgiau cynyddol i unigolion o gael gofal mewn lleoliadau gofal caeedig megis cartrefi gofal. Mae yna risg y bydd rhai rhannau o'r gymuned yn cael eu hynysu'n gymdeithasol, a gall hyn gael effaith sylweddol ar iechyd meddwl a llesiant unigolyn.

Mae Abertawe wedi ymgorffori gwasanaethau Trechu Tlodi yn y gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Llesiant i Oedolion a Phlant. Trwy Strategaeth Trechu Tlodi gynhwysfawr a ddiweddarwyd yn ddiweddar, nod Abertawe yw grymuso pobl leol trwy gyfranogiad a chymryd rhan, newid diwylliannau i adlewyrchu'r ffaith bod trechu tlodi yn fusnes i bawb, a thargedu adnoddau i fwyhau mynediad i gyfleoedd a ffyniant. Rydym wedi mabwysiadu egwyddorion penodol ar gyfer y gwaith hwn: targedu dull system gyfan o drechu tlodi; meithrin cydnheredd, a chynyddu cyfalaf cymdeithasol a rhwydweithiau cymdeithasol; cynnwys dinasyddion; a gweithredu'r 'hyn sy'n gweithio' a'r 'hyn sy'n bwysig' yn y ddarpariaeth yn y dyfodol.

Newidiadau dros amser

Yn gyffredinol, mae'r galw am Ofal Cymdeithasol i Oedolion yn Abertawe yn cynyddu, ond mae'r adnoddau sydd ar gael i ateb y galw wedi bod dan bwysau cyson. Mae'r prif resymau dros y galw cynyddol neu newidiol yn cynnwys:

- Nifer cynyddol o bobl wrth i fwy o bobl fyw'n hirach;
- Lefelau angen cynyddol yn achos pobl â chyflyrau cymhleth/cronig;
- Disgwyliadau cynyddol gan bobl y gellir diwallu eu hanghenion, yn enwedig gan y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol;
- Brys yr anghenion – mae pobl yn disgwyl amseroedd ymateb cyflymach;
- Mae gan ofalwyr eu hanghenion llesiant a'u bywydau eu hunain.

Mae ffigurau perfformiad sy'n cyferbynnu canlyniadau 2017-18 â rhai 2019-20 yn cadarnhau bod Cyngor Abertawe yn cefnogi mwy o bobl yn eu cartrefi eu hunain, a bod llai o bobl yn cael gofal mewn cartrefi gofal. Mae hyn yn awgrymu bod cyfeiriad y daith o ran symud tuag at fodel newydd ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion yn dechrau talu ar ei ganfed.

O blith y (tua) 200,000 o oedolion 18 oed a hŷn sy'n byw yn Abertawe, mae'r nifer a gafodd ofal a chymorth gan Wasanaethau Oedolion Cyngor Abertawe yn ystod y tair blynedd ddiwethaf fel a ganlyn:

- 2020-21 = 6,951
- 2019-20 = 6,463
- 2018-19 = 6,434

Mae gweithgarwch Gofal Cymdeithasol i Oedolion yn parhau'n gyson, ac mae'r ffigurau uchod yn dangos bod hyn wedi parhau i fod yn wir ar ddechrau'r pandemig, pan oedd lefelau uchel o alw am wybodaeth, cyngor a chymorth trwy ein drws ffrynt, y Pwynt Mynediad Cyffredin, ac am asesiad gwaith cymdeithasol a gwasanaethau gofal a chymorth, yn enwedig gofal cartref.

Cymharu â lleoedd eraill

Yn ddiweddar, cafodd System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS) ei chyflwyno yng Nghyngor Abertawe a Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, ac mae hon nid yn unig yn system weithredu, ond yn gyfle i wella ac ail-lunio ein diwylliant a'n harferion i ddiwallu anghenion y bobl yr ydym yn gweithio gyda nhw yn well.

Un o'r prif newidiadau yn ystod y broses weithredu fydd sicrhau bod atgyfeiriadau, asesiadau, cynlluniau gofal, adolygiadau a'r gwasanaethau a ddarperir yn cael eu cofnodi mewn modd cyson ar draws yr holl wasanaethau, ac y gellir adrodd am y cofnodion hynny o un system, sef WCCIS, sy'n cael ei chyflwyno ledled Cymru. Dylai hyn wella ansawdd yr wybodaeth gymharol sydd ar gael i bartneriaethau rhanbarthol a chomisiynwyr lleol.

Gwahaniaethau ledled Abertawe

Er nad yw ynysigrwydd cymdeithasol yn cael ei gyfyngu i bobl hŷn yn unig, mae gan Abertawe boblogaeth sy'n heneiddio ac sydd, o bosibl, yn wynebu risg fwy o fod yn ynysig a theimlo'n unig, yn enwedig mewn ardaloedd anghysbell o'r ddinas.

Mae dinasyddion Abertawe yn cael eu cefnogi'n well mewn cymunedau lle gallant fwynhau a chyfrannu at berthnasoedd diogel ac iach. Mae Abertawe yn herio ffyrdd hanesyddol o weithio trwy fodelau arferion newydd sy'n estyn ar draws y Ddinas a'r Sir.

Astudiaeth achos:

Dull gweithredu ein cymdogaeth yn Abertawe trwy Gydgysylltu Ardaloedd Lleol

Cafodd y model rhanbarthol, Dull Gweithredu Ein Cymdogaeth, ei ddatblygu'n llwyddiannus trwy ddefnyddio cyllid cysylltiedig i gefnogi mentrau cymunedol a chanolbwytio ar ofalu ac adolygu yn y gymuned.

Mae dull gweithredu Abertawe yn cael ei ddatblygu'n bennaf gan y gwasanaeth Cydgysylltu Ardaloedd Lleol. Er bod mwyafrif y swyddi Cydgysylltu Ardaloedd Lleol yn cael eu hariannu gan y Cyngor, cafwyd buddsoddiad sylweddol gan bartneriaid allanol, yn cynnwys cymdeithas dai Coastal Housing, cymdeithas dai Family Housing, grŵp tai Pobl, clystyrau meddygon teulu Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe, a Chronfa Trawsnewid Llywodraeth Cymru.

Mewn ymateb i'r pandemig, ehangwyd y gwasanaeth Cydgysylltu Ardaloedd Lleol ledled Abertawe gyfan, ac roedd gweithio gyda phartneriaid eraill wrth wraidd ymateb y Cyngor i liniaru effaith y cyfyngiadau symud ar ein trigolion a'n cymunedau. Bellach, mae yna 19 o Gydgyssylltwyr Ardaloedd Lleol yn eu swyddi ac yn gwasanaethu'r rhan helaethaf o Abertawe.

Datganiad o weledigaeth y broses Cydgysylltu Ardaloedd Lleol: 'Mae pawb yn byw mewn cymunedau croesawgar sy'n darparu cyfeillgarwch, cydrefnogaeth, cydraddoldeb a chyfleoedd i bawb'.

Cynhelir gwerthusiad o waith y broses Cydgysylltu Ardaloedd Lleol yn ystod 2021, gan adeiladu ar y gwerthusiad cychwynnol a gynhaliwyd yn 2016 i fynd ati mewn modd beirniadol i archwilio sail dystiolaeth nodweddion, gweithgareddau a chanlyniadau y broses o Gydgyssylltu Ardaloedd yn Abertawe, a mesur ei heffeithiolrwydd.

Mae'r tîm Cydgysylltu Ardaloedd Lleol hefyd wedi casglu ynghyd amrywiaeth o straeon sy'n myfyrio ar ganlyniadau a gyflawnwyd gydag unigolion ac sy'n ymwneud â gwaith gydag amrywiaeth o sefydliadau eraill.

Canfyddiadau a phersbectifau

Dylid rhoi llais i bob oedolyn a phlentyn, a dylai gael cyfle i arfer ei hawl i gael ei glywed yn ei rôl o fod yn unigolyn ac yn ddinesydd, i lunio'r penderfyniadau sy'n effeithio arno, i gael rheolaeth dros ei fywyd o ddydd i ddydd, ac i fod yn gadarn wrth galon ei daith llesiant ei hun.

Cydgynhyrchu canlyniadau gyda dinasyddion yw prif ffocws y dull gofal cymdeithasol i oedolion yn Abertawe, a hynny er mwyn canolbwyntio ar yr hyn sydd bwysicaf i bobl wrth iddynt chwilio am y gofal a'r cymorth y mae arnynt eu hangen i gyflawni'r canlyniadau a allai fod ganddynt hwy, eu teuluoedd neu eu gofalwyr mewn golwg.

'Cyfathrebu Cydweithredol' yw fframwaith ymarfer Abertawe i ganolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i bobl, gan weithio gyda'u hawliau o fod yn ddinasyddion, a'u cryfderau a'r canlyniadau y maent yn eu dymuno – llais, dewis a rheolaeth i bawb.

Nod strategaeth pobl hŷn Llywodraeth Cymru hyd at 2023 yw mynd i'r afael â'r rhwystrau a wynebir gan bobl hŷn yng Nghymru heddiw, a sicrhau bod llesiant o fewn cyrraedd pawb. Mae gan bobl hŷn yr hawl i allu cymryd cymaint o ran mewn cymdeithas ag y dymunant, gan gynnwys cyfrannu at fywyd cymunedol a theuluol, dylanwadu ar benderfyniadau, a sicrhau bod eu hanghenion llesiant yn cael eu cydnabod a'u diwallu.

Tueddiadau yn y Dyfodol a Rhagolygon ar gyfer Abertawe

Mae Grŵp Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg y Drefn Reoli Arian Gymunedol wedi goruchwyllo ymateb rhanbarthol, cydgysylltiedig i argyfwng COVID-19. Mae'r angen i wella prosesau diogel ar gyfer rhyddhau unigolion o'r ysbyty, ac i gefnogi pobl yn ddiogel yn eu cartrefi lle bo hynny'n bosibl, wedi cael ei ddwysáu ymhellach gan y pandemig. Mae'r gwaith ym Mhartneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg ar fin gwella ac ehangu ein ffordd o weithio tuag at drawsnewid. Er enghraifft, mae'r gwasanaeth o'r ysbyty i'r cartref wedi parhau i fod yn flaenoriaeth arbennig yn rhan o'r ymateb.

Mae adnoddau cyfyngedig yn gofyn am ffocws ar ddulliau gweithredu effeithlon ac effeithiol trwy ddulliau rhanbarthol o integreiddio ag iechyd a thrwy wella partneriaethau lleol.

O dan Gronfa Her yr Economi Sylfaenol, gwnaeth Cyngor Abertawe gais am gyllid i brofi dau ddull newydd o gynllunio a chaffael gwasanaethau ac o ddarparu gwasanaethau yn ardaloedd gwledig Abertawe er mwyn:

- Cefnogi pobl ag anghenion gofal a chymorth lefel isel i ddod at ei gilydd i gynllunio a chaffael eu gwasanaeth eu hunain, gan ddefnyddio taliadau uniongyrchol a dulliau cydweithredol;
- Gweithio mewn cymunedau, ochr yn ochr â Chydgysylltwyr ein Hardaloedd Lleol, i ddod o hyd i ddinasyddion sy'n barod i ehangu'r gweithlu gofal cymdeithasol, efallai trwy ddatblygu gwasanaethau gwirfoddoli, mentrau micro, mentrau cymdeithasol neu drefniadau cydweithredol i ddarparu gofal a chymorth lleol, hyblyg, lefel is.

Integreiddio

Mae cynlluniau trawsnewid a threfniadau comisiynu Gofal Cymdeithasol i Oedolion yn canolbwyntio'n bennaf ar weithio integredig gyda phartneriaid yn lleol a hefyd ledled y rhanbarth. Cafodd hyn ei gryfhau ymhellach yn ddiweddar. Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi darparu ffocws clir ar gapasiti'r gwasanaethau gofynnol hyn, ac ar y modd y gellir llunio gwasanaethau i ddiwallu anghenion ein cymunedau a blaenoriaethau gwasanaethau yn y dyfodol.

Bydd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn sbardun allweddol i newid mewn iechyd a gofal cymdeithasol ar lefelau rhanbarthol a lleol, gydag anghenion a blaenoriaethau'r boblogaeth yn cael eu hadlewyrchu mewn Cynllun Ardal Partneriaeth Rhanbarthol diwygiedig ar gyfer Gorllewin Morgannwg.

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg – pobl ag anghenion cymhleth

Un o brif nodau'r Rhaglen Comisiynu ar gyfer Anghenion Cymhleth yw mynd i'r afael â'r nifer cynyddol o bobl sydd ag anghenion cymhleth. Nod y rhaglen waith yw:

- ysgogi methodoleg 'ymarfer i gomisiynu' gynaliadwy ac effeithlon ledled y rhanbarth i gomisiynu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol o ansawdd uchel sy'n gymesur ag angen, yn gosteffeithiol, ac yn adeiladu ar gydgyhyrchu;
- galluogi i wybodaeth, deallusrwydd a'r broses gynllunio gael eu rhannu mewn maes gwasanaeth o ddiddordeb cyffredin;
- helpu partneriaid i symud arferion rheng flaen tuag at ofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Cyflawnir hyn trwy ffrydiau gwaith sy'n cynnwys:

- Aseiad sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau – hyrwyddo'r arfer a'r ymyriadau gorau posibl;
- Broceru Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu (i nodi lleoliadau yn y gymuned);
- Fframwaith Ansawdd Rhanbarthol ar gyfer cartrefi gofal i godi safonau a sefydlogi'r farchnad.

Gwella

Rydym yn llwyr gydnabod a pharchu amrywiaeth a Hawliau Dynol pob oedolyn yn ei rôl o fod yn ddinesydd. Rydym hefyd yn cydnabod bod angen i ni wella mynediad at wybodaeth am y gofal a'r cymorth sydd ar gael i bobl er mwyn i ni goleddu'r egwyddorion hyn yn llawn, ynghyd â sicrhau bod ein gwasanaethau'n fwy hygyrch. Rydym yn ceisio gwella ein cynnig o ran eiriolaeth. Mae cydgynhyrchu a hyrwyddo cyfranogiad y gymuned yn ganolog i'n gwaith. Mae angen i ni hefyd sicrhau mynediad amserol at wasanaethau iechyd meddwl, gan gynnwys diagnosis a chwmsela, yn ogystal â mathau eraill o gymorth; gwella iechyd meddwl a llesiant; atal ynysigrwydd cymdeithasol; a darparu cyfleoedd dydd a seibiant i ofalwyr di-dâl. Trwy ein rhaglen drawsnewid, rydym yn cynyddu'r ddarpariaeth a'r cynaliadwyedd o ran y cymorth yn y gymuned, ynghyd ag opsiynau trafndiaeth i wella mynediad ac i reoli ein hól troed carbon.

"Fel rhywun sydd wedi cefnogi anwylyn sydd â salwch meddwl sylweddol, mae gen i brofiad o sut y gall diffyg ymyrryd yn gynnwys ac atal mewn gwasanaethau iechyd meddwl waethygu'r gofid y mae'r unigolyn a'i deulu'n ei brofi" – ymatebydd i'r arolwg.

Ynglŷn â'r dystiolaeth

Yn fwy diweddar, mae data'n cael eu casglu yn unol â Fframwaith Perfformiad newydd y Gwasanaethau Cymdeithasol Cenedlaethol, ac nid yw data cymharol wedi cael eu cyhoeddi eto.

Dylai gweithredu System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS) wella ein potensial i adrodd, ynghyd â'n gwaith dadansoddi data a meincnodi i gefnogi penderfyniadau comisiynu lleol a rhanbarthol. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yng Nghynllun Awdal Rhaglen Iechyd a Gofal Cymdeithasol Bae'r Gorllewin/yn Aseiad Poblogaeth ar gyfer Anghenion Gofal a Chymorth 2018-23, ac mae gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd i ddiweddar hyn.

Casgliadau a negeseuon allweddol

Ein blaenoriaeth o hyd yw sicrhau bod cydgynhyrchu yn parhau'n ganolog i'r ffordd yr ydym yn cynllunio, yn dylunio, yn comisiynu ac yn darparu ein gwasanaethau. Mae COVID-19 wedi atgyfnerthu pwysigrwydd mabwysiadu agwedd gynhwysol at ofal cymdeithasol, er bod yn rhaid i ni weithiau ymateb yn gyflym i sefyllfaoedd brys wrth iddynt godi, a hynny gyda'r adnoddau sydd ar gael.

Mae gweithio mewn partneriaethau yn cyflawni'r hyn sy'n bwysig, gan adeiladu ar gryfderau a thrwy gefnogi dinasyddion i sicrhau diogelwch a chyflawni eu canlyniadau llesiant eu hunain.

Mae Cynllun Adfer Cyngor Abertawe, *Abertawe – Cyflawni'n Well Gyda'n Gilydd*, yn cynnwys rhaglen drawsnewid i weithredu'r model 'gorau posibl' ar gyfer gofal cymdeithasol i oedolion. Bydd hyn yn cael ei gyflawni trwy sefydlu ffyrdd newydd o weithio, a hynny i sicrhau ein bod yn darparu'r gwasanaeth cywir i'r bobl iawn ar yr amser iawn.

ii. Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd

Cryfderau ac Asedau

Rydym yn hyrwyddo cyfleoedd bywyd a chanlyniadau llesiant plant a phobl ifanc yn Abertawe, ac yn sicrhau ein bod yn gwneud cymaint â phosibl, yn enwedig yn y blynyddoedd cynnar, i wella eu bywydau ac i atal yr angen am wasanaethau statudol. Mae Gwasanaethau Plant a Theuluoedd Cyngor Abertawe yn gweithio mewn partneriaeth i ddiogelu ac amddiffyn y plant mwyaf agored i niwed.

Mae gan blant yr hawl i wybodaeth ddibynadwy o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Mae'n bwysig darparu cymaint o wybodaeth gyfredol am wasanaethau ac adnoddau ag y gallwn i oedolion, plant a phobl ifanc, a hynny cyn gynted â phosibl yn ein prosesau. Gall hyn helpu pobl i benderfynu beth i'w gyrchu a sut, a sicrhau gwell dealltwriaeth o'r modd y mae gwasanaethau wedi newid o ganlyniad i COVID-19.

Rhaid i ni sicrhau bod llais y plentyn yn cael ei adlewyrchu ym mhob gwaith datblygu gwasanaethau. Ein nod yw cyflawni lefelau uchel o gyfranogiad a chydgyngyrchu yn ein ffordd o ymdrin â gofal cymdeithasol, boed hynny wrth ymgynghori, trwy gynllunio gofal, trwy ymweliadau statudol sy'n rhan o adolygiadau, ac wrth recriwtio staff. Mae timau rheng flaen yn ymdrechu'n barhaus am ragoriaeth, gan ddatblygu dull systemau cyfan i ddiwallu'r continwmm angen ar gyfer plant y mae arnynt angen gofal a chymorth. Mae ein gwaith ymarfer yn defnyddio fframweithiau Arwyddion Diogelwch ac Arwyddion Llesiant, ynghyd ag amrywiaeth eang o offer arloesol megis mapio, datganiadau o berygl, cynlluniau diogelwch, gwaith straeon bywyd, ac adolygiadau sy'n cael eu harwain gan blant – gan arwain y ffordd ymhlith Cynghorau yng Nghymru.

Newidiadau dros amser

Ym mis Mawrth 2021 roedd yna 46,988 o blant a phobl ifanc (0-17 oed) yn byw yn Abertawe, o gymharu â 47,272 o blant ym mis Mawrth 2017. Yn ystod 2020-21, cysylltwyd â Gwasanaethau Cymdeithasol Plant a Theuluoedd statudol Cyngor Abertawe 9,309 o weithiau, o gymharu â 10,251 yn 2016-17.

Ym mis Mawrth 2021, roedd:

- 1,303 (1,728 ym mis Mawrth 2017) o blant a phobl ifanc yn cael gofal a chymorth gan y gwasanaethau statudol yn Abertawe, gan gynnwys:
- 253 (252 ym mis Mawrth 2017) o blant a phobl ifanc ar y gofrestr amddiffyn plant
- 550 (480 ym mis Mawrth 2017) o blant a phobl ifanc yn derbyn gofal; roedd 30 (40 ym mis Mawrth 2017) o'r plant hyn yn cael cymorth mewn lleoliad preswyl.

O ystyried y cyfyngiadau cymdeithasol, mae gallu 'gweld' plant yn rheolaidd, gwneud gwaith uniongyrchol o'r fath, darparu cymorth dwys i'r plant, y bobl ifanc a'r teuluoedd hynny sydd fwyaf agored i niwed, a hybu cyswllt rhwng plant â phrofiad o fod mewn gofal a'u teuluoedd, wedi bod yn her wirioneddol oddi ar fis Mawrth 2020.

Yn ystod y pandemig, aethpwyd i'r afael â hyn trwy wneud defnydd effeithiol o lwyfannau rhithwir, cynnal cyswllt wyneb yn wyneb gan ddefnyddio dull seiliedig ar risg, a sicrhau bod canllawiau clir ar waith ar gyfer ymweliadau hanfodol. Rhoddwyd statws Coch/Oren/Gwyrdd i bob achos statudol yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, a threfnwyd cyfarfodydd wythnosol â phartneriaid yn yr Heddlu ac ym meysydd addysg ac iechyd i fonitro cynnydd, ac i sicrhau bod plant yn cael eu gweld, bod yr ymweliadau/cysylltiadau rhithwir yn cael eu cwylynu, a bod y statws Coch/Oren/Gwyrdd yn cael ei adolygu.

Cymharu â lleoedd eraill

Ym mis Mawrth 2020, roedd 16,581 o blant yn cael gofal a chymorth yng Nghymru (yn ôl Cyfrifiad Plant sy'n Derbyngofal a Chymorth Cymru), sef cyfradd o 263 fesul 10,000 o blant 0-17 oed. Yn Abertawe, y gyfradd oedd 283 fesul 10,000 yn ystod yr un cyfnod, sy'n uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Yn ystod yr un cyfnod (Mawrth 2020), roedd 2,311 o blant yng Nghymru ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, sef cyfradd o 37 fesul 10,000 o blant. Yn Abertawe, roedd y gyfradd yn 54 fesul 10,000, sy'n uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Ym mis Mawrth 2020, roedd 7,172 o blant yn derbyn gofal yng Nghymru (cynnydd o 5% oddi ar y flwyddyn flaenorol), sef cyfradd o 114 fesul 10,000 o'r boblogaeth dan 18 oed. Cyfradd Abertawe oedd 117 fesul 10,000 o bobl dan 18 oed, a oedd hefyd yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru yn ystod yr un cyfnod.

Mae gan Gymru rai o'r lefelau uchaf o amddifadedd a thlodi plant yn y DU, ac mae hyn yn cael effaith amlwg ar lesiant a chanlyniadau plant a phobl ifanc. Mae gan Abertawe nifer fymryn yn llai o blant y mae arnynt angen gofal a chymorth nag yn y blynyddoedd diwethaf. Yn gyffredinol, mae'r grwpiau poblogaeth hyn wedi aros yn weddol gyson. Yng Nghymru, mae gan siroedd trefol, mwy poblog De Cymru gyfraddau tebyg o blant y mae arnynt angen gofal a chymorth yn eu gwasanaethau statudol.

Mae nifer y plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru wedi bod yn cynyddu'n gyson dros y blynyddoedd diwethaf. Mae Abertawe wedi bod yn gweithio'n galed i wrthdroi'r duedd. Y prif ffactorau o ran rhianta a nodwyd ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn Abertawe yw: cam-drin domestig, iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau. Mae'r holl asiantaethau sy'n gysylltiedig yn gwbl ymroddedig i ganolbwyntio ar y plentyn, ac yn teimlo'n angerddol ynghylch cadw teuluoedd gyda'i gilydd i fynd i'r afael â'r materion anodd hyn, ac i gyflawni'r canlyniadau gorau i'r plant.

Gwahaniaethau ledled Abertawe

Mae mwyafrif helaeth y plant sy'n derbyn gofal yn dod o Ddinas a Sir Abertawe, gydag 20 yn cael eu cefnogi o'r tu allan i Gymru (2021).

Mae proses o fapio cymorth llety mwy diogel ar waith yn y rhanbarth ar hyn o bryd, a hynny o dan y rhaglen Trawsnewid Gofal Cymhleth. Mae'r gwaith cynllunio hwn yn ystyried dulliau amlasiantaethol o lenwi bylchau ledled gwasanaethau, sy'n cynnwys gweithio gyda chydweithwyr ym maes lechyd ac Addysg i sicrhau bod y cymorth cywir ar gael i blant a phobl ifanc.

Canfyddiadau a phersbectifau

Mae prosiect "Bywyd Gorau" Strategaeth Rhianta Gorfforaethol Abertawe yn ymdrin ag ystod eang o ganlyniadau:

- Rheoli risg yn hyderus, a darparu cymorth ar gyrion gofal i sicrhau bod plant y mae angen iddynt gael gofal yn cael y gofal hwnnw ar yr adeg gywir;
- Darparu a chomisiynu cyfuniad hyblyg a fforddiadwy o leoliadau o ansawdd uchel i gefnogi pob plentyn i gael profiadau cadarnhaol mewn gofal, beth bynnag fo'i anghenion, ac i gael gofal mewn lleoliadau teuluol yn Abertawe cyhyd ag y bo hyn yn gyson â'i anghenion;
- Sicrhau bod pob plentyn sy'n derbyn gofal yn cael addysg dda, boed hynny mewn ysgolion prif ffrwd, mewn ysgolion arbennig neu drwy drefniadau amgen;
- Sicrhau y darperir ar gyfer anghenion iechyd plant sy'n derbyn gofal trwy asesiad a chynllun iechyd o ansawdd da;
- Sicrhau bod plant sy'n derbyn gofal yn cael mynediad at gyfleoedd o ran diwylliant a hamdden;
- Rhoi teithiau wedi'u cynllunio'n glir trwy'r system ofal i blant, sy'n eu galluogi i gael eu haduno â theulu a ffrindiau lle bo hynny'n bosibl, ac yn sicrhau eu bod yn cael lleoliadau sefydlog ac yn gadael y system ofal mewn modd cadarnhaol;
- Galluogi plant sy'n derbyn gofal i gymryd rhan lawn yn y broses gwneud penderfyniadau a'r broses cynllunio gwasanaethau.

Er mis Rhagfyr 2020, mae aelodau Bwrdd Rhianta Corfforaethol a Phlant a Phobl Ifanc â Phrofiad o fod mewn Gofal Cyngor Abertawe wedi nodi *meysydd allweddol y bywyd gorau*, y prif feysydd i'w datblygu ar gyfer pob maes, a phwy sydd am fod yn atebol am wella gwasanaethau o amgylch y themâu hynny.

Y cam nesaf fydd i is-grwpiau ddadansoddi'r "sut" ac adrodd yn ôl i'n poblogaeth sydd â phrofiad o fod mewn gofal am yr hyn yr ydym wedi'i wneud, y gwahaniaeth y dylent ei weld, a'r hyn nad ydym wedi gallu ei wneud.

Tueddiadau yn y Dyfodol a Rhagolygon ar gyfer Abertawe

Trwy dargedu ymyriadau ar gyfer 'yr hyn sydd bwysicaf' at y manau lle mae gan blant a theuluoedd unigol y mwyaf i'w ennill, a hynny trwy gymorth cynnar a rhaglenni atal, gall pob gweithiwr proffesiynol amlasiantaethol a sefydliad partner sicrhau'r effaith fwyaf.

Mae dull Arwyddion Diogelwch (SOS) Cyngor Abertawe o ymdrin ag asesu achosion amddiffyn plant, diogelu, a chynllunio gofal, yn blaenoriaethu risg yn glir er mwyn helpu plant a theuluoedd i gyflawni'r canlyniadau gorau.

Mae'r fframwaith Arwyddion Llesiant yn cyflwyno'r potensial ar gyfer mwy o hyblygrwydd a chanlyniadau ehangach, lle nad yw anghenion aseddig plant a theuluoedd yn cynnwys elfennau diogelu.

Nod y Strategaeth ar gyfer Lleihau Nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal mewn modd Diogel yw sicrhau bod angen i lai o blant dderbyn gofal, bod y plant hynny mewn gofal statudol dim ond cyhyd ag y bydd angen iddynt aros yn ddiogel, a'u bod yn cael cymorth i sicrhau sefydlogrwydd trwy ein hymyriadau a thrwy wasanaeth rhianta corfforaethol effeithiol.

Integreiddio

Lansiwyd ein Hybiau Cymorth Cynnar yn ddull gweithredu newydd yn Abertawe yn ystod mis Ebrill 2020. Nod y fformat cychwynnol hwn yw cryfhau'r gallu i fynd i'r afael â'r galw wrth ddrws ffrynt y gwasanaethau cymdeithasol (Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth Integredig) gan fod cysylltiadau'n cael eu hailgyfeirio i Hybiau Cymorth Cynnar. Mae yna bum canolfan amlasiantaethol wedi'u cydleoli sy'n gwneud defnydd o'r fframwaith Arwyddion Llesiant. Mae'r cynnig newydd yn cynnwys sgysiau am 'yr hyn sy'n bwysig' wrth y drws ffrynt, ac mae hefyd yn cynnwys: Hyb Diogelu Integredig, mynediad at Wasanaethau Troseddau Ieuenctid sy'n helpu i wella ymddygiadau ac atal chwalfa yn y teulu, a'r defnydd o baneli amlasiantaethol i gefnogi ymagwedd ataliol at risgiau cyd-destunol. Mae yna hefyd gysylltiadau partneriaeth i gefnogi gweithio cydgysylltiedig a gwell trefniadau cam-i-lawr. Bydd y gwasanaethau hefyd yn treialu'r defnydd o ymatebion 'auto-bot' electronig, ynghyd â datblygiad yr ymatebion hynny, i gefnogi ymholiadau ynghylch cam-drin domestig.

Gwella

Gall dod i gysylltiad â thrais domestig neu riant sy'n camddefnyddio sylweddau, neu fod yn ddiodefwr trais domestig neu'n blentyn sy'n cael ei gam-drin yn rhywiol, gael effaith ddifrifol ar ddatblygiad emosiynol plentyn a'i gyfleoedd bywyd yn y dyfodol. Rydym yn gweithio i atal y Profiadau Niweidiol hyn yn ystod Plentynod (ACE) rhag digwydd, i hybu iechyd meddwl a llesiant plant, i sicrhau nad yw plant yn dod i gysylltiad ag ymddygiadau niweidiol na pheryglus, ac eto i gadw plant gyda'u teuluoedd, lle bo hyn er eu budd pennaf. Mae cam-drin domestig hefyd yn her allweddol i lesiant oherwydd goblygiadau i ddiogelwch personol, datblygiad plant a chydlyniant cymunedol, ynghyd â goblygiadau o ran y galw ar adnoddau'r Heddlu a'r gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Bydd sicrhau bod plant a theuluoedd yn cael y cymorth iawn ar yr adeg iawn yn cyflawni'r canlyniadau gorau posibl, gan gynnwys yn achos iechyd, cyrhaeddiad addysgol a llesiant emosiynol. Mae cyd-ddealltwriaeth o'r trothwyon diogelwch ar gyfer plant a phobl ifanc yn hanfodol i gynnal gwaith amlasiantaethol effeithiol ac i sicrhau cyfnod pontio didrafferth o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion, a hynny trwy ganolbwyntio ar hawliau'r plentyn a'r hyn y mae gwell bywyd yn ei olygu.

Ynglŷn â'r dystiolaeth

Adroddir ar ddata yn wythnosol i Lywodraeth Cymru yn ystod y pandemig, a hynny trwy'r cyfrifiad Plant mewn Angen. Mae hyn yn darparu system rhybudd cynnar, gyda rhestr o fesurau gweithgarwch dangosyddion perfformiad allweddol ac adroddiadau sicrhau ansawdd i nodi tueddiadau a phroblemau posibl yn y gwasanaethau plant a theuluoedd. Mae

gwybodaeth bellach ar gael yng Nghynllun Ardal Rhaglen Iechyd a Gofal Cymdeithasol Bae'r Gorllewin a'r Aseiad Anghenion Poblogaeth ar gyfer anghenion gofal a chefnogaeth, fel y nodir yng nghyflwyniad y bennod.

Casgliadau a negeseuon allweddol

Mae cydweithio i gefnogi ac amddiffyn ein plant mwyaf agored i niwed yn un o'r prif bynciau ym maes llesiant cymdeithasol. Er bod cydweithio yn hynod o heriol, trwy wneud hynny gallwn ganolbwyntio ein hymdrechion ar atal ac ymyriad cynnar, ac ar fynd i'r afael â phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Mae'n rhaid i ni helpu plant a theuluoedd trwy'r amser anoddaf, gan gadw plant yn ddiogel a'u hamddiffyn trwy weithlu medrus, proffesiynol. Ni ddylem fyth gollu golwg ar yr hyn sydd bwysicaf, a dylem estyn allan at y canlyniadau gorau posibl i blant a phobl ifanc.

iii. Gofalwyr a Gofalwyr Ifanc

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn diffinio gofalwr fel rhywun sy'n darparu gofal di-dâl i oedolyn neu blentyn anabl. Gall yr unigolyn y gofelir amdano fod yn aelod o'r teulu neu'n ffrind na all ymdopi heb gymorth y gofalwr, a hynny oherwydd salwch, anabledd, problem iechyd meddwl neu ddibyniaeth. Gallai gofalwr fod yn ŵr sy'n gofalu am ei wraig, yn rhiant sy'n gofalu am ei blentyn ag anghenion gofal a chymorth, neu'n blentyn (gofalwr ifanc) sy'n gofalu am ei riant.

Arweiniodd y pandemig at well gweledd, ymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad gan y cyhoedd o'r ymrwymiad a amlygir gan y bobl hynny sy'n darparu gofal cymdeithasol. Rhaid estyn cydnabyddiaeth hefyd i ofalwyr di-dâl – heb eu cymorth hwy, byddai'r pwysau ar ein gwasanaethau a'n cymunedau yn ormod i'w ysgwyddo. Nid yw 72% o'r gofalwyr yng Nghymru wedi cael unrhyw seibiant o'u rôl ofalu yn ystod y pandemig. O blith y rhai a gafodd seibiant, bu i bron traean (30%) ddefnyddio'r amser i gwblhau tasgau ymarferol neu waith tŷ, a bu i chwarter (25%) ei ddefnyddio i dreulio amser gyda ffrindiau a theulu.

Cryfderau ac Asedau

Mae gan Abertawe hanes hir o gynnal digwyddiadau, hyfforddiant a gweithgareddau i wrando ar farn gofalwyr, i glywed beth yw eu hanghenion, ac i ailddatgan eu hawliau. Mae'r digwyddiadau'n cynnwys diwrnod Hawliau Gofalwyr Abertawe ac wythnos Ymwybyddiaeth o Ofalwyr. Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynnal trafodaethau parhaus a rheolaidd â gofalwyr, ac maent bob amser yn gweithio mewn modd cydgynhyrchiol gyda gofalwyr ar sail anghenion unigol a/neu ar sail strategol gyfunol, a hynny fel bod cyfraniad hanfodol y gofalwyr yn cael ei gydnabod, a bod eu llais yn cael ei glywed. Er bod gwaith ar drefniadau i gefnogi gofalwyr yn cael ei wneud yn rhanbarthol bellach, dylai gofalwyr allu cael gafael ar gymorth yn haws ac yn uniongyrchol gan unrhyw un o'r sefydliadau partner. Mae Gofalwyr yn Abertawe bob amser wedi gallu cael mynediad uniongyrchol at wasanaethau'r sector, er enghraifft Canolfan Gofalwyr Abertawe, heb yr angen am aseiad gofalwyr. Mae Canolfan Gofalwyr Abertawe'n sefydliad gwirfoddol arbenigol sy'n darparu cefnogaeth i ofalwyr a chyn-ofalwyr ar draws Abertawe, gan gynnwys pobl sy'n gofalu am y rheini sydd â salwch neu

anabledd gan gynnwys anabledd dysgu, problemau iechyd meddwl, anabledd corfforol, dementia ac afiechydon cyfyngol hirdymor eraill.

Abertawe – cymorth i Ofalwyr sy'n Oedolion

Mae Gwasanaethau Oedolion Cyngor Abertawe yn darparu amrywiaeth o wasanaethau mewnol ac allanol i ofalwyr yn Abertawe. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys cymorth a ddarperir yn uniongyrchol i bobl y gofelir amdanynt, a hynny i helpu gofalwyr yn anuniongyrchol, neu wasanaethau a gyrchir trwy asesiad gofalwyr, gan leihau'r baich y mae pobl â chyfrifoldebau gofalu yn ei ysgwyddo yn sylweddol.

Mae'r gwasanaethau'n cynnwys:

- Gwasanaethau technoleg gynorthwyol;
- Gwasanaethau gofal cartref i helpu i ddarparu gofal i bobl yn eu cartrefi eu hunain;
- Gwasanaethau seibiant gofal cartref (gwasanaethau eistedd gartref) i alluogi gofalwyr i gymryd seibiant yn ôl yr angen;
- Gwasanaethau seibiant preswyl mewn cartrefi gofal a gomisiynir yn fewnol ac yn allanol ac sy'n cynnig gofal preswyl dros dro i'r rhai y gofelir amdanynt er mwyn galluogi gofalwyr i gymryd seibiant;
- Canolfannau Dydd a chyfleoedd dydd eraill i'r rhai y gofelir amdanynt er mwyn lleddfu'r pwysau ar ofalwyr;
- Gwasanaethau atgyweirio ac addasu a all gynnig newidiadau a gwelliannau i gartref y sawl y gofelir amdano, neu i gartref y gofalwr, i'w wneud yn fwy addas;
- Cwnsela a gwasanaethau therapiwtig eraill sy'n anelu at leddfu straen a gwella llesiant;
- Gwasanaethau cyngor ariannol, sy'n cynnwys cyngor ar fudd-daliadau lles i sicrhau bod gofalwyr yn cael eu hawliau llawn ac yn gallu gwneud y defnydd gorau o adnoddau posibl.

Gwasanaeth Gofalwyr Ifanc YMCA Abertawe

Mae gofalwr ifanc yn aml yn ysgwyddo cyfrifoldebau gofalu ymarferol a/neu emosiynol y disgwylir fel arfer iddynt gael eu hysgwyddo gan oedolyn. Mae Abertawe wedi comisiynu gwasanaethau newydd sy'n darparu cymorth a gwybodaeth i ofalwyr ifanc 8-18 oed yn Abertawe.

Er bod Prosiect Gofalwyr Ifanc YMCA Abertawe wedi gorfod atal yr holl ddarpariaeth wyneb yn wyneb yn ystod y pandemig, mae'r gwasanaethau wedi addasu trwy ddarparu gwasanaeth newydd, o bell. Mae'r gwasanaeth newydd yn cynnwys:

- Sesiynau un i un a grŵp trwy fideo, gyda thrafodaethau grŵp yn seiliedig ar bynciau, a rhai o'r rheiny'n cael eu harwain gan ofalwyr ifanc;
- Sesiynau grŵp trwy fideo a gynhelir gan sefydliadau eraill (e.e. sesiwn Plan UK ar Hawliau Merched, Grŵp Cyngori ALPHA) sy'n darparu gwasanaethau digidol o bell trwy lwyfannau YMCA Abertawe;
- Gwasanaethau'r YMCA – gall yr holl wasanaethau ieuencid a chymorth gael eu darparu o bell, a gall Gofalwyr Ifanc a theuluoedd gyrchu'r hyfforddiant, y sesiynau cerddoriaeth, y sesiynau ar ysgrifennu CV, a'r gwasanaethau cyngor a chymorth ar-lein;
- Mae Cydgysylltydd Prosiectau Gofalwyr Ifanc yn hwyluso grŵp llywio i wella ymgysylltiad â gwaith y strategaeth leol/ranbarthol, a hefyd i ddarparu cymorth, gweithdai, cwisiau, sesiynau pobi byw a sesiynau un i un rhithwir;

- Cynllun Cerdyn Adnabod Gofalwyr Ifanc – mae Abertawe wedi mabwysiadu'r cynllun cenedlaethol yn gynnar;
- Clwstwr Cwmtawe – sicrhau bod gan bractisau meddygon teulu yr wybodaeth ddiweddaraf am ofalwyr ifanc a'r gwasanaethau sydd ar gael, a hyfforddi staff practisau meddygon teulu;
- Cymhwyster Agored – lefel mynediad i Lefel 2 deall anghenion gofalwyr ifanc a Hawliau Gofalwyr Ifanc – trwy weithio'n gydgyhyrchiol a hyrwyddo dinasyddiaeth weithredol

Mae'r gwasanaeth yn arwain y gwaith o gydgyhyrchu strategaeth a chynllun gweithredu ar gyfer Gofalwyr Ifanc lleol. Bydd hyn yn asesu'r modd y gall gofalwyr ifanc gael mynediad at y cymorth y mae arnynt ei angen a'r modd y gellid gwneud gwelliannau, e.e. asesiad o bell. Ar hyn o bryd, mae hefyd yn cynnig sesiynau Ymwybyddiaeth o Ofalwyr Ifanc, trwy sgysiau Zoom, i weithwyr proffesiynol sydd â diddordeb.

Newidiadau dros amser

Mae nifer y gofalwyr a aseswyd yn parhau i fod yn weddol isel yn Abertawe. Cydnabyddir y gellid gwella'r dull o fynd ati i gynnig asesiad gofalwyr, a hynny trwy ddefnyddio sgwrs am 'yr hyn sy'n bwysig' i gynyddu'r nifer sy'n manteisio ar asesiadau gofalwyr, ac i gefnogi gofalwyr ar eu taith llesiant eu hunain. Mae'r cynnig estynedig hwn i ofalwyr bellach wedi'i wreiddio mewn fframweithiau ymarfer amlasiantaethol, er enghraifft Arwyddion Diogelwch a 'Cyfathrebu Cydweithredol', ac yn y gwaith o ddatblygu system rheoli gwybodaeth/offer cofnodi gwybodaeth newydd ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, sef WCCIS (System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru). Mae sesiynau hyfforddi a meithrin ymwybyddiaeth yn cael eu cynnal gan amrywiaeth o weithwyr proffesiynol.

Tabl S1: Asesiadau gofalwyr yn Abertawe, 2018-21

| Data Abertawe | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 |
|--|----------------|----------------|----------------|
| Nifer yr asesiadau a gynhaliwyd ar gyfer oedolion | 12,400 | 10,912 | 5,444 |
| Cyfanswm nifer yr asesiadau gofalwyr ar gyfer oedolion | 689 | 588 | 209 |
| Nifer yr asesiadau newydd a gynhaliwyd ar gyfer plant | 2,171 | 2,301 | 4,054 |
| Cyfanswm yr asesiadau gofalwyr i ofalwyr ifanc | 6 | 2 | Amh. |

Cymharu â lleoedd eraill

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn amcangyfrif bod 12% o boblogaeth Cymru yn ofalwyr di-dâl, ac y gallai'r ffigur hwn gynyddu i 16% erbyn 2037. Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys unrhyw un sy'n gofalu am gyn lleied ag awr yr wythnos, ac ni fydd angen unrhyw gymorth ychwanegol ar fwyafrif y bobl sy'n treulio amser cyfyngedig iawn yn unig yn gofalu. Fodd bynnag, mae gan

Gymru hefyd y gyfran uchaf o ofalwyr hŷn a gofalwyr sy'n darparu dros 50 awr o ofal yr wythnos.

Ers dechrau'r pandemig, mae nifer y gofalwyr yng Nghymru wedi cynyddu – cyhoeddodd Arolwg Cenedlaethol Cymru adroddiad misol ym mis Mehefin 2020, a ddangosai fod 35% o bobl yn gofalu am aelodau o'r teulu, ffrindiau, cymdogion neu unigolion eraill, neu'n rhoi help neu gymorth iddynt. Mae hyn wedi cynyddu o 29% yn arolwg blwyddyn lawn 2019-20.

Yn 2019-20, roedd yr Arolwg Cenedlaethol hefyd yn gofyn i bobl a oeddent yn gofalu am deulu, ffrindiau, cymdogion neu unigolion eraill, neu'n rhoi help neu gymorth iddynt, oherwydd salwch corfforol neu feddyliol hirdymor, anabledd neu broblemau cysylltiedig ag oedran. Mae'r adroddiad hwn yn cyfeirio at bobl a roddodd help neu gymorth di-dâl o'r fath yn rôl 'gofalwr':

Mae'r ffactorau canlynol yn gysylltiedig yn annibynnol â phobl sy'n gofalu am eraill (am fwy na phum awr yr wythnos):

- bod yn 45 oed neu'n hŷn;
- bod yn fenyw;
- byw mewn tai cymdeithasol yn hytrach na bod yn berchen-feddiannydd;
- byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru;
- teimlo lefelau isel o foddhad â bywyd;
- bod â salwch hirdymor sy'n cyfyngu ar yr unigolyn;
- bod yn ddi-waith neu'n economaidd anweithgar.

Rhwng mis Mehefin a mis Medi 2020, dywedodd cyfran debyg o bobl eu bod yn ofalwyr (31%), gyda 95% o'r rhain yn dweud y byddent yn parhau i ddarparu help am o leiaf chwe mis neu am gyhyd ag y byddai ei angen. Dywedodd briff gan Ymddiriedolaeth y Gofalwyr: Gofalwyr Ifanc a COVID-19 (Ebrill 2020), fod yr Ymddiriedolaeth o'r farn y gallai'r pwysau a grëir gan ynysigrwydd a heriau eu rôl ofalu fod yn cynyddu'r risg i iechyd meddwl, llesiant a diogelwch gofalwyr ifanc.

Canfyddiadau a phersbectifau

Yn ddiweddar, a gyda chymorth lleol gan y Pwyllgor Datblygu Polisi Pobl, mae Bwrdd Rhanbarthol Partneriaeth y Gofalwyr wedi datblygu'r Strategaeth Gofalwyr Ranbarthol gyntaf, y mae iddi weledigaeth, cenhadaeth, gwerthoedd a thargedau clir o ran y modd i gefnogi gofalwyr di-dâl yng Ngorllewin Morgannwg yn ystod y pum mlynedd nesaf. Er bod cydgynhyrchu'r strategaeth hon wedi bod yn broses anodd oherwydd y pandemig presennol, mae Fforwm Cyswllt Gofalwyr newydd wedi cael ei sefydlu yng Ngorllewin Morgannwg, ac un o'i heriau cyntaf fydd gweithio gyda Gofalwyr Ifanc i wrando ar eu lleisiau a manteisio ar eu mewnwelediad.

Cytunwyd ar ddull cydweithredol o ddatblygu strategaeth, sy'n llywio camau gweithredu lleol ac yn gosod targedau ar gyfer gwella'r cymorth a gynigir i ofalwyr, a hynny yn unol â'r pedwar maes canlynol:

1. Hyrwyddo cydnabyddiaeth gynnar o Ofalwyr a Gofalwyr Ifanc fel eu bod yn cael eu cyfeirio at wybodaeth a chymorth mewn modd amserol.

2. Darparu gwybodaeth, cyngor, cymorth a chefnogaeth i Ofalwyr a Gofalwyr Ifanc, gan eu galluogi i wneud dewisiadau gwybodus a chynnal eu hiechyd a'u llesiant eu hunain.
3. Gweithio'n gydgyhyrchiol gyda Gofalwyr ar sail unigol a strategol.
4. Gwella'r broses o weithio mewn partneriaeth rhwng cyllidwyr a darparwyr gwasanaethau i gefnogi gofalwyr, gan alluogi gofalwyr i symud yn hawdd rhwng sefydliadau partner a chyrchu gwasanaethau trydydd sector cynaliadwy.

Casgliadau a negeseuon allweddol

Dywed Gofalwyr Cymru fod yna dros 370,000 o ofalwyr di-dâl yng Nghymru. Mae'r gofal y maent yn ei roi yn werth £8.1 biliwn bob blwyddyn (*Strategaeth ar gyfer gofalwyr di-dâl*, Llywodraeth Cymru). Mae hwn yn swm enfawr o werth sy'n cael ei greu gan ofalwyr a gofalwyr ifanc, ac yn gyfraniad enfawr at system iechyd a gofal cymdeithasol gynaliadwy. Rhaid cydnabod gwerth gofalwyr di-dâl, a faint y maent yn ei wneud ar gyfer ein cymunedau.

iv. Y Gweithlu

Mae COVID-19 wedi bod yn heriol iawn i'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol, sydd wedi ymateb gydag ymdeimlad cryf o sgiliau ac ymdrech broffesiynol ar y cyd. Mae sefydliadau ledled Abertawe wedi defnyddio llawer iawn o egni ac ymrwymiad i gyflawni pob her, a hynny trwy ymateb, addasu, arloesi a dysgu'n gyflym. Mae Abertawe wedi gweld iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu darparu mewn ffyrdd newydd, cyffrous, sy'n aml yn gweithio ar draws ffiniau proffesiynol a daearyddol traddodiadol.

Mae yna bryderon cynyddol fod y cynnydd sylweddol yn y galw ledled y sector yn creu pwysau digynsail ar y gweithlu gofal cymdeithasol. Mae ffocws cryf ar iechyd a llesiant y gweithlu wedi bod yn flaenoriaeth glir iawn yn ystod y pandemig. Mae'r egwyddor o arweinwyr tosturiol, sy'n ymgysylltu'n llawn ac yn cefnogi'r staff i fod y gorau y gallant fod, yn bwysig iawn i lesiant cymdeithasol, i adferiad diogel cymunedau, ac i ddatblygu dulliau newydd i ddenu cenedlaethau'r dyfodol i gefnogi'r gwelliant hwn.

Cryfderau ac Asedau

Mae gweithlu gofal cymdeithasol Abertawe wedi bod yn un sefydlog, llawn cymhelliant yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gyda fawr ddim swyddi gwag ar gyfer gweithwyr cymdeithasol, yn arbennig mewn sefydliadau mawr tebyg i Gyngor Abertawe. Wrth i ni agosáu at ddiwedd y pandemig a symud i'r cyfnod adfer, mae cadernid y gweithlu yn risg sylweddol. Mae'r staff wedi bod yn gweithredu o dan bwysau aruthrol, heb fawr ddim cyfle i orffwys ac adfer; felly mae'n hanfodol bwysig sicrhau bod y staff yn cael gwrandawriad, a bod ganddynt yr hyblygrwydd a'r cymorth y mae arnynt eu hangen.

Nid yw pob aelod o staff wedi cael yr un profiad o COVID-19 yn y rheng flaen, yn y swyddfa gefn neu yn rôl rhieni a gofalwyr yn eu bywydau personol. Bydd angen dull cynnil o gynllunio adferiad i fynd i'r afael â'r amrywiaeth o brofiadau a'r gofynion gwahanol ar gyfer meysydd gwasanaeth gwahanol. Bydd rhai staff yn chwilio am heriau newydd neu am newid eu taith eu hunain, a bydd hyn yn gofyn am ffyrdd newydd o greu cyfleoedd.

Newidiadau dros amser

Mae galw cynyddol dros amser yn rhoi pwysau ychwanegol ar staff gofal cymdeithasol, a hynny trwy lwythi achosion mwy, trwy iddynt weithio mewn ffyrdd newydd, a thrwy iddynt weithio gyda mwy o bobl ag anghenion cynyddol gymhleth. Os bydd nifer y gweithwyr cymdeithasol sydd ar gael yn disgyn islaw safonau diogel, mae yna risg na fydd y Cyngor yn bodloni dyletswyddau statudol, y bydd yna oedi wrth gynnal asesiadau a chynllunio ac adolygu gofal a chymorth, ac y bydd rhestrau aros yn cynyddu. Yn ei dro, mae hyn yn effeithio ar y system gyfan ac ar ganlyniadau llesiant ar gyfer dinasyddion a'u gofalwyr, gan arwain at oedi wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty neu gynyddu amseroedd aros am wasanaethau. Ystyrir yn genedlaethol fod recriwtio a chadw'r gweithlu ym maes gofal cymdeithasol yn fater o argyfwng. Bydd angen dod o hyd i atebion ar lefel genedlaethol, yn ogystal ag ar lefelau rhanbarthol a lleol.

Cymharu â lleoedd eraill

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn casglu data am y gweithlu (gwasanaethau a reoleiddir) yn flynyddol. Mae'r gwasanaethau a reoleiddir yn cwmpasu meysydd megis gofal preswyl a gofal cartref, gwasanaethau dydd a gwasanaethau gofal a chymorth uniongyrchol neu gymysg eraill. Adroddir ar nifer o fesurau'r gweithlu yn rhanbarthol, ac mae'r mesurau hyn yn dangos bod miloedd lawer o bobl yn cael eu cyflogi yn y sector hwn.

Mae'r adroddiad diweddaraf (2019) yn dangos amrywiad yn nifer y Cynghorau yng Nghymru sy'n parhau i ddarparu gwasanaethau'n uniongyrchol, ac mae Abertawe yn un o'r rhai sydd ag economi gofal cymdeithasol gymysg. Abertawe oedd â'r ganran uchaf o swyddi gwag yr adroddwyd amdanynt (26% o'r holl swyddi) ar gyfer gwasanaethau a reoleiddir yng Nghymru, ac mae hyn wedi effeithio ar argaeledd gwasanaethau ym maes gofal preswyl a gofal cartref. Mae gan Abertawe gyfran uchel o staff rhan-amser yng Nghymru yn y gwasanaethau gofal cymdeithasol a reoleiddir (dim ond 6% sy'n llawn-amser). Cyngor Abertawe sydd â'r drydedd gyfradd uchaf o ran nifer y staff sy'n gadael, ond llwyddodd i nacáu hyn trwy recriwtio nifer tebyg. Dim ond 60% o reolwyr gwasanaethau a reoleiddir yn Abertawe oedd â'r cymwysterau gofynnol/argymelledig (94% ledled Cymru).

Tueddiadau yn y Dyfodol a Rhagolygon ar gyfer Abertawe

Mae Gwasanaethau Plant a Theuluoedd Abertawe wedi datblygu Strategaeth Llesiant ac Ymgysylltu â Staff 2020-2023 sy'n anelu at sicrhau bod gan bob gweithiwr yr adnoddau a'r offer cywir, ynghyd â'r gynhaliaeth orau ar gyfer llesiant, a'i fod, yn ei dro, yn cyflawni'r canlyniadau gorau ar gyfer y plant a'r teuluoedd y mae'n gweithio gyda nhw. Mae'r meysydd ffocws allweddol yn cynnwys: Llesiant Iechyd (lleihau straen, hybu iechyd corfforol, salwch ac adnoddau), Llesiant Perthynol (meithrin ymddiriedaeth ymhlith cyd-weithwyr/gweithwyr proffesiynol eraill, atal ynysigrwydd, ymgysylltu i deimlo'n rhan o'r gwasanaeth, rhyngweithio cymdeithasol a meddu ar lais), a Hapusrwydd y Gweithiwr (gwella'r modd y mae staff yn teimlo yn y gwaith a'r tu allan i'r gwaith, cydbwysu bywyd a gwaith, sefydlogrwydd rolau, hunan-barch a chydabyddiaeth ystyrlon).

Y Blynyddoedd Cynnar

Yn 2017 nododd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe fod y Blynyddoedd Cynnar yn flaenoriaeth yn eu Cynlluniau Lles unigol, a'r amcan allweddol cyntaf oedd 'Rhoi'r Dechrau Gorau mewn Bywyd i Bob Plentyn'. Fel rhan o'n taith barhaus i wella canlyniadau plant o'r oed cynharaf, rydym wedi gweithio i archwilio'r ddarpariaeth blynyddoedd cynnar ar draws Abertawe. Yn 2019 gwahoddwyd Abertawe, ynghyd â Chyngor Castell-nedd Port Talbot a Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe gan Lywodraeth Cymru, i fabwysiadu ymagwedd ranbarthol ledled Bae Abertawe wrth lunio, treialu a phrofi'r system Blynyddoedd Cynnar, a chofrestru i fod yn rhan o Raglen Drawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar, a elwir hefyd yn Braenaru. Estynnwyd y gwahoddiad gwreiddiol hwn hefyd i 6 ardal BGC arall ledled Cymru. Daeth y gwaith hwn o ganlyniad uniongyrchol i flaenoriaethu'r blynyddoedd cynnar yn ein Hasesiad Lles yn 2017, ac mae eisoes wedi dangos enghreifftiau gwych o sut y gall gweithio tuag at y pum egwyddor a nodir yn y Ddeddf helpu i lunio ein gwaith i gefnogi ein dinasyddion yn well.

Mae gwasanaethau ar draws yr awdurdod lleol wedi ymateb yn gadarnhaol i'r her o gefnogi pob plentyn, a thrwy barhau i gyd-fynd ag agenda Trawsnewid ac Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar, bydd y gwaith hwn yn parhau i gefnogi plant mewn ffyrdd newydd a mwy integredig a chydweithredol.

"Y Blynyddoedd Cynnar. Mae buddsoddiad yn y grŵp oedran hwn (a rhieni) yn arwain at y buddion mwyaf o bell ffordd yn y tymor hir." – Ymatebydd i'r arolwg.

Cryfderau ac Asedau

Mae'r ymagwedd rydym wedi'i mabwysiadu yn Abertawe yn un cydweithredol ac integredig. Mae'r cyfuniad diweddar o wahanol dimau'r blynyddoedd cynnar i Dîm Rhaglenni'r Blynyddoedd Cynnar wedi integreiddio gwahanol elfennau o weithlu'r blynyddoedd cynnar. Mae'r tîm hwn yn cymryd trosolwg o'r holl raglenni a phrosiectau cysylltiedig ar draws y dirwedd. Enghraifft o arfer da yw symleiddio cyfleoedd datblygu, hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus y gweithlu i gefnogi sector y blynyddoedd cynnar yn ei gyfanrwydd – y mae pob un ohonynt wedi'u "pecynnu" dan ymbarél y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd (GGiD). Mae ffurfio'r tîm hwn, yn ogystal â mynd i'r afael â chyfleoedd rhanbarthol, wedi bod yn amhrisiadwy o ran cyflawni canlyniadau llwyddiannus mewn perthynas â nifer y grantiau Llywodraeth Cymru a dderbyniwyd, gan gynnwys y Gronfa Datblygiad Plant, Grant Gofal Plant a Chymunedau, grantiau Gaeaf Llawn Lles a'r Haf o Hwyl, ynghyd â'r rhaglen Dechrau'n Deg, gan alluogi trafodaeth ar arfer da gydag elfennau o gymorth yn cael eu "haddasu" ar draws y rhanbarth er budd y blynyddoedd cynnar.

Mae'r ymagwedd gydweithredol hon yn ymestyn i'r cynnig ADY y Blynyddoedd Cynnar newydd o fewn y Tîm Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad ehangach, sy'n cynnwys y gwasanaeth Seicolegwyr Addysg. Bydd y llwybr newydd hwn yn galluogi datblygu ymagwedd gyson at nodi ac ymyrryd yn gynnar, a gefnogir gan y Gwasanaeth Seicoleg Addysg o 0-25 o fewn y model ymgynghori ar gyfer darparu gwasanaethau. Bydd cyflwyno Arbenigwr

Perfformiad ar gyfer y Cyfnod Cynradd yn cefnogi'r tîm Arbenigwyr Perfformiad presennol i sicrhau ansawdd, hyfforddi a chefnogi datblygiad darpariaeth lleoliadau ysgol y blynyddoedd cynnar ar gyfer dysgwyr ADY. Bydd hyn yn cefnogi'r rôl statudol a gyflwynwyd gyda Deddf ADY (2018) y SAADYBC a fydd yn rhoi trosolwg strategol o ddarpariaeth ADY y Blynyddoedd Cynnar ar draws Abertawe. Mae cynnig ADY y Blynyddoedd Cynnar yn ymagwedd wirioneddol integredig sy'n cydnabod egwyddorion allweddol ADYTA; Ymgorffori ymagwedd sy'n seiliedig ar hawliau; Nodi anghenion yn gynnar, ymyrryd a chynllunio ar gyfer pontio effeithiol; Cydweithio, addysg gynhwysol a system ddwyieithog.

Mae cydweithredu ac integreiddio hefyd yn ffactor allweddol wrth greu'r uned Mamau a Babanod amlddisgyblaethol newydd sydd wedi'i hagor gan BIPBA i gefnogi mamau beichiog sydd â chyflyrau Iechyd Meddwl. Yr Uned Gobaith yw'r unig uned gleifion fewnol o'i bath yng Nghymru i gynnig gofal iechyd meddwl amlddisgyblaethol i fenywod o 32 wythnos o feichiogrwydd nes bod eu babi'n flwydd oed.

Mae'r tîm Jig-so amlasiantaethol hefyd yn defnyddio'r ymagwedd integredig hon. Mae'r tîm hefyd yn dangos canlyniadau gwych ar ddangosyddion y blynyddoedd cynnar allweddol, megis bwydo ar y fron a lleihau cyfraddau smygu yn ystod beichiogrwydd. Rhwng 2017 a 2019, roedd 58% o fenywod ifanc a oedd yn gweithio gyda'r tîm Jig-So yn smygu yn gynnar yn ystod beichiogrwydd - o'r rhain, rhoddodd 34% ohonynt y gorau i smygu yn ystod beichiogrwydd. Mae hwn yn nifer sylweddol, sy'n dangos yr effaith y gall y tîm ei chael ar ymddygiadau iechyd mamau sy'n agored i niwed.


Mae Jig-So hefyd yn dangos canlyniadau cadarnhaol o ran cefnogi bwydo ar y fron yn nyddiau cynnar beichiogrwydd, gyda chyfraddau uwch o fwydo ar y fron adeg eu geni na'r Bwrdd Iechyd a chyfartaledd Cymru. Ar 10 niwrnod mae'r ffigurau'n uwch na chyfartaledd y Bwrdd Iechyd hefyd.

Tabl S2: Ystadegau Bwydo ar y Fron, 2017-19

| Ystadegau Bwydo ar y Fron ar gyfer 2017-2019 | Jig-So | BIPABM/BIPBA | Cyfartaledd Cymru |
|---|--------|--------------|-------------------|
| Ar adeg geni | 66.8% | 64.6% | 56.7% |
| Ar 10 diwrnod | 38.5% | 28.9% | 42.6% |
| Wrth adael darpariaeth Jig-So (tua 28 niwrnod neu ar 6 diwrnod BIPBA) | 29.6% | 33.0% | 34.2% |


Dangosir yr effaith gadarnhaol y mae'r rhaglen Dechrau'n Deg yn ei chael ar ddangosyddion allweddol y blynyddoedd cynnar drwy archwilio Proffil y Cyfnod Sylfaen (FPP). Defnyddir Proffil y Cyfnod Sylfaen i olrhain a monitro datblygiad plant yn ystod y 40 wythnos y maent yn mynychu gofal plant. Mae gweithwyr Gofal Plant yn arsylwi ac yn cofnodi plant wrth iddynt ddechrau mynychu gofal plant. Yna maent yn parhau i arsylwi a chofnodi drwy gydol hawl y plentyn cyn gwneud dyfarniad terfynol, ar ôl gadael darpariaeth gofal plant. Y deilliant disgwylidig cyfartalog ar gyfer plentyn 2 flwydd oed (wrth ddechrau darpariaeth Dechrau'n Deg) yw Aur. Y deilliant disgwylidig cyfartalog ar gyfer plentyn 3 oed (wrth adael Dechrau'n Deg) yw Deilliant 1. Mae'r graffiau canlynol yn dangos y deilliannau Proffil y Cyfnod Sylfaen wrth ddechrau yn y ddarpariaeth Dechrau'n Deg a'i gadael ar gyfer plant a oedd yn mynychu

Dechrau'n Deg rhwng 2018 a 2019. Mae'r canlyniadau yn y graffiau isod yn dangos plant yn cyflawni o leiaf y deilliant a nodwyd h.y. mae Aur+ yn cynnwys plant sy'n cyflawni Deilliant Aur neu fwy (Deilliant 1, Deilliant 2...).



Ffigur S1: Cyflawniad Plant Dechrau'n Deg – Deilliant 1+

Mae'r data a gasglwyd yn awgrymu bod 40% o blant, wrth ddechrau yn Dechrau Deg, yn perfformio yn ôl eu hoedran disgwylidig yn y maes Datblygiad Personol a Chymdeithasol, a bod y ffigur hwn wedi codi i 72% wrth iddynt adael. Yn yr un modd, mewn iaith a Chyfathrebu, roedd 22% o blant yn perfformio yn ôl eu hoedran disgwylidig, yn wahanol i 51% wrth adael. O ran Datblygiad Mathemategol, cafwyd cynnydd o 29% ac mewn Datblygiad Corfforol, cynnydd o 20% yn nifer y plant a oedd yn cyflawni'r deilliant disgwylidig ar gyfer eu hoedran. Mae'r graffiau'n dangos y cymariaethau ar y dechrau/diwedd ar gyfer plant a fynychodd ofal plant Dechrau'n Deg yn Abertawe rhwng 2018 a 2019, sy'n dangos yr effaith gadarnhaol y mae'r rhaglen Dechrau'n Deg yn ei chael ar fywydau plant yn Abertawe.



Ffigur S2: Cyflawniad Plant Dechrau'n Deg – Aur+

Newidiadau dros amser

Un maes ffocws yn ystod plentyndod cynnar yw'r cynnydd mewn cyfraddau gordewdra ymhlith plant, yn enwedig yng Nghymru, ac yn benodol mewn ardaloedd o amddifadedd uchel. Mae cofnodion y rhaglen Mesur Plant o 2018/19 yn nodi "Mae plant oedran dosbarth derbyn yn sylweddol fwy tebygol na chyfartaledd Cymru o fod yn ordew os ydynt yn byw mewn ardal lle ceir lefelau uchel o amddifadedd. Mae'r bwlch rhwng cyfraddau gordewdra yn y cwintelau â'r amddifadedd mwyaf a'r rhai â'r amddifadedd lleiaf wedi cynyddu o 5.9% y llynedd i 6.9% eleni.

Mae hyn yn arwyddocaol o safbwynt Abertawe gan fod Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) 2019 wedi nodi bod 17 (11.5%) o 148 ACEHI Abertawe yn y 10 y cant mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae pwysigrwydd cefnogi teuluoedd wedi'i gydnabod ar draws y maes allweddol hwn, gyda chread y gwasanaeth rheoli Pwysau Plant a Phobl Ifanc newydd. Bydd y tîm amlddisgyblaethol hwn yn cynnwys gweithwyr proffesiynol clinigol, dietegwyr, maethgwyr, seicolegwyr a gweithwyr ieuenctid, a bydd yn anelu at gefnogi teuluoedd yn gyfannol.

Cymariaethau â lleoedd eraill

Mae pwysau geni isel yn parhau i fod yn ddangosydd allweddol wrth asesu iechyd plant yn y blynyddoedd cynnar. Mae ffigurau Arsyllfa Iechyd y Cyhoedd, a gyhoeddwyd ar gyfer 2020, yn dangos bod canran y genedigaethau byw sydd â phwysau geni isel yn Abertawe yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Ffigur S3 Mae dolen i'r data wedi'i chynnwys isod:

<https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/NHS-Primary-and-Community-Activity/Community-Child-Health/singletonlivebirthswithlowbirthweight-by-area>

Mae Abertawe'n gweithio'n agos gyda CNPT a BIPBC i gyflawni blaenoriaethau allweddol y blynyddoedd cynnar i gefnogi teuluoedd ledled Abertawe. Yr uchelgeisiau fydd cael effaith gadarnhaol ar fywydau plant drwy gydweithio, ac mewn modd integredig.

Gwahaniaethau ar draws Abertawe

Bydd Abertawe'n parhau i gynnig allgymorth Dechrau'n Deg (DD), a fydd yn cynnwys darparu gwasanaethau DD i blant teuluoedd sy'n symud allan o ardaloedd Dechrau'n Deg, fel rhan o becyn cymorth wedi'i deilwra, lle bydd hawlogaeth yn rhan o gyfres o gymorth a ddarperir i'r teulu'n gyffredinol, yn ogystal â chymunedau buddiant.

Canfyddiadau a safbwyntiau

Mae partneriaid ledled Abertawe am i bob plentyn fod yn barod i ddechrau'r ysgol. Mae'r Strategaeth Blynyddoedd Cynnar yn canolbwyntio ar sut gellir cyflawni hyn. Nodau'r strategaeth yw rhoi camau gweithredu ar waith er mwyn sicrhau bod mwy o blant yn barod i fynd i'r ysgol a lleihau anghydraddoldebau rhwng ardaloedd mwy neu lai difreintiedig, gan sicrhau na fydd yr un plentyn fwy na chwe mis ar ei hôl hi o ran cyrhaeddiad erbyn 3 oed. Rhan o'r strategaeth Blynyddoedd Cynnar yw atgyfnerthu'r negeseuon allweddol drwy gynyddu ymwybyddiaeth o'r hyn y gall unrhyw un sy'n gofalu am blentyn ei wneud i gefnogi datblygiad y plentyn hwnnw a sicrhau bod pob plentyn yn cyrraedd ei botensial llawn.

Hyd yn oed cyn geni plentyn, gall rhieni ddylanwadu ar ei ddyfodol a rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd iddo. Crëwyd yr ymgyrch Dechrau Gorau er mwyn hyrwyddo'r syniad hwn.

Prif negeseuon ymgyrch Dechrau'n Deg Abertawe yw:

- Rydym yn chwarae gyda'n plant er mwyn cael hwyl a chadw'n heini
- Rydym yn gofalu am ein gilydd a'n plant drwy geisio bod yn iach
- Mae gennym arferion i helpu'n plant i ganolbwyntio a theimlo'n ddiogel
- Rydym yn mwynhau sgwrsio, gwrando ar a chanu gyda'n plant.
- Rydym yn mwynhau darllen gyda'n plant i'w paratoi at ddysgu
- Rydym yn ymwybodol mai mewn meithrinfeydd neu gylchoedd chwarae mae ein plant yn dysgu ac yn cwrdd â ffrindiau newydd
- Rydym yn treulio amser o safon gyda'n plant er mwyn eu helpu i ddatblygu

Mae holl waith gwahanol dimau y blynyddoedd cynnar yn cefnogi negeseuon yr ymgyrch allweddol hon.

"Mae angen cefnogi teuluoedd ifanc a'r blynyddoedd cynnar, mae'n hanfodol ar gyfer datblygiad, iechyd meddwl a chorfforol pobl ifanc a'u teuluoedd" – ymatebydd i'r arolwg.

Tueddiadau a Rhagolygon y Dyfodol ar gyfer Abertawe

2022/23 yn parhau i ganolbwyntio ar integreiddio gwasanaethau blynyddoedd cynnar ar draws yr ALL a BIPB, ar draws disgyblaethau pwysig Iaith Lleferydd a chyfathrebu, Gweithgarwch Corfforol, Datblygu'r gweithlu, ADY i enwi rhai. Bydd rolau'n gweithio'n hyblyg ar draws tirwedd y blynyddoedd cynnar ac yn cynnwys Dechrau'n Deg, darpariaeth gofal plant preifat, darpariaeth meithrin a chwarae mewn ysgolion, gan ganolbwyntio ar sicrhau ansawdd, tegwch a chydaddoldeb. Gwneir hyn mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys:

1. Datblygu'r gweithlu, a sgaffaldio gwybodaeth, sgiliau, profiadau a dealltwriaeth drwy gymorth sector gan yr unigolyn neu'r gwasanaeth cywir ar yr adeg gywir.
2. Gwella perthnasoedd a meithrin perthynas
3. Graddnodi cyfleoedd allgymorth, yn enwedig yn achos Dechrau'n Deg
4. Cydblethu grantiau a chyfleoedd ariannu'r blynyddoedd cynnar
5. Alinio rolau i ategu, gwella ac ehangu cyrhaeddiad gwasanaethau, prosiectau a rhaglenni sy'n bodoli eisoes
6. Synergedd sefydliadau, gwasanaethau, adrannau, prosiectau a rhaglenni mewn perthynas â'r blynyddoedd cynnar, a fydd yn ei dro yn galluogi canfyddiad a newid o ran ansawdd, cynhwysiad, diogelu, atal ac ymyrryd yn gynnar.
7. Parhau i dreialu a phrofi ymagweddau newydd at helpu'r system i ddatblygu a chefnogi teuluoedd mewn ymagwedd fwy cydgyssylltiedig, yn unol â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer y blynyddoedd cynnar, megis y cyllid posib ar gyfer plant 2 flwydd oed.
8. Rydym yn cynnal ymchwil i sut olwg fyddai ar un pwynt mynediad i wasanaethau'r blynyddoedd cynnar ar gyfer rhieni/gofalwyr a theuluoedd. Mae'r gwaith hwn yn cael ei wneud gan dîm Braenaru Trawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar.
9. Mae cymunedau buddiant penodol yn cael eu hystyried – bydd hyn yn canolbwyntio ar strategaeth ymadael i Ymweliadau Iechyd Allgymorth Dechrau'n Deg ychwanegol i'r rheini sy'n derbyn y ddarpariaeth bresennol o gymorth bydwreigiaeth ychwanegol i rieni ifanc sy'n agored i niwed, wedi'u targedu at rieni sy'n cael eu babi cyntaf.

Integreiddio

Mae'r agenda waith ranbarthol yn faes sy'n canolbwyntio'n sylweddol ar ddatblygiadau cadarnhaol o ran creu grwpiau thematig amlasiantaethol ar draws y blynyddoedd cynnar, gan sicrhau proses llif gwybodaeth ddwyffordd yn ôl ac ymlaen i'r Grŵp Llywio Integreiddio Trawsnewid y Blynyddoedd Cynnar (EYTI) rhanbarthol. Drwy'r sector cyfan, mae Abertawe'n mabwysiadu ymagwedd gydweithredol at gefnogi teuluoedd, drwy'r timau amlddisgyblaethol niferus, i archwilio system y blynyddoedd cynnar a gynhaliwyd yn adolygiad ar y cyd Vanguard Systems, ac ymarfer Mapio a gynhaliwyd fel rhan o raglen Integreiddio Trawsnewid y Blynyddoedd Cynnar

Mae sefydliadau'r blynyddoedd cynnar Abertawe wedi ymrwymo i gynnal adolygiad Matrics Aeddfedrwydd Mamolaeth y Blynyddoedd Cynnar. Bydd y pecyn cymorth hwn yn helpu i ddatblygu ein dealltwriaeth o ba mor integredig yw ein systemau.

Gwelliant

Bydd y trefniadau gweithio rhanbarthol parhaus sydd ymhlyg yn rhaglen Integreiddio Trawsnewid y Blynyddoedd Cynnar, yn ogystal â chydweithredu yn ei ystyr ehangaf, yn ffactor

allweddol wrth fesur llwyddiant gyda rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys cydweithwyr ym maes Iechyd, Addysg, Gwasanaethau Cymdeithasol yn ogystal â sector gofal plant a chwarae Abertawe.

Bydd Tîm Rhaglenni'r Blynyddoedd Cynnar yn parhau i weithio tuag at yr uchelgais o sicrhau ansawdd, cydraddoldeb a thegwch sy'n ymestyn i bob plentyn a darpariaeth y blynyddoedd cynnar. Cyflawnir y gwelliant hwn drwy "addasu" cymorth ar draws y gweithlu i gynnwys;

- Cymorth cyfannol a mwy penodol wedi'i dargedu e.e. datblygu gweithlu ADY.
- Archwilio mewn perthynas ag ehangu'r offeryn Cyd-feddwl Parhaus a Lles Emosiynol (SSTEW) fel offeryn sicrhau ansawdd ar gyfer darpariaeth y blynyddoedd cynnar.
- Cyfarfodydd integredig a chyfleoedd rhwydweithio – rhithwir ac wyneb yn wyneb.
- Gwell trefniadau pontio ar draws y sector, e.e. Cynnig Gofal Plant 30 awr i Dechrau'n Deg, gofal plant i'r ysgol.
- Darparu rhaglenni ac ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer teuluoedd ar draws y continwwm gofal cymdeithasol
- Bydd gweithio rhanbarthol yn ogystal â chydweithredu yn ei ystyr ehangaf, yn ffactor allweddol wrth fesur llwyddiant gyda rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys cydweithwyr ym maes Iechyd, Addysg, Gwasanaethau Cymdeithasol yn ogystal â sector gofal plant a chwarae Abertawe.

Ynghylch y dystiolaeth

O ganlyniad i'r pandemig, mae casglu dangosyddion perfformiad allweddol ar draws y blynyddoedd cynnar wedi dod yn fwy heriol. Bydd parhau i ddatblygu a gweithredu system wybodaeth iechyd a gofal cymdeithasol newydd WCCIS (System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru), ynghyd â'r defnydd o DEWIS, yn helpu asiantaethau i archwilio gwybodaeth y blynyddoedd cynnar yn fanylach yn y dyfodol.

Mae'r holl waith yn seiliedig ar strategaethau cenedlaethol megis, Cymru - gwlad lle mae cyfle i chwarae, Deddf Gofal Plant 2006, Canllawiau Gofal Plant, Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant, Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae, Safonau Gofynnol Cenedlaethol, canllawiau Dechrau'n Deg, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 ymhlith eraill.

Casgliadau a Negeseuon Allweddol

"Mae babanod sydd wedi'u geni yn ystod y pandemig wedi bod yn ddibynol ar ofal gan rieni sy'n fwy tebygol o brofi mwy o straen, arwahanrwydd cymdeithasol a phroblemau iechyd meddwl. Ond nid yw llawer o rieni newydd yn cael y cymorth iechyd meddwl sydd ei angen arnynt oherwydd bod bylchau yn y gwasanaethau hanfodol hyn yng Nghymru. Mae angen gweithredu ar frys i helpu teuluoedd i wella drwy sicrhau bod cymorth iechyd meddwl amenedigol ar gael i bob teulu waeth ble maent yn byw. Heb hyn mae pryder gwirioneddol y bydd y pandemig yn cael effaith andwyol ar iechyd meddwl a lles rhieni a babanod sy'n ddifrifol ac yn para'n hir." - NSPCC Cymru/Wales

Mae'r pandemig wedi cael effaith enfawr ar brofiad rhieni yn ystod y cyfnod clo, gyda'r effeithiau llawn ar ddatblygiad plant eto i'w deall yn llawn. Fodd bynnag, bydd llawer o'r dangosyddion allweddol a fydd yn cefnogi rhieni/gofalwyr a theuluoedd yn aros yr un fath, ac

mae'n rhaid i ni barhau i ymdrechu i gefnogi teuluoedd ledled Abertawe i sicrhau canlyniadau cadarnhaol.

Mae pwysigrwydd cefnogi teuluoedd i gael genedigaethau iach a llwyddiannus, i gefnogi mamau yn ystod beichiogrwydd ar draws ystod eang o faterion, megis pwysau geni, pwysau beichiogrwydd, rhoi'r gorau i smygu, bwydo ar y fron a chymorth iechyd meddwl yn parhau i fod yn hollbwysig. Ynghyd â helpu rhieni/gofalwyr a theuluoedd i helpu eu plant i baratoi ar gyfer meithrin, addysg gynnar, ysgol a thu hwnt drwy hyrwyddo ymlyniad cadarnhaol, bondio a gwella sgiliau'r gweithlu, bydd gwella pontio ac ansawdd ar draws y sector yn cefnogi ein huchelgais i roi'r Dechrau Gorau mewn Bywyd i Bob Plentyn.

Gwrando ar Blant a Phobl Ifanc

Mae dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i hybu a hwyluso cyfranogiad plant a phobl ifanc mewn penderfyniadau a allai effeithio arnynt. Sail gyfreithiol y ddyletswydd hon yw Adran 12 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol:

'wneud y cyfryw drefniadau ag y mae'n eu hystyried yn addas i hybu a hwyluso plant i gymryd rhan ym mhenderfyniadau'r awdurdod a allai effeithio arnynt ... [a] cyhoeddi gwybodaeth ynghylch ei drefniadau ... [a] diweddarar'r wybodaeth a gyhoeddir'.

Cryfderau ac Asedau

- Mae gan Abertawe hanes hirsefydlog o weithio mewn partneriaeth i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc, a gwrando arnynt. Mae cyfleoedd ystyrion a chynhwysol i blant a phobl ifanc gael eu clywed mewn cysylltiad â phenderfyniadau sy'n effeithio arnynt yn flaenoriaeth. Er 2014, y dull lleol i sicrhau hyn fu'r Sgwrs Fawr, sydd wedi cynnig cyfleoedd i bron 10,000 o blant a phobl ifanc 5-25 oed gymryd rhan mewn cyfleoedd hygyrch ac ystyrion i gael eu clywed.
- Mae gan Gyngor Abertawe ymrwymiad polisi ffurfiol i Hawliau Plant. Mae'n unigryw yng Nghymru, ac yn bodoli ochr yn ochr ag ymrwymladau a wnaed gan sefydliadau Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eraill.
- Mae cynwysoldeb, cyfranogiad priodol ac ymgysylltiad yn achos y rhai lleiaf tebygol o ymgysylltu yn flaenoriaeth. Er enghraifft, mae gan Abertawe swyddog cyfranogi pwrpasol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc â Phrofiad o fod Mewn Gofal, ac mae plant mor ifanc â phump oed wedi cymryd rhan yn y Sgwrs Fawr. Mae plant yn cael eu cynnwys fel mater o drefn yn natblygiad yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant a'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae. Ymgysylltwyd â phlant mor ifanc â dwy flwydd oed yn rhan o'r gwaith hwn.

Newidiadau dros amser

Roedd y pandemig yn golygu bod yn rhaid ystyried ym mha fodd ac ymhle yr ydym yn ymgysylltu â phlant a phobl ifanc yn y cyfnod newydd a digynsail hwn. Ymgysylltwyd â phlant, pobl ifanc, teuluoedd, ymarferwyr a data rhwng misoedd Ebrill a Medi 2021 i ddeall sut olwg a allai fod ar gyfranogiad da 'nawr (gweler y canfyddiadau a'r persbectifau).

Cymharu â lleoedd eraill

Mae adborth gan gyd-weithwyr, yn lleol ac yn genedlaethol, yn dangos tuedd gyffredin o ran bod gwaith ymgysylltu oddi ar y pandemig wedi mynd yn fwy heriol, yn enwedig o ran recriwtio a chadw.

"O'm profiad i, mae angen mwy o gefnogaeth iechyd meddwl ar bobl ifanc sydd â ffocws cadarnhaol, sy'n atal iechyd meddwl rhag bod yn rhywbeth nad yw pobl ifanc yn siarad amdano am eu bod yn ofni'r ymateb" - ymatebydd i'r arolwg.

Canfyddiadau a phersbectifau

Mae Rhwydwaith Hawliau Plant Abertawe yn cynnwys dros 80 o randdeiliaid sydd â diddordeb mewn hyrwyddo'r agenda hawliau plant yn Abertawe. Mae hyn yn cynnwys cynrychiolwyr y Cyngor a gwasanaethau cyhoeddus, partneriaid trydydd sector, staff ysgolion, rhieni sy'n ofalwyr ac unigolion. Aeth y Rhwydwaith ati i gydgyhyrchu cwestiynau ymgynghori a datblygu amrywiaeth o ddulliau a fformatau mewn ymdrech i gynyddu hygyrchedd yr ymgynghoriad a nifer y bobl a fyddai'n cymryd rhan ynddo.

Yn ystod y cyfnod rhwng 16 Mehefin a 31 Gorffennaf 2021, cafwyd cyfanswm o 358 o ymatebion i'r arolwg. Canfuwyd y canlynol:

- bod angen amrywiaeth o ddulliau, a bod gwaith yn ofynnol yn arbennig i ymgysylltu â phlant y mae eu lleisiau'n 'dawel', h.y. y rhai nad oes ganddynt y cyfle i gael eu clywed ar hyn o bryd, a'r rhai nad ydynt yn dymuno siarad yn uniongyrchol neu'n gyhoeddus, ond sy'n dymuno cyfrannu'n ddienw neu pan fydd ganddynt syniadau i'w rhannu;
- bod llawer o waith yn ofynnol i sicrhau bod plant anabl yn cael cyfleoedd i ymgysylltu ac i'w lleisiau gael eu clywed yn y ffyrdd sydd orau iddynt hwy, gan gynnwys cyfleoedd ar gyfer gwaith pwrpasol ar gais. Dylid hwyluso cyfleoedd mewn ffordd sy'n galluogi plant anabl i integreiddio ac sy'n ymgorffori Confensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl yng Nghynllun Hawliau Plant Abertawe;
- bod cyfoeth o ddulliau yn cael eu harfer mewn ysgolion i hwyluso llais y disgybl, ond bod gwaith yn ofynnol i ddod â'r data lleol hynny a lleisiau disgyblion ynghyd ar lefel sirol;
- bod llawer o waith wedi'i wneud i sicrhau bod hawliau plant a CCUHP yn cael eu hymgorffori'n benodol yn Neddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021. Mae cyflwyno'r Ddeddf bellach yn gosod hawliau mewn Polisi Cenedlaethol, gan herio ysgolion ac awdurdodau lleol ledled Cymru i ystyried y modd y gellir addysgu hawliau a'u gwreiddio yn y cwricwlwm ac ym mywyd yr ysgol. Mae gan Abertawe sylfaen gadarn yn hyn o beth o ganlyniad uniongyrchol i waith hanesyddol trwy Raglen UNICEF, Ysgolion sy'n Parchu Hawliau;
- bod cyfoeth o ddulliau yn cael eu harfer i sicrhau bod plant a phobl ifanc, ar lefel leol iawn, yn gallu cymryd rhan mewn ffyrdd sy'n briodol iddynt hwy. Mae angen cynnal sgwrs a sicrhau cydgynhyrchu parhaus i ehangu'r arfer lleol hwn i ddull ledled y sir, a

hynny er mwyn sicrhau ymagwedd anwahaniaethol at gyfranogiad, a gefnogir gan oedolion dibynadwy ac arbenigol mewn meysydd penodol.

Yn seiliedig ar adborth gan blant a phobl ifanc, y materion allweddol y maent am weithio arnynt i wneud Abertawe yn lle gwell i fyw ynddo yw:

1. Diogelu'r Amgylchedd a Mannau Gwyrdd;
2. Lleisiau tawel – datblygu systemau ar gyfer gwrando ar blant a phobl ifanc nad ydynt yn dymuno 'siarad ar goedd' ond sydd am ddweud eu dweud, e.e. llwyfannau digidol a blychau awgrymiadau rhithwir;
3. Cefnogi plant anabl – gweithio ar sicrhau newid fel bod plant anabl yn teimlo eu bod yn cael eu hintegreiddio a'u bod yn gallu lleisio'u barn yn yr un modd ag unrhyw blentyn arall;
4. Cydraddoldeb i blant a phobl ifanc LGBTQ+ – datblygu adnoddau sy'n mynd i'r afael â gwahaniaethu ac sy'n hyrwyddo amrywiaeth a chydraddoldeb i blant a phobl ifanc sy'n uniaethu'n unigolion LGBTQ+;
5. Gwleidyddiaeth – datblygu adnoddau i blant a phobl ifanc ddeall beth yw gwleidyddiaeth, pwy yw'r gwleidyddion lleol, a sut i drefnu newid;
6. Gwrando ar Ddysgwyr – cryfhau llais cyfunol disgyblion ledled y sir, gan adeiladu ar arfer da sydd ar waith ar hyn o bryd mewn ysgolion unigol.

Mae adborth a dylanwadu ar newid gwirioneddol yn flaenoriaeth i'r cyfranogwyr a ymatebodd. Mae ffurfioli adborth rhwng plant a phobl ifanc a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau, a chyhoeddi'r newid hwnnw (yn amlach nag unwaith y flwyddyn) yn hanfodol.

Mewn partneriaeth â'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau, mae Cyngor Abertawe hefyd wedi bod yn gweithio gyda grŵp o fenywod ifanc i ystyried materion sy'n ymwneud â llesiant mewn perthynas â diogelwch menywod ifanc, un o'r blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg yn lleol.

Dywedodd y merched ifanc yn unfrydol nad oeddent yn teimlo'n ddiogel yn gyhoeddus (yn ystod y dydd na'r nos), ac nad oeddent yn teimlo bod gwasanaethau'n gwneud digon i dawelu eu meddwl a pheri iddynt deimlo'n ddiogel, nac yn rhoi mesurau ar waith a fyddai'n atal teimladau o annigolwch. Cydnabuwyd mai mater i'r bartneriaeth yw hyn.

Tueddiadau yn y Dyfodol a Rhagolygon ar gyfer Abertawe

Un o'r egwyddorion allweddol a amlinellir yn y cynllun hawliau Plant a Phobl Ifanc yw cyfranogiad. Mae sefydlu dulliau ffurfiol ar gyfer gwrando ar blant a phobl ifanc yn gofyn am ymagwedd gydgyhyrchiol at ddatblygiad. Er bod gennym ddata cychwynnol am y modd y mae plant a phobl ifanc am ymgysylltu, rydym am barhau â'r sgwrs ynghylch y mathau o ddulliau a strwythurau a fyddai'n caniatáu i ni ymgysylltu mewn modd cynhwysol ac effeithiol â phob plentyn a pherson ifanc. Yn benodol, mae angen gwneud rhagor o waith gyda phobl ifanc i ddeall materion sy'n ymwneud â phlant 11 oed a hŷn, yn ogystal â gyda'r holl randdeiliaid i fireinio manylion y modd y gall fforymau cydgynhyrchu weithredu yn y ffordd fwyaf cynhyrchiol.

Gwella

Wrth i ni adfer ar ôl y pandemig, ac wrth i gyfleoedd cymunedol ddatblygu, bydd gwaith ymgysylltu yn parhau i gynyddu. Mae'n hanfodol parhau â sgysiau mewn ysgolion a chyda grwpiau cymunedol er mwyn datblygu gwaith cydgynhyrchu yn llawn gyda phlant a phobl ifanc.

Er bod yr ymgynghoriad uchod yn ddefnyddiol, mae'n ymgorffori barn sampl fach o blant, a hynny mewn maes penodol. Felly, dylid ei ystyried yn fan cychwyn, ac yn un elfen o'r broses o gydgynhyrchu dulliau effeithiol ac ystyrion ar gyfer gwranddo sy'n iawn i blant a phobl ifanc. Dylai trefniadau ar gyfer cyfranogi gael eu cynnwys yn benodol, a hynny'n rhan ganolog o gynlluniau a pholisïau yn y dyfodol.

Byddai gwelliant yn golygu bod cynlluniau adfer a phrosesau blaengynllunio ar gyfer pandemigau yn y dyfodol yn sicrhau bod amddiffyn hawliau dynol plant yn parhau i fod wrth wraidd ymdrechion. I wneud hyn, dylid ystyried yr ymchwil a'r dystiolaeth sydd ar gael i sicrhau bod ffyrdd seiliedig ar hawliau o ymdrin â phlant yn rhan annatod o bob proses gwneud penderfyniadau. Mae hyn yn cynnwys grymuso plant a phobl ifanc i wybod eu hawliau, a'u galluogi i godi eu llais a bod yn rhan o benderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

Casgliadau a negeseuon allweddol

Mae gan Abertawe hanes hirsefydlog o weithio mewn partneriaeth i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc. Mae cyfleoedd ystyrion a chynhwysol i blant a phobl ifanc gael eu clywed mewn cysylltiad â phenderfyniadau sy'n effeithio arnynt yn flaenoriaeth. Er 2014, mae'r Sgwrs Fawr wedi cynnig cyfle i bron 10,000 o blant a phobl ifanc 5-25 oed gymryd rhan mewn cyfleoedd hygyrch ac ystyrion i gael eu clywed.

Roedd y pandemig yn golygu bod yn rhaid ystyried ym mha fodd ac ymhle yr ydym yn ymgysylltu â phlant a phobl ifanc. Gan fod cyfranogi yn rhan ganolog o'r Cynllun Hawliau Plant a Phobl Ifanc, mae'r modd y mae plant, pobl ifanc ac oedolion yn cael cyfleoedd cynhwysol ac ystyrion i ymgysylltu â'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau wedi bod yn hollbwysig.

"Mae gan bobl ifanc 11+ oed yn Abertawe fynediad cyfyngedig i ardaloedd diogel ac addas iddynt gwrdd ac arfer eu hawl i chwarae dan Gonfensiwn y CCUHP" – ymatebydd i'r arolwg.

Cydnabod a Pharchu Hawliau Plant

Cyngor Abertawe yw'r awdurdod lleol cyntaf yn y DU i wneud ymrwymiad cyhoeddus i Hawliau Plant, a hynny'n wirfoddol, ac mae wedi ymrwymo i greu llwyfan ar gyfer newid er mwyn cyflawni diwylliant lle caiff hawliau plant eu hystyried mewn modd ymwybodol yn ei holl waith. Mae Cynllun Hawliau Plant a Phobl Ifanc Abertawe yn fap ffordd arloesol i sicrhau bod Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn cael ei ystyried ym mhob penderfyniad y mae'r Cyngor yn ei wneud. Mae'r Cynllun yn nodi'r trefniadau sydd ar waith i sicrhau cydymffurfedd â'i ddyletswydd i roi sylw dyledus i CCUHP. Mae'n darparu tryloywder ynghylch y prosesau a fydd yn cael eu dilyn i gydymffurfio â'r ddyletswydd, ac yn amlinellu gweithdrefnau monitro a chanlyniadau disgwyliedig. Nid yw Cyngor Abertawe ar ei ben ei hun o ran ei ymrwymiad ffurfiol, ac mae gan bob sefydliad yn y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

ei ddull ffurfiol ei hun o sefydlu diwylliant o hawliau plant, gan arwain at well gwasanaethau a bywydau i blant, pobl ifanc a theuluoedd yn Abertawe.

Mae'n amhosibl ystyried hawliau a llesiant plant heb ystyried effaith pandemig y coronafeirws ar fywydau plant, ynghyd â'r effaith wrth i ni adfer. Ym mis Mai 2020, ac ym mis Ionawr 2021, cynhaliodd Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru ymgynghoriad â phlant a phobl ifanc ledled Cymru i ddeall effaith y pandemig ar hawliau a llesiant plant. Llenwodd 2,205 o blant a phobl ifanc yr arolwg yn Abertawe, sef tua 5.7% o'r ystod oedran dargededig o blant 3 i 18 oed.

Roedd i'r arolwg ganfyddiadau diddorol, gan gynnwys rhwystredigaeth a dicter pobl ifanc ynghylch colli cwmni pobl a phrofiadau, unigrwydd, bod ar ei hôl hi o ran dysgu, yr effeithiau ar grwpiau gwahanol (cydraddoldeb), ond hefyd ambell beth cadarnhaol. Mae gwybodaeth fanwl o'r arolwg ar gael.

Mae'r pandemig wedi cael effaith aruthrol ar fywydau llawer o blant a phobl ifanc, ac, i'r rhan fwyaf, mae'r effaith o ran gallu cyrchu ac arfer eu hawliau wedi bod yn gyfyngedig a dweud y lleiaf. Mae wedi gwaethygu anghydraddoldebau a oedd yn bodoli eisoes, ac wedi cael effaith ddinistriol ar hawliau, llesiant a dyfodol plant.

Heneiddio'n Dda

i. Gwrando ar Bobl Hŷn

Roedd Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru (2003) yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol gynnwys ymgysylltiad a chyfranogiad pobl hŷn yn eu systemau cynllunio ac ymgynghori. Amlygodd y diweddariad ar y strategaeth yr angen i gryfhau strwythurau a phrosesau ymgysylltu sy'n canolbwyntio ar y dinesydd, a hynny er mwyn sicrhau bod pobl hŷn yn cael eu cynnwys yn ddigonol yn y broses o wneud penderfyniadau, a'u bod yn rhan o'r gwaith o gynllunio a chreu arloesedd a newid. Roedd Rhwydweithiau 50+ oed yn un o nifer o systemau a sefydlwyd gan Awdurdodau Lleol.

O 2017 ymlaen, bu'r Cyngor yn datblygu cyfres o fforymau "Byw'n Dda, Heneiddio'n Dda" ar bynciau a ysgogwyd gan aelodau cymunedau o amrywiaeth eang o grwpiau a chyfranogwyr unigol. Roedd yr aelodau hefyd yn pleidleisio ar y pynciau hyn. Mae adborth gan aelodau'r cymunedau yn llywio'r datblygiadau hyn yn barhaus, ac mae modelau ymgysylltu mwy agored a chynhwysol yn cael eu cydlynu i ymgysylltu â chynifer â phosibl o grwpiau cymunedol ac unigolion 50+ oed.

Cryfderau ac Asedau

Mae gan Abertawe ymrwymiad hirsefydlog i'r agenda Heneiddio'n Dda. Yn 2014, llofnododd Cyngor Abertawe *Datganiad Dulyn o Ddinasoedd a Chymunedau sy'n Gyfeillgar i Oed*, ac, wrth wneud hynny roedd yn addo:

- ymrwymo i gamau gweithredu ac egwyddorion penodol sy'n ceisio sicrhau bod pobl hŷn yn cael y cyfleoedd i wneud y gorau o'u bywydau ac i chwarae rhan mor llawn â phosibl yn eu cymunedau;

- datblygu cyfleoedd ymgysylltu sy'n canolbwyntio ar y dinesydd er mwyn sicrhau bod pobl hŷn yn cymryd rhan ystyrlon mewn datblygiad lleol a newidiadau i wasanaethau;
- datblygu mannau cyhoeddus diogel a chynhwysol, tai o'r ansawdd uchaf, cymunedau ar gyfer pob oed, trafnidiaeth gyhoeddus fforddiadwy y gellir ei chyrru, ac ati.

Ym mis Tachwedd 2020, cytunodd BGC Abertawe i ymuno â Sefydliad Iechyd y Byd a gweithio tuag at ennill cydnabyddiaeth fel "Dinas Ystyriol o Oed". Mae Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn nodi mai dyma'r ffordd i barhau i gyflawni yn unol â'r addewidion a wnaed yn Natganiad Dulyn, a mynd i'r afael â'r dyheadau sydd wedi'u cynnwys yn y strategaeth genedlaethol ddiweddaraf *Cymru o Blaid Pobl Hŷn: Ein Strategaeth ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio* (Hydref 2021).

Ym mis Mehefin 2021, rhoddodd Cyngor Abertawe fesurau ar waith i gefnogi'r broses o ddatblygu a gweithredu Strategaeth Abertawe ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio, gan symud camau gweithredu ymlaen mewn cynllun gweithredu, a nodi meysydd angen yn yr agenda Heneiddio'n Dda. Dilynwyr hyn gan ymgynghoriad cyhoeddus – *Gwrando ar Bobl 50 oed ac yn hŷn* – i adolygu dulliau i glywed llais pobl 50+ oed yn Abertawe, fel y gallent ddylanwadu ar brosesau gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.

"Heneiddio'n dda sydd bwysicaf i mi. Pan fydd person yn heneiddio'n dda, mae'n cyrraedd ac yn cynnal iechyd corfforol a meddyliol da drwy gadw'n heini, dangos diddordeb mewn pethau a chymdeithasu" – ymatebydd i'r arolwg.

Canfyddiadau a phersbectifau

Mae Grŵp Llywio Heneiddio'n Dda Abertawe yn cynnwys dros 50 o randdeiliaid sydd â diddordeb mewn hyrwyddo'r agenda "Heneiddio'n Dda" yn Abertawe. Mae'r rhain yn cynnwys adrannau'r Cyngor a chynrychiolwyr gwasanaethau cyhoeddus, partneriaid trydydd sector, grwpiau cymunedol ac unigolion. Roedd y Grŵp Llywio Heneiddio'n Dda wedi cydgynhyrchu cwestiynau ymgynghori, ac, mewn ymdrech i gynyddu hygyrchedd, ynghyd â nifer y bobl a fyddai'n cymryd rhan yn yr ymgynghoriad, cytunwyd ei bod yn bwysig bod amrywiaeth o ddulliau ymgysylltu ar gael i bobl 50+ oed.

Yn ystod misoedd Awst a Medi 2021, cafwyd cyfanswm o 236 o ymatebion. Canfu'r arolwg y canlynol:

- bod angen amrywiaeth o ddulliau i ymgysylltu â phobl 50+ oed mewn modelau ymgysylltu agored, cynhwysol yn y gymuned;
- bod gwaith yn ofynnol i sicrhau bod pobl â nodweddion gwarchoddedig sy'n 50+ oed yn cael cyfleoedd i ymgysylltu, a bod eu lleisiau'n cael eu clywed yn y ffyrdd sydd orau iddynt hwy, gan gynnwys cyfleoedd ar gyfer gwaith pwrpasol;
- bod Cydraddoldeb Digidol yn nodwedd yn adborth yr ymgynghoriad ac mewn digwyddiadau ymgysylltu cymunedol wyneb yn wyneb. Mae angen darparu cyfleoedd uwchsgilio a chymorth i gyrchu cyfleoedd ymgysylltu ar-lein yn gyffredinol os bydd pobl 50+ oed yn dymuno cymryd rhan yn y modd hwn;

- bod cyfoeth o ddulliau yn cael eu harfer i sicrhau bod pobl 50+ oed, ar lefel leol iawn, yn gallu cymryd rhan mewn ffyrdd sy'n briodol iddynt hwy. Mae angen cynnal sgwrs a sicrhau cydgynhyrchu parhaus i ehangu'r arfer lleol hwn i ddull ledled y sir, a hynny er mwyn sicrhau mynediad uniongyrchol at brosesau gwneud penderfyniadau mewn ffordd sy'n gynhwysol.

Yn seiliedig ar adborth gan bobl 50+ oed, y materion allweddol y maent am weithio arnynt i wneud Abertawe yn lle gwell i fyw ynddo yw:

1. Trafnidiaeth (mentrau cyhoeddus a chymunedol)
2. Mwy o weithgareddau i bobl 50+ oed
3. Gwell gwasanaethau lleol yn y gymuned
4. Cymorth
5. Diogelwch
6. Gwella Abertawe – Canol y Ddinas a chyfleusterau lleol
7. Chwaraeon ac Ymarfer Corff
8. Gwella Gwybodaeth a Chyfathrebu

"Unigrwydd ac unigedd yw un o'r profiadau bywyd mwyaf dinistriol sy'n effeithio ar bobl o bob oed, ond yn enwedig ein pobl hŷn. Mae COVID wedi gwneud hyn yn waeth byth. Maent yn fwy unig fyth gan na all llawer ohonynt ddefnyddio'r rhyngwrwyd na chyfryngau cymdeithasol. Gwelais â'm llygaid fy hun sut roedd fy mam bron ag ymwrthod â bywyd, nes i mi dalu rhywun i aros gyda hi a'i hannog i fwyta ac yfed pan oeddwn i yn y gwaith. Mae cwmni mor bwysig" – ymatebydd i'r arolwg.

Gwella

Wrth i ni adfer ar ôl y pandemig, ac wrth i gyfleoedd cymunedol ddatblygu, bydd gwaith ymgysylltu yn parhau i gynyddu. Mae'n hanfodol parhau â sgysiau i ddatblygu gwaith cydgynhyrchu yn llawn.

Mae adborth o'r arolygon yn awgrymu nad yw dinasyddion bob amser yn dymuno llenwi arolwg, a bod buddsoddi mwy mewn ymgysylltu wyneb yn wyneb, a darparu gwybodaeth copi caled mewn adeiladau cymunedol ac yn uniongyrchol i gartrefi pobl mewn perthynas ag ymgysylltu â phobl 50+ oed, yn elfennau y mae angen eu harchwilio. Amlygir hyn hefyd yn adroddiadau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru: *Gadael Neb ar ôl a Cyflwr y Genedl: 2021*.

Dylai cynlluniau adfer a phrosesau blaengynllunio ar gyfer pandemigau yn y dyfodol sicrhau bod amddiffyn hawliau dynol Pobl Hŷn wrth wraidd ymdrechion. Er mwyn gwneud hyn, dylai'r ymchwil a'r dystiolaeth sydd ar gael sicrhau bod dulliau gweithredu seiliedig ar hawliau yn cael eu gwreiddio ym mhob proses gwneud penderfyniadau. Mae hyn yn cynnwys grymuso pobl i wybod am eu hawliau, a'u galluogi i godi eu llais a bod yn rhan o benderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

ii. Dinas Ystyriol o Oed

Mae gan Abertawe ymrwymiad hirsefydlog i'r agenda Heneiddio'n Dda. Yn 2014, llofnododd Cyngor Abertawe *Datganiad Dulyn o Ddinasoedd a Chymunedau sy'n Gyfeillgar i Oed*.

Bu'r rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru ar gyfer 2014-2019 yn gymorth i awdurdodau lleol ledled Cymru gyflawni ei themâu a bodloni gofynion y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru.

Fel y nodwyd yn flaenorol, cytunodd BGC Abertawe i ymuno â fframwaith Dinasoedd Oed-gyfeillgar Sefydliad Iechyd y Byd (WHO), sy'n cynnwys wyth parth rhyng-gysylltiedig a all helpu i nodi a mynd i'r afael â rhwystrau i lesiant a chyfranogiad pobl hŷn.

Cryfderau ac Asedau

Mae Heneiddio'n Dda yn parhau i fod yn thema waith yn Amcan BGC Abertawe, "Byw'n Dda, Heneiddio'n Dda". Ym mis Chwefror 2014, llofnododd Cyngor Abertawe *Datganiad Dulyn o Ddinasoedd a Chymunedau sy'n Gyfeillgar i Oed yn Ewrop*. Mae cynnwys pobl hŷn yn disgrifio eu profiadau eu hunain o nodweddion cadarnhaol a rhwystrau'r ddinas, yn allweddol i lwyddiant y datganiad. Mae cyfleoedd ymgysylltu cymunedol cynhwysol yn ffocws i Gyngor Abertawe, a diben ymgynghoriad diweddar y Cyngor, sef *Gwrando ar bobl 50 oed ac yn hŷn*, ym misoedd Awst a Medi 2021 oedd adolygu dulliau effeithiol.

Aeth Abertawe ati i adolygu ac ail-lansio ei Grŵp Llywio Heneiddio'n Dda ym mis Gorffennaf 2021 er mwyn sicrhau dull partneriaeth o ymdrin â llesiant pobl 50+ oed. Mae'r aelodaeth yn cynnwys unigolion 50+ oed a grwpiau cymunedol sy'n cefnogi pobl 50+ oed, gwasanaethau cyhoeddus, y trydydd sector, a sefydliadau partner. Diben y grŵp yw ysgwyddo rôl Hyrwyddwyr Heneiddio'n Dda a chefnogi'r gwaith o ddatblygu a gweithredu Strategaeth Abertawe ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio.

Mae Abertawe wedi datblygu'r gwasanaeth Cydgysylltu Ardaloedd Lleol, a'i rôl yw helpu pobl i feithrin perthnasoedd yn eu cymuned. Oddi ar y pandemig, mae'r gwasanaeth wedi canolbwyntio mwy ar fynd i'r afael ag ynysigrwydd cymdeithasol. Mae gan Abertawe sector cymunedol a gwirfoddol gweithgar sy'n darparu gwasanaethau i ofalwyr a phobl hŷn. Mae aelodau'r gymuned a sefydliadau trydydd sector yn chwarae rhan sylfaenol yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau cymorth ataliol a sicrhau bod yr holl randdeiliaid yn rhan o'r broses o lunio "Abertawe Ystyriol o Oed" mewn partneriaeth waith gydgyhyrchiol. Mae gwaith ymgysylltu mewn cymunedau ledled Abertawe yn parhau i ganolbwyntio ar lesiant pobl sy'n byw yn y cymunedau hynny.

Newidiadau dros amser

Mae adroddiad a luniwyd gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru ym mis Awst 2020, *Gadael neb ar ôl*, yn seiliedig ar drafodaethau â phobl hŷn, gofalwyr, sefydliadau cymunedol, gwirfoddolwyr, gweithwyr cartrefi gofal ac unigolion eraill. Mae'r adroddiad yn archwilio'r heriau a'r hyn sydd wedi gweithio a'r hyn nad yw wedi gweithio, ac mae wedi clywed yn

uniongyrchol am straeon a phrofiadau pobl hŷn o'r cyfyngiadau symud, sydd wedi amlygu anghydraddoldebau a rhagfarn ar sail oedran, ynghyd â'r canlyniadau a all ddeillio o hyn.

Cyhoeddodd y Comisiynydd Pobl Hŷn ei hadroddiad *Cyflwr y Genedl* ar 1 Hydref 2021, sef Diwrnod Rhyngwladol Pobl Hŷn. Mae'r adroddiad yn asesu'r modd y mae pethau wedi newid oddi ar yr adroddiad diwethaf ym mis Hydref 2019, ac yn dangos:

- Bod pandemig COVID-19 wedi cael effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol ar iechyd a llesiant pobl hŷn, a hefyd wedi cyfyngu ar allu pobl i gyrchu gwasanaethau neu dreulio amser gyda ffrindiau, anwyliaid neu grwpiau cymunedol;
- Bod dirywiad sylweddol wedi bod yn iechyd corfforol a meddyliol pobl hŷn, a bod cyrchu gwasanaethau yn y gymuned – yn enwedig gwasanaethau iechyd a gofal – wedi bod yn anodd;
- Bod yna berygl y bydd pobl hŷn yn cael eu hallgáu wrth i ni symud ymlaen, a hynny oherwydd symudiad tuag at wasanaethau digidol, newid arferion gwaith, a llai o gyfleoedd i ymgysylltu a gwirfoddoli.

Gwella

Hyrwyddir y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio, gyda pharthau Dinasoedd sy'n Gyfeillgar i Oed yn fframwaith, a Hawliau Dynol Pobl Hŷn yn cael eu hamlygu. Mae dull cydgynhyrchiol o ddatblygu strategaeth leol a sicrhau ei bod yn ystyrlon i'r bobl y mae'n effeithio arnynt, lle mae'r holl randdeiliaid yn rhan o'r drafodaeth a'r broses ddatblygu o'r cychwyn cyntaf, yn hanfodol.

Roedd yr ymgynghoriad a'r gweithgareddau ymgysylltu wyneb yn wyneb diweddar wedi amlygu'r angen i ddarparu adnoddau i sicrhau ymgysylltiad ystyrlon a pharhaus â phobl 50+ oed mewn modelau cyfranogi cynhwysol ac agored yn Abertawe.

Mae hefyd angen cydnabod bod pobl yn ymgysylltu â phrosesau gwneud penderfyniadau, ac yn cymryd rhan ynddynt, mewn ffyrdd gwahanol, ac felly ei bod yn ofynnol sefydlu a chynnal dulliau lluosog ledled Abertawe i sicrhau bod perthnasoedd ac ymddiriedaeth yn cael eu meithrin i greu sylfaen gadarn ar gyfer cyfranogiad parhaus y mae pob cymuned yn teimlo y gall gymryd rhan ynddo.

Er bod nifer y bobl hŷn sydd â chysylltiadau digidol yn parhau i godi, mae yna o hyd tua phum miliwn o bobl dros 55 oed yn genedlaethol nad ydynt ar-lein. Er bod ffactorau megis incwm a lefelau addysg yn chwarae rhan, oedran yw'r dangosydd mwyaf o hyd o ran pwy sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol. Dywed Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru fod yn rhaid i wasanaethau megis clinigau meddygon teulu a rhestrau swyddi sicrhau bod ganddynt sianeli eraill annigidol os ydym am osgoi gadael pobl ar ôl. Tynnwyd sylw mewn ffordd debyg at ymgynghoriadau'r Cyngor, sy'n cael eu cynnal ar-lein yn bennaf. Dylai'r llywodraeth hefyd gefnogi mwy o bobl i fynd ar-lein ac aros ar-lein. Mae hyn yn cynnwys mynediad cyffredinol i'r Rhyngwrwyd, argaeledd cyfarpar mewn lleoliadau megis cartrefi gofal, a chymorth personol i roi hyder i bobl feithrin sgiliau digidol.

Tlodi

At ddibenion yr asesiad hwn, diffinnir tlodi fel a ganlyn:

- Incwm islaw'r Safon Isafswm Incwm. Mae'r Safon Isafswm Incwm yn seiliedig ar yr hyn y mae'r cyhoedd yn ei ystyried y mae ar bobl ei angen i sicrhau safon byw ofynnol sy'n dderbyniol, yn unol ag ymchwiliad Sefydliad Joseph Rowntree;
- Mynediad annigonol at wasanaethau angenrheidiol o ansawdd da;
- Cyfle neu adnoddau annigonol i ymuno â gweithgareddau cymdeithasol, diwylliannol a hamdden a gweithgarwch gwneud penderfyniadau.

Cryfderau ac Asedau

- Yn Abertawe, mae sefydliadau'n arddel ymagwedd 'busnes pawb' at drechu tlodi.
- Abertawe fydd yr ardal awdurdod lleol gyntaf yng Nghymru i sefydlu Comisiwn Gwirionedd Tlodi.
- Nod Fforwm Tlodi Cyngor Abertawe yw gwreiddio'r arfer o fynd i'r afael ag achosion ac effaith tlodi ledled holl wasanaethau'r Cyngor.
- Mae Fforwm Partneriaeth Tlodi Abertawe yn dod â sefydliadau'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector ynghyd i fanteisio ar eu diddordeb/cyfranogiad cyffredin yn yr agenda trechu tlodi yn Abertawe. Defnyddir y Fforwm i hwyluso rhwydweithio, i rannu arfer da, profiad, gwybodaeth, tueddiadau a newidiadau i wasanaethau, ac i nodi ac annog cyfleoedd ar gyfer gweithio mewn partneriaeth a chydweithio.
- Mae partneriaeth waith ragorol yn bodoli rhwng nifer o sefydliadau yn y Grŵp Llywio Cynhwysiant Ariannol (FISG), sy'n gweithio tuag at nodau a rennir ac yn rhannu gwybodaeth ac arfer da; mae hefyd yn hyrwyddo'r broses o weithio mewn partneriaeth i gynyddu cynhwysiant ariannol, gyda'r bwriad o leihau tlodi a chynyddu twf economaidd yn Abertawe. Mae'r FISG yn nodi bylchau yn y ddarpariaeth ac yn awgrymu camau gweithredu ar y cyd i fynd i'r afael â nhw, ac mae'n gweithio mewn modd effeithiol tuag at wella cydnherthedd ariannol aelwydydd a lleihau eu siawns o fod yn agored i ddyled.
- Mae Abertawe'n elwa o hawliau lles rhagorol a chynngor arbenigol ar ddyledion. Er enghraifft, mae Tîm Hawliau Lles yr Awdurdod Lleol yn darparu gwasanaeth ail haen sy'n arbenigo mewn cyfraith budd-daliadau lles a chredydau treth, ac mae'n cefnogi'r rhai sy'n darparu gwasanaeth rheng flaen ac yn gweithio gyda hawlwyfyr.
- Mae gweithredu'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yn golygu bod ystyried anfantais economaidd-gymdeithasol yn rhan annatod o'r penderfyniadau strategol a wneir gan gyrff cyhoeddus yng Nghymru.

Newidiadau dros amser; Canfyddiadau a phersbectifau

Mae'r adran ganlynol yn dechrau trwy amlinellu'r sefyllfa bresennol a newidiadau dros amser mewn perthynas â'n diffiniad o dlodi a'n safbwyntiau ar dlodi yn Abertawe: yn gyntaf, incwm isel (islaw safonau isafswm incwm); ac yn ail, mynediad annigonol at wasanaethau a

chyfleoedd i ymuno â gweithgareddau cymdeithasol, diwylliannol a hamdden a gweithgarwch gwneud penderfyniadau.

Mae'r rhan gyntaf yn ystyried incwm aelwydydd o gyflogaeth, tlodi mewn gwaith, y nifer sy'n hawlio budd-daliadau, y Safon Isafswm Incwm a'r Cyflog Byw mewn perthynas â'r cysyniadau o incwm isel ac incwm islaw'r safonau gofynnol. Mae'r ail ran yn ystyried mynediad at wasanaethau angenrheidiol a chyfleoedd i ymuno â gweithgareddau cymdeithasol, diwylliannol a hamdden a gweithgarwch gwneud penderfyniadau yng nghyd-destun allgáu digidol, tlodi data, tlodi bwyd, tlodi tanwydd, dyled, y premiwm tlodi a thlodi plant.

"Incwm sylfaenol i bawb, waeth beth yw eu cyflog. Mae hyn yn caniatáu sicrwydd ariannol sy'n effeithio ar iechyd a lles" – ymatebydd i'r arolwg.

i. Incwm islaw'r safonau gofynnol

Incwm o Gyflogaeth

Mae incwm aelwydydd o gyflogaeth yn ffactor allweddol wrth bennu'r risg o fyw mewn tlodi. Gall cyflogaeth liniaru'r risg o dlodi, ond mae yna nifer cynyddol o bobl yn y DU, yng Nghymru ac yn Abertawe sy'n profi tlodi "mewn gwaith". P'un a yw incwm yr aelwyd yn cynnwys cyflogaeth, budd-daliadau, neu gyfuniad o'r ddau, gall pobl brofi effeithiau tlodi mewn amrywiaeth o ffyrdd gwahanol os nad yw incwm yr aelwyd yn bodloni safonau incwm gofynnol, ac os yw unigolion yn cael eu heithrio o'r cyfleoedd a'r dewisiadau i gymryd rhan lawn mewn cymdeithas.

Mae'r Arolwg Blynnyddol o Oriau ac Enillion yn darparu gwybodaeth am lefelau, dosbarthiad a chyfansoddiad enillion ac oriau a weithir yn achos cyflogaeth hyd at lefel awdurdod lleol.

Y ffigur canolrifol ar gyfer enillion llawn-amser wythnosol yn achos trigolion Abertawe oedd £552.60 (Ebrill 2021), sydd 3.2% yn is na'r ffigur ar gyfer Cymru, ond 9.5% yn is na'r cyfartaledd ar gyfer y DU. Mae'r ffigur ar gyfer enillion llawn-amser wythnosol seiliedig ar y gweithle a gyhoeddwyd ar gyfer Abertawe tua £3 yr wythnos yn is na'r ffigur seiliedig ar breswylwyr, fel y dangosir yn y tabl isod:

Tabl S3: Enillion wythnosol cyfartalog yn Abertawe, Ebrill 2021

| Enillion WYTHNOSOL | Abertawe | Abertawe (% o Gymru) | Cymru | Y DU | Abertawe (Gweithle) |
|---|------------------|-------------------------|------------------|------------------|------------------------|
| Gweithwyr AMSER LLAWN <i>% y newid ar y flwyddyn flaenorol</i> | £552.60 +2.1% | 96.8 - | £570.60 +4.2% | £610.70 +4.3% | £549.50 +2.9% |
| Gwryw amser llawn | £555.30 | 92.6 | £599.70 | £651.60 | £549.50 |
| Benyw amser llawn | £543.90 | 103.0 | £528.30 | £558.10 | £551.00 |
| Gweithwyr RHAN-AMSER | £199.20 | 92.1 | £216.30 | £215.30 | £205.80 |
| POB gweithiwr cyflogedig | £462.60 | 98.6 | £469.40 | £504.40 | £440.70 |

Ffynhonnell: Arolwg Blynnyddol o Oriau ac Enillion (ASHE), 2021, SYG.

Mae'r data ar Enillion Blynnyddol yn dangos bod y ffigur llawn-amser canolrifol ar gyfer Abertawe (2021), sef £28,827, 0.1% yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru; fodd bynnag, mae ffigurau Abertawe a Chymru yn is na'r cyfartaledd ar gyfer y DU (7.9% yn is yn Abertawe). Yn

ystod y flwyddyn 2019-2020, cododd yr enillion llawn-amser blynyddol cyfartalog yn Abertawe 3.3% – fel y dangosir isod – ond mae dadansoddiad o newid diweddar, byrdymor, yn fwy cymhleth oherwydd y pandemig.

Tabl S4: Enillion blynyddol cyfartalog yn Abertawe, Ebrill 2021

| Enillion BLYNYDDOL | Abertawe | Abertawe (% o Gymru) | Cymru | Y DU | Abertawe (Gweithle) |
|--|------------------|-------------------------|------------------|------------------|------------------------|
| Gweithwyr AMSER LLAWN % y newid ar y flwyddyn flaenorol | £28,827 +3.3% | 99.9 - | £28,861 +1.2% | £31,285 -0.6% | £28,672 +5.2% |
| Gwryw amser llawn | £28,856 | 94.9 | £30,420 | £33,414 | £28,525 |
| Benyw amser llawn | £28,769 | 106.3 | £27,065 | £28,305 | £28,688 |
| Gweithwyr RHAN-AMSER | £10,405 | 90.2 | £11,541 | £11,310 | £11,377 |
| POB gweithiwr cyflogedig | £23,383 | 97.4 | £23,996 | £25,971 | £22,995 |

Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE), 2021, SYG.

Nid yw'r data uchod ar Enillion Blynyddol yn dangos dadansoddiad o enillion yn ôl sector cyflogaeth na rhyw, nac yn ôl nodweddion gwarchoddedig. Nid yw chwaith yn rhoi unrhyw wybodaeth am sicrwydd swyddi na chontractau dim oriau, a all arwain at lefelau enillion anwadal ac ansicrwydd o ran cyflogaeth. Mae tueddiadau enillion a chyflogaeth hefyd yn cael eu dadansoddi yn y bennod ar yr Economi yn yr asesiad hwn.

Tlodi Mewn Gwaith

Roedd y gyfradd tlodi mewn gwaith yng Nghymru (a ddiffinnir yma fel cyfran y gweithwyr sydd mewn tlodi) yn 14% ar gyfer 2016-17 i 2018-19. Mae gan Gymru un o'r cyfraddau tlodi mewn gwaith uchaf, ar ôl Llundain (17%). Roedd gweithwyr ym maes bwyd, cyfanwerthu a manwerthu yn wynebu'r cyfraddau tlodi mewn gwaith uchaf yn ôl diwydiant.

Mae tlodi incwm cymharol ar gyfer oedolion o oedran gweithio yn parhau'n gyson yng Nghymru, ond mae'n dal i fod yn uwch na'r hyn a welir yng ngwledydd eraill y DU. Rhwng 2017 a 2020, roedd 22% o'r oedolion o oedran gweithio yng Nghymru yn byw mewn tlodi incwm cymharol.

Y Nifer sy'n Hawlio Budd-daliadau

Mae yna fwch parhaus, cydnabyddedig rhwng y nifer sydd â hawl i fudd-daliadau cysylltiedig ag incwm a chyflogaeth, a'r nifer sy'n eu hawlio. Mae amcangyfrifon cenedlaethol yn dangos y canlynol:

- bod chwech o bob deg o'r rheiny a oedd â hawl i Gredyd Pensiwn wedi hawlio'r budd-dal;
- nad oedd hyd at filiwn o deuluoedd a oedd â hawl i gael Credyd Pensiwn wedi ei hawlio;
- bod wyth o bob deg o'r rheiny a oedd â hawl i Fudd-dal Tai wedi hawlio'r budd-dal;
- nad oedd hyd at 1.1 miliwn o deuluoedd a oedd â hawl i gael Budd-dal Tai wedi ei hawlio;
- bod naw o bob deg o'r rheiny a oedd â hawl i Gymhorthdal Incwm neu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth Cysylltiedig ag Incwm wedi hawlio'r budd-dal;

- nad oedd hyd at 0.3 miliwn o deuluoedd a oedd â hawl i gael y Cymhorthdal Incwm/Lwfans Cyflogaeth a Chymorth hwn wedi ei hawlio.

Safonau Isafswm Incwm

Yn ôl sefydliad Joseph Rowntree, mae safon byw ofynnol yn y DU heddiw yn cynnwys bwyd, dillad a lloches, ond mae'n fwy na dim ond hynny. Mae'n golygu meddu ar yr hyn y mae arnoch ei angen er mwyn sicrhau'r cyfleoedd a'r dewisiadau angenrheidiol i gymryd rhan mewn cymdeithas. Yn 2021, mae llawer o bobl ar incwm isel yn cael eu hatal rhag cyrraedd y Safon Isafswm Incwm oherwydd gwaith ansefydlog, tâl annigonol a system fudd-daliadau nad yw'n darparu sicrwydd incwm digonol.

Mae angen i berson sengl ennill £20,400 y flwyddyn i gyrraedd safon byw dderbyniol ofynnol yn 2021, ond nid yw'r Cyflog Byw Cenedlaethol yn ddigon uchel i gyrraedd y safon hon gan ei fod yn talu tua £17,400 i rywun sy'n gweithio'n llawn-amser. Mae angen i gwpl â dau o blant ennill £34,200 rhyngddynt, a dim ond os yw'r ddau riant yn gweithio'n llawn-amser y gallant gyflawni hyn ar y Cyflog Byw Cenedlaethol. Yn ymarferol, dim ond ychydig dros un o bob pedwar (28%) o gyplau â phlant sy'n gweithio'n llawn-amser, yn aml am nad oes yna swyddi addas ar gael neu oherwydd argaeledd gofal plant neu statws iechyd y rhieni neu'r plant (Arolwg Adnoddau Teuluol, 2018-19).

Mae teuluoedd di-waith sydd â phlant, ac sy'n cael Credyd Cynhwysol, tua 40% yn brin o'r incwm y mae arnynt ei angen, ac mae'r rhai heb blant 60% yn brin. Mae oedolion neu gyplau o oedran gweithio sy'n dibynnu ar fudd-daliadau diweithdra yn cael llai na hanner yr hyn y mae arnynt ei angen trwy'r Credyd Cynhwysol. Heb y cynnydd o £20 yr wythnos yn y Credyd Cynhwysol, sy'n cael ei gynnwys yma, mae'r gyfran yn disgyn i oddeutu traean. Mae'r rhai sy'n dibynnu ar Gymhorthdal Incwm/Lwfans Ceisio Gwaith yn y system budd-daliadau flaenorol eisoes ar incwm eithriadol o isel o gymharu â'r angen. Gyda'r Credyd Cynhwysol bellach wedi cael ei dorri, bydd yr un peth yn wir yn achos hawl wyr y Credyd Cynhwysol.

Mae'r Cyflog Byw Cenedlaethol yn berthnasol i bobl dros 25 oed yn unig, ac mae'r cyfraddau isafswm cyflog yn is ar gyfer pobl dan 25 oed. Mae gwaith yn gwella incwm yn sylweddol, hyd yn oed yn achos swyddi rhan-amser ar y Cyflog Byw Cenedlaethol, ond, yn gyffredinol, nid yw'n galluogi pobl i gyrraedd y Safon Isafswm Incwm o hyd, ac mae hynny'n atal miliynau o aelwydydd rhag cyrraedd yr incwm a ystyrir yn ddigonol gan gymdeithas. Hyd yn oed wrth weithio'n llawn-amser, mae person sengl 14% yn brin o'r safon hon, ac mae unig riant â dau blentyn 12% yn brin; fodd bynnag, gall cwpl â dau blentyn gyrraedd y safon os yw'r ddau riant yn gweithio'n llawn-amser. I'r rhai sydd â swyddi rhan-amser, mae'r diffygion yn llawer mwy, gan danlinellu effeithiau niweidiol gwaith ansicr ac achlysurol.

Canfu arolwg diweddar gan Fair By Design fod yr effaith y mae cyflogau a budd-daliadau sydd heb newid yn ystod y deng mlynedd ddiwethaf wedi ei chael ar aelwydydd incwm isel yn glir. Yn ôl yr arolwg hwn, y rhai dan 35 oed a oedd yn ei chael yn anodd ac a oedd fwyaf tebygol o fod ar ei hôl hi o ran eu hymrwymiaadau, neu o fynd heb nwy neu drydan, a'r rhai dros 65 oed – yn enwedig y rhai a oedd wedi ymddeol – a oedd leiaf tebygol o fod yn y sefyllfa hon. Efallai nad yw'n syndod bod perchnogion tai yn ymdopi'n well na'r rhai a oedd yn rhentu. Roedd pymtheg y cant o'r rheiny mewn tai cymdeithasol yn mynd heb nwy neu drydan yn aml, a

hynny oherwydd cyfyngiadau ariannol. Roedd y rhai nad oeddent yn gallu gweithio hefyd yn ei chael yn anodd, gyda bron traean (30%) ar ei hôl hi yn aml o ran talu biliau.

Y Cyflog Byw

Mae cyfrifiad y Cyflog Byw yn ystyried ymchwil Sefydliad Joseph Rowntree i'r Safon Isafswm Incwm, lle mae aelodau'r cyhoedd, ar sail gwybodaeth gan arbenigwyr, yn nodi'r hyn y mae ei angen ar gyfer safon byw dderbyniol ofynnol. Caiff hyn wedyn ei gyfuno â dadansoddiad o gostau byw gwirioneddol ar gyfer mathau gwahanol o deuluoedd, gan gynnwys hanfodion megis rhent, y dreth gyngor, gofal plant a thrafnidiaeth. Mae Cyflog Byw presennol y DU yn cynrychioli cyfartaledd y cyflog fesul awr sy'n ofynnol gan oedolion mewn mathau gwahanol o deuluoedd i gyrraedd lefel yr incwm a all brynu'r fasedged o nwyddau a gwasanaethau sy'n berthnasol i'r Safon Isafswm Incwm. Ar ôl ystyried y mathau gwahanol o gymorth gan y llywodraeth y mae gan deuluoedd hawl iddynt, er enghraifft credydau treth, Budd-dal Tai ac oriau gofal plant rhad ac am ddim, y Gyfradd Cyflog Byw gyfredol (2020-21) yw £10.85 (Llundain) neu £9.50 (y tu allan i Lundain); ac mae cyfraddau newydd ar fin dod. Mae'r cyfraddau'n berthnasol i bob gweithiwr dros 18 oed – i gydnabod y ffaith bod pobl ifanc yn wynebu'r un costau byw â phawb arall.

ii. Mynediad at wasanaethau, cyfleoedd ac adnoddau angenrheidiol

Nid incwm y cartref yw'r unig benderfynydd o ran tlodi. Gall pobl brofi tlodi os nad oes ganddynt fynediad digonol at wasanaethau ac adnoddau angenrheidiol megis bwyd, tanwydd a'r Rhyngwrwd. Mae pobl sy'n byw mewn tlodi yn aml yn ddarostyngedig i'r "Premiwm Tlodi", sy'n golygu y gallant dalu mwy am nwyddau a gwasanaethau na pobl eraill, a'u bod yn aml mewn mwy o berygl o wynebu dyled a chredyd cost uchel.

Allgáu Digidol

Gellir diffinio allgáu digidol fel 'diffyg mynediad at weithgarwch digidol, neu fethu cymryd rhan mewn gweithgarwch o'r fath, sy'n eithrio pobl rhag cael cyfle cyfartal i gymryd rhan mewn bywyd cymdeithasol, gwleidyddol ac economaidd'. Nodweddir allgáu digidol gan ddiffyg mynediad at gysylltedd, dyfeisiau, sgiliau a hyder, ynghyd â diffyg cynllunio digidol cynhwysol sy'n rhoi ystyriaeth i anghenion hygyrchedd.

Mae pandemig COVID-19 wedi amlygu'r gagendor digidol, ac wedi'i waethygu. Cyn y pandemig, roedd pobl nad oeddent yn gallu fforddio cyfarpar neu fynediad i'r Rhyngwrwd, neu nad oedd ganddynt sgiliau digidol, eisoes dan anfantais sylweddol, er enghraifft o ran chwilio am waith, cael cymorth ariannol, cysylltu â sefydliadau a gwasanaethau cyhoeddus, a phrynu nwyddau ar-lein. Gall bod ar-lein hefyd leihau teimladau o arwahanrwydd ac unigrwydd trwy helpu unigolion i gadw mewn cysylltiad â ffrindiau neu deulu a rhwydweithiau cymorth eraill, gan wella iechyd a llesiant. Y rhai a fyddai'n elwa fwyaf o ddefnyddio gwasanaethau digidol sydd leiaf tebygol o allu gwneud hynny; y rhai sydd eisoes dan anfantais – oherwydd oedran, addysg, incwm, anabledd, neu ddiweithdra – sydd fwyaf tebygol o fod ar eu colled, ac mae hyn yn cynyddu anghydraddoldeb cymdeithasol ymhellach.

Mae'r newid cyflymach o ran symud gwasanaethau cyhoeddus i lwyfannau ar-lein yn bygwth cynyddu'r bwlch ymhellach rhwng y rhai sydd wedi'u cynnwys yn ddigidol a'r rhai sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol. Mae'r pandemig wedi dangos pa mor hanfodol ydyw i'r rhai sy'n cynllunio ac yn datblygu gwasanaethau ystyried effaith y byd digidol ar y rhai nad oes ganddynt y sgiliau digidol sylfaenol, ac y mae mynediad at dechnoleg a/neu gysylltedd, ynghyd â'i fforddiadwyedd, yn rhwystr iddynt.

Datgelodd Arolwg Cenedlaethol Cymru 2019-20 fod 90% o bobl yn defnyddio'r Rhyngwrwd, sy'n debyg i'r ffigur ar gyfer 2018-19. Dangosodd yr arolwg y canlynol:

- bod 76% o bobl wedi defnyddio'r Rhyngwrwd sawl gwaith y dydd yn 2019-20 o gymharu ag 88% rhwng mis Mai a mis Medi 2020;
- bod 73% o ddefnyddwyr y Rhyngwrwd wedi amlygu pum sgîl digidol yn ystod y tri mis blaenorol. Roeddent yn fwy tebygol o fod rhwng 16 a 49 oed, ac o fod wedi cael addysg hyd at lefel gradd neu uwch;
- mai dim ond 49% o'r rhai heb unrhyw gymwysterau a amlygodd y pum sgîl digidol yn ystod y tri mis diwethaf;
- bod y rhai a oedd yn economaidd anweithgar yn llai tebygol o edrych ar wefan (71%) na'r rhai mewn cyflogaeth (82%);
- bod pobl sy'n byw mewn cartrefi sy'n cael eu rhentu'n breifat neu gartrefi perchenfeddianwyr yn fwy tebygol o edrych ar wefannau gwasanaethau cyhoeddus na'r rhai sy'n byw mewn tai cymdeithasol.

Tlodi Data

Mae tlodi data yn golygu methu byw'n dda mewn byd digidol, gan gynnwys methu ymgeisio am swyddi ar-lein, na bancio ar-lein, na chyrchu gwasanaethau hanfodol megis iechyd a budd-daliadau. Mae'n golygu na all plant fforddio gwneud gwaith ysgol ar-lein, na chadw mewn cysylltiad â ffrindiau. Mae tlodi data yn gadael cymunedau ar ôl. Mae'n elfen hanfodol ond penodol o allgáu digidol, sy'n gofyn am gamau gweithredu a chymorth penodol. Cyn y pandemig, ni fyddid wedi ystyried tlodi data yn fater o gymaint o bwys i gynifer o bobl gan y gallai plant gyrchu gweithgareddau ar-lein yn yr ysgol neu mewn llyfrgelloedd, a chan fod gan gartrefi, ar y cyfan, gontractau data a oedd yn diwallu eu hanghenion. Bellach, cydnabyddir bod yr anghenion hynny wedi cynyddu, gyda mwy o aelodau cartrefi yn rhannu dyfeisiau, lwfansau data a lled band band eang. Fwy a mwy, mae aelwydydd yn gorfod dewis rhwng talu am WiFi/data symudol a thalu am hanfodion eraill y cartref megis bwyd a thanwydd.

Yn ôl Arolwg Nesta, *Data Poverty in Scotland and Wales* (2021):

- Mae un o bob saith oedolyn yn yr Alban a Chymru yn profi tlodi data.
- Yn aml, nid yw anghenion unigolion a theuluoedd o ran data yn cael eu diwallu'n ddigonol. Yn achos un o bob deg unigolyn sydd â chontract symudol misol, mae ei ddata yn dod i ben cyn diwedd y mis, ac mae aelwydydd mwy yn cael trafferth diwallu anghenion mawr iawn am ddata.
- Mae anghenion ac amgylchiadau gwahanol o ran tlodi data yn gofyn am atebion gwahanol: mae rhai pobl yn cael eu cyfyngu gan incwm a diffyg fforddiadwyedd, tra bo gan eraill ofynion sylweddol o ran data neu ddyfeisiau, yn enwedig mewn

aelwydydd mwy. Mae signal gwael yn y cartref yn broblem gyffredin, tra bo gan eraill anghenion o ran llythrennedd ariannol a digidol.

- Mae'n llawer mwy tebygol bod gan y rhai sy'n profi tlodi data incwm cartref sy'n is nag £20,000.
- Mae grwpiau dan anfantais yn fwy tebygol o brofi tlodi data, gan gynnwys: oedolion sy'n byw mewn cymdogaethau difreintiedig, pobl ddi-waith, gweithwyr rhan-amser, pobl sydd ag anabledau, oedolion sy'n teimlo'n llai hyderus wrth ddarllen Saesneg, oedolion sy'n byw gyda phlant, ac aelwydydd mwy.
- Mae llythrennedd ariannol a llythrennedd data yn cymhlethu tlodi data: dim ond tua hanner y rheiny y cyfwelwyd â nhw a oedd yn teimlo eu bod yn gallu chwilio am y fargen orau yn achos data. Mae'n bosibl nad yw pobl sydd â llythrennedd digidol ac ariannol isel, a phŵer prynu gwan, yn sylweddoli bod yna fargeinion gwell ar gael iddynt.
- Mae mynediad cyhoeddus at WiFi yn arbennig o bwysig i'r rhai sy'n profi tlodi data: cyn COVID-19, roedd WiFi cyhoeddus yn darparu rhwyd ddiogelwch, gydag un o bob pum unigolyn a oedd yn profi tlodi data yn defnyddio WiFi mewn llyfrgelloedd cyhoeddus yn rheolaidd. Arweiniodd y cyfyngiadau at golli WiFi cyhoeddus mewn siopau, ar drafnidiaeth gyhoeddus ac mewn llyfrgelloedd a chyfleusterau hamdden, gan leihau'r defnydd o ffynonellau WiFi cyhoeddus gymaint â thraean o gymharu â'r lefel cyn y pandemig.

Yn Abertawe, mae gwasanaethau cyhoeddus a sefydliadau trydydd sector wedi cymryd amryw o gamau i geisio lliniaru effaith allgáu digidol yn lleol, yn enwedig yn ystod y pandemig. Mae hyn wedi cynnwys, er enghraifft, y fenter Galwadau Cymunedol, lle mae Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe wedi ffurfio partneriaeth â Hubbub ac O2 i ddod â Galw Cymunedol i Abertawe. Lansiodd Galw Cymunedol yn lleol ym mis Mawrth 2021 i ddarparu dyfeisiau a chysylltedd i'r rhai y nodwyd bod ganddynt anghenion digidol heb eu diwallu; unigolion a fydd hefyd yn gallu cael hyfforddiant ar sgiliau digidol mewn canolfannau cymorth lleol. At hynny, yn rhan o brosiect 'Ein Cymdogaeth', mae Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe, mewn partneriaeth â Cymunedau Digidol Cymru, yn cynnig cymorth digidol i bobl y mae arnynt angen cymorth ac arweiniad i ddefnyddio technoleg. Mae gwirfoddolwyr yn cael eu hyfforddi a'u cefnogi i gynnig cymorth wythnosol dros y ffôn i bobl sydd am gael rhywfaint o help i ddefnyddio technoleg anghyfarwydd (er enghraifft llechi, ffonau neu liniaduron). Mae Tîm Dysgu Gydol Oes Cyngor Abertawe hefyd yn parhau i gynnig cymorth i roi pobl ar-lein, ynghyd â chysiau mewn TG a Llythrennedd Digidol.

Tlodi Bwyd

Mae tlodi bwyd ar gynydd, fel y dangosir gan y cynnydd yn nifer y banciau bwyd, ynghyd â'r rheiny y maent yn eu cynnal. Amcangyfrifir bod nifer y bobl a ddefnyddiodd fanciau bwyd yn cyfrif am 2.5% o holl gartrefi'r DU (700,000) yn ystod 2019-20. Yn ystod 2020-21, rhoddodd banciau bwyd yn rhwydwaith Ymddiriedolaeth Trussell tua 2.5 miliwn o barseli bwyd brys i bobl mewn argyfwng yn y DU; roedd hyn yn gynydd o 33% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, ac yn gynydd o dros 200% o gymharu â 2014-15. Yn 2020-21, cafodd 980,082 o blant eu bwydo o barseli bwyd gan y rhwydwaith, sef cynnydd o 36% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Rhwng 2019-20 a 2020-21, gwelodd Cymru gynydd o 8% yn nifer y parseli bwyd a

ddosbarthwyd, a gwelwyd y chweched cynnydd mwyaf (o blith 22 o awdurdodau lleol) yn Abertawe.

"Tlodi: o ganlyniad i weithio fel gwirfoddolwr yn ystod y cyfnod clo, sylweddolais faint o bobl sy'n dibynnu ar fanciau bwyd ac elusennau i oroesi!" – ymatebydd i'r arolwg.

Ychwanegodd rhwydwaith Ymddiriedolaeth Trussell ganolfan ddsbarthu newydd yn Abertawe yn ystod 2020, gan gynyddu'r nifer o chwech i saith, a bu i nifer o fanciau bwyd annibynnol gychwyn i helpu gyda'r galw am fwyd. Gwelwyd cynnydd o 27% yng nghyfanswm nifer y parseli a ddsbarthwyd yn Abertawe trwy'r rhwydwaith rhwng 2019-20 a 2020-21, gydag 11,877 o barseli yn cael eu ddsbarthu. Rhoddwyd 4,195 o barseli i blant a 7,682 i oedolion.

Tlodi Tanwydd

Mae costau ynni cynyddol, incymau isel a chartrefi aneffeithlon o ran ynni yn creu tlodi tanwydd, ac mae'n rhaid i deuluoedd wneud penderfyniadau anodd ynghylch p'un ai i wresogi eu cartref neu fwydo eu plant. Mae National Energy Action (NEA) yn amcangyfrif y bydd 22,500 yn rhagor o aelwydydd Cymru mewn tlodi tanwydd yn ystod gaeaf 2021 oherwydd cynnydd mewn prisiau ynni.

Yng Nghymru, roedd yna 2,000 o farwolaethau ychwanegol yn ystod gaeaf 2019-20 (ac eithrio marwolaethau cysylltiedig â COVID-19), ac mae Sefydliad Iechyd y Byd yn amcangyfrif bod tua 30% o'r marwolaethau ychwanegol yn ystod y gaeaf yn ganlyniad i gartrefi oer (sy'n awgrymu y gallai tua 600 o farwolaethau yng Nghymru fod yn ganlyniad i gartrefi oer). Mae data o 2018 yn awgrymu bod 10% o aelwydydd mewn tlodi tanwydd yn Abertawe, sy'n gyfran fymryn yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, sef 12%. Mae'r lefelau uchaf o dlodi tanwydd i'w gweld yng Ngwynedd (23%) a Cheredigion (21%), ac mae'r lefelau isaf i'w gweld ym Mhen-y-bont ar Ogwr a Thorfaen (8%).

Dyled

Cyn y pandemig, amcangyfrifwyd bod tua 193,000 o bobl yng Nghymru, sef 8% o'r holl oedolion, mewn drwgddyled, a bod 412,000 o bobl (16% o'r boblogaeth) yn dangos arwyddion o anhawster ariannol. Yn 2018, dywedodd saith o bob deg o bobl a drodd at elusen ddyledion StepChange am gyngor mai'r prif reswm eu bod wedi mynd i ddrwgddyled oedd oherwydd digwyddiad bywyd neu sioc. Adlewyrchir hyn hefyd mewn arolwg cynrychioliadol o'r boblogaeth ehangach: roedd pobl a oedd wedi profi digwyddiad bywyd yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf deirgwaith yn fwy tebygol o fod mewn drwgddyled na'r rhai nad oeddent wedi profi digwyddiad bywyd, ac roedd digwyddiadau bywyd ychwanegol yn cynyddu'r tebygolrwydd o fynd i ddrwgddyled.

Erbyn mis Tachwedd 2020, roedd y Ganolfan Cyngor ar Bopeth yn amcangyfrif bod ôl-ddyledion gwerth £73 miliwn ar filiau aelwydydd, er enghraifft rhent, ynni neu'r dreth gyngor, wedi cronni oddi ar yr achosion cyntaf o'r coronafeirws, gyda thua hanner yr ôl-ddyledion hyn yn ddyledion newydd a oedd wedi cronni o ganlyniad i'r pandemig. Roedd dros 280,000 o

bobl yng Nghymru ar ei hôl hi o ran taliadau hyd hynny. Nid yw traean (34%) y bobl sydd mewn dyled o ran biliau'r aelwyd wedi gallu fforddio bwyd na hanfodion eraill yn y cyfnod ers dechrau'r pandemig. Pobl y mae'r coronafeirws wedi effeithio ar eu gwaith, aelwydydd â phlant, a phobl ag anabledau sydd fwyaf tebygol o fod ar ei hôl hi.

Mae effaith economaidd COVID-19 wedi peri i sefyllfa ariannol llawer o deuluoedd yng Nghymru ddirywio, gan wthio rhai i ddrwgddyled am y tro cyntaf, a chynyddu swm y ddyled sy'n ddyledus gan rai o'r rheiny a oedd eisoes yn ei chael yn anodd. Ledled Cymru, roedd 130,000 o aelwydydd (10% o'r holl aelwydydd) ar ei hôl hi o ran talu bil rhwng misoedd Ionawr a Mai 2021. Yn ystod yr un cyfnod, roedd 230,000 o aelwydydd (17%) wedi benthyca arian. Roedd aelwydydd incwm isel, rhentwyr, pobl anabl, pobl 25-49 oed, unig rieni a chartrefi BAME i gyd mewn mwy o berygl o fod mewn drwgddyled cyn y pandemig, ac mae tystiolaeth yn awgrymu bod y sefyllfa ar gyfer y grwpiau risg hyn wedi gwaethygu dros gyfnod y pandemig.

Roedd cynlluniau brys Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, er enghraifft Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai a'r Gronfa Cymorth Dewisol, eisoes yn chwarae rhan bwysig gan eu bod yn helpu aelwydydd i osgoi drwgddyledion trwy ddarparu grant i aelwydydd a oedd yn brwydro i gael dau benllinyn ynghyd. Atgyfnerthwyd y ddau gynllun hyn dros gyfnod y pandemig.

Premiwm Tlodi

Ar gyfartaledd, mae aelwydydd incwm isel yn mynd i £478 o gostau ychwanegol trwy breimymau tloidi (2019). Cyfrifwyd y cyfartaledd hwn trwy gymhwyso cost enwol pob premiwm yn unol â pha mor aml y digwydd y premiwm hwnnw, a dybir trwy ganlyniadau arolygon. Y ffigur cyfwerth ar gyfer y preimymau hyn yn 2016 oedd £432; fodd bynnag, dylid nodi nad yw symiau cyfartalog y premiwm, yn gyffredinol nac o ran ei gydrannau, yn uniongyrchol gymaradwy oherwydd newidiadau i fethodoleg yr arolwg. Mae rhai agweddau andwyol ar y premiwm tloidi, yn enwedig trafndiaeth, yn parhau i fod yn uchel iawn yn Abertawe.

Aeth Fair by Design a Turn2Us ati i gomisiynu astudiaeth ymchwil dulliau cymysg, tri cham i archwilio newidiadau diweddar yn nhirwedd y premiwm tloidi (2020). Dangosodd yr astudiaeth fod aelwydydd incwm isel yn treulio'r hyn sy'n cyfateb i 14 wythnos o siopa bwyd dim ond i gyrchu'r un gwasanaethau â'r rheiny a oedd yn well eu byd. Canfu'r ymchwil:

- Bod pobl a oedd yn cael trafferthion ariannol yn talu £478 y flwyddyn yn ychwanegol am hanfodion megis ynni, credyd ac yswiriant oherwydd y premiwm tloidi;
- Mai yswiriant car oedd yn cyfrannu fwyaf at y premiwm tloidi, gyda rhai yn talu bron £300 yn fwy bob blwyddyn oherwydd eu bod yn byw mewn ardal ddifreintiedig. Gallai costau ychwanegol am dalu'n fisol yn hytrach nag yn flynyddol olygu £160 yn rhagor, gan arwain at gyfanswm premiwm tloidi o bron £500;
- Bod credyd yn ddrud ar gyfer unigolion ar incwm isel, ni waeth beth yw ffurf y credyd hwnnw. Mae cerdyn credyd eilaidd yn costio tua £200 yn fwy y flwyddyn, ac mae benthyciadau personol yn costio dros £500 yn ychwanegol;

- Bod y tariff rhagdalau gorau ar gyfer ynni yn dal i fod £131 yn ddrutach na'r tariff ar-lein yn unig gorau. Fodd bynnag, gallai bod ar dariff sefydlog fod yn gostus o hyd, a gallai peidio â thalu trwy ddebyd uniongyrchol gostio hyd at £143 yn fwy y flwyddyn;
- Bod y profiad o'r premiwm tlodi yn amrywio ymhlith grwpiau oedran gwahanol. Roedd pobl dan 35 oed, er enghraifft, yn cael traferth gyda chostau perchnogi car. Yn achos pobl dros 65 oed, roedd y premiwm tlodi yn bodoli oherwydd allgáu digidol ac am na allent gyrchu'r farchnad ac ymgysylltu â hi ar-lein i newid i'r fargen orau o ran ynni neu yswiriant. Roedd cyfraddau newid ymhlith teuluoedd â phlant ifanc yn tueddu i fod yn uwch, ac roeddent yn fwy tebygol o ddefnyddio mathau drud o gredyd defnyddwyr ar gyfer nwyddau cartref.

Tlodi Plant

Mae tlodi plant yn cynyddu, gyda 4.3 miliwn o blant y DU yn byw mewn tlodi ym mis Mawrth 2020, sef dros hanner miliwn yn fwy na phum mlynedd ynghynt. Gwelodd Abertawe un o'r cynyddiadau isaf mewn cyfraddau tlodi plant yng Nghymru, sef cynnydd o 28.8% yn 2014-15 i 29.8% yn 2019-20. Fodd bynnag, mae hyn yn dal i olygu bod tri o bob deg plentyn yn Abertawe yn byw mewn tlodi. Mae gan Gymru y gyfradd tlodi plant waethaf o blith holl genhedloedd y DU, ac mae 31% o blant 'nawr yn byw o dan y llinell dlodi. Mae 20 o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru wedi gweld cynnydd mewn tlodi plant yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf.

Roedd 75% o'r plant a oedd yn byw mewn tlodi yn 2019-20 ar aelwydydd lle roedd o leiaf un oedolyn yn gweithio; cynnydd mawr o 61% yn 2014-15. Mae swyddi cyflog isel, rhewi budd-daliadau mewn gwaith, a chostau tai uchel yn golygu nad yw cyflogau bellach yn ddigon i gadw teuluoedd allan o dlodi. Mae Abertawe yn y 18^{fed} safle o blith y 22 o ardaloedd awdurdodau lleol yng Nghymru o ran cyfraddau tlodi plant. Fodd bynnag, ar lefel etholaeth, mae Dwyrain Abertawe yn y 12^{fed} safle ac mae Gorllewin Abertawe yn yr 17^{eg} safle o blith y 40 o etholaethau.

Mae nifer y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn cynyddu. Yn Abertawe, roedd 23.6% o'r disgyblion 5 i 15 oed yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn 2020, sy'n gynydd o 19.4% oddi ar 2017. Yn 2019, cyflwynodd Llywodraeth Cymru y cynllun Amddiffyn wrth Bontio ar gyfer Prydau Ysgol Am Ddim, sy'n golygu y gall disgyblion gael prydau ysgol am ddim os oeddent yn gymwys ar unrhyw adeg er mis Ebrill 2019. Roedd 8,264 o ddisgyblion rhwng 5 a 15 oed, neu 28.8%, yn gymwys neu'n cael budd o amddiffyniad wrth bontio yn 2020. Mae nifer y disgyblion cymwys yn amrywio'n sylweddol ledled Abertawe, gyda'r gyfran uchaf yn byw ym Mayhill, Blaen-y-maes a Phen-lan (69%, 68% a 56% yn y drefn honno), a'r gyfran isaf yn byw yn y Glais, Llan-y-tair-mair a Newton (1-3%).

Mae plant yn dechrau dysgu sgiliau ac arferion hanfodol yn ymwneud ag arian rhwng tair a saith oed. Mae ymchwil flaenorol wedi dangos bod gallu ariannol unigolyn pan fydd yn cyrraedd annibyniaeth ariannol yn ganlyniad, i raddau helaeth, i'r hyn y bydd yn ei weld, ei ddysgu a'i brofi yn ystod plentyndod a llencyndod. Canfuwyd y canlynol gan Arolwg 2019 o Allu Ariannol Plant a Phobl Ifanc:

- Bod plant yng Nghymru yn ymwneud mwy â rheoli eu harian, gan gynnwys eu cyfrif banc, na'r DU yn gyffredinol;

- Bod cyfran y plant yng Nghymru sy'n cael elfennau allweddol addysg ariannol yn yr ysgol neu gartref wedi cynyddu ychydig oddi ar 2016, o 48% i 50% yn 2019.
- Bod gan blant 12 i 17 oed yng Nghymru yr un lefel o hyder wrth reoli eu harian â phlant yn y DU (46%).

Yng Nghymru, bu yna newidiadau cadarnhaol eraill er 2016, yn arbennig: bod 71% o blant 14 i 17 oed yn defnyddio system i gadw golwg ar eu gwariant, sef cynnydd o 8 pwynt canrannol oddi ar 2016; dim ond 20% o'r plant 16 i 17 oed a chanddynt gyfrif banc sydd heb adneuo arian erioed, yr isaf o blith pob cenedl, a gwelliant o 8 pwynt canrannol oddi ar 2016; a dywed ymhell dros draean (37%) o'r plant rhwng wyth ac 17 oed eu bod yn rhoi arian heibio mewn cynilion o leiaf bob mis, sy'n gynydd o 31% yn 2016.

"Dylai pawb gael mynediad at y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt i fyw bywyd sefydlog a chyfforddus" – ymatebydd i'r arolwg.

Tueddiadau yn y Dyfodol a Rhagolygon ar gyfer Abertawe

Dengys dadansoddiad rhanbarthol gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (NIESR), yn rhan o ragolygon economaidd chwarterol diweddaraf y DU, y rhagwelir y bydd cyfraddau diweithdra yng Nghymru yn codi'n sydyn yn ystod y cyfnod 2021-2023 i tua 6% neu'n uwch, o gymharu â chyfartaledd o 5.2% ar gyfer y DU. Mae cyfranogiad y llafurlu hefyd dan straen. Rhagwelir y bydd Cymru yn gweld cynnydd sydyn mewn anweithgarwch economaidd trwy gydol y cyfnod 2021-2023, gyda chyfraddau'r anweithgarwch disgwylidig yn codi i dros 40% yn ystod y cyfnod, o gymharu â chyfartaledd o 37% ar gyfer y DU.

Wrth i dwf economaidd gyflymu ar ôl i'r cyfyngiadau symud gael eu llacio ledled y DU, bydd yr adferiad yn y gwledydd a'r rhanbarthau datganoledig yn amrywio'n fawr. Rhagwelir mai prin y bydd Cymru yn dal i fyny â'i lefelau allbwn economaidd cyn y pandemig, fel y'u mesurir gan Werth Ychwanegol Gros (GVA), erbyn diwedd 2024, sef flwyddyn yn ddiweddarach na Lloegr a'r Alban. Mae hyn yn dal i fod ymhell islaw'r tueddiadau cyn y pandemig, ac mae cynhyrchiant isel yn parhau.

Mae Adroddiad Sefydliad Joseph Rowntree *UK Poverty 2020/21* yn nodi bod 14.4 miliwn o bobl yn y DU wedi'u dal mewn tlodi cyn y coronafeirws, sef mwy nag un o bob pump. Bu tlodi plant a thlodi mewn gwaith ar gynydd ers sawl blwyddyn, ac roedd rhai grwpiau yn anghymesur o debygol o gael eu tynnu i dlodi. Mae nifer o'r grwpiau hynny, a oedd eisoes yn wynebu'r her fwyaf o ran cael dau benllinyn ynghyd, hefyd wedi dioddef y rhan fwyaf o effeithiau economaidd COVID-19 a'r rhan fwyaf o'i effeithiau ar iechyd. Mae'r grwpiau hyn yn cynnwys:

- Gweithwyr rhan-amser, gweithwyr ar gyflog isel, a sectorau lle mae yna gyfraddau llawer uwch o dlodi mewn gwaith, er enghraifft y gwasanaethau llety a bwyd;
- Aelwydydd pobl dduon, pobl Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig;
- Unig rieni – menywod yn bennaf, y mae llawer ohonynt yn gweithio yn y sectorau a gafodd eu taro waethaf, sy'n fwy dibynnol ar swyddi lleol, ac sy'n fwy tebygol o fod wedi cael trafferth gyda gofal plant yn ystod y cyfyngiadau symud;

- Rhentwyr preifat, sydd â chostau tai uwch, a rhentwyr cymdeithasol, sy'n tueddu i fod ar incwm is – y ddwy elfen yn arwain at gyfraddau tlodi uwch. Mae rhentwyr mewn gwaith hefyd yn fwy tebygol o fod mewn sector y mae'r coronafeirws wedi cael mwy o effaith arno;
- Ardaloedd lle roedd yna eisoes lefelau uwch o ddiweithdra, tlodi ac amddifadedd.

Roedd adroddiad Sefydliad Bevan, *A Snapshot of Poverty in Spring 2021 (Wales)*, yn nodi'r canlynol:

- Bod incwm un o bob pum cartref yng Nghymru wedi gostwng rhwng mis Ionawr a mis Mai 2021, a hynny ar ben gostyngiadau cynharach yn ystod 2020;
- Bod mwy nag un o bob pum aelwyd sydd ag incwm net islaw £20,000 wedi gweld eu hincwm yn gostwng oddi ar fis Ionawr 2021;
- Bod mwy nag un o bob pum aelwyd sydd ag incwm net o dros £40,000 wedi gweld eu hincwm yn cynyddu;
- Bod aelwydydd ar hyd a lled Cymru wedi gweld eu costau byw yn cynyddu. Mae costau cynyddol wedi effeithio'n arbennig ar rentwyr cymdeithasol, yn ogystal â rhieni/gwarcheidwaid;
- Bod 43% o aelwydydd yn gwario mwy ar wres, trydan a dŵr;
- Bod 38% o aelwydydd yn gwario mwy ar fwyd;
- Bod 20% o aelwydydd yn gwario mwy ar gostau'r Rhyngwrwd neu ar ddyfeisiau i gyrchu'r Rhyngwrwd;
- Bod rhentwyr cymdeithasol wedi bod bedair gwaith yn fwy tebygol o weld eu costau tai yn codi na phobl sy'n byw mewn deiliadaethau eraill;
- Bod aelwydydd â phlant hefyd wedi wynebu pwysau ar eu costau byw, gan eu bod yn fwy tebygol o adrodd am wariant uwch ar eitemau bob dydd nag aelwydydd heb blant;
- Nad oes gan draean o gartrefi Cymru fyth ddigon o arian i brynu unrhyw beth y tu hwnt i eitemau o ddydd i ddydd;
- Nad oes gan dros 40,000 o aelwydydd (3% o'r holl aelwydydd) ddigon ar gyfer y pethau sylfaenol, a hynny'n aml neu bob amser, ac nad oes gan bron 70,000 (5%) ohonynt ddigon ar gyfer y pethau sylfaenol weithiau. Gyda'i gilydd, mae 110,000 o aelwydydd yng Nghymru (8% o'r holl aelwydydd) yn ei chael yn anodd, o leiaf rywfaint o'r amser, sicrhau bod ganddynt ddigon ar gyfer hanfodion bob dydd;
- Bod dyled bersonol yn broblem. Er mis Ionawr 2021, mae 10% o gartrefi Cymru (dros 130,000) ar ei hôl hi o ran talu bil, tra bo 17% (dros 230,000) wedi benthycu arian i dalu bil;
- Bod aelwydydd incwm isel, rhentwyr, pobl anabl, unig rieni ac oedolion 25-64 oed yn fwy tebygol nag eraill o fod ar ei hôl hi o ran talu bil, neu maent wedi benthycu arian.

Mae Lle i Anadlu yn gynllun seibiant dyledion a gyflwynwyd ym mis Mai 2021 i helpu pobl yng Nghymru a Lloegr sy'n cael trafferth gyda drwgddyledion. Mae Lle i Anadlu ar gael i'r rheiny â drwgddyled sy'n gofyn am gyngor ac sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysra. Mae yna ddwy ran i'r cynllun, y Lle i Anadlu Safonol a Lle i Anadlu Iechyd Meddwl. Mae Aseiad o'r Effaith ar gyfer Lle i Anadlu yn amcangyfrif y bydd y fenter yn helpu tua 700,000 o bobl yn genedlaethol mewn blwyddyn. O blith y rhain, disgwylir y bydd dros 25,000 o bobl sy'n profi argyfwng iechyd meddwl yn elwa. Bydd Lle i Anadlu yn chwyddo manteision cyngor ar ddyledion i'r rhai sydd eisoes yn ei geisio, ac yn annog rhagor o'r rheiny sydd â drwgddyledion i ofyn am gyngor.

Mae asiantaethau dyled yn amcangyfrif y bydd gwerth y cyngor ar ddyledion 14% yn uwch o dan y cynllun Lle i Anadlu, a rhagwelir y bydd 1.3 miliwn yn rhagor o ddyledwyr yn gofyn am gyngor yn ystod y cyfnod asesu o ganlyniad i Lle i Anadlu. Bydd gofyn am gyngor ar ddyledion yn gynharach yn arwain at ganlyniadau mwy cadarnhaol i bobl mewn perthynas â'u dyledion, ynghyd â gwell iechyd meddwl a chorfforol.

Fodd bynnag, mae yna bryderon y bydd y sefyllfa'n gwaethygu. Mae llawer o'r cynlluniau cymorth sydd wedi bod yn gwarchod aelwydydd naill ai wedi dod i ben yn ddiweddar neu ar fin dod i ben, ac mae'r codiad o £20 yn y Credyd Cynhwysol bellach wedi'i ddileu. Disgwylir i gostau byw gynyddu ymhellach, a rhagwelir cynnydd eto mewn tlodi tanwydd, tra bo pryderon yn dal i fodoli am iechyd yr economi a swyddi'n cael eu colli o ganlyniad i ddiwedd y cynllun ffyrlo. Mae prosiect Sefydliad Bevan yn rhagweld y bydd aelwydydd â phroblemau dyled yn ei chael hi'n anodd yn y tymor byr yn ystod hydref a gaeaf 2021. Yn y tymor canolig i'r hirdymor, mae aelwydydd sydd â drwgddyledion yn wynebu heriau lluosog. Bydd ad-dalu dyled a gronwyd yn ystod y pandemig yn golygu y bydd gan lawer o aelwydydd lai o incwm gwario, a fydd yn creu diffygion o ddydd i ddydd. Bydd dyled gronedig hefyd yn ei gwneud yn anodd i aelwydydd gyrchu gwasanaethau, ac efallai y byddant yn ei chael yn anoddach neu'n ddrutach benthyca arian yn y dyfodol. Gyda'r pwysau ar aelwydydd incwm isel yn cynyddu, mae Sefydliad Bevan o'r farn ei bod yn amser ystyried dull newydd o ddatrys drwgddyledion, sy'n rhoi ffocws cliriach ar ryddhau ac atal dyledion.

Wrth i'r DU asesu effeithiau byrdymor a thymor hwy COVID-19, mae miliynau o aelwydydd yn ei chael yn anodd cael dau benllinyn ynghyd. Hyd yn oed cyn y pandemig, roedd gan dri o bob deg aelwyd yn y DU incwm a oedd yn rhy isel i fodloni cyllideb ofynnol, fel y'i diffinnir gan aelodau'r cyhoedd. Er bod y pandemig wedi effeithio'n sylweddol ar y ffyrdd y mae pobl yn byw, mae aelodau'r cyhoedd yn parhau i danlinellu'r angen am incwm sefydlog sy'n caniatáu i bobl gymryd rhan mewn cymdeithas, gan gynnwys, er enghraifft, y gallu i gymdeithasu, teithio, a chynnal safonau byw. Mewn rhai agweddau ar fywyd, megis dulliau siopa a'r defnydd o dechnoleg, mae'n bosibl y bydd newidiadau sylweddol yn effeithio ar gyllidebau gofynnol yn y dyfodol, ond mae'n rhy gynnar i asesu eu heffaith.

Tai

Mae tai o ansawdd da yn chwarae rhan arwyddocaol yn llesiant Abertawe, yn enwedig o ran diogelu pobl rhag niwed, trechu tlodi, trawsnewid ein heconomi a'n hisadeiledd, a chynnal a gwella adnoddau naturiol a bioamrywiaeth Abertawe. At hynny, mae'r amrywiaeth eang o wasanaethau tai yn cyfrannu at yr agenda genedlaethol a lleol ehangach o ran iechyd, llesiant, tlodi, a gwella gwasanaethau cyhoeddus, ac mae tai yn chwarae rôl ataliol, yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol.

Mae tai diogel a saff yn sylfaenol i lesiant unigolion a'r gymuned ehangach, ac yn elfen hanfodol ar gyfer sicrhau llesiant cenedlaethau'r dyfodol. Heb gartref diogel, fforddiadwy, mae'n anodd i bobl symud ymlaen mewn meysydd eraill o'u bywyd, gan gynnwys cyflogaeth, addysg, hyfforddiant, iechyd a bywyd teuluol.

Mae gan y Cyngor hefyd rôl hollbwysig i'w chwarae o ran cyfrannu at uchelgais Llywodraeth Cymru i "sicrhau sector cyhoeddus carbon sero-net" erbyn 2030, a hynny trwy fuddsoddi'n

sylweddol yn y gwaith o ddatgarboneiddio ei stoc dai. Mae buddsoddi mewn tai fforddiadwy, sy'n cynnwys tai cymdeithasol, yn cael effeithiau economaidd sylweddol, gan gynnwys creu swyddi a darparu effeithiau lluosydd mawr ar gyfer yr economi leol.

Mae tlodi ac incwm isel yn atal pobl rhag cael mynediad at yr ystod lawn o ddewisiadau tai, ac yn gallu golygu bod costau tai yn anodd eu cynnal. Mae'r gwasanaeth tai yn gyfrannwr allweddol i'r agenda gwrthdlodi, a hynny o ganlyniad i amrywiaeth eang o weithgareddau, gan gynnwys trwy ddarparu tai cyngor yn opsiwn diogel, sicr a fforddiadwy i aelwydydd, cynorthwyo gyda materion ariannol, atal digartrefedd, gweithio gyda'r sector rhentu preifat i wella amodau a sicrwydd i denantiaid, darparu cymorth tenantiaeth i alluogi pobl i fyw'n annibynnol, a thrwy ddatblygu tai fforddiadwy ychwanegol i ddiwallu anghenion.

Mae deiliadaeth ar gyfer tai, y galw am dai cymdeithasol, fforddiadwyedd rhent, digartrefedd (gan gynnwys y bygythiad o ddigartrefedd) a chysgu allan, yn ffactorau allweddol sy'n effeithio ar lesiant.

"Tai. Mae angen cartref diogel ar bawb, mae ar waelod pyramid Maslow. Dydy pobl ddim yn gallu adeiladu bywyd heb gartref diogel. Mae'n angen sylfaenol." – Ymatebydd i'r arolwg.

Deiliadaeth ar gyfer tai

Mae deiliadaeth ar gyfer tai yn ffactor allweddol o ran pennu a yw pobl yn byw mewn llety diogel, cynnes, fforddiadwy ac o ansawdd da. Gall diffyg cartref o ansawdd da, sy'n fforddiadwy, yn ddiogel ac yn barhaol, gael effaith sylweddol ar lesiant. Mae ymchwil wedi dangos bod pobl sy'n byw mewn llety a rentir yn breifat yn fwy tebygol o fyw mewn llety o ansawdd gwael, o dalu mwy am dai, ac o wynebu mwy o ansicrwydd o ran eu tai na phobl sy'n byw mewn mathau eraill o ddeiliadaeth.

Mae'r tabl isod yn dangos dosbarthiad deiliadaeth ar gyfer tai ledled Dinas a Sir Abertawe rhwng 1981 a 2011.

Tabl S5: Aelwydydd yn Abertawe yn ôl deiliadaeth, 1981-2011

| Deiliadaeth | 1981 | 1991 | 2001 | 2011 |
|-------------------------------|----------------|----------------|----------------|----------------|
| Yn eiddo i berchenfeddiannydd | 50,200 (62.3%) | 61,300 (70.1%) | 65,600 (69.5%) | 66,700 (64.3%) |
| Rhent preifat | 6,600 (8.2%) | 5,700 (6.5%) | 10,400 (11.0%) | 17,100 (16.5%) |
| Rhent cymdeithasol | 23,700 (29.4%) | 20,500 (23.4%) | 18,300 (19.5%) | 19,900 (19.2%) |
| Cyfanswm | 80,600 | 87,500 | 94,400 | 103,500 |

Ffynhonnell: Cyfrifiad poblogaeth y DU, SYG.

Mae nifer yr eiddo sydd ar gael ar gyfer rhent cymdeithasol yn sylweddol is nag yn 1981. Mae hyn oherwydd y Polisi Hawl i Brynu a oedd ar waith. Datblygodd Llywodraeth Cymru bwerau mewn perthynas â thai, ac, yn 2013-14, aeth ati i basio rheoliadau i ganiatáu i awdurdodau

lleol wneud cais i atal yr Hawl i Brynu yn eu hardaloedd pe gallent ddangos bod yna lefelau uchel o angen am dai. Gwnaeth Abertawe gais am hyn, a chafodd yr Hawl i Brynu ei atal ym mis Rhagfyr 2014. Y bwriad oedd i'r cyfnod atal barhau tan fis Rhagfyr 2019; fodd bynnag, yn y cyfamser, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi deddfwriaeth i ddileu'r Hawl i Brynu yn barhaol ledled Cymru.

Mae hyn wedi cael effaith sylweddol o ran diogelu nifer y tai cymdeithasol sydd ar gael, sydd wedi chwyddo ymhellach wrth i Lywodraeth Cymru gynyddu swm y buddsoddiad cyfalaf sydd ar gael ar gyfer tai fforddiadwy newydd, ac wrth i'r Cyngor allu adeiladu am y tro cyntaf ers cenhedlaeth. Felly, bu cynnydd graddol yn nifer y tai cymdeithasol sydd ar gael i'w rhentu yn Abertawe er 2014. Pan fydd ffigurau'r Cyfrifiad newydd ar gael, efallai y byddant yn dangos cynnydd pellach. Mae Cyngor Abertawe, ar y cyd â'i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig partner, wedi gosod targedau uchelgeisiol i ddatblygu 5,000 o unedau o dai fforddiadwy newydd yn Abertawe dros gyfnod o 10 mlynedd (1,000 i gael eu darparu gan y Cyngor trwy raglen adeiladu uniongyrchol, 4,000 i gael eu darparu gan Gymdeithasau Tai).

Y galw cyfredol am dai cymdeithasol

Ar 30/9/2021, roedd 4,639 o aelwydydd ar restr aros y Cyngor:

- Roedd 26% yn aelwydydd a oedd yn ddigartref neu dan fygythiad o ddigartrefedd;
- Roedd 43% yn ymgeiswyr ag angen arall, llai difrifol am dai;
- Roedd 31% yn denantiaid y Cyngor sydd wedi gwneud cais i drosglwyddo i eiddo/ardal arall.

Mae'r galw am dai cymdeithasol yn parhau i fod yn uchel, ac nid yw'r cyflenwad yn ddigonol i ddiwallu anghenion yr holl aelwydydd ar y rhestr aros.

Y galw am dai yn y dyfodol

Yn ogystal â'r lefelau presennol o ran y galw a'r angen am dai, roedd yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol yn Abertawe, a gynhaliwyd yn 2019, yn dangos y bydd angen 15,365 o unedau llety ychwanegol rhwng 2018 a 2033, gyda 31% o'r rhain yn dai fforddiadwy.

Ar hyn o bryd, rhagwelir y bydd yna gynnydd o 28% yn y boblogaeth 65+ oed rhwng 2018 a 2033, ynghyd â chynnydd o 58% yn y rhai 80+ oed. Mae hyn yn ganlyniad i boblogaeth sy'n heneiddio yn hytrach na mewnfudo. Yn yr un modd, rhagwelir y bydd y niferoedd yn y grwpiau oedran iau yn gostwng o ganlyniad i allfudo.

O ran y math o eiddo, bydd yr angen mwyaf am eiddo un a dwy ystafell wely; mae hyn yn adlewyrchu'r boblogaeth sy'n heneiddio, gyda llawer o'r rhai 65+ oed yn symud i eiddo llai.

Fforddiadwyedd rhent

Gan nad oes yna ddigon o dai cymdeithasol i ateb y galw presennol, rhentu'n breifat yw'r unig opsiwn o hyd i lawer o aelwydydd – mae hyn yn ddeiliadaeth o ddewis i rai, ond mae llawer o bobl eraill yn cael eu gorfodi i rentu.

Mae Sefydliad Joseph Rowntree wedi datgan y rhagwelir y bydd rhenti preifat yn codi 90 y cant mewn termau real rhwng 2008 a 2040, fwy na dwywaith mor gyflym ag incwm, gan wthio hyd at hanner y rhentwyr preifat i dlodi. Mae data lleol a ddadansoddwyd yn dangos bod y duedd ragweledig hon yn berthnasol i Abertawe. Mae rhenti'n codi'n gyflymach nag incwm.

Mae hyn yn golygu bod rhenti yn y sector rhentu preifat yn anfforddiadwy, i raddau helaeth, i bobl ar fudd-daliadau lles neu incwm isel.

Mae'r tablau isod yn dangos bod y rhenti canolrifol yn y sector preifat wedi cynyddu ar gyfradd lawer uwch na'r incwm canolrifol.

Tabl S6: Cymharu Rhenti Canolrifol y Sector Rhentu Preifat ar gyfer 2017-18 a 2020-21

| Y SETIAU DATA A DDEFNYDDIWYD | | |
|--|-------------------------------|--|
| | Ffynhonnell | Set Ddata |
| Yr Incwm Gros Canolrifol ar gyfer Abertawe | Y Swyddfa Ystadegau Gwladol | Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion Dyddiadau Cyhoeddi Tachwedd 2017 a Thachwedd 2020 |
| Rhenti Canolrifol ar gyfer y Sector Rhentu Preifat yn Abertawe | Systemau Gwybodaeth Hometrack | Eiddo rhent a hysbysebwr yn Abertawe a'r cyffiniau. Daw'r data o'r rhenti gofynnol a hysbysebwr, yn ogystal â'r rhenti a aseswyd gan fenthycwyr morgeisi |

| | 1 ystafell wely | 2 ystafell wely | 3 ystafell wely | 4 ystafell wely |
|----------------------------------|-----------------|-----------------|-----------------|-----------------|
| Rhent Preifat Canolrifol 2017-18 | £126.00 | £125.00 | £137.00 | £178.00 |
| Rhent Preifat Canolrifol 2020-21 | £126.00 | £154.00 | £162.00 | £276.00 |
| Cynydd canrannol | 0.0% | 23.2% | 18.2% | 55.1% |

| | |
|---|--------------|
| Incwm Gros Wythnosol Canolrifol 2017-18 | £473.00 |
| Incwm Gros Wythnosol Canolrifol 2020-21 | £538.00 |
| Cynydd canrannol mewn Incwm | 13.7% |

Mae'r gwahaniaeth canrannol rhwng y rhenti canolrifol yn y sector rhentu preifat a chyfraddau'r Lwfans Tai Lleol hefyd wedi cynyddu ar gyfer eiddo â dwy ystafell wely neu ragor.

Tabl S7: Rhenti Canolrifol, Preifat a Lwfans Tai Lleol, 2017/18 a 2020/21

2017-18:

| Y math o eiddo | Preifat – rhent wythnosol canolrifol | Cyfradd y Lwfans Tai Lleol | Y gwahaniaeth rhwng y Rhent a chyfradd y Lwfans Tai Lleol | % y gwahaniaeth rhwng y Rhent a chyfradd y Lwfans Tai Lleol |
|-----------------|--------------------------------------|----------------------------|---|---|
| 1 ystafell wely | £126.00 | £92.97 | -£33.03 | 26.21% |

| | | | | |
|-----------------|---------|---------|---------|--------|
| 2 ystafell wely | £125.00 | £105.94 | -£44.06 | 15.25% |
| 3 ystafell wely | £137.00 | £113.92 | -£23.08 | 16.85% |
| 4 ystafell wely | £178.00 | £153.02 | -£24.98 | 14.03% |

2020-21:

| Y math o eiddo | Preifat – rhent wythnosol canolrifol | Cyfradd y Lwfans Tai Lleol | Y gwahaniaeth rhwng y Rhent a chyfradd y Lwfans Tai Lleol | % y gwahaniaeth rhwng y Rhent a chyfradd y Lwfans Tai Lleol |
|-----------------|--------------------------------------|----------------------------|---|---|
| 1 ystafell wely | £126.00 | £103.56 | -£22.44 | 17.81% |
| 2 ystafell wely | £154.00 | £113.92 | -£40.08 | 26.03% |
| 3 ystafell wely | £162.00 | £120.82 | -£41.18 | 25.42% |
| 4 ystafell wely | £276.00 | £166.16 | -£109.84 | 39.80% |

"Mae diffyg tai fforddiadwy'n effeithio ar bob maes arall, gyda rhenti uchel a thai ansicr yn arwain at broblemau iechyd meddwl, mwy o ddyled, hunan-barch isel, salwch corfforol oherwydd straen" – ymatebydd i'r arolwg.

Digartrefedd

Mae pobl sydd wedi profi digartrefedd yn fwy tebygol o fod ag iechyd corfforol a meddyliol gwael na'r boblogaeth gyffredinol. Mae iechyd meddwl a chorfforol gwael yn un o achosion digartrefedd ac yn ganlyniad iddo, fel ei gilydd. Mae anghenion iechyd cronig a lluosog yn gyffredin, ac, yn aml, ni chânt eu trin. Mae pobl ddigartref hefyd yn llawer mwy agored i broblemau sy'n ymwneud â defnyddio alcohol a chyffuriau. Gall anghenion iechyd lluosog, ochr yn ochr â defnyddio cyffuriau ac alcohol, fod yn rhwystr i gyrchu gwasanaethau iechyd prif ffrwd, ac, o ganlyniad, mae unigolion yn aml yn defnyddio gwasanaethau gofal iechyd sylfaenol mwy costus yn y pen draw.

Yn achos plant sy'n profi digartrefedd, mae hwn yn Brofiad Niweidiol yn ystod Plentyndod sy'n cynyddu eu risg o ganlyniadau gwael yn ddiweddarach mewn bywyd. Dangosydd llesiant Cenedlaethol Cymru ar gyfer digartrefedd yw NI34: Atal Achosion o Ddigartrefedd – Nifer yr aelwydydd a oedd dan fygythiad o ddigartrefedd ac y llwyddwyd i'w hatal rhag bod yn ddigartref am bob 10,000 o aelwydydd. Oherwydd bod Llywodraeth Cymru wedi adolygu'r gofynion o ran casglu data yn ystod y pandemig, nid yw'r ffigur hwn wedi cael ei gyfrifo'n genedlaethol ar gyfer 2020-21, ond mae canlyniadau'r flwyddyn flaenorol yn dangos bod Abertawe yn perfformio'n dda o gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, a hynny er bod ganddi'r ail nifer uchaf o aelwydydd yng Nghymru y canfuwyd eu bod dan fygythiad o ddigartrefedd.

Mae digartrefedd yn broblem sylweddol yn Abertawe, ond mae yna wasanaethau effeithiol ar waith i sicrhau ei fod yn cael ei atal, neu, pan na ellir ei atal, mae yna ddatrysiadau ar waith i leddfu'r broblem yn gyflym. Fodd bynnag, mae yna anawsterau cynyddol yn bodoli o ran dod o hyd i lety fforddiadwy, diogel i symud ymlaen iddo. Mae yna alw mawr am dai cymdeithasol, ac mae'r sector rhentu preifat yn gynyddol anfforddiadwy.

Gwneir dros 2,500 o geisiadau digartrefedd bob blwyddyn.

Tabl S8: Ceisiadau digartrefedd yn Abertawe, 2016 i 2021

| Cyfanswm y ceisiadau am gymorth a arweiniodd at gynnal asesiad Adran 62 (cais digartrefedd) | Ebrill 2016- Mawrth 2017 | Ebrill 2017- Mawrth 2018 | Ebrill 2018- Mawrth 2019 | Ebrill 2019- Mawrth 2020 | Ebrill 2020- Mawrth 2021 |
|---|--------------------------------|--------------------------------|--------------------------------|--------------------------------|--------------------------------|
| | 2,557 | 2,564 | 2,511 | 2,870 | 2,485 |

Lle na ellir atal digartrefedd, darperir llety dros dro. Mae gan y Cyngor ei lety dros dro ei hun sy'n addas i deuluoedd, a dim ond pan fetha popeth arall ac nad oes unrhyw opsiynau eraill ar gael y caiff llety gwely a brecwast ei ddefnyddio.

Yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf, mae nifer y teuluoedd mewn llety dros dro yn Abertawe bob blwyddyn wedi amrywio rhwng 22 a 41.

Er i nifer y teuluoedd mewn llety dros dro ostwng yn ystod 2020-21, mae'r nifer wedi cynyddu yn ystod dau chwarter cyntaf 2021-22.

Mae nifer y teuluoedd sydd mewn llety gwely a brecwast, a faint o amser y maent yn ei dreulio yno, yn ddangosydd perfformiad allweddol. Nid yw hwn yn fath priodol o lety dros dro, ac felly gwneir pob ymdrech i'w osgoi. Lle nad yw hynny'n bosibl, cedwir yr amser a dreulir mewn llety dros dro mor fyr â phosibl.

Tabl S9: Teuluoedd mewn llety Gwely a Brecwast yn Abertawe, 2016 tan 2021

| Nifer y teuluoedd mewn llety gwely a brecwast | Ebrill 2016- Mawrth 2017 | Ebrill 2017- Mawrth 2018 | Ebrill 2018- Mawrth 2019 | Ebrill 2019- Mawrth 2020 | Ebrill 2020- Mawrth 2021 |
|---|--------------------------------|--------------------------------|--------------------------------|--------------------------------|--------------------------------|
| Cyfanswm nifer y diwrnodau | 30 | 3 | 9 | 64 | 7 |
| Nifer y teuluoedd | 8 | 2 | 5 | 14 | 4 |
| Nifer y dyddiau ar gyfartaledd | 3.8 | 1.5 | 1.8 | 4.6 | 1.75 |

Roedd y cynnydd yn y defnydd o lety gwely a brecwast gan deuluoedd yn 2019-20 yn ganlyniad i waith adnewyddu yn y llety dros dro a redir gan y Cyngor.

Mae prif achosion digartrefedd yn parhau'n debyg i flynyddoedd blaenorol, gydag un eithriad nodedig, sef nad colli llety ar rent yw prif achos digartrefedd mwyach. Amlinellir y rhesymau am hyn isod:

- Rhiant ddim yn fodlon neu ddim yn gallu darparu llety mwyach – 19% (o gymharu ag 13% yn 2019-20);
- Perthnasau/ffrindiau eraill ddim yn fodlon neu ddim yn gallu darparu llety mwyach – 16% (12% yn 2019-20);
- Perthynas â phartner yn chwalu (di-drais) – 12%;
- Cam-drin domestig – 11%;
- Gadael y carchar – 11%;
- Colli llety rhent – 10% (15% yn 2019-20).

Cysgu Allan

Er 2015, mae Llywodraeth Cymru wedi ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnal cyfrif blynyddol o nifer yr unigolion sy'n cysgu allan. Mae'r cyfrifiadau gwirioneddol o nifer y bobl sy'n cysgu allan yn gipluniau o un noson. Mae'r cyfrif amcangyfrifedig yn seiliedig ar ddata a gesglir dros gyfnod o bythefnos gyda chymorth y sector gwirfoddol, grwpiau ffydd, busnesau lleol, trigolion, asiantaethau iechyd a chamddefnyddio sylweddau, a'r heddlu. Oherwydd y pandemig, ni chynhaliwyd y cyfrif cenedlaethol yn 2020, ac ni chynhyrchwyd ffigurau ar gyfer Cymru. Fodd bynnag, mae Abertawe yn parhau i fonitro'r niferoedd sy'n cysgu allan yn fawl, felly mae yna ddata lleol ar gael. Mae nifer y rhai sy'n cysgu allan wedi gostwng yn ddramatig oddi ar ddechrau'r pandemig ac oddi ar i'r prawf angen blaenoriaethol gael ei atal dros dro.

Tabl S10: Nifer y bobl a oedd yn cysgu allan yn Abertawe rhwng 2015 a 2020

| | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 |
|---|------|------|------|------|------|------|
| Cyfrif gwirioneddol | 5 | 16 | 21 | 18 | 19 | 1 |
| Amcangyfrif o'r nifer sy'n cysgu allan (cyfrif pob pythefnos) | 19 | 23 | 26 | 33 | 37 | 13 |

Nid oes cymariaethau rhwng awdurdodau lleol ar gael ar gyfer 2020. Roedd data o'r cyfrifiad un noson yn 2019 yn dangos bod gan Abertawe y pedwerydd nifer uchaf o bobl yn cysgu allan yng Nghymru, y tu ôl i Gaerdydd (57), Casnewydd (24) a Wrecsam (21). Roedd llai na 10 o bobl yn cysgu allan mewn ardaloedd eraill ar noson y cyfrifiad.

Mae'r gostyngiad sylweddol yn nifer y bobl sy'n cysgu allan yn Abertawe i'w briodoli i ganllawiau Llywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2020, a oedd yn nodi y dylid ystyried bod pob aelwyd ddigartref yn agored i niwed yn ystod y pandemig. Felly, sicrhawyd bod llety dros dro ar gael i'r aelwydydd hynny na fyddai ganddynt angen blaenoriaethol fel arfer, a hefyd i aelwydydd heb unrhyw ffordd o gael arian cyhoeddus. Diben hyn oedd sicrhau bod pobl sy'n cysgu allan, neu sydd mewn perygl o gysgu allan, yn cael y cymorth a'r adnoddau gofynnol i'w hamddiffyn eu hunain, a'u bod yn cadw at y canllawiau iechyd cyhoeddus mewn perthynas â

hylendid ac ynysu. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi y bydd hyn yn parhau hyd y gellir rhagweld, ac mae'n bwriadu deddfu i wneud y newid polisi yn un parhaol.

O ran maint y broblem, roedd rhwng 15 ac 20 o bobl ar gyfartaledd yn cysgu allan yn Abertawe bob nos cyn y pandemig. Ar ôl mis Mawrth 2020, gostyngodd nifer y bobl a oedd yn cysgu allan yn sylweddol, yn enwedig yn ystod y ddau gyfnod o gyfyngiadau symud; ar adegau yn ystod y cyfnodau hyn, nid oedd yr un unigolyn yn cysgu allan yn Abertawe. Ers i'r economïau dydd a nos ailagor, mae nifer y bobl sy'n cysgu allan wedi bod ar gynydd, ac, ym mis Medi 2021, roedd naw unigolyn ar gyfartaledd yn cysgu allan bob nos.

Mae'r newid ym mholisi Llywodraeth Cymru wedi arwain at gynydd sylweddol yn nifer y bobl sydd mewn llety dros dro a llety gwely a brechwast. Mae hyn yn adlewyrchu'r sefyllfa ledled Cymru.

Mae yna nifer sylweddol o bobl yn "symud ymlaen" o lety gwely a brechwast i dai parhaol a mathau mwy priodol o lety â chymorth; fodd bynnag, mae aelwydydd newydd yn parhau i ymgyflwyno yn ddigartref ac arnynt angen llety dros dro, ac nid oes yna ddigon o lety amgen addas ar gael i osgoi defnyddio llety gwely a brechwast.

Tabl S11: Aelwydydd mewn llety Gwely a Brechwast yn Abertawe, 2016 tan 2021

| Aelwydydd mewn llety gwely a brechwast | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 |
|---|---------|---------|---------|---------|---------|
| Aelwydydd ag angen blaenoriaethol | 173 | 178 | 244 | 319 | 292 |
| Darpariaeth y Gaeaf ¹ / Lleoliadau COVID | amh. | amh. | amh. | 131 | 293 |
| Cyfanswm nifer yr aelwydydd | 173 | 178 | 244 | 450 | 585 |

Effeithlonrwydd ynni

Gall mesurau effeithlonrwydd ynni gynnal iechyd corfforol a meddyliol da, a hynny'n bennaf trwy greu amgylcheddau byw dan do iach, gyda thymheredd aer, lefelau lleithder a lefelau sŵn iach, a gwell ansawdd aer. Mae cartrefi ag effeithlonrwydd ynni gwael yn debygol o arwain at ragor o aelwydydd yn byw mewn tlodi tanwydd.

Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio effeithlonrwydd ynni anheddau yn ddangosydd llesiant cenedlaethol – NI33: Canran yr anheddau sydd â pherfformiad ynni digonol (% yr anheddau sydd â sgôr SAP o 65 neu uwch).

Mae'r Weithdrefn Asesu Safonol (SAP) yn fethodoleg a ddefnyddir i asesu perfformiad ynni anheddau, gan asesu faint o ynni sy'n cael ei ddefnyddio a faint o garbon deuocsid sy'n cael

¹ Mae'r cynllun Darpariaeth y Gaeaf ar waith i ddarparu llety dros dro i unrhyw un sy'n cysgu allan pan fydd y tymheredd yn disgyn islaw 5 gradd. Mae hyn wedi bod ar waith ers sawl blwyddyn, ond ni chasglwyd y niferoedd, ac eithrio ar y cyd ag achosion o angen blaenoriaethol tan 2019.

ei ryddhau, a hynny'n seiliedig ar amodau deiliadaeth safonol. Mynegir y sgôr SAP ar raddfa o 1-100; po uchaf yw'r rhif, isaf yw'r costau ynni (100 = dim costau ynni).

Mae gan 47% o anheddau yng Nghymru sgôr Gweithdrefn Asesu Safonol (SAP) o 65 neu uwch. Daw'r data hyn o'r Arolwg o Gyflwr Tai Cymru a gynhaliwyd yn 2017-18, sef arolwg sampl o eiddo ledled Cymru. Nid yw'r data hyn ar gael ar lefel awdurdod lleol.

Ar hyn o bryd, mae Safon Ansawdd Tai Cymru, sef y safon statudol ar gyfer yr holl dai cymdeithasol yng Nghymru, yn ei gwneud yn ofynnol i bob tŷ cymdeithasol gyflawni sgôr SAP o 65 neu uwch. O ganlyniad i fuddsoddiad i wella effeithlonrwydd thermol a dulliau inswleiddio eiddo'r Cyngor, y sgôr SAP cyfartalog ar gyfer anheddau'r Cyngor yn Abertawe yw 69 (band C), ac mae 100% o'r eiddo wedi cyrraedd y lefel hon.

I roi syniad o effeithlonrwydd ynni yn y sector rhentu preifat/perchen-feddiannydd, mae data ar gael gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol – Data Perfformiad Ynni Adeiladau Cymru a Lloegr.

Mae'r data hyn yn darparu canlyniadau data'r Dystysgrif Perfformiad Ynni (EPC) o 2008 hyd at 2021. Er nad yw hyn yn rhoi ystyriaeth i fesurau gwella ynni a roddwyd ar waith oddi ar i Dystysgrif Perfformiad Ynni gael ei darparu, nac i ddata ar gyfer y stoc dai gyfan, mae'n rhoi syniad o lefelau effeithlonrwydd ynni mewn anheddau ledled Abertawe yn absenoldeb yr wybodaeth ddiweddaraf am gyflwr y stoc rhentu preifat/perchen-feddiannydd.

Tabl S12: Data EPC Abertawe Ionawr 2008-Mehefin 2021 (81,926 EPC domestig)

| Band (sgôr SAP) | Nifer | Canran |
|-----------------|--------|--------|
| A (92-100) | 72 | 0.01% |
| B (81-91) | 6,538 | 8% |
| C (69-80) | 21,956 | 27% |
| D (55-68) | 32,178 | 39% |
| E (39-54) | 16,097 | 20% |
| F (21-38) | 4,030 | 5% |
| G (1-20) | 1,055 | 1% |

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n gosod gofynion a thargedau datgarboneiddio newydd ar gyfer darparwyr tai cymdeithasol, a fydd yn golygu y bydd yn ofynnol i Gyngorau a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig sicrhau bod eu stoc o dai cymdeithasol yn garbon sero-net erbyn 2030.

Cryfderau ac Asedau

Y galw/yr angen am dai

- Gosod targedau i ddatblygu 5,000 o unedau o dai fforddiadwy newydd yn Abertawe dros gyfnod o ddeng mlynedd (1,000 i'w darparu gan y Cyngor trwy raglen adeiladu uniongyrchol, 4,000 i'w darparu gan Gymdeithasau Tai).

- Rhaglen Datblygu Tai Cyngor – adeiladu tai cyngor newydd am y tro cyntaf ers cenhedlaeth, gydag ymrwymiad i adeiladu cartrefi effeithlon o ran ynni a di-garbon, ac sydd i Safonau Cartrefi Gydol Oes er mwyn sicrhau eu bod yn addas ar gyfer anghenion hirdymor tenantiaid.
- Dull corfforaethol o nodi tir newydd ar gyfer tai fforddiadwy er mwyn cyflawni targedau.
- Polisiâu cynllunio penodol i gynyddu nifer y tai fforddiadwy mewn ardaloedd lle mae'r galw/angen yn fawr.

Cyflwr tai/effeithlonrwydd ynni

- Cynlluniau adfywio yn cael eu datblygu ar gyfer safleoedd allweddol yn y Cyfrif Refeniw Tai;
- Cyflawni SATC yn 100% o eiddo'r Cyngor;
- Ymrwymiad i ddull o beidio â throi allan tenantiaid y Cyngor yn achos ôl-ddyledion rhent, lle bo modd. Mae hyn wedi cynnwys mabwysiadu ymagwedd sy'n fwy seiliedig ar seicoleg, a chanolbwyntio ar ddarparu ymyriad cynnar, yn ogystal â gweithredu mesurau atal a chymorth i denantiaid y Cyngor i gynnal eu tenantiaethau, gan beidio â'u troi allan oni fetha popeth arall;
- Gwelliannau o ran effeithlonrwydd ynni eiddo'r Cyngor er mwyn sicrhau sgôr SAP gyfartalog o 69 (Band C), gan gyfrannu at leihau tloedi tanwydd ymhlith tenantiaid y Cyngor.

Digartrefedd

- Gostyngiad yn nifer y bobl sy'n cysgu allan yn Abertawe i'r lefelau isaf a gofnodwyd erioed, o ganlyniad i gyfarwyddiadau Llywodraeth Cymru i sicrhau bod llety dros dro yn cael ei ddarparu i bawb yr oedd arnynt ei angen yn ystod y pandemig, gan gynnwys y rhai nad oedd ganddynt unrhyw ffordd o gael arian cyhoeddus.
- Mae Tîm Ymyriad Pobl sy'n Cysgu Allan (y Wallich) yn gweithredu saith niwrnod yr wythnos ac yn gyfrifol am sicrhau bod cymorth yn cael ei ddarparu i bob unigolyn cyn pen 24 awr. Mae'r cymorth hwn yn canolbwyntio ar symud yr unigolyn ymlaen i lety mwy addas mor gyflym ac mewn modd mor ddiogel â phosibl.
- Mudiadau Digartrefedd, Gwasanaethau Cymorth a darparwyd llety yn gweithio mewn partneriaeth gref, a amlygir gan yr ymateb effeithiol i'r pandemig mewn perthynas â chymorth digartrefedd a thai, er enghraifft y dull partneriaeth cryf o ddatblygu Tŷ Tom Jones, sy'n brosiect tai â chymorth llwyddiannus.
- Rhoi prosiectau newydd arloesol ar waith i fynd i'r afael â digartrefedd, e.e. dulliau Tai yn Gyntaf ac Ailgartrefu Cyflym.
- Mwy o arian yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru i gynnal gwasanaethau digartrefedd ychwanegol, a dulliau newydd o ddarparu gwasanaethau yn cael eu datblygu yn ystod y pandemig trwy godiad o £4 miliwn yn y Grant Cymorth Tai a ddyrannwyd i Abertawe, gan ddod â chyfanswm y gwariant i £18 miliwn y flwyddyn.

- Strategaeth Digartrefedd Gadarn ar waith 2018-22. Dull strategol newydd yn cael ei fabwysiadu ar hyn o bryd i gyfuno'r broses cynllunio strategol ar gyfer digartrefedd â'r Rhaglen Grant Cymorth Tai, ac i lunio strategaeth newydd ar gyfer 2022-2026.
- Adolygiad ar raddfa fawr i feddwl trwy systemau'r holl Brosiectau Llety â Chymorth Dros Dro sydd ar y gweill, a fydd yn nodi'r modd y bydd y sector a'r gwasanaethau digartrefedd yn Abertawe yn newid i ddull Ailgartrefu Cyflym dros y pum mlynedd nesaf, h.y. lleihau'r amser a dreulir mewn llety dros dro cyn symud ymlaen i lety parhaol.

Fodd bynnag, mae yna heriau o hyd, ynghyd â meysydd i'w gwella:

Effeithlonrwydd ynni

- Rydym yn aros am ganllawiau newydd ar y gofynion ar gyfer datgarboneiddio yn achos tai cymdeithasol yng Nghymru. Nid yw'n glir ar hyn o bryd sut y caiff targed yr allyriadau carbon ei ariannu, ac a fydd yn effeithio ar flaenoriaethau eraill megis datblygu tai fforddiadwy newydd.
- Bydd diffyg gwybodaeth am gyflwr tai yn y sector rhentu preifat/perchen-feddiannydd yn effeithio ar y gwaith o asesu'r adnoddau gofynnol i gynyddu effeithlonrwydd ynni a sicrhau bod eiddo'n addas ar gyfer yr anghenion cyfredol ac yn y dyfodol.
- Nifer isel o eiddo yn Abertawe â sgôr effeithlonrwydd ynni o C neu uwch.

Y cyflenwad tai/galw am dai

- Mae'r galw am dai cymdeithasol yn fwy na'r cyflenwad. Mae dros 4,000 o aelwydydd ar restr aros y Cyngor, ac mae yna lai o leoedd ar osod ledled pob deiliadaeth oherwydd y pandemig.
- Mae'r sector rhentu preifat yn gynyddol anfforddiadwy i bobl ar incymau isel i ganolig.
- Nid yw'r Lwfans Tai Lleol yn ddigon i dalu cost rhentu'n breifat yn achos llawer o aelwydydd.
- Gallai heriau yng nghadwyn gyflenwi'r diwydiant adeiladu, a achoswyd gan COVID-19 a Brexit, effeithio ar y broses o adeiladu cartrefi fforddiadwy newydd. Mae Cyngor Arweinyddiaeth Adeiladu y DU wedi cadarnhau bod sment, agregau, a chynhyrchion plastig wedi cael eu hychwanegu at y rhestr gynyddol o eitemau hanfodol sy'n 'brin'. Gallai'r effaith waethygu oherwydd y diffyg gyrwyr cludo nwyddau ar hyn o bryd. Ni wyddys a fydd hyn yn parhau i fod yn broblem hirdymor.
- Diffyg cyflenwad tai fforddiadwy – yn arbennig diffyg eiddo un ystafell wely.

Digartrefedd

- Lefelau uchel o aelwydydd mewn llety dros dro, a diffyg llety fforddiadwy un ystafell wely.

Gwahaniaethau ledled Abertawe

Mae'r data tai sydd ar gael yn brin ar lefel islaw lefel yr awdurdod lleol. Fodd bynnag, mae data o Faes Tai Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) yn rhoi gwybodaeth am gyflwr

tai ar lefel Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA). Mae gan Abertawe saith Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is yn y deg y cant o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru yn y Maes Tai.

Y Dangosyddion Tai a ddefnyddir ym MALIC 2019 yw:

- Canran y bobl sy'n byw mewn cartrefi gorllawn (mesur o ystafelloedd gwely ar sail Cyfrifiad 2011);
- Dangosydd newydd wedi'i fodelu ar dai o ansawdd gwael. Mae'n mesur y tebygolrwydd bod tai mewn cyflwr gwael neu'n cynnwys peryglon difrifol (er enghraifft risg o gwmpo neu dai oer), ac fe'i cyfrifwyd o gyfuniad o ffynonellau arolwg a data gweinyddol gan y Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BRE). Mae hyn yn cynnwys y tebygolrwydd bod tai yn cynnwys peryglon difrifol (%) a'r tebygolrwydd bod tai mewn cyflwr gwael (%).

Mae'r dangosyddion hyn yn cael eu cyfuno a'u pwysoli i roi sgôr ar gyfer y Maes Tai.

Mae yna 16 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn Abertawe sydd yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru yn y Maes Tai, fel y dangosir isod:

Tabl S13: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) 2019, safleoedd y maes Tai yng Nghymru

| | Ardal Gynnyrch Ehangach Is | Sgôr MALIC |
|---------------------|-----------------------------------|-------------------|
| Y 10% uchaf | Castell 6 | 5 |
| | Uplands 9 | 14 |
| | Castell 4 | 19 |
| | Glandŵr 4 | 28 |
| | Uplands 4 | 32 |
| | Uplands 6 | 65 |
| | Uplands 7 | 91 |
| Yr 20% uchaf | Cwmbwrla 1 | 129 |
| | Castell 5 | 143 |
| | Uplands 8 | 148 |
| | Castell 8 | 160 |
| | Cwmbwrla 2 | 195 |
| | Cwmbwrla 3 | 199 |
| | Treforys 7 | 229 |
| | Glandŵr 1 | 245 |
| | Uplands 3 | 249 |

Mae'r rhan fwyaf o'r ardaloedd yn cynnwys eiddo rhentu preifat/perchen-feddiannydd. Nid yw'r ardaloedd sy'n cynnwys tai cymdeithasol yn bennaf yn ymddangos yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig o ran tai oherwydd y rhaglenni buddsoddi a gwella ar raddfa fawr a gyflawnwyd gan Landlordiaid Cymdeithasol i gyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru. Fodd bynnag, mae yna ddiffyg gwybodaeth gyfredol am gyflwr eiddo yn y sectorau rhentu preifat a pherchen-feddiannydd.

Tabl S14: MALIC: Data dangosydd 2019 *Maes: Tai*

| | Dangosydd: Pobl mewn tai gorllawn (%) | Dangosydd: Y tebygolrwydd bod y tai o ansawdd gwael (mewn cyflwr gwael neu'n cynnwys peryglon difrifol) | | |
|--|--|---|---|--|
| | | Y tebygolrwydd bod y tai o ansawdd gwael (%) | Y tebygolrwydd bod y tai yn cynnwys peryglon difrifol (%) | Y tebygolrwydd bod y tai mewn cyflwr gwael (%) |

| | | | | |
|---|------|------|------|-----|
| Ardal awdurdod lleol: Abertawe | 5.89 | 16.6 | 15.0 | 3.0 |
| Ardal etholaethol: Gŵyr | 3.72 | 16.3 | 14.8 | 2.7 |
| Dwyrain Abertawe | 6.99 | 16.6 | 15.1 | 3.0 |
| Gorllewin Abertawe | 6.92 | 16.9 | 15.2 | 3.2 |
| CYMRU | 5.53 | 19.7 | 18.0 | 3.2 |

Canfyddiadau a phersbectifau

Roedd adroddiad gan Swyddfa Archwilio Cymru (2018) yn dangos y canlynol:

- Bod ymagwedd y Cyngor at SATC wedi'i hintegreiddio'n dda, yn gyffredinol, yn ei swyddogaeth dai strategol;
- Bod gan y Cyngor wybodaeth gynhwysfawr am gyflwr ei stoc o gartrefi, gwybodaeth sy'n llywio ei raglen fuddsoddi i fodloni SATC mewn modd effeithiol erbyn mis Rhagfyr 2020, ond y bydd cyflawni hyn yn heriol;
- Bod mwyafrif y tenantiaid yn fodlon ag ansawdd y gwaith gwella a wnaed i'w cartrefi, ac â'r gwasanaeth tai a gânt;
- Bod mwyafrif y tenantiaid yn teimlo bod y Cyngor yn ystyried eu barn, ond y gellid cryfhau'r ymgysylltiad â'r tenantiaid.

Dyfarnwyd nifer o wobrau datblygu i Wasanaeth Tai Cyngor Abertawe, gan gynnwys gwobrau gan Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru a chydnyddiaeth gan APSE, y *Municipal Journal* a Gwobrau Tai Cymru yn 2021.

Ddwywaith y flwyddyn, mae'r Gwasanaeth Tai yn cynnal arolwg o bob un o'r 13,500 o denantiaid er mwyn profi'r lefelau boddhad â'r gwasanaeth a nodi meysydd i'w gwella. Cynhaliwyd yr arolwg diwethaf yn 2019, ac roedd y prif ganlyniadau yn dangos gwelliant cyffredinol o ran y lefelau boddhad:

- Bodlonrwydd â'r Gwasanaethau Tai: 89% (o gymharu ag 88% yn 2017)
- Bodlonrwydd ag Ansawdd y Cartref: 86% (78% yn 2017)
- Bodlonrwydd â'ch Cymdogaeth: 86% (75% yn 2017).

Tueddiadau yn y Dyfodol a Rhagolygon ar gyfer Abertawe

Bydd y galw am dai fforddiadwy yn parhau i godi, a bydd y galw am wasanaethau digartrefedd a chymorth yn parhau i fod yn uchel. Mae'r ffactorau allweddol sy'n effeithio ar hyn yn cynnwys:

- Atal y prawf Angen Blaenoriaethol am gyfnod estynedig; ataliwyd y prawf dros dro mewn ymateb i ofynion iechyd y cyhoedd yn ystod y pandemig er mwyn sicrhau bod llety dros dro yn cael ei ddarparu i bob un y mae arno ei angen. Er bod hyn yn cael effaith eithriadol o gadarnhaol ar nifer y bobl sy'n cysgu allan, bydd yn cynnal pwysau ar wasanaethau digartrefedd, gwasanaethau cymorth tenantiaeth a llety dros dro.
- Yr her barhaus yn achos nifer bach o bobl anodd eu cyrraedd. Er bod nifer y bobl sy'n cysgu allan wedi gostwng yn sylweddol, gan sicrhau canlyniadau da i lawer, mae yna bobl o hyd ag anghenion hynod o gymhleth y mae'r gwasanaethau'n ei chael yn anodd ymgysylltu â nhw, ac mae'r atebion ar gyfer y garfan hon yn mynd yn llai.
- Mae yna ddiffyg eiddo fforddiadwy, un ystafell wely yn y sector tai cymdeithasol a'r sector rhentu preifat. Mae hyn wedi gwaethygu oherwydd bod yna lai o drosiant yn y stoc tai cymdeithasol parhaol, ac oherwydd bod llai o denantiaethau wedi dod i ben yn ystod y pandemig. Mae diwygiadau i'r budd-daliadau lles hefyd yn parhau i effeithio ar fforddiadwyedd y sector rhentu preifat ar gyfer pobl o dan 35 oed, sy'n cael eu cyfyngu i daliadau Budd-dal Tai Iwfans rhent ar gyfer ystafell a rennir. Mae rhenti cynyddol yn y sector preifat, ynghyd â diffyg cyflenwad cyffredinol, yn ei gwneud yn anodd i aelwydydd gael gafael ar y math hwn o lety.
- Disgwylir i lefelau digartrefedd gynyddu. Er enghraifft, disgwylir y bydd nifer y tenantiaid a droir allan yn cynyddu pan fydd yr estyniad presennol i'r cyfnod rhybudd yn dod i ben. Bydd yna gynydd hefyd yn nifer yr aelwydydd y bydd arnynt angen cymorth yn dilyn penderfyniad gan y Swyddfa Gartref ynghylch eu statws mewnfudo, wrth iddo ddelio â'r ôl-groniad a ddatblygodd yn ystod y pandemig. Bydd cynnydd yn y lefelau tlodi, yn dilyn darfyddiad y cynnydd dros dro o £20 yr wythnos i'r Credyd Cynhwysol a'r Credyd Treth Gwaith, hefyd yn cynyddu'r risg o ddigartrefedd.
- Galw cynyddol am gymorth iechyd meddwl sy'n deillio o bryderon am iechyd meddwl pobl, a achosir gan unigrwydd a straen y pandemig.
- Bydd yr argyfwng ynni cynyddol yn arwain at godiad ym miliau tanwydd aelwydydd, ac yn bygwth gwthio mwy o bobl i dlodi tanwydd.

O ran y galw am dai/cyflenwad tai, amlygodd yr Asesiad o'r Farchnad Dai diweddaraf ar gyfer Abertawe yr angen am 16,174 o gartrefi newydd rhwng 2018 a 2033, sef dros 1,000 y flwyddyn. Nododd yr asesiad y dylai pris 11,139 o'r eiddo hyn gyfateb i'w gwerth ar y farchnad, ac y dylai'r 5,035 sy'n weddill fod yn gartrefi fforddiadwy.

Mae gostyngiad yn nifer y bobl sy'n berchen eu cartref, ynghyd â chynnydd yn y nifer sy'n rhentu'n breifat, yn golygu y bydd mwy o bobl hyn yn byw mewn tai a rentir yn breifat. Bydd i hyn oblygiadau sylweddol o ran costau pan fydd pobl yn cyrraedd oedran pensiwn, a bydd yn arwain at fwy o ansicrwydd i bobl hyn o ran deiliadaeth wrth i amser fynd yn ei flaen.

Casgliadau a negeseuon allweddol

Gall mynediad at dai teilwng, cost isel gynyddu incwm gwario, atal amddifadedd materol, a gwella cymhellion i weithio.

Mae gan Abertawe wasanaethau effeithiol ac ymatebol ar waith i atal a lliniaru digartrefedd. Er mwyn atgyfnerthu hyn ac ymdrin â galwadau cynyddol ar y gwasanaethau, mae angen ffocws parhaus ar atal digartrefedd, gan gynnwys ymagwedd statudol newydd at gydgylltu'r gwaith cynllunio strategol rhwng y Gwasanaethau Digartrefedd a Gwasanaethau'r Grant Cymorth Tai.

Bydd yn ofynnol i'r sectorau lechyd, Tai a Gofal Cymdeithasol gydweithio i ddatblygu a gweithredu Strategaeth lechyd, Tai a Gofal Cymdeithasol newydd ar gyfer Rhanbarth Bae'r Gorllewin.

Bydd angen datblygu cynllun datgarboneiddio ar gyfer stoc dai y Cyngor er mwyn gweithio tuag at y targed cenedlaethol o allyriadau carbon sero-net o'r holl dai cymdeithasol erbyn 2030.

Trosedd a diogelwch

Mae trosedd a diogelwch yn bwnc allweddol o bwys ym maes llesiant cymdeithasol, ac mae iddo nifer o elfennau amlwg (ond rhyng-gysylltiedig). Er mwyn helpu i osod y cyd-destun cyffredinol, mae'n ddefnyddiol ystyried ffigurau troseddau cofnodedig diweddar yn Abertawe yn ôl math.

Dros y 12 mis hyd at fis Mehefin 2021 roedd cyfanswm o 18,240 o droseddau wedi'u cofnodi yn Abertawe, sef gostyngiad cyffredinol o 1,101 (-5.7%) ar y 12 mis blaenorol.

Gellir gweld gostyngiadau sylweddol yn ystod y flwyddyn yn y categori trais sy'n achosi anafiadau, i lawr 132 (-6.4%), ac yn y categorïau byrgleriaeth, dwyn o siopau a dwyn. Cafwyd y cynnydd mwyaf (dros 10%) yn y categorïau meddu ar gyffuriau a throseddau yn erbyn y drefn gyhoeddus.

Wrth gymharu cyfnodau chwarterol diweddar, cofnodwyd 4,798 o droseddau yn Abertawe rhwng misoedd Ebrill a Mehefin 2021, sef cynnydd o 615 (14.7%) oddi ar yr un chwarter yn y flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, bydd camau gwahanol pandemig COVID-19, ynghyd â bywyd a'r rheolau ar yr adegau hynny, yn cael effaith ar y ffigurau hyn a'r tueddiadau byrdymor yn gyffredinol.

Y tu hwnt i benawdau ystadegau troseddau cofnodedig, mae plismona yn weithgarwch cynyddol gymhleth, sy'n effeithio'n fawr ar lesiant cymdeithasol a chymunedol.

"Mae lleihau troseddau yn Abertawe'n bwysig i mi. Os nad ydw i'n teimlo'n ddiogel - beth yw'r pwynt? Mae angen mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol cynyddol" – ymatebydd i'r arolwg.

Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

Cryfderau ac Asedau

Ledled Abertawe, mae yna amrywiaeth eang o brosiectau a gwasanaethau sefydledig ar gael i gefnogi dioddefwyr a goroeswyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Mae yna asiantaethau cam-drin domestig a thrais rhywiol arbenigol, sef Cymorth i Fenywod Abertawe, Hafan Cymru, BAWSO, New Pathways a Gwasanaeth Trais Domestig Calan, sy'n blaenoriaethu cymorth a diogelwch ar gyfer y rhai yr effeithir arnynt. Mae hyn yn cynnwys darparu lloches a thai diogel i fenywod a phlant, tai â chymorth, cymorth tenantiaeth, gwasanaeth allgymorth, cymorth grŵp ar ffurf y Rhaglen Rhyddid a'r Pecyn Cymorth Adfer, prosiectau plant a phobl ifanc, yn ogystal â swyddi arbenigol i gefnogi dioddefwyr hŷn, dioddefwyr sy'n wrywod ac unigolion LGBTQ sy'n dioddef o gamdriniaeth ddomestig, ynghyd â phlant y mae trais rhywiol yn effeithio arnynt.

Mae yna sefydliad arbenigol ar gael i gefnogi dioddefwyr o gymunedau BAME, sy'n cynnig hyfforddiant a chymorth ychwanegol ar faterion megis Trais ar Sail Anrhydedd, Priodas dan Orfod a Masnachu Pobl. Mae Prosiect SWAN yn ddull arloesol o gefnogi menywod sy'n cael eu hecsbloetio gan y diwydiant rhyw, ac mae'n darparu gwasanaeth cyfannol a hyblyg i rai o'r menywod mwyaf agored i niwed yn y gymuned.

Mae rhagor o ddata a gwybodaeth am y gwasanaethau hyn ar gael yn yr Asesiad Anghenion Poblogaeth (AAP) – sylwer ar y ddolen yn y cyflwyniad i'r bennod hon.

Mae yna Hyb Cam-drin Domestig yn y gwasanaethau cymdeithasol, sef tîm arbenigol i brosesu'r holl atgyfeiriadau sy'n ymwneud â Phlant a Theuluoedd lle mae cam-drin domestig yn nodwedd. Yn 2020-21, cafodd yr Hyb hysbysiadau diogelu'r cyhoedd yn achos digwyddiadau'n ymwneud â cham-drin domestig ar gyfer 4,376 o blant neu bobl ifanc; roedd gan 2,255 o'r rhain weithiwr arweiniol neu weithiwr cymdeithasol wedi'i neilltuo eisoes, a darparodd yr Hyb Cam-drin Domestig wybodaeth, cyngor neu gymorth i 2,121 ohonynt. Yn y tîm, mae saith Cyngorydd Annibynnol ar Drais Domestig (IDVA) cymwys yn cynnig cymorth i bob dioddefwr sy'n wynebu risg uchel o gam-drin domestig yn Abertawe. O blith 1,398 o atgyfeiriadau ar gyfer dioddefwyr a oedd yn wynebu risg uchel o gam-drin domestig, rhoddwyd cymorth i 1,209 ohonynt.

Mae yna ymrwymiad ledled Abertawe i fynd i'r afael ag ymddygiad y rhai sy'n cyflawni camdriniaeth ddomestig, ac mae nifer o ymyriadau achrededig ar gael, gan gynnwys Equilibrium, DRIVE a Building Better Relationships. Mae gwaith pellach yn mynd rhagddo i ddatblygu dull system gyfan.

Mae'r sector iechyd wedi buddsoddi yn hyn gyda phrosiect IRIS, sy'n targedu meddygon teulu i gael hyfforddiant ar VAWDASV, ac yn sefydlu llwybr atgyfeirio clir i nodi a chynnig opsiynau ar gyfer cymorth yn gynharach. Mae'r tîm Diogelu Corfforaethol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (BIPBA) wedi ymrwymo i oruchwylio'r gwaith o gyflwyno'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ledled maes iechyd, ac i fonitro a gwella'r ymateb i ddatgeliadau, ac

mae wedi datblygu swydd 'IDVA Iechyd' i fynd ati ymhellach i wella'r gwasanaeth i ddiodefwr a goroeswyr sy'n datgelu camdriniaeth ddomestig tra eu bod mewn lleoliad gofal iechyd.

Mae Cyngor Abertawe hefyd wedi ymrwmo i gyflwyno'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol, mewn partneriaeth â BIPBA, sy'n golygu bod gan holl staff y sector cyhoeddus ymwybyddiaeth a dealltwriaeth sylfaenol, o leiaf, o faterion yn ymwneud â thrais yn erbyn menywod, camdrin domestig a thrais rhywiol, ac mae lefelau uwch o hyfforddiant yn cael eu targedu at arbenigwyr a staff sy'n ymwneud yn uniongyrchol â chwsmeriaid.

Newidiadau dros amser

Mae nifer yr atgyfeiriadau ledled amryw o wasanaethau VAWDASV wedi cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn oddi ar 2018, yn enwedig yn achos y rheiny lle mae'r lefelau risg yn uchel neu lle mae unigolion yn fwy agored i niwed. Gallai hyn olygu cynnydd yn nifer y digwyddiadau neu gynnydd o ran adrodd, sy'n gysylltiedig â meithrin ymwybyddiaeth a hyfforddiant.

Tabl S15: Y nifer a atgyfeiriwyd at wasanaethau VAWDASV

| | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | |
|---|----------------|----------------|----------------|---|
| SARC (Bae'r Gorllewin) | 217 | 246 | 276 | Canolfan Atgyfeirio Camdriniaeth Rywiol |
| Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig (IDVA) (Abertawe) | 1032 | 1302 | 1398 | Dioddefwyr Camdriniaeth Ddomestig sy'n wynebu risg uchel |
| Prosiect SWAN (Abertawe) | 75 | 123 | 140 | Menywod sy'n cael eu hecsbloetio gan y diwydiant rhyw |

Newid allweddol arall yw bod yna fwy o ffocws ar ddulliau Atal Sylfaenol, sy'n cynnwys comisiynu rhaglenni ymwybyddiaeth a hyfforddiant yn y gymuned, gan dargedu grwpiau penodol megis trinwyr gwallt/barbwyr a thimau chwaraeon. Mae gwaith yn mynd rhagddo ym maes Addysg i ddatblygu 'Ymagwedd Ysgol Gyfan' at VAWDASV er mwyn addysgu pobl ifanc a phlant a meithrin ymwybyddiaeth yn eu plith, yn ogystal â sicrhau llwybrau at gymorth pe bai angen yn cael ei nodi.

Mae'n amhosibl anwybyddu effaith pandemig COVID-19, ac mae'n hysbys y gwelwyd cynnydd mewn camdriniaeth ddomestig, yn enwedig o ran y diodefwr hynny a ddefnyddiodd y llinell gymorth Byw Heb Ofn, a welodd gynnydd o 66% yn nifer y negeseuon e-bost (o 53 i 88), cynnydd o 10% yn nifer y sgysiau ar y we (o 578 i 635), a chynnydd o 780% yn nifer y negeseuon testun. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf (gan gynnwys cyn COVID), bu cynnydd yn nifer y troseddau cysylltiedig â cham-drin domestig a gofnodwyd gan yr Heddlu, ac yn nifer yr atgyfeiriadau gan Gynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig, felly mae'n anodd pennu a yw'r cynnydd yn uniongyrchol gysylltiedig â'r pandemig. Fodd bynnag, o ganlyniad uniongyrchol i'r cyfyngiadau symud, bu newid o ran yr opsiynau ar gyfer darparu'r gwasanaethau a gynigir, gyda llawer o sefydliadau'n cynnig galwadau ffôn a fideo yn opsiwn

ar gyfer sesiynau cymorth. Mae hyn wedi cael ei groesawu yn gyffredinol, ac mae llawer o'r opsiynau cymorth newydd yn parhau ar waith.

Canfyddiadau a phersbectifau

Mae materion yn ymwneud â thrais yn erbyn menywod, trais domestig a thrais rhywiol yn aml yn bodoli ar y cyd ag ystod o bryderon sy'n cyfrannu at brofiad dioddefwyr/goroeswyr, gan gynnwys y canlynol, ymhlith pethau eraill: camddefnyddio sylweddau, salwch meddwl, pwysau ariannol, dyled a digartrefedd/materion tai. Fodd bynnag, er y gall ffactorau ehangach tebyg i'r rhain waethygu camdriniaeth, y farn gyffredinol yw nad ydynt yn achosi nac yn cyfiawnhau ymddygiad camdriniol. Yn ôl Adroddiad Aelodaeth Blynyddol Cymorth i Fenywod Cymru ar gyfer 2019-20, y broblem a gyflwynwyd amlaf ar y cyd â cham-drin domestig ymhlith ddiodeswyr/goroeswyr oedd anabledd cysylltiedig ag iechyd meddwl, a ddatgelwyd gan 44% o oroeswyr (2,570 o fenywod a 68 o wrywod). Dilynwyd hyn gan oroeswyr yr oedd arnynt angen cymorth mewn perthynas â materion cyfreithiol, er enghraifft cymorth i sicrhau gwaharddebau neu i ddelio â'r llysoedd teulu (733 o fenywod a 27 o ddynion). Er y gall VAWDASV orgyffwrdd â'r materion uchod, gall pob math o drais yn erbyn menywod, trais domestig a thrais rhywiol ddigwydd ar wahân ac effeithio ar bobl o bob demograffeg, ni waeth beth fo'u hoedran, eu hethnigrwydd, eu statws economaidd-gymdeithasol, eu rhyw, eu rhywioldeb neu eu hanabledd.

Tueddiadau yn y Dyfodol a Rhagolygon ar gyfer Abertawe

Mae'r Strategaeth VAWDASV Genedlaethol newydd yn cael ei datblygu ar hyn o bryd. Bydd Abertawe yn llunio strategaeth newydd i adlewyrchu ein hymrwymiad i bob rhan o'r agenda VAWDASV, ac i'n blaenoriaethau a'n hamcanion yn y dyfodol, yn seiliedig ar anghenion ein poblogaeth.

Rydym yn cydnabod mai'r rhai sy'n cyflawni trais yn erbyn menywod, camdriniaeth ddomestig a thrais rhywiol sy'n gyfrifol am y trais hwnnw, ac mae'n rhaid gweithio i annog pob asiantaeth i gydnabod hyn. Y nod yw sicrhau Dull System Gyfan o weithio gyda'r troseddwyd, yn ogystal â gweithio'n agos gyda'r Heddlu a phartneriaid eraill i gyflawni hyn.

Mae trais a chamdriniaeth rywiol yn treiddio i sawl ran o gymdeithas, gan gynnwys ysgolion a cholegau, gweithleoedd, economi'r nos ac agweddau ar fywyd bob dydd; felly, ein nod yw gweithio gyda phartneriaid ledled pob sector i dynnu sylw at y mater a sicrhau ei fod yn gyfrifoldeb i bawb, yn unol â Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.

Integreiddio

Mae Cyngor Abertawe yn buddsoddi mewn trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, ac yn gweithio'n agos gyda'r sector arbenigol i fonitro anghenion sy'n dod i'r amlwg a sicrhau bod yr adnoddau sydd ar gael yn cael eu cyfeirio'n briodol. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd â darparwyr arbenigol a rhwydwaith goroeswyr. Mae yna bresenoldeb ac ymgysylltiad rhagorol o ran y sector arbenigol, yn ogystal ag o ran amrywiaeth eang o wasanaethau statudol ac anstatudol ar lefel Arweinyddiaeth a llawer o is-grwpiau'r

bartneriaeth sy'n canolbwyntio ar ffrydiau gwaith penodol. Mae cydweithio â'r sector gwirfoddol yn rhan allweddol o'r holl waith cynllunio a chyflawni.

Mae gan Abertawe strwythur MARAC effeithiol, ac, yn 2020-21, trafodwyd 736 o ddiodefwyr a oedd yn wynebu risg uchel o drais domestig, ynghyd â'r plant cysylltiedig (506). Mae partneriaid o'r tîm IDVA, Gwasanaethau Plant, Gwasanaethau Oedolion, Addysg, Tai, Iechyd, asiantaethau VAWDASV arbenigol, y Gwasanaeth Prawf ac Iechyd Meddwl yn mynychu'r cyfarfodydd yn gyson, a chaiff y cyfarfodydd hyn eu cadeirio gan yr Heddlu.

Gwella

Y meysydd allweddol i'w datblygu ymhellach yw:

- Dulliau atal sylfaenol/cymunedol ac ymyriad cynnar;
- Gwell ymgysylltiad â goroeswyr;
- Canolbwyntio ar ddwyn cyflawnwyr trais yn erbyn menywod, camdriniaeth ddomestig a thrais rhywiol i gyfrif;
- Ymgysylltu pellach ar lefel uwch-arweinyddiaeth;
- Darparu ar gyfer Anghenion Cymhleth, yn enwedig llety.

Ynglŷn â'r dystiolaeth

Mae nifer yr atgyfeiriadau risg uchel i'r gwasanaethau IDVA yn parhau i godi flwyddyn ar ôl blwyddyn, fel y mae'r atgyfeiriadau i'r Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol ac i Brosiect SWAN ar gyfer menywod sy'n cael eu hecsbloetio gan y diwydiant rhyw. Mae hyn yn peri pryder mawr gan fod y grwpiau hyn ymhlith y rhai mwyaf agored i niwed; felly, byddwn yn parhau i flaenoriaethu a chefnogi'r maes darparu gwasanaeth hwn.

Mae nifer y diodefwyr/goroeswyr o'r gymuned LGBTQ sy'n ymgysylltyn i asiantaethau yn gyson isel ledled pob gwasanaeth. Mewn ymateb i hyn, datblygwyd swydd newydd i ddarparu cymorth arbenigol ac annog atgyfeiriadau, a fydd yn cael ei monitro i nodi'r effaith.

Mae nifer o asiantaethau wedi nodi cynnydd yn nifer diodefwyr/goroeswyr hŷn camdriniaeth ddomestig ac yn nifer y diodefwyr/goroeswyr gwrywaidd. Arweiniodd hyn at ddatblygu rhagor o swyddi i gefnogi'r grwpiau hyn yn benodol, sy'n ategol i'r opsiynau cymorth sydd ar gael yn Abertawe ar hyn o bryd. Bydd y rhain yn cael eu monitro a'u datblygu mewn ymateb i anghenion a ddaw i'r amlwg.

Mae canran yr achosion BAME a atgyfeiriwyd i MARAC yn parhau i fod tua 6.6% a 7.4% oddi ar 2018, gydag amrywiad o lai nag 1% o flwyddyn i flwyddyn. Fodd bynnag, nododd y gwasanaeth cyngor arbenigol ar gyfer diodefwyr BAME ostyngiad sylweddol yn y niferoedd rhwng 2018 a 2021, sydd, o bosibl, yn cydberthyn i'r diffyg digwyddiadau allgymorth o ganlyniad i'r pandemig.

Mae yna fframwaith monitro trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar waith i barhau i nodi anghenion a bylchau newydd yn y ddarpariaeth, a chaiff hyn ei oruchwyllo gan Grŵp Arwain VAWDASV.

Casgliadau a negeseuon allweddol

Mae'n amlwg bod grwpiau cleientiaid risg uchel, megis y rhai sy'n destun MARAC, SARC a'r prosiect SWAN, yn parhau i fod yn flaenoriaeth, a rhaid i ni sicrhau eu bod yn gallu cyrchu'r gwasanaethau y mae arnynt eu hangen. Mae nifer yr atgyfeiriadau yn parhau i godi yn y meysydd hyn, o bosibl oherwydd ymdrechion cynyddol i feithrin ymwybyddiaeth a chynnig hyfforddiant; felly, mae seilweithiau diogelu tebyg i MARAC yn parhau i fod yn rhan hanfodol o waith bob dydd.

Er mwyn lleihau nifer y bobl y mae materion cysylltiedig â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn effeithio arnynt, rhaid i ni dargedu'r rhai sy'n gyfrifol am gyflawni'r ymddygiadau niweidiol, yn ogystal â chymunedau ehangach, mewn ymdrech barhaus i sicrhau bod trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn fusnes i bawb. Ni ddylai'r cyfrifoldeb fod ar y dioddefwr i newid ei ymddygiad ond ar y cyflawnwr, ynghyd ag ar y gwasanaethau a'r gymdeithas ehangach i wneud safiad yn ei erbyn.

Nid un asiantaeth unigol sy'n gyfrifol am drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a rhaid i ni barhau i adeiladu ar bartneriaethau cryf sy'n bodoli eisoes, gan sicrhau bod llais y goroeswr wrth wraidd y gwaith o gynllunio a datblygu ar gyfer y dyfodol.

Camddefnyddio Sylweddau

Mae camddefnyddio sylweddau yn her sylweddol i wasanaethau cyhoeddus ledled Cymru, gan gynnwys iechyd a gofal cymdeithasol, plismona ac awdurdodau lleol, yn ogystal ag i'n cymunedau ehangach. Er bod camddefnyddio sylweddau yn effeithio ar bob rhan o gymdeithas ar hyd a lled y wlad, mae yna amrywiadau daearyddol yng Nghymru, gan gynnwys Abertawe, sy'n profi lefelau uwch o ganlyniadau niweidiol nag ardaloedd eraill oherwydd patrymau hanesyddol o ddefnyddio alcohol a chyffuriau, amddifadedd economaidd-gymdeithasol, a thueddiadau presennol o ran argaeledd, dulliau defnyddio a'r defnydd o amryw o gyffuriau.

"Mae'r problemau cymdeithasol ac economaidd yn Abertawe'n arwain at droseddau a defnydd o gyffuriau yn y ddinas ac yna'n arwain at fwy o broblemau iechyd meddwl." – Ymatebydd i'r arolwg.

Cryfderau a Gwendidau

Mae gwasanaethau cyffuriau ac alcohol Abertawe yn darparu cymorth a chefnogaeth i'r rhai sy'n dymuno newid neu reoli eu perthynas â chyffuriau a/neu alcohol. Mae Bwrdd Cynllunio Ardal Bae'r Gorllewin yn comisiynu gwasanaethau mewn modd strategol i gyflawni'r nodau a'r amcanion a osodir yn lleol yn unol â Chynllun Cyflawni Llywodraeth Cymru. Mae'r gwasanaethau a gomisiynir yn Abertawe yn cynnwys: BIP Bae Abertawe, Adferiad (WCADA), Barod, y Tîm Cyswllt Camddefnyddio Sylweddau Sylfaenol (PSALT), Platfform a Dyfodol.

Parhaodd y gwasanaethau cyffuriau ac alcohol yn weithredol yn ystod y pandemig, a chawsant eu darparu mewn modd mwy pendant, gyda'r ffocws ar ymarfer allgymorth i geisio ymgysylltu â phobl agored i niwed y mae arnynt angen cymorth. Er bod y pandemig wedi achosi heriau penodol o ran darparu gwasanaethau, roedd y sefyllfa wedi helpu i wella nifer o feysydd ym maes defnyddio sylweddau, gan gynnwys meithrin partneriaeth agosach â sectorau eraill, megis tai, a fyddai'n aml yn gweithio gyda'r un boblogaeth a oedd yn ymgysylltu â'r gwasanaethau defnyddio sylweddau.

Mae'r defnydd o amryw o gyffuriau yn parhau i fod yn achos pryder am fod llawer o bobl sy'n defnyddio sylweddau yn cymryd symiau anhysbys o gyffuriau amrywiol, sydd o ansawdd anhysbys ac yn achosi risg a niwed sylweddol. Mae'n parhau i fod yn flaenoriaeth ledled yr holl wasanaethau a gomisiynir ein bod yn cydweithio i wneud newidiadau cadarnhaol a sicrhau bod gan ein pobl fwyaf agored i niwed fynediad amserol at gymorth i ddiwallu eu hanghenion. Mae hyn yn amrywio o blant a phobl ifanc hyd at wasanaethau oedolion. Mae'r System Gwybodaeth am Gyffuriau Lleol yn fenter lleihau niwed sy'n unigryw i Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot; mae'n darparu systemau rhybuddio cynnar i sicrhau bod cymunedau Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot yn cael yr wybodaeth gywir mewn ffordd gryno ac amserol, sy'n golygu ei rhannu trwy amrywiaeth o gyfryngau, gan gynnwys llwyfannau'r cyfryngau cymdeithasol.

Cymharu â lleoedd eraill

Yn anffodus, gan Abertawe y mae'r lefelau uchaf o achosion o wenwyn cyffuriau marwol yng Nghymru. Roedd data diweddar o adroddiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol, *Deaths related to drug poisoning in England and Wales: 2020 registrations*, yn nodi bod Abertawe wedi cofnodi 42 o farwolaethau cysylltiedig â chyffuriau, bron 40% yn fwy nag unrhyw awdurdod lleol arall, gyda Wrecsam yn nodi'r ail nifer uchaf (17). Mae data gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn dangos mai Abertawe sydd wedi bod â'r cyfraddau uchaf o farwolaethau cysylltiedig â chyffuriau oddi ar 2016.

Yn 2020, cofnodwyd 12.3 o farwolaethau cysylltiedig â chamddefnyddio cyffuriau fesul 100,000 o'r boblogaeth yn ardal BIP Bae Abertawe. Mae hyn yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer Cymru. Mae cyfartaledd treigl y gyfradd farwolaethau yn y ddau awdurdod lleol yn yr ardal wedi cynyddu o gymharu â'r llynedd, gyda'r ffigur ar gyfer Abertawe yn sylweddol uwch na Chastell-nedd Port Talbot.

Roedd adroddiad diweddar Iechyd Cyhoeddus Cymru, *Marwolaethau Cysylltiedig â Chyffuriau Adroddiad Blynyddol 2020-21*, yn nodi hefyd fod gan Fae Abertawe nifer a chyfradd uwch o farwolaethau cysylltiedig â chyffuriau o ganlyniad i ddefnyddio heroin/morffin, sef 6.6 marwolaeth fesul 100,000 o'r boblogaeth (24 o farwolaethau) rhwng 2016 a 2020, sy'n uwch nag ardaloedd Byrddau Iechyd eraill. Yng Ngwm Taf Morgannwg a Chaerdydd a'r Fro y mae'r cyfraddau cyfwerth uchaf nesaf (2.2).

Mae'r adroddiad hwn hefyd yn nodi bod gan Fae Abertawe gyfraddau uchel o farwolaethau cysylltiedig â chyffuriau o ganlyniad i ddefnyddio cocên, sef 5.8 marwolaeth fesul 100,000 o'r

boblogaeth (21 o farwolaethau) rhwng 2016 a 2020, gyda'r gyfradd gyfwerth uchaf nesaf (1.8) yn ardal Betsi Cadwaladr.

Mae data a gyrchwyd o Gronfa Ddata Lleihau Niwed Cymru yn dangos bod gan Abertawe gyfraddau ymgysylltu cadarnhaol â Rhaglenni Nodwyddau a Chwistrelli. Mae'r gweithgarwch yn dangos bod darpariaeth y Rhaglen Nodwyddau a Chwistrelli yn hygyrch ac yn cefnogi unigolion a chymunedau amrywiol ledled Abertawe. Mae mwyafrif y gweithgarwch yn digwydd o fewn perimedr canol y ddinas, ond mae yna dystiolaeth sy'n dangos ymgysylltiad ehangach mewn cymunedau megis Tre-boeth, Pen-lan a Fforest-fach.

Mae data cenedlaethol o 2020-21 yn dangos bod gan ardal BIP Abertawe un o'r cyfraddau uchaf yng Nghymru o ran dosbarthu Nalocson i fynd adref; mae hyn yn cynnwys pecynnau newydd a ddsbarthwyd a chitiau a ddsbarthwyd mewn digwyddiadau ailgyflenwi. Nalocson yw'r feddyginiaeth achub bywyd a all wrthdroi effeithiau gorddos o opioid (e.e. heroin/morffin) a helpu i leihau'r cyfraddau gwenwyno angheuol o ganlyniad i opioid, sy'n cynrychioli tua thri chwarter y marwolaethau a gofnodir. Mae Nalocson ar gael gan wasanaethau Camddefnyddio Sylweddau arbenigol, a gellir ei roi i unigolion sy'n wynebu risg, aelodau o'r teulu, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol.

Mae data'n dangos bod safleoedd dosbarthu yn Abertawe yn cyfateb i tua 65% o'r pecynnau Nalocson a ddsbarthwyd yn ardal BIP Bae Abertawe. Mae hon yn ymdrech aruthrol gan fod y set ddata ddiweddar o'r ddogfen *Cronfa Ddata Lleihau Niwed Cymru: Marwolaethau cysylltiedig â chyffuriau Adroddiad Blynyddol 2020-21* yn cynnwys ystodau o ddyddiadau sy'n cwmpasu dau gyfnod o gyfyngiadau symud cenedlaethol a chyfyngiadau lleol a oedd ar waith pan oedd pandemig COVID-19 yn ei anterth. Yn 2020-21, dosbarthwyd 887 o gitiau i 423 o unigolion ym Mae Abertawe.

Canfyddiadau a phersbectifau

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gwnaed llawer o waith ledled y DU i adolygu ac asesu ehangder y dystiolaeth mewn perthynas ag effaith ac effeithiolrwydd persbectifau polisi cyffuriau ac alcohol ac ymyriadau atal, ymgysylltu a thrin. Mae adolygiadau o dystiolaeth, yn cynnwys gan Bwyllgor Dethol Tŷ'r Cyffredin ar Bolisi Cyffuriau, yn argymhell newid radical ym mholisi cyffuriau'r DU o ddull cyfiawnder troseddol i ddull iechyd. At hynny, mae'r Adolygiad Annibynnol o gyffuriau (rhan 1), a gomisiynwyd gan y Swyddfa Gartref, yn mynd ati ymhellach i ddangos yr angen am ddull gwahanol, gan amlygu'r effeithiau neu'r niwed anfwriadol a negyddol sy'n deillio o ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol. Mae'r rhesymeg y tu ôl i'r adolygiadau, yn ogystal â'r gwaith ar gyflwyno isafswm pris yr uned ar gyfer alcohol, yn dangos y byddai dull sy'n canolbwyntio ar iechyd nid yn unig o fudd i'r rhai sy'n defnyddio cyffuriau ac alcohol, ond hefyd yn lleihau'r niwed i'w cymunedau ehangach, yn ogystal â'r costau i'r cymunedau hynny. Yng Nghymru, mae camddefnyddio sylweddau wedi'i sefydlu ym maes iechyd, sy'n fater datganoledig, ond mae deddfwriaeth mewn perthynas â chyffuriau anghyfreithlon yn parhau i fod yn rhan o gylch gwaith Llywodraeth y DU a chyfiawnder troseddol.

Mae dull iechyd y cyhoedd wedi bod yn elfen allweddol o bolisi Llywodraeth Cymru ers blynyddoedd lawer, fel yr amlygir gan strategaeth camddefnyddio sylweddau 2008-18,

Gweithio Gyda'n Gilydd i Leihau Niwed, a Chynlluniau Cyflawni cysylltiedig, yn ogystal â Chynlluniau Heddlu a Throseddu. Mae'r Bartneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru, Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, Prif Gwnstabiaild, gwasanaethau Tai/Digartrefedd ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, wedi arwain at fentrau ar y cyd, gan gynnwys sefydlu'r Uned Atal Trais a hyrwyddo dull seiliedig ar drawma o ymdrin â gwaith yr heddlu, addysg, sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol a'u partneriaid, sydd bellach yn gweithredu ledled Cymru dan yr enw Camau Cynnar gyda'n Gilydd. Mae tystiolaeth o fabwysiadu dulliau gweithredu sy'n ystyried trawma yn dangos ymgysylltiad cynyddol â gwasanaethau, yn ogystal â gwelliannau o ran canlyniadau. Mae gwaith sy'n mynd rhagddo yn ceisio meithrin ymagwedd debyg at iechyd meddwl, felly mae'r dull a gynigir yn y ddogfen hon yn cyd-fynd â blaenoriaethau cyfiawnder troseddol, iechyd a gofal cymdeithasol, yn ogystal â blaenoriaethau llywodraeth leol a phartneriaid eraill.

"Mae camddefnyddio sylweddau yn Abertawe'n arwain at droseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae angen strategaethau arloesol mentrus arnom i fynd i'r afael â hyn. Mae'n rhaid i fi a fy mhlentyn gerdded heibio pobl feddw bob dydd." – Ymatebydd i'r arolwg.

Peryglon Bywyd ar y Stryd

Mae'r term 'Peryglon Bywyd ar y Stryd' yn disgrifio unigolion a fydd yn fwy tebygol o fod yn ddigartref ac o gysgu ar y stryd a chardota o ganlyniad i ffactorau risg penodol a phroblemau cymhleth. Gallai'r ffactorau risg a'r problemau cymhleth hynny a all arwain pobl at ddigartrefedd, cysgu ar y stryd a chardota, gynnwys:

- Cam-drin corfforol;
- Camddefnyddio sylweddau a/neu alcoholiaeth;
- Esgeulustod;
- Profiadau niweidiol yn ystod plentyndod;
- Trais domestig yn y cartref;
- Rhieni yn camddefnyddio sylweddau a/neu'n alcoholigion;
- Problemau iechyd meddwl;
- Tlodi;
- Diffyg tai neu ddiffyg tai fforddiadwy;
- Newidiadau i'r system fudd-daliadau;
- Allgáu cymdeithasol.

"Nid yw Abertawe'n allanolyn o bell ffordd, ond yn ystod y 5-10 mlynedd diwethaf rwyf wedi gweld mwy o bobl ddigartref ar y strydoedd yng nghanol y ddinas, a'r rheini sydd yn ôl pob golwg â phroblemau dibyniaeth. Mae'n drist iawn." – Ymatebydd i'r arolwg.

Cryfderau ac Asedau

Sefydlwyd y Gynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg (MARAC) ar gyfer Peryglon Bywyd ar y Stryd yn 2018. Ers ei sefydlu, atgyfeiriwyd 108 o unigolion yn Abertawe ac, ar hyn o bryd, mae'n cynorthwyo 14 o bobl gyda chymorth ac ymyriad o ryw fath.

Yn Abertawe, mae Cymunedau Cryfach yn un o bum blaenoriaeth strategol Partneriaeth Abertawe Mwy Diogel, ac mae'r MARAC ar gyfer Peryglon Bywyd ar y Stryd yn un o nifer o ddulliau o gefnogi pobl agored i niwed. Sefydlwyd y MARAC ar gyfer Peryglon Bywyd ar y Stryd i gynyddu effeithiolrwydd a chydweithrediad rhwng partneriaid statudol ac anstatudol, ac i ddarparu dull mwy integredig o gynnig cymorth i unigolion agored i niwed sy'n byw, yn cysgu neu'n cardota ar strydoedd Abertawe.

Cymharu â lleoedd eraill

Mae'r MARAC ar gyfer Peryglon Bywyd ar y Stryd yn un o ddim ond dau sy'n bodoli yn Ne Cymru, gyda'r llall yng Nghastell-nedd Port Talbot. Yn Abertawe, mae'n cael ei gadeirio gan yr awdurdod lleol.

Canfyddiadau a phersbectifau

Mae'r ddwy astudiaeth achos ganlynol yn enghreifftiau o'r modd y mae pobl sy'n wynebu peryglon bywyd ar y stryd yn cael eu cefnogi yn Abertawe:

Astudiaeth Achos A – gwryw 58 oed

Roedd yr unigolyn yn peri pryder mawr yng nghanol y ddinas, ac yn destun galwadau am gymorth gan fusnesau yn y ddinas dro ar ôl tro. Byddai'n meddwi ar alcohol yn rheolaidd. Roedd yn cysgu allan yn Sgwâr y Castell.

Bu'n aros yn Quay House am gyfnod ar ôl cael ei ryddhau o'r carchar, ond gofynnwyd iddo adael oherwydd ei ymddygiad. Yna, bu'n cysgu allan, yn cardota, yn ymddwyn yn wrthgymdeithasol ac yn achosi niwsans cyhoeddus.

Mae ganddo broblemau iechyd meddwl sylfaenol. Mae ganddo anhwylder deubegynol, ond naill ai ni allai gael gafael ar ei feddyginiaeth neu nid oedd yn ei chymryd.

Bu'n ymgysylltu â Pathways cyn gadael Quay House. Bu'n byw mewn pabell yng ngardd ffrind am gyfnod.

Roedd ei ymddygiad tuag at swyddog yn yr Opsiynau o ran Tai yn amhriodol.

Roedd wedi cael ei weld yn cysgu allan yn nrws y farchnad gyferbyn â Primark.

Roedd wedi cael ei wahardd o bob Canolfan Gwaith oherwydd ei ymddygiad treisgar.

Mae wedi bod dan ofal y Gwasanaethau Prawf.

Yn anffodus, oherwydd ei fod yn agored i niwed, ymosodwyd arno yng Nghanol y Ddinas a chafodd ei dderbyn i'r ysbyty. Wedi iddo gael ei ryddhau o'r ysbyty, cafodd ei roi mewn llety amgen nad oedd yn llety gwely a brecwast (ABBA).

Ymddengys ei fod mewn amgylchedd mwy sefydlog erbyn hyn, ac mae wedi cael cymorth gan y Groes Goch.

Bellach, mae'n byw yn Stryd Griffith John ac yn parhau i gael y cymorth angenrheidiol gan Bartneriaid a Gwasanaethau.

Astudiaeth Achos B – gwryw 46 oed

Mae'r unigolyn yn achos agored i Dîm Iechyd Meddwl Cymunedol 3, ac mae ei ofal yn cael ei gydgyfylltu gan Hysbysiad Gwarchod y Gymuned. Roedd yn ddirgaref ac yn cysgu allan yng Nghanol y Ddinas.

Roedd yn cael cymorth gan y Wallich ac roedd yn adnabyddus i Barod.

Trefnodd y gwasanaeth Tai lety dros dro iddo y llynedd. Mae'n risg iddo'i hun, ac ni allai reoli ei denantiaeth oherwydd ei iechyd meddwl. O ganlyniad, bu'n cysgu allan am gyfnod, ac roedd y gwasanaeth Tai yn bryderus oherwydd ei iechyd. Cafodd ei roi mewn llety gwely a brecwast, ond aeth yn absennol heb ganiatâd.

Byddai'n colli ei bigiadau depo am ei fod yn cysgu allan, ac nid oedd modd dod o hyd iddo bob amser.

Mae wedi dioddef o ymosodiadau ac wedi cael ei arestio am ymosod yn y gorffennol.

Yn fesur dros dro, mae'n byw yn hostel Dinas Fechan, lle mae'n cael ei bigiadau depo, ac mae ganddo weithiwr cymorth sy'n cadw golwg arno.

Cafodd ei atgyfeirio at brosiect Oasis, ond gwrthododd ymgymryd â'i asesiad.

Rydym yn parhau i gynnig cymorth ac yn gobeithio y bydd rhywfaint o sefydlogrwydd yn dechrau gwella ei lesiant.

Integreiddio

Prif amcanion y MARAC ar gyfer Peryglon Bywyd ar y Stryd yw:

- dwyn ynghyd gynrychiolwyr o bartneriaid a sefydliadau statudol ac anstatudol;
- darparu dull mwy integredig o gynnig cymorth i unigolion agored i niwed;
- lleihau ffactorau risg a gwendidau;
- rhannu a rheoli gwybodaeth mewn modd diogel a phroffesiynol;
- sicrhau bod pob partner a/neu sefydliad yn atebol am gyflawni ei briod weithredoedd a'i ganlyniadau cytunedig i wella llesiant cleientiaid sy'n cael eu hatgyfeirio.

Gwella, casgliadau a negeseuon allweddol

Mae pawb sy'n cael cymorth trwy broses y MARAC ar gyfer Peryglon Bywyd ar y Stryd yn cael cyfle i wella eu llesiant personol. Mae hyn yn eu galluogi i ddod yn fwy annibynnol a chael mynediad at y gwasanaethau cymorth mwyaf priodol. Yr hyn sy'n glir yw na fydd un ymyriad unigol yn unig yn lleihau nac yn atal achosion o ddirywiad, cysgu allan neu gardota ar y stryd. Mae angen y dull partneriaeth amlasiantaethol hwn i sicrhau bod yna amrywiaeth o wasanaethau integredig ar gael i fodloni gofynion y rheiny sydd ag anghenion cymhleth iawn neu sy'n wynebu ffactorau risg sylweddol.

Economi'r Nos

Fel yn achos pob tref a chanol dinas yn y DU a ledled y byd, mae Economi'r Nos yng Nghanol Dinas Abertawe, sy'n un amrywiol a bywiog, wedi wynebu cyfnod heriol oddi ar ddechrau pandemig COVID-19. Ers y cyfyngiadau symud cyntaf ym mis Mawrth 2020, mae llawer o'r gwaith a wnaed gan y bartneriaeth amlasiantaethol i oruchwylio'r broses o gydgyssylltu, rheoli a datblygu'r sector, wedi canolbwyntio ar ymateb i'r Rheoliadau COVID-19 yng Nghymru ac i gefnogi gweithredwyr yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Er bod trin COVID-19 wedi bod yn flaenoriaeth, nid yw hyn wedi atal y rhaglen adfywio eang yn Abertawe. Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud yn achos nifer o ddatblygiadau allweddol, a bydd llawer o'r datblygiadau hyn yn cael effaith gadarnhaol, yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol, ar arlwy Abertawe o ran Economi'r Nos. Mae'r newidiadau hyn, ynghyd ag

ymateb strategol Abertawe i gynorthwyo adferiad economaidd lleol, prosiectau gweithredol a chyfleoedd newydd, yn cefnogi'r sector lletygarwch a'r gynulleidfa y mae'n ei gwasanaethu i symud ymlaen.

Cryfderau ac Asedau

Mae grŵp amlasiantaethol Economi'r Nos yn parhau i gwrdd yn rheolaidd i reoli'r argyfwng uniongyrchol, i ystyried goblygiadau'r pandemig i'r sector lletygarwch, ac i arwain y broses o roi mesurau COVID-19 ar waith ac ailagor yr economi. Mae aelodau o'r Grŵp Economi'r Nos yn eistedd ar fforymau arbenigol gyda swyddogion Llywodraeth Cymru i helpu i lywio penderfyniadau a sicrhau bod y broses ymarferol o roi'r penderfyniadau hyn ar waith yn cael ei hystyried. Ffurfiwyd #UniteForTheNight hefyd gan Fforwm Lletygarwch Abertawe a Fforwm Trwyddedeion Caerdydd, yn llais ar gyfer diwydiant y nos. Yn y cyfnod rhwng mis Mawrth 2020 a mis Mehefin 2021, anfonwyd 68 o gyfathrebiadau uniongyrchol i sector Economi'r Nos, yn darparu cyngor ac arweiniad gan ffynonellau dibynadwy o ran y canllawiau i ailagor. Yn ystod y cyfnod hwn, mae'r Fforwm Lletygarwch o weithredwyr wedi cwrdd ac wedi cynnal gweminarau diwydiant-benodol.

Mae'r bartneriaeth wedi rhoi'r mesurau ymarferol canlynol ar waith i gefnogi'r broses o ailagor safleoedd a gaewyd yn ystod y pandemig:

- Llundio templed ar gyfer asesiad risg COVID-19, ynghyd â chanllawiau i fusnesau ar ailagor yn ddiogel;
- Cynnal ymgyrch i godi proffil cynllun cyfathrebu radio Night-Net er mwyn annog lleoliadau newydd i fanteisio arno, ac i ddarparu gwell gwybodaeth;
- Darparu dros 3,000 o eitemau o gyfarpar diogelu personol a chwistrelli poced rhad ac am ddim i fusnesau;
- Dyrannu grantiau gwerth dros £275,000 i 57 o fusnesau'r sector i gefnogi gwaith addasu ac i brynu cyfarpar i ddefnyddio manau awyr agored;
- Gwneud newidiadau i'r cynllun Trwyddedu Caffis Awyr Agored presennol er mwyn symleiddio prosesau a galluogi i ffioedd gael eu hepgor. Cafodd cynlluniau i wneud Stryd y Gwynt (prif ardal adloniant Abertawe) yn stryd unffordd â mynediad rheoledig eu cwblhau fisoedd yn gynnar hefyd, er mwyn rhyddhau rhagor o le ar y palmant.

Un o gryfderau allweddol Abertawe yw ei phortffolio adfywio trawiadol, sydd ar fin trawsnewid yr ardal a rhoi bywyd newydd i Economi'r Nos yno. Mae'r cynlluniau hyn yn cynnwys:

- Cam 1 Bae Copr, sy'n cynnwys Arena Ddigidol â 3,500 o seddi, maes parcio aml-lawr newydd, pont nodedig dros Heol Ystumllwynarth, llety preswyl, parcdir arfordirol 1.1 erw, a phafiliwn a gwesty yn y parc.
- Aildychmygu Stryd y Gwynt, sef prif ardal adloniant Abertawe. Nod y cynllun hwn i wella tir y cyhoedd yw ehangu apêl yr ardal trwy ddarparu amgylchedd mwy diogel, hygyrch a deniadol.
- Gwneud Sgwâr y Castell yn fan cyhoeddus mwy bywiog, unigryw ac egniol ar gyfer digwyddiadau a chynulladau.

Mae yna ddigonedd o gynlluniau adfywio eraill ar y gweill neu yn yr arfaeth a fydd yn gwella apêl Abertawe a Chanol y Ddinas o ran bod yn gyrchfan i siopa, byw, gweithio, ymweld â hi a buddsoddi ynddi, gan gynnwys Neuadd Albert, Theatr y Palas, 71-72 Ffordd y Brenin, Orchard House a hyb cymunedol Stryd Rhydychen. Y tu allan i ganol y ddinas, mae cynnydd hefyd yn cael ei wneud o ran safle hanesyddol Gwaith Copr Hafod-Morfa (atyniad i ymwelwyr, distyllfa a char cebl o Fynydd Cilfái); campws newydd Glannau Abertawe Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn SA1, a buddsoddiad y Fargen Ddinesig i gyflwyno cysylltedd ffeibr llawn yng Nghanol y Ddinas.

Yn ystod y pandemig, cymerodd y Cyngor a'i bartneriaid gamau i ddiffinio ymateb strategol Abertawe i'r argyfwng a sefydlu dull gweithredu i hwyluso dyfodol wedi'i ailfodelu ar gyfer Canol y Ddinas a'i harlwy manwerthu a hamdden. Ym mis Medi 2021, penododd Cyngor Abertawe ei bartner datblygu o ddewis ar gyfer nifer o safleoedd allweddol yng Nghanol y Ddinas a'r ardal gyfagos. Bydd y datblygiadau hyn yn cael effaith sylweddol ar Economi'r Nos yn Abertawe yn y pen draw.

O ran bod yn agored i niwed, ac yn dilyn llofruddiaethau proffil uchel Sarah Everard a Sabina Nessa, ynghyd â'r honiadau diweddar o sbeicio â chyffuriau mewn lleoliadau Economi'r Nos ledled y DU, mae Abertawe yn ymateb i alwadau i wella diogelwch i gwsmeriaid, yn enwedig menywod a grwpiau agored i niwed eraill, pan fyddant yn ymweld â chanol y ddinas yn ystod y dydd ac wedi iddi dywyllu. Mae hyn yn cynnwys y mentrau canlynol:

- Ymgyrch Byw Heb Ofn, sef ymgyrch trwy'r llinell ac o dan y llinell sy'n targedu lleoliadau a thacsis sy'n gweithio gyda Cymorth i Ferched Cymru;
- Datblygu'r cynllun Safe Space UK presennol, gan gyfeirio pobl at fannau diogel dynodedig os ydynt yn teimlo dan fygythiad;
- Ymgyrch Myfyriwr Diogel o dan y llinell, ar y cyd â phartneriaid addysg uwch ac un o'r gweithredwyr tacsis lleol mwyaf, i sicrhau cludiant diogel adref mewn argyfwng;
- Mae'r bartneriaeth wedi cyflwyno cais am gyllid allanol ar gyfer Strydoedd Mwy Diogel, dan arweiniad Heddlu De Cymru, i gynnal amrywiaeth o weithgareddau i helpu i fynd i'r afael â pheryglon ar y stryd yn Economi'r Nos;
- Sefydlu sesiynau ymgysylltu wythnosol yn y tri phrif lety myfyrwyr yng Nghanol y Ddinas, a fynychir gan Swyddogion Diogelwch Cymunedol y Cyngor, Heddlu De Cymru a staff Cyswllt y Brifysgol;
- Dylunio a dosbarthu poster i ymwybyddiaeth o sbeicio i holl leoliadau Economi'r Nos.

Yn ystod y pandemig, chwaraeodd Ceidwaid Canol y Ddinas ran hollbwysig yn cydlynu ymdrechion ar lawr gwlad ymhlith ymwelwyr a busnesau. Bu'r tîm yn gweithio trwy gydol yr argyfwng, a chafodd staff ychwanegol eu recriwtio.

Mae gan Economi'r Nos yn Abertawe nifer o brosiectau gweithredol sydd wedi'u hen sefydlu ac sy'n cefnogi diogelwch, gofal a llesiant ei chwsmeriaid. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cymorth Rheng Flaen. Mae gwasanaeth plismona pwrpasol, *Swansea After Dark*, yn darparu presenoldeb heddlu gweladwy ac ymgysylltiol sy'n ffocysu ar ardaloedd ac amseroedd allweddol. Cefnogir hyn gan gamerâu teledu cylch cyfyng, tîm o Swyddogion Tacsis, rhwydwaith radio 'Night-Net' (sy'n cynnwys teledu cylch cyfyng,

yr Heddlu, Swyddogion Tacsis a staff wrth y drws, gyda chyfanswm o 134 o aelodau) a Phwynt Cymorth meddygol a gydlynir gan Ambiwllans Sant Ioan ar y Strand.

- Ymgysylltu. Mae Swyddog Trwyddedu penodedig yn yr Heddlu yn gweithio'n agos gyda'r Cyngor a phartneriaid eraill ar faterion trwyddedu. Mae Swyddogion Cyswllt yr Heddlu hefyd yn gweithio'n agos gyda'r ddwy brifysgol leol. Mae map 'llwybrau diogel' Economi'r Nos, y gellir ei lawrlwytho, yn cael ei hyrwyddo ymhlith myfyrwyr yn arbennig mewn perthynas â'r cyfleusterau sydd ar gael yn Economi'r Nos, er eu mwynhad a'u diogelwch. Ceir tystiolaeth o safonau diogelwch a gwasanaeth cwsmeriaid yn y ffaith bod statws Best Bar None wedi cael ei roi i 21 o leoliadau. Mae Economi'r Nos yn Abertawe yn un o ddim ond dwy ardal yng Nghymru i ennill Baner Borffor. Mae'r faner, sy'n debyg i'r Faner Werdd ar gyfer parciau a'r Faner Las ar gyfer traethau, yn cydnabod arfer gorau ar gyfer ardaloedd Economi'r Nos ac wedi bod ar waith er 2015.
- Rheoleiddio. Adran drwyddedu yr Heddlu a phartneriaid sy'n cyflawni gweithrediadau amlasiantaethol lluosog mewn perthynas â materion allweddol ac yn ystod digwyddiadau. Mae hyn wedi bod yn brif flaenoriaeth i sicrhau cydymffurfedd â rheolau COVID-19 mewn lleoliadau, ymhlith gweithredwyr tacsis a bysiau, ac o ran y cyhoedd. Cedwir nifer y troseddau sy'n ymwneud ag arfau mor isel â phosibl trwy gynnal gwiriadau cyflwr mynediad trylwyr ar ymwelwyr. Mae Cistiau Cyffuriau a llyfrau derbynebaw hefyd wedi cael eu gosod ledled Economi'r Nos i ddarparu storfa ddiogel a chyfle i brofi unrhyw sylweddau a gesglir. Mae polisi dirlawnder yn cyfyngu ar nifer y safleoedd trwyddedig sy'n gweithredu yng Nghanol y Ddinas. Mae'r rhai 18-25 oed sy'n cael eu harestio am droseddau'n ymwneud ag alcohol neu gyffuriau yn cael eu hatgyfeirio at asiantaeth arbenigol ar gyfer sesiynau ymwybyddiaeth o iechyd a diogelwch diodydd/cyffuriau.
- Cydgysylltu. Caiff materion gweithredol, digwyddiadau a phrosiectau eu cydgysylltu trwy'r Grŵp Economi'r Nos, sy'n cyfarfod yn fisol. Mae rhoi mesurau COVID-19 a strategaethau uwchgyfeirio ar waith wedi bod yn rhan hanfodol o waith y grŵp hwn, ac mae Ardal Gwella Busnes Abertawe yn bartner allweddol. Mae pob digwyddiad arbennig sy'n denu mwy na 500 o ymwelwyr ychwanegol yn cael ei ystyried gan y Grŵp Cynghori ar Ddiogelwch misol, a drefnir gan y Cyngor ac a fynychir gan y gwasanaethau brys. Mae'r Fforwm Lletygarwch yn galluogi gweithredwyr i ddod at ei gilydd yn rheolaidd i drafod pryderon a materion sy'n cael eu huwchgyfeirio trwy Ardal Gwella Busnes Abertawe. Mae gan grŵp y Porthorion gylch gwaith tebyg.
- Mynediad. Mae Canol Dinas Abertawe yn wybyddus fel lle croesawgar i gerddwyr, ac mae ardal Economi'r Nos yn gryno ac yn hawdd ei chroesi ar droed ac ar feic. Gwnaed nifer o newidiadau i'r rhwydwaith ffyrdd a'r rhwydwaith beicio yn ddiweddar er mwyn sicrhau bod yr ardal yn fwy cyfeillgar i gerddwyr, e.e. Prosiect Boulevard a gwaith ad-drefnu Ffordd y Brenin a Ffordd y Gorllewin. Mae Stryd y Gwynt wedi dod yn stryd unffordd swyddogol, sy'n ardal i gerddwyr yn unig o 11am i 7am bob dydd, gyda mynediad i gerbydau gwasanaeth o 7am i 11am. Mae cynllun Dynodi Llwybrau wedi bod ar waith er 2014, sy'n cynnwys byrddau mapiau a mynegbyst ar y safle sydd wrthi'n cael eu diweddarau, ac mae mesurau dynodi llwybrau newydd yn cael eu gosod

yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Arena. Mae ciosgau BT mewn llinell wedi'u gosod mewn sawl lleoliad i ddarparu gwybodaeth am amwynderau lleol a mynediad am ddim i ffonau a'r Rhyngwlad. Yn ychwanegol at y mesurau uchod y mae Ap Big Heart of Swansea, sy'n darparu dulliau llywio symudol, yn ogystal â map Economi'r Nos y gellir ei lawrlwytho.

Yn rhan o'r Cynllun Teithio Llesol Lleol, mae nifer o Hybiau Beicio wrthi'n cael eu hadeiladu ledled Canol y Ddinas gyda chyllid allanol. Nod y rhain yw darparu storfa ddiogel ar gyfer beiciau a helpu i gysylltu llwybrau beicio yn yr ardal ac o'i chwmpas. Mae tacsis a cherbydau hurio preifat yng Nghanol y Ddinas yn cael eu cynnal gan 13 o safleoedd tacsis, gydag wyth ohonynt yn gweithredu 24 awr y dydd. Mae'r rhain wedi'u lleoli mewn mannau cyfleus ac mae'r arwyddion ar eu cyfer yn dda; mae'r rhai prysuraf yn cael eu goruchwylio ar nosweithiau allweddol gan Swyddogion Tacsis. Mae gwasanaethau trenau ledled yr ardal a thu hwnt yn boblogaidd o Orsaf Drenau Abertawe, sydd wedi'i lleoli yn ardal Economi'r Nos. Mae Gorsaf Fysiau Abertawe, a oedd yn denu tua 40,000 o ymwelwyr y dydd cyn COVID-19, yn agored 24/7. Yn ystod y pandemig, cyfyngwyd yn ddifrifol ar y gwasanaethau bysiau yn yr ardal ac o'i chwmpas. Cafodd capasiti'r bysiau ei leihau a defnyddiwyd bysiau deulawr i ganiatáu i bobl gadw pellter cymdeithasol. Fodd bynnag, mae rhwydwaith bysiau mwy cynhwysfawr wedi aildechrau, gan gynnwys y rhai ar gyfer Economi'r Nos, ac mae hyn yn cyd-daro â dychweliad myfyrwyr i'w hastudiaethau a'r bws 24 awr sy'n rhedeg rhwng dau gampws Prifysgol Abertawe a Chanol y Ddinas.

- Marchnata a Digwyddiadau. Mae hyrwyddo Economi'r Nos yn allweddol i'w llwyddiant, ynghyd â chanfyddiadau ynghylch diogelwch. Yn rhan o'r broses hon, bydd y bartneriaeth yn gwneud defnydd helaeth o'r wasg draddodiadol, y cyfryngau cymdeithasol a thechnoleg ddigidol i hyrwyddo'r ardal, gan gynnwys digwyddiadau sydd ar y gweill, agoriadau newydd, newyddion a phrosiectau. Hyrwyddwyd nifer o ymgyrchoedd ar hyd y blynyddoedd, er enghraifft *Yfwch Lai Mwynhewch Fwy*, a phan oedd y pandemig yn ei anterth, cynhaliwyd ymgyrch *Mwynhewch Abertawe yn Gyfrifol* ledled y ddinas, gyda ffocws arbennig ar Economi'r Nos. Mae Cerdyn Teyrngarwch Canol y Ddinas a'r ap ffôn clyfar yn darparu nifer o gynigion sy'n ymwneud ag Economi'r Nos ac yn annog y defnydd o amwynderau. Eleni, aildechreuodd y digwyddiad poblogaidd i fyfyrwyr, Siopa ar ôl Oriau, a gynhaliwyd ddechrau mis Hydref yng Nghanolfan Siopa'r Quadrant ar ôl 5pm. Ym mis Hydref hefyd, dychwelodd Gŵyl Ymylol Abertawe i leoliadau Economi'r Nos ledled Canol y Ddinas, a dilynwyd hyn gan y dathliad Beaujolais poblogaidd a Gorymdaith y Nadolig ym mis Tachwedd.
- Mae ardal Economi'r Nos yn Abertawe yn cynnwys unedau o amrywiaeth o feintiau, ac mae'n cynnig siopau cadwyn a siopau annibynnol, fel ei gilydd, sydd ar gael yn ystod y dydd, gyda'r hwyr a thrwy gydol y nos. Mae amryw o weithgareddau, gan gynnwys siopa, bwyta, dawnsio, sinema, digwyddiadau, y celfyddydau a gweithgareddau diwylliannol, a chwaraeon ar gael i ymwelwyr. Er i Abertawe deimlo effaith nifer o gwmnïau cenedlaethol yn cau o ganlyniad i COVID-19, yn enwedig ym maes manwerthu, mae 16 o fusnesau newydd wedi agor yn y sector lletygarwch. Mae Arena newydd Abertawe hefyd ar agor erbyn hyn.

Fodd bynnag, nodwyd y meysydd canlynol yn wendidau o ran y ffordd y mae arlwy Economi'r Nos yn Abertawe yn cael ei rheoli, ei chydgyssylltu a'i datblygu ar hyn o bryd:

- Gostyngiad yng nghyfanswm nifer y tacsis a cherbydau hurio preifat sydd ar waith o ganlyniad i COVID-19. Mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos bod tua 1,511 o drwyddedau/fathodynau yn weithredol ar hyn o bryd, sef tua 200 yn llai na chynt. Mae hyn yn effeithio ar ba mor gyflym y caiff cwsmeriaid eu cludo allan o'r ardal, ac yn achosi gwrthdaro ar y stryd, yn enwedig o amgylch ciwiau tacsis.
- Mae cyd-weithwyr yn yr Heddlu yn nodi pryderon ynghylch lefel yr ymddygiad ymosodol cyhoeddus tuag at yr Heddlu yn Economi'r Nos yn lleol ar hyn o bryd, sy'n arwain at wrthdaro ac ymosodiadau ar swyddogion.
- Mae yna ganfyddiad negyddol yn gysylltiedig ag Economi'r Nos yn Abertawe, sy'n debygol o effeithio ar nifer yr ymwelwyr â'r ardal. Y canfyddiad yw bod Stryd y Gwynt, yn arbennig, yn lle sy'n addas ar gyfer pobl ifanc, a bod ymladd ac ymddygiad stwrllud yn arferol o ganlyniad i ddiwylliant sefydledig o oryfed. Yn fwy diweddar, mae adroddiadau am achosion honedig o sbeicio yn golygu bod ar fenywod, yn arbennig, ofn mynd allan. Er bod yna rywfaint o ddata canfyddiadau ar gael (gweler isod), cynhaliwyd yr astudiaeth ddiwethaf sawl blwyddyn yn ôl.
- Er bod cyd-weithwyr yn y sector iechyd yn aelodau o'r Grŵp Economi'r Nos, nid ydynt wedi gallu mynychu'r cyfarfodydd ers peth amser. Ni fu modd cael data iechyd mewn perthynas â derbyniadau i adrannau damweiniau ac achosion brys sy'n gysylltiedig ag alcohol a chyffuriau.
- Er bod y llywodraeth wedi cymryd camau i lacio rhai cyfreithiau er mwyn cefnogi busnesau i adfer yn dilyn COVID, mae hyn, mewn rhai achosion, wedi effeithio'n andwyol ar allu rheoleiddwyr i reoli Economi'r Nos yn effeithiol. Er enghraifft, mae yna gynigion i gynyddu nifer yr Hysbysiadau am Ddigwyddiadau Dros Dro y gall lleoliad wneud cais amdanynt o 15 i 22 y flwyddyn, a hynny o'r flwyddyn nesaf ymlaen. Oherwydd y pandemig, mae swyddogion ar hyn o bryd yn delio â cheisiadau lluosog, rai ohonynt ar gyfer yr oriau mân a hyd at 5 o'r gloch y bore, ac nid yw'r broses yn rhoi llawer o gyfle iddynt gael eu gwrthod ar sail gyfreithlon. Mae yna bryder, yn enwedig os bydd y niferoedd yn cynyddu, y bydd swyddogion yn cael eu boddi gan geisiadau, yn enwedig ar ddyddiadau allweddol. Gallai hyn arwain at droseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, yn ogystal â gwahaniaethau o ran amseroedd agor lleoliadau ac amseroedd gwasgaru torfeydd, y bydd angen sicrhau adnoddau ar eu cyfer.
- Wedi iddo gael ei gwblhau, bydd y gwaith i Stryd y Gwynt yn trawsnewid tir y cyhoedd yn yr ardal hon, gan roi cyfle gwych i'r gweithredwyr fanteisio i'r eithaf ar eu mannau awyr agored. Fodd bynnag, mae angen buddsoddi mewn seilwaith ac mewn newidiadau i arferion gweithredu er mwyn gallu defnyddio'r gofod mewn modd diogel, deniadol a hygyrch, ac er mwyn ymestyn apêl yr ardal i ddemograffeg ehangach yn yr hirdymor.

- Mae'r gwaith o farchnata a hyrwyddo Economi'r Nos yn dameidiog. Er bod partneriaid yn gwneud eu gorau ag adnoddau cyfyngedig, mae angen dull mwy cydlynol a chyson. At hynny, nid yw'r Bartneriaeth wedi manteisio ar ei statws Baner Borffor.
- Er bod y Strategaeth o Addasu Canol y Ddinas at Ddibenion Gwahanol yn ddefnyddiol o ran darparu cyfeiriad strategol cyffredinol mewn perthynas ag adfer Canol y Ddinas, mae'n canolbwyntio'n bennaf ar economi'r dydd. Mae rhai gweithgareddau trawsbynciol wedi cael eu cynnig; fodd bynnag, er mwyn adeiladu ar hyn, ac ar statws Baner Borffor Abertawe yn benodol, byddai'r sector yn elwa o strategaeth tymor canolig i hirdymor. Byddai deall demograffeg cwsmeriaid presennol Economi'r Nos a'r canfyddiadau o'r ardal (fel uchod) yn allweddol i'r broses sylfaenol, fel y byddai gwerthuso effeithiolrwydd y polisiau a'r gweithdrefnau presennol sydd ar waith, ynghyd ag effaith yr Arena a'r gwaith i Stryd y Gwynt (a datblygiadau eraill), yn ogystal â newidiadau newydd i ddeddfwriaeth.

Newidiadau dros amser

Mae ystadegau ar droseddau a gofnodwyd yng Nghanol Dinas Abertawe fesul math ar gael gan Heddlu De Cymru. O 2014 ymlaen, y duedd gyffredinol yw gostyngiad bach yn y cyfanswm, er bod y ffigurau'n sefydlog ar y cyfan rhwng 2016 a 2018. Fodd bynnag, roedd yna ostyngiad sydyn yng nghyfanswm nifer y troseddau yng Nghanol y Ddinas yn 2019, ac eto yn 2020, ond mae'r pandemig yn ffactor mawr yn hyn o beth. Mae nifer y troseddau a gofnodwyd wedi disgyn yn gyffredinol yn achos pob prif fath er 2014.

Mae cyfansoddiad y mathau o safleoedd sy'n rhan o Economi'r Nos yn Abertawe wedi newid rhwng 2017 a 2021, gyda'r nifer uchaf (2021) yn y categorïau 'Siopau a marchnadoedd sy'n agor yn hwyr', 'Bwytaï teuluol a bwyd byd-eang' a 'Bwyd cyflym a siopau tecawê' (dros 40 o adeiladau bob un), gyda'r twf mwyaf er 2017 yn y categorïau 'bwyd cyflym ...' a 'siopau sy'n agor yn hwyr ...' (cynnydd o dros 10 bob un).

Mae nifer y Safleoedd Trwyddedig hefyd wedi cynyddu, o 112 yn 2016 i 134 yn 2021. Mae cyfanswm y capasiti dros y cyfnod cyfan wedi cynyddu 675 i ychydig dros 30,000, er y bu gostyngiad o dros 2,000 rhwng 2020 a 2021 oherwydd cyfyngiadau COVID-19. Mae ystadegau manwl hefyd ar gael ar agweddau penodol ar wasanaethau sy'n ymwneud ag Economi'r Nos a newidiadau dros amser.

Cymharu â lleoedd eraill

Yn aelod o'r Gymdeithas Rheoli Canol Trefi, mae gan wasanaeth y Cyngor ar gyfer Rheoli Canol y Ddinas ac Ardal Gwella Busnes Abertawe fynediad at rwydwaith o reolwyr trefi a chanol dinasoedd a swyddogion Ardaloedd Gwella Busnes sy'n ymwneud â'r gwaith o reoli eu trefi a'u canol dinasoedd eu hunain, gan gynnwys ardaloedd eu Heconomi'r Nos.

Rhennir gwybodaeth yn rheolaidd trwy rwydwaith BaseCamp. Cynhelir cyfarfodydd rhanbarthol yn rheolaidd hefyd i drafod materion sy'n berthnasol i Gymru.

Mae proses adnewyddu y Faner Borffor yn darparu system lle caiff rhinweddau Abertawe eu hasesu yn unol â meini prawf penodol, lle caiff arfer gorau ei rannu, a lle caiff bylchau yn y ddarpariaeth eu nodi ar gyfer gweithredu yn y dyfodol.

Mae cyd-weithwyr ym maes trwyddedu yn cymryd rhan mewn fforymau sy'n ymwneud â thrwyddedu gyda'u cymheiriaid ledled Cymru, a chaiff y manylion eu bwydo'n ôl i'r Grŵp Economi'r Nos lle bo hynny'n berthnasol.

Gwahaniaethau ledled Abertawe

Mae yna lecynnau bach o weithgarwch Economi'r Nos y tu allan i Ganol y Ddinas, mewn rhannau eraill o Abertawe, er enghraifft yn y Mwmbwls ac Uplands; fodd bynnag ni ellir cymharu graddfa'r gweithgarwch.

Canfyddiadau a phersbectifau

Cyn i'r gwaith i wella tir y cyhoedd ddechrau ar Stryd y Gwynt, cynhaliwyd nifer o ymarferion ymgynghori ffurfiol ac anffurfiol yn 2018-19 ymhlith busnesau a thrigolion lleol sydd wedi'u lleoli ar Stryd y Gwynt neu'n agos ati, yn ogystal ag â rhanddeiliaid allweddol. Gwnaed hyn er mwyn profi barn am yr ardal ac opsiynau yn y dyfodol. Roedd yr ymarferion hyn yn cynnwys arolygon, yn ogystal â digwyddiadau ymgysylltu a gweithdai.

Defnyddiwyd yr adborth hwn i helpu i lywio'r prosiect, sydd bellach yn nes at gael ei gwblhau. Fodd bynnag, daeth nifer o themâu cyffredinol i'r amlwg dro ar ôl tro yn ystod y broses. Nod y prosiect yw helpu i fynd i'r afael â'r themâu hyn, a grynhoir isod, trwy wella amgylchedd cyffredinol y stryd:

- Canfyddiadau bod yr ardal yn swllyd;
- Canfyddiadau o drais;
- Cydnabyddiaeth bod yr ardal yn atyniad, ond i bobl ifanc yn bennaf;
- Pryderon ynghylch diogelwch cerbydau sy'n cael mynediad i'r ardal tra bo'r ffordd ynghau.

Cynhaliwyd Arolwg Ymwelwyr diweddaraf Twristiaeth Bae Abertawe gan Beaufort Research, a hynny ar ran y Cyngor yn 2019. Roedd hyn yn cynnwys dros 1,000 o gyfweiliadau wyneb yn wyneb, a gynhaliwyd rhwng mis Ebrill a mis Medi 2019 mewn lleoliadau amrywiol ledled Abertawe, gan gynnwys mewn dau leoliad yng Nghanol y Ddinas (y cyfeirir atynt isod fel 'Abertawe') lle cafodd 300 o bobl eu cyf-weld.

Er mai arolwg wedi'i deilwra ar gyfer ymwelwyr oedd hwn, mae rhai o'r penawdau'n berthnasol i Economi'r Nos yn Abertawe. Er enghraifft, rhoddodd yr ymatebwyr sgôr ar raddfa pum pwynt i nifer o agweddau ar eu hymweliad, a oedd yn amrywio o 'rhagorol' i 'gwael iawn'. Roedd o leiaf hanner yr holl ymwelwyr ag Abertawe o'r farn bod yr agweddau hyn naill ai'n 'rhagorol' neu'n 'dda'; fodd bynnag, rhoddodd llai na dwy ran o bump sgôr 'rhagorol' i rai o'r agweddau hyn. Yr agweddau a gafodd y sgôr uchaf oedd 'ansawdd y llety' a'r 'amrywiaeth o leoedd i fwyta ac yfed', yn cael eu dilyn gan 'teimlo'n ddiogel rhag trosedd', 'ansawdd yr atyniadau a'r lleoedd i ymweld â nhw/pethau i'w gwneud', yr 'amrywiaeth o siopau' a'r 'amrywiaeth o atyniadau a lleoedd i ymweld â nhw/phethau i'w gwneud'. Yr agweddau a oedd

leiaf tebygol o gael sgôr uchel oedd 'glendid y strydoedd', 'safon yr arwyddion i dwristiaid (arwyddion ffyrdd ac arwyddion i gerddwyr)', ac 'argaeledd a glendid toiledau cyhoeddus'.

Tueddiadau yn y Dyfodol a Rhagolygon ar gyfer Abertawe

Fel y dangosir gan y mesurau a roddwyd ar waith uchod i gefnogi busnesau Economi'r Nos yn Abertawe, roedd y pandemig wedi ffocysu sylw ar werth Economi'r Nos i'r economi leol – rhywbeth nad oedd yn cael ei gydnabod cymaint yn y gorffennol, o bosibl.

Ar lefel genedlaethol, sefydlodd *A study of the night time economy* gan Gymdeithas Diwydiannau'r Nos (cyhoeddwyd Hydref 2021) werth economaidd, diwylliannol a chymunedol Economi'r Nos, ynghyd â chyfraniad economi ddiwylliannol y nos yn y DU. Canfu'r adroddiad hwn fod economi ddiwylliannol y nos yn y DU wedi cyfrannu'n gyson ac yn barhaus at gynnyrch domestig gros y DU, gan gynhyrchu 1.64% neu £36.4 biliwn yn 2019, a chynnal tua 425 mil o swyddi a 38 mil o fusnesau yn y DU yn 2018 (y ffigurau diweddaraf). Mae Economi'r Nos yn y DU yn cyfrannu 5.1% a £112.8 biliwn at y cynnyrch domestig gros. Nododd yr adroddiad fod economi ddiwylliannol y nos yn cael effaith sylweddol, y tu hwnt i ddadansoddiad economaidd pur, ym meysydd cydlyniant cymdeithasol, ymgysylltu cymunedol, iechyd meddwl a llesiant.

Integreiddio

Mae Economi'r Nos yn drawsbynciol. Er enghraifft, mae ei gwerth masnachol ac economaidd yn creu cysylltiad clir â llesiant economaidd.

Yn yr un modd, mae'r adeiladau diwylliannol sy'n rhan o arlwy Economi'r Nos, er enghraifft amgueddfeydd, theatrau a sinemâu, yn cyfrannu at lesiant diwylliannol.

Mae Economi'r Nos hefyd yn cwmpasu'r agweddau amgylcheddol gan fod y modd yr ymdrinnir â thir y cyhoedd sy'n rhan o Economi'r Nos yn cyd-fynd â dyheadau amgylcheddol trwy waith adfywio a gweithgareddau eraill.

O ran pynciau llesiant cymdeithasol, mae yna orgyffwrdd â gweithgareddau sy'n dod o dan Bartneriaeth Abertawe Mwy Diogel. Yn benodol, mae effaith yfed alcohol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol wedi'i dogfennu'n dda mewn gwaith ymchwil. Yn yr un modd, mae gan Economi'r Nos gysylltiad cryf â chamddefnyddio sylweddau, ac mae rheoli hyn yn allweddol i arferion gweithredol ac i'r Heddlu.

Gwella

- Llai o droseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, gan greu llai o angen am adnoddau rheng flaen/yr Heddlu;
- Arlwy hamdden mwy amrywiol, gan gynnwys byd fin nos mwy bywiog, a llai o sefydliadau sy'n gwerthu diodydd yn unig a chynigion ar gyfer yfed alcohol;
- Sylfaen cwsmeriaid ehangach sy'n cynnwys oedolion hŷn a theuluoedd;
- Darparu manau awyr agored deniadol a reolir yn dda;

- Cynnig sy'n cael ei farchnata'n dda, ynghyd â chanfyddiad o fod y lle i ymweld ag ef am noson allan bleserus a diogel;
- Ymagwedd gydweithredol barhaus at Economi'r Nos, gan gynnwys iechyd.

Casgliadau a negeseuon allweddol

Mae gan Economi'r Nos yn Abertawe enw da yn genedlaethol ymhlith cyd-weithwyr proffesiynol o fod yn geffyl blaen o ran y modd y dylai'r sector gael ei reoli. Mae'r bartneriaeth yn gryf, caiff gweithredwyr eu cefnogi'n dda, ac mae yna nifer o enghreifftiau o arfer gorau. Ar lawr gwlad, fodd bynnag, mae adborth anffurfiol ac *ad hoc* gan ymwelwyr a thrigolion yn awgrymu mai apêl gyfyngedig sydd i'r ardal, a bod rhai yn ei hystyried yn anneniadol ac yn annïogel – barn nas profwyd yn ddiweddar, ac yn un a allai fod wedi'i hyrwyddo gan y pandemig.

Mae yna nifer o ddatblygiadau cadarnhaol ar y gorwel ar gyfer y sector. Fodd bynnag, mae angen rhoi ystyriaeth briodol i oblygiadau'r datblygiadau hyn, yn ogystal â rhai eraill, a hynny ar ffurf Strategaeth Economi'r Nos a Chynllun Marchnata a Chyfathrebu. Bydd yr ymagwedd hon yn helpu i wneud y mwyaf o'r newidiadau yn y dyfodol, ac yn datblygu rhai eraill, a hynny er mwyn cytuno ar weledigaeth, a chyflawni'r weledigaeth honno, o ganolfan gymdeithasol ffyniannus ar gyfer hwyl ac adloniant, sy'n groesawgar, yn ddiogel, yn llewyrchus ac yn gynhwysol i'r rhai sy'n chwilio am weithgareddau hamdden ledled ystod amrywiol o weithgareddau.

Troseddau Casineb

Diffinnir trosedd gasineb fel 'unrhyw drosedd sydd, yng ngolwg y dioddefwr neu unrhyw un arall, yn cael ei symbylu gan elyniaeth neu ragfarn tuag at rywun yn seiliedig ar nodwedd bersonol'. Cytunwyd ar y diffiniad cyffredin hwn yn 2007 gan yr Heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron, y Gwasanaeth Carchardai (y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwy'r bellach), ac asiantaethau eraill sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol. Mae yna bum llinyn i drosedd gasineb sy'n cael eu monitro'n ganolog:

- hil neu ethnigrwydd;
- crefydd neu gredoau;
- cyfeiriadedd rhywiol;
- anabled;
- hunaniaeth drawsrywiol (Llywodraeth y DU, 2020).

Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2020, cofnodwyd 105,090 o droseddau casineb gan yr Heddlu yng Nghymru a Lloegr (ac eithrio Manceinion Fwyaf), sef cynnydd o 8% o gymharu â'r flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2019 (97,446 o droseddau). Mae'r cynnydd hwn yn genedlaethol yn adlewyrchu darlun cyffredinol tebyg yn Abertawe.

Newidiadau dros amser

Mae data o 2014-15 yn rhoi darlun mwy cyfannol o gyfraddau'r troseddau casineb a gofnodwyd ar gyfer Abertawe, gyda'r tueddiadau'n haws eu hadnabod.

Mae'r ffigurau wedi cynyddu oddi ar 2014-15, ond wedyn wedi gostwng fymryn yn 2017-18 ac yna gynyddu fymryn yn 2020-21. Ar ddechrau 2021/22, hyd yn hyn roedd 191 o droseddau casineb wedi'u cofnodi; fodd bynnag, y duedd a ragwelir os bydd adrodd am droseddau casineb yn parhau ar ei raddfa bresennol yw 458 o droseddau casineb.

Tabl S16: Cyfanswm y Troseddau Casineb yn Abertawe fesul blwyddyn a sector, 2014 i 2022

| Blwyddyn | Y Ddinas | Ochr Ddwyreiniol | Gorseinon | Gŵyr | Treforys | Pen-lan | Townhill | Cyfanswm |
|--------------------------------------|-----------------|-------------------------|------------------|-------------|-----------------|----------------|-----------------|-----------------|
| 2014-15 | 123 | 30 | 17 | 22 | 30 | 34 | 20 | 276 |
| 2015-16 | 121 | 46 | 28 | 20 | 36 | 26 | 34 | 311 |
| 2016-17 | 130 | 28 | 22 | 24 | 38 | 34 | 36 | 312 |
| 2017-18 | 119 | 38 | 23 | 21 | 32 | 51 | 24 | 308 |
| 2019-20 | 115 | 37 | 39 | 36 | 37 | 36 | 28 | 328 |
| 2020-21 | 118 | 47 | 31 | 32 | 48 | 31 | 31 | 338 |
| 2021-22 y flwyddyn hyd yma | 65 | 17 | 41 | 10 | 25 | 22 | 11 | 191 |
| 2021-22 disgwyliad diwedd y flwyddyn | 156 | 41 | 98 | 24 | 60 | 53 | 26 | 458 |

Casineb hiliol yw'r drosedd gasineb fwyaf cyffredin a gofnodir yn Abertawe. Cofnodwyd 209 o achosion yn 2014-15, a chododd hyn i 240 erbyn 2020-21. Rhagwelir y bydd 312 o droseddau yn ystod 2021/22. Mae patrymau troseddau casineb yn eithaf rhagweladwy, ac mae cynnydd yn nifer yr achosion a gofnodir yn tueddu i gyd-fynd â thywydd braf a misoedd yr haf. Nid oes yna batrwm na thuaddiadau nac unrhyw ffurf arbennig ar drosedd gasineb yn erbyn unrhyw grŵp hiliol penodol. Mae adroddiadau'n wasgaredig o ran y ddaearyddiaeth a'r lleoliad.

Cymharol isel yw nifer y troseddau casineb crefyddol a gofnodir, ac nid yw'r ffigur blynyddol ar gyfer Abertawe wedi bod yn uwch nag 20 oddi ar 2014-15. Yr ardal amlycaf ar gyfer cyflawni'r troseddau hyn yw sector Canol y Ddinas, sy'n adlewyrchu demograffeg yr ardal honno.

Yn gyffredinol, mae nifer y troseddau casineb cysylltiedig â chyfeiriadedd rhywiol a gofnodir wedi amrywio, gyda thua 40-50 o adroddiadau bob blwyddyn. Fodd bynnag, yr amcanestyniad ar gyfer 2021/22 yw 96.

Mae nifer y troseddau casineb trawsryweddol a gofnodir yn isel yn gyffredinol, gyda chyfanswm blynyddol uchaf o 10 yn 2020-21.

Mae nifer y troseddau casineb cysylltiedig ag anabledd a gofnodir hefyd yn gyffredinol isel, er bod y niferoedd yn cynyddu. Cafwyd y cyfanswm blynyddol uchaf yn 2020-21, sef 42 o

adroddiadau. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, yr ardal amlycaf ar gyfer digwyddiadau o'r math hwn yw sector Gorseion, er bod nifer yr achosion yn eithaf isel.

Cymharu â lleoedd eraill

Mae dadansoddiad o droseddau casineb rhwng ardaloedd Heddlu De Cymru (Caerdydd a'r Fro, Morgannwg Ganol, Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot) ar gyfer 2017-18 yn dangos bod nifer y troseddau casineb a gofnodwyd yn is yn ystod misoedd y gaeaf ond yn uwch yn ystod misoedd yr haf ar gyfer y cyfnod hwnnw. Caerdydd a'r Fro sydd â'r ffigurau uchaf yn gyson yn ardal y Llu, a throsedd gasineb hiliol yw'r math o drosedd gasineb a gofnodir fwyaf – sy'n adlewyrchu demograffeg yr ardal honno yn rhannol.

Gwahaniaethau ledled Abertawe

Mae Abertawe yn ddinas hynod o fywiog a chanddi lawer o ddiwylliannau, ac mae nifer y troseddau casineb a gofnodir yn gymharol isel o gymharu â dinasodded eraill y DU. Mae nifer y troseddau a gofnodir wedi aros yn gymharol gyson yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf.

Mae ymagwedd Abertawe at amrywiaeth wedi cael ei thro'i'n bolisiau, yn brosiectau ac yn ffocws cryf ar gyfathrebu. Hon oedd yr ail ddinas yn y DU i ddod yn Ddinas Noddfa, sef rhwydwaith o ddinasoedd sy'n croesawu'r rheiny sy'n ffoi rhag rhyfel ac erledigaeth. Roedd Abertawe hefyd ymhlith y pum tref a dinas a oedd ar y rhestr fer i fod yn Ddinas Diwylliant y DU yn 2021.

Er bod y gyfradd adrodd wedi parhau'n sefydlog ym mhob sector plismona, yng Nghanol y Ddinas y cafodd y lefel uchaf o droseddau casineb eu cofnodi yn gyson, gyda 123 yn cael eu cofnodi yn y flwyddyn 2014-2015 (45% o gyfanswm Abertawe o 276), a 118 yn y flwyddyn 2020-2021 (35% o gyfanswm Abertawe o 338). Fodd bynnag, mae'r troseddau casineb a gofnodwyd wedi'u gwasgaru ledled Canol y Ddinas, ac nid oes yna'r un ardal lle mae'r tueddiadau yn arwyddocaol.

Gŵyr sydd â'r lefel isaf o droseddau casineb cofnodedig yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf, gyda chyfanswm o 155 o ddigwyddiadau wedi'u cofnodi.

Mae'r ffigurau adrodd hyn yn unol â dymeg y boblogaeth yn ardal pob sector, gyda'r crynodiad dwysaf o drigolion o gefndiroedd lleiafrifol yn byw yn Sector y Ddinas, sydd wedi arwain at y lefel gofnodi uchaf.

Mae'r lefel gofnodi gyffredinol ledled y sectorau yn Uned Reoli Sylfaenol Abertawe hefyd wedi parhau'n sefydlog, sef tua 300 y flwyddyn.

Gan edrych ar yr amcanestyniad ar gyfer 2021-2022, mae'n edrych yn debyg y bydd y ffigur hwn yn codi i tua 450; gellir ystyried hyn yn llwyddiant o safbwynt plismona am ei fod yn amlygu'r ymddiriedaeth a'r hyder cynyddol i gofnodi troseddau.

Canfyddiadau a phersbectifau

Cafwyd sawl digwyddiad proffil uchel, rai bellach yn hanesyddol, sy'n dal i effeithio ar densiynau mewn cymunedau lleol. Mae rhai o'r digwyddiadau hyn wedi bod yn destun adolygiad academaidd a barnwrol. Fodd bynnag, mae'r naratifau a ysgrifennwyd yn canolbwyntio'n bennaf ar yr ymchwiliadau eu hunain, a'r ymholiadau ynghylch eu hamgylchiadau. Arweiniodd yr anrhefn diweddar yn Mayhill (Mai 2021) at adolygiad partneriaeth a ffurfiol. Rhan o'r gwaith hwn yw deall pam y digwyddodd hyn, beth oedd y ffactorau cyfrannol a sut y bu i'r heddlu a'r bartneriaeth ymateb. Y digwyddiad a sbardunodd yr anrhefn hwn oedd marwolaeth annisgwyl unigolyn a oedd yn adnabyddus yn y gymuned. Bu nifer o ddigwyddiadau, cyn ac ar ôl pandemig, yn fecanweithiau sbarduno i drawsnewid tensiwn yn anrhefn ar ryw lefel. Gellir cysylltu'r rhain â phrotest genedlaethol lle caiff cred neu ddigwyddiad ei drawsleoli'n aml i'r teimlad lleol, pan fo'r digwyddiad wedi digwydd mewn rhan wahanol o'r wlad neu hyd yn oed pan fo iddo ddimensiwn rhyngwladol (e.e. Mae Bywydau Du o Bwys).

Mae heddlu a phartneriaid lleol yn ymwybodol iawn o bŵer cynyddol y Rhynggrwyd a'r cyfryngau cymdeithasol, gyda'u gallu i symbylu barn y cyhoedd. Gall hyn fod yn gwbl seiliedig ar ganfyddiad, a all droi'n weithredu corfforol a chael effaith sylweddol ar gydlyniant lleol a'r ymdeimlad o deimlo'n ddiogel mewn cymunedau ymylol. Nid ydym wedi gweld hyn i'r fath raddau yn Abertawe, ac nid yw'r tensiwn wedi arwain at anrhefn, ac mae mwyafrif y protestiadau wedi'u rheoli'n dda ac yn dod i ben yn ddiraffferth. Mae hefyd yn werth nodi bod gan ofod cyhoeddus y cyfryngau cymdeithasol duedd yn yr ardal hon i'w blismona ei hun, a darperir gwrth-naratifau yn agored lle defnyddir iaith ddirmygus neu gynhennus. Fodd bynnag, mae angen i bartneriaid barhau i weithio'n galed i gyfleu negeseuon arwyddocaol a pherthnasol, a hynny mewn modd rhagweithiol ac mewn ymateb i bryderon am ddiogelwch cymunedol.

Bydd data ar droseddau a digwyddiadau casineb yn y maes hwn yn dangos na fu unrhyw duedd benodol o ran digwyddiadau a gofnodwyd y tu hwnt i'r hyn y mae'r data hanesyddol a thymhorol yn rhagweld a ddylai ddigwydd. Mae'r tueddiadau a welwn flwyddyn ar ôl blwyddyn yn gyson â'r ffaith bod materion yn ymwneud â hil yn ffurfio rhan sylweddol o'r dirwedd cofnodi. Mae partneriaid yn parhau â'u gwaith o nodi cymunedau a allai fod yn 'agored i ddylanwadau' a, gyda'i gilydd, maent yn gweithio'n rhagweithiol i ymdrechu i feithrin perthnasoedd â'r cymunedau hynny a phartneriaid perthnasol yn y trydydd sector. Mae perthnasoedd cadarn yn bodoli yn y manau hyn, ac mae deialog anffurfiol a ffurfiol gadarn ar waith i dawelu ofnau os daw problemau i'r amlwg, ac os bydd materion difrifol yn codi. Mae partneriaid yn deall gweithgarwch rhagataliol yn y maes hwn, a bod dealltwriaeth o'r ddemograffeg leol newidiol yn hollbwysig.

Mae Ymarfer Proffesiynol Awdurdodedig y Coleg Plismona yn nodi'r fframwaith i ddeall dangosyddion ar gyfer cynnydd mewn tensiynau cymunedol, a defnyddir y fframwaith hwn i lywio a rhagdybio ymatebion partneriaethau a'r Heddlu. Mae enghreifftiau o ddangosyddion o'r fath yn cynnwys:

- troseddau casineb (e.e. ymosodiadau hiliol neu homoffobig);
- patrolau *vigilante*;
- cyrchoedd yr heddlu ar safleoedd sensitif (e.e. adeiladau diwylliannol neu grefyddol);
- bygythiadau i ddiogelwch y gymuned (e.e. ychwanegiadau at y gofrestr troseddwr rhyw a allai achosi problemau);

- bygythiadau rhyng-gymunedol (e.e. rhwng sectau crefyddol);
- digwyddiadau mynych o ymddygiad gwrthgymdeithasol difrifol;
- diddordeb cryf gan y cyfryngau mewn materion cymunedol (e.e. materion yn ymwneud â cheiswyr lloches);
- gwrthdaro byd-eang, yn enwedig lle mae gan boblogaethau'r DU dreftadaeth yn y rhanbarthau yr effeithir arnynt;
- aflonyddwch gwleidyddol neu weithgarwch terfysgol dramor, yn enwedig lle mae'n effeithio ar boblogaethau yn y DU, neu lle mae'n cael sylw helaeth yn y cyfryngau.

Yn lleol yn Abertawe, bu rhywfaint o gynnydd o ran safbwyntiau asgell dde eithafol yn eu hamlygu eu hunain yng Nghanol y Ddinas, er enghraifft trwy wrthwynebu plygu glin, a thrwy gael llawer o sylw ar y cyfryngau cymdeithasol. Nodwyd rhywfaint o densiwn hefyd o gwmpas y cymunedau digartref sy'n cael eu cartrefu mewn llety dros dro, yn ogystal â pheth nerfusrwydd yn ddiweddar ynghylch ceiswyr lloches, a sensitifrwydd gwirioneddol ynghylch trais yn erbyn menywod a merched ac effeithiau hyn ar boblogaeth y myfyrwyr.

Mae'r holl bartneriaid a'r Heddlu yn hyderus bod y strwythurau a'r ymyraethau yn ddigon cydgyssylltiedig i fynd i'r afael â'r heriau parhaus hyn.

Ynglŷn â'r dystiolaeth

Gwnaed cryn dipyn o waith ymchwil gan amryw o gyrff, y Swyddfa Gartref yn eu plith, sy'n dangos nad yw dioddefwyr troseddau casineb yn rhoi gwybod i sefydliadau perthnasol na'r Heddlu am eu profiadau. Mae diffyg cofnodi troseddau casineb yn amrywio'n sylweddol yn ôl y math o drosedd gasineb a gofnodir. Mae yna sawl reswm gwahanol am hyn, gan gynnwys lefelau isel o ymwybyddiaeth gyhoeddus a'r modd y mae troseddau casineb yn cael eu diffinio mewn perthynas â grwpiau gwahanol. Mae lefelau isel yr euogfarnau o ganlyniad i droseddau casineb hefyd yn chwarae rhan, ynghyd â diffyg cymorth wedi'i deilwra i dioddefwyr troseddau casineb.

Mewn ymateb i hyn, mae cyfres fwy diffiniedig o brosesau wedi cael ei rhoi ar waith i gefnogi dioddefwyr troseddau casineb. Er bod ffigurau troseddau casineb wedi cynyddu, gellir ystyried hyn yn rhywbeth cadarnhaol gan fod hyder ac ymwybyddiaeth y dioddefwyr wedi cynyddu i allu adrodd am yr achosion.

Er mwyn gwella'r ymateb i droseddau casineb, a gwella hyder dioddefwyr i roi gwybod am ddigwyddiadau yn Abertawe, mae Heddlu De Cymru yn cynnal deialog aml ag asiantaethau partner a chymunedau BAME i drafod materion a nodir. Mae sefydlu MARAC (Cynhadledd Asesu Risg Amlasiantaethol) ar gyfer Troseddau Casineb hefyd yn cael ei ystyried. Sefydlwyd yr Hyb Diwylliannol yn Theatr y Grand, ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr o grwpiau a chymunedau BAME gwahanol; mae perthnasoedd yn parhau i gael eu meithrin â'r grwpiau gwahanol. Y nod hirdymor yw meithrin a datblygu hyder yn ein cymunedau fel eu bod yn ymwybodol o'r dulliau o gofnodi troseddau casineb a'r hyn a olygir wrth drosedd neu ddigwyddiad casineb, a bod ganddynt yr ymddiriedaeth a'r hyder i roi gwybod amdano.

Casgliadau a negeseuon allweddol

Mae'r ddinas yn esblygu'n gyson o ganlyniad i dwf poblogaeth y myfyrwyr, cynnydd ym maint y ddwy brifysgol, a chynnydd diweddar yn y niferoedd sy'n mewnfudo i Abertawe.

Mae lefelau troseddau casineb yn gyffredinol isel ledled pob ardal yn Abertawe, ond mae'r lefelau'n tueddu i fod yn uwch yn ardal y ddinas yn achos troseddau casineb hiliol – y drosedd gasineb amlycaf a gofnodir. Mae cyfraddau cofnodi troseddau casineb wedi cynyddu'n genedlaethol er 2012, ac adlewyrchir hyn yn y ffigurau ar gyfer Abertawe, er eu bod wedi bod yn gyffredinol is na'r cynnydd cenedlaethol. Y rheswm am hyn yw bod y dulliau ar gyfer cynyddu nifer y bobl sy'n rhoi gwybod am droseddau casineb wedi gwella. Mae hyn yn cynnwys gwell cymorth i ddiodefwyr, gwell ymwybyddiaeth o ddulliau cofnodi, a mwy o weithgareddau a digwyddiadau ymgysylltu â grwpiau a diodefwyr gwahanol.

Mae yna gryn dipyn o waith i'w wneud o hyd i sicrhau bod pob trosedd gasineb yn cael ei chofnodi, ac mae hyn yn cysylltu â Chydlyniant Cymunedol. Mae'n hollbwysig bod tensiynau yn y gymuned yn cael eu monitro, bod unrhyw gynnydd yn cael ei adolygu, a bod camau gweithredu yn cael eu rhoi ar waith i leihau tensiynau.

Bydd y gwaith rhagorol a wnaed i wella nifer y troseddau casineb a gofnodir yn parhau i ddatblygu dros amser. Bydd newid demograffig yn parhau i gael ei fonitro, a bydd angen i gydlyniant cymunedol adlewyrchu hyn yn y dyfodol gan nad yw un maint yn addas i bawb o ran demograffeg a chyfansoddiad pob cymuned. Nid oes yna unrhyw dueddiadau yn erbyn unrhyw grŵp BAME penodol neu grwpiau eraill, ac nid oes yna unrhyw ardaloedd lle mae'r tueddiadau'n uwch, ac eithrio Canol y Ddinas; fodd bynnag, adlewyrchir hyn yng nghyfansoddiad demograffig ardal y Ddinas.

Mae Abertawe wedi profi twf o ran yr asgell dde eithafol, gyda grwpiau penodol yn cael eu creu ac unigolion yn dod i'r amlwg. Mae'r diddordeb ynddynt yn gyffredinol isel ar hyn o bryd, ac mae nifer y dilynwyr yn isel ar y cyfan. Ychydig iawn o effaith y maent wedi'i chael ar gydlyniant cymunedol hyd yma, er y bydd y sefyllfa'n cael ei monitro ac yn bwydo'r dulliau ar gyfer nodi tensiwn cymunedol.

Mae Abertawe wedi gweld cynnydd yn nifer y bobl sy'n mewnfudo i'r Ddinas yn ystod y deng mlynedd ddiwethaf. Yn ddiweddar, mae hyn wedi cynnwys ffoaduriaid o Syria ac Affganistan. Mae'r niferoedd yn isel ar hyn o bryd. Nid oes unrhyw arwydd eto fod tensiynau cymunedol wedi cynyddu, ac mae'r broses o gymathu'r bobl hyn yn y ddinas wedi bod yn un esmwyth.

Un o brif amcanion cynnal a gwella cydlyniant cymunedol yw sicrhau bod yr Heddlu a phartneriaid yn ymwybodol o faterion cyn iddynt waethygu. Er mwyn cyflawni hyn, bydd plismona cymunedol a Phartneriaeth Abertawe Mwy Diogel wrth wraidd y broses o fonitro cydlyniant. Mae'r defnydd o lwyfannau'r cyfryngau cymdeithasol hefyd yn bwysig o ran monitro materion cymunedol ac ar gyfer postio negeseuon diogelwch cymunedol.

Yn y pen draw, mae yna rannau o'r gymuned na fyddant yn gallu cyrchu'r cyfryngau cymdeithasol gystal, gan gynnwys pobl hŷn, felly mae hefyd yn bwysig bod negeseuon yn cael eu cyfleu trwy ddulliau eraill. Mae'r defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol wedi bod yn bwysig yn ystod cyfyngiadau symud COVID-19 i gyhoeddi negeseuon diogelwch cymunedol, a hynny am na fu'n bosibl cynnal digwyddiadau ymgysylltu.

Ffactorau eraill a fydd yn bwysig iawn o ran cynnal cydlyniant fydd rhagor o weithgareddau wyneb yn wyneb gyda phartneriaid yn y sector cyntaf a'r trydydd sector, er enghraifft cymdeithasau tai a grwpiau gwirfoddol. Wrth i'r broses o adfer yn dilyn COVID fynd rhagddi, bydd y defnydd o weithgareddau wyneb yn wyneb yn cynyddu yn y dyfodol gan fod o fudd i gydlyniant cymunedol.

Cydlyniant Cymunedol

Nod allweddol y rhaglen cydlyniant cymunedol yw chwalu rhwystrau ymhlith pobl, goresgyn eu hofn o wahaniaeth, annog goddefgarwch, a dathlu amrywiaeth yn fudd i'n cymunedau. Mae hyn yn cysylltu'n uniongyrchol â'r nod cenedlaethol 'Gymru o Gymunedau Cydlynus' o dan y Ddeddf.

Ym mis Rhagfyr 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fanylion ei rhaglen ariannu ddiweddaraf ar gyfer Cydlynwyr Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol yng Nghymru, a disgwylir i bob rhanbarth wneud y canlynol:

- Nodi a lliniaru tensiynau yn y gymuned (troseddau casineb, eithafiaeth, gorbryder, ymddygiad gwrthgymdeithasol) sy'n gysylltiedig â Brexit;
- Gwella cyfathrebu sy'n ymwneud â chydlyniant cymunedol;
- Trefnu digwyddiadau/gweithgareddau i hybu cynhwysiant cymdeithasol; a
- Darparu gweithgareddau nad ydynt yn ymwneud â Brexit, fel yr amlinellir yn y Cynllun Cydlyniant Cymunedol Cenedlaethol (2019).

Recriwtiwyd Swyddog Cydlyniant Cymunedol ar gyfer rhanbarth Bae'r Gorllewin, a chafodd y cyllid ei ymestyn wedi hynny tan fis Mawrth 2022. Ym mis Mehefin 2021, diwygiodd Llywodraeth Cymru themâu'r prosiect Cydlyniant Cymunedol ar gyfer 2021 i 2022. Y themâu diwygiedig yw:

- Ymgysylltu a Meithrin Ymwybyddiaeth: ymgysylltu â chymunedau lleiafrifol, gan eu cynnwys yn y gwaith o ddatblygu mentrau i hyrwyddo cydlyniant cymunedol yn seiliedig ar anghenion y gymuned honno a'r gymuned ehangach, ac i liniaru tensiynau;
- Hyfforddi a meithrin gallu: cefnogi cyrff cyhoeddus ac eraill yn y rhanbarth i ddatblygu eu hymwybyddiaeth o Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a'u gallu i'w gweithredu'n effeithiol;
- Monitro a Lliniaru Tensiynau: deall tensiynau cymunedol parhaus a rhai newydd, a rhoi prosesau a gweithdrefnau ar waith i fynd i'r afael â hyn yn ôl y gofyn;
- Dulliau Cynhwysol o Lunio Polisi a Gwneud Penderfyniadau: sicrhau bod materion cydlyniant cymunedol yn cael eu hystyried wrth ddatblygu Cynlluniau Llesiant, Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol ac Aseidiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb, ac wrth gynllunio Diogelwch Cymunedol;
- Ymchwil a Thystiolaeth: mabwysiadu ymagwedd seiliedig ar dystiolaeth at gydlyniant cymunedol, gan ddefnyddio ymchwil a thystiolaeth i ddatblygu darpariaethau i fodloni demograffeg, heriau, risgiau ac anghenion newidiol cymunedau;
- Atal Casineb, Camfanteisio ac Eithafiaeth: meddu ar ddealltwriaeth o'r tebygolrwydd bod hyn yn digwydd yn y gymuned, ac i ba raddau, a chymryd camau i sicrhau bod cymunedau agored i niwed yn ymwybodol o'u presenoldeb ac yn cael eu cefnogi.

Cryfderau ac Asedau

Mae'r tîm Cydlyniant Cymunedol wedi'i leoli ym Mhartneriaeth Diogelwch Cymunedol Abertawe, sy'n is-fwrdd o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe. Mae'r Bartneriaeth yn dod ag asiantaethau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol ynghyd i leihau trosedd, anhrefn ac ofn troseddau. Mae'n gwneud hyn trwy fynd i'r afael ag anghenion unigolion a chymunedau, fel ei gilydd. Mae'r tîm Cydlyniant Cymunedol yn gweithio'n agos gyda phartneriaid Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Abertawe i osgoi dyblygu ac i sicrhau cydweithrediad ym mhob agwedd ar ddiogelwch cymunedol a chydlyniant.

Mae ffocws y tîm cydlyniant cymunedol wedi cynnwys effeithiau cymdeithasol Brexit, yn ogystal â'r agenda cydlyniant cymunedol ehangach.

Elfen allweddol o'r gwaith oedd ymgysylltu ag unigolion a chymunedau i sicrhau bod cynifer â phosibl yn manteisio ar y Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr Undeb Ewropeaidd. Mae dros 9,000 o ddinasyddion yr UE yn Abertawe wedi cael cymorth i wneud cais i'r Cynllun hwn, a lluniwyd adroddiad llawn sy'n cynnwys gwybodaeth megis cenedligrwydd a dadansoddiad o oedrannau pobl yr UE sy'n byw yn Abertawe. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn Adroddiad Briffio Abertawe ar y Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE. Cynhelir sesiynau ymwybyddiaeth o'r Cynllun hefyd.

Ochr yn ochr ag ymgysylltu â'r gymuned a rhanddeiliaid, mae gwaith yn parhau ar fonitro tensiynau mewn cymunedau lleol. Mae tensiynau a nodir gan bartneriaid yn cael eu cofnodi trwy'r system monitro tensiynau wythnosol, a chaiff diweddariadau misol ar densiynau cymunedol a throseddau/digwyddiadau casineb eu hanfon at Lywodraeth Cymru.

Ymgysylltir yn rheolaidd â rhanddeiliaid allweddol i rannu gwybodaeth a phryderon gan, er enghraifft, fyfyrwyr, trigolion BAME a ffoaduriaid, ac arweinwyr grwpiau Ffydd Lleol. Darperir rhaglenni hyfforddi i staff a rhanddeiliaid allweddol er mwyn iddynt ddeall arwyddion cynnar dylanwadau asgell dde eithafol a'r dulliau adrodd. Mae hyn yn cynnwys sesiynau ar Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb, ac ymgysylltu â rhwydweithiau perthnasol i fynd i'r afael â thensiynau/mannau problemus; er enghraifft, meithrin ymwybyddiaeth o droseddau casineb, helpu gydag wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb, a chefnogi rhaglen ar ymwybyddiaeth o droseddau casineb yn ein hysgolion yn Abertawe. Mae gweithio mewn partneriaeth hefyd yn cefnogi ymgyrchoedd arloesol i herio mythau a chamsyniadau, hyrwyddo negeseuon cadarnhaol, dathlu amrywiaeth, a hyrwyddo ymdeimlad o berthyn, gan gynnwys Eid yn y Parc, prosiect Cyfnewid Ysgolion, Wythnos Ryng-ffydd, Diwrnod Cofio'r Holocaust, Diwali, Mis LGBT+, Windrush, Wythnos Ffoaduriaid, a Mis Hanes Pobl Dduon. Mae digwyddiad *Ein Abertawe – Dathlu Abertawe Gyda'n Gilydd* wedi dod â phobl o bob cefndir ynghyd i fwynhau cyfraniadau holl drigolion Abertawe.

Mae'r sylfaen dystiolaeth leol wedi cael ei datblygu ymhellach trwy arolwg a lanwyd gan dros fil o gyfranogwyr, ac ymgyrch leol, *Dywedwch Ragor Wrthyf*, a oedd yn anelu at ddarparu gwybodaeth gywir i'n cymunedau agored i niwed yn Abertawe er mwyn mynd i'r afael â chamsyniadau a chynyddu'r nifer sy'n cael brechiadau COVID-19.

Aed ati i feithrin ymwybyddiaeth o gaethwasiaeth/fasnachu pobl yn Abertawe, a'r modd o roi gwybod am achosion o'r fath, a sefydlwyd MARAC ar gyfer Atal Caethwasiaeth i gefnogi dioddefwyr y fasnach bobl. Cyflwynwyd sesiynau ymwybyddiaeth ar Atal Caethwasiaeth/Fasnachu Pobl hefyd.

Canfyddiadau a phersbectifau

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) wedi comisiynu SAPERE a Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth i gefnogi disgyblion ac athrawon i gyflwyno sesiynau ar atal troseddau casineb mewn ysgolion. Trwy hyfforddi athrawon, y gobaith yw y bydd hyn yn darparu dull mwy cynaliadwy o ymdrin â materion Troseddau Casineb yn ein hysgolion. Mae Cyngor Abertawe wedi ymrwymo i ymgyrch 'Dim Hiliaeth Cymru' Cyngor Hil Cymru a 'Siarter Casineb' Cymorth i Ddioddefwyr yn gyfnewid am nod siarter partner y gellir dibynnu arno.

Mae Abertawe wedi bod yn ardal gwasgaru ceiswyr lloches er 2001, ac mae ymhlith y deg uchaf yn y DU o ran niferoedd y ceiswyr lloches mewn perthynas â maint y boblogaeth. Mae'n un o bedair ardal wasgaru yng Nghymru. Mae Abertawe'n falch o'r rhan y mae'n ei chwarae yn croesawu'r rhai sy'n ffoi rhag gwrthdaro ac erledigaeth, a chafodd ei chydabod yn Ddinas Noddfa yn 2010.

Hyd nes y caiff eu hachosion eu cydnabod a'u bod yn cael statws ffoadur, mae ceiswyr lloches yn ffurfio un o'r sectorau o'r gymuned y mae'r effaith arni yn hynod o negyddol. Mae'r cefndir a'r trawma o ffoi o'r sefyllfa yn eu gwlad i fan diogel, o aros am benderfyniad ynghylch p'un a ystyrir bod eu hachosion yn rhai dilys ac y dylent felly gael statws i aros yn y DU a gallu cyrchu'r un hawliau mynediad â dinasyddion eraill, o fod heb lais o ran lle y maent yn byw, ac o feddu ar gyllid cyfyngedig a dim hawl i weithio, i gyd yn effeithio ar lesiant.

Mae gan Abertawe hanes o bartneriaeth gadarn ledled y sector statudol a'r trydydd sector yn gweithio ar y cyd â cheiswyr lloches a ffoaduriaid. Amlygwyd hyn yn ystod y cyfyngiadau symud, pan fu partneriaid yn cydweithio'n agos i sicrhau bod ceiswyr lloches yn cael eu cysylltu â'i gilydd a bod rhywrai yn cysylltu â nhw i sicrhau bod anghenion hanfodol yn cael sylw. Mae Fforwm a Grŵp Cydgysylltu Amlasiantaethol ar gyfer Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid yn parhau i weithredu.

Fodd bynnag, nid yw mudo yn fater datganoledig, ac mae statws ceiswyr lloches a'u mynediad at waith, tai a budd-daliadau eraill yn parhau i fod yn ddiffygiol. Mae hyn yn effeithio'n fawr nid yn unig ar ansawdd bywyd corfforol ond hefyd ar lesiant meddyliol. Gellid parhau i wneud mwy o ymdrech i ymgorffori cymorth i geiswyr lloches yn y broses o ddarparu gwasanaethau, gan gynnwys:

- Prif-ffrydio, fel bod ceiswyr lloches yn rhan o boblogaeth gyfan Abertawe ac nid yn grŵp ar wahân;
- Darparu tocynnau bws i helpu i fynd i'r afael â thlodi ac ynysigrwydd;
- Buddsoddi mewn rhagor o wasanaethau a chwrsela iechyd meddwl;
- Rhoi cyfleoedd i geiswyr lloches a ffoaduriaid rannu eu sgiliau a'u profiad (grŵp tra medrus a phroffesiynol o unigolion);
- Parhau i feithrin ymwybyddiaeth staff ledled gwasanaethau a sefydliadau.

Tueddiadau yn y Dyfodol a Rhagolygon ar gyfer Abertawe

Ariennir y Rhaglen Cydlyniant Cymunedol gan Lywodraeth Cymru tan 31 Mawrth 2023, a chytunwyd ar gynllun gwaith. Y bwriad yw symud at fodel ariannu tymor hir o 2023 yn amodol ar ganlyniad adolygiad cyflym yn hydref 2022.

Integreiddio

Mae'r rhaglen Cydlyniant Cymunedol yn amlygu'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio:

- Hirdymor – mae'r rhaglen yn ceisio deall a lliniaru goblygiadau hirdymor Brexit ac agweddau eraill ar gydlyniant cymunedol i drigolion a chymunedau Abertawe;
- Atal – bydd gweithio gyda phartneriaid i fapio a deall tensiynau cymunedol yn helpu i atal problemau difrifol rhag codi ac yn lliniaru tensiynau presennol;
- Integreiddio – mae'r rhaglen cydlyniant cymunedol yn cyfrannu at y nodau llesiant: Cymru sy'n fwy cyfartal, Cymru iachach, a Chymru o gymunedau cydlynus; ac at yr amcan llesiant lleol, sef cymunedau cryfach yn Abertawe;
- Cydweithredu – mae'r rhaglen yn dibynnu ar gydweithredu â phartneriaid ledled Abertawe a phartneriaethau rhanbarthol ehangach;
- Cyfranogiad – mae elfen fawr yn seiliedig ar gynnwys ac ymgysylltu â thrigolion a grwpiau cymunedol.

Gwella

- Democratiaeth leol fwy cynrychioliadol, a chynrychiolaeth o'r gweithlu sy'n wirioneddol adlewyrchu ein demograffeg leol.
- Rhoi'r Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus ar waith a sicrhau bod yr holl nodweddion gwarchoddedig a grwpiau lleiafrifol yn cael eu hystyried mewn gweithgarwch sy'n cyfrannu at ddileu gwahaniaethu, meithrin perthnasoedd da, a sicrhau cyfle cyfartal.
- Ymgysylltu'n effeithiol â chymunedau lleiafrifoedd ethnig (gan gynnwys pobl sy'n ceisio noddfa, Sipsiwn a Theithwyr, a Dinasyddion yr UE), cymunedau LGBTQ+, pobl anabl, a grwpiau lleiafrifoedd crefyddol.
- Dull Rhaglen Gydlyniant Cymru Gyfan, sy'n gofyn am gydweithio rhanbarthol i osgoi dyblygu gweithgarwch, rhannu arfer gorau, a sicrhau'r effaith fwyaf posibl ledled Cymru.
- Cydweithio i fynd i'r afael â materion neu densiynau trawsffiniol, gan gynnwys rhoi gwybod i ranbarthau eraill am unrhyw faterion sy'n codi ac a allai effeithio arnynt.
- Mwy o ffocws ar fesur effaith gweithgarwch yn hytrach na'i allbwn.
- Datblygu ymagwedd seiliedig ar asedau at waith cydlynu, gan ganolbwyntio ar y pethau cadarnhaol y gellir manteisio arnynt yn y gymuned i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau (yn hytrach na'r ymagwedd diffyg).
- Llif cyson o wybodaeth a gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru.
- Y sector cyhoeddus yn ymgorffori elfennau cydlyniant cymunedol yn llawn yn ei swyddogaethau, y gwasanaethau y mae'n eu darparu, a'i brosesau gwneud penderfyniadau allweddol.
- Sicrhau bod sefydliadau yn y sector cyhoeddus yn creu lleoedd mwy diogel i bobl o gefndiroedd a galluoedd gwahanol ryngweithio.

"Mae gwaith cymunedol yn hanfodol ac mae angen gwneud mwy i ariannu darpariaeth llawr gwlad leol er mwyn adfer cymunedau yn dilyn y pandemig" – ymatebydd i'r arolwg.

Casgliadau a negeseuon allweddol

- Mae gweithio'n dda mewn partneriaeth yn ffactor allweddol wrth sicrhau cydlyniant cymunedol, ac yn cynnwys rhannu gwybodaeth, cefnogi'r rhaglen, a sefydlu cronfa ddata gynhwysfawr o gysylltiadau i estyn allan i bob rhan o'n cymuned. Fodd bynnag, gall gweithio mewn partneriaeth hefyd, yn gyffredinol, fod yn rhwystr ar adegau, gan arwain at oedi canlyniadau prosiectau.
- Mae ymgysylltu ar-lein, sy'n cynnwys ymgyrchoedd ar y cyfryngau cymdeithasol, wedi gweithio'n dda ac wedi darparu canlyniadau sylweddol – mae hyn yn profi y gallai ymgysylltu yn y dyfodol fod yn fwy hybrid ond y bydd angen buddsoddiadau newydd i ddatblygu seilwaith.
- Mae'r broses o hyfforddi staff a phartneriaid wedi bod yn llwyddiannus iawn o ran ehangu rhwydweithiau a hyrwyddo negeseuon allweddol, gan gynnwys sefydlu perthnasoedd da â hyrwyddwyr cymunedol.
- Trwy roi mwy o bwyslais ar ddiogelu a lledaenu gwybodaeth, mae'r gwaith a wneir yn creu darlun mwy o newidiadau mewn cymunedau y gallai'r materion hyn effeithio arnynt.
- Cafwyd ymateb gelyniaethus i'r agenda cydlyniant cymunedol gan rai aelodau o'r gymuned, gyda phrotestiadau asgell dde eithafol yn cael eu cynnal yn Abertawe, er enghraifft, mewn perthynas â'r ffaith bod Abertawe yn Ddinas Noddfa.
- Er y gall rhai cymunedau barhau i fod yn gymharol ynysig, e.e. Sipsiwn, Roma a Theithwyr, mae cymunedau eraill yn fwy derbyngar. Gall gymryd blynyddoedd i nodi a meithrin ymddiriedaeth ymhlith cymunedau penodol, ac ni ellir eu gorfodi i ymgysylltu.

Yn ystod cyfyngiadau symud COVID-19, datblygwyd amrywiaeth o arddulliau ymgysylltu, gan gynnwys ymgysylltu wyneb yn wyneb ac ar-lein, hyfforddiant, a gweithdai. Gellir addasu'r arddull ymgysylltu i anghenion y gymuned a dargedir. Mae angen i'r rhaglen Cydlyniant Cymunedol fod â ffocws hirdymor, gan ddarparu hirhoedledd o ran y gwaith a wneir. Gellid rhoi sylfaen fwy statudol i flaenoriaethau allweddol yn ymwneud â chydlyniant cymunedol i sicrhau bod partneriaid yn gweithio tuag at ganlyniadau tebyg.

Tanau gwyllt

Rhwng 2015 a 2020 cafwyd 15,576 o danau glaswellt ledled Cymru, gyda 4,947 yn ardal Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru. Yn ystod y cyfnod hwnnw, aeth y Gwasanaeth Tân ac Achub i:

- 1,694 o ddigwyddiadau llifogydd
- 2,951 o danau mewn tai
- 4,919 o wrthdrawiadau traffig ffyrdd.

Mae data lloeren yn amcangyfrif bod 6,580 hectar o laswelltir wedi'u llosgi ledled Cymru yn 2020 (sy'n cyfateb i 12,296 o gaeau pêl-droed). Mae effeithiau clir ar y Gwasanaeth Tân ac Achub, gan gynnwys:

- Cadernid/galw – gall presenoldeb mewn tanau glaswellt oedi'r ymateb i argyfyngau eraill sy'n bygwth bywyd.
- Cost – mae'n costio tua £400 yr awr i ddefnyddio un injan dân
- Gall tanau mwy gymryd diwrnodau i'w diffodd, sy'n cael effaith amlwg ar argaeledd.

Cryfderau ac Asedau

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru'n gweithio gyda phartneriaid allweddol yn flynyddol i leihau effaith tanau gwyllt yn ardal Abertawe. Asesir llwythi tanwydd llystyfiant ar y cyd â data digwyddiadau tân i roi dulliau atal ar waith mewn gwahanol leoliadau, yn bennaf drwy greu lleoedd gwag a elwir yn aml yn 'rwystrau tân' – er mwyn atal tân rhag ymledu a lleihau difrifoldeb ac effaith tân. Profwyd bod defnyddio dyfeisiau mecanyddol pwrpasol yn ddiogel i dorri a lleihau llystyfiant ar safleoedd penodol, i gyfyngu ar ledaeniad tân glaswellt, yn effeithiol o ran diogelu'r amgylchedd, gan leihau'r galw am yr adnoddau tân ac achub a ddefnyddir i reoli a diffodd y tân, yn ogystal â darparu manteision i'r gymuned gyfagos.

Mae cwmni *Commonsvision* Abertawe yn gweithio gyda Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Cyngor Abertawe, CNC a phartneriaid eraill i edrych ar atebion ymarferol i leihau digwyddiadau ac effaith tân ar dir comin a phroblemau ecolegol, gan ddefnyddio dulliau llosgi dan reolaeth neu ddulliau rheoli tir mecanyddol.

Sicrhawyd cyllid a sefydlwyd gweithgor sy'n canolbwyntio ar atal, ymwybyddiaeth a gwella ardaloedd gwledig. O'r cychwyn cyntaf, defnyddiwyd ymagwedd gyfannol er mwyn ystyried effeithiau cysylltiedig fel pori cynaliadwy, mynediad cymunedol, bioamrywiaeth, materion trafndiaeth (gan gynnwys gwrthdrawiadau traffig ffyrdd sy'n ymwneud ag anifeiliaid).

Bydd yr ymagwedd yn parhau a gobeithio y gellir ei hefelychu mewn meysydd gwasanaeth eraill. Mae rhaglen *Coast and Country* ITV Cymru wedi ffilmio gyda'r tîm atal tanau bwriadol a phartneriaid i dynnu sylw at oblygiadau tanau gwyllt, a'r gwaith partneriaeth a wnaed yn ardal Abertawe. Roedd yn canolbwyntio ar yr effeithiau ar wasanaethau ac Ymgyrch Dawns Glaw, torri glaswellt mewn mannau rhwystrau tân, ffermio, ecoleg a phlisma lleol. Mae *Red Watch* Gorsaf Dân Treforys a *Green Watch* Gorsaf Dân Gorllewin Abertawe hefyd wedi cymryd rhan.

Gwahaniaethau yn Abertawe

Ar hyn o bryd mae'r safleoedd problemus yn cynnwys Garngoch, Fairwood, Pengwern, Clun ac, yn dibynnu ar gyflwr llystyfiant, Clogwyni Pennard a Rhosili.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru'n cydlynu gwaith atal tanau glaswellt yn rheolaidd gyda Chyngor Abertawe i leihau effaith tanau glaswellt ar fynydd Cilfái. Mae hwn yn brosiect parhaus i ddiogelu'r sectorau tir comin yn y lleoliad a'r strydoedd

cyfagos. Er mwyn atal tanau glaswellt/gwyllt yn effeithiol yn y ffordd orau bosib, a gwarchod cynefinoedd, mae'r gwaith hwn yn cael ei wneud o fis Ionawr i fis Mawrth.

Canfyddiadau a safbwyntiau

Mae'r pandemig wedi effeithio ar y gwasanaeth a'i bartneriaid, yn enwedig mewn meysydd fel ymgysylltu â'r gymuned a chydweithredu amlasiantaethol. Mae mentrau a rhyngweithio cymunedol wedi'u lleihau'n sylweddol gan fod paramedrau gweithio wedi'u cyfyngu i waith hanfodol a swyddogaethau craidd. Yn y tymor hwy, byddai'r diffyg ymgysylltu effeithiol o bosib wedi gwanhau'r presenoldeb a'r ymwybyddiaeth mewn cymunedau, a oedd yn gryf yn flaenorol.

Effeithiwyd hefyd ar Addysg ac Ymyriadau leuenctid. Roedd polisiau peidio ag ymgysylltu, cadw pellter cymdeithasol a chyfyngiadau PPE yn ystod y cyfnod atal byr yn golygu bod yn rhaid i waith cymunedol, digwyddiadau a gweithgareddau gyda phartneriaid addasu.

Integreiddio

Roedd ôl-drafodaethau amlasiantaeth yn 2020 yn pwysleisio'r goblygiadau y mae mwg tanau gwyllt yn eu cael ar iechyd y cyhoedd, gyda ffocws ar gynyddu ymwybyddiaeth gydwethredol o'r Cynllun Aer Glân i Gymru: 'Awyr Iach, Cymru Iach'. Awgrymwyd hefyd y gellid gwneud mwy i dynnu sylw at wenwyndra, er bod rhywfaint o bryder y gallai hyn greu cynnydd yn nifer y galwadau i wasanaethau tân ac achub.

Mae effeithiau ehangach eraill yn cynnwys:

- Gwrthdrawiadau traffig ffyrdd sy'n ymwneud â da byw – mae gan hyn oblygiadau ariannol ac economaidd i ffermwyr a phorwyr drwy leihau pori mewn ardaloedd neu gael gwared arno. O ganlyniad, mae ardaloedd a oedd yn cael eu pori'n flaenorol yn cynyddu eu llwythi tanwydd llystyfiant, sy'n cynyddu nifer, difrifoldeb a lledaeniad y digwyddiadau tanau gwyllt. Mae'r diffyg pori hefyd yn cael effaith hygyrchedd ar gymunedau yn ogystal ag effaith ariannol oherwydd gofynion rheoli llystyfiant.
- Cerbydau oddi ar y ffordd – Mae Ymddygiad Gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig â'r rhain yn tueddu i gynyddu'r digwyddiadau o danau gwyllt, oni bai yr eir i'r afael â hwy'n gynnar. Gall hyn fod drwy greu tân anghyfreithlon neu ffynonellau tanio eraill fel peipiau ecsôt cerbydau.
- Tipio anghyfreithlon – yn ystod 2020 bu cynnydd mewn tipio anghyfreithlon mewn lleoliadau gwledig, gan arwain at gronni, tanio a thanau gwyllt.
- Fel yr amlinellir yn y pwnc 'ansawdd aer' ym mhennod yr Amgylchedd, mae digwyddiadau tanau gwyllt yn cael effaith ar lygredd aer, ansawdd dŵr a bioamrywiaeth.

Gwelliant

Y newid ehangach (allbynnau a chanlyniadau) y byddai'r rhaglen yn ei gyflawni yw:

- Gwarchod cynefinoedd/bywyd gwyllt.
- Atal difrifoldeb, lledaeniad a difrod a achosir gan danau.
- Gwelliannau o ran mynediad cyhoeddus a phori.

- Gwella diogelwch ar gyfer diffoddwyr tân.
- Rhwystrau tân i atal tân rhag lledaenu.
- Llai o ddigwyddiadau a difrifoldeb.
- Manteision ecolegol, amgylcheddol, cymunedol ac ariannol.
- Canfyddiad y cyhoedd/cynyddu ymwybyddiaeth o danau gwyllt.
- Gwell canlyniadau amgylcheddol.
- Gwell canlyniadau cymunedol.

Ynghylch y dystiolaeth

Mae tystiolaeth o gyflwyno'r prosiect yn fesuradwy drwy asesu a gwerthuso'r canlynol:

- Cydweithio â phartneriaid a gwaith prosiect blaenorol/presennol.
- Data am ddigwyddiadau tân.
- Effeithiau tanau gwyllt.
- Gwybodaeth am wella'r ffordd y rheolir yr ardal.
- Gwella'r ffordd y rheolir unrhyw ddigwyddiadau tân.
- Gwelliannau o ran diogelwch i ddiffoddwyr tân.
- Tystiolaeth fideo a ffotograffig

Casgliadau a Negeseuon Allweddol

Bydd effaith newid yn yr hinsawdd yn gymhleth, ond mae'r tywydd yn newidyn allweddol mewn ymddygiad tanau gwyllt. Roedd Rhagolygon yr Hinsawdd y DU 2018 yn nodi y bydd y tywydd sy'n ffafriol i gynnu tanau gwyllt yn cynyddu a bydd tymor y tanau gwyllt yn ymestyn. Gallai gaeafau cynhesach a gwlypach gynyddu llwyth tanwydd; a gall hafau sychach gynyddu'r risg o dân, gyda hafau'n adegau mwy peryglus na'r gwanwyn ar gyfer tanau gwyllt erbyn diwedd y ganrif. Gall amrywioldeb yn yr hinsawdd ac eithafion tywydd fod yn fwy o bryder na newidiadau graddol. Gellid atal tanau gwyllt yn well drwy reoli'r dirwedd.

Mae ymchwil yn dangos bod ymwybyddiaeth y cyhoedd o danau gwyllt yn isel yng Nghymru. Nid yw llawer o bobl yn cydnabod eu bod yn broblem iddynt hwy eu hunain na'u cymunedau. Maent yn aml yn digwydd mewn ardaloedd anghysbell, i ffwrdd o olwg y cyhoedd. Mae mynydd Cilfái yn Abertawe'n enghraifft dda gan fod y tanau'n gymharol fach, ond mae'n debyg bod y lleoliad yn denu'r diddordeb mwyaf gan y cyfryngau a'r cyhoedd ar draws y maes gwasanaeth cyfan. Mae lle i gysylltu tanau gwyllt â newid yn yr hinsawdd yn y tymor hwy, a gwella dealltwriaeth y cyhoedd o'r risgiau.

Mae camdybiaeth hefyd ynghylch achosion tanau gwyllt. Mae llawer o bobl yn credu eu bod yn digwydd yn naturiol oherwydd y tywydd sych cynnes a brofir fel arfer pan fyddant yn digwydd. Fodd bynnag, y realiti yw bod y rhan fwyaf o danau gwyllt yn cael eu hachosi gan weithredoedd dynol – boed yn fwriadol neu'n ddamweiniol – a dylid eu hystyried yn danau y gellir eu hosgoi. Efallai nad yw'r cyhoedd yn cydnabod bod gwasanaethau tân ac achub yn mynd i bron ddwywaith yn fwy o danau gwair na thanau tŷ, ac mae angen i ganfyddiad y cyhoedd o danau gwyllt newid fel eu bod yn cael eu hystyried yn annerbyniol yn gymdeithasol.

I helpu, gall partneriaid:

- Fod yn gyfarwydd â'r Tasglu 'Ymgyrch Dawns Glaw' Cymru gyfan a'i nodau.

- Sicrhau yr ystyrir ymwybyddiaeth o danau glaswellt bwriadol
- Annog cymunedau i ymgysylltu'n ehangach er mwyn lleihau digwyddiadau o'r fath
- Cyfrannu at gynyddu ymwybyddiaeth o effaith tanau gwair bwriadol
- Rhannu data allweddol i nodi tueddiadau lleol a chynorthwyo cynllunio ataliol
- Parhau i gyfathrebu'n dda gan gynnwys ar gyfryngau cymdeithasol.

Llesiant economaidd

Cyflwyniad

Ystyrir mai llesiant economaidd yw bod â'r modd i gynnal eich hun fel unigolyn a/neu deulu, er enghraifft trwy sicrwydd ariannol. Mae cael incwm da yn ganolog i hyn. Er mwyn cyflawni incwm da, mae angen i bobl gael y cyfle a'r modd i gael mynediad i gyflogaeth. Bydd llawer o bethau'n dylanwadu ar allu unigolyn i gael cyflogaeth, fel sgiliau, opsiynau trafndiaeth, cysylltedd digidol, iechyd a ffitrwydd. Caiff cyfleoedd cyflogaeth i bobl i wella'u llesiant economaidd a'u llesiant cyffredinol eu creu trwy gael economi gref.

Mae economi gref yn hanfodol hefyd i gyflawni nodau llesiant cenedlaethol Cymru lewyrchus, ac mae cyswllt agos rhwng hyn â gwneud Cymru'n fwy cydnerth, cyfartal, cydlynus, iachach ac yn ymatebol yn fyd-eang.

Er mwyn hwyluso agweddau ar economi gydnerth a chynaliadwy i drigolion Abertawe, mae'n angenrheidiol sicrhau bod y seilwaith cywir gan Abertawe yn ei le; sylfaen fusnes gref, amrywiol a chynyddol sy'n creu cyfleoedd swyddi i bobl; yn darparu'r sgiliau cywir i bobl fanteisio ar y cyfleoedd hyn a sicrhau bod incwm digonol gan aelwydydd. Bydd adolygu'r agweddau hyn yn ein galluogi i ddatblygu darlun cyffredinol o lesiant economaidd Abertawe.

Dylid nodi nad yw effaith pandemig y Coronafeirws wedi'i dangos mewn rhan sylweddol o'r data diweddaraf sydd ar gael i lywio'r asesiad hwn. Yn benodol, mae data addysgol a'r dadansoddiad ar gyfer cyrhaeddiad addysgol yn edrych ar ddata hyd at 2019 yn unig.

Mae cysylltiad clòs rhwng llesiant economaidd â llawer o agweddau ar lesiant cymdeithasol a llesiant amgylcheddol trwy greu lleoedd, lefelau addysg a bydd y ffordd y mae'r economi yn gweithredu yn effeithio ar yr amgylchedd, er enghraifft, ansawdd yr aer o brosesau gweithgynhyrchu busnes a phobl yn cymudo i'r gwaith. Mae asedau diwylliannol yn chwarae rhan bwysig i ddenu ymwelwyr i'r ddinas hefyd, ac o ran creu cyfleoedd cyflogaeth.

Abertawe yw'r brifddinas ranbarthol a'r prif ysgogwr ar gyfer twf economaidd yn Ne Orllewin Cymru. Mae Abertawe'n cynnig cymysgedd deniadol o weithio, byw a dysgu mewn dinas, wedi'i lleoli ar ddarn pum milltir tywodlyd o arfordir hardd sy'n ei rhoi mewn lle da i ddenu cwmnïau newydd a chadw gweithwyr a graddedigion. Ei phwynt gwerthu unigryw yw ei ansawdd bywyd.

Mae bron i 70% o arwynebedd tir Abertawe yn wledig, ac mae cyllid datblygu gwledig ychwanegol yn cefnogi gwaith i hyrwyddo twf economaidd gwledig cryf a chynaliadwy. Mae ymagwedd 'un blaned' wedi'i mabwysiadu at gyflawni prosiectau LEADER y Cynllun Datblygu Gwledig. Mae'r rhaglen yn rhan o Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD), a ariennir gan yr Undeb Ewropeaidd a Llywodraeth Cymru.

Yn Abertawe y mae'r prif ysbyty ar gyfer y rhanbarth (Treforys), ac Abertawe hefyd yw'r ganolfan ranbarthol ar gyfer addysg uwch. Mae dros 24,000 o fyfyrwyr amser llawn bellach yn astudio yn y ddwy brifysgol yn Abertawe - Prifysgol Abertawe a Phrifysgol Cymru y Drindod

Dewi Sant - ac mae'r ddwy wedi ehangu yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae'r garfan hon o fyfyrwyr yn helpu darparu cwsmeriaid ar gyfer busnesau'r ddinas.

Mae'r amcangyfrifon poblogaeth diweddaraf (yng nghanol 2020) yn dangos bod 246,600 yn byw yn y ddinas a'r sir, a rhagamcenir y bydd hyn yn cynyddu ar gyfartaledd o 800 o bobl (+0.3%) fesul blwyddyn rhwng 2018 a 2028. Yn 2020, mae amcangyfrif o 156,000 o drigolion oedran gweithio (16-64), sef 63.3% o gyfanswm y boblogaeth (uwchlaw canrannau Cymru a'r DU).

Mae 83% o drigolion Abertawe yn gweithio yn ardal yr awdurdod lleol, a dim ond Sir Benfro, Ceredigion a Gwynedd sydd â ffigur cyfwerth uwch yng Nghymru. Mae hyn yn dangos pwysigrwydd y ddinas yng ngweithlu rhanbarth ehangach gorllewin Cymru.

Mae dros 600,000 o bobl yn byw o fewn pellter gyrru 30 munud i Abertawe, a dwy filiwn o fewn pellter gyrru awr. Mae data twristiaeth STEAM yn dangos y bu 4.74 miliwn o ymwelwyr â'r ddinas a'r sir yn 2019. Mae gan Abertawe gysylltiadau rheilffordd rheolaidd â phrif ddinasoedd ledled y DU, ac mae nifer o orsafoedd lleol yn Abertawe, er enghraifft, Llansamlet a Gorseinon, yn cynnig cysylltiadau i ganol y ddinas. Hefyd, mae llwybrau beicio a cherdded helaeth yn Abertawe. Mae wedi'i chysylltu â'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol (llwybrau 4 a 43) a Llwybr Celtaidd y Gorllewin.

Gyda 7,930 o fentrau (2020), Abertawe yw'r ail ardal fusnes fwyaf o unrhyw ardal awdurdod lleol yng Nghymru. Mae ganddi gyfran uwch o fusnesau manwerthu na chyfartaledd Cymru a'r DU. Busnesau bach yw'r mwyafrif ohonynt ac mae cyfanswm y stoc busnes rhwng 2015 a 2020 wedi codi 18%.

Mae gan economi Abertawe gyfran fawr o swyddi, yn gymesur, yn y sectorau gweinyddiaeth gyhoeddus, iechyd, addysg, gwasanaethau ariannol a manwerthu. O'r 110,000 o bobl mewn cyflogaeth yn Abertawe (2020), mae amcangyfrif o 87.3% (96,000) yn cael eu cyflogi yn y sectorau gwasanaeth, gyda 29.2% yn gweithio yn y sector cyhoeddus. Yng Nghymru, mae'r gyfran a gyflogir gan y sectorau gwasanaeth yn is, ar 78.5%, gyda 24.3% yn y sector cyhoeddus. Mae'r sectorau gweithgynhyrchu ac adeiladu yn cyflogi oddeutu cyfanswm o 11,000; gyda chyfran cyflogaeth y ddau sector yn Abertawe islaw'r cyfartaleddau ar gyfer Cymru a Phrydain. Hefyd, ceir cyfran uwch o bobl sy'n gweithio'n rhan-amser, a chyfraddau hunangyflogaeth is.

"Mae cyflogaeth yn arwain at falchder a hunan-barch. Mae hyn yn ei dro yn arwain at well cynhyrchiant. Llai o straen, felly gwell lles" – ymatebydd i'r arolwg.

Er bod Abertawe wedi dangos twf yn y gwerth ychwanegol gros (GYG) fesul pen yn y blynyddoedd diwethaf, mae'n llusgo y tu ôl i'r DU er ei bod fymryn uwchlaw'r ffigur ar gyfer Cymru. Dros raddfa amser hwy'r pum mlynedd diwethaf, mae twf GYG Abertawe wedi bod yn gymharol araf o gymharu â ffigurau ar gyfer Cymru a'r DU. Dros y cyfnod 2014-19, mae Abertawe wedi tyfu 12.9% o gymharu â 15.6% a 15.1% yng Nghymru a'r DU yn y drefn honno. Ar sail y trywydd presennol hwn, mae Abertawe'n wynebu'r risg o ddisgyn ymhellach ar ei hôl hi o gymharu â'r DU yn nhermau twf economaidd.

O'i gymharu â rhanbarth De-orllewin Cymru (Ceredigion, Sir Gâr a Sir Benfro), mae Gwerth Ychwanegol Gros y pen Abertawe hefyd yn uwch ar hyn o bryd, ond yn tyfu ar gyfradd sylweddol arafach; sef 12.9% o'i chymharu â 20.4% yn Ne-orllewin Cymru dros y pum mlynedd diwethaf.

Fodd bynnag, er gwaetha'r ffigurau GYG cyffredinol sy'n dangos twf islaw'r cyfartaledd cenedlaethol, mae ffigurau Abertawe ar gyfer GYG fesul awr a weithiwyd (cynhyrchiant) yn dangos tuedd fwy calonogol. Ar gyfer y cyfnod 2014-19, gwelodd Abertawe gynnydd o 12.4% ac yn y cyfnod 2018-19 mae'r gyfradd dwf bron yn ddwbl cyfradd y DU. Gallai hyn ddynodi bod symudiad yn Abertawe tuag at swyddi gwerth uwch, swyddi sy'n gofyn am sgiliau uwch a swyddi â chyflogau uwch yn y blynyddoedd diwethaf.

Mae pocedi o amddifadedd ar draws y sir, gyda nifer o ardaloedd ymysg y rheini sydd â'r lefelau amddifadedd uchaf yng Nghymru. Ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) 2019, mae gan Abertawe gyfran uwch na'r cyfartaledd o'i Hardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA) yn y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru, gydag 17 (11.5%) o'i 148 LSOA yn y 191 (10%) mwyaf difreintiedig. Mae'n bwysig bod cyfleoedd swyddi a grëir trwy gynlluniau adfywio o fewn cyrraedd pawb. Mae nifer o brosiectau cyflogadwyedd ar waith i helpu cefnogi pobl economaidd anweithgar i fynd yn ôl i'r gwaith. Mae hyn yn cefnogi'r nod o greu Cymru sy'n fwy cyfartal.

Mae ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd wedi achosi ansicrwydd economaidd i breswylwyr a busnesau yn Abertawe, gan gynnwys dinasyddion yr UE sy'n byw yn y ddinas, gallu busnesau i fewnforio ac allforio nwyddau, a sectorau fel twristiaeth a'r diwydiannau creadigol sydd wedi dibynnu ar allu pobl i symud yn rhydd. Mae hefyd wedi creu ansicrwydd ynghylch ariannu cynlluniau adfywio economaidd yn y dyfodol.

Mae'r dirywiad economaidd byd-eang o ganlyniad i Covid-19, a'r newid strwythurol tymor hwy yn y sector manwerthu, wedi effeithio'n drwm ar ganol dinas Abertawe. Yn y blynyddoedd diwethaf, roedd arferion defnyddwyr yn newid a dylanwad cynyddol siopa ar-lein eisoes wedi bod yn ysgogi ailfeddwl ynghylch rôl a chymeriad canol dinasoedd fel cyrchfannau manwerthu. Mae colli angorau'r stryd fawr yn ddiweddar, fel Debenhams a Topshop, yn tanlinellu cyflymder y crebachu sy'n digwydd yn y cynnig manwerthu traddodiadol ledled y DU. Yn Abertawe, cynhaliwyd ymgyrch hyrwyddo i annog pobl i siopa'n lleol er mwyn helpu cadw arian yn yr economi leol, ynghyd â phrosiectau caffael i helpu adeiladu capasiti a gwybodaeth cwmnïau lleol i sicrhau contractau'r sector cyhoeddus. Mae cael trigolion, busnesau a'r sector cyhoeddus i brynu nwyddau a gwasanaethau'n lleol yn chwarae rhan bwysig i gefnogi'r economi leol a lleihau effaith amgylcheddol, gan alluogi cyfrannu at y nod llesiant cenedlaethol o greu 'Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang'. Rydym wedi dysgu llawer drwy bandemig COVID-19, ac mae ein hadferiad ohono'n cynrychioli cyfle unwaith mewn cenedlaeth i ailosod ein gwerthoedd a'n blaenoriaethau unigol a chyfunol, a'u hailosod gyda'r rheini sydd eu hangen i greu dyfodol mwy cynaliadwy.

Yn ffodus, disgwylir i Abertawe elwa o fuddsoddiad £1 biliwn gyda chyfres o ddatblygiadau mawr y sector preifat wedi'u cynllunio a phrosiectau a gefnogir gan y Llywodraeth, fel y Fargen Ddinesig. Mae naw prosiect rhanbarthol gan gynnwys Ardal Ddigidol Dinas Abertawe a'r Glannau a Champysau Gwyddor Bywyd, Lles a Chwaraeon.

Yn ddiweddar, mae canol y ddinas wedi gweld datblygu sylweddol ac ar hyn o bryd mae'n elwa o lefelau buddsoddi digynsail gan y sectorau cyhoeddus a phreifat. O ganlyniad i'r buddsoddi mawr hwn, ystyrir bod Abertawe ymhlith y dinasoedd sydd yn y lle gorau yn y DU i ddenu rhagor o swyddi a buddsoddiad wrth iddi ddod allan o'r pandemig. Mae'r buddsoddiad hwn yn helpu cynyddu gwydnwch economaidd Abertawe. Mae cefnogi'r gwydnwch hwn yn gyfle i ymgorffori gwelliannau seilwaith gwyrdd fel waliau gwyrdd, adeiladau effeithlon o ran ynni mewn datblygiadau newydd sy'n helpu diogelu cynnig canol y ddinas at y dyfodol, yn ogystal â chyfrannu at ddatgarboneiddio.

Yn ddiweddar, mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol newydd De Orllewin Cymru fel ei fframwaith strategol ar gyfer adfywio economaidd ar y lefel ranbarthol a lleol. Cynhyrchwyd y Cynllun gan y pedwar awdurdod lleol yn Ne Orllewin Cymru mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru. Mae'n amlinellu'r modd y byddwn yn adeiladu ein cryfderau nodedig a'n cyfleoedd dros y deng mlynedd nesaf i ddatblygu economi mwy llewyrchus a chydnerth yn Ne Orllewin Cymru.

Mae ymrwymiad cadarn i ddatgarboneiddio gan Lywodraethau Cymru/y DU a Chyngor Abertawe. Mae Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol De Orllewin Cymru yn ymrwymo hefyd i wneud ein heconomi yn wydn i wrthsefyll newid yn yr hinsawdd a gweithredu ar ddatgarboneiddio, ac mae'n amlinellu'r camau gweithredu canlynol:

- Cynyddu gwydnwch sylfaen gweithgynhyrchu'r rhanbarth, gan gynnwys yn ei diwydiannau sylfaenol cymharol ddrud-ar-garbon (ar hyn o bryd)
- Cefnogi addasu a mabwysiadu yn yr economi drwyddi draw (ar draws sectorau a thrwy'r stoc adeiladau a'r system drafndiaeth)
- Cyflawni cysylltedd digidol cadarn i gefnogi arferion gweithio sy'n newid a gwell mynediad i gyflogaeth.

Un o dair cenhadaeth allweddol y Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol yw sefydlu De Orllewin Cymru fel arweinydd y DU mewn ynni adnewyddadwy a datblygu economi sero net. Un prosiect ynni adnewyddadwy allweddol sy'n cael ei ddwyn yn ei flaen yn Abertawe yw'r prosiect Eden las a fydd yn cynhyrchu ynni'r llanw. Mae'r Strategaeth Ynni Ranbarthol wedi'i datblygu ar y cyd â'r Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol, ac mae'n cysylltu amcanion system ynni'r Strategaeth Ynni gyda chyfleoedd i fusnesau lleol ymgysylltu a datblygu'r gadwyn gyflenwi.

Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i ddatblygu rhaglen ar gyfer datgarboneiddio diwydiannol trwy fenter Clwstwr Diwydiannol De Cymru (SWIC); ceir prosiectau eraill fel cynllun Cartrefi yn Orsafoedd Pŵer a ariennir gan y Fargen Ddinesig a bydd Metro Bae Abertawe a De Orllewin Cymru wrth wraidd system drafndiaeth fwy cynaliadwy, carbon is y rhanbarth. Cam gweithredu arall yw gweithio i gyflawni economi gylchol drwy adeiladu ar berfformiad presennol wrth leihau gwastraff a thrawsnewid cyfraddau ailgylchu, ceir cyfleoedd i gynyddu ailddefnyddio nwyddau a deunyddiau gan gynnig potensial ar gyfer atebion yn y gymuned i gynyddu atgyweirio a defnyddio technoleg i gynyddu'r cwmpas i ailddefnyddio deunyddiau a llai o wastraff bwyd.

Maes gweithredu allweddol yn y Cynllun Datblygu Economaidd Rhanbarthol yw gweithio i sicrhau economi gylchol. Mae economi gylchol yn sicrhau bod adnoddau a deunyddiau'n cael eu defnyddio cyhyd ag y bo modd ac yn osgoi unrhyw wastraff. Bydd hyn yn golygu symud i ffwrdd o 'economi linol' sy'n defnyddio cyflenwad cyson o adnoddau naturiol neu'r diwylliant cymryd-creu-defnyddio-gwaredu sy'n seiliedig ar echdynnu adnoddau, cynhyrchu nwyddau a gwasanaethau, a gwaredu gwastraff ar ôl ei ddefnyddio. Mae'r economi gylchol yn cynnig ymagwedd sy'n gallu gweithio i leihau treuliant. Mae dilyn ymagwedd economi gylchol yn un o bileri allweddol adferiad gwyrdd a chyfiawn, a fydd yn helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur, a hefyd yn ysgogi canlyniadau economaidd gwell a thecach i Gymru.

Trydedd genhadaeth y Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol yw tyfu a datblygu cynnig 'profiadau' y rhanbarth. Bydd hwn yn canolbwyntio ar ansawdd y cynnig i ymwelwyr ac apêl De Orllewin Cymru fel lle i fyw a gweithio ynddo. Bydd gwaith yn adeiladu ar asedau naturiol y rhanbarth sy'n cynnig ansawdd bywyd deniadol, ac yn ehangu ystod yr atyniadau a'r cyfleoedd ar draws y rhanbarth, yn enwedig lle maent yn cyfrannu at gynnig cynyddol gynaliadwy. Bydd hyn yn helpu amrywio cynnig y ddinas i drigolion ac ymwelwyr fel ei gilydd, er enghraifft, gwella'r amrywiaeth manau gwerthu bwyd a diod, cyflwyno mwy o gyfleusterau hamdden, a chysylltu cynnig diwylliant a threftadaeth cyfoethog y rhanbarth. Bydd buddsoddi yn ein canolfannau dinas, tref a chanolfannau cymunedol fel hyn yn helpu goresgyn y dirywiad yn y sector manwerthu a gwneud yr economi'n fwy cydnerth wrth fynd ymlaen.

Mae pennod Economaidd yr asesiad yn cynnwys dadansoddiad pellach o'r pynciau canlynol:

- Isadeiledd Economaidd Abertawe
- Sylfaen Busnes
- Gweithlu: Cyrhaeddiad Addysgol mewn Ysgolion Cynradd ac Uwchradd; Sgiliau a Chymwysterau Oedolion
- Safonau byw da.

Seilwaith Economaidd Abertawe

Fel rhan o adolygu seilwaith economaidd Abertawe, rydym yn canolbwyntio ar gysylltedd digidol, asedau addysgol, eiddo masnachol a thrafnidiaeth, y maent i gyd yn ffurfio sylfeini economi gydlynus. Hefyd, mae seilwaith gwyrdd yn helpu chwarae rhan allweddol yn y datblygiad economaidd sy'n mynd i'r afael â datgarboneiddio a thwf gwyrdd.

Cryfderau ac Asedau

O ran cysylltedd digidol, Abertawe yw'r ail ardal gysylltiedig orau yng Nghymru (Caerdydd yw'r gyntaf) ar gyfer mynediad rhynggrwyd Band Eang Cyflym Iawn (30Mbit/s neu fwy), gyda 98.9% o eiddo Abertawe â mynediad at hwn (Thinkbroadband Tach 2021).

Mae gan 98.9% o eiddo Abertawe fynediad at Fand Eang Gwibgyswllt (300Mbit/s neu fwy) (Thinkbroadband Tach 2021).

Ar y cyfan mae gan Abertawe signal ffonau symudol da (4G), ond mae'n ysbeidiol mewn ardaloedd gwledig ac yn amrywio rhwng gweithredwyr ffonau symudol. Mae 5G wedi'i ddefnyddio ar draws canol y ddinas.

Mae Abertawe yn rhan o raglen Seilwaith Digidol ranbarthol gwerth £55 miliwn y Fargen Ddinesig a fydd o fantais i drigolion a busnesau ym mhob rhan o Ddinas-Ranbarth Bae Abertawe, sy'n cynnwys Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro ac Abertawe. Amcangyfrifir bod y rhaglen yn werth £318 miliwn i'r economi ranbarthol yn y 15 mlynedd nesaf.

Dan arweiniad Cyngor Sir Gaerfyrddin, bydd y rhaglen Seilwaith Digidol:

- Yn sicrhau bod dinasoedd, trefi a pharciau busnes y ranbarth yn cael mynediad cystadleuol i gysylltedd ffibr llawn
- Yn agor y drws i'r ranbarth elwa ar arloesedd 5G a'r rhyngwrwyd pethau, sy'n cynnwys cartrefi clyfar, gweithgynhyrchu clyfar, amaethyddiaeth glyfar a realiti rhithwir, yn ogystal â thechnoleg y gellir ei gwisgo a fydd yn cefnogi gofal iechyd, byw gyda chymorth a sectorau eraill
- Yn canolbwyntio ar wella mynediad i fand eang yng nghymunedau gwledig y ranbarth, wrth ysgogi'r farchnad i greu cystadleuaeth rhwng darparwyr digidol er budd defnyddwyr

Mae presenoldeb addysg uwch cryf yn Abertawe, wedi'i angori gan Brifysgol Abertawe a Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant a Choleg Gŵyr Abertawe. Mae'r ddwy brifysgol wedi ehangu yn y blynyddoedd diwethaf, ac maent wedi gwneud cyfraniad pwysig at adfywio ffisegol y ranbarth (e.e. trwy gampws Bae Abertawe a'r datblygiad SA1 yng nghanol dinas Abertawe) ac maent yn 'ysgogwyr' economaidd allweddol ynddyn nhw'u hunain.

Mae Cynllun Datblygu Lleol Abertawe yn nodi bod diffyg gofod swyddfa o ansawdd uchel ar gael i ddiwallu anghenion twf economaidd, law yn llaw â gorgyflenwad o ofod swyddfa is na'r safon mewn lleoliadau canolog ac ar gyrion y dref. Mae llawer iawn o arwynebedd llawr diwydiannol/warysau o ansawdd amrywiol o fewn y banc tir cyflogaeth, gan gynnwys darpariaeth safle strategol ym Mharc Diwydiannol Westfield, Waunarlwydd. Er bod safleoedd allweddol yn Felindre a Ffordd Fabian yn Abertawe, mae bwlch a gydnabyddir yn gyffredinol rhwng y galw a'r cyflenwad ar gyfer safleoedd a eiddo diwydiannol, gan fod rhenti isel a/neu brisiau ailwerthu yn cyflwyno bwlch hyfywedd i ddatblygu.

Nododd Fframwaith Ardal Ganolog Abertawe bod adeiladau swyddfa dyddiedig, o ansawdd gwael yng Nghanol Dinas Abertawe nad ydynt yn bodloni anghenion meddianwyr yr oes fodern. Yn ogystal, mae'r cynnig yng nghanol y ddinas yn cael ei weld fel cynnig blinedig, dyddiedig sy'n dirywio, gyda'r cynnig yn un digon cyffredin. Mae hyn yn wendid mawr yng ngallu'r ddinas i elwa ar gyfleoedd posibl, ac mae'n colli busnesau (a graddedigion) wrth i gwmnïau symud i rywle arall. Mae Strategaeth Ailbwrpasu Canol Dinas Abertawe 2020 yn nodi hefyd bod diffyg adeiladau swyddfa o safon a diffyg darpariaeth ddigonol ar gyfer meddianwyr mwy o faint.

Yn gyffredinol, ceir diffyg gofod swyddfa gradd 1 yn y Sir i ddenu ymholiadau mewnfuddsoddi mawr. Mae angen gofod swyddfa hyblyg hefyd sy'n gallu addasu'n hawdd i anghenion a

thenantiaid newidiol. Nid oes canolfan fusnes ychwaith i ddarparu ar gyfer busnesau bach sy'n cychwyn arni.

O ran cysylltedd trafndiaeth, gwasanaethir Abertawe'n dda o draffordd yr M4, gyda nifer o ffyrdd allweddol (A4067, A483, A4067) yn cysylltu â chanol y ddinas. Mae'r A4067 Heol Ystumllwynarth (Heol y Mwmbwls) yn darparu coridor pwysig o'r dwyrain i'r gorllewin i mewn i'r ddinas ar hyd Ffordd Fabian. Un cryfder a nodwyd yn y bennod Amgylchedd yw bod model trafndiaeth manwl ar waith gan Gyngor Abertawe ar gyfer y ddinas a'r sir gyfan sy'n rhoi manylder rhagorol ar symudiadau traffig. Strategaeth Cyngor Abertawe yw hyrwyddo trafndiaeth gynaliadwy – gan annog mwy o feicio a gwneud mwy o ddefnydd o drafnidiaeth gyhoeddus.

"Mae rhwydwaith trafndiaeth da yn bwysig i'w gwneud hi'n haws i fynd o gwmpas Abertawe, boed hynny drwy deithio llesol, ffyrdd heb dagfeydd neu wasanaeth bysus da. Os yw traffig yn wael, mae'n atal pobl rhag dod i'r ddinas" – ymatebydd i'r arolwg.

Mae'r Cyngor yn gweithredu dau safle Parcio a Theithio sy'n cynnwys baeau i bobl anabl a darpariaeth rac beiciau. Mae mesurau blaenoriaeth i fysiau ar waith i leihau tagfeydd traffig a lefelau llygredd er budd cymunedau.

Ceir nifer fawr o feysydd parcio yng nghanol y ddinas, ond nodwyd bod angen lle parcio ychwanegol ar gyfer cynllun y bathodyn glas. Mae mannau gwefru Cerbydau Trydan wedi'u hychwanegu at nifer o feysydd parcio.

Mae adroddiad ailbwrpasu Canol y Ddinas yn nodi bylchau yn y ddarpariaeth trafndiaeth gyhoeddus gyda heriau o ran cyfnewid ar gyfer cysylltiadau trafndiaeth gyhoeddus amlfoddol, diffyg llwybrau ar draws y ddinas fel mater allweddol a ysgogir yn rhannol gan dagfeydd traffig a gwydnwch dewis llwybrau cyfyngedig ar gyfer teithiau o'r dwyrain i'r gorllewin o'r ddinas.

Nid yw'r Parc Menter a safleoedd cyflogaeth allweddol eraill fel Fforestfach yn cael eu gwasanaethu'n dda gan drafnidiaeth gyhoeddus, yn enwedig y tu allan i oriau swyddfa rheolaidd. Mae trafndiaeth, felly, yn rhwystr i gyfranogwyr ar gynlluniau cyflogadwyedd. Er hynny mae prosiect Wheels 2 Work ar waith sy'n cynnig cynllun benthyg moped i'r rheiny nad oes unrhyw fodd arall ganddynt o fynd i, neu gadw, swydd/hyfforddiant oherwydd diffyg trafndiaeth gyhoeddus ar amserau y mae eu hangen arnynt, ac nid oes ganddynt eu cludiant eu hunain.

Er bod cysylltiadau cryf rhwng rhai ardaloedd, er enghraifft, canol y ddinas ac ysbytai; ystadau tai a chanol y ddinas, ceir diffyg cysylltiadau ar draws y sir i bobl gael mynediad i gyfleoedd cyflogaeth mewn ardaloedd eraill e.e. Amazon.

"Mae angen i drafnidiaeth hefyd fod yn rhatach fel y gall pobl fynd o gwmpas y lle. Mae angen cefnogaeth bellach ar gynlluniau cludiant cymunedol ac mae angen iddynt fod ar gael i ystod ehangach o ddefnyddwyr" – ymatebydd i'r arolwg.

Mae canol y ddinas yn cynnwys rhwydwaith da o lwybrau beicio, gan gynnwys y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol (NCN) Llwybr 4 sy'n gwasanaethu Marina Abertawe a'r afon ac yn cysylltu i'r gogledd â Llwybr 43 i Gwm Tawe. Mae'r dadansoddiad yn y Bennod Amgylchedd yn adrodd am duedd am i fyny mewn defnydd ar draws y rhwydwaith beicio o 2014 i 2021, fodd bynnag, mae adroddiad ailbwrpasu Canol y Ddinas yn nodi bwlch yn y ddarpariaeth cynlluniau hurio beiciau yng nghanol y ddinas.

Mae CDLI Abertawe yn adrodd bod y rhwydwaith priffyrdd presennol yn gweld tagfeydd traffig ar hyd rhai prif lwybrau a chyffyrdd, a all gael effaith negyddol ar amwynder, iechyd a llesiant, a chystadleurwydd economaidd.

Gallai Abertawe ddiodeff effaith niweidiol yn sgil cwtogi ar gynlluniau i drydaneiddio prif linell rheilffordd De Cymru o ran ei gallu i ddenu mewnfuddsoddiad a chael mynediad i farchnad lafur sgiliau lefel uwch yn y rhanbarth ehangach. Fodd bynnag, mae cynigion yn cael eu datblygu i ddwyn cynllun Metro Bae Abertawe yn ei flaen i ddarparu system drafnidiaeth ranbarthol integredig, ac mae Trafnidiaeth Cymru'n cynllunio i gynyddu gwasanaethau rhwng Abertawe a Manceinion o 2022^{xviii}. Dylai gwella'r seilwaith trafndiaeth gyflawni manteision economaidd pendant ar gyfer y rhanbarth yn y tymor canolig i'r tymor hir.

Yn ddiweddar fe wnaeth y Cyngor ddatblygu Strategaeth Seilwaith Gwyrdd Ardal Ganolog Abertawe – *Adfywio'n Dinas ar gyfer Lles a Bywyd Gwyllt* gan amlinellu ei weledigaeth 'Dinas seilwaith gwyrdd amlswyddogaethol o ansawdd uchel sy'n darparu cydnerthedd, ffyniant, natur, iechyd, lles a hapusrwydd i ddinasyddion ac ymwelwyr Abertawe'.

Mae Cyngor Abertawe yn arwain ar waith gyda'r Prosiect Porth y Gorllewin* ar gyfer eu blaenoriaeth buddsoddiad gwyrdd a gweithredu'r Strategaeth Seilwaith Gwyrdd sy'n canolbwyntio ar ddarparu ynni gwyrdd.

Newidiadau dros gyfnod

Mae cysylltedd digidol wedi parhau i gynyddu dros y 5 mlynedd diwethaf, er bod rhai 'ardaloedd digyswllt' o hyd mewn ardaloedd mwy gwledig. Mae mynediad i fand eang cyflym iawn wedi cynyddu i 98.9% ym mis Tachwedd 2021 o 95.6% 5 mlynedd yn ôl. Mae band eang gwibgyswllt wedi cynyddu hefyd o 70.8% o eiddo yn 2016 i 84% ar hyn o bryd.

Mae mwy o ffocws a chynnydd wedi bod mewn seilwaith gwyrdd, ac yn benodol mae cynlluniau'r Grant Datblygu a Gwella Eiddo yn mynnu bod ymgeiswyr yn ymgorffori gwelliannau seilwaith gwyrdd i'w hadeiladau lle bo modd, er enghraifft, toeon gwyrdd, waliau byw.

Mae llawer o brosiectau enghreifftiol o amgylch canol y ddinas, fel y wal werdd ym maes parcio Bae Copr ar Heol Ystumllwynarth, wal werdd ar adeilad Potter's Wheel ar Ffordd y Brenin, to gwyrdd ar y Pentref Trefol ar y Stryd Fawr, datblygiad bioffilig ar Stryd Rhydychen sy'n ymgeisio am achrediad fel yr un cyntaf yn y byd.

Mae hyn yn cyfrannu at wella atyniad y ddinas fel man i ymweld ag ef, byw a gweithio yno, a buddsoddi yn ychwanegol at y manteision amgylcheddol.

Mae arwynebedd llawr Canol y Ddinas yn parhau'n hen ac wedi dyddio, gyda rhenti swyddfa isel (o dan £10/tr sg yn nodweddiadol), a hefyd mae diffyg gofod swyddfa addas i gwmnïau sy'n cychwyn arni neu gwmnïau sy'n tyfu (yn enwedig busnesau technoleg), fodd bynnag, eir i'r afael â hyn gyda datblygiadau'n cael eu harwain gan y sector cyhoeddus fel 71/72 ar Ffordd y Brenin sydd wedi rhoi hyder cynyddol i'r farchnad. Ar gefn hyn, mae nifer o ddatblygiadau sy'n cael eu harwain gan y sector preifat yn dod ymlaen, e.e. datblygiad Morganstone yn hen Adeilad Smith Llewellyn ar Ffordd y Dywysoges, ac adeilad Bioffilig Hacer Developments ar Stryd Rhydychen, i greu busnes a man gwyrdd creadigol ac unigryw, er bod bwlch hyfywedd mawr yn parhau i'w fodloni gan gyllid y sector cyhoeddus.

Mae buddsoddiadau a phrosiectau mawr sydd naill ai wedi'u cwblhau'n ddiweddar, sydd ar y gweill neu yn yr arfaeth, yn cynnwys:

- Cam Un Bae Copr yn cynnwys arena ddigidol newydd gwbl gyfoes
- Ffordd y Brenin – mae'r gweddnewidiad £12m hwn wedi creu amgylchedd gwyrddach, mwy dymunol i fyw a gweithio yno, ac i ymweld ag ef, ac roedd yn cynnwys mannau cyhoeddus newydd, tir parc wedi'i dirlunio, llwybrau beicio, llwybr cerbydau lôn sengl dwyffordd, a thramwyfeydd llydan i gerddwyr.
- 71/72 Ffordd y Brenin - swyddfeydd newydd i ddarparu gofod ar gyfer 600 o swyddi yn y sectorau technegol, digidol a chreadigol. I'w gwblhau ar ddechrau 2023 ac yn werth £32.6m y flwyddyn i economi Abertawe pan fydd yn gweithredu, bydd gwaith ar y datblygiad pum llawr yn dechrau cyn hir. Mae cyswllt newydd rhwng Ffordd y Brenin a Stryd Rhydychen yn ffurfio rhan o'r cynllun hefyd.
- Bydd hen adeilad BHS yng nghanol y ddinas yn dod yn hyb cymunedol amlbwrpas, yn darparu gwasanaethau gan gynnwys llyfrgell ac adeiladau ystwyth i sefydliadau mewn amgylchedd croesawgar a hygyrch iawn.
- Adnewyddu ac ailagor lleoliadau diwylliannol fel Neuadd Albert. Bydd y gwaith adfer ac adnewyddu gwerth £8 miliwn ar adeilad hanesyddol Neuadd Albert gan Loft Co yn creu lleoliad cerddoriaeth ac adloniant â lle i 800, ynghyd â mannau newydd pwrpasol ar gyfer busnesau a swyddfeydd ffordd o fyw. Bydd gwaith i ailddatblygu Theatr y Palas yn dod â'r adeilad hanesyddol yn ôl i ddefnydd fel cartref newydd i fusnesau technegol, cychwynnol a chreadigol drwy Tramshed Tech. Mae'r weledigaeth ar gyfer yr adeilad rhestredig graddau yn cynnwys mannau gweithio hyblyg a modern.
- Rhaglen seilwaith digidol – bydd cynllun Bargen Ddinesig Bae Abertawe sy'n werth £55 miliwn yn helpu'r cyngor i gyflwyno cysylltedd ffibr llawn yng nghanol y ddinas, mewn parciau busnes a ledled y rhanbarth.

Cymariaethau â lleoedd eraill

Mae gan dros 91% o dirfas y DU signal 4G da gan o leiaf un gweithredwr, ac mae'r ardal hon yn cynnwys bron yr holl eiddo yn y DU. Mae'r signal ar gyfer Cymru a'r Alban yn sylweddol is.

O ran band eang cyflym iawn, mae cysylltedd gwell gan Abertawe na'r DU yn gyffredinol.

Gwahaniaethau ar draws Abertawe

Mae rhai bylchau mewn cysylltedd digidol ar gyfer signal ffonau symudol mewn rhai ardaloedd gwledig, ac amrywiadau rhwng darparwyr. Nid yw data Cysylltedd Digidol ar gyfer y rhyngwyd ar gael ar lefelau lleol.

Canfyddiadau a phersbectifau

Mae Adolygiad o'r Cynnig Manwerthu a Hamdden a Strategaeth Ailwrpasu Canol Dinas Abertawe yn adrodd bod 25% o unedau manwerthu yn wag, gan awgrymu bod gorddarpariaeth o fannau manwerthu yn yr Ardal Ganolog ac yn arbennig, yn y Craidd Canolog. Mae'r strategaeth yn nodi hefyd fod cyfleusterau hamdden ac adloniant wedi'u lleoli y tu allan i'r craidd canolog ac wedi'u gwasgaru yn yr Ardal Ganolog heb gylchfordd glir yn eu cysylltu. Hefyd, mae diffyg cysylltiadau uniongyrchol a hygyrch at y marina a'r traeth, a chysylltedd gwael gyda chymunedau preswyl cymdogol.

Mae Strategaeth Ailwrpasu Canol Dinas Abertawe yn argymhell y dylai'r uwchgynllun ar gyfer canol dinas Abertawe fabwysiadu ymagwedd gref o greu lleoedd er mwyn hyrwyddo llesiant yn yr ardal. Mae cynlluniau ar gyfer yr ardal yn mynnu creu tir cyhoeddus cydlynus o ansawdd uchel sy'n cysylltu'r canol â'r Glannau, gyda'r glannau eu hunain yn dod yn gyrchfan deniadol.

Mae adroddiad Centre for Cities *Measuring up: Comparing public transport in the UK and Europe's biggest cities* yn awgrymu'r canlynol:

- Bod teithiau cymudo ar drafnidiaeth gyhoeddus drefol i ganol dinasoedd Ewropeaidd yn haws ac yn gyflymach nag yn y DU. Gall oddeutu 67 y cant o bobl mewn dinasoedd Ewropeaidd mawr gyrraedd canol eu dinas ar drafnidiaeth gyhoeddus o fewn 30 munud, o gymharu â 40 y cant yn unig o bobl yn ninasoedd mwyaf Prydain.
- Mae ffurf adeiledig gweddol isel dinasoedd mawr Prydain yn atal pobl rhag byw gerllaw trafndiaeth gyhoeddus drefol. Mae dibyniaeth Prydain ar dai teras a thai pâr yn golygu bod llai o bobl yn byw yn agos at ganol dinasoedd sy'n lleihau cymudo ar drafnidiaeth gyhoeddus ac effeithlonrwydd rhwydweithiau.
- Mae trafndiaeth drefol wael yn cyfyngu ar gyfleoedd swyddi pobl ac i bob pwrpas yn gwneud ein dinasoedd mwyaf yn llai o lawer na chystadleuwyr Ewropeaidd. Mae hyn yn effeithio'n negyddol ar gynhyrchiant a pherfformiad economaidd dinasoedd mawr, ac yn costio dros £23.1 biliwn y flwyddyn i economi'r DU.
- Er mwyn cyflawni deilliannau trafndiaeth dull Ewropeaidd, mae'n rhaid cyfuno ehangu systemau trafndiaeth gyhoeddus drefol gydag ymdrechion i newid ffurf adeiledig dinasoedd mawr, gan ei gwneud hi'n haws byw gerllaw trafndiaeth gyhoeddus a defnyddio trafndiaeth gyhoeddus.

Roedd datblygu'r Strategaeth Seilwaith Gwyrdd *Ardal Ganolog Abertawe: Adfywio'n Dinas ar gyfer Lles a Bywyd Gwyllt* yn cynnwys ymgysylltu'n helaeth â rhanddeiliaid ynglŷn â beth mae natur yn y ddinas yn ei olygu iddynt. Fel yr amlinellwyd yn y bennod Amgylchedd, y neges amlycaf o'r gwaith ymgysylltu hwn oedd bod #naturdinas yn bwysig iawn i bobl ac y bydd yn cynyddu'u mwynhad ac, felly, eu hamser yn byw yng nghanol y ddinas.

Tueddiadau a Rhagolygon i'r Dyfodol ar gyfer Abertawe

Ar gyfer cysylltedd digidol, mae Llywodraeth Cymru'n parhau i ddarparu cronfeydd atodol trwy gynllun talebau newydd, ar gyfer yr eiddo preswyl hynny sy'n cymhwyso o dan gynllun Gigabit Capable Broadband (band eang all drosglwyddo data ar gyfradd gigabeit) Llywodraeth y DU. Yn ogystal, mae Allwedd Band Eang Cymru10 yn darparu cyllid a grantiau i'r holl eiddo i ddyblu cyflymderau band eang.

Roedd y cwmni eiddo LSH, yn ei adroddiad Marchnad Swyddfa'r De Orllewin a De Cymru 2018, yn rhagweld pan fyddai llawer o'r prydlesi hir ar gyrion y dref yn dod i ben dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, y gallai Abertawe weld ton o ofynion gan y rheiny sy'n dychwelyd i ganol y ddinas, ond mae angen i'r gofod llawr priodol fod yn barod.

Fel rhan o Strategaeth Drafnidiaeth Ardal Ganolog Abertawe mae gwaith yn mynd rhagddo i ddarparu cyngor cynllunio trafndiaeth fel rhan o ddatblygu Ardal Ganolog Abertawe.

Mae cynigion yn cael eu datblygu i ddwyn Metro Bae Abertawe a De Cymru yn ei flaen fel craidd system drafnidiaeth ranbarthol sydd wedi'i hintegreiddio'n well.

Mae Trafnidiaeth Cymru yn cynllunio i gynyddu gwasanaethau rhwng Abertawe a Manceinion o 2022; ac mae gwaith yn mynd rhagddo i ddwyn mesurau teithio llesol yn eu blaen ledled y rhanbarth.

Sicrhawyd cyllid yn ddiweddar trwy Gronfa Adfywio Cymunedol y DU ar gyfer prosiect yn cael ei arwain gan Gyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe (SCVS) a fydd yn gweithio gyda chymunedau i nodi atebion trafndiaeth gynaliadwy a arweinir ganddynt.

Mae mentrau trafndiaeth gynaliadwy ychwanegol a gwelliannau a nodwyd yn y bennod Amgylchedd yn cynnwys:

- Mae opsiynau ar gyfer safle parcio a theithio newydd ar gyfer Glandŵr yn cael eu hasesu i ddarparu lleoliad sy'n fwy hygyrch i'r M4 ond ymhellach i ffwrdd oddi wrth ganol y ddinas, a fydd yn cefnogi defnydd ardal ehangach ac aml-foddol.
- Mae Cynllun Amddiffyn Arfordir y Mwmbwls yn cynnwys uchelgais ar gyfer llwybr 6m o led a rennir.
- Mae Cyngor Abertawe'n gweithio'n agos gyda phartneriaid i roi'r wedd derfynol ar signalau bysiau hwyr wrth gyffyrdd er mwyn i hyn fod yn weithredol yn 2021/22

Mae'r Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol yn nodi angen i fuddsoddi yn 'seilwaith profiadau' y rhanbarth; bydd hyn yn helpu i ddenu ymwelwyr newydd i'r ddinas a chefnogi busnesau. Gellir gweld mwy o fanylion am Greu Lleoedd yn y Bennod Amgylchedd.

Bydd defnyddio seilwaith gwyrdd mewn cynlluniau eiddo masnachol yn cyfrannu at y nod o greu 'Cymru gydnerth', fodd bynnag, bydd y mapiau llifogydd diwygiedig ar gyfer cynllunio sy'n dangos mwy o berygl llifogydd yng nghanol y ddinas yn cyfyngu ar y gallu i greu'r seilwaith economaidd cywir, gan gynnwys cynlluniau eiddo.

Mae'r prosiect Eden Las gwerth £1.7 biliwn a arweinir gan y sector preifat, a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gyfer Abertawe, yn bwriadu cynnwys morlyn llanw newydd, sy'n cynnwys

tyrbinau tanddwr o'r radd flaenaf sy'n cynhyrchu 320 megawat o ynni adnewyddadwy o'r adeiledd 9.5km. Bydd y prosiect hwn yn helpu arwain economi twf gwyrdd.

Integreiddio

Mae'r seilwaith economaidd sydd ar gael yn allweddol i hwyluso economi gref a ffyniannus sydd yn ei thro yn cefnogi llesiant pobl. Mae'n bwysig i bawb allu cael mynediad i drafnidiaeth er mwyn bodloni'r nod cenedlaethol 'cymunedau cydlynus'.

Bydd cysylltedd digidol o bosibl yn helpu galluogi pobl i leihau'u hól-troed carbon drwy leihau cymudo er enghraifft, ac mae hyn yn ei dro yn galluogi llesiant gwell drwy fwy o amser hamdden.

Mae cysylltiadau hefyd rhwng y pwnc hwn ac agweddau amrywiol ar y bennod Amgylchedd, gan gynnwys creu lleoedd, perygl llifogydd, hygyrchedd at wasanaethau a chyfleusterau (teithio llesol / newid dulliau teithio i fws, trydan, ac ati)

Ceir cysylltiadau hefyd at agweddau ar y bennod Cymdeithasol, gan gynnwys tai a thlodi.

"Mae trafndiaeth a theithio'n bwysig oherwydd hebddynt, gall unigolion fod yn unig ac yn ynysig, a all arwain at broblemau iechyd pellach" – ymatebydd i'r arolwg.

Gwelliant

Byddai lefel uwch o fyw yng nghanol y ddinas, cyflogaeth ac ymwelwyr â chanol y ddinas, gan gefnogi canol dinas sy'n perfformio'n gryf.

Rhagor o seilwaith gwyrdd a chysylltedd da at asedau naturiol. Mae angen i'r strategaeth Seilwaith Gwyrdd gael yr adnoddau i yrru'r gwelliannau hyn i'r seilwaith yn eu blaen.

Opsiynau teithio llesol a thrafnidiaeth gynaliadwy i bobl er mwyn cael mynediad i gyflogaeth a gwasanaethau cyhoeddus, ac i fusnesau gael cwsmeriaid, cyflogeion a chyflenwyr.

Mae casgliadau a chanfyddiadau o'r Strategaeth Ailwrpasu Canol Dinas Abertawe'n awgrymu'r canlynol:

- Bod angen am gynnig preswyl ehangach yng nghanol y ddinas, gyda ffocws ar fyw sy'n pontio'r cenedlaethol.
- Er bod dwy brifysgol o safon yno, bod diffyg cyfleusterau addysgol yng nghanol y ddinas.
- Bod cynnig hamdden a diwylliannol cryf gan Abertawe, ond mae cyfleusterau hamdden ac adloniant wedi'i lleoli y tu allan i'r craidd canolog ac wedi'u gwasgaru yn yr Ardal Ganolog heb gylchffordd glir yn eu cysylltu.
- Bod diffyg gofod swyddfa o safon ar gael.
- Bod diffyg busnesau Bwyd a Diodydd "aeddfe" yn y craidd.
- Bod nifer y siopwyr yn gostwng a bod lleoedd manwerthu gwag yn broblem gynyddol.
- Bod mentrau ymroddedig yn nodweddig cadarnhaol mawr.
- Bod angen meithrin ymdeimlad o falchder ac ymdeimlad o berchnogaeth yn y ddinas.

- Bod Abertawe'n dioddef o ganfyddiad gwael o ganol y ddinas gydag ymwelwyr, ac argraffiadau cyntaf gwael.

Mae llawer o'r pryderon hyn wedi'u nodi o'r blaen, ac mae camau gweithredu presennol gan y Cyngor eisoes yn mynd i'r afael â rhai ohonynt. Mae cyfleoedd ychwanegol drwy'r cynllun adfer economaidd presennol yn ymffurfio hefyd, ond mae'n amlwg y bydd angen i'r Cyngor fynd ymhellach o ran ei uchelgeisiau ail-bwrpasu, trwy gwblhau ymrwymïadau blaenorol a choleddu rhai newydd ar yr un pryd.

Ynglŷn â'r dystiolaeth

Mae diffyg gwybodaeth am ble mae'r 'ardaloedd digyswllt' digidol.

Nid oes unrhyw archwiliadau ar ansawdd eiddo masnachol a gofynion y dyfodol.

Casgliadau a negeseuon allweddol

Yn gyffredinol, mae cysylltedd digidol yn dda yn Abertawe ac mae hyn yn helpu hwyluso cynhyrchiant a thwf busnes; mynediad i weithio o gartref; addysg ar-lein a mynediad at wasanaethau. Mae bod ar-lein hefyd yn helpu aelwydydd i yrru costau i lawr trwy fynediad at brisiau mwy cystadleuol am bethau fel cyfleustodau, felly mae'n bwysig sicrhau bod cysylltiad da gan ardaloedd gwledig hefyd.

Bydd prosiect y Fargen Ddinesig i fynd i'r afael â chysylltedd digidol yn helpu cynnal cyflymder newid i sicrhau y gall arferion gweithio a modelau busnes barhau i esblygu er mwyn cefnogi gofynion gan ddefnyddwyr ac i wella cynhyrchiant.

Mae gofod swyddfa Abertawe wedi hen ddyddio ac o ansawdd gwael, ac yn benodol ceir diffyg gofod swyddfa gradd A i ddenu ymholiadau mewnfuddsoddi mawr. Hefyd, ceir diffyg gofodau o bob maint sy'n rhwystro'r gallu i hwyluso busnesau bach i ddechrau a thyfu cwmnïau. Fodd bynnag, mae nifer o gynlluniau wedi dechrau a ddylai helpu dechrau mynd i'r afael â'r materion hyn.

Oherwydd y rhenti isel a phrisiau eiddo isel yn Abertawe, mae yna fwllch hyfywedd sy'n atal datblygiadau rhag dod ymlaen o'r sector preifat. Felly, mae angen i waith barhau i fynd i'r afael â'r bwllch hyfywedd hwn er mwyn sicrhau bod gan Abertawe gyflenwad addas i'r diben o eiddo busnes i fodloni'r galw lleol a denu cwmnïau newydd i ddechrau neu ehangu yma. Mae hyn yn hanfodol i greu cyfleoedd swyddi i bobl er mwyn gwella'u llesiant economaidd.

Mae angen i weithleoedd allweddol fod â chysylltiad gwell at lwybrau teithio llesol a theithio cynaliadwy gydag amserlenni i ddarparu ar gyfer patrymau gwaith shifft. Bydd hyn yn helpu pobl ddi-waith i gael mynediad i gyfleoedd swyddi a chynyddu'u llesiant. Mae angen mwy o lwybrau ar draws y ddinas hefyd.

Mae gwaith ar y gweill eisoes i greu mwy o isadeiledd gwyrdd ac adeiladau gwyrdd a dylai'r ffocws hwn barhau i helpu i fynd i'r afael â'r argyfyngau newid yn yr hinsawdd a natur. Bydd hyn yn ei dro yn gwella lles pobl drwy ddarparu gwell lleoedd i weithio ac ymlacio.

Sylfaen Fusnes Abertawe

Cryfderau ac Asedau

Gyda bron i 8,000 o fusnesau gweithredol (2020), gan Abertawe y mae'r sylfaen fusnes ail fwyaf o unrhyw ardal awdurdod lleol yng Nghymru ac, o ystyried mai Abertawe yw'r ail ddinas fwyaf, efallai nad yw hynny'n syndod. Mae Abertawe yn is ei graddfa (oddeutu'r haen ganol) ar gyfer busnes fesul pen o'r boblogaeth (oedran gweithio) ar ryw 500 fesul 10,000.

O ran cynrychiolaeth sectorau (data 2020), nid yw Abertawe'n sylweddol anghymesur â chyfartaleddau Cymru ar gyfer unrhyw sector unigol, ac eithrio manwerthu o bosib, y mae ei stoc o 14.2% yn uwch na Chymru (8.9%) a'r DU (8.1%). Er bod hyn yn dangos nad oes gan Abertawe arbenigedd amlwg mewn unrhyw sector unigol, mae'n dangos hefyd fod yr ardal yn llai bregus i siociau'r farchnad oherwydd gorgynrychiolaeth sector busnes unigol.

Mae 88.6% o fusnesau yn Abertawe (2021) yn fusnesau maint micro (0-9 o gyflogeion) gydag 1.9% o fusnesau'n cyflogi 50 neu fwy o bobl; cyfanswm o ryw 135 o fusnesau yw hyn.

Mae gan Abertawe ddiwylliant cryf o gychwyn busnesau, gyda 1,050 o fentrau newydd wedi dechrau yn 2020. Mae hyn yn dangos y bumed gyfradd genedigaethau busnes uchaf y pen o boblogaeth oedran gweithio yng Nghymru, ond bu gostyngiad yn nifer y genedigaethau busnes o'r flwyddyn flaenorol (1,290 yn 2019), yn rhannol oherwydd effaith y pandemig.

Mae Prifysgol Abertawe a Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn darparu llwyfan ar gyfer arloesi yn nhermau busnesau'n cychwyn yn uniongyrchol o'r campws neu'n anuniongyrchol trwy gadwyni cyflenwi lleol. Yn 2015/16, cyfrannodd gweithgarwch prifysgol werth ychwanegol gros gwerth £442m i economi Abertawe, sef oddeutu 9% o'r cyfanswm bryd hynny.

Mae'r cyngor a'i bartneriaid wedi ymrwymo i gefnogi cyflenwyr a mentrau lleol fel Y Tu Hwnt i Frics a Morter.

Newidiadau dros gyfnod

Mae'r duedd ar gyfer stoc busnes hyd at 2020 wedi bod yn duedd o dyfu; golyga hyn fod niferoedd cyffredinol busnesau'n cychwyn wedi bod yn uwch na'r niferoedd busnesau'n darfod. Mae'r twf hwn mewn stoc busnes yn dangos mewn niferoedd termau real ond hefyd mewn busnesau fesul pen y boblogaeth. Yn wir, mae cyfanswm y stoc busnes rhwng 2015 a 2020 wedi codi 18% sy'n golygu mai Abertawe oedd yr ail ardal awdurdod lleol orau o ran perfformiad o'r 22 ardal awdurdod lleol yng Nghymru yn ystod y cyfnod hwn.

Yn 2019 (y data diweddaraf sydd ar gael), roedd Gwerth Ychwanegol Gros (GYG) fesul pen ar gyfer Abertawe yn oddeutu £23,000. Mae hyn yn dwf o ryw 13% yn y pum mlynedd ers 2014, a thwf o 3% yn y flwyddyn ers 2018.

Cymariaethau â lleoedd eraill

Er bod Abertawe wedi gweld twf uwchlaw'r twf cyfartalog cenedlaethol yn nifer y busnesau'n cychwyn a stoc busnesau, mae cyfraddau goroesi busnesau ar gyfer Abertawe islaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru a'r DU, ac ymhlith yr isaf o'r ardaloedd awdurdod lleol yng Nghymru. 39.9% yn unig yw'r cyfraddau goroesi dros bum mlynedd i fusnesau yn Abertawe (hyd at 2020), sy'n agos at gyfartaledd Cymru (39.9%) ond yn is na'r awdurdodau lleol sy'n perfformio orau yng Nghymru (hyd at 49%). Felly, er bod nifer fawr o fusnesau'n cael eu creu, yn amlwg ceir problem gyda'r busnesau hyn naill ai'n goroesi neu'n dewis parhau i fasnachu dros gyfnod amser estynedig.

O ran sectorau busnes, mae cwota uchel anghymesur o weithgarwch busnes mewn manwerthu gan Abertawe o gymharu â chyfansymiau Cymru a'r DU. I'r gwrthwyneb, ceir tangynrychiolaeth o fusnesau yn y sectorau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol. Yn fras, mae hyn yn amlygu gorgynrychiolaeth yn y sector sy'n talu llai ac yn mynnu lefel sgiliau is, a chwota is mewn sector sy'n talu cyflogau uchel ac yn mynnu lefel sgiliau uchel.

Canfyddiadau a phersbectifau

Mae Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol De Orllewin Cymru yn tynnu sylw at effaith Pandemig y Coronafeirws ar ranbarth De Orllewin Cymru. Mae'r adroddiad yn amlygu'r effaith sylweddol ar letygarwch sydd â chynrychiolaeth gref ar hyd y rhanbarth. Mae hefyd yn amlygu'r tueddiadau tarfol a allai fod yn rhai tymor hwy, yn enwedig mewn manwerthu, y mae Abertawe'n dibynnu'n gymharol drwm arno.

"Dwi'n meddwl bod busnes a menter yn ganolog i greu a chynnal canol dinas sy'n ffynnu. Nid yn unig y maen nhw'n darparu cyfleoedd gwaith, maen nhw'n ysgogi incwm a llif arian yn Abertawe. Mae busnesau hefyd yn rhoi cyfleoedd i bobl gynnal a mynd i ddigwyddiadau ac felly mae pobl yn fwy tebygol o gysylltu Abertawe â digwyddiadau, pethau i'w gwneud a lle i fynd. Dwi'n meddwl y byddai'n wych pe bai'r cyngor yn gallu cefnogi syniadau busnes mwy arbenigol fel bod pobl yn cael cyfle i wario'u harian ar fwy na bwyd a diod yn unig. Byddai lleoedd sy'n cynnig ymarfer corff neu weithgareddau hamdden yn wych" – ymatebydd i'r arolwg.

Tueddiadau a Rhagolygon i'r Dyfodol ar gyfer Abertawe

Mae'r pedwerydd chwyldro diwydiannol – digidoleiddio – yn mynd rhagddo. Fodd bynnag, mae digidoleiddio'n creu effeithiau tarfol. Er ei fod yn arwain at fwy o arbedion effeithlonrwydd mewn diwydiannu, mae'r grym 'trawsnewidiol' mewn cydgyfeirio technolegau i ysgogi marchnadoedd a diwydiannau cwbl newydd (gemau neu roboteg, er enghraifft), sydd yn ei dro yn ysgogi cymwysiadau yn rhywle arall. Mae hyn yn creu cyfleoedd aruthrol i bob sector: ehangu deallusrwydd artiffisial a fydd yn disodli llawer o dasgau llaw; parhau i ddatblygu llwyfannau digidol gan alluogi modelau trafodiadau newydd (e.e. gwneud rhentu nwyddau a gwasanaethau'n fwy hyfyw); newidiadau yn natur y gweithle fel mwy o weithio gartref; datblygu technolegau a safonau newydd, wrth i fodolau busnes nad oeddent yn bodoli'n flaenorol ymsefydlu a dylanwadu ar y modelau rheoleiddio sy'n effeithio ar rai newydd sy'n dod i mewn; mwy o ddefnydd o ddata i gyflawni newid ymddygiad.

Cenhadaeth allweddol arall a nodwyd yn y Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol yw adeiladu sylfaen fusnes gref, gydnerth ac ymgorfforedig sy'n ceisio annog ffocws parhaus ar arloesi a'r thwf galluedd 'ar flaen y gad', gan gydbwysu hynny gydag ymagwedd sy'n amcanu at gyflawni mwy o gydnerthedd, potensial i dyfu a chapasiti ar gyfer cyflogaeth barhaus ar draws sylfaen fusnes ehangach y rhanbarth, yn gysylltiedig â'r gorchymyn datgarboneiddio yng Nghenhadaeth 1.

Gwelliant

Er bod y stoc busnes a chyfradd busnesau newydd yn cychwyn arni yn Abertawe ymhlith y gorau yng Nghymru, mae'r cyfraddau goroesi busnes yn dangos bod hirhoedledd y busnesau hyn yn wael o gymharu ag ardaloedd awdurdod lleol eraill yng Nghymru. Byddai cynnal y busnesau hyn a gwella'u cyfradd goroesi yn helpu diogelu a thyfu'r ffigurau stoc busnes cyffredinol. Mae hyn yn golygu sicrhau bod busnesau wedi'u cysylltu'n well â'r cymorth sydd ar gael iddynt a darparu ymyrraeth gynnar cyn i fusnesau fethu.

Mewn cymhariaeth, mae cynrychiolaeth arbennig o wael gan Abertawe yn y sectorau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol. Mae hwn yn sector lle mae swyddi'n debygol o fod yn talu cyflogau gwell a mynnu lefel sgiliau uwch. Felly, byddai twf yn y sector hwn yn darparu mantais i'r economi ehangach.

Er bod GYG y pen Abertawe yn uwch ar hyn o bryd na daeryddiaethau cymharol yng Nghymru, mae lefel gyffredinol twf yn araf. Er mwyn cynnal y lefel GYG gymharol uwch, mae'n rhaid gwella'r lefel twf.

Yn Ebrill 2021, sefydlwyd gwasanaeth Cymorth Busnes pwrpasol gan Gyngor Abertawe, o'r enw 'Busnes Abertawe' gyda'r prif nodau o helpu busnesau ymadfer ar ôl y pandemig, rhoi hwb i gyfraddau goroesi busnesau ifanc, cynyddu ymgysylltiad busnesau a gwella ymwybyddiaeth busnesau o'r cymorth sydd ar gael trwy Gyngor Abertawe a'i bartneriaid. Mae gweithgareddau Busnes Abertawe yn cynnwys:

- Dosbarthu cylchlythyr Cymorth Busnes pwrpasol bob pythefnos i restr gylchredeg o dros 2,000 o fusnesau
- Strategaeth gyfathrebu dargedig yn defnyddio amryw o sianelau cyfryngau cymdeithasol
- Gwefan wedi'i hailwampio gyda chynnwys cymorth busnes wedi'i ddiweddarau
- Sefydlu Clwb Menter i Fusnesau sy'n Cychwyn gyda mynediad i grant bach cychwyn busnes
- Sesiynau cymorth busnes pynciol bob mis i fusnesau newydd a sefydledig, wedi'u hwyluso gan arbenigwyr lleol
- Ffurio Fforwm Cymorth Busnes yn cynnwys partneriaid cymorth busnes gweithgar sy'n gweithredu yn Abertawe.

Mae gweledigaeth uchelgeisiol gan Gyngor Abertawe ar gyfer y Ddinas fel cyrchfan fywiog, 24-awr i fyw, gweithio a hamddena ynddi. Mae datblygiadau newydd a phrosiectau adfywio parhaus sy'n rhoi achos i fod yn optimistig iawn ar ôl y pandemig, fel:

- Datblygiad Bae Copr yn cynnwys arena ddigidol newydd gwbl gyfoes
- Datblygiad swyddfa uwch-dechnoleg yn 71 a 72 Ffordd y Brenin

- Theatr y Palas wedi'i thrawsnewid yn hyb newydd ar gyfer busnesau technegol, busnesau sy'n cychwyn arni a busnesau creadigol
- Neuadd Albert yn cael ei defnyddio eto fel lleoliad cerddoriaeth
- Uwchraddiad £3m i brif ardal economi bywyd nos Wind Street
- Gwelliant i'r man cyhoeddus ar Sgwâr y Castell
- Gwaith datblygu gwerth £750m ar safleoedd allweddol yng Nghanol y Ddinas, Gogledd Abertawe Ganolog a St Thomas
- Prosiect £1.7bn Eden Las.

"Busnes cynaliadwy - ffocws ar yr effaith ar yr amgylchedd a defnyddio technoleg ac arloesedd i ddod yn arweinwyr ar gyfer busnes a gweithgarwch cynaliadwy yn y DU" – ymatebydd i'r arolwg.

Ynglŷn â'r dystiolaeth

Nid yw effaith lawn pandemig y Coronafeirws yn glir eto o'r data diweddaraf sydd ar gael yn ymwneud â sylfaen fusnes Abertawe; fodd bynnag, mae'n debygol o ddangos darlun cymysg. Efallai y bydd y gyfran uchel o fusnesau manwerthu a'r rheiny yn y maes llety a gwasanaethau bwyd yn dangos effeithiau negyddol yn y tymor byr. Mae'r pandemig yn debygol o arwain at effeithiau economaidd tymor canolig a thymor hwy, gan gynnwys ar arferion manwerthu, a natur newidiol y galw am ofod swyddfa yng nghanol y ddinas. Adeg ysgrifennu hwn, nid yw'r dystiolaeth yn dynodi'r cyfeiriad newid a/neu nid yw'r effeithiau llawn wedi'u gwireddu eto.

Casgliadau a negeseuon allweddol

Mae gan Abertawe sylfaen fusnes gref a lefel iach o fusnesau newydd yn ffurfio, ond gwrthbwsir hyn gan gyfraddau goroesi busnes gwael a thwf sy'n tanberfformio mewn GYG. Golyga hyn bod perygl i'r ardal lusgo y tu ôl i gyfraddau twf Cymru a'r DU. Byddai cynnal y busnesau hyn a gwella'u cyfradd oroesi yn helpu diogelu a thyfu'r stoc busnes cyffredinol. Mae hyn yn golygu sicrhau bod busnesau wedi'u cysylltu'n well â'r cymorth sydd ar gael iddynt a darparu ymyrraeth gynnar cyn i fusnesau fethu.

Mewn cymhariaeth, mae cynrychiolaeth arbennig o wael gan Abertawe yn y sectorau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol. Mae hwn yn sector lle mae swyddi'n debygol o fod yn talu cyflogau gwell a mynnu lefel sgiliau uwch. Felly, byddai twf yn y sector hwn yn darparu mantais i'r economi ehangach a helpu codi incwm a llesiant pobl.

Mae lle i fod yn optimistaidd, fodd bynnag. Bydd y prosiectau adfywio diweddar, cyfredol ac arfaethedig, gan gynnwys Bae Copr, Ffordd y Brenin ac Eden Las, yn darparu cyfleoedd creu buddsoddiad sylweddol i'r sylfaen fusnes leol yn ystod yr adeiladu a thrwy'r seilwaith canlyniadol. At hynny, mae'r parhad yn nhwf dwy brifysgol y ddinas yn addo cynyddu nifer y busnesau ac unigolion â lefel sgiliau uchel.

Gweithlu Abertawe

Mae gweithlu medrus yn agwedd bwysig ar economi gydnherth a llwyddiannus, gan y gall gweithlu medrus helpu rhoi hwb i gynhyrchiant. Er enghraifft, mae gweithwyr medrus yn aml

yn fwy abl i addasu'n gyflym ac effeithiol i newid, a chyfrannu at arloesi ac effeithlonrwydd gwell.

I unigolyn, mae sgiliau'n effeithio ar ei allu i gael swydd ac mae pobl â lefel sgiliau uchel yn tueddu cael eu cyflogi mewn swyddi sy'n talu cyflogau gwella, gan wella'u llesiant economaidd felly.

"Heb sgiliau mae'n anodd i bobl hŷn neu ifanc gael hyder ynddynt nhw eu hunain a dyheadau am eu bywydau a'u dyfodol" – ymatebydd i'r arolwg.

Wrth asesu sgiliau gweithlu Abertawe, rydym wedi ystyried lefel cyrhaeddiad ysgol a lefel gyffredinol cymwysterau.

i. Cyrhaeddiad Addysgol mewn Ysgolion Cynradd ac Uwchradd

Mae'r mesurau a ddefnyddiwyd ar gyfer y dadansoddiad hwn fel a ganlyn:

- Ysgolion cynradd – Dangosydd Pwnc Craidd (DPC) diwedd cyfnod allweddol 2. Mae hwn yn cyfeirio at ganran y disgyblion ym mlwyddyn 6 sy'n cyrraedd lefel 4 o leiaf yn Saesneg a / neu Gymraeg Iaith Gyntaf, ynghyd â mathemateg a gwyddoniaeth ar y cyd. Rhoddwyd y gorau i'r mesur hwn yn sgil y Cwricwlwm newydd i Gymru, ac nid oes unrhyw beth i'w ddisodli ar hyn y bryd.
- Ysgolion uwchradd – Sgôr Pwyntiau 9 wedi'i Gapio cyfnod allweddol 4. Mae hwn yn cyfeirio at y sgorau pwyntiau a gyflawnwyd gan bob myfyriwr yn eu 9 canlyniad arholiad gorau, gan gynnwys llythrennedd, rhifedd a gwyddoniaeth. Mae union ddiffiniad y mesur hwn wedi'i newid yn fynych, felly dangosol yn unig yw ei ddefnydd fel mesur dros gyfnod.

Cryfderau ac Asedau

Mae canlyniadau ar gyfer disgyblion Abertawe mewn ysgolion cynradd wedi bod yn gyson â'r rheiny a welwyd yng Nghymru yn gyffredinol.

Fel y gwelwyd yn y data cenedlaethol, mae perfformiad bechgyn yn gyffredinol islaw perfformiad merched, gyda bwlch cyfartalog o 6% yn y tair blynedd hyd at 2019.

Mae canlyniadau disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim (PYDd) oddeutu 14% islaw'r holl ddisgyblion yn y blynyddoedd hyn; eto, mae hyn yn nodweddiadol o'r canlyniadau cenedlaethol. Fodd bynnag, wrth edrych ar amddifadedd gan ddefnyddio Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC), dim ond rhyw 6% islaw'r holl ddisgyblion yw'r canlyniadau ar gyfer disgyblion sy'n byw mewn ardaloedd a ddosberthir fel rhai yn y 30% mwyaf difreintiedig o'r holl ardaloedd yng Nghymru. Mae'n ymddangos felly bod PYDd yn fwy o ffactor nac amddifadedd yn gyffredinol (mae PYDd yn fesur o amddifadedd incwm yn unig, gan mai'r system fudd-daliadau sy'n pennu cymhwyster). Mae effaith amddifadedd yn tueddu bod yn fwy sylweddol ar gyfer bechgyn na merched.

Un cryfder mewn perfformiad ysgolion cynradd yw cyrhaeddiad disgyblion o Gefndiroedd Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. Er bod llawer o'r disgyblion hyn yn dysgu Saesneg fel iaith

ychwanegol, mae eu canlyniadau yng nghyfnod allweddol 2, yn nodweddiadol, yn 1-2% yn uwch na'r rheiny ar gyfer yr holl ddisgyblion.

Yn nodweddiadol, mae canlyniadau disgyblion sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol oddeutu 23% yn is na'r holl ddisgyblion yn gyffredinol. Fodd bynnag, mae nifer y disgyblion sy'n derbyn gofal yn y rhan fwyaf o grwpiau blwyddyn rhwng 20 a 30 yn nodweddiadol, felly mae angen bod yn ofalus wrth edrych ar eu perfformiad oherwydd y niferoedd isel. Mae ffocws y disgyblion hyn yn fwy ar gyflawniad unigol o gymharu â'u potensial.

Mae bwlch o ryw 25% rhwng disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r holl ddisgyblion. Mae disgyblion ag ADY yn derbyn cymorth ychwanegol, naill ai yn eu hysgolion neu drwy arbenigwyr allanol sy'n gweithio gyda nhw. Mae'r bwlch a welir yn Abertawe ar gyfer disgyblion ag ADY yn nodweddiadol o hynny a welir yn genedlaethol. Mae Abertawe, fodd bynnag, yn tueddu bod â chyfran uwch o ddisgyblion ag ADY na Chymru'n gyffredinol, ac mae llawer mwy o fechgyn wedi'u nodi ag ADY na merched.

Mae perfformiad cyffredinol ysgolion uwchradd Abertawe yng nghyfnod allweddol 4 ymhlith y gorau yng Nghymru yn nodweddiadol, gyda'r rhan fwyaf o fesurau allweddol uwchlaw cyfartaleddau Cymru a gyda chryn werth ychwanegol cadarnhaol dros gyfnod.

Yn y tair blynedd hyd at 2019, cyfartaledd y sgôr pwyntiau 9 wedi'i gapio oedd 366, gyda bwlch o 26 pwynt rhwng bechgyn a merched. Mae'r bwlch hwn yn nodweddiadol o'r canlyniadau cenedlaethol.

Mae gan ddisgyblion sy'n derbyn PYDd sgorau cyfartalog o ryw 25 pwynt islaw'r holl ddisgyblion eraill, tra bod gan y rheiny sy'n byw yn y 30% o ardaloedd a ddsbarthwyd gan MALIC fel rhai mwyaf difreintiedig sgorau sydd 41 pwynt islaw'r holl ddisgyblion. Felly, yn wahanol i gyfnod allweddol 2, mae'n ymddangos bod amddifadedd yn gyffredinol yn ffactor mwy arwyddocaol na PYDd yn unig.

Yn nodweddiadol, mae disgyblion o gefndiroedd Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn cael canlyniadau sydd, yn nodweddiadol, ryw 20 pwynt yn uwch na'r holl ddisgyblion, ac mae hwn yn gryfder arbennig o berfformiad ysgolion uwchradd. Fel arfer ceir rhwng 200 a 300 o ddisgyblion o gefndiroedd Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig fesul grŵp blwyddyn (10-15% o'r garfan).

Mae canlyniadau disgyblion sy'n derbyn gofal oddeutu 95 pwynt islaw'r holl ddisgyblion ar gyfartaledd. Mae hwn yn wahaniaeth sylweddol, er mai dim ond 20-30 o ddisgyblion felly sydd yn nodweddiadol ym mhob grŵp blwyddyn. Mae'r ffocws felly ar gyflawniad unigol o gymharu â photensial, yn hytrach nag ar y canlyniadau ar gyfer y grŵp bach yn gyffredinol.

Mae canlyniadau disgyblion ag ADY yn Abertawe oddeutu 75 pwynt islaw'r holl ddisgyblion. Mae hyn yn debyg i'r bwlch a welir yn genedlaethol. Mae disgyblion ag ADY yn derbyn cymorth ychwanegol, naill ai yn eu hysgolion neu drwy arbenigwyr allanol sy'n gweithio gyda nhw. Mae Abertawe, fodd bynnag, yn tueddu bod â chyfran uwch o ddisgyblion ag ADY na Chymru'n gyffredinol, ac mae llawer mwy o fechgyn wedi'u nodi ag ADY na merched.

Newidiadau dros gyfnod

Yn y tair blynedd hyd at 2019, fe wnaeth canlyniadau ysgolion cynradd ar gyfer DPC cyfnod allweddol 2 ostwng fymryn, o ryw 2.7%. Roedd hyn yn bennaf yn sgil cyflwyno prosesau cymedroli mwy cadarn ar gyfer asesiadau athrawon, ac nid yw'n adlewyrchu dirywiad mewn perfformiad. Gwnaeth y newidiadau hyn yn rhanbarthol, a gwelwyd gostyngiadau bach tebyg yn y DPC yn yr ardaloedd awdurdod lleol eraill yn hen ranbarth ERW.

Mae adolygiad o ganlyniadau Ysgolion Uwchradd yng nghyfnod allweddol 4 yn anoddach eu hasesu dros gyfnod, gan fod Llywodraeth Cymru wedi gwneud nifer o newidiadau i gyfrifo'r mesurau a ddefnyddir. Yn bennaf, effaith y newidiadau hyn fu gostwng y canlyniadau fymryn; fodd bynnag, fe wnaeth canlyniadau Abertawe yn y tair blynedd hyd at 2019 gynyddu ychydig o 8 pwynt. Pan gaiff canlyniadau cyfnod allweddol 4 yn Abertawe eu hasesu o ran y cynnydd y mae disgyblion wedi'i wneud hyd at ddiwedd blwyddyn 11, mae'r canlyniadau'n cyflwyno gwerth ychwanegol cadarnhaol sylweddol bob blwyddyn.

Cymariaethau â lleoedd eraill

Mae'r DPC ar gyfer cyfnod allweddol 2 yn ysgolion cynradd Abertawe yn debyg i ganlyniad Cymru gyfan yn nodweddiadol, neu ychydig yn is. Yn 2019, roedd canlyniad Abertawe, sef 86.8% yn cymharu ag 87.8% ar gyfer Cymru. Fel y soniwyd uchod, mae prosesau cymedroli mwy cadarn yn Abertawe wedi cael yr effaith o ostwng y ffigur hwn fymryn. Yn ogystal, wrth ystyried cyd-destun amddifadedd Abertawe sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, ni fyddai'r sefyllfa hon yn syndod. Mae data gwerth ychwanegol yn dangos bod disgyblion yn Abertawe yn gwneud cynnydd da yn ystod cyfnod allweddol 2. Nid oes modd gwneud cymhariaeth ar gyfer y mesur hwn ag ardaloedd eraill yng Nghymru.

Mae'r Sgôr Pwyntiau 9 wedi'i Gapio yng nghyfnod allweddol 4 yn ysgolion uwchradd Abertawe ymhell uwchlaw ffigur Cymru gyfan bob blwyddyn, yn nodweddiadol. Yn 2019, roedd canlyniad Abertawe 15 pwynt uwchlaw'r deilliant cenedlaethol. O ystyried cyd-destun lefel amddifadedd gymharol uchel Abertawe, mae hwn yn ddeiliant rhagorol. Yn ogystal, mae data gwerth ychwanegol yn dangos bod perfformiad yng nghyfnod allweddol 4 yn ysgolion Abertawe yn arwyddocaol o gadarnhaol, gyda disgyblion yn gwneud cynnydd cyflymach o lawer na hynny a ragwelwyd gan ddeilliannau wedi'u modelu.

Gwahaniaethau ar draws Abertawe

Mae gwahaniaethau sylweddol mewn deilliannau ysgol rhwng yr ardaloedd yn Abertawe, a gellir gweld y rhain orau wrth edrych ar amddifadedd cymharol yr ardaloedd hyn, fel y dynodwyd drwy MALIC.

Mewn ysgolion cynradd yn 2019, y DPC ar gyfer disgyblion sy'n byw yn y chwarter mwyaf difreintiedig o'r holl ardaloedd oedd 81.0%; mae hyn yn cymharu â 93.3% ar gyfer y rheiny sy'n byw yn y chwarter lleiaf difreintiedig o'r holl ardaloedd. Daw'r gwahaniaeth hwn hyd yn oed yn fwy amlwg wrth ystyried y 10% mwyaf a lleiaf difreintiedig o'r holl ardaloedd – 80.4% o gymharu â 94.5%.

Gwelir yr un patrwm gyda sgôr pwyntiau 9 wedi'i gapio cyfnod allweddol 4. Yn 2019, y sgôr oedd 331 ar gyfer y chwarter o ardaloedd mwyaf difreintiedig, a 411 ar gyfer y chwarter lleiaf difreintiedig. Yn y degradd o ardaloedd mwyaf difreintiedig, y canlyniad oedd 313 o gymharu â 414 ar gyfer y degradd lleiaf difreintiedig. Mae'r rhain yn wahaniaethau arwyddocaol.

Mae'r rhan fwyaf o ddeilliannau addysgol, ynghyd â ffactorau fel presenoldeb yn yr ysgol a gwaharddiadau, yn dangos cydberthyniad agos â mesurau amddifadedd. Mae amddifadedd uwch yn gyfystyr â chyrhaeddiad a chyflawniad is, presenoldeb salach a niferoedd uwch o waharddiadau.

Tueddiadau a Rhagolygon i'r Dyfodol ar gyfer Abertawe

Mae'r Cwricwlwm newydd i Gymru'n golygu y bydd bron yr holl fesurau deilliannau addysgol mewn ysgolion naill ai'n cael eu terfynu neu'u diwygio, ac nid oes unrhyw fesurau a ddefnyddiwyd yn 2019 sy'n debygol o aros ar yr un ffurf yn y blynyddoedd i ddod. Mae hyn yn gwneud dadansoddi pellach ar dueddiadau a phatrymau ar berfformiad yn anodd. Mae'n debygol na fydd unrhyw fesurau addas y gellir eu defnyddio ar gyfer ysgolion cynradd. Ar gyfer cyfnod allweddol 4, ystyrir y mesurau cyfredol fel rhai "interim" gan Lywodraeth Cymru, a disgwylir iddynt newid eto.

Mae'r pandemig wedi gweld arholiadau traddodiadol ar gyfer disgyblion blwyddyn 11 a blwyddyn 12/13 yn cael eu disodli gan Raddau a Bennir gan Ganolfannau. Roedd canlyniadau yn 2020 a 2021 ymhell uwchlaw'r rheiny a ddisgwylwyd o dueddiadau blaenorol. Yn 2022, er y gallai arholiadau ddychwelyd, bydd y pandemig yn dal i effeithio ar ganlyniadau gan fod y dysgwyr hyn wedi colli amser cwricwlwm. Nid oes modd ar hyn o bryd felly i feintioli rhagolygon y dyfodol ar gyfer ysgolion uwchradd o ran canlyniadau arholiadau; fodd bynnag, bydd eu perfformiad yn parhau'n gryf.

Integreiddio

Mae cysylltiadau amlwg rhwng addysg ac agweddau eraill ar lesiant, fel rhagolygon cyflogaeth, iechyd a llesiant cymdeithasol.

Gwelliant

Fel yr amlinellwyd uchod, mae'n debygol y bydd bylchau sylweddol yn y data sydd ei angen i nodi gwelliant yn y blynyddoedd i ddod. Fodd bynnag, mae'r dadansoddiad hyd at 2019 yn dangos y byddai gwelliant yn cael ei ddangos drwy:-

- Leihau'r bylchau mewn cyrhaeddiad a chyflawniad rhwng grwpiau dysgwyr gwahanol.
- Sicrhau bod yr holl ddysgwyr yn cyflawni'u potensial o ran y cynnydd maen nhw'n ei wneud drwy eu llwybrau addysgol (canlyniadau gwerth ychwanegol cadarnhaol).
- Canlyniadau yn Abertawe yn dangos tuedd ar i fyny, gyda chymariaethau ffafriol â chanlyniadau ar gyfer ardaloedd eraill a Chymru gyfan.
- Myfyrwyr yn gadael yr ysgol gyda'r cymwysterau y mae eu hangen arnyn nhw er mwyn dilyn eu llwybrau dilyniant dewisedig at addysg bellach/uwch a chyflogaeth, a gostyngiad yn y niferoedd sy'n cael eu hunain heb fod mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth (NEETS).

Ynglŷn â'r dystiolaeth

Mae data ar gael ac ymchwiliwyd yn dda iddo hyd at 2019, ond mae effaith y pandemig a'r Cwricwlwm newydd i Gymru'n golygu mai ychydig o ddata fydd ar gael yn y dyfodol ar gyfer ysgolion cynradd, a data wedi'i newid fydd ar gael ar gyfer ysgolion uwchradd, fel yr amlinellwyd yn yr adran uchod.

Casgliadau a negeseuon allweddol

Mae disgyblion yn ysgolion Abertawe'n gwneud yn dda yn gyffredinol, ac maent yn gwneud cynnydd da. Mae canlyniadau'n cymharu'n ffafriol â ffigurau cenedlaethol. Fodd bynnag, mae yna rai disgyblion sydd, yn nodweddiadol, yn llusgo y tu ôl i'w cyfoedion, yn enwedig y rheiny o gefndiroedd mwy difreintiedig, a'r her yw sicrhau bod y disgyblion hyn yn gwneud cynnydd yn unol â'u potensial unigol.

Mae'r Cwricwlwm newydd i Gymru yn rhoi ffocws ar ddysgwyr fel unigolion, gyda phob dysgwr yn cael ei olrhain i sicrhau ei fod yn gwneud cynnydd yn unol â'i botensial. Y nod yw i'r ymagwedd hon leihau'r bylchau cyrhaeddiad a welir ar hyn o bryd, er na phenderfynwyd eto sut fydd llwyddiant yn cael ei fesur.

ii. Sgiliau a Chymwysterau Oedolion

Cryfderau ac Asedau

Mae partneriaid rhanbarthol yn cydweithio ar Fargen Ddinesig Bae Abertawe, sy'n cynnwys y Prosiect Sgiliau a Thalent a gymeradwywyd yn ddiweddar (dan arweiniad y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol), a fydd yn gweithio i ddatblygu sgiliau yn y rhanbarth, gan lenwi'r bylchau sgiliau mewn sawl sector.

Mae menter Y Tu Hwnt i Frics a Morter y Cyngor yn gweithio gyda chontractwyr lleol i greu lleoliadau gwaith a hyfforddiant i bobl leol.

Mae Rhwydwaith Cyflogadwyedd Abertawe (SEN) yn cynnwys yr holl sefydliadau cyflogadwyedd yn y sir, gyda bwriad i wella darpariaeth trwy gydweithio, gwneud traws atgyfeiriadau a rhannu arfer gorau ac arloesi.

Mae Gweithffyrdd+ y De Orllewin a Gweithio Abertawe, ynghyd â phrosiectau cyflogadwyedd eraill, yn cynnig ystod o gyrsiau hyfforddiant sgiliau ardystiedig ar gyfer cyfranogwyr.

Mae Academi Cyflogadwyedd Abertawe (SEA) yn cysylltu cyflogwyr posibl â myfyrwyr prifysgol ac yn creu cyfleoedd rhwydweithio.

Mae gan Brifysgol Abertawe ffocws penodol ar fodloni prinderau sgiliau mewn sectorau sy'n dibynnu ar wyddoniaeth, technoleg, mathemateg, a phynciau meddygaeth, ac mae wedi tyfu darpariaeth yn y meysydd allweddol hyn. Mae'r Ffowndri Gyfrifiadurol newydd yn cynyddu rhagolygon sgiliau digidol, gan gynnwys y Sefydliad Codio.

Prosiect ym Mhrifysgol Abertawe yw Technocamps, ac mae'n gweithio gydag ysgolion ledled Cymru i gefnogi dysgu sgiliau digidol ac i annog dysgwyr i fanteisio ar y prosiect.

Mae Coleg Gŵyr Abertawe yn darparu hyfforddiant helaeth i fusnesau er mwyn uwchsgilio'u staff. Mae hyn yn cynnwys Sgiliau ar Gyfer Diwydiant, rhaglen â chymhorthdal ar gyfer uwchsgilio cyflogwyr.

Newidiadau dros gyfnod

Mae data Arolwg Poblogaeth Blynyddol y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar strwythur gweithlu Abertawe, yn awgrymu bod cyfraddau gweithgarwch economaidd a chyflogaeth yn Abertawe yn is na chyfartaleddau Cymru, ac ymhellach islaw cyfraddau cyfwerth y DU. Fodd bynnag, gwyddys bod y gyfran fawr o fyfyrwyr sy'n byw yn Abertawe yn cael rhywfaint o effaith ar y ffigurau hyn.

Disgynnodd gweithgarwch economaidd ymhellach islaw cyfartaledd Cymru yn 2017 ac fe gymerodd hyd at 2020 i godi'n ôl eto i lefelau 2016. Roedd hyn yn cyd-daro â chynnydd yn y boblogaeth oedran gweithio bryd hynny.

Mae data diweddaraf yr Arolwg Poblogaeth Blynyddol ar lefel sgiliau ar gyfer 2020 wedi esgor ar gynnydd sylweddol yn nifer y bobl oedran gweithio â chymhwyster o gymharu â data ar gyfer 2015.

Mae ystadegau ar y cymhwyster uchaf a ddelir gan bobl oedran gweithio (Arolwg Poblogaeth Blynyddol) ar gyfer y flwyddyn yn dod i ben ym mis Rhagfyr 2020 yn awgrymu bod gan Abertawe gyfran uwch o drigolion oedran gweithio â chymhwysterau at NVQ lefel 3 ac uwch na chyfartaledd Cymru a'r DU. Yn y pum mlynedd diwethaf (2015 i 2020), mae nifer trigolion oedran gweithio (16-64) Abertawe ag NVQ lefel 4+ wedi codi o 51,400 i 64,000 (i fyny 12,600 neu 24.5%); tra bod nifer y rhai heb gymhwysterau wedi gostwng o 19,600 i 11,100 (-8,500 neu 43.4%). Yn gyffredinol, mae hyn yn gyson â thueddiadau cenedlaethol dros y cyfnod.

Y ganran amcangyfrifedig o'r boblogaeth oedran gweithio mewn Prentisiaeth Masnach yn Abertawe oedd 2.6% yn 2015 ac mae wedi codi i 3.3% yn 2020; sef cynnydd amcangyfrifedig yn y cyfanswm o 28%.

Mae Coleg Gŵyr Abertawe yn cyhoeddi ffigurau ar Brentisiaid yn Abertawe hefyd:

2016/17: 1,026,

2017/18: 1,614.

2020/21: 1,366 (roedd y niferoedd yn is na'r disgwyl oherwydd Covid).

2021/22 (rhagolwg): 3,635 o brentisiaid (gan gynnwys y rheiny y tu allan i Abertawe).

Tabl Ec1: Cymhwyster uchaf y boblogaeth oedran gweithio, 2021

| Lefel NVQ | Abertawe (cyfanswm) | Abertawe (%) | Cymru (%) | DU (%) |
|------------------------|------------------------|-----------------|--------------|-----------|
| NVQ 4 ac uwch | 61,600 | 39.4 | 38.7 | 43.5 |
| NVQ 3 | 33,400 | 21.3 | 18.2 | 16.6 |
| Prentisiaethau Masnach | 3,900 | 2.5 | 2.6 | 2.8 |
| NVQ 2 | 25,500 | 16.3 | 16.0 | 15.3 |
| NVQ 1 | 13,100 | 8.4 | 10.4 | 9.4 |
| Cymwysterau eraill | 6,900 | 4.4 | 5.9 | 5.8 |
| Dim cymwysterau | 12,100 | 7.7 | 8.2 | 6.7 |
| CYFANSWM | 156,400 | 100 | 100 | 100 |

Ffynhonnell: Data'r Arolwg Poblogaeth Blynyddol (APS) ar gyfer cyfnod 12 mis yn dod i ben yn Rhagfyr 2021, ONS.

Cymariaethau â lleoedd eraill

Fel prif ganolfan fasnachol De Orllewin Cymru, mae gan Abertawe ganrannau uwch o gyflogaeth yn y sectorau gwasanaeth a chyflogaeth gyfatebol is mewn gweithgynhyrchu. Hefyd, ceir cyfran uwch o bobl yn gweithio'n rhan-amser a chyfraddau is o hunangyflogaeth.

Yn y gorffennol, mae lefelau cyflogaeth a sgiliau yn Abertawe wedi tueddu bod ychydig islaw lefelau Cymru, yn gyffredinol. Fodd bynnag, yn y 5 mlynedd diwethaf, er y bu cynnydd yn y nifer amcangyfrifedig o bobl â chymwysterau ar draws Abertawe a Chymru'n gyffredinol, mae'r cynnydd mwy ar gyfer Abertawe wedi mynd â'r gyfran â chymwysterau NVQ4 uwchlaw gweddill Cymru.

Mae nifer y bobl oedran gweithio heb unrhyw gymwysterau wedi gostwng yn gyffredinol. Yn Abertawe, mae'r gostyngiad mwy yn nifer y bobl heb gymwysterau wedi mynd â'r ffigur i 7.2%, ychydig o dan gyfartaledd Cymru (7.7%). Mae cyfran y DU o'r boblogaeth oedran gweithio heb unrhyw gymwysterau yn is (6.6%) ond gyda gostyngiad diweddar llai.

Mae canran yr oedolion â phrentisiaethau masnach wedi gostwng yng Nghymru a'r DU, ond yn Abertawe mae wedi codi fel bod y ffigur hwn (3.3%) bellach fymryn uwchlaw Cymru a'r DU.

Mae nifer y bobl â chymwysterau uwchlaw NVQ3 wedi codi'n gyffredinol. Fodd bynnag, mae cynnydd diweddar cyflymach wedi mynd ag Abertawe o fod islaw cyfartaledd Cymru i uwchlaw cyfartaledd Cymru, ac yn agosach at ganran y DU ar gyfer y mesur hwn.

Canfyddiadau a phersbectifau

Mae data'r Cyfrifiad yn tynnu sylw at y ffaith fod lefelau cymwysterau/sgiliau yn cael effaith ar gyfraddau cyflogaeth, gydag unigolion â sgiliau lefel is yn llawer llai tebygol o fod mewn cyflogaeth na'r rheiny â lefelau sgiliau uwch. Fel enghraifft, roedd unigolyn oedran gweithio yn Abertawe â chymhwyster lefel 4 neu uwch yn 2011 bron ddwywaith mor debygol o fod mewn cyflogaeth (79.7%) na rhywun heb unrhyw gymwysterau (40.3%). Roedd tri chwarter o'r rheiny â phrentisiaethau mewn cyflogaeth. Efallai y bydd canlyniadau Cyfrifiad 2021 (i'w cyhoeddi yn 2022) yn dangos effaith debyg.

Mae diffyg sgiliau a phrofiad yn atal pobl rhag cael swyddi sy'n mynnu lefel sgiliau uwch ac yn eu cadw mewn gwaith sy'n talu cyflogau isel neu ddiweithdra.

Bydd buddsoddiad cadarnhaol parhaus mewn sgiliau yn gwella perfformiad economaidd Abertawe, gan leihau'r bwch â pherfformiad y DU a gwella ffyniant pobl.

Mae data a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru o'r Arolwg Poblogaeth Blynyddol yn dangos yr integreiddio cryf rhwng marchnad lafur Abertawe a'i hawdurdodau cymdogol – Castell-nedd Port Talbot a Sir Gaerfyrddin. Mae dadansoddiad o batrymau teithio i'r gwaith yn awgrymu bod y llifoedd trawsffiniol mwyaf sylweddol yn digwydd i mewn i Abertawe o'r ardaloedd cyffiniol hyn. Yn 2021, Abertawe oedd â'r mewnlfif net ail uchaf o'r awdurdodau lleol yng Nghymru (+6,800), y tu ôl i Gaerdydd yn unig.

Tueddiadau a Rhagolygon i'r Dyfodol ar gyfer Abertawe

Mae'r Cyngor a'i bartneriaid lleol / rhanbarthol yn gweithio i greu gweithlu mwy medrus yn y dyfodol, gan gynnwys yr enghreifftiau isod:

- Bargen Ddinesig Bae Abertawe, sy'n cynnwys y Prosiect Sgiliau a Thalent a gymeradwywyd yn ddiweddar, a fydd yn gweithio i ddatblygu sgiliau yn y rhanbarth, gan gau'r bylchau sgiliau mewn llawer o sectorau.
- Rhwydwaith Cyflogadwyedd Abertawe (SEN), y bydd ei gyfranogwyr yn cynnwys yr holl sefydliadau cyflogadwyedd yn y sir, gyda bwriad i wella darpariaeth trwy gydweithio, gwneud traws atgyfeiriadau a rhannu arfer gorau ac arloesi.
- Mae Academi Cyflogadwyedd Abertawe (SEA) yn cysylltu cyflogwyr posibl â myfyrwyr prifysgol ac yn creu cyfleoedd rhwydweithio.
- Mae gan Brifysgol Abertawe ffocws penodol ar fodloni prinderau sgiliau mewn sectorau sy'n dibynnu ar wyddoniaeth, technoleg, mathemateg, a phynciau meddygaeth, ac mae wedi tyfu darpariaeth yn y meysydd allweddol hyn. Mae'r Ffowndri Gyfrifiadurol newydd yn cynyddu rhagolygon sgiliau digidol, gan gynnwys y Sefydliad Codio.
- Prosiect ym Mhrifysgol Abertawe yw Technocamps, ac mae'n gweithio gydag ysgolion ledled Cymru i gefnogi dysgu sgiliau digidol ac i annog dysgwyr i fanteisio ar y prosiect.
- Mae Coleg Gŵyr Abertawe yn darparu hyfforddiant helaeth i fusnesau er mwyn uwchsgilio'u staff. Mae hyn yn cynnwys Sgiliau ar Gyfer Diwydiant, rhaglen â chymhorthdal ar gyfer uwchsgilio cyflogwyr.

Mae prosiectau cyflogadwyedd llwyddiannus fel Gweithffyrdd+ y De Orllewin a Cymunedau am Waith yn parhau i ddarparu cyfleoedd sgiliau a swyddi yn Abertawe ar gyfer trigolion ac yn eu cynorthwyo i fynd yn ôl i'r gwaith. Fodd bynnag, caiff y prosiectau hyn eu hariannu'n gyffredinol trwy raglenni cyllid Ewropeaidd ac mae perygl y bydd darpariaeth lai pan ddaw'r cyllid hwn i ben.

Bydd ehangu Prifysgol Abertawe a Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (UWTSD) yn cynyddu capasiti dysgu ac ymchwil a datblygu, gan gynhyrchu sgiliau lefel uwch a mwy o gydweithredu gyda diwydiant, gan arwain o bosibl at greu swyddi â gwerth uwch a busnesau deillio.

Mae cyfran uchel y myfyrwyr hŷn rhan-amser sy'n mynychu UWTSO yn dangos y cyfleoedd y manteisir arnynt yn lleol gan fusnesau i uwchsgilio'u staff, a niferoedd y bobl sy'n byw'n lleol sydd yn gallu gwneud defnydd o hyfforddiant lefel uwch.

Bydd y prosiect Sgiliau a Thalent (Bargen Ddinesig) a gymeradwywyd yn ddiweddar, a arweinir gan y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, yn sicrhau bod adnoddau ar gael i fynd i'r afael â bylchau o ran sgiliau yn y dyfodol, gan nodi a darparu hyfforddiant mewn meysydd nad ydynt yn cael eu hariannu ar hyn o bryd. Bydd y prosiect sgiliau a thalent yn datblygu ac yn cyflwyno rhaglen gyfredol o hyfforddiant a sgiliau drwy addysg ffurfiol; mae hyfforddeiaethau, prentisiaethau a phrentisiaethau lefel uwch yn hollbwysig i wella cyfleoedd i weithwyr â lefel sgiliau is i uwchsgilio a cheisio cyflawni deilliannau lefel uwch. Bydd y rhaglen yn galluogi cynorthwyo cyflogaion sydd eisoes yn y gweithle i uwchsgilio/aillsgilio er mwyn manteisio ar y cyfleoedd swyddi a ddarperir gan brosiectau'r Fargen Ddinesig. Bydd gweithlu hyfedr a chynhyrchiol yn galluogi'r rhanbarth i fod yn gysylltiedig a chystadleuol. Bydd yn canolbwyntio ar sgiliau sector penodol sydd eu hangen er mwyn bodloni galw Bargen Ddinesig Dinas-Ranbarth Bae Abertawe a'r pum thema 'Digidol, Adeiladu, Iechyd a Llesiant, Ynni a Gweithgynhyrchu Clyfar', y cyfan wedi'u hasio â'i gilydd i gyflawni Cyflymiad Economaidd yn y rhanbarth. Bydd y rhaglen yn helpu agor swyddi newydd i gynyddu nifer y bobl sy'n symud i mewn i waith (gan gynnwys y rheiny sydd wedi bod heb waith dros gyfnod amser hir) a lleihau nifer y bobl sy'n economaidd anweithgar.

Mae nifer o brosiectau cyflogadwyedd yn y Sir yn darparu hyfforddiant a sgiliau sy'n targedu'r di-waith a'r rhai economaidd anweithgar, fel:

- Y Tu Hwnt i Frics a Morter
- Gweithio Abertawe
- Gweithffyrdd+ y De Orllewin
- Cymunedau am Waith.

Integreiddio

Mae cysylltiadau wedi'u sefydlu rhwng tlodi a diffyg cymwysterau. Mae pobl ag ychydig o gymwysterau neu ddim cymwysterau yn debygol o ennill llai, ac maent yn fwyaf tebygol o fod mewn tlodi felly.

Mae'r diffyg sgiliau yn gysylltiedig yn uniongyrchol â gallu'r gweithlu i ddod allan o dlodi, gyda phobl sy'n ennill mwy o sgiliau mewn gwaith neu du allan i waith yn fwy abl i gael swyddi sy'n talu cyflogau gwell.

Mae cysylltiad uniongyrchol â thlodi ac iechyd a lles fel y dangosir mewn ymchwil gan Sefydliad Joseph Rowntree ac eraill.

Un maes pryder nad oes ffocws wedi'i roi iddo yn y gorffennol yw'r cynnydd yn nifer y materion iechyd meddwl ymhlith pobl ddi-waith a phobl economaidd anweithgar. Mae pandemig COVID-19 wedi newid agweddau llawer o bobl, ac mae llawer yn dal ag ofn rhyngweithio yn y gweithle. Heb y cymorth angenrheidiol ar waith, gellid effeithio ar ragolygon economaidd yn y dyfodol.

Mae Strategaeth Seilwaith Gwyrdd y Cyngor yn cynnwys gwaith i greu economi leol fedrus a gwybodus er mwyn cyflawni a chynnal seilwaith gwyrdd. Fel rhan o hyn, mae hyfforddiant ar-lein a digwyddiadau cynyddu ymwybyddiaeth i weithwyr proffesiynol (peirianwyr a phenseiri) yn cael eu cynllunio, ynghyd â datblygu prosiectau.

Gwelliant

Bydd angen lefelau uchel o sgiliau digidol yn y boblogaeth i gefnogi'r chwyldro digidol.

Cynnydd yn nifer y rheiny â chymwysterau hyd NVQ 4 + gymharu â chyfartaledd y DU.

Gostyngiad yn nifer y rheiny heb unrhyw gymwysterau i ddod ag Abertawe yn gyson â chyfartaledd y DU o leiaf.

Y cyflenwad sgiliau sydd gan bobl yn cyfateb i'r galw yn y diwydiant, ac yn benodol, mynd i'r afael â bylchau presennol ym meysydd adeiladu, gofal a lletygarwch.

Casgliadau a negeseuon allweddol

Yn ystod y 5 mlynedd diwethaf mae lefelau cymwysterau ar gyfer NVQ 3 a 4 a phrentisiaethau masnach nifer cynyddol o bobl wedi gwella, ac mae Abertawe bellach yn uwch na chyfartaledd y DU ar gyfer NVQ 2 a 3. Fodd bynnag, mae Abertawe yn dal fymryn islaw cyfartaledd y DU ar gyfer y lefel NVQ 4 uwch. Bydd prinderau doniau yn effeithio'n niweidiol ar y gallu i ddenu a chadw diwydiannau sgiliau yn y rhanbarth.

Mae prinderau sgiliau mewn llawer o feysydd traddodiadol, fel gofal, yn parhau'n broblem. Fodd bynnag, ychwanegir at y rhain yn nawr gan brinderau mewn arlwyyo, lletygarwch a gyrwyr cerbydau nwyddau trwm (HGV). Os yw Abertawe i lwyddo yn y dyfodol, yna mae angen mynd i'r afael â'r meysydd hyn nid yn unig â hyfforddiant, ond y materion systemig sy'n gwneud swyddi yn y sectorau hyn yn llai dymunol–cyflogau isel ac oriau gweithio anghymdeithasol.

Bydd parhau i fuddsoddi'n gadarnhaol mewn sgiliau a'r gweithlu yn gwella perfformiad economaidd, gan leihau'r bwch â pherfformiad y DU a gwella ffyniant pobl.

O ran materion y gweithlu, mae effeithiau'r pandemig ar iechyd meddwl wedi newid agwedd llawer o bobl, gan gynnwys ofnau rhyngweithio gyda neu o fewn y gweithle. Heb y cymorth angenrheidiol ar waith, gellid effeithio ar ragolygon economaidd yn y dyfodol. Hefyd, ceir bwch mewn cymorth cyflogadwyedd i bobl iau a'r rhai dros 55 oed.

Dros y 5 mlynedd diwethaf mae cynnydd wedi bod yn nifer y bobl â lefelau cymwysterau gwell, ac erbyn hyn mae Abertawe uwchlaw cyfartaledd Cymru. Mae tystiolaeth yn dangos bod diffyg sgiliau a phrofiad yn atal pobl rhag cael swyddi sy'n mynnu lefel sgiliau uwch ac yn eu cadw mewn gwaith sy'n talu cyflogau isel neu ddiweithdra. Mae'n bwysig felly parhau i uwchsgilio'r gweithlu lleol er mwyn galluogi codi mwy o bobol allan o dlodi a gwella'u llesiant economaidd.

Safonau Byw Da

Yn amlwg bydd iechyd cyffredinol yr economi genedlaethol a lleol yn cael effeithiau sylweddol ar lesiant economaidd pobl. Fodd bynnag, er bod rhai mesurau perthnasol ar gael ar lefel ardal awdurdod lleol, mae rhai cyfyngiadau i'r rhain; felly mae asesu'r agwedd hon ar lesiant yn heriol yn gyson.

Cryfderau ac Asesdau

Mae Abertawe yn ymfalchïo mewn gweithio aml-bartneriaeth cryf gyda sefydliadau'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector sy'n ymdrechu i wella safonau byw ei dinasyddion.

Mae prosiectau cyflogadwyedd wrth law i gynnig cyngor a mentoriaeth ar ddod o hyd i gyflogaeth ac yn cynnig hyfforddiant i uwchsgilio er mwyn cael cyflog gwell. Mae lleoliadau Kickstart ar waith ledled Abertawe ar hyn o bryd, yn rhoi cyfleoedd i bobl ifanc sy'n cael anhawster dod o hyd i gyflogaeth yn y lle cyntaf.

Mae prosiectau ar waith gan y Cyngor gyda'r bwriad o gryfhau cymunedau Abertawe a help dinasyddion i gyflawni gwell safon byw.

Anogir defnyddio cadwyn gyflenwi leol bob amser yng nghontractau'r Cyngor a bydd hyn yn cryfhau'r economi leol ac yn gwella safonau byw'r rheiny sy'n cael eu cyflogi yn y cadwyni cyflenwi hynny.

Mae Bargen Ddinesig Bae Abertawe yn rhaglen fuddsoddi gwerth £1.3bn sy'n amcanu at greu newid sylweddol yn yr economi ranbarthol, gan greu gwerth uwch, cyflogaeth sy'n mynnu lefel sgiliau uwch a fyddai'n arwain at gyfleoedd cyflogaeth sy'n talu cyflogau uwch.

Mae cyflog wythnosol gros cyfartalog 2020 i bobl sy'n byw yn Abertawe ac yn gweithio'n llawn amser yn is na chyfartaledd Cymru. Byddai hyn yn awgrymu bod gorddibyniaeth ar swyddi lefel sgiliau is a swyddi sy'n talu cyflogau is yn y Sir.

"Mae incwm ac enillion yn hanfodol er mwyn caniatáu mynediad at weithgareddau a chefnogi busnesau lleol" – ymatebydd i'r arolwg.

Newidiadau dros gyfnod

Mae Incwm Gwario Gros Aelwydydd (GDHI) yn Abertawe wedi codi 11.2% ers 2014 i sefyll ar £4,017m yn 2019. Fodd bynnag, dros yr un cyfnod, fe wnaeth y cyfanswm GDHI yng Nghymru godi 14.5% , a chodi 19.7% yn y DU.

Y twf mewn GDHI fesul pen ar gyfer Abertawe rhwng 2014 a 2019 oedd 8.5%, i gyrraedd £16,262 yn 2019. Dros yr un cyfnod, roedd cyfraddau twf yn 12.3% ar gyfer Cymru a 15.8% ar gyfer y DU. O ganlyniad, fe wnaeth GDHI fesul pen yn Abertawe ddisgyn o 81% o gyfartaledd y DU yn 2014 i 75.9% yn 2019.

Rhwng 2018 a 2019, fe wnaeth ffigur GDHI fesul pen Abertawe gynyddu 1.7%, rhwng cynnydd Cymru (+1.1%) a chynnydd y DU (+2.5%).

Rhwng 2020 a 2021, cynyddodd yr enillion amser llawn blynyddol cyffredinol yn Abertawe 3.3% i £28,827, sy'n uwch na ffigyrau newid ar gyfer Cymru a'r DU (+1.2% a -0.6% yn y drefn honno). Rhwng 2016 a 2021, roedd cynnydd Abertawe'n £3,400 neu 13.5%.

Mae enillion amser llawn i fenywod yn Abertawe wedi cynyddu 0.2% yn unig ers 2020, sef £28,769 ym mis Ebrill 2021. Rhwng 2016 a 2021 fodd bynnag, y cynnydd cyffredinol oedd £6,000 neu 26.3%.

Mae enillion wythnosol cyfartalog yn Abertawe wedi codi o £473.70 yn 2016 i £552.60 yn Ebrill 2021, sef cynnydd o 16.7%.

Cymariaethau â lleoedd eraill

Cyfartaledd incwm gwario gros aelwydydd 2019 fesul pen i bobl sy'n byw yn Abertawe yw £16,262 a chyfartaledd y DU yw £21,433; 75.9% o lefel y DU. Roedd Cymru gyfan yn 80.5% o lefel y DU yn 2019. O'i gymharu â'r 22 ardal awdurdod lleol arall yng Nghymru, mae Incwm Gwario Gros Aelwydydd y pen yn Abertawe 1.1% yn is na Chastell-nedd Port Talbot a 3.9% yn is na Sir Gaerfyrddin. Mae ffigur Abertawe 24% yn is na Sir Fynwy.

Mae data dros dro yn awgrymu bod ffigur enillion blynyddol canolrifol amser llawn Abertawe (2021) sef £28,827 yn 2.8% islaw cyfartaledd Cymru, er bod ffigurau Abertawe a Chymru islaw cyfartaledd y DU (gan 7.9% yn Abertawe).

Yn Abertawe, mae'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau wedi'i wrthdroi, gyda gweithwyr amser llawn benywaidd (yr amcangyfrif yw £28,856 y flwyddyn) yn ennill mymryn yn fwy na dynion ar gyfartaledd (£28,769). Yn Ebrill 2020, roedd enillion blynyddol canolrifol amser llawn ar gyfer menywod yn Abertawe 8.3% yn uwch na'u cymheiriaid sy'n ddynion, a 10.1% yn uwch na gweithwyr sy'n fenywod yng ngweddill Cymru (Ebrill 2020). Fodd bynnag, dim ond cynnydd o 3.7% y gwelodd gweithwyr amser llawn sy'n ferched yn Abertawe yn eu henillion o 2019, tra bod gweddill Cymru wedi cynyddu 5.3%.

Mae'r ffigur enillion wythnosol canolrifol amser llawn diweddaraf ar gyfer trigolion yn Abertawe yn sefyll ar £538.00 (Ebrill 2020); sydd 0.7% yn is na ffigur Cymru ond 8.1% islaw cyfartaledd y DU.

Dros y cyfnod blwyddyn diweddaraf (Ebrill 2019 i Ebrill 2020), mae amcangyfrifon yr arolwg yn awgrymu bod enillion wythnosol amser llawn yn Abertawe wedi disgyn 4.6%, tra bod ffigurau ar gyfer Cymru a'r DU wedi parhau'n gymharol gyson.

Mae ffigurau Ebrill 2020 yn awgrymu bod enillion wythnosol rhan-amser wedi cynyddu £21.20 (+11.7%) ers 2019 ar gyfer Abertawe, ac ond wedi cynyddu £11.90 (+6%) ar gyfer gweddill Cymru. Fodd bynnag, mae enillion wythnosol cyflogeion rhan-amser yn Abertawe yn parhau 4.3% yn is na gweddill Cymru, ond dim ond 0.6% islaw cyfartaledd y DU.

Gwahaniaethau ar draws Abertawe

Mae data cyfyngedig ar gael sy'n amlygu'r gwahaniaeth mewn enillion rhwng ardaloedd lleol yn Abertawe. Fodd bynnag, bydd amrywio rhwng ardaloedd cefnog ac ardaloedd y gwyddys eu bod yn ddifreintiedig. Er enghraifft, mae graddfeydd parth Incwm 2019 MALIC (sy'n seiliedig ar ddata budd-daliadau'n gysylltiedig ag incwm yn y bôn) yn gosod y rhan fwyaf o Townhill yn y 10% uchaf yng Nghymru yn nhermau amddifadedd yn gysylltiedig ag incwm isel.

Tueddiadau a Rhagolygon i'r Dyfodol ar gyfer Abertawe

Bydd rhaglen adfywio Canol y Ddinas, sy'n cynnwys datblygiad Bae Copr a 71-72 Ffordd y Brenin, yn creu cyfleoedd cyflogaeth ar gyfer dinasyddion Abertawe, gyda chyflogau'n amrywio o isafswm cyflog i gyflogau uwch na'r cyflog cyfartalog cenedlaethol.

Mae Llywodraeth Cymru'n dal i weithio ar weithredu'r Bil Partneriaeth Gymdeithasol. Nod y Bil hwn yw rhoi amodau gweithio gwell a chyfraddau cyflog gwell i weithwyr. Pan fydd ar waith, fe allai hyn wella safon byw ar gyfer trigolion yn Abertawe sydd ar gyflogau isel.

Mae 9,000 o swyddi ychwanegol i gael eu creu gan Fargen Ddinesig Dinas-Ranbarth Bae Abertawe. Bydd hyn yn darparu mwy o gyfleoedd i ddinasyddion gael gwell safon byw trwy gyflogaeth sy'n talu cyflogau uwch.

Mae Llywodraeth Cymru'n gwneud ymchwil sy'n edrych ar fanteision gweithredu Incwm Sylfaenol Cyffredinol (UBI), i holl ddinasyddion Cymru. Bydd y Cynllun, nad yw wedi'i dreialu eto, yn darparu taliad safonol, rheolaidd, diamod i oedolion, ni waeth beth yw eu hincwm arall. Pe bai dinasyddion Abertawe yn derbyn UBI, dylai fod lleihad mewn tlodi a gwell safonau byw. Byddai iechyd a llesiant yn gwella, a gellid lleihau rhwystrau rhag addysg a chyflogaeth.

Integreiddio

Mae cysylltiadau agos, uniongyrchol rhwng Safonau Byw a chyflogaeth, sgiliau a hyfforddiant a thlodi.

"Heb incwm digonol ni allwch ofalu amdanoch chi'ch hun a'ch teulu na chyfrannu at yr economi leol" – ymatebydd i'r arolwg.

Ynglŷn â'r dystiolaeth

Nid yw effaith lawn pandemig COVID-19 wedi'i dangos yn y data hwn gan fod y data GDHI diweddaraf o 2019 ac mae'r data enillion diweddaraf yn ymwneud ag Ebrill 2020. Nid yw effaith hyn yn hysbys.

Amcangyfrif o faint o arian sydd gan aelwydydd ar gael i'w ddefnyddio, ei wario neu'i gynilo yw Incwm Gwario Gros Aelwydydd (GDHI). Mae'n gyfwerth â'r incwm atodol (gan gynnwys enillion, pensiynau buddsoddiadau, budd-daliadau ac ati) dros ben wariannau sy'n gysylltiedig

â'u hincwm (treth, perchnogaeth eiddo a'r ddarpariaeth ar gyfer darpariaeth pensiwn yn y dyfodol).

Casgliadau a negeseuon allweddol

Rhwng 2019 a 2020, mae enillion amser llawn blynyddol cyfartalog yn Abertawe wedi gostwng, tra bod ffigurau Cymru a'r DU wedi cynyddu. Hefyd, mae'r gyfradd twf gyffredinol dros y cyfnod pum mlynedd 2015 i 2020 fymryn yn is yn Abertawe na Chymru a'r DU. Fodd bynnag, wrth adolygu'r gwahaniaeth cyflog rhwng y rhywiau, mae Abertawe'n mynd yn groes i'r duedd, gyda gweithwyr amser llawn sy'n fenywod yn ennill mwy na dynion (Ebrill 2020). Gallai hyn fod oherwydd bod cyflogwyr mawr y sector cyhoeddus yn Abertawe fel y Bwrdd Iechyd, awdurdodau lleol yn ogystal â'r DVLA yn mynd i'r afael â'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn eu sefydliadau.

Er bod ffigurau wedi awgrymu bod safon byw yn Abertawe wedi gwella, mae Abertawe yn disgyn islaw cyfartaleddau Cymru a'r DU. Nid yw twf mewn Incwm Gwario Gros Aelwydydd yn Abertawe wedi cadw'n gyson â lefelau Cymru a'r DU dros y 5 mlynedd diwethaf, ac felly mae'r GDHI fesul pen yn disgyn ymhellach y tu ôl i lefelau'r DU.

Fodd bynnag, mae llawer o raglenni a phrosiectau gan Abertawe ar waith neu yn yr arfaeth a fyddai'n cael effaith gadarnhaol ar lefelau cyflog ac incwm. Er enghraifft, bydd rhaglen adfywio Canol y Ddinas yn creu ystod eang o gyfleoedd cyflogaeth i ddinasyddion Abertawe. Rhagwelir y bydd 9,000 o swyddi pellach yn cael eu creu gan Fargen Ddinesig Bae Abertawe, gan ddarparu cyfleoedd i ddinasyddion gael gwell safon byw trwy gyflogaeth sy'n talu cyflogau uwch. Bydd Rhaglen Sgiliau a Thalent y Fargen Ddinesig yn nodi ac yn cyflawni'r gofynion sgiliau a hyfforddiant ar gyfer holl brosiectau'r Fargen Ddinesig, gan alluogi i drigolion Abertawe fanteisio ar gyfleoedd swyddi a grëir gan brosiectau'r Fargen Ddinesig.

Ymhellach, os caiff menter UBI Llywodraeth Cymru ei gwireddu, byddai hyn o fantais i holl ddinasyddion Abertawe ac yn dod â ffigurau Abertawe'n fwy cyson â chyfartaleddau cenedlaethol.

Mae'r dadansoddiad uchod yn dangos pa mor bwysig yw hi i gael economi gref sy'n tyfu i gefnogi llesiant pobl. Mae llawer o waith eisoes yn mynd rhagddo i helpu tyfu economi Abertawe, ac yn ei dro gwella llesiant economaidd trigolion Abertawe, a chodi pobl allan o dlodi. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Arena Ddigidol dan do newydd â lle i 3,500 o bobl, a agorodd ym mis Mawrth 2022, a fydd yn creu lleoliad hamdden a fydd yn denu nifer mawr o ymwelwyr i gefnogi busnesau lleol
- Safle Gwaith Copr Hafod - mae hen safle gwaith copr mwyaf y byd yn cael ei ailwampio i greu cyrchfan unigryw i ymwelwyr drwy adfywio sy'n cael ei arwain gan dreftadaeth
- Mae Skyline yn datblygu cyfleuster hamdden ceir llusg a cheir cebl cyffrous at Fryn Cilfái, sy'n edrych yn ddramatig dros ganol y ddinas.

Bydd y datblygiadau hyn yn denu degau o filoedd o ymwelwyr newydd i'r ddinas, ac yn creu cyfleoedd gwario a chyflenwi newydd i fusnesau, gan gryfhau'r economi i hwyluso llesiant economaidd yn ei dro.

Llesiant amgylcheddol

Cyflwyniad

Mae cysylltiad cynhenid rhwng pobl, ein hiechyd a'n llesiant, a'r amgylchedd naturiol ac adeiledig yr ydym yn rhan ohono. Yn wir, rydym yn ddibynol ar y Ddaear a'i hadnoddau a'i systemau naturiol, ac yn eu tro, mae ein gweithredoedd ni'n hunain yn llywio'r byd o'n hamgylch ac yn effeithio arno - er gwell neu er gwaeth.


Fodd bynnag, mae pen draw i'n hadnoddau naturiol, ac nid ydym yn eu defnyddio'n gynaliadwy, nac yn deg. Mae'r dystiolaeth fyd-eang, genedlaethol a lleol yn ddiamheuol: nid ydym yn byw o fewn capasiti ein terfynau planedol. Yn ôl amcangyfrifon 2015, pe bai pawb yn y byd yn defnyddio'r un faint â chyfartaledd Cymru (ac Abertawe), byddai angen 2.5 planed arnom i ddarparu'r adnoddau angenrheidiol ac amsugno'r gwastraff cysylltiedig (1. Llywodraeth Cymru, 2019). O ganlyniad, rydym yn wynebu trychineb hinsawdd ac ecolegol lleol a byd-eang, cyfunol a rhyngberthynol, gyda chynnydd ym mynychder a difrifoldeb digwyddiadau tywydd eithafol a llifogydd catastroffig, lefelau môr yn codi, gydag 17% o rywogaethau Cymru mewn perygl o ddarfod (2. Cyngor Abertawe, 2021). Fel cymdeithas, mae angen i ni fynd i'r afael â'n gorddefnydd o adnoddau a'i effaith yn lleol ac yn fyd-eang. Gwarchod yr amgylchedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol yw un o heriau mwyaf ein hoes, a bydd penderfyniadau a wneir nawr yn pennu deilliannau ymhen 10, 50, 100+ o flynyddoedd gyda chanlyniadau i'r economi, masnach, bwyd, diogelwch cenedlaethol, ac ati, a fydd yn llywio bywydau a llesiant ein plant, ein hwyrion, a dinasyddion heb eu geni eto.

"Mae angen i ni wneud popeth y gallwn i leihau ein heffaith ar y byd, gan ein bod eisoes yn gweld canlyniadau newid yn yr hinsawdd" – ymatebydd i'r arolwg.

Mae newid hinsawdd eisoes yn digwydd a bydd yn parhau i ddigwydd am gryn amser ni waeth pa fesurau lliniaru a weithredwn heddiw. Mae oedi o ddegawdau rhwng y camau a gymerir nawr i gyfyngu ar faint o newid sy'n digwydd a phryd y daw hynny i rym (e.e. er mwyn cyfyngu cynhesu byd-eang erbyn diwedd y ganrif i ymhell islaw 20C o gymharu â lefelau cyn-ddiwydiannol mae angen ymrwymiad i gyflawni sero-net erbyn canol y ganrif). Er bod lliniaru yn hanfodol er mwyn osgoi newid hinsawdd trychinebus a diogelu lles cenedlaethau'r dyfodol, mae hefyd angen i ni roi mwy o bwyslais ar addasu i gefnogi cymunedau, natur ac economi Abertawe i addasu i'r effeithiau cyfredol a rhagamcanol.


Ond gallwn newid hyn drwy gymryd camau i ddatgarboneiddio cymdeithas a rhoi natur mewn adferiad (2. Cyngor Abertawe, 2021). Yng Nghymru, yn bwysig ac yn unigryw, mae gennym ddwy gyfraith sy'n ein helpu i wneud hyn. Gyda'i gilydd, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd yn rhoi i ni'r uchelgais, y caniatâd a'r rhwymedigaeth gyfreithiol i warchod a gwella ein hamgylchedd, ein heconomi, ein cymdeithas a'n diwylliant. Mae Deddf yr Amgylchedd yn mynnu bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnal asesiad o'n hadnoddau naturiol bob 5 mlynedd ar raddfa genedlaethol, sydd wedyn yn llywio Polisi Adnoddau Naturiol LIC. Yna edrychir ar hyn drwy lens ranbarthol drwy ddatganiadau ardal, sy'n nodi'r heriau a'r cyfleoedd allweddol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy (SMNR) a lles amgylcheddol yn yr ardal leol honno.

Gellir asesu lles amgylcheddol lle drwy ddeall i ba raddau y mae adnoddau naturiol yn cael eu defnyddio a'u rheoli'n gynaliadwy. Mae'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020 (SoNaRR), a gynhyrchwyd gan CNC, wedi asesu lles amgylcheddol ar lefel genedlaethol ac wedi nodi 4 nod y mae'n rhaid eu bodloni i gyflawni SMNR a sefydlu'r sylfaen ar gyfer y nodau Llesiant. Dangosir y nodau hyn ar waelod y pyramid, yn ffigur En1.



Ffigur En1: Rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy: Un amcan, pedwar nod


Mae'r pedwar nod yn gweithio gyda'i gilydd ac maent yn gylchol: ni allwn greu lleoedd iach i bobl heb ecosystemau cydnerth ac ni allwn wneud ein hecosystemau'n gydnerth heb ddiogelu stociau o adnoddau naturiol; ac mae economi adfywiol yn diogelu ac yn adfer y stociau hynny a dyma'r llwybr i newid trawsnewidiol ar gyfer ein system economaidd.



Ffigur En2: Natur gylchol 4 nod rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy

Mae tystiolaeth a gymerwyd o SoNaRR 2020, ynghyd â setiau tystiolaeth lleol a chenedlaethol ychwanegol, yn llywio'r asesiad lleol o les amgylcheddol i helpu cyrff cyhoeddus i ddeall yn well i ba raddau y mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy, sy'n ganolog i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yn cael ei chyflwyno. Canfu adroddiad SoNaRR nad oes yr un o'r 4 nod uchod yn cael ei gyflawni ar raddfa genedlaethol, ac nid oes tystiolaeth i awgrymu bod y darlun yn sylweddol wahanol yn lleol. Rhaid nodi bod cyflwr/ansawdd ein hadnoddau naturiol a'n hamgylchedd adeiledig hefyd yn un o'r penderfynyddion iechyd. Mae amgylchedd dirywiedig a dod i gysylltiad â pheryglon amgylcheddol neu fod yn ddiameddiffyn rhagdynt - gan gynnwys ansawdd aer gwael, gorchudd coed isel, mynediad gwael i fannau gwyrdd, a llifogydd - yn effeithio ar iechyd unigolion a phoblogaethau. Mae aelwydydd incwm isel, cymunedau difreintiedig a diameddiffyn yn tueddu i ysgwyddo mwy o faich o ran effeithiau a pheryglon amgylcheddol gan eu bod yn llai grymusol ac yn llai abl i ymateb iddynt.

Yn yr Adolygiad Dros Dro o Economeg Bioamrywiaeth, mae Syr Partha Dasgupta yn egluro'r angen i gydnabod bod ein cymdeithas a'r economi yn rhan o'r amgylchedd (Ffigwr En3) ac ni ellir edrych arnynt fel elfennau ar wahân iddo: "Mae'r economi yn is-gwmni dan berchnogaeth lwyr yr amgylchedd, nid fel arall" (dyfynnwyd gan Herman E. Daly yn Clark, 2007). Mae'r casgliad hwn yn gwrthgyferbynnu'n llwyr â'r rhagdybiaethau sy'n sail i dwf cyfoes ac economeg datblygu, ac yn ychwanegol at hynny, economeg newid hinsawdd. Lle mae'r llenyddiaeth honno'n gweld y ddynoliaeth yn allanol i'r biosffer, mae'r Adolygiad Dasgupta yn ein gweld ein bod ni'n ymgorfforedig. (Cyfoeth Naturiol Cymru; 2020).



Ffigwr En3: Mae'r economi yn is-gwmni i'r Amgylchedd (o SoNaRR 2020)

Mae dadansoddiad o sut mae ffyrdd o fyw ar draws Ewrop yn gyrru dirywiad amgylcheddol wedi dod i'r casgliad bod angen newidiadau dwys er mwyn i ni fyw o fewn terfynau amgylcheddol, fel lleihau lefelau cynhyrchu a defnyddio er mwyn cael economi adfywiol. Man

cychwyn amlwg yw canolbwyntio ar y systemau craidd sy'n rhoi'r pwysau mwyaf ar ecosystemau. Mae'r rhain yn seiliedig ar fwyd, ynni a thrafnidiaeth (NRW;2020b).

Mae angen gwneud llawer mwy o waith i fynd i'r afael â sbardunau rheoli anghynladwy o fewn y cylchoedd cymdeithasol ac economaidd. Trawsnewidiad yn y sectorau bwyd, ynni a thrafnidiaeth sydd â'r potensial mwyaf i wella llesiant.

Mae Datganiad Ardal De-orllewin Cymru, sy'n cynnwys Castell-nedd Port Talbot, Abertawe, Sir Gâr a Sir Benfro, wedi defnyddio tystiolaeth, sgysiau lleol ac ymgysylltu cenedlaethol i nodi 4 blaenoriaeth lefel uchel ar gyfer y rhanbarth, sef:

- Lleihau anghydraddoldebau iechyd
- Gwrthdroi dirywiad bioamrywiaeth, a gwella bioamrywiaeth
- Sicrhau rheolaeth gynaliadwy ar dir
- Lliniaru ac addasu i hinsawdd sy'n newid.

Mae'r Datganiad Ardal, SoNaRR, a llawer o bolisiâu lleol a chenedlaethol eraill yn amlygu'r myrdd o gyfleoedd sydd i'w cael i fabwysiadu a gwreiddio atebion yn seiliedig ar natur, economi gylchol, ac arferion rheoli tir adfywiol wrth fynd i'r afael â'r heriau a wynebwn. Adlewyrchir y themâu hyn yn natganiad Cyngor Abertawe o Argyfwng Natur ym mis Tachwedd 2021, sy'n dilyn datganiad Llywodraeth Cymru ar 30 Mehefin 2021 pan gyhoeddodd y Gweinidog Newid Hinsawdd, Julie James, bod 'Adfer natur a lliniaru effeithiau newid hinsawdd yn flaenoriaethau hollbwysig i'r llywodraeth hon.'

Yn yr adrannau canlynol, cyflwynwn drosolwg o themâu allweddol yn ymwneud â'r amgylchedd a llesiant gan ddefnyddio data sydd ar gael, tystiolaeth, persbectifau, a thueddiadau. Gan ddechrau gyda chyflwr adnoddau naturiol ac yna, wedyn, sut rydym ni'n defnyddio, gweithredu, ac yn rheoli adnoddau a systemau drwy: berygl llifogydd; defnydd tir, priddoedd a bwyd; creu lleoedd; ansawdd aer; trafndiaeth a theithio; gwastraff; ac ynni.

Mae dolenni uniongyrchol i'r pynciau penodol o fewn Pennod yr Amgylchedd wedi'u cynnwys isod:

- Cadernid Bioamrywiaeth ac Ecosystemau
- Adnoddau Dŵr
- Perygl Llifogydd
- Priddoedd, defnydd tir, a bwyd
- Rheoli Seilwaith Gwyrdd a Chreu Lleoedd
- Ansawdd Aer
- Trafnidiaeth Gynaliadwy a Theithio Llesol
- Rheoli Gwastraff yn Gynaliadwy
- Cynhyrchu a Defnyddio Ynni


Cadernid Bioamrywiaeth ac Ecosystemau

Mae pawb yn dibynnu ar ein byd naturiol - bioamrywiaeth, ecosystemau naturiol a'r adnoddau a'r gwasanaethau maen nhw'n eu darparu - ar gyfer iechyd a lles. Mae angen i ecosystemau fod yn gydnerth er mwyn gallu delio â newid ac aflonyddwch a pharhau i ddarparu buddion sy'n gwella bywyd i bobl a chymunedau. Fodd bynnag, mae bioamrywiaeth

yn dirywio'n fyd-eang, ac mae SoNaRR 2020 (1. Cyfoeth Naturiol Cymru, 2020a) yn cadarnhau, yng Nghymru, nad yw llawer o'n hecosystemau yn wydn a'n bod yn dal i weld dirywiadau mewn llawer o rywogaethau, gyda llai o fywyd gwylt mewn llai o leoedd, gydag 1 o bob 6 rhywogaeth mewn perygl o ddarfod, a 73 o rywogaethau wedi'u colli ers y 1970au. Mae adferiad natur yn hanfodol i liniaru ac addasu i newid hinsawdd, ond mae newid hinsawdd yn ffactor allweddol hefyd mewn colli bioamrywiaeth. Er nad oes data lleol cynhwysfawr gennym, mae bron yn sicr yr effeithir ar Abertawe gan y tueddiadau hyn, a pheryglir holl ddimensiynau ein llesiant o ganlyniad i hynny.

Cryfderau ac Asedau

Gellir deall Cadernid Ecosystemau drwy'r priodweddau: Amrywiaeth, Graddfa, Cyflwr a Chysylltedd ac Agweddau eraill sy'n dod i'r amlwg – DECCA; mae cadernid yn codi o'r cydadwaith rhwng y priodweddau hyn, yn hytrach nag o unrhyw un ar ei ben ei hun. (3. Cyfoeth Naturiol Cymru; 2020b)



Ffigur En4: Egluro DECCA

Gellir defnyddio'r system DECCA i asesu cydnheredd ecosystemau o fewn cynefinoedd neu ardaloedd unigol, fel Abertawe, fel a ganlyn.

Amrywiaeth: Mae gan Abertawe amrywiaeth cyfoethog o gynefinoedd a rhywogaethau tirol, arfordirol a morol, gan gynnwys llawer o safleoedd sy'n bwysig yn rhyngwladol, yn genedlaethol ac yn lleol.

Graddfa: Mae 80% o'r sir yn cynnwys man gwyrdd naturiol a lled naturiol. Trwy ddynodiadau a pholisi cynllunio, oddeutu 50% yw cyfanswm graddfa'r tir gwarchodedig. Mae hyn yn bwysig, oherwydd mae safleoedd gwarchodedig yn chwarae rhan hollbwysig yn gweithredu fel cronfeydd bioamrywiaeth sy'n gallu llifo i'r dirwedd ehangach yn cefnogi cadernid ecosystemau.

Cyflwr: Mae ecosystemau yn gymhleth a dynamig a, law yn llaw â diffyg data monitro, mae'n anodd deall eu cyflwr. Fodd bynnag, roedd asesiad o Ardaloedd Cadwraeth Arbennig a

Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn 2021 yn dangos bod eu cyflwr yn anffafriol tu hwnt (33%) neu'n anhysbys (52%), sy'n golygu bod angen gwella'r safleoedd hyn, er eu bod o werth ecolegol o hyd. Mae cyflwr y safleoedd hyn yn rhoi rhyw syniad ynghylch iechyd y cynefinoedd eang ar draws y sir a'r rhanbarth.

Cysylltedd: Yn gyffredinol, mae cynefinoedd wedi'u cysylltu'n rhesymol o dda drwy'r ardal gyda rhwydweithiau nodedig o gynefinoedd coetir a glaswelltir/rhostir. Fodd bynnag, mae yna eithriadau, ac mae rhai safleoedd yn mynd yn fwyfwy ar chwâl, yn ynysig, ac yn llai gwydn. Testun pryder arbennig yw'r ardal o amgylch Penllergaer / Gorseinon lle mae'r amgylchedd adeiledig wedi ffurfio 'tagfa bioamrywiaeth' rhwng y Gŵyr a gweddill de Cymru, gan gyfyngu ar ddsbarthiad ac amrywiaeth ffisegol a genetig.

Mae crynodeb o gydnerthedd, bygythiadau allweddol a chyfleoedd ar gyfer mathau eang o gynefinoedd yn Abertawe i'w weld isod.

Tabl En1: Crynodeb o gydnerthedd, bygythiadau, a chyfleoedd ar gyfer cynefinoedd eang yn Abertawe

| CADERNID | PRIF FYGYTHIADAU | CYFLEOEDD |
|---|--|---|
| • COETIR | | |
| <p>Amrywiaeth: Nodedig am enghreifftiau da fel Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Coedydd Ynn Gŵyr.</p> <p>Graddfa: Mae coetiroedd yn gorchuddio 10.4% o'r sir – islaw cyfartaledd Cymru.</p> <p>Cyflwr: Yn gyffredin â gweddill Cymru, asesiad o gyflwr yn aml yn <i>anffafriol</i>.</p> <p>Cysylltedd: Mae'n ffurfio rhwydwaith coetir ehangach pwysig sy'n cysylltu ACA Coedydd Ynn Gŵyr yn y gorllewin, trwy ACA Goedydd Nedd a Mellte, at ACA Coedwigoedd Ffawydd Caerdydd yn y de ddwyrain.</p> | <ul style="list-style-type: none"> • Datblygu • Colli a chwalu cynefinoedd • Diffyg rheolaeth • Newid hinsawdd • Clefyd coed ynn a chlefydau eraill • Rhywogaethau Estron Goresgynnol (INNS) • Aflonyddu gan ddyn • Llygredd | <ul style="list-style-type: none"> • Ehangu wedi'i dargedu i wella cysylltedd, yn cynnwys rhwng ardaloedd trefol / gwledig (ffocws penodol yn ardal Penllergaer) • Cynnydd mewn gorchudd coed trefol • Gwrychoedd wedi'u gwella i ddarparu coridorau • Ymagwedd gydlynus at glefyd coed ynn. • Adfer PAWS • Rheolaeth strategol ar Rywogaethau Estron Goresgynnol • Diddordeb mewn creu coetiroedd |
| • MYNYDD, GWEUNDIR, RHOSTIR | | |
| <p>Amrywiaeth/Graddfa: Penrhyn Gŵyr yw un o'r ardaloedd pwysicaf yn y sir am rostir yr iseldir, ac mae'n cefnogi adnodd mawr o rostir sych a gwlyb.</p> <p>Cyflwr: Mae cynefinoedd rhostir yr iseldir ar Gomin Gŵyr wedi'u dosbarthu fel rhai <i>anffafriol</i>.</p> | <ul style="list-style-type: none"> • Tanbori a gorburi • Prysgwydd yn ennill tir a thanau gwyllt • Rhywogaethau Estron Goresgynnol • Llai o gominwyr • Materion diogelwch ffyrdd • Sgramblo • Amodau hinsoddol yn newid | <ul style="list-style-type: none"> • Rheolaeth well ar diroedd comin Gŵyr • Defnyddio pwerau arbrofol • Ehangu'r defnydd o 'Ffensys heb Ffensys' (coleri gwartheg GPS ar gyfer rheoli a monitro o bell) |

| • GLASWELLTIR LLED-NATURIOIOL | | |
|--|---|---|
| <p>Amrywiaeth: Rhai enghreifftiau nodedig o laswelltiroedd cyfoethog eu rhywogaethau</p> <p>Graddfa: Graddfa gymharol fawr ond gwasgaredig</p> <p>Cyflwr: <i>Prin ei rywogaethau.</i> Y mwyafrif ddim yn cael ei reoli ar gyfer bioamrywiaeth ac nid o dan unrhyw ddynodiad, felly diffyg rheolaeth dros sut cânt eu defnyddio.</p> <p>Cysylltedd: Mae cysylltedd ar chwâl i raddau helaeth.</p> | <ul style="list-style-type: none"> • Colli / cysylltedd cynefinoedd • Pwysau datblygu • Yn arbennig o fregus i ddiffyg rheolaeth briodol • Rhywogaethau Estron Goresgynnol • Tipio gwastraff | <ul style="list-style-type: none"> • Gwella cyflwr trwy reolaeth well, pori er lles cadwraeth • Gwella cysylltedd drwy reolaeth well ar e.e. lleiniau ymyl ffordd, ymylon caeau, glaswelltir amwynder |
| • TIR FFERMIO CAEEDIG | | |
| <p>Cyflwr yn anhysbys – heb ei fonitro a dan berchnogaeth breifat</p> | <ul style="list-style-type: none"> • Colli / cysylltedd cynefinoedd • Cynlluniau plannu coed sy'n gwrthbwysu carbon fferm gyfan • Pwysau ar ddiogelu'r cyflenwad bwyd yn yr hirdymor • Pridd yn dirywio | <ul style="list-style-type: none"> • Cynnal cysylltedd ecolegol drwy'r dirwedd e.e., gwrychoedd ac ymylon caeau, pyllau dŵr • Cynyddu'r gefnogaeth ar gyfer ffermio adferol / adfywiol / agro-ecolegol sy'n cyflenwi i farchnadoedd lleol e.e., Amaethyddiaeth â Chymorth y Gymuned • Cynllun Ffermio Cynaliadwy Llywodraeth Cymru ar ôl Brexit - i leihau ôl-troed carbon, helpu i wella'r amgylchedd a chefnogi'r gwaith o gynhyrchu bwyd mewn ffordd gynaliadwy |
| • DŴR CROYW | | |
| <p>Amrywiaeth: Yn ogystal ag afonydd, nentydd a llynnoedd, ceir llawer o gynefinoedd dŵr croyw yn yr ardal, gan gynnwys Cors Crymlyn sy'n bwysig yn rhyngwladol (ACA, SoDdGA a safle Ramsar), yn ogystal â nifer o byllau, llynnoedd gwneud, a Chamlas Abertawe.</p> <p>Cyflwr: 74% o gyrff dŵr ddim yn cyflawni Statws Ecolegol Da,</p> | <ul style="list-style-type: none"> • Hydroforffoleg wedi newid yn fawr • Cynydd mewn stormydd, llifogydd, sychderau, llif dŵr anwadal • Gwaddol llygredd diwydiannol • Camgysylltiadau Tir / rheoli dalgylchoedd • Llygredd gwasgaredig trefol | <ul style="list-style-type: none"> • Adfer prosesau naturiol afonydd • Gwella rheolaeth ar lifoedd dŵr wyneb i gymryd pwysau oddi ar y rhwydwaith carthffosiaeth • Seilwaith gwyrdd mewn ardaloedd trefol • Mynd i'r afael â ffynonellau llygredd gwasgaredig |

| | | |
|--|---|---|
| <p>effeithir arnynt gan amrywiaeth o bwysau.</p> | <ul style="list-style-type: none"> • Carthffosiaeth / gorlifoedd stormydd | <ul style="list-style-type: none"> • Atebion yn seiliedig ar natur a rheoli llifogydd naturiol • Defnyddio (a dynodi) Dyfroedd ymdrochi mewndirol |
| <p>• ARFORDIROL / MOROL</p> | | |
| <p>Amrywiaeth / Graddfa: Nifer o gynefinoedd arfordirol a morol dynodedig, gan gynnwys ACA Bae Caerfyrddin ac Aberoedd - ehangder mwyaf o forfa heli yng Nghymru. Clogwyni môr calchfaen eiconig oddi ar Gŵyr. Cynefinoedd rhostir twyni tywod pwysig yn nhwyni tywod Penmaen a Phennard, a systemau twyni tywod wedi'u dosbarthu'n eang o fewn y Sir ac yn dangos ystod eang o fathau geoforffolegol.</p> <p>8 o ddyfroedd ymdrochi dynodedig yr UE; 7 â statws 'rhagorol', 1 â statws 'da'.</p> | <ul style="list-style-type: none"> • Llygredd amaethyddol gwasgaredig a llygredd o ffynonellau trefol • Gwasgfa arfordirol • Gorburi – gogledd Gŵyr • Pwysau hamdden • Gorsefydlogi systemau twyni tywod • Amddiffynfeydd arfordirol • Llygredd wedi deillio o'r tir drwy nentydd a dŵr wyneb • Cilfach Tywyn wedi'i heffeithio gan faethynnau yn gysylltiedig ag arferion rheoli tir | <ul style="list-style-type: none"> • Gwella cyflwr a chysylltedd trwy reolaeth well • Cydweithio i fynd i'r afael ag effeithiau ar ansawdd dŵr, yn effeithio ar yr amgylchedd morol • Cyfleoedd ar gyfer carbon glas |
| <p>• TREFOL</p> | | |
| <p>Graddfa: 900ha o ddarpariaeth Meysydd Chwarae (3.9ha fesul 1,000 o'r boblogaeth); >15,000ha o Fan Gwyrdd Naturiol Hygyrch (>66.7ha fesul 1,000 o'r boblogaeth)</p> | <ul style="list-style-type: none"> • Colli/ cysylltedd cynefinoedd • Rhywogaethau Estron Goresgynol • Anghydraddoldeb mynediad a buddion • Diffyg ymwybyddiaeth • Diffyg data a rheolaeth briodol • Sgiliau i gyflawni a chynnal seilwaith gwyrdd | <ul style="list-style-type: none"> • Strategaeth seilwaith gwyrdd y sir gyfan • Atebion seilwaith gwyrdd amlswyddogaethol newydd ac ôl-ffitio • Offeryn Ffactor Mannau Gwyrdd i gynyddu nifer a swyddogaeth cynlluniau seilwaith gwyrdd • Cynyddu gorchudd coed trefol, lleiniau ymyl ffordd peillyddion, ac ati • Harneisio'r cynnydd mewn buddiannau cymunedol • Gweithio gyda rhanddeiliaid ehangach, e.e., Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig • Uwchgynllun Penderi Pobl |

Yr her yw sicrhau bod cynefinoedd yn cael eu hadfer, eu cynnal, a'u bod wedi'u cysylltu drwy'r rhwydweithiau ecolegol ehangach fel y gallant weithredu'n gydlynus. Mae hyn yn arbennig o arwyddocaol yn ardaloedd trefol Abertawe lle mae mannau gwyrdd naturiol yn afreolaidd a heb eu dosbarthu'n gyfartal ar draws y sir, sy'n golygu hefyd fod anghydraddoldebau o ran budd i les pobl. Yma, mae rôl seilwaith gwyrdd sydd wedi'i leoli'n dda yn hanfodol, gweler yr adran yn y strategaeth Seilwaith Gwyrdd, felly hefyd y cyfleoedd ar gyfer cysylltedd a gyflwynir gan erddi trefol a thir ym mherchnogaeth gyhoeddus.

O dan Adran 6 (A6) o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 mae dyletswydd ar gyffwrdd cyhoeddus i gynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau drwy roi ystyriaeth i fioamrywiaeth ac ecosystemau yn eu gweithgareddau dyddiol, eu polisïau, eu cynlluniau, eu rhaglenni a'u prosiectau; mae'n ymwneud â newid y ffordd rydyn ni'n meddwl am weithredu dros fioamrywiaeth (2. Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru; 2021).

Trwy amcan Cynllun Llesiant Abertawe 'Gweithio Gyda Byd Natur', cyflawniad gan randdeiliaid allweddol a gweithio mewn partneriaeth, mae llawer o waith eisoes yn cael ei wneud: mae'r Cyngor wedi cynnwys blaenoriaeth ar gyfer adfer natur yn ei Gynllun Corfforaethol 2020-2022, ac wedi sefydlu Bwrdd Rhaglen Newid Hinsawdd a Natur i sicrhau bod y ddau fater yn cael ystyriaeth lawn ar draws yr holl feysydd gwasanaeth. Mae Partneriaeth Natur Leol (LNP) Abertawe yn weithgar ac mewn sefyllfa dda gyda dros 97 o aelodau o sefydliadau bywyd gwyllt lleol a sefydliadau eraill sy'n dymuno cyfrannu at adfer natur, a gyda'i gilydd maent yn paratoi Cynllun Gweithredu Adfer Natur. Ond mae'r dystiolaeth yn bendant: mae angen mwy o weithredu, ac ar fyrder. Gan gydnabod hyn, ar 4 Tachwedd 2021, cefnogodd Cyngor Abertawe gynnig i ddatgan argyfwng natur (4. Cyngor Abertawe; 2021).

Newidiadau dros gyfnod

Mae bioamrywiaeth yn dirywio'n fyd-eang, gyda chyfraddau colli a darfod yn ddigynsail yn hanes dyn, ac yn cyflymu. Canfu dadansoddiad diweddar gan y Natural History Museum ei bod yn ymddangos fod y DU yn gyson yn y 10% isaf o'r holl wledydd ar gyfer cyfanrwydd bioamrywiaeth (5. NHM; 2021). Yn ei asesiad o adnoddau naturiol yng Nghymru, mae SoNaRR 2020 yn dweud wrthym hefyd nad yw llawer o'n hecosystemau yn wydn i newid annisgwyl neu anrhagweledig am fod un neu fwy o'u priodweddau (DECCA) yn annigonol. Nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod y sefyllfa yn Abertawe yn wahanol o gwbl.

Mae Abertawe yn ardal o dwf economaidd, a dros y blynyddoedd diwethaf rydym wedi gweld mwy a mwy o fannau gwyrdd a chynefinoedd bywyd gwyllt yn cael eu colli i ddatblygu a phwysau arall, gan gynnwys defnydd amhriodol o dir, rhywogaethau goresgynnol, clefydau fel y clefyd coed ynn, hamdden a diffyg ymwybyddiaeth, ymhlith pethau eraill. Gwaethygir hyn gan ddiffyg adnoddau parhaus ar gyfer monitro a rheoli cynefinoedd a rhywogaethau a gorfodi gweithgareddau rheoledig. Mae newid yn yr hinsawdd hefyd yn cael effaith, gan waethygu pwysau eraill, a byddant yn cynyddu wrth i newid yn yr hinsawdd gyflymu.

Rhagwelir y bydd tueddiadau mewn bioamrywiaeth yn parhau i ddirywio os yw trywyddau yn y dyfodol yn dilyn senarios busnes fel arfer. Gallai ymyriadau cymdeithasol a systemig

amrywiol newid cwrs y tueddiadau hyn o bosibl, fodd bynnag, nid ar eu pennau'u hunain nac mewn cyfuniadau rhannol. (6. WG; 2021)

"Mae gan Abertawe barciau gwych ond hoffwn weld aelwydydd yn cael eu hannog i dyfu mwy o goed a phlanhigion sy'n denu gwenyn. Llai o osod palmentydd dros erddi" – ymatebydd i'r arolwg.

Cymariaethau â lleoedd eraill

Er bod diffyg data cadarn ynddynt, mae mapiau CuRve arbrofol (7. Cyfoeth Naturiol Cymru; 2021) a ddatblygwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru i archwilio sut mae cadernid ecosystemau yn amrywio ledled Cymru, yn awgrymu bod cadernid cyffredinol yn Abertawe yn gymharol uchel o gymharu â siroedd amgylchynol; mae hyn yn debygol o fod yn sgil graddfa cynefinoedd lled-naturiol o fewn y sir, er eu bod wedi'u dosbarthu'n anghyfartal ac o dan fygythiad mewn rhai ardaloedd.

Gwahaniaethau ar draws Abertawe

Mae lefelau cadernid ecosystemau'n amrywio ledled y sir; nodir lefel uwch yn rhannau gweledig Gŵyr a gogledd Abertawe, a lefelau is o amgylch ardaloedd trefol. Testun pryder arbennig yw'r lleihad yn y cynefinoedd naturiol sy'n cysylltu'r Gŵyr â gweddill de Cymru, o amgylch Penllergaer / Gorseinon. Fel y cyfryw, yng ngogledd a dwyrain y ddinas, ceir anghydraddoldebau mewn manteision iechyd a llesiant y mae ecosystemau ac adnoddau naturiol gwydn yn eu darparu; mae polisi drafft Tegwch mewn lechyd Gwyrdd Cyngor Abertawe (8. Cyngor Abertawe; 2021) yn ceisio mynd i'r afael â hyn.

Canfyddiadau a phersbectifau

- Yn 2019, canfu ymgysylltiad â'r cyhoedd ar gyfer Ardal Ganolog Abertawe: Adfywio'ch Dinas ar gyfer Lles a Bywyd Gwyllt fod pobl eisiau "Dinas sy'n darparu lle i fywyd gwyllt gan ddod â hapusrwydd i bobl..." a, "Cyrchfan a dinas gwerth byw ynddi sy'n gallu addasu i newid hinsawdd a lliniaru ar gyfer newid hinsawdd."
- Mae angen natur; mae llawer o adroddiadau yn dangos cynnydd sylweddol yn nifer y bobl sy'n ymweld â thraethau, parciau, a safleoedd bywyd gwyllt yn lleol yn ystod cyfnodau clo Covid. Mae natur wedi bod yn ffynhonnell cysur i lawer. Dywed lechyd Cyhoeddus Cymru fod natur yn cefnogi ein lles corfforol, meddyliol, a chymdeithasol gyda chanlyniadau iechyd cadarnhaol ar draws pob cyfnod bywyd, gan gynnwys systemau imiwnedd iachach, llai o straen a gorfywiogrwydd, emosiynau cadarnhaol uwch, llai o arwahanrwydd cymdeithasol (9. ICC, 2021).
- Mae meithrin dealltwriaeth ddyfnach o'r rôl hanfodol y mae natur yn ei chwarae mewn iechyd pobl yn cyflwyno dwy brif her: yr angen i gydnabod a lliniaru difrod amgylcheddol a achosir; a'r angenrheidrwydd i ganfod ffyrdd effeithiol a theg o addasu ymddygiad pobl er lles yr holl fywyd ar y blaned yn y dyfodol. (7. WHO; 2021)

"Mae ein cefn gwlad yn bwysig a gall chwarae rhan fawr mewn lles pobl a phrofiadau ymwybyddiaeth ofalgar" – ymatebydd i'r arolwg.

Tueddiadau a Rhagolygon i'r Dyfodol ar gyfer Abertawe

Mae tueddiadau byd-eang a chenedlaethol yn dangos y bydd bioamrywiaeth yn parhau i ddirywio os yw trywyddau yn y dyfodol yn dilyn senarios busnes fel arfer. Mae angen mynd i'r afael â'r argyfwng natur, law yn llaw â newid yn yr hinsawdd, yn systemig ar draws pob cylch o gymdeithas drwy leihau swm y defnyddio, arloesi o fewn economi adfywiol, mynd i'r afael â nifer o sbardunau eraill, gweithredu ar newid yn yr hinsawdd, a gwneud gwaith cadwraeth/adfer ar safleoedd allweddol.

Roedd strategaeth Twf CDLI Abertawe yn ystyried datblygu tir maes glas a thir llwyd ac yn ceisio cydbwysu'r cyfleoedd a'r cyfyngiadau cysylltiedig. Manteisir i'r eithaf ar ddatblygu tir llwyd lle bo hynny'n hyfyw, ond bydd elfen sylweddol o dwf yn y dyfodol yn cael ei chyflawni ar safleoedd tir glas, er y bydd hyn mewn modd cynaliadwy er mwyn manteisio i'r eithaf ar gadw mannau gwyrdd mewn datblygiadau. Caiff y strategaeth hon ei hadolygu dros amser a bydd yn ystyried materion cyd-destunol fel colli tir glas, dynodiadau bioamrywiaeth, data llifogydd ac effaith COVID-19.

Integreiddio

Dim ond ecosystemau cydnerth all barhau i ddarparu'r adnoddau naturiol sydd eu hangen arnom i ffynnu a chyflawni ein potensial mewn ffordd gynaliadwy ar gyfer cenedlaethau heddiw a rhai'r dyfodol. O'r herwydd, mae cydnerthedd ecosystemau a rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn sail i bob agwedd ar les a dylid eu hystyried yn llawn drwy sicrhau'r canlynol: bod gennym economi gylchol mwy lleol; tir adfywiol integredig ar raddfa dalgylch, a systemau rheoli dŵr; bod rôl a buddion byd natur yn cael eu cydnabod yn arbennig o ran iechyd meddwl a chorfforol, er enghraifft drwy ragnodi gwyrdd; cydnabod gwerth a phwysigrwydd tirweddau naturiol ac arfordiroedd i'n diwylliant, ein treftadaeth, hamdden, a thwristiaeth.

Gwelliant

Caiff dirywiad bioamrywiaeth ei wrthdroi, a chynyddir cadernid cyffredinol ecosystemau trwy rwydweithiau ecolegol iach y rhoddir yr adnoddau a'r warchodaeth briodol iddynt, fel bod natur yn ffynnu ac yn cadw'r gallu i ddarparu gwasanaethau a buddion nawr ac yn y dyfodol. I'r amgylchedd naturiol gael ei weld fel blaenoriaeth amlwg a buddsoddi ynddi nawr i adfer natur, gyda phobl yn fwy ymwybodol ac yn fwy abl i gael mynediad yn gyfartal at y llu o fuddion llesiant o wasanaethau ecosystem yn ogystal â gwerth cynhenid natur. Bydd hyn yn golygu bod angen darparu refeniw craidd cynaliadwy, tymor hir a chyllid cyfalaf i adeiladu'r gallu a'r adnoddau i gynllunio a darparu strategaethau a mentrau tymor hir ar gyfer adferiad natur (yn hytrach na dibynnu ar brosiectau a ariennir gan grant tymor byr).

Ynglŷn â'r dystiolaeth

Mae tystiolaeth ar raddfa fyd-eang a Chymru yn gynhwysfawr ac yn gyson i raddau helaeth. Fodd bynnag, ar raddfa leol mae monitro data i lywio gofynion rheoli ac adnoddau penodol yn ddiffygiol ar gyfer llawer o safleoedd dynodedig a rhwydweithiau ecosystem ehangach.

Hefyd, mae asesu cadernid ecosystemau yn gymhleth ac yn dal i ddatblygu, a chyfyngedig yw'r ddealltwriaeth o lefelau 'trothwy' ar gyfer rhywogaethau a chynefinoedd.

Casgliadau a negeseuon allweddol

- Nid yw camau gweithredu presennol i adfer natur yn mynd yn ddigon pell; mae angen ymrwymiad i drawsnewidiad mawr o bob rhan o gymdeithas, ac i gydnabod ei bod yn hollbwysig i liniaru newid hinsawdd ac addasu i newid hinsawdd.
- Cydnabuwyd yr angen gwirioneddol a brys i roi adferiad natur ar waith ei gydnabod gan Gyngor Abertawe pan wnaethant ddatgan Argyfwng Natur ar 4 Tachwedd 2021.
- Mae cydnerthedd ecosystemau Abertawe yn cynnig darlun cymysg, ac mae ystod o bwysau sylweddol yn parhau i fygwth cynefinoedd a rhywogaethau tameidiog ac ynysig. Mae angen adfer a chysylltu cynefinoedd ar draws y sir fel eu bod yn gweithredu'n gydlynol ac yn darparu buddion o ran lles.
- Y bygythiadau mwyaf sy'n effeithio ar gadernid ecosystemau ar draws Abertawe yw pwysau datblygu ac arferion ffermio, twristiaeth a hamdden; mae angen i ni daro cydbwysedd rhwng adfer natur a thwf a datblygiad economaidd yn y dyfodol.
- Mae diffyg adnoddau amlwg ar gyfer rheoli parhaus, hirdymor, i fynd i'r afael â bylchau mewn data a hyrwyddo dealltwriaeth o gadernid ecosystemau; ond peidied â gadael i hynny oedi gweithredu nawr o ystyried brys yr angen i adfer.
- Gweithio gyda grwpiau cymunedol lleol ac ysgolion i hwyluso'r gwaith o ymgysylltu cymaint â phosib â phreswylwyr Abertawe er mwyn cynnal a gwella bywyd gwylt lleol, gan gydnabod bod gwneud hynny hefyd yn darparu manteision iechyd corfforol a meddyliol, yn ogystal â chryfhau cydlyniant cymunedol.
- Mae'n rhaid i'r BGC a rhanddeiliaid ehangach weithio gyda'i gilydd ar bwysigrwydd atebion sy'n seiliedig ar natur, hyrwyddo a mabwysiadu arfer da, ac adeiladu ar fframwaith polisi Cymru.
- Mae angen rhoi ystyriaeth i sicrhau cydraddoldeb buddion yr amgylchedd naturiol.

Adnoddau Dŵr

Mae dŵr yn adnodd hanfodol i'n goroesiad a'n iechyd. Mae afonydd, llynnoedd, dŵr daear, aberoedd, a dyfroedd arfordirol yn darparu buddion sylweddol i'n llesiant mewn llawer o ffyrdd, gan gynnwys dŵr yfed, lliniaru llifogydd, hamdden, cynhyrchu incwm o fusnesau a diwydiant, twristiaeth, cynhyrchu ynni adnewyddadwy a genweirio. Bydd ansawdd dŵr gwael a dirywiol, o ganlyniad i lygredd, a bygythiad i faint o ddŵr sydd ar gael o ganlyniad i ordynnu dŵr, yn cael effaith niweidiol ar y cyflenwad dŵr at ddefnydd domestig a diwydiannol, ffermio a chynhyrchu bwyd, bioamrywiaeth, ymdrochi, pysgota a gweithgareddau hamdden eraill (1. Cyngor Abertawe; 2019).

Mae dŵr yn rhan annatod o hunaniaeth Abertawe; mae wedi'i lleoli ar lannau Bae Abertawe a'r afon Tawe, mae'r dreftadaeth ddiwylliannol gysylltiedig wedi llywio'r hyn yw Abertawe heddiw, ac mae arfordir Gŵr yn denu miloedd o ymwelwyr bob blwyddyn ac yn cefnogi ystod o weithgareddau. Eto, mae cyflwr presennol ein hamgylchedd dyfrol a'r pwysau a rown arno, law yn llaw â'r argyfwng hinsawdd a'r argyfwng natur, yn cyflwyno heriau mawr i ni – a

chyfleoedd; adlewyrchir pwysigrwydd adnoddau dŵr ym mhob un o bedair blaenoriaeth y Datganiad Ardal ar gyfer de orllewin Cymru.

Cryfderau ac Asedau

Mae'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (WFD) (1. Cyfoeth Naturiol Cymru; 2020) yn aseinio statws iechyd i gyrff dŵr, ar sail paramedrau biolegol, ffisegol a chemegol. Ystyrir bod unrhyw gyrff dŵr sy'n methu cyflawni 'Statws Ecolegol Da' (GES) o leiaf yn methu. Fel y dangosir yn y tabl isod, canfu asesiad y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr 2018, o'r 23 o gyrff dŵr sy'n gyfan gwbl o fewn neu'n rhannol o fewn Abertawe, mai dim ond 26% oedd â Statws Ecolegol Da' o gymharu â ~40% ar draws Cymru gyfan, gan ddynodi cadernid isel. Mae rhesymau dros fethu yn amrywio ledled y sir, a gellir eu crynhoi fel methu yn sgil gorlif carthion/carthion cyfunol, camgysylltiadau, gollwng yn y tarddle penodol, llygredd gwasgaredig a llygredd diwydiannol gwaddol, addasiadau ffisegol, a rhwystrau rhag pysgod yn mudo. (Hefyd, gweler adrannau b. a d., isod). Mae rhywogaethau estron goresgynnol, rhai dyfrol a daearol, yn achosi effeithiau digroeso hefyd mewn gyrff dŵr ac ar hyd gyrff dŵr.

Tabl En2: Statws Cyrff Dŵr yn Abertawe, Dosbarthiad Dros Dro WFD 2018

| Dalgylch / gyrff dŵr sydd (yn gyfan gwbl neu'n rhannol) o fewn ffin Abertawe | Nifer y gyrff dŵr cysylltiedig | Canran â Statws Ecolegol Da yn gyffredinol |
|---|---------------------------------------|---|
| Tawe | 4 | 25% |
| Llwchwr | 4 | 25% |
| Nentydd Arfordirol Gŵyr | 5 | 60% |
| Llynnoedd | 2 | 0% |
| Camlesi | 2 | 50% |
| Cyrff dŵr aberol ac arfordirol | 6 | 0% |

Yn fwy cadarnhaol, o'r wyth o ddyfroedd ymdrochi (dynodedig yr UE) ar draws y rhanbarth, graddir bod 7 ohonynt yn 'ardderchog' ac un yn 'dda', sef Bae Abertawe, y gellir effeithio arno gan lygredd tymor byr o ddigwyddiadau glaw trwm sy'n arwain at garthion yn cael eu golchi ymaith, draenio trefol a dŵr ffo a deunydd ysgarthol yn cael ei ryddhau i'r môr (3. Cyfoeth Naturiol Cymru; 2021). Mae Cyfoeth Naturiol Cymru a Chyngor Abertawe wedi gweithio gyda'i gilydd i wella ansawdd dŵr ymdrochi ym Mae Abertawe, ond mae angen gwneud gwaith pellach. Mae baeau Breichled, Limeslade, Langland a Caswell yn agored i niwed hefyd o ddŵr ffo trefol a gollyngiadau carthffosydd.

Mae diwydiant genweirio Cymru yn werth rhyw £200miliwn y flwyddyn (4. Cyfoeth Naturiol Cymru; 2018). Ceir pysgodfeydd pwysig yn lleol, ac maent yn cynnig buddion iechyd, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol sylweddol. Fodd bynnag, mae'r Tawe wedi'i dosbarthu fel afon 'Dan Risg' ar hyn o bryd' (5. Cyfoeth Naturiol Cymru, 2017), sef y braced dosbarthu gwaethaf, ar gyfer poblogaethau eogiaid a brithyllod y môr, yn deillio o dueddiadau cyson tuag i lawr mewn niferoedd pysgod ac ystadegau dal.

Mae arolygon y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn dweud wrthym fod yna fethiannau pysgod o fewn nentydd arfordirol, yn sgil materion yn ymwneud â chynefinoedd a/neu ansawdd dŵr,

ac yn y Llwchwyr isaf sydd wedi dioddef dirywiad. Ynghyd â charthion a mewnbynnau amaethyddol yn effeithio ar ansawdd dŵr, mae rhwystrau rhag pysgod yn mudo yn rhan fawr o'r broblem, yn enwedig yn rhannau mwy trefol afonydd lle mae addasiadau ffisegol yn amharu ar gynefinoedd ac yn eu chwalu, gyda cholledion canlyniadol i fioamrywiaeth. Mae hyn hefyd yn cyflwyno ffurf afon ddiheintiedig i gymunedau a allai fel arall elwa ar gael nodweddion tirwedd mwy naturiol.

O ran cyflenwadau dŵr, mae Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr, a gynhyrchir gan gwmnïau dŵr, yn cwmpasu cyfnod o 25 mlynedd ac mae'n ofynnol iddynt ystyried amcanestyniadau newid hinsawdd, twf poblogaeth a datblygiadau newydd i gynllunio'r galw am ddŵr, cyflenwad dŵr, allbwn, llifoedd afon a chyfrif am dwf poblogaeth (6. Netherwood, A; 2021.) Mae hyn yn rhoi rhywfaint o gadarnhad a sicrwydd ynghylch cyflenwad dŵr cyhoeddus, ac effeithiau potensial ar iechyd a llesiant, ond nid yw'n negyddu'r angen am i bob defnyddiwr dŵr fod yn ystyriol o'r gofynion a rown ar yr adnodd naturiol hwn.

Newidiadau dros gyfnod

Ar draws Abertawe, mae gwelliannau amlwg wedi bod yn statws rhai dangosyddion biolegol ansawdd dŵr, yn nodedig yn afon Llwchwyr isaf ac isafon Dulais. Yn erbyn hyn, bu dirywiad yn ansawdd y dŵr yng nghronfeydd Lliw Uchaf ac Isaf, oherwydd maethynnu [nutrification]. Nid oes unrhyw newid amlwg wedi'i weld ar y Tawe, ac eithrio rhai arwyddion cadarnhaol ar gyfer mynd i'r afael ag effeithiau sy'n gysylltiedig â mwyndoddi metel hanesyddol. Yn rhan allanol Cilfach Tywyn, mae mwy o ddangosyddion biolegol wedi gwella na dirywio, tra bod y Gilfach gyfan yn parhau i adlewyrchu maethynnu, a ystyrir eu bod, yn bennaf, o ganlyniad i fewnbynnau gwasgaredig o amaethyddiaeth a rheoli tir, a gollwng carthion tarddle penodol o ddalgylch Tregŵyr.

Mae statws dyfroedd ymdrochi yn y rhanbarth wedi aros yr un peth ers 2017, ac eithrio Bae Abertawe, sydd wedi gweld gwelliant o 2018 pan gafodd statws 'digonol'.

Mae daliadau Eogiaid a Brithyllod y Môr ar afon Tawe wedi bod ar duedd am i lawr dros y 10 mlynedd diwethaf. Mae gweithgarwch pysgota afonydd wedi lleihau'n sylweddol hefyd yn sgil llai o bysgod, demograffeg sy'n heneiddio, a gallai cyfyngiadau is-ddeddf ddiweddar i warchod niferoedd pysgod fod wedi lleihau lefelau cyfranogi hefyd.

Wrth i'r boblogaeth dyfu, felly hefyd y mae'r galw am ein hadnoddau dŵr, a'r pwysau arnynt, yn cynyddu. Er enghraifft, fe wnaeth gwanwyn cynnar, sych 2020 gyd-daro â'r cyfnod clo COVID cyntaf a galw digynsail am gyflenwad dŵr cyhoeddus gyda risg y byddai'n rhaid tynnu dŵr o gronfeydd yn gynharach na'r arfer. Hefyd, fe wnaeth cyfnod sych yn 2018 effeithio ar dwf cnydau a chyflenwadau dŵr ar gyfer stoc; gallai cynnydd mewn digwyddiadau tywydd sych yn y dyfodol fynnu mwy o fuddsoddiad mewn storio dŵr yn gynaliadwy ar ffermydd.

Cymariaethau â lleoedd eraill

O'r 23 o gyrff dŵr Abertawe, roedd gan 26% ohonynt 'statws ecolegol da' (GES). Mae hyn yn cymharu â 36% yng Nghastell-nedd Port Talbot, 65% yn Sir Gaerfyrddin, a 30% yn Sir Benfro. Mae statws ecolegol da gan 361 (40%) o'r 907 o gyrff dŵr wyneb ledled Cymru gyfan. Fe

wnaeth SoNaRR 2020 (7. Cyfoeth Naturiol Cymru; 2020) asesu cadernid cyfunol yr adnodd dŵr croyw yng Nghymru ar gyfradd ganolig i uchel ar gyfer llynnoedd, ac isel ar gyfer afonydd gydag angen am ymyrraeth sylweddol. O safbwynt pysgodfeydd, cafodd llawer o'r afonydd yng Nghymru eu dosbarthu fel rhai 'Dan Risg'. Felly, mae statws cyffredinol cyrff dŵr Abertawe yn nodweddiadol o dueddiadau cenedlaethol ehangach, neu'n salach na nhw.

Gwahaniaethau ar draws Abertawe

Mae cysylltiad agos rhwng statws a rheolaeth gynaliadwy ecosystemau dŵr croyw â thir cymdogol o fewn eu dalgylchoedd. Mae afonydd a nentydd yn yr ardaloedd trefoledig ac ôl-ddiwydiannol/yr ardaloedd o gwmpas trefi dan sawl math o bwysau: llygredd o gamgysylltiadau domestig; mae llygredd gwasgaredig o'r myrdd o ffynonellau o fewn ystadau diwydiannol niferus Abertawe yn dal i effeithio ar ddalgylchoedd Llan, Lliw, a Thawe; mae draeniad uniongyrchol o'r dinaslun wyneb caled yn cludo halogyddion yn uniongyrchol i mewn i'r draeniau dŵr wyneb a'r nentydd â chwlfertau sy'n draenio llawer o'r ddinas. Mae llawer o gyrsiau dŵr wedi'u camlesu, eu dargyfeirio, eu cyfyngu gan beirianeg galed, wedi'u carthu, eu rhwystro'n rhannol gan goredau ac wedi'u siltio, felly hyd yn oes os yw'r dŵr yn lân, mae'r amgylchedd ffisegol dan fygythiad, a'r cynefinoedd wedi dirywio ac ar chwâl.

Mewn cyferbyniad, mae cyrff dŵr wyneb yn y Gŵyr yn gymharol fach oherwydd y ddaearyddiaeth leol ac am mai daeareg calchfaen carstig hydraidd a geir yno'n bennaf. Maent hefyd yn dioddef llai o bwysau oherwydd y dirwedd wledig ac amaethyddol i raddau helaeth, gyda ffermydd bach dan reolaeth draddodiadol a thir comin gyda nifer fach o unedau da byw mawr. Mae colli priddrwy ddefnyddio a rheoli tir - gan gynnwys amaethyddiaeth a datblygu, a gollyngiadau tanc carthion - yn achosi problemau ansawdd dŵr lleol ac mae gollyngiadau dŵr o weithfeydd glo yn effeithio ar rai ardaloedd fel nentydd Clun a Dynfant.

Mae Tabl En2, uchod, yn dangos darlun salach cyffredinol ar gyfer cyrff dŵr ar draws Abertawe, yn seiliedig ar ddsbarthiad WFD 2018. Yn nodedig, ni wnaeth unrhyw lynnoedd na chyrff dŵr aberol / arfordirol gyflawni statws ecolegol da, a dim ond 25% o gyrff dŵr yn nalgylchoedd Tawe a Lluchwr sydd â statws ecolegol da.

Mae tir halogedig yn dal yn gyfrifol am lygru'r Tawe a'i hisafonydd, yn enwedig o fewn is-ddalgylch Nant-y-Fendrod, tra gallai fod angen camau rheoleiddio llymach ar rai eraill er mwyn mynd i'r afael â nhw. Mae cyrff dŵr llanw yn methu o ran eu haddasiadau ffisegol, yn bennaf. Mae corff dŵr arfordirol Bae Abertawe'n methu hefyd oherwydd nitrogen anorganig tawdd, yr ystyrir y gellir ei briodoli i raddau helaeth i ollyngiadau carthion, a all gyfrannu at y ffaith nad yw'r Dŵr Ymdrochi yn bodloni'r safon 'ragorol'.

Golyga hyn fod anghydraddoldeb mynediad i gyrff dŵr lleol o statws ecolegol da, neu ragorol, ar draws Abertawe.

Canfyddiadau a phersbectifau

Mae dŵr yn bwysig i lesiant pobl, ond gall fod gwrthdaro rhwng defnyddwyr gwahanol. Er enghraifft, roedd ymchwiliad cyhoeddus ynghylch gweithredu is-ddeddfau Eogiaid yn cynnwys ymgynghori helaeth a ddatgelodd fod genweirwyr yn ddig ac yn ystyried mai

effeithiau ar ansawdd dŵr ac ysglyfaethu (gan adar) yw'r prif ffactorau sy'n achosi i niferoedd pysgod* leihau, ac maent eisiau rheoleiddio llymach ar y diwydiant amaethyddol a'r diwydiant dŵr a rheolaeth ar adar sy'n bwyta pysgod. * Noder, newid hinsawdd a goroesi morol yw'r ffactorau mwyaf tebygol sy'n effeithio, ond mae'r rhain yn llai amlwg i randdeiliaid ac felly maent yn edrych ar effeithiau sy'n fwy gweladwy yn lleol.

Canfu'r prosiect Nentydd Clir, y tu allan i grwpiau defnyddwyr gweithredol - caiacwyr, pysgotwyr, nofwyr, etc. - bod pobl yn gyffredinol wedi'u datgysylltu o'r amgylchedd dŵr, ac yn aml maent yn anhyderus o ran sut/ ym mhle i gael mynediad ato a'r hyn y gallant ei wneud. Nid yw pobl ychwaith yn gwybod beth sy'n digwydd i'w carthion, gan arwain at gam-drin carthffosydd a llygredd. Mewn rhai lleoedd, mae ansawdd dŵr gwael wedi'i 'normaleiddio' ac fe'i gwelir fel rhywbeth y tu allan i allu'r cyhoedd i ddylanwadu arno.

Yn ystod yr ymgynghori ar gyfer Datganiad Ardal de orllewin Cymru, dywedodd rhanddeiliaid wrth Cyfoeth Naturiol Cymru "y dylai pawb fwynhau traethau ac afonydd ymdrochi o ansawdd uchel", ac i "ymchwilio i'r posibilrwydd o ddynodi dyfroedd ymdrochi mewndirol (mewn dociau, llynnoedd ac afonydd) er mwyn annog pobl i ddefnyddio'u mannau glas sydd ar garreg eu drws".

"Mae wedi cael ei brofi bod nofio mewn dŵr oer yn helpu pobl sydd â phob math o anhwylderau, ond eto nid yw ansawdd y dŵr yn y bae yr hyn y dylai fod. Mae nifer y gollyngiadau heb eu trin wedi cynyddu'n sylweddol yn ddiweddar ac mae'n atal pobl rhag cael mynediad i'r gweithgaredd gwerthfawr hwn" – ymatebydd i'r arolwg.

Mae map rhyngweithiol yr Ymddiriedolaeth Afonydd o'r DU 'Is my river fit to play in?' (8. gwefan yr Ymddiriedolaeth Afonydd, 2021) yn rhoi manylion nifer o leoliadau ar draws Abertawe fel rhai sy'n gollwng gorlaw wedi'i gymysgu â charthion amrwd yn syth i mewn i gyrff dŵr ar adegau penodol. Ymddengys bod yr arfer hwn yn gyffredin ledled y DU, ac mae'n bryder mawr i iechyd afonydd a phobl. Ceir cyngor i "...osgoi mynd i mewn i'r dŵr yn uniongyrchol i lawr yr afon o'r mannau golwg hyn, yn enwedig ar ôl glaw."

Tueddiadau a Rhagolygon i'r Dyfodol ar gyfer Abertawe

Bydd adnoddau dŵr Abertawe'n dod o dan fwy o bwysau yn y dyfodol, gan effeithio ar yr ecosystemau, pobl, a busnesau sy'n dibynnu arnynt. Mae risgiau i ddŵr croyw sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd yn cynnwys llai o ddŵr ar gael, tymereddau dŵr uwch, digwyddiadau llif isel am gyfnodau hwy a mwy mynych, a chyfradd uwch o ddadleoli rhywogaethau brodorol. Hefyd, mae risgiau i ansawdd ein dŵr yn cynnwys stormydd yn cynyddu erydu pridd a llygryddion eraill mewn dŵr ffo wyneb mewn ardaloedd gwledig a threfol yn mynd i mewn i gyrff dŵr, yn ogystal â llethu cyfleusterau trin carthion, ac adfer symudedd llygryddion gwaddol. O ran genweirio, y dosbarthiad a ragamcenir ar gyfer y Tawe ymhen 5 mlynedd yw 'Dan Risg' o hyd, a pharheir i gollu'r buddion cysylltiedig.

Mae Cynllun Datblygu Lleol Abertawe yn datgan y bydd yn cynnal a gwella ansawdd a maint adnoddau dŵr, gan gynnwys afonydd, camlesi, llynnoedd, pyllau a chyrrff dŵr eraill. Bydd gweithredu polisi'n golygu cydweithio'n agos â Cyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru i sicrhau cyflenwad digonol o ddŵr a seilwaith carthffosiaeth.

Integreiddio

- Gall mynediad at ddŵr wella llesiant drwy hamdden, chwaraeon a digwyddiadau diwylliannol, yn ogystal â'r economi leol e.e. twristiaeth, amaethyddiaeth, y sector bwyd, a datblygu busnes.
- Mae rheoli tir o fewn dalgylch corff dŵr yn effeithio ar ei gyflwr, sydd hefyd yn effeithio ar fioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau.
- Gwyddys bod mynediad at 'fan glas' naturiol, o ansawdd da, yn gwella iechyd meddwl a chorfforol.
- Mae goblygiadau ynghlwm wrth ansawdd dŵr a faint o ddŵr sydd ar gael i bob un o'r saith nod e.e. mae afonydd a moroedd glanach a mwy amrywiol yn cefnogi Cymru fwy cydnerth, ffyniannus, ac iachach.
- Gall amaethyddiaeth adfywiol sy'n gwella strwythur pridd gynyddu gallu pridd i ddal dŵr i ailgyflenwi dyfrhaenau a lleihau colli pridd i systemau dŵr yn dilyn stormydd, fel y gall gynnal gorchudd pridd mewn lleoliadau trefol.

Gwelliant

- Fel rhan o raglen y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, mae amcanion gan gyrrff dŵr i gyflawni Statws Ecolegol Da erbyn 2027 oni bai bod mater o anichonolrwydd technegol neu gost anghymesur. Byddai gwelliant yn arwain at gyfran uwch o gyrrff dŵr Abertawe yn cyflawni statws ecolegol da erbyn y dyddiad hwn.
- Mae adnoddau ar gyfer monitro yn gyfyngedig. Mae angen i'r broses o bennu blaenoriaethau ac amcanion gael ei llywio gan ddata cadarn, hirdymor o ansawdd uchel a dadansoddi sy'n cynyddu ein dealltwriaeth o'r prosesau dynamig a chymhleth yn ymwneud ag adnoddau dŵr. Byddai dyrannu adnoddau ychwanegol ar gyfer hyn o gymorth.
- Er mwyn sicrhau cynaliadwyedd gwelliannau, dylid mabwysiadu ymagwedd integredig, aml-randdeiliaid, seiliedig ar ddalgylch at reoli tir a dŵr, gan gefnogi lefelau uwch o ymgysylltiad â chymunedau, ymwybyddiaeth a gweithredu. Dyma yw uchelgais rhaglen Cyfle Dalgylch Tawe, ond bydd angen cyllid i sicrhau cyflawni a llwyddo dros y tymor hir.
- Os yw'r mesurau presennol i leihau dalfeydd yn ddigonol, byddant yn arwain at gynydd cynaliadwy mewn poblogaethau pysgod a gweithgarwch pysgota afonydd.
- Mae SoNaRR 2020 yn rhestru cyfleoedd pellach ar gyfer ecosystemau a chydnerthedd dŵr croyw.

"Ansawdd y dŵr - mae gennym fae mor brydferth; mae angen i ni ei amddiffyn" – ymatebydd i'r arolwg.

Ynglŷn â'r dystiolaeth

Bydd dosbarthiad y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr 2018 yn cael ei ddisodli ar ddiwedd 2021 gyda dosbarthiad a ddeilliwyd o setiau data mwy diweddar. Mae'r dadansoddiad o ddata a

thueddiadau ar gyfer niferoedd pysgod yn gadarn ac yn ffurfio rhan o setiau data mawr sydd wedi'u casglu dros lawer o flynyddoedd.

O ran faint o ddŵr sydd i'w gael (llyfoddedd afonydd), gwnawn benderfyniadau ar faint o ddŵr sydd ei angen ar yr amgylchedd naturiol (a faint o ddŵr y mae'n ddiogel i'w dynnu) yn seiliedig ar dystiolaeth sydd ar gael a rhagdybiaethau gweithio; fodd bynnag, mae'n rhaid i ni ofyn a ydym yn deall yn llawn y graddau yr effeithir ar gadernid ecosystemau gan e.e. newid arfer llif - a ydym ni'n sicrhau'r cydbwysedd cywir?

Casgliadau a negeseuon allweddol

Rhaid cydbwysu'r galw am ddŵr â phwysigrwydd gwarchod adnoddau dŵr ar gyfer amgylchedd iach. Gan ragamcanu y bydd poblogaeth Abertawe yn cynyddu 3.2% (2018-2028), a'r disgwyliad y bydd yr economi leol yn ehangu, bydd y ddibyniaeth ar adnoddau dŵr yn cynyddu.

Mae 74% o gyrff dŵr yn Abertawe yn methu cyflawni 'Statws Ecolegol Da' o dan y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr. Mae'r dŵr y dibynnwn arno yn ein hafonydd, dyfroedd daear a moroedd o dan bwysau cynyddol o newid hinsawdd, llygredd, rheolaeth tir, rhywogaethau goresgynnol, amaethyddiaeth, datblygu ac addasiadau ffisegol – ac, yn fwy cyffredinol, rhag bod yn fater a ymleiddiwyd. Nid yw'n bosibl sicrhau cydymffurfio â safonau'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr drwy reoleiddio'n unig, mae'n rhaid i ni gyd newid ein perthynas gyda'r amgylchedd dyfrol. Mae angen i ni:

- roi blaenoriaeth i warchod nentydd ac afonydd wrth gynllunio neu wneud penderfyniadau ar ddatblygu ac adfywio
- symud i ffwrdd oddi wrth beirianeg galed tuag at atebion rheoli dalgylchoedd sy'n seiliedig ar natur
- mae angen i landlordiaid mewn ystadau diwydiannol fynd i'r afael â llygredd gwasgaredig, ac
- Yn bwysicaf oll, mae angen i ni annog y gymuned gyfan i ddod i adnabod ei chysiau dŵr lleol a dechrau caru a gofalu amdanynt, a gweithio gyda phreswylwyr i sicrhau mynediad cyfartal i gyrff dŵr â statws ecolegol da neu ardderchog, a gwireddu'r manteision iechyd a lles sy'n gysylltiedig â manau gwyrdd/glas.

Perygl Llifogydd

Er bod dŵr yn darparu llawer o fanteision hanfodol i'n hiechyd a'n llesiant, gall achosi problemau difrifol trwy lifogydd hefyd. Dyma'r math o drychineb naturiol sy'n effeithio ar y DU yn fwyaf mynych ar hyn o bryd. Mae'n creu risg i fywyd a, law yn llaw ag erydu arfordirol, mae'n effeithio nid yn unig ar ein hiechyd corfforol a meddyliol, ond ffactorau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol hefyd, gan amharu ar weithrediad arferol cymunedau cyfan. Mae digwyddiadau stormydd 2020 wedi pwysleisio'r angen i atgyfnerthu ein blaenoriaethau strategol ar gyfer atal llifogydd, cadernid ac addasu i'r hinsawdd. Llifogydd a newid arfordirol yw'r risgiau newid yn yr hinsawdd pennaf sy'n effeithio ar gartrefi, cymunedau, busnesau ac isadeiledd, a byddant yn cynyddu wrth i newid yn yr hinsawdd gyflymu. (1. LIC; 2020)

Cryfderau ac Asedau

Asesir bod dros 10,000 o eiddo preswyl a thua 1950 o eiddo amhreswyl yn Abertawe yn wynebu perygl llifogydd. Llifogydd dŵr wyneb yw'r ffynhonnell risg fwyaf, gyda risg uchel i 1881 o eiddo preswyl a 263 o eiddo amhreswyl. Yn gyffredinol, mae'r effaith fwyaf yn digwydd pan fo gormodiant o ddŵr mewn cyrsiau dŵr a systemau draenio, sy'n aml yn cael ei waethygu gan ddraeniau a chwlfertau wedi'u rhwystro.

Sicrhodd Cyngor Abertawe gyllid rheoli risg llifogydd ac erydu arfordirol LIC ar gyfer gwaith cyfalaf yn 2021-22 i gyflwyno sawl prosiect a fydd o fudd i tua 540 eiddo ac yn adeiladu ar gynlluniau blaenorol.

Mae Cynlluniau Llifogydd Cymunedol yn cael eu harwain gan gymunedau a gallent roi rhyw syniad o ymwybyddiaeth / pryder a gwydnwch trigolion mewn ardal lle ceir perygl o lifogydd. Mae cynlluniau gweithredol gan ddwy gymuned yn Abertawe, sef Penclawdd a Crofty. Gall perchnogion cartrefi neu fusnesau y mae eu heiddo yn wynebu perygl llifogydd dderbyn negeseuon rhybuddio dros y ffôn, drwy e-bost neu neges destun. O'r ~3850 eiddo sydd mewn ardaloedd rhybuddion llifogydd, mae tua 78% wedi cofrestru i dderbyn rhybuddion.

Mae newid hinsawdd, digwyddiadau tywydd eithafol, a chyrrff dŵr a addaswyd yn creu bygythiad i weithrediadau naturiol dalgylchoedd dŵr, ac, yn eu tro, y gwasanaethau ecosystem y maent yn eu darparu, gan gynnwys lliniaru llifogydd, gan wneud cymunedau a'r amgylchedd yn fwy tueddol o ddiodef effeithiau llifogydd. Mae strategaeth LIC ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yn cydnabod yr angen i ystyried Rheoli Llifogydd yn Naturiol (NFM) fel modd o leihau perygl llifogydd a pherygl arfordirol. Hefyd, ceir gofyniad i ddatblygiadau ymgorffori systemau draenio cynaliadwy (SDCau), sy'n helpu lleihau dŵr ffo a pherygl llifogydd, a gallant hefyd leihau pwysau ar systemau draenio. Mae cynlluniau Rheoli Llifogydd yn Naturiol a SDCau sydd wedi'u dylunio'n dda hefyd yn dod â buddion lles lluosog i gymunedau.

Mae Rheoli Perygl Llifogydd yng Nghymru yn cynnwys nifer o sefydliadau, a elwir yn Awdurdodau Rheoli Perygl Llifogydd, ac maent yn cynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, awdurdodau lleol, cwmnïau dŵr, a Llywodraeth Cymru.

Newidiadau dros gyfnod

Nid oes modd cymharu setiau data o flynyddoedd blaenorol yn uniongyrchol â data heddiw gan fod dulliau monitro wedi'u mireinio. Fodd bynnag, rydym yn gwybod bod perygl llifogydd a digwyddiadau llifogydd yn cynyddu wrth i newid hinsawdd effeithio ar batrymau tywydd. Nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu y bu newid yn nhrefn y ffynhonnell berygl fwyaf yn Abertawe, sy'n parhau i weld llifogydd dŵr wyneb. Rhwng Ebrill 2017 a Medi 2021, mae cwmnasiad gwasanaeth Cyfoeth Naturiol Cymru i rybuddio am lifogydd wedi cynyddu 8%, o 70-78% o eiddo mewn ardaloedd rhybuddion llifogydd.

Agorodd cynlluniau lliniaru llifogydd mwyaf y blynyddoedd diwethaf yn 2014 a 2019 yng Nghwm Tawe a Phontarddulais, yn y drefn honno. Maent yn gwarchod dros 550 o gartrefi a busnesau gan leihau perygl i bobl a'r economi leol. Mae'r system amddiffyn ym Mro

Abertawe'n cyflwyno buddion lluosog gan ei bod wedi creu ardal gwlypdir naturiol ac wedi uwchraddio rhan o'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol.

Cymariaethau â lleoedd eraill

Yn sgil llifogydd dŵr wyneb yn bennaf, mae ardal o ddinas Abertawe yn un o 33 o leoliadau yng Nghymru sydd wedi'u nodi fel y rhai 'sydd â'r perygl mwyaf sylweddol' yn Asesiad Cychwynnol o'r Bygythiad Llifogydd gan Cyfoeth Naturiol Cymru (2. Cyfoeth Naturiol Cymru; 2018). Ardaloedd cyfagos eraill a gynhwyswyd yw Llanelli, Castell-nedd, Llansawel a Phort Talbot. Mae llawer o ardaloedd eraill yng Nghymru wedi'u heffeithio'n drwm gan ddigwyddiadau llifogydd mawr yn ddiweddar, gan gynnwys Sgiwen, Pontypridd a Llanelli.

Gwahaniaethau ar draws Abertawe

Y 5 brif ardal sydd mewn perygl o ddioddef llifogydd yw Abertawe ganolog, Pontarddulais, Llansamlet, Gorseinon, a Fforestfach. Noder, o fewn yr ardal gymunedol a enwyd, nid yw pob eiddo yn wynebu perygl ac mae'r graddau yn seiliedig ar sgôr gyfunol ar gyfer bob un o'r tair ffynhonnell llifogydd (afon, llanw, a dŵr wyneb). Hefyd. Nid yw perygl llifogydd wedi'i gyfyngu i'r ardaloedd hyn, ac mae rhai eraill yn cynnwys Sgeti, Dulais, Treforys, Tregŵyr a'r Faerdre. Cymerwyd y wybodaeth hon o Gofrestr Cymunedau mewn Perygl Cyfoeth Naturiol Cymru.

Gall newid hinsawdd a thywydd eithafol waethygu anghydraddoldebau i iechyd a llesiant. Fel enghraifft, mae aelwydydd incwm is yn llai abl i wneud eu heiddo'n gryf, neu i adfer o effeithiau llifogydd ac ymateb iddynt (3. LIC; 2021). Canfu ymchwil fod rhai ardaloedd yng nghanol Abertawe ac i'r gogledd ddwyrain o Abertawe, yn ogystal ag ar hyd y bae, yn dioddef anfantais llifogydd gymharol ac eithafol yn seiliedig ar ddod i gysylltiad â llifogydd yn erbyn bregusrwydd cymdeithasol-ofodol yn sgil llifogydd. (4. JRF; 2017). Mae cymunedau gwledig yn dueddol o ddioddef hefyd lle ceir dibyniaeth fawr yn aml ar fynediad i wasanaethau.

"Mae draenio carthffosydd lleol yn warthus yng Nghilâ, gan arwain at lifogydd preswyl a masnachol yn rheolaidd" – ymatebydd i'r arolwg.

Canfyddiadau a phersbectifau

Mae adroddiadau diweddaraf llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru wedi nodi peryglon llifogydd a newidiadau arfordirol i gartrefi, cymunedau, busnesau a seilwaith fel un o feysydd pennaf risgiau newid hinsawdd.

Yn ystod yr ymgynghori ar gyfer Datganiad Ardal De Orllewin Cymru (5. Tudalennau gwe Cyfoeth Naturiol Cymru), dywedodd pobl wrth Cyfoeth Naturiol Cymru bod rhaid i ni: 'Sicrhau bod cymunedau wedi'u hamddiffyn yn dda a'u bod wedi'u paratoi rhag llifogydd. Hysbysu ac addysgu'r cyhoedd a gwleidyddion lleol ar faterion fel perygl llifogydd, gan gynnwys y rheiny sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau cynllunio. Ymgysylltu â chymunedau sy'n byw mewn ardaloedd sydd 'mewn perygl o lifogydd' er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth. Defnyddio technegau adfer dalgylch (dal dŵr yn rhywle arall cyn iddo achosi llifogydd mewn ardal), ochr yn ochr â rheoli perygl llifogydd yn y modd 'traddodiadol'. Hefyd, 'Dylem wella

ymwybyddiaeth o'r modd y bydd y morlin yn newid a rheolaeth ar y traethlin. Mae angen i ni weithio gyda systemau a phrosesau naturiol i helpu addasu i, a lliniaru effeithiau newid hinsawdd; e.e., drwy archwilio atebion naturiol i reoli llifogydd. Mae angen system cynllunio datblygu gadarn arnom sy'n hyrwyddo dyluniadau effeithlon o ran ynni, a lle caiff datblygu ei atal ar orlifdiroedd'.

Tueddiadau a Rhagolygon i'r Dyfodol ar gyfer Abertawe

Tair effaith allweddol newid hinsawdd yn ymwneud â pherygl llifogydd yw digwyddiadau glawiad eithafol, llif llifogydd afon, a lefel y môr yn codi. Yn Abertawe, ar gyfer y cyfnod (2015-2039), fe allwn weld cynnydd hyd at 25% yn llifoedd llifogydd afon a chynnydd o 10% mewn glawiad eithafol, sy'n golygu, ar adegau, y gallai fod cryn dipyn mwy o ddŵr yn yr amgylchedd gan gynyddu perygl llifogydd, yn enwedig mewn dalgyloedd llai, ac yn effeithio ar dir a systemau draenio trefol.

Amcangyfrifir y bydd y newid i lefelau cymedrig cymharol y môr ar gyfer morlin Abertawe a Gŵyr yn cyrraedd rhwng 0.85cm a 1.11m erbyn 2100 – mae'r ffigurau hyn yn seiliedig ar Ragolygon Hinsawdd diweddaraf y DU a chanllawiau Llywodraeth Cymru (6. LIC; 2021).

Mae risgiau o lifogydd ac erydu arfordirol o amgylch arfordir Cymru wedi'u nodi mewn Cynlluniau Rheoli Traethlin (SMP), sydd hefyd yn ystyried cyfleoedd i gynnal a chadw a gwella'r amgylchedd trwy reoli'r risgiau hyn ar gyfer y cyfnod 100 mlynedd 2005-2105. Mae Cynlluniau Rheoli Traethlin yn categoreiddio ble ddylem ni barhau i amddiffyn y morlin neu ble fyddai'n fwy cynaliadwy i addasu dros gyfnod, ac mae penderfyniadau'n cael eu gwneud ynghylch rheoli amddiffynfeydd presennol neu beidio. O amgylch Abertawe a'r Gŵyr, mae'r arfordir o Ddociau Abertawe i Fae Caswell, ynghyd â Crofty a Phenclawdd, wedi'i aseinio i'r categori 'Cynnal y Llinell', gan olygu y bydd yr ardaloedd hyn yn parhau i gael eu hamddiffyn. Mae Oxwich, Porth Einon a Llangynydd yn wynebu newid drwy 'Adlinio a Reolir', sy'n caniatáu i'r glannau symud yn ôl mewn ffordd reoledig, gydag adrannau sy'n weddill yn cael eu nodi fel rhai 'Dim Ymyrraeth Weithredol' sy'n golygu unwaith y bydd unrhyw amddiffynfeydd presennol wedi methu, ni fydd unrhyw fuddsoddiad pellach mewn amddiffynfeydd neu weithrediadau arfordirol, gydag ardaloedd glannau mewn perygl o lifogydd ac erydu arfordirol yn y dyfodol. Bydd y rhannau hyn o arfordir yn colli gwaith diogelu presennol a bydd yn ofynnol gwneud penderfyniadau i baratoi ar gyfer addasu arfordirol sy'n mynnu bod awdurdodau lleol yn gweithio gyda rhanddeiliaid perthnasol a chymunedau ymlaen llaw er mwyn mynd i'r afael â'r heriau datblygol hyn. Mae Cynllun Rheoli Traethlin Trwyn Larnog i Benrhyn Santes Ann yn darparu manylion ychwanegol (7. Grŵp Peirianeg Abertawe a Bae Caerfyrddin; 2012)

Mae hyn yn codi cwestiynau ynglŷn â sut i:

- cynllunio ein traethlin yn y dyfodol ar yr arfordir agored ac ar hyd aberoedd, a
- chyflawni portffolios ymarferol o opsiynau addasu sy'n dechnegol ddichonadwy, sy'n cydbwysu costau a buddion, yn gallu denu cyllid priodol, ac sy'n dderbyniol yn gymdeithasol.

Mae Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio Cyfoeth Naturiol Cymru (8. Tudalennau gwe Cyfoeth Naturiol Cymru, 2021), a ryddhawyd ym mis Hydref 2021, yn ystyried effaith newid hinsawdd dros y ganrif nesaf ac, ochr yn ochr â Pholisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol 15,

mae'n cyfeirio datblygiadau newydd at ardaloedd lle ceir y risg leiaf. Mae'n rhaid i benderfyniadau datblygu a wneir nawr beidio â rhoi mwy o bobl mewn perygl yn y dyfodol (1. LIC; 2020).

Integreiddio

- Mae eiddo amhreswyl yn wynebu perygl lifogydd, gan effeithio ar yr economi leol, swyddi a datblygiad busnes yn y dyfodol.
- Mae mwy o berygl llifogydd i eiddo domestig yn golygu y bydd canlyniadau i dai a chynllunio, ac mae'r effeithiau iechyd corfforol a meddyliol ar bobl yn cael effeithiau canlyniadol ar gyfer gwasanaethau iechyd, cymdeithasol a gwasanaethau cymorth ehangach.
- Dylai effeithiau ar seilwaith, cyfleusterau cymunedol, a chyrchfannau / atyniadau twristiaid gael eu hystyried hefyd.
- Mae goblygiadau ynghlwm wrth lifogydd i bob un o'r saith nod e.e. Mae lleihau perygl llifogydd ac erydu arfordirol yn helpu creu cymunedau deniadol a diogel i fyw a gweithio ynddynt, ac i deithio drwyddynt (1. LIC; 2020).

Gwelliant

Yn unol â nodau ac amcanion y Strategaeth Genedlaethol, bydd gwelliant yn lleihau'r perygl i bobl a chymunedau o lifogydd ac erydu arfordirol, drwy: wella dealltwriaeth o risg a chyfleu risg; parodrwydd ac adeiladu cadernid; rhoi blaenoriaeth i fuddsoddiad i'r cymunedau sy'n wynebu'r risg fwyaf; atal mwy o bobl rhag bod yn agored i risg; a, darparu ymateb effeithiol a chynaliadwy i ddigwyddiadau. Yn lleol, bydd hyn yn cynnwys darparu adnoddau i weithredu'r Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd ar gyfer Abertawe ynghyd â datblygu mentrau nid yn unig i leihau lefel a graddfa risg, ond mae angen hefyd addasu a pharatoi ein cymunedau a'n seilwaith i'r dyfodol. Gallai hyn olygu gwella amddiffynfeydd, cynllunio deallus ac ôl-osod ardaloedd trefol - mewn rhai achosion 'creu gofod ar gyfer dŵr' - a rheolaeth well, integredig ar dir a dŵr ar draws dalgylchoedd. Hefyd, cydnabod yr angen i symud allan o ffordd niwed.

Byddai ymwybyddiaeth gyffredinol ac ymatebolrwydd ar draws darparwyr gwasanaeth a'r boblogaeth gyffredinol yn fuddiol. Byddai o gymorth pe bai darparwyr gofal sylfaenol, gwasanaethau iechyd cymunedol a meddyliol, a chynllunwyr argyfwng yn fwy effro i angen cynyddol am wasanaethau mewn ardaloedd yr effeithir arnynt gan lifogydd, ac i gynllunio ar eu cyfer. Hefyd, cynyddu nifer yr eiddo sydd wedi cofrestru ar gyfer system rhybuddion llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru a chefnogi cymunedau i gymryd mwy o gyfrifoldeb ar y cyd.

Y trydydd Aseiad o Risgiau Newid Hinsawdd i Gymru a gyhoeddwyd yn ddiweddar (ARNH3) (9. Netherwood, A.; 2021) yn nodi'r risgiau hinsawdd canlynol sy'n benodol i Lifogydd a Newid Arfordirol lle mae angen mwy o weithredu i fynd i'r afael ag effeithiau:

- llifogydd arfordirol, erydu, a ffactorau hinsawdd ar rywogaethau a chynefinoedd arfordirol
- dŵr afonydd a dŵr wyneb yn peri llifogydd ar wasanaethau seilwaith
- methiant llethrau ac argloddiau ar draws rhydwethiau trafndiaeth
- llifogydd ar bobl, cymunedau ac adeiladau
- lefel y môr yn codi ar hyfywedd cymunedau arfordirol

- cynnydd mewn perygl llifogydd (pob ffynhonnell), tywydd eithafol, erydu arfordirol a lefel y môr yn codi ar leoliadau busnes a seilwaith.

Roedd CCRA3 yn nodi'r risgiau canlynol hefyd sy'n benodol i lifogydd a newid arfordirol y mae'n ofynnol ymchwilio ymhellach iddynt:

- lefel y môr yn codi, ymwthiad heli ar ddyfrhaenau a thir amaethyddol
- llifogydd ac erydu ar wasanaethau seilwaith, pontydd a phiblinellau.

Mae angen rhagor o ymchwil er mwyn canfod sut y bydd y risgiau hyn yn effeithio ar les yn Abertawe, a pha adnodd fydd ei angen i addasu/liniaru ar eu cyfer.

Ynglŷn â'r dystiolaeth

Mae'r dystiolaeth y cyfeirir ati yn gynhwysfawr a chadarn er y bydd deall risgiau newid hinsawdd mewn cyd-destun lleol yn elwa o ymchwilio ymhellach ac ymgysylltu â rhanddeiliaid.

Gellir gwneud mwy o ymchwil ar anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol perygl llifogydd ac effeithiau ar gymunedau bregus yn Abertawe.

Casgliadau a negeseuon allweddol

Mae bron i 12,000 eiddo yn Abertawe mewn perygl o ddiodeff llifogydd, a dŵr wyneb yw'r ffynhonnell fwyaf aml a chyffredin. Mae nifer yr eiddo, y gwasanaethau ac isadeiledd sydd mewn perygl o lifogydd yn Abertawe yn y dyfodol bron yn sicr o dyfu o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd, a bydd y risg i asedau atal llifogydd a'r costau i'w cynnal a'u cadw hefyd yn cynyddu. Mae'n annhebygol y byddwn fyth yn gallu rheoli'r holl ddigwyddiadau llifogydd yn llwyr a lliniaru yn eu herbyn.

Mae angen dull lefel dalgylch o reoli dŵr a'r tir y mae'n llifo drosto, gan roi ystyriaeth i atebion ar sail natur i arafu llif y dŵr, gwella dulliau gwanhau llifogydd, a darparu buddion lluosog eraill ar gyfer lles, gan gynnwys ansawdd dŵr a maint, wrth fynd i'r afael â'r argyfyngau natur a'r hinsawdd.

Mae angen i bolisi addasu i hinsawdd fynd i'r afael ag ystod ehangach o bryderon a chynnwys meysydd polisi cymdeithasol na chysylltir nhw fel arfer â newid hinsawdd (JRF, 2011). Mae cynllunio ar gyfer ymaddasu effeithiol yn cynnwys meddwl am wahanol grwpiau o bobl a sut y byddant yn cael eu heffeithio er mwyn sicrhau bod adnoddau yn cael eu cyfeirio i ardaloedd sydd â'r risg/angen uchaf. Bydd angen i gyrff sy'n gyfrifol am reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol fabwysiadu ymagweddau mwy uchelgeisiol a chydweithredol at addasu, gan weithio gyda chymunedau i'w hysbysu a'u grymuso ar gyfer effeithiau presennol ac effeithiau a ragwelir, a rhaid i benderfyniadau a wneir nawr beidio â rhoi mwy o bobl mewn perygl yn y dyfodol.

Priddoedd, defnydd tir, a bwyd

Mae pridd yn adnodd hanfodol a chyfyngedig sy'n cefnogi pob agwedd ar yr amgylchedd naturiol a'r amgylchedd adeiledig y mae llesiant yn dibynnu arno (1. Cyfoeth Naturiol Cymru; 2020a). Mae priddoedd iach yn hanfodol ar gyfer cylchau maethynnau, darparu bioamrywiaeth gyfoethog, lleihau risg llifogydd i lawr yr afon drwy arafu llif y dŵr, helpu i reoleiddio'r hinsawdd, ansawdd aer a dŵr, a chynhyrchu cyflenwad cynaliadwy o fwyd, ffibr a phren. Mae priddoedd yn storfa garbon sylweddol hefyd gan eu gwneud nhw'n bwysig ar gyfer lliniaru newid hinsawdd, yn enwedig y rheiny â chynnwys carbon a deunydd organig uchel, fel mawn - fodd bynnag, mae mwyafrif yr adnodd mawn yng Nghymru mewn cyflwr gwael. 'Crynodeiad carbon a deunydd organig mewn pridd' yw un o Ddangosyddion Llesiant Cenedlaethol Cymru, ac ni ellir cyflawni llawer o Nodau Datblygu Cynaliadwy heb briddoedd iach a defnydd cynaliadwy o dir (Cyfoeth Naturiol Cymru, 2021. SoNaRR).

Mae ein sectorau cynhyrchu cynradd - amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgodfeydd – yn cefnogi bywoliaethau a chymunedau, yn darparu bwyd a nwyddau eraill neu wasanaethau i ni, a gall y ffordd y maent yn rheoli tir gynnal, adfywio, neu ddisbyddu'r adnoddau naturiol y dibynnwn arnynt. Mae gofynion cystadleuol ar gyfer defnydd tir, fel cynhyrchu bwyd, tai, datblygiad economaidd, ffyrdd a seilwaith arall, yn rhoi pwysau ar y tir gan arwain at effeithiau amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol. Yn fyd-eang, nodwyd bod defnydd tir yn un o sbardunau mawr yr argyfwng natur (2. Cyfoeth Naturiol Cymru; 2022b).

Mae bwyd yn hanfodol ar gyfer bywyd, ac mae ein hadnoddau naturiol yn hanfodol er mwyn cynhyrchu bwyd. Fodd bynnag, mae ein system bwyd fodern, dwysach a diwydiannol yn effeithio ar yr amgylchedd, gan gynnwys drwy allyriadau llygryddion, disbyddu adnoddau, colli bioamrywiaeth, a chywasgu ac erydu priddoedd, ac effeithio ar ansawdd dŵr. Fe'i nodwyd fel un o dair system graidd sy'n rhoi'r pwysau mwyaf ar ecosystemau (3. CNC; 2020c). Amcangyfrifwyd ar gyfer pob £1 y mae defnyddwyr yn ei wario ar fwyd, mae £1 o gostau eraill yn cael eu ysgwyddo gan gymdeithas o ran effaith iechyd a llygredd dŵr (Fitzpatrick et al., 2017).

Fodd bynnag, mae galw ac ymwybyddiaeth cynyddol o'r angen am ddulliau mwy lleol ac adfywiol o gynhyrchu bwyd, er enghraifft ehangu Amaethyddiaeth â Chymorth y Gymuned (CSA) a mentrau tebyg yng Nghymru a thu hwnt.

Mae'r argyfyngau hinsawdd a natur yn golygu bod arferion rheoli tir yn dod yn fwy cynaliadwy ac adfywiol, ac yn llunio polisi'r llywodraeth ynghylch tir, priddoedd a bwyd. Yn wir, bydd Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd Llywodraeth Cymru (CFfC) yn diwygio'r ffordd y cefnogir amaethyddiaeth. Bydd dull rheoli tir cynaliadwy yn darparu'r fframwaith cyffredinol, gan alluogi cenedlaethau o ffermwyr presennol a'r dyfodol i gael eu gwobrwyo am gynhyrchu bwyd yn gynaliadwy a'u cyfraniad at ein lles drwy nwyddau "nad ydynt yn rhai marchnad" ychwanegol – fel iechyd pridd, aer glân a dŵr, gwell bioamrywiaeth, camau gweithredu i leihau cynhesu byd-eang, a gwella iechyd y boblogaeth o ganlyniad i fwyd maethlon o ansawdd uchel.

Yn rhanbarthol, mae'r Datganiad Ardal ar gyfer de orllewin Cymru yn cynnwys 'Galluogi Rheoli Tir yn Gynaliadwy' fel un o'i 4 thema allweddol.

Cryfderau ac Asedau

Mae Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) y sir yn nodi rôl bwysig priddoedd wrth liniaru effeithiau newid hinsawdd ar lefel leol. Mae'r polisi'n hyrwyddo y dylid cadw tir "fel pridd ar gyfer tyfu planhigion sy'n agored i ddal sylweddau organig...", gan ychwanegu, gyda chyfeiriad at berygl llifogydd, "Mae pridd agored ar gyfer tyfu planhigion yn amsugno glaw a dŵr ffo." (Cyngor Abertawe CDLI 2010-2025; 2019).

Gellir dadansoddi defnydd tir Abertawe yn ôl 'math' o ddefnydd tir. Mae data dangosol yn awgrymu mai glaswelltir (amaethyddiaeth gan amlaf, gan gynnwys tir comin ar ~30%) sydd bennaf ar 71%, aneddiadau 18%, tir coedwig ~8%, a gwlyptiroedd, 'arall', a thir cynydu ~3%. Mae gan lawer o diroedd comin Abertawe briddoedd mawnog oddi tano, ond maent yn destun esgeulustod neu reolaeth amhriodol gan gynnwys gor-bori neu dan-bori a llosgiadau anghyfreithlon (a all arwain at ryddhau symiau mawr o garbon i'r atmosffer), sy'n amharu ar eu gweithrediad a'u gallu i liniaru yn erbyn newid yn yr hinsawdd.

Gydag arwynebedd sylweddol o dir ffermio yn y sir o hyd, mae cyfle i ymgorffori rheoli tir yn gynaliadwy trwy gynllun cyfredol Glastir, ac yn y dyfodol, y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Dylai porwyr, ffermwyr a thirfeddianwyr gael cefnogaeth leol briodol i elwa o'r cynlluniau cenedlaethol hyn. Ledled Cymru, lle bu cyfranogiad mewn cynlluniau amaeth-amgylcheddol, dadansoddi pridd fu un o'r ymgymeriadau mwyaf poblogaidd sydd wedi arwain at newid mewn rheoli tir, fel lleihau gwasgau gwrteithiau (5. Busnes Cymru; 2019). Mewn canolfannau trefol, bydd seilwaith gwyrdd yn chwarae rhan allweddol i greu a chynnal tir a phriddoedd iach.

Mae'r strategaeth bresennol ar gyfer Rhaglen Datblygu Gwledig Abertawe yn seiliedig ar egwyddorion Un Blaned, gan geisio lleihau ôl-troed ecolegol yr ardal gan gynnwys trwy gadwyni cyflenwi bwyd lleol, cynaliadwy a byrrach. Nod un prosiect Rhaglen Datblygu Gwledig Abertawe dan arweiniad tîm Adfywio Economaidd Cyngor Abertawe oedd mapio cynnyrch lleol, nodi cyfleoedd i fusnesau newydd a busnesau presennol, a byrhau cadwyni cyflenwi. Wedi hynny, crëwyd swydd Cydlynedd Bwyd Lleol o fewn Cyngor Abertawe i hyrwyddo'r gwaith hwn.

Pan gynhaliwyd yr asesiad llesiant diwethaf (2017), dim ond un cynllun Amaethyddiaeth a Gefnogir gan Gymunedau oedd yn bodoli yn Abertawe. Yn ystod y 5 mlynedd ers hynny, mae pedwar arall bellach wedi'u sefydlu sy'n darparu cynnyrch ffres, organig i dros 300 o aelwydydd a busnesau lleol yn wythnosol. Mae un o bob pump CSA yn cael ei datblygu mewn cydweithrediad â'r Bwrdd Iechyd yn Ysbyty Treforys, ac mae galw amlwg am ragor. Gyda'i gilydd, gall y cynlluniau hyn gyfrannu at economi leol ffyniannus, ecoleg leol doreithiog, a darparu'r bwyd iachaf posibl.

Mae llawer o enghreifftiau eraill o brosiectau bwyd a thyfu llwyddiannus ar raddfa fach ac yn cael eu harwain gan gymunedau, ac mae angen a galw cynyddol am y rhain. Mae Rhwydwaith Tyfu Cymunedol Abertawe yn hyrwyddo ac yn darparu cymorth i wella mynediad i gynnyrch fforddiadwy ac iach, diogelu'r cyflenwad bwyd, a chadernid cymunedol. Mae Map Gofodau Tyfu Abertawe yn rhestru dros 50 o brosiectau, adnoddau a sefydliadau - sy'n dangos eto fod

tyfu'n lleol yn bwysig i bobl ledled y sir. Mae llawer o brosiectau, fel Vetch Veg a Seaview Community Green Space yn cyfuno cynhyrchu bwyd cynaliadwy a chydweithredol, cyfiawnder cymdeithasol, iechyd a llesiant, gyda gwella'r tir ar gyfer bioamrywiaeth, gan ddangos arfer da wedi'i brofi y gellir ei ailadrodd mewn mwy o gymunedau – yn amodol ar fod tir ar gael!

Mewn ymateb i COP26, ffurfiwyd grŵp cydnerthedd bwyd yn gynharach eleni, gan gynnwys cynrychiolaeth o dîm Mynd i'r Afael â Thlodi Cyngor Abertawe. Mae is-grŵp – Bwyd Abertawe – nawr yn ystyried dynodi Abertawe fel Lle Bwyd Cynaliadwy, gan weithio gyda rhwydwaith o'r DU i yrru'r broses o drosglwyddo i system fwyd iach, gynaliadwy a mwy teg ymlaen, a'i gwneud yn nodwedd ddiffiniol o lle mae pobl yn byw.

Newidiadau dros gyfnod

Er bod pwysigrwydd amaethyddiaeth i economi Abertawe wedi dirywio yn y degawdau diwethaf wrth i ffermydd ddargyfeirio i ffwrdd oddi wrth arferion ffermio traddodiadol tuag at ffrydiau incwm eraill, mae tyfwyr a chynhyrchwyr graddfa fach, yn enwedig y rheiny â chanddynt fuddiannau cymunedol a chymdeithasol hefyd, yn cynyddu mewn nifer, felly hefyd cyfleoedd i gynyddu incwm fferm trwy ddatblygu marchnadoedd lleol sy'n gwerthu'n uniongyrchol i ddefnyddwyr ac yn byrhau cadwyni cyflenwi caffael. Er enghraifft, mae Farm Co, yn Nhregŵyr, yn darparu marchnad ddigidol ar gyfer cynnyrch rhanbarthol, ac mae'n gweithio gyda thyfwyr i gynyddu cyfran ei gynnig o Abertawe a'r Gŵyr, gan helpu lleihau 'milltiroedd bwyd' mwy fyth.

Cymariaethau â lleoedd eraill

- Amcangyfrifir bod priddoedd Cymru yn cynnwys 410 miliwn tonn o garbon (6. Cyfoeth Naturiol Cymru, 2016; UK NEA, 2011). Nid oedd y data cyfwerth ar gyfer Abertawe ar gael adeg ysgrifennu hwn, ond bydd yn ddefnyddiol wrth adrodd ar gynnydd i Abertawe fel sir â charbon sero net erbyn 2050.
- Mae mawndiroedd wedi'u gwasgaru'n eang ledled Cymru, gan orchuddio arwynebedd dros 90,000 hectar (ha). Mae cyfran fawr o'r cynefinoedd hyn mewn cyflwr anffafriol, yn bennaf oherwydd materion fel draeniad artiffisial, coedwigo, neu gyfundrefnau pori amhriodol, gan arwain at sychu ac erydu priddoedd mawn. Mae CNC yn arwain y Rhaglen Mawndiroedd Genedlaethol 5 mlynedd a fydd yn adfer tua 3,000 hectar ledled Cymru, gan gynnwys 490 hectar o'r cynefin hwn yn CNPT a Rhondda Cynon Taf.
- Yn Sir Fynwy a Bannau Brycheiniog, mae'r 'Grŵp 1200' (7. Ein Gwefan Bwyd) - sy'n cynnwys entrepreneuriaid lleol, gweithwyr bwyd proffesiynol, ffermwyr a thyfwyr - wedi sefydlu cynllun uchelgeisiol i drawsnewid yr economi fwyd leol drwy ffermio ar raddfa fach, adfywiol, ffermio di-garbon, creu cwmni cydweithredol masnachol hyfyw a fydd yn darparu cyflogaeth uchel ar raddfa 1 swydd yr erw, ac adfywio'r rhanbarth.
- Yng ngorllewin Cymru, mae rhaglen beilot Dosbarthu Bwyd Cymunedol Cymru a ariennir gan LIC yn cysylltu pobl ag o ble y daw y bwyd, a bydd yn hwyluso gwirfoddolwyr i gysylltu â chynhyrchwyr a chyflenwyr bwyd lleol er mwyn cael mynediad hawdd at fwyd iach sy'n werth gwyb am arian.
- Mae BGC Gwent yn cynnal prosiect peilot a rhaglen ymchwil 'Food Futures' i ddeall a nodi heriau a chyfleoedd i drawsnewid y system fwyd yn ne-ddwyrain Cymru.

Gwahaniaethau ar draws Abertawe

- Mae'r pedwar CSA presennol wedi'u lleoli yng ngorllewin Abertawe ac yn cyflenwi cynnyrch i orllewin Abertawe. Bydd y pumed CSA sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd wedi'i lleoli yng ngogledd a dwyrain Abertawe ac yn darparu'n benodol i'r ardal honno.
- Nid yw mynediad at fwyd iach a / neu fwyd wedi'i dyfu'n lleol yn gyfartal ar draws y sir, ac yn aml mae wedi'i gyfyngu gan gostau ac argaeledd. Mae rhai pobl mewn aelwydydd ar incwm isel yn byw mewn tlodi bwyd / heb sicrwydd cyflenwad bwyd ac mae hynny, ynghyd â chymhwysedd i dderbyn prydau ysgol am ddim, yn cynyddu – gweler y pwnc Tlodi yn y bennod Cymdeithasol.

Canfyddiadau a phersbectifau

Mewn ardaloedd trefol, collwyd pridd a thir cynhyrchiol i ddatblygiad a selio pridd wrth iddo gael ei orchuddio gan ffyrdd, palmentydd, tramwyfeydd a phatios. Mae'r pridd mewn seilwaith gwyrdd yn gweithio fel sbwng, yn storio dŵr a fyddai fel arall yn mynd yn syth i mewn i ddraeniau, a allai gael eu llethu yn ystod digwyddiadau glawiad eithafol sy'n achosi llifogydd dŵr wyneb. Gall y dŵr hwn sydd wedi'i storio ddarparu oeri anweddol hefyd, a fydd yn fuddiol wrth i dymereddau'r haf godi gyda newid hinsawdd (8. Cyngor Abertawe: 2021).

Mae galw ac ymwybyddiaeth cynyddol o'r angen am ddulliau mwy lleol ac adfywiol o gynhyrchu bwyd, er enghraifft gydag Amaethyddiaeth â Chymorth y Gymuned (CSA) wedi'i ehangu yng Nghymru a thu hwnt. (Mae CSA yn ffordd gynaliadwy, gymdeithasol, a phroffidiol o gysylltu tir a chymuned, lle mae cynhyrchwyr a defnyddwyr yn cymryd cyfrifoldeb a rennir am sut mae bwyd yn cael ei gynhyrchu. Mae cyrff cyhoeddus hefyd yn edrych ar sut, ac o ble y maen nhw'n caffael bwyd, a sut y gellir defnyddio rheolaeth o'u tir i wella bioamrywiaeth ac agweddau eraill ar les). Mae dulliau cynaliadwy nid yn unig yn darparu bwyd iachach ond hefyd yn gwella incwm ffermwyr yn sylweddol. Mae astudiaethau'n dangos bod systemau ar draws Ewrop sy'n cyflogi ystod o arferion mwy cynaliadwy yn darparu rhwng 10% a 110% o gynnydd mewn incwm ffermydd (9. van der Ploeg et al., 2019, CNC; 2021).

Canfu arolwg a gynhaliwyd yn Abertawe y byddai 172 (94%) o 183 o ymatebwyr yn ystyried ymuno â chynllun bocs llysiâu Amaethyddiaeth a Gefnogir gan Gymunedau. Roedd adroddiad yn 2020 ar Gynlluniau Amaethyddiaeth a Gefnogir gan Gymunedau yng Nghymru (10. Amaethyddiaeth a Gefnogir gan Gymunedau; 2020) yn amlygu bod buddion ehangach i'w cael hefyd, gan gynnwys bod 62% o aelodau cynlluniau Amaethyddiaeth a Gefnogir gan Gymunedau yn gwneud dewisiadau bwyd iachach o ganlyniad i fod yn aelod; dywedodd; dywedodd 74% bod eu hymwybyddiaeth o'u cymunedau (gweithgareddau, prosiectau, gwahanol ddiwylliannau) wedi cynyddu; a, dywedodd dros 90% o aelodau bod Amaethyddiaeth a Gefnogir gan Gymunedau wedi cael effaith gadarnhaol ar eu hwyliau a'u hapusrwydd cyffredinol.

Bu'r gynhadledd 'Food for the Region', dan arweiniad 4theRegion ym mis Hydref 2021, yn hwyluso trafodaeth rhwng cyfranogwyr amrywiol ynghylch cyd-greu system fwyd iachach a mwy adfywiol yn ne-orllewin Cymru. Roedd y negeseuon allweddol yn cynnwys: gwneud tir ar gael ar gyfer tyfu, arwain trwy gaffael, cysylltu lletygarwch â chyflenwyr lleol, hyrwyddo

cynnyrch rhanbarthol, cydweithio ymhlith cynhyrchwyr bach, cysylltu ysgolion â ffermydd a chyfleoedd gyrfa, sefydlu Lleuedd Bwyd Cynaliadwy.

Yn ôl Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC) mae angen gwneud mwy i ddatblygu systemau bwyd cydnerth i ddiogelu iechyd yng Nghymru mewn ymateb i'r newid hinsawdd. Mae angen mwy o ymchwiliad a gwell data i gynllunio ar gyfer risgiau'r hinsawdd i systemau bwyd yn awr ac yn y dyfodol, er mwyn sicrhau bod grwpiau sy'n agored i niwed yn cael eu diogelu a bod yr effeithiau i iechyd mor isel â phosib. Maen nhw'n ychwanegu mai dim ond drwy wneud i ystod eang o sectorau, gan gynnwys iechyd, yr amgylchedd, y llywodraeth, cymdeithas sifil, ffermwyr, masnach a chynhyrchwyr/manwerthwyr bwyd weithio gyda'i gilydd y gellir cyflawni diogelwch bwyd er iechyd a lles (11. PHW; 2021).

"Mae angen mwy o bwyslais ar fwyd a newid yr amgylcheddau bwyd i fod yn iach; sicrhau cadwyni cyflenwi bwyd lleol, ffres, byr, tymhorol, adfywiol, o ansawdd uchel, a maethlon; cynyddu mynediad i dir ar gyfer amaethyddiaeth/agro-ecoleg adfywiol..."
– ymatebydd i'r arolwg.

Tueddiadau a Rhagolygon i'r Dyfodol ar gyfer Abertawe

Y bygythiad mwyaf i briddoedd yw newid hinsawdd. Mae glawiad dwysach ac amlach, a llifogydd, yn cynyddu'r her o atal erydu pridd a dŵr ffo, ac effeithiau dilynol ar ansawdd dŵr, a mwy o ansefydlogrwydd ar lethrau (12. Cyfoeth Naturiol Cymru; SoNaRR 2021, Nod 1). Erbyn 2050 (senario allyriadau CO₂ uchel) fe allai'r arwynebedd tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas (yng Nghymru) leihau'n sylweddol o 22% i 9% erbyn 2080, ac mae goblygiadau yn hynny i'r bwyd sy'n cael ei dyfu a'i brynu'n lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Bydd priddoedd gyda chynnwys organig uchel a strwythur pridd da yn fwy cydnerth ac yn gallu cadw a storio mwy o ddŵr a maetholion yn well ar gyfer tyfiant planhigion.

Mae'r galw cynyddol am fwyd yn cael ei yrru gan dwf yn y boblogaeth, newidiadau mewn dewisiadau deietegol a thwf incwm. Mae adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol 2021 yn dweud y rhagamcanir y bydd poblogaeth y byd yn fwy na 9 biliwn erbyn 2050, ac i ateb y galw cynyddol hwn am fwyd rhagwelir y bydd angen i gynhyrchu amaethyddol byd-eang gynyddu 50 y cant o waelodlin 2012 erbyn 2050. Fodd bynnag, fel gyda gweddill y DU, mae Cymru'n dibynnu ar fewnforion bwyd o wledydd eraill ar hyn o bryd, gan gynnwys y rheiny sy'n aml yn agored i niwed o effeithiau newid hinsawdd, gyda pherygl arbennig i gynhyrchiant bwyd.

Mae ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur yn debygol hefyd o arwain at gyfnewidiadau rhwng defnyddiau tir sy'n cystadlu; er enghraifft, gallai neilltuo tir ar gyfer gwarchod bioamrywiaeth, adfer ecosystemau neu bioynni fynd â gofod i ffwrdd oddi wrth amaethyddiaeth. Gall plannu coed ar dir amaethyddol olygu gwahardd pori yn y tymor byr i'r tymor canolig gan y cymer ddegawdau i goed aeddfed ddatblygu. Mae poblogaeth Abertawe'n parhau i dyfu, gan gynyddu 3.2% i 254,400 o bobl yn y cyfnod 2018-2028. Gellir disgwyl y bydd cynnydd yn y galw am dai, bwyd, a gwasanaethau eraill, ddilyn gyda phwysau ychwanegol posibl ar ddefnydd tir. Yn wir, bydd elfen sylweddol o dwf yn Abertawe yn y dyfodol yn cael ei gyflawni ar safleoedd maes glas er y gwneir hynny mewn modd cynaliadwy.

Integreiddio

Mae gan y thema pridd, tir a bwyd gysylltiadau â phob pwnc yn y dimensiwn amgylchedd, o effaith ar ecosystemau ac ansawdd/maint dŵr i wastraff bwyd a thrafnidiaeth (milltiroedd bwyd) a newid yn yr hinsawdd, er enghraifft gall amaethyddiaeth adfywiol gynyddu gallu pridd i ddal dŵr er mwyn ailfeddiannu acwarferau, a gall bwyd sy'n ddwys o ran maetholion wella strwythur pridd. Ceir integreiddio hefyd â nifer o bynciau ar draws dimensiynau llesiant eraill, gan gynnwys iechyd, tlodi, addysg, gwirfoddoli, sgiliau, swyddi, twristiaeth, treftadaeth a'r iaith Gymraeg, sy'n dod â chyfle ar gyfer Abertawe fwy cynaliadwy.

Gwelliant

Fel yr adroddwyd yn SoNaRR, mae cynnal cynnwys carbon priddoedd yn flaenoriaeth allweddol wrth gyfyngu ar allyriadau nwyon tŷ gwydr cyffredinol yng Nghymru, yn ogystal â rheoli adnoddau dŵr yn wyneb newid hinsawdd anochel. Byddai adfer ardaloedd mawn yn cyflawni buddion niferus i fioamrywiaeth, storio/ atafaelu carbon a lliniaru perygl llifogydd. Yn lleol, mae cyfadeilad Crymlyn yn bwysig yn rhyngwladol a dyma'r brif flaenoriaeth ar gyfer adferiad yn Abertawe (11. CNC; 2017). Mae bellach yn safle allweddol sydd wedi'i gynnwys ym mhrosiect LIFE Quake a ariennir gan yr UE, 2022-2026, dan arweiniad CNC.

Byddai cynyddu a gwella adnoddau pridd mewn ardaloedd trefol ac o'u hamgylch yn helpu i liniaru newid yn yr hinsawdd ac effeithiau sy'n gysylltiedig â risg llifogydd a thymheredd cynyddol. Gan nodi bod Abertawe ganolog yn un o'r 33 o ardaloedd y nodwyd eu bod yn y perygl mwyaf o lifogydd yng Nghymru (gweler yr adran Perygl Llifogydd), bydd rhoi'r strategaeth Isadeiledd Gwyrdd (IG) ar waith yn helpu i leihau effeithiau yn ogystal â darparu buddion lluosog a gwrthdroi colledion bioamrywiaeth (gweler yr adran IG a Chreu Lleuedd).

I fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur, mae ardaloedd amlwg wedi'u dynodi fel rhai pwysig i wella rheolaeth tir a sicrhau rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae'r rhain yn cynnwys:

1. Taliadau ar gyfer rheoli tir yn gynaliadwy
2. Cysylltu cymunedau â'u bwyd a'u coed
3. Rheoli tir comin
4. Mabwysiadu ymagwedd seiliedig ar ddalgylchoedd

Mae'r galw am gynnyrch sydd wedi'i dyfu'n lleol yn mynd y tu hwnt i'r cyflenwad yn Abertawe ac ar draws Cymru/ y DU ar hyn o bryd. Mae cyfle, felly, i gefnogi'r gwaith o ehangu tyfu ar raddfa fechan ymhellach ar draws Abertawe ac yn rhanbarthol. Mae hefyd angen rhoi ystyriaeth i sicrhau bod bwyd sy'n cael ei gynhyrchu yn faethlon, gan y gall gwneud hynny leihau colli a gwastraffu bwyd.

Ynglŷn â'r dystiolaeth

Mae angen mwy o ddata ar iechyd, gweithrediad, a cholli yn erbyn ffurfio priddoedd yn Abertawe, a'r potensial ar gyfer atgynhyrchu pridd a mawn er mwyn cynyddu cadernid yn wyneb bygythiadau niferus, gan gynnwys newid hinsawdd. Byddai hyn yn helpu deall peryglon a chyfleoedd amgylcheddol yn ogystal â risgiau a chyfleoedd economaidd.

Mae angen i ni hefyd ddeall yn well yr heriau presennol a thebygol yn y dyfodol o ran cynhyrchu a bwyta bwyd yn ogystal â thlodi bwyd yn Abertawe a sut bydd y rhain yn cael sylw mewn ffordd nad yw'n peryglu lles amgylcheddol.

Casgliadau a negeseuon allweddol

Mae llawer o le i wella pob agwedd ar les drwy briddoedd, defnydd tir, a'r system fwyd.

Mae pwysigrwydd pridd ar gyfer bywyd cynaliadwy, gwydn ac iach i ni i gyd yn glir, ac mae'n galonogol bod CDLI Abertawe yn cydnabod arwyddocâd pridd fel adnodd naturiol y dylid ei ddiogelu. Fodd bynnag, mae bwlch posib yn y dystiolaeth o ran cyflwr adnoddau pridd Abertawe, er enghraifft, a dylid deall hyn yn well er mwyn gwneud penderfyniadau rheoli gwybodus.

Mae newid i ddefnydd tir i gynyddu gorchudd coed, gwarchod a gwella iechyd a gweithrediad pridd, adfer mawndiroedd, a chynyddu cynhyrchu ynni adnewyddadwy wedi'u nodi i gyfrannu at bolisiau datgarboneiddio, adfer natur, lliniaru llifogydd a sychder, a chyflenwi aer a dŵr glân. Mae ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur yn debygol o arwain at gyfnewidiad rhwng y rhain a defnyddiau tir eraill sy'n cystadlu, e.e. cynhyrchu bwyd, tai, lliniaru hinsawdd.

Fel yr adlewyrchir yn y Datganiad Ardal ar gyfer de orllewin Cymru, mae pynciau amlwg wedi'u nodi fel rhai pwysig i wella rheolaeth tir a sicrhau rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Taliadau ar gyfer rheoli tir yn gynaliadwy
- Cysylltu cymunedau â'u bwyd a'u coed
- Rheoli tir comin
- Mabwysiadu ymagwedd seiliedig ar ddalgylchoedd
- Gwella dealltwriaeth o stociau pridd a chapasiti pridd ar gyfer dal a storio carbon yn lleol


Yn Abertawe mae nifer o brosiectau a sefydliadau eisoes yn gweithio tuag at y canlyniadau uchod ac yn eu cyflawni, gydag awydd ac angen pellach i ehangu, ailadrodd arfer da, a threialu dulliau newydd. Mae hyn yn gryfder allweddol yn yr ardal a gellid adeiladu arno i drawsnewid, yn benodol, sut y caiff bwyd ei gynhyrchu a'i brynu. Fodd bynnag, weithiau, gall argaeledd tir a chefnogaeth wleidyddol i weithio mewn ffyrdd newydd fod yn ffactor cyfyngol.

Mae newid hinsawdd ac ansefydlogrwydd byd-eang eisoes yn effeithio ar ddiogelwch bwyd a'r bwyd y gallwn ei gael. Argymhellir dilyn strategaeth fwyd i Abertawe a chyda hynny, ddynodi Abertawe yn Lle Bwyd Cynaliadwy, i weithio ar y cyd ac yn gyd-gynhyrchiol ar draws pob agwedd ar y system fwyd i ddatrys rhai o faterion cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd mwyaf brys heddiw, gan gynnwys tlodi bwyd, diogelwch bwyd/maetheg, ac iechyd y boblogaeth. Mae'n hanfodol bod yr uchod yn cael eu llywio gan ddealltwriaeth well a chynhwysfawr o'r heriau a'r cyfleoedd o fewn y system bwyd yn Abertawe ac ar draws rhanbarth Bae Abertawe.

Rheoli Seilwaith Gwyrdd a Chreu Lleoedd

Diffinnir Seilwaith Gwyrdd gan lywodraeth y DU fel rhwydwaith o fannau gwyrdd amlswyddogaethol, trefol a gwledig, sy'n gallu cyflawni ystod eang o fuddion amgylcheddol a buddion ansawdd bywyd ar gyfer cymunedau lleol. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, coed ar strydoedd, toeon a waliau gwyrdd, mannau chwarae naturiol, gerddi bywyd gwyllt / natur, coridorau peillyddion, tirlunio, draeniad ac atebion rheoli ansawdd aer. Gall seilwaith gwyrdd fod yn fodd effeithiol o wella iechyd a llesiant, trwy gysylltu anheddau, gweithleoedd a chyfleusterau cymunedol, gan wella llwybrau teithio llesol a darparu mannau gwyrdd hygrych, o ansawdd uchel.

Ffordd holistig o fynd ati i gynllunio a dylunio datblygiadau a lleoedd yw creu lleoedd, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau positif. Mae'n tynnu ar botensial ardal i greu datblygiadau a mannau cyhoeddus o ansawdd uchel sy'n hyrwyddo ffyniant, iechyd, hapusrwydd a llesiant pobl yn eu hystyr ehangaf (Llywodraeth Cymru, 2021: Polisi Cynllunio Cymru, rhifyn 11).



Ffigur En5: Themâu sy'n Cyfrannu Gyda'i Gilydd at Creu Lleoedd (Llywodraeth Cymru, 2021: Polisi Cynllunio Cymru, rhifyn 11).

Mae tystiolaeth amlwg fod ansawdd yr amgylchedd adeiledig a naturiol yn gallu cefnogi ac effeithio ar lesiant corfforol a meddyliol. Dangoswyd bod presenoldeb priodweddau penodol fel mynediad i fannau gwyrdd agored, bwyd iach, cyfleoedd i fod yn actif, aer glân, adeiladau sydd wedi'u dylunio'n dda sy'n hyrwyddo llesiant, a gwasanaethau cefnogol yn cael eu darparu o gyfleusterau lleol oll yn helpu pobl i ffynnu. I'r gwrthwyneb, lle mae'r priodweddau hyn yn eisiau neu'n gyfyngedig, er enghraifft, diffyg mannau gwyrdd agored, mae'n debygol y bydd effaith negyddol. (Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2018: Iechyd Cyhoeddus Cymru Creu Lleoedd a Mannau Iachach ar gyfer y Genhedlaeth Bresennol a Chenedlaethau'r Dyfodol).

Amlygwyd hyn yn ystod y pandemig COVID-19 lle bu ansawdd ein hardaloedd lleol a hygyrchedd at wasanaethau a chyfleusterau yn hynod bwysig i iechyd a llesiant pobl (Llywodraeth Cymru, 2021 Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040). Roedd pawb yn gwerthfawrogi parciau a llecynnau gwyrdd, llwybrau cerdded a beicio, siopau ac amwynderau lleol, a'r aer glanach a welwyd yn ystod y cyfnodau clo.

O ganlyniad i newid hinsawdd, bydd Abertawe yn gweld digwyddiadau tywydd mwy eithafol fel cyfnodau o lawiad trwm dwys a thymereddau uchel. Mae'n hanfodol cynllunio ar gyfer y senarios hyn os ydym i leihau'r effeithiau: ac mae buddion a chost-effeithiolrwydd seilwaith gwyrdd mewn perthynas â hyn wedi'u dogfennu'n dda.

Cryfderau ac Asedau

Mae 80% o gyfanswm arwynebedd Dinas a Sir Abertawe o bwysigrwydd ecolegol arwyddocaol yn amrywio o gynefinoedd wedi'u dynodi'n rhyngwladol i goridorau bywyd gwyllt dinas a pharciau. Mae dros 900ha o ddarpariaeth Meysydd Chwarae (sy'n gyfwerth â 3.9ha fesul 1,000 o'r boblogaeth); dros 15,000ha o Fan Gwyrdd Naturiol Hygyrch (dros 66.7ha fesul 1,000 o'r boblogaeth); a dros 400 milltir o hawliau tramwy cyhoeddus.

Mae yna weithio mewn partneriaeth a rhwydweithiau seilwaith gwyrdd amlddisgyblaethol a thraws-sector cryf ynghyd â gweithgareddau hyfforddi a chynyddu ymwybyddiaeth yn gysylltiedig â seilwaith gwyrdd ar draws sectorau gwahanol. Ceir lefel dda o ymgysylltu â chymunedau ynglŷn â seilwaith gwyrdd ac mae grwpiau buddiannau cymunedol yn ymgysylltu'n dda hefyd. Mae seilwaith gwyrdd wedi'i nodi'n flaenoriaeth hefyd yn amcan Gweithio gyda Natur Cynllun Llesiant Lleol Abertawe, ac fe'i cefnogir gan y Grŵp Gorchwyl Gweithio gyda Natur.

Tanategir Seilwaith Gwyrdd a Chreu Lleoedd yn Abertawe gan bolisiau da, cymhwys deddfwriaeth genedlaethol a darparu dogfennau arweiniad. Mae enghreifftiau'n cynnwys y Siarter Creu Lleoedd mabwysiedig; y polisi seilwaith gwyrdd yn y Cynllun Datblygu Lleol; Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer Bioamrywiaeth, Coed a Chreu Lleoedd; datblygu Strategaeth Seilwaith Gwyrdd Ardal Abertawe Ganolog – Adfywio Ein Dinas ar gyfer Lles a Bywyd Gwyllt; Bargaen Ddinesig Bae Abertawe; a Datganiad Ardal De Orllewin Cymru a gynhyrchwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

Mae Offeryn Ffactor Mannau Gwyrdd Abertawe, a gynlluniwyd i gynyddu nifer a swyddogaeth cynlluniau seilwaith gwyrdd, yn cael ei gymhwyso i ddatblygiadau Ardal Abertawe Ganolog erbyn hyn.

Newidiadau dros gyfnod

Mae gwaith adeiladu o amgylch canol y ddinas ar ôl y rhyfel wedi gadael gwaddol o fannau lle ceir arwynebau wedi'u selio yn bennaf, gydag ychydig iawn o lystyfiant lled-naturiol. Amcangyfrifwyd bod gorchudd coed trefol Abertawe yn 17.4% yn 2013 ac roedd wedi lleihau o 18.8% yn 2009 (Cyfoeth Naturiol Cymru, 2016: Gorchudd Coed Trefol yn Ninas a Sir

Abertawe: Deall gorchudd canopi er mwyn cynllunio a rheoli ein coed trefol yn well). Nid oes data mwy diweddar ar orchudd coed trefol ar gael.

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae Abertawe wedi dioddef mwy o ddigwyddiadau tywydd eithafol gyda digwyddiadau llifogydd yn difrodi cartrefi a seilwaith adeiledig, ac yn newid systemau arfordirol yn y Gŵyr (Cyfoeth Naturiol Cymru, 2020: Wales, 2020: Llifogydd Chwefror 2020 yng Nghymru: Crynodeb o Ddata am Ddigwyddiadau Llifogydd) – gweler yr adran ar lifogydd hefyd.

Mae seilwaith gwyrdd wedi'i integreiddio ym Mholisi Cynllunio ER 2 y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) ac mae Creu Lleoedd wedi'i integreiddio ym mholisiau a dyraniadau tir y CDLI mabwysiedig. Mae hyn wedi helpu arwain at gynnydd yn nifer y caniatadau cynllunio a roddwyd ar gyfer datblygiadau a fydd yn darparu manau o ansawdd da, iach a chynaliadwy, gan gynnwys integreiddio seilwaith gwyrdd amlswyddogaethol. Hefyd, bu cynnydd yng nghyllid penodol seilwaith gwyrdd o ffynonellau amrywiol fel Llywodraeth Cymru.

Mae cynnydd wedi bod yn y galw am, a phennu gwerth, manau gwyrdd o ansawdd uchel a mynediad i natur (a gyflymwyd gan Covid), a mwy o ymwybyddiaeth o effeithiau iechyd meddwl a'r berthynas gadarnhaol rhwng iechyd meddwl a mynediad i natur. Mae cynllun Llywodraeth y DU, Ailgodi'n Gryfach [Build Back Better]: ein cynllun ar gyfer twf, yn cynnwys ffocws ar yr economi werdd a dyfodol carbon sero net. Roedd dogfen bolisi Llywodraeth Cymru, Adeiladu Lleoedd Gwell, yn amlygu rôl y system gynllunio wrth gyflawni Creu Lleoedd ac adferiad ar ôl Covid.

Bydd mabwysiadu Siarter Creu Lleoedd Comisiwn Dylunio Cymru yn Abertawe yn sicrhau bod y chwe "egwyddor creu lleoedd" yn llywio penderfyniadau ar draws y Cyngor. Mae gofyniad i Adran Gynllunio Cyngor Abertawe gyflawni Creu Lleoedd a Seilwaith Gwyrdd trwy brosesau gwneud penderfyniadau, yn unol â pholisi cynllunio LIC (Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040, PCC 11), a fydd yn sicrhau seilwaith gwyrdd amlswyddogaethol o ansawdd da a lleoedd nodedig.

Cymariaethau â lleoedd eraill

Mae nifer o awdurdodau lleol yng Nghymru yn mynd i'r afael â seilwaith gwyrdd trwy bolisiau a chanllawiau cynllunio, cynlluniau a chymau gweithredu llesiant. Er enghraifft, Cynllun Seilwaith Gwyrdd Caerdydd, Cynllun Llesiant Casnewydd a Chanllawiau Cynllunio Atodol Seilwaith Gwyrdd Sir Fynwy. Hefyd, ceir enghreifftiau da hefyd o osod seilwaith gwyrdd, fel cynlluniau glawlif Dŵr Cymru yn Llanelli.

Mae'r Offeryn Ffactor Manau Gwyrdd wedi bod yn cael ei ddefnyddio ers y 1990au, ac fe'i cymhwysir mewn amrywiol ffyrdd yn ninasoedd eraill y DU ac o amgylch y byd, gan gynnwys Llundain, Southampton, Seattle (UDA), Malmö (Sweden), Belin (Yr Almaen) a Singapore (Cyngor Abertawe a Cyfoeth Naturiol Cymru, 2021: Ardal Abertawe Ganolog: Adfywio ein Dinas ar gyfer Lles a Bywyd Gwyllt).

Gwahaniaethau ar draws Abertawe

Mae mynediad i fan gwyrdd ar draws y sir yn gyffredinol 1.5ha uwchlaw targed argymelledig Meysydd Chwarae. Fodd bynnag, ceir diffyg yn y wardiau gwledig i'r gogledd a'r wardiau arfordirol i'r de orllewin, ac mae cydberthynas rhwng lefelau uchel o amddifadedd a diffyg darpariaeth Meysydd Chwarae (Cyngor Abertawe 2014: Adroddiad Asesu Mannau Agored Cyngor Dinas a Sir Abertawe).

Mae dosbarthiad Man Gwyrdd Naturiol Hygyrch yn anghyson iawn ar draws Abertawe. Tra bod gan y rhan fwyaf o'r wardiau yn y sir dros 80% o ddarpariaeth, gyda darpariaeth 100% mewn tair ward (Newton, Ystumllwynarth, Mayals), mewn cyferbyniad mae gan ddwy ward (Pontybrenin a Lluchwr Uchaf) ddarpariaeth lai na 50% (Cyngor Abertawe 2014: Adroddiad Asesu Mannau Agored Cyngor Dinas a Sir Abertawe).

Mae gorchudd coed mewn ardaloedd o amddifadedd yn tueddu bod yn is – mae gan 63% o wardiau mwy cefnog Abertawe fwy na 15% o orchudd coed, ond dim ond 23% o wardiau llai cefnog Abertawe sydd â mwy na 15% o orchudd coed (Cyfoeth Naturiol Cymru, 2016: Gorchudd Coed Trefol yn Ninas a Sir Abertawe: Deall gorchudd canopi er mwyn cynllunio a rheoli ein coed trefol yn well).

Canfyddiadau a phersbectifau

Roed datblygu Strategaeth Seilwaith Gwyrdd Ardal Abertawe Ganolog: Adfywio ein Dinas ar gyfer Lles a Bywyd Gwylt yn cynnwys ymgysylltu'n helaeth â rhanddeiliaid, gan gynnwys 634 o sgysiau wyneb yn wyneb gydag aelodau'r cyhoedd (trigolion ac ymwelwyr) ynglŷn â beth mae natur yn y ddinas yn ei olygu iddynt. Hefyd, cynhaliwyd gweithdai gyda busnesau, datblygwyr, plant ysgol, penseiri, penseiri tirwedd, staff sector cyhoeddus a Chynghorwyr Abertawe, ynghyd ag ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol. Y neges bennaf o'r ymgysylltu hwn oedd bod #naturdinas yn bwysig iawn i bobl ac y bydd yn cynyddu'u mwynhad ac, felly, eu hamser yn byw yng nghanol y ddinas.

Mae egwyddorion Seilwaith Gwyrdd a Chreu Lleoedd wedi'u hymgorffori ym mholisiau Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig Abertawe a fu'n destun proses ymgynghori statudol helaeth, ac a seiliwyd ar sylfaen dystiolaeth gynhwysfawr (gan gynnwys asesiad o fannau agored, asesiad trafndiaeth, asesiad poblogaeth, asesiad o effeithiau ar iechyd, asesiad rheoliadau cynefinoedd, arfarniad cynaliadwyedd). O ganlyniad i weithredu'r polisiau a'r egwyddorion hyn, mae mwy o wybodaeth a sgiliau'n ymwneud â Seilwaith Gwyrdd a Chreu Lleoedd o fewn y Cyngor a thu hwnt.

"Mae angen gwneud mwy i sicrhau bod mannau natur lleol cymunedol o fewn pellter cerdded. Byddai agor mannau fel safleoedd ysgolion a chaeau chwaraeon yn cefnogi'r gymuned leol i ddefnyddio'r mannau hyn pan nad ydynt yn cael eu defnyddio" – ymatebydd i'r arolwg.

Tueddiadau a Rhagolygon i'r Dyfodol ar gyfer Abertawe

Y duedd yng nghanllawiau cynllunio LIC yw parhau i gynyddu'r ffocws ar rôl cynllunio wrth gyflawni Seilwaith Gwyrdd a Chreu Lleoedd. Y canlyniad fydd gwelliant amlwg yn ansawdd

lleoedd a negodir gyda'r sector datblygu gan wasanaethau cynllunio Abertawe. Dylai hyn, yn ei dro, arwain at welliannau i iechyd a llesiant.

Mae Adran Gynllunio Cyngor Abertawe eisoes wedi dechrau gweithio gydag adeiladwyr tai mawr i integreiddio creu lleoedd mewn cynlluniau sy'n cael caniatâd cynllunio er mwyn darparu lleoedd o safon, iach a chynaliadwy ar gyfer ein cymunedau. Disgwylir i'r gwelliant hwn barhau wrth i bolisïau ac egwyddorion ddod yn fwy cyffredin.

Bydd oedi camau i addasu i achosion newid hinsawdd, a'u lleihau, yn gostus o ran yr effeithiau ar lesiant cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol ac economaidd.

"Ar ôl byw yn ardaloedd gorau a hefyd ardaloedd llai dymunol Abertawe mae'n hawdd gweld sut mae'r amgylchedd o'ch cwmpas yn effeithio ar iechyd a lles" – ymatebydd i'r arolwg.

Integreiddio

Mae rhai o'r cysylltiadau rhwng Seilwaith Gwyrdd, Creu Lleoedd a phynciau amgylcheddol eraill, a thrywyddau eraill a gwmpesir yn yr asesiad llesiant hwn wedi'u dangos yn eglur uchod, gan gynnwys cysylltiadau ag iechyd, adfywio economaidd, tlodi, bioamrywiaeth, ansawdd yr aer, ac ati.

Gwelliant

Mae buddion a chost-effeithiolrwydd seilwaith gwyrdd fel ateb i leihau perygl llifogydd, darparu oeri yn yr haf, aer a dŵr glanach, lleihau sŵn, iechyd meddwl a chorfforol gwell, enillion mewn bioamrywiaeth, atafaelu carbon ac economi wedi'i chryfhau yn arwyddocaol a byddant yn ein helpu i addasu a lliniaru ar gyfer effeithiau newid hinsawdd a diogelu cymunedau Abertawe at y dyfodol.

Er mwyn hyrwyddo buddion Creu Lleoedd a Seilwaith Gwyrdd i'r eithaf yn ardaloedd trefol a maestrefol Abertawe, mae angen i ni:

1. Gael data gwell ar faint ac ansawdd seilwaith gwyrdd ar draws y sir
2. Deall cyfleoedd ar gyfer datblygu atebion seilwaith gwyrdd amlswyddogaethol newydd, a'u hôl-ffitio
3. Mabwysiadu ymagwedd leol, traws-sector at osod seilwaith gwyrdd
4. Datblygu economi leol fedrus a gwybodus i gyflawni a chynnal seilwaith gwyrdd.

Ynglŷn â'r dystiolaeth

Mae llawer o dystiolaeth genedlaethol a rhanbarthol ynglŷn ag effeithiau newid hinsawdd a cholli bioamrywiaeth; llesiant cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol, a'r angen am, a gwerth, seilwaith gwyrdd o ansawdd uchel i fynd i'r afael â'r effeithiau hyn. Ond ceir rhai bylchau yn lleol yn enwedig ar raddfa tirwedd o ran y ddarpariaeth bresennol a chyfleoedd ar gyfer gwella seilwaith gwyrdd.

Mae'r ymgysylltiad â ffocws yn Ardal Abertawe Ganolog wedi dangos pwysigrwydd natur dinas, ac ategir hyn gan ganfyddiadau yn dilyn effeithiau pandemig Covid 19. Fodd bynnag, mae llai o dystiolaeth ar lefel sir gyfan ar hyn o bryd.

Casgliadau a negeseuon allweddol

Dylai gwaith barhau mewn partneriaeth â'r sector datblygu i wella ansawdd datblygiadau newydd er mwyn cyflawni lleoedd iach, nodedig o ansawdd da. Hefyd, ceir cyfleoedd ar gyfer ôl-ffitio gosodiadau seilwaith gwyrdd (h.y. toeon gwyrdd/ waliau gwyrdd/ gerddi glaw) mewn ardaloedd trefol a maestrefol. Dylid cynnal ymagwedd traws-sector at osod seilwaith gwyrdd, ac mae angen creu economi leol fedrus a gwybodus i gyflawni a chynnal seilwaith gwyrdd.

Mae'n ofynnol cael data diweddar ar ansawdd seilwaith gwyrdd yn Abertawe ar lefel sirol, gan gynnwys cysylltedd ar draws mannau trefol a maestrefol. Dylid defnyddio hwn i ddatblygu Strategaeth Seilwaith Gwyrdd ar gyfer y sir gyfan a fydd yn nodi materion a chyfleoedd i fynd i'r afael â seilwaith gwyrdd ar lefel tirwedd.

Ansawdd Aer

Mae ansawdd yr aer a anadlwn yn hollbwysig i lesiant, ond effeithir arno gan lygryddion o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys prosesau diwydiannol, cynhyrchu ynni, trafndiaeth, amaethyddiaeth a thanau domestig. Y llygryddion aer sydd o'r pryder pennaf i iechyd cyhoeddus yw nitrogen deuocsid (NO₂) a deunydd gronynnol (PM₁₀, PM_{2.5}). Yn y DU, priodolir cyfwerth ag oddeutu 29,000 a 23,500 o farwolaethau i gysylltiad â PM_{2.5} a NO₂, yn y drefn honno. Mae ystadegau'r Llywodraeth yn amcangyfrif bod llygredd aer yn y DU yn lleihau disgwyliad oes gan gyfartaledd o 7–8 mis gydag amcangyfrif y gost i'r gymdeithas yn rhyw £20 biliwn y flwyddyn. (Llywodraeth Cymru: gwefan Ansawdd Aer Cymru)

Mae ymchwil yng Nghymru wedi canfod hefyd y gallai'r rheiny sy'n byw mewn ardaloedd lle ceir mwy o amddifadedd wynebu risg fwy. Canfu'r astudiaeth, a oedd yn cysylltu llygredd aer ar lefel leol, amddifadedd incwm a data deilliannau iechyd, fod crynodiadau llygredd aer cymedrig blynyddol yn uchel yn yr ardaloedd lle ceir yr amddifadedd 'mwyaf' a 'lleiaf', ond yn uwch yn y cyntaf. Roedd y patrwm hwn yn fwyaf amlwg ar gyfer llygredd aer NO₂. (Llywodraeth Cymru: gwefan Ansawdd Aer Cymru)

Mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol adolygu ac asesu ansawdd yn eu hardaloedd yn rheolaidd, a phennu p'un a yw amcanion ansawdd aer yn cael eu cyflawni neu beidio. Lle mae lefel llygryddion yn mynd uwchlaw terfynau penodol, neu lle mae gormodiannau'n debygol o ddigwydd, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol ddatgan Ardal Rheoli Ansawdd Aer (AQMA) a pharatoi Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer (AQAP). Mae'r amcanion ansawdd aer sy'n berthnasol yng Nghymru yn pennu terfynau ar gyfer llygryddion ac yn nodi nifer y gormodiannau a ganiateir e.e. ar gyfer NO₂ rhaid peidio â mynd dros derfyn o 200µg/m³ fwy nag 18 gwaith y flwyddyn mewn unrhyw gyfnod o 1 awr, a rhaid iddo gadw islaw cymedrig blynyddol o 40µg/m³.

Cryfderau ac Asedau

Mae gan Gyngor Abertawe rwydwaith monitro ansawdd aer yn fanylach i alluogi meintioli crynodiadau llygryddion perthnasol. Mae hyn yn cynnwys gorsafoedd monitro ansawdd aer yn barhaus ar 13 safle ar draws Abertawe (gweler y tabl isod).

Tabl En3: Lleoliadau Monitro Ansawdd Aer yn Abertawe

| ID y Safle | Enw / Lleoliad y Safle | Llygryddion sy'n cael eu Monitro |
|------------|--|--|
| CM1 | AURN Ochr y Ffordd, Abertawe Heol Caerfyrddin | NO ₂ , PM ₁₀ , PM _{2.5} |
| CM2 | Groundhog Treforys | NO ₂ , PM ₁₀ ac Osôn |
| CM3 | Parc Cwm Level | NO ₂ ac Osôn |
| CM4 | DOAS Hafod | NO ₂ , Osôn a Bensen |
| CM5 | DOAS St Thomas | NO ₂ , SO ₂ , Osôn a Bensen |
| CM6 | Fforestfach Cross | PM ₁₀ |
| CM7 | Cilgant Upland | PM ₁₀ |
| CM8 | Sketty Cross | PM ₁₀ |
| CM9 | Gorsaf Fysiau Quadrant Westway | PM ₁₀ |
| CM11 | Station Court, Stryd Fawr | NO ₂ |
| CM12 | Heol Morfa | NO ₂ |
| CM13 | Cyffordd SA1, Port Tennant | PM _{2.5} a NO ₂ |

Yn ychwanegol at y safleoedd monitro parhaus hyn, mae Cyngor Abertawe yn ymgymryd â monitro anawtomataidd (goddefol) o NO₂ gan ddefnyddio tiwbiau tryledu mewn nifer fawr o leoliadau ar draws Abertawe. Mae nifer a lleoliad y pwyntiau monitro dros dro hyn yn newid o bryd i'w gilydd mewn ymateb i adolygiadau rheolaidd a allai bennu y cyflawnir cydymffurfio yn gyson mewn rhai lleoliadau neu y gall fod angen monitro crynodiadau NO₂ mewn ardaloedd eraill lle mae newidiadau wedi'u gwneud e.e. i gyffyrdd ffordd, neu lle mae pryderon wedi'u codi gan y cyhoedd. Roedd 211 o safleoedd monitro yn 2018 a 185 safle yn 2021.

Mae ardaloedd gwledig ac arfordirol y sir yn parhau ag ansawdd aer da, ac mae'r data a gasglwyd dros y blynyddoedd diwethaf yn dynodi tuedd am i lawr mewn crynodiadau NO₂ ar draws y sir. Fodd bynnag, nid yw hyn yn wir am ronynnau (PM₁₀ a PM_{2.5}) – gweler y data isod.

Mae ymchwil gydwethredol yn cael ei gwneud yn rheolaidd gan Gyngor Abertawe a chyrrff academiaidd e.e. gyda Phrifysgol Abertawe ar effeithiau Pandemig y Coronafeirws ar fesuriadau ansawdd aer (Y Ganolfan Ymchwil ac Arloesedd Iechyd a'r Amgylchedd, 2021:


Estimation of ambient NO₂ and PM_{2.5} concentration change in Wales during COVID-19 outbreak). Hefyd, mae swyddogion Rheoli Llygredd Cyngor Abertawe yn cydweithio gyda chwmnïau priodol ar Ymchwil a Datblygu yn gysylltiedig â monitro a mynd i'r afael ag ansawdd aer, ac mae ganddynt gysylltiadau cryf â phwyllgorau cenedlaethol sy'n ymwneud ag ansawdd aer, gan sicrhau mynediad amserol i bolisiau ac arferion sy'n datblygu.

Fel rhan o'i waith ar seilwaith gwyrdd, mae timau Cadwraeth Natur a Rheoli Llygredd Cyngor Abertawe yn cydweithio ar ddefnyddio sgriniau gwyrdd (perthi) ym Mhort Tennant i leihau llygredd aer a sŵn.

Newidiadau dros gyfnod

Mae tuedd barhaus am i lawr mewn crynodiadau NO₂ wedi'u cofnodi yn Abertawe ers sawl blwyddyn. Er enghraifft, ar safle CM4 (Hafod), fe wnaeth Crynodiad Cymedrig Blynyddol NO₂ ostwng o 49µg/m³ yn 2014 i 37µg/m³ yn 2018. Mae'r rhesymau am welliant o'r fath yn debygol o fod yn sgil oedran newidiol cerbydau ar y ffyrdd, newidiadau i'r seilwaith rheoli ffyrdd a newidiadau mewn llifoedd traffig ar adegau penodol. Er enghraifft, agor Ffordd Ddosbarthu Morfa ac fe wnaeth gweithredu'r system Nowcaster yn ardal Hafod arwain at ostyngiadau mewn NO₂ yn cael eu cofnodi ar hyd y cyswllt ffordd hwn ers 2017. Mae gwaith gwella'r gyffordd ar Heol Gŵyr, yn Sgeti, wedi cael effaith bosibl hefyd ar grynodiadau NO₂ a gofnodwyd. Dim ond gormodiannau o'r Amcan NO₂ cymedrig blynyddol a geir ar hyn o bryd o fewn yr Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer presennol.

Fe wnaeth effaith Pandemig y Coronafeirws ddangos yn amlwg sut mae gostyngiad mewn traffig ffordd yn arwain at ostyngiad mewn crynodiadau NO₂. (Centre for Cities, 2020: How have the Covid pandemic and lockdown affected air quality in cities?)



Ffigur En6: Traffig a chrynodau NO₂, Abertawe

Fodd bynnag, nid yw hyn yr un peth ar gyfer gronynnau (PM10 a PM2.5) sydd wedi aros yn eu hunfan yn gyffredinol dros y blynyddoedd diwethaf. Er enghraifft, tra bod y crynodiadau cymedrig blynyddol o PM10 a fesurwyd ar safle CM1 (AURN Heol Caerfyrddin) wedi gostwng o 20µg/m³ yn 2015 i 18µg/m³ yn 2018, fe wnaeth y mesuriadau mewn lleoliadau eraill godi a gostwng yn anghyson dros yr un cyfnod. Yn ddigon tebyg, fe wnaeth y data ar gyfer PM2.5 ar safle CM1 ostwng o 13µg/m³ yn 2015 i 8µg/m³ yn 2018 ond fe wnaeth gynyddu ychydig mewn mannau eraill. Mae'r canlyniadau hyn yn adlewyrchu'r ffaith nad yw gronynnau'n gysylltiedig â thraffig yn unig, ond â mathau eraill o hylosgi hefyd, ac maent yn teithio llawer ymhellach, hyd yn oed ar draws gwledydd, felly maent yn destun ystod eang o newidynnau.

Tra bod llygredd aer o ddiwydiant, cynhyrchu ynni a thrafnidiaeth wedi gostwng yn y degawdau diwethaf, mae crynodiadau o amonia ac osôn yn parhau i gynyddu'n raddol, gan achosi niwed i'n hecosystemau ac effeithio ar eu cydbwysedd naturiol. Caiff amonia ei ryddhau o dail ac wrin da byw a'r gorddefnydd o wrteithiau nitrogen synthetig. Mae'r nwy yn drifftio i mewn i ddinasoedd ac yn adweithio gyda llygryddion aer eraill i ffurfio PM2.5, sef y math o lygredd aer mwyaf anghuol. Mae dros hanner Cymru, gan gynnwys rhai rhannau o Abertawe ganolog a gogledd Abertawe, bellach yn dioddef crynodiadau o amonia sy'n rhy uchel i rai ecosystemau weithredu'n briodol.

Mae digwyddiadau tanau gwyllt yn bygwth diogelwch y cyhoedd ac yn cael effeithiau ar lygredd aer, ansawdd dŵr a bioamrywiaeth. Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru wedi cofnodi cynnydd yng ngraddfa a mynychder tanau gwyllt. Abertawe yw un o'r ardaloedd yr effeithir arni waethaf yn y rhanbarth, ac mae Bryn Cilfái a Thiroedd Comin Gŵyr yn destun pryder arbennig.

Yn ystod noson Tân Gwyllt, mae monitorau gronynnau yn Abertawe yn aml yn cofnodi crynodiadau uwch o ganlyniad i arddangosfeydd tân gwyllt yn y ddinas.

Cymariaethau â lleoedd eraill

Mae'n anodd cymharu ansawdd aer Abertawe yn effeithiol ag ardaloedd eraill yng Nghymru oherwydd cymhlethdod y newidynnau fel topograffi, dwysedd poblogaeth, lleoliad diwydiannau, patrymau tywydd, trefn ffyrdd, ac ati, a'r effaith a gaiff y rhain ar ansawdd aer ar lefel leol iawn.

O fewn y pedair blynedd diwethaf, mae Abertawe wedi dioddef y nifer uchaf o ddigwyddiadau tanau gwyllt yn y rhanbarth, a arweiniodd at 1,365 o symudiadau gan y gwasanaeth tân. Mewn cymhariaeth, roedd 1,025 yng Nghastell-nedd Port Talbot, a 408 yn Sir Gaerfyrddin dros yr un cyfnod.

Gwahaniaethau ar draws Abertawe

Tra bod ardaloedd gwledig ac arfordirol y sir yn parhau ag ansawdd aer da, mae ansawdd yr aer mewn rhai ardaloedd trefol yn wael ar brydiau, yn bennaf yn sgil llif traffig trwm.

Mae tair Ardal Rheoli Ansawdd Aer (AQMA) yn parhau ar waith yn Hafod, Fforestfach a Sgeti. Yn achos Hafod, a ddynodwyd yn wreiddiol yn 2001, mae'r ardal yn eithaf eang, ond mae'r

ddwy ardal arall, a gynhwyswyd o 2010, yn canolbwyntio mwy o lawer ar rannau o brif lwybrau a chyffyrdd. Bydd setiau data'n cael eu hadolygu yn y blynyddoedd i ddod i edrych ar y potensial ar gyfer diwygio neu ddirymu'r AQMAs, er y gellid dylanwadu ar hyn gan newidiadau i bolisi cenedlaethol, rheoliadau a chanllawiau yn y dyfodol.

Mae osôn yn cael ei fonitro ar bedwar safle yn Abertawe, a chydymffurfir ag amcan y DU (nad yw wedi'i bennu mewn rheoliadau) yn gyffredinol, ac eithrio DOAS St. Thomas. Fe allai effeithiau llai o deithio yn ystod cyfyngiadau Covid fod wedi cael effaith ar y lefelau osôn gan fod y llygrydd hwn yn adweithio'n ffotocemegol â nwyon eraill yn yr atmosffer, ac felly gallai'r gostyngiad mewn NO₂, er enghraifft, fod wedi arwain at gynnydd mewn osôn.

"Mae tagfeydd traffig ar hyd Fabian Way - Mumbles Road yn cael effaith wael ar ansawdd aer. Mae agor Langdon Road i draffig trwodd yn golygu bod llygredd traffig ar ein dwy ochr nawr" – ymatebydd i'r arolwg.

Tueddiadau a Rhagolygon i'r Dyfodol ar gyfer Abertawe

Bydd oedran gostyngol cerbydau ar y ffordd yn parhau i gyfrannu at ostyngiad mewn crynodiadau NO₂, a bydd newid i gerbydau trydan yn cael effaith sylweddol – er na fydd hyn yr un peth ar gyfer gronynnau, gan nad yw'r rhain i gyd yn gysylltiedig â mygdarth ceir.

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae tystiolaeth anecdotaidd o gynnydd mewn llosgi coed, dan do ac yn yr awyr agored, ac mae hyn yn achosi effeithiau ar ansawdd aer. Rhagwelir y gallai ymgyngoriadau diweddar Llywodraeth Cymru ar hyllogi domestig a'r Papur Gwyn ar gyfer Bil Aer Glan (Cymru) arwain at newid mewn amcanion ansawdd aer a chamau gweithredu a gymerir gan awdurdodau lleol ac eraill.

Bydd newid hinsawdd yn cynyddu risg tanau gwyllt mwy difrifol a gall gyfuno â newidiadau mewn tywydd a thymheredd i gynyddu'r risgiau i iechyd a llesiant pobl, ac i gnefinoedd.

Yn 2021, fe wnaeth Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) dorri ei derfynau argymelledig ar gyfer llygredd aer, ei ddiweddariad cyntaf ers 16 mlynedd, a gallai hyn ddylanwadu ar derfynau a chanllawiau a gymhwysir yng Nghymru. Er enghraifft, mae terfyn canllaw WHO ar gyfer NO₂ wedi'i ostwng 75% o 40µg/m³ i 10µg/m³.

Integreiddio

Mae cysylltiadau amlwg rhwng ansawdd aer a thrafnidiaeth, hyllogi (ar gyfer cynhyrchu ynni a phrosesau diwydiannol eraill) ac iechyd. Gall effeithiau ar iechyd arwain at effeithiau canlyniadol amlwg ar gyfer addysg a'r economi. Mae llawer o ffynonellau llygredd aer sy'n effeithio ar ansawdd aer lleol yn cyfrannu hefyd at gynhesu byd-eang a newid hinsawdd – gall mynd i'r afael â'r rhain esgor ar fuddion niferus, gan gynnwys ein helpu i fodloni'r targedau Carbon Sero.

Fel yr amlygwyd yn gynharach, mae rhyngweithiadau amlwg rhwng llygredd aer, statws amddifadedd a deilliannau iechyd, yn enwedig yn yr ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf lle

mae'r bobl mwyaf agored i niwed yn byw.

Gall rhoi mesurau Seilwaith Gwyrdd ar waith, fel plannu coed a gosod perthi, helpu i wella ansawdd aer.

Gan ystyried yr enghreifftiau hyn, mae'n amlwg y bydd gwella ansawdd aer yn cyfrannu at y rhan fwyaf o nodau llesiant Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol.

"Rydw i ar ffordd brysur ac os ydw i'n gadael fy ffenestri ar agor yn ddyddiol, erbyn diwedd yr wythnos mae gan fy ystafell ymolchi lwch ysgafn o'r llygredd ceir, ac er i ffordd newydd gael ei hadeiladu i hidlo ceir, nid wyf yn credu bod digon o geir yn dewis y llwybr hwnnw" – ymatebydd i'r arolwg.

Gwelliant

Bydd ansawdd aer yn cael ei wella drwy leihau llygryddion sy'n cael eu hallyrru i'r aer o losgi tanwyddau ffosil ac o brosesau eraill. O ran trafndiaeth a theithio, byddai hyn yn golygu lleihad yn y defnydd o gerbydau petrol a diesel, gwelliannau i drafndiaeth gyhoeddus, cynnydd mewn teithio llesol a chysylltedd gwell i leihau nifer a hyd siwrneiau. Bydd lleihad gadael i injans segura, e.e. gan fodurwyr wrth oleuadau traffig a chan yrwyr tacsis y tu allan i ysgolion, yn fuddiol hefyd.

Gallai cyfyngu ar effaith llosgi domestig gael ei ysgogi gan reoliadau newydd a gwelliannau i safonau dylunio. Hefyd, gallai defnyddio mesurau seilwaith gwyrdd ac atebion sy'n seiliedig ar natur, fel plannu coed, yn enwedig lle integreiddir hyn yng nghyfnod dylunio datblygiadau newydd, gael effaith gadarnhaol ar wella ansawdd aer.

Ynglŷn â'r dystiolaeth

Mae rhwydwaith monitro cynhwysfawr ar waith gan Gyngor Abertawe sy'n darparu data helaeth a pharhaus ar lygryddion aer allweddol. Gellir mynd at y data hwn ar wefan y Cyngor, ac fe'i defnyddir hefyd ar wefan ansawdd aer Llywodraeth Cymru (<https://airquality.gov.wales/cy>). Mae gofynion i adrodd am ansawdd aer yng Nghymru yn gorfodi awdurdodau lleol i gynhyrchu diweddariadau blynyddol ar AQMAs.

Aeth Diogelu Iechyd, Iechyd Cyhoeddus Cymru ati i greu Offeryn Asesu Effaith Iechyd Ansawdd Aer yng Nghymru sy'n darparu mynediad i ddata aruthrol yn gysylltiedig ag ansawdd aer ac effeithiau iechyd ar lefel awdurdod lleol, ond ar hyn o bryd dim ond data hyd at ddiwedd 2018 y mae hyn yn ei gynnwys. Gobeithir y bydd adnoddau'n cael eu nodi i ddiweddar hyn.

Casgliadau a negeseuon allweddol

- Mae gan Gyngor Abertawe rwydwaith monitro ansawdd aer helaeth i alluogi meintioli llygryddion allweddol, ac mae data ar ansawdd aer ac effeithiau iechyd ar gael yn rhwydd.

- Mae ardaloedd gwledig ac arfordirol y sir yn parhau ag ansawdd aer da, ond mae ansawdd yr aer mewn rhai ardaloedd trefol yn wael ar brydiau, yn bennaf yn sgil llif traffig trwm.
- Mae data a gasglwyd dros y blynyddoedd diwethaf yn dynodi tuedd am i lawr mewn crynodiadau NO₂ ar draws y sir, ond nid yw crynodiadau gronynnau ar duedd am i lawr.
- Rhagwelir y bydd ansawdd aer yn gwella wrth newid tuag at gymdeithas carbon isel, gydag arferion trafndiaeth mwy cynaliadwy, gwelliannau technolegol, datgarboneiddio diwydiant a rheoleiddio llosgi domestig.
- Gall digwyddiadau tanau gwyllt gynyddu yn sgil newid hinsawdd a chyfrannu'n fwy sylweddol at aer o ansawdd gwael.
- Gallai seilwaith gwyrdd ac atebion sy'n seiliedig ar natur chwarae rhan fwyfwy pwysig i gynnal ansawdd aer da.

Trafnidiaeth Gynaliadwy a Theithio Llesol

Mae'r ffordd yr ydym yn teithio ac yn cludo pobl a nwyddau ar hyn o bryd yn cael effaith arwyddocaol ar lesiant amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd. Gall symud i ffwrdd oddi wrth ddibyniaeth ar geir, lleihau mynychder a phellter siwrneiau a wnawn a chefnogi dulliau teithio mwy cynaliadwy fel trafndiaeth gyhoeddus, beicio a cherdded, leihau llygredd aer, allyriadau carbon a thagfeydd, a'r problemau cymdeithasol ac iechyd cysylltiedig. Gall cynyddu teithio llesol gael effeithiau cadarnhaol ar iechyd corfforol a meddyliol, a gall lleihau defnydd o geir arwain at ffyrdd mwy diogel ac amgylcheddau trefol mwy dymunol.

Mae'r duedd tuag at siopa, cyfleusterau hamdden a gweithleoedd ar gyrion tref dros ddegawdau blaenorol wedi cyfrannu at y cynnydd mewn defnyddio ceir, ac mae wedi gwneud mynediad at wasanaethau hanfodol a chyflogaeth yn anodd hefyd i'r rheiny sy'n methu fforddio'r opsiynau trafndiaeth sydd ar gael – nid oes mynediad i gar gan gyfran sylweddol o ddinasyddion ac ni allant fforddio trafndiaeth gyhoeddus, neu mynediad cyfyngedig sydd ganddynt at drafnidiaeth gyhoeddus.

Mae'r Adroddiad diweddaraf o Gyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR) a gyhoeddwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn 2020 yn nodi trafndiaeth fel un o dri maes allweddol, ochr yn ochr â bwyd ac ynni, y mae'n ofynnol gwneud trawsnewidiad cymdeithasol a systemau er mwyn mynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur. Gallai'r hwb arfaethedig tuag at gerbydau trydan a cherbydau sy'n rhedeg ar hydrogen fynd i'r afael â rhai o'r effeithiau amgylcheddol, ond bydd trawsnewidiad mwy i'r system drafnidiaeth yn angenrheidiol i fynd i'r afael â materion eraill.

O ran effeithiau ar newid hinsawdd, mae'r sector trafndiaeth yng Nghymru wedi gweld gostyngiad o 4.5% o allyriadau yn unig ers 1990, llawer llai na sectorau eraill o economi Cymru, fel diwydiant a thai, lle gwnaed toriadau sylweddol. O ganlyniad, mae cyfran y cyfanswm allyriadau sy'n dod o drafnidiaeth wedi codi dros y cyfnod hwnnw o 12% i 16% (gan gynnwys hedfan a morgludiant). (Polisi Trafnidiaeth Cymru sy'n Addas i'r Argyfwng Hinsawdd' gan Ian Taylor a Lynn Sloman, Cyfeillion y Ddaear a Trafnidiaeth er Bywyd o Safon, Gorffennaf 2020)

Cryfderau ac Asedau

Mae model trafndiaeth manwl ar waith gan Gyngor Abertawe ar gyfer y ddinas a'r sir gyfan sy'n rhoi manylder rhagorol ar symudiadau traffig. Mae'r model, a ddatblygwyd gan Trafnidiaeth Cymru, yn un aml-ddull, sy'n ystyried sylfaen dulliau teithio preifat a chyhoeddus.

Strategaeth Cyngor Abertawe yw hyrwyddo trafndiaeth gynaliadwy – gan annog mwy o feicio a gwneud mwy o ddefnydd o drafnidiaeth gyhoeddus. Mae'r Cyngor wedi cyflwyno mesurau arafu traffig yng nghanol y ddinas er mwyn annog defnyddio llwybrau a dulliau teithio amgen.

Mae Cyngor Abertawe a nifer o sefydliadau eraill yn ardal Abertawe wedi bod yn buddsoddi mewn cerbydau trydan a mannau gwefru, ac mae partneriaethau lleol a rhanbarthol ar waith i sefydliadau rannu gwybodaeth a chydweithio ar gynllunio teithio cynaliadwy a throsglwyddo i gerbydau allyriadau isel. Er enghraifft, mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n hwyluso Grŵp Rhwydwaith Cerbydau Trydan Rhanbarthol De Orllewin Cymru i annog cydweithredu ar ddefnyddio a datblygu seilwaith gwefru cerbydau trydan ar draws cyrff cyhoeddus.

Mae nifer gynyddol o fentrau a arweinir gan gymunedau lleol yn Abertawe sy'n cefnogi teithio llesol a thrafnidiaeth gynaliadwy, a cheir nifer nodedig o grwpiau ac unigolion yn Abertawe sy'n hyrwyddo beicio a gwelliannau i'r seilwaith beicio.

Newidiadau dros gyfnod

Mae data Cyfrif Traffig Awtomatig (ATC) ar brif lwybrau yn Abertawe yn dangos gostyngiadau mewn traffig cerbydol o 2016 i 2019 ac yna gostyngiad sylweddol yn 2020, oherwydd y pandemig. Mae ffigurau ar gyfer 2021 yn dynodi bod lefelau defnyddio cerbydau ar hyd y llwybrau hyn yn ymadfer i'r lefelau cyn y pandemig. Fodd bynnag, mae'r oriau brig gryn dipyn yn llai amlwg, gan nodi llai o draffig cymudwyr.

Tabl En4: Cyfrifau Traffig ar lwybrau prifwythiennol, 2016-2020

| Blwyddyn | Heol y Mwmbwls | Heol Pentreguinea | Heol Caerfyrddin | Heol Sgeti |
|-----------------|-----------------------|--------------------------|-------------------------|-------------------|
| 2020 | 23,423 | 14,333 | 8,121 | 10,265 |
| 2019 | 31,842 | 18,912 | 20,499 | 13,630 |
| 2016 | 33,332 | 21,487 | 21,296 | 14,831 |

Roedd cynllun Ffordd y Brenin a gwblhawyd yn ddiweddar yn rhoi ffocws cryf ar feicio a cerdded, a chyflwynodd gyflymder dylunio o 20mya. Yn anecdotaidd, mae'n ymddangos bod lleihad mewn defnydd ceir preifat ar hyd y coridor, ond mae'n anodd meintioli hyn yn ystadegol ar hyn o bryd oherwydd bod codi a gostwng sylweddol mewn lefelau ac oriau brig yn sgil y pandemig.

Gostyngodd cyfanswm ffigurau ar gyfer Parcio a Theithio'n sylweddol ar ôl cau safle Fforestfach ym mis Mai 2016, ond roedd wedi bod yn gostwng yn gyffredinol o flwyddyn i flwyddyn ers cyrraedd uchafbwynt yn 2008/9. Mae defnydd o'r ddau safle sy'n weddill, Ffordd

Fabian a Glandŵr, wedi parhau i ostwng, fel y gellir gweld yn y tabl isod. Dylid nodi, fodd bynnag, yr effeithiwyd ar y ffigurau ar gyfer 2019/20 gan broblemau technegol, ac effeithiwyd yn drwm ar ffigurau 2020/21 gan bandemig Covid.

Tabl En5: Defnydd o safleoedd Parcio a Theithio Abertawe, 2016 i 2021

| Blwyddyn | Ffordd Fabian | Glandŵr |
|-----------------|----------------------|----------------|
| 2020/21 | 1,125 | 1,007 |
| 2019/20 | 37,400 | 32,600 |
| 2018/19 | 41,450 | 41,200 |
| 2017/18 | 58,800 | 58,800 |
| 2016/17 | 64,000 | 67,600 |

Fel rhan o'r gwaith i wella seilwaith trafndiaeth gyhoeddus, mae contract wedi'i ddyfarnu i gyflenwi dros 100 o gysgodfannau bysiau hysbysebu newydd ar brif goridoriau bysiau ledled ardal Abertawe o Ionawr 2022. Bydd y rhain yn disodli cysgodfannau y daeth eu hoes i ben, a byddant yn cynnwys goleuadau sy'n arbed ynni, gyda thoeon gwyrdd yn cael eu ffitio ar o leiaf 10 o'r cysgodfannau.

O ran gwelliannau mesuradwy i amserau a dibynadwyedd siwrneiau trafndiaeth gyhoeddus, mae lefelau traffig cyffredinol, yn fras, yn ôl i'r lefelau cyn y pandemig, ond heb yr un oriau brig diffiniedig yn y bore a'r prynhawn – mae'r brig newydd oddeutu 3-4pm. Mae amserau siwrneiau ar draws dulliau teithio modur wedi lleihau oherwydd y pandemig, ac eithrio rhai llwybrau twristiaid prysur iawn yn mynd i'r Mwmbwls a'r Gŵyr, sydd wedi gweld cynnydd sylweddol ers llacio cyfnodau clo. Dylai'r newidiadau hyn fod yn gyfystyr â gwell amserau a dibynadwyedd siwrneiau ar gyfer teithiau cymudwyr, ond gostyngiad ar gyfer teithiau hamdden.

Yn 2020, sefydlwyd Partneriaeth Rheilffordd Gymunedol newydd gan Trafnidiaeth Cymru ar gyfer rhanbarth de orllewin Cymru. Cynhelir Cysylltu De Orllewin Cymru gan 4theRegion a'i nod yw annog mwy o ddefnydd o wasanaethau rheilffordd trwy fwy o gyfranogiad cymunedau lleol yn eu llinell reilffordd, a thrwy gefnogi ystod o weithgareddau mewn gorsafoedd ac o amgylch gorsafoedd i ddarparu buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol i drigolion ac ymwelwyr.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae cryn waith wedi'i wneud ar ddatblygu cynlluniau ar gyfer Metro Bae Abertawe a Gorllewin Cymru sy'n cynnig cyfle am newid sylweddol mewn dewisiadau trafndiaeth.

Ar hyn o bryd mae gan Gyngor Abertawe 12 o gyfrifwyr beiciau wedi'u lleoli ar bwyntiau ar draws y rhwydwaith beicio e.e. ar hyd Ffordd Fabian, yn ymyl yr Hwylbont dros Afon Tawe, yn gyfagos i'r Ganolfan Ddinesig, yn Nyffryn Clun ac ar y trac ym Mhontybrenin. Mae'r rhain yn darparu ffigurau byw parhaus ar niferoedd beiciau ar draws y rhwydwaith teithio llesol ac fe'u rhoddwyd yn eu lle yn 2019/20 gan ddisodli cyfrifwyr gwaddol a gomisiynwyd cyn gosod

y cyfrifwyr newydd. Er bod rhywfaint o ddata ar gael ar gyfer y cyfrifwyr blaenorol, dim ond data ar gyfer dwy flynedd sydd o'r cyfrifwyr newydd.

Yn ôl data o'r cyfrifwyr beiciau, bu tuedd cyffredinol am i fyny mewn defnydd ar draws y rhwydwaith beicio o 2014 i 2021. Yn y graff isod, disgwylir y bydd ffigur 2021 yn cynyddu wrth gynnwys data ar gyfer misoedd yr haf. (Nid yw 2019 wedi'i gynnwys oherwydd diffyg ffynonellau data ar draws y rhwydwaith ar gyfer y flwyddyn honno). Mewn llawer o ardaloedd, mae'r niferoedd yng nghyfrifiadau 2020 a 2021 yn is nag mewn blynyddoedd blaenorol gan i'r cyfnod clo gael effaith sylweddol. Fodd bynnag, yn gyffredinol, roedd cynnydd yn amlwg yn y defnydd o'r rhwydwaith beicio a beicio'n gyffredinol yn ystod y pandemig yn sgil gwneud ymarfer corff yn fwy lleol a siwrneiau byr oherwydd y cyfyngiadau a oedd ar waith.




Ffigur En7: Defnydd o'r Rhwydwaith Beicio, 2014 i 2021

Mae lefelau beicio'r brifysgol i weld yn gymharol sefydlog, a byddai'n ymddangos bod hyn yn dynodi y bu cynnydd cyffredinol yn y niferoedd sy'n beicio yn sgil y Brifysgol yn newid i ddysgu ar-lein yn bennaf ar gyfer y mwyafrif o 2020 a 2021, gan ddileu'r beicwyr sy'n fyfyrwyr o flynyddoedd blaenorol i bob pwrpas, a'u disodli â beicwyr eraill. Mae cyfrifwyr beiciau ar lwybr y blaendraeth yn dangos cyfartaledd o 420 o feicwyr ar ddiwrnodau'r wythnos yn 2020/21, ac mae cyfrifwr beiciau Ffordd Fabian yn dangos cyfartaledd o 407 o ddefnyddwyr beiciau y diwrnod. Gallai cau'r Brifysgol yn ystod Covid fod wedi effeithio ar y ddau gyfrifwr.

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae Cyngor Abertawe wedi sicrhau adnoddau sylweddol drwy'r Gronfa Trafnidiaeth Leol a'r Gronfa Teithio Llesol (dros £16 miliwn) i greu a gwella llwybrau teithio llesol. Roedd hyn yn cynnwys adeiladu cyswllt Pontybrenin a chysylltiadau at y rhwydwaith beicio yng nghanol y ddinas yn Townhill, Sgeti, Mayals a lleoliadau eraill; lledu'r llwybr ar Bont Lluchwr; creu llwybr cyd-ddefnyddio ar Rodfa'r Gors; llwybr cyd-ddefnyddio a

chroesfannau rheoledig newydd i gerddwyr a beicwyr fel rhan o gynllun newydd Cyfnewidfa Broadway; a gwelliannau i groesfannau cyffyrdd mewn amryw o leoliadau eraill.

Dangosir twf y rhwydwaith beicio dros y blynyddoedd diwethaf ar y map isod.



Ffigur En8: Twf y Rhwydwaith Beicio o amgylch Abertawe, 2016 i 2020

Mae nifer o gyfleusterau parcio beiciau diogel ychwanegol wedi'u cyflwyno ar draws y ddinas i ysgogi teithio llesol gan gymudwyr, ac mae'r awdurdod lleol mewn trafodaethau gyda phrif gyflogwyr ynglŷn â chefnogi'r defnydd o'r seilwaith teithio llesol newydd.

Mae cynllun beicio Santander wedi'i ehangu, ac erbyn hyn mae'n cynnwys chwe hwb hurio mewn mannau allweddol o amgylch Abertawe. Yn Ebrill 2021, cyrhaeddodd y cynllun garreg filltir 50,000 o siwrneiau'n cael eu gwneud ers ei lansio yn 2018.

Mae nifer o grwpiau gwirfoddol yn ardal Abertawe sy'n hyrwyddo teithio llesol, yn ymgyrchu dros well ddarpariaeth feicio, yn cynnig hyfforddiant beicio ac yn trefnu gweithdai cynnal a chadw. Er enghraifft, mae gan BikeAbility, yn Nynfant, amrywiaeth fawr o feiciau y gellir eu haddasu i alluogi pobl o bob oed a gallu i gael cyfle i feicio. Maent yn darparu hyfforddiant beicio a diogelwch ar y ffordd, yn cynnig 'reidiau cydymaith' gyda chwmni a sesiynau cynnal a chadw beiciau. Mae'r Ganolfan Amgylcheddol hefyd yn cynnal gweithdai cynnal a chadw beiciau, ac mae wedi gosod gorsafoedd trwsio beiciau mewn nifer o leoliadau ar draws Abertawe i gefnogi ac annog beicio.

Mae nifer o gynlluniau trafndiaeth cymunedol lleol, yn cael eu harwain gan y gymuned yn aml, sy'n ceisio galluogi mynediad i wasanaethau, cyfleusterau, gwaith a hamdden i'r rheiny nad ydynt yn gallu fforddio opsiynau trafndiaeth prif ffrwd, neu sy'n cael anhawster eu defnyddio. Yn ddiweddar, sefydlodd Cyngor Abertawe gynllun Olwynion i'r Gwaith lle bydd sgwteri'n cael eu benthylg i'r rhai sy'n ceisio gwaith a phobl sydd ond yn dechrau gweithio, i'w galluogi i gael cyfleoedd cyflogaeth. Mae 12 o sgwteri ar gael, ond yn ystod y pandemig roedd

llawer llai yn eu defnyddio. Wrth i gyfyngiadau lacio ac wrth i weithleoedd agor i staff, yna bydd y cynllun yn cael ei ail-lansio a bydd y ffioedd hurio'n cael eu gostwng er mwyn annog eu defnyddio. Hefyd, mae bws mini cymunedol gan y Cyngor ac mae ar gael i'w hurio gan grwpiau cymunedol.

Mae Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe wedi sicrhau cyllid drwy'r Gronfa Adfywio Cymunedol ar gyfer prosiect i gefnogi a helpu ehangu'r sector trafndiaeth a arweinir gan y gymuned yn Abertawe.

Cymariaethau â lleoedd eraill

Yn ôl Cyfrifiad 2011, roedd ychydig o dan 75% o aelwydydd yn Abertawe yn berchen ar gar neu fan, fymryn yn is na'r cyfartaledd ledled Cymru (77%). Mae amcangyfrifon o ddata mwy diweddar Arolwg Cenedlaethol Cymru'n awgrymu bod cyfran yr aelwydydd heb fynediad i gar na fan wedi gostwng yn gyson ers cyfrifiad 2011 e.e. nid oedd gan 21% o aelwydydd yng Nghymru fynediad i gar (na gweithgareddau fel ymweld â siopau lleol neu fynd at y meddyg) yn 2013/14, yna nid oedd gan 15% o aelwydydd yng Nghymru gar ar gael iddynt i'w ddefnyddio fel arfer yn 2017/18, yn gostwng i 14% yn 2018/19, yna 13% yn 2019/20.

Mae'r adroddiad 'Transport Statistics Great Britain' a gyhoeddwyd yn 2019 yn awgrymu mai'r rhaniad moddol ar gyfer pobl yn teithio i'r gwaith yng Nghymru oedd 80% mewn car, 12% trwy gerdded neu feicio a dim ond 7% drwy drafndiaeth gyhoeddus, lle mae'r cyfartaledd ar hyd Prydain yn yr un flwyddyn oedd 68% mewn car, 12% trwy gerdded a beicio a 18% drwy drafndiaeth gyhoeddus. Mae'r ystadegau cyfwerth ar gyfer y degawd diwethaf yn dangos ychydig iawn o wahaniaeth yn y cyfrannau hyn yng Nghymru a Phrydain. Daw'r data mwyaf diweddar sydd ar gael ar raniad moddol ar gyfer teithio i'r gwaith yn Abertawe o arolygon a gynhaliwyd yn 2012/13 a oedd yn awgrymu bod 14% yn defnyddio trafndiaeth gyhoeddus ac 14% yn cerdded neu'n beicio.

Gan gymryd bod y rhaniad moddol ar gyfer cymudo ar feic yn Abertawe yn debyg i hwnnw ledled Cymru, rhyw 2% ydyw, er bod hyn wedi dangos arwyddion o gynyddu gyda'r llwybrau newydd yn cael eu gosod ac o ganlyniad i newid ymddygiad yn ystod cyfyngiadau Covid. Hwn yw un o'r ffigurau isaf yn y DU, ac efallai nad yw topograffi bryniog a glaw mynych Abertawe yn helpu pethau. Mae hyn mewn cyferbyniad â lleoedd fel Rhydychen a Chaergrawnt lle mae'r ffigur dros 20%.

Gwahaniaethau ar draws Abertawe

Mae cwmpasiad rhwydwaith bysiau ar draws Abertawe yn dda yn gyffredinol, ond ceir gwahaniaethau o ran eu hamlder mewn ardaloedd gwahanol ar draws y Ddinas. Yn fwyaf nodedig, nid yw gwasanaethau gwledig gystal ag mewn ardaloedd trefol. Hefyd, mae llai o wasanaethau ar ddyddiau Sul ac ar Wyliau Banc.

Gwyddys bod perchnogaeth ar gar neu fynediad i gar yn is mewn ardaloedd o Abertawe â mwy o amddifadedd.

"Oherwydd y gwasanaeth gwael mae llawer o fy nghymdogion yn gyrru yn lle mynd ar y bws. Mae angen gwella cludiant cyhoeddus fel bod mwy o bobl yn defnyddio'r gwasanaeth ac yn lleihau'r ddibyniaeth ar geir" – ymatebydd i'r arolwg.

Canfyddiadau a phersbectifau

Fel y soniwyd yn gynharach, tynnodd Cyfoeth Naturiol Cymru sylw yn eu hadroddiad SoNaRR2020: Pontydd i'r Dyfodol, ei bod yn angenrheidiol trawsnewid ein system drafnidiaeth er mwyn mynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur.

Mae Cyngor Abertawe a Fforwm Amgylcheddol Abertawe wedi nodi trafndiaeth fel blaenoriaeth allweddol hefyd yn eu hymdrechion ar y cyd i fynd i'r afael â newid hinsawdd a bodloni targed carbon sero Cymru.

Yn Chwefror 2021, bu Fforwm Amgylcheddol Abertawe yn gweithio gyda 4theRegion a phartneriaid eraill i drefnu cynhadledd drafnidiaeth ranbarthol, Symud Ymlaen Gyda'n Gilydd [Moving Forward Together]. Daeth y digwyddiad dwys, deuddydd, cydgynhyrchiol hwn ar-lein â 160 o ddinasyddion at ei gilydd o gymunedau, busnesau a sefydliadau o bob cwr o Dde Orllewin Cymru. Un deilliant o'r digwyddiad hwn oedd maniffesto ar gyfer trosglwyddo i system drafnidiaeth wyrddach, iachach, mwy cyfartal, mwy integredig, mwy hygyrch a mwy fforddiadwy ar gyfer y rhanbarth. Roedd y Maniffesto Trafnidiaeth hwn ar gyfer De Orllewin Cymru yn nodi'r prif negeseuon o'r digwyddiad ac yn cynnwys camau yn cael eu hargymell ar gyfer rhanddeiliaid gwahanol fel awdurdodau lleol, gweithredwyr trafndiaeth, cyflogwyr, sefydliadau addysgol, cyrchfannau twristiaeth, cymunedau ac unigolion.

Roedd y llu o sylwadau ac awgrymiadau a godwyd yn y gynhadledd yn cynnwys:

- "Rhowch y gorau i adeiladu ysbytai, cartrefi a pharciau swyddfeydd y gellir ond eu cyrraedd mewn car!"
- "Ni allwch chi gosbi pobl am ddefnyddio car os nad yw'r dewisiadau amgen yno."
- "Gadewch i ni greu cenhedlaeth o feicwyr hyderus a defnyddwyr bysiau."
- "Nid ynglŷn ag ymwelwyr yn unig y mae hyn. Nid yw pobl dlotach yn gallu mynd i draethau lleol a mannau gwyrdd os nad oes car ganddyn nhw."
- "Fe wnaeth y cyfnodau clo ddysgu i ni ein bod yn gallu gwneud newidiadau aruthrol i ffordd o fyw pan fydd angen i ni wneud."
- "Dylai cludiant gael ei ystyried yn wasanaeth sylfaenol cyffredinol - fel gofal iechyd ac addysg. Mae trafndiaeth gyhoeddus rhad ac am ddim neu am gost isel yn ganolog i'r weledigaeth o greu Cymru iachach, fwy cyfartal a mwy ffyniannus, ac i gyflawni ein hymrwymiaidau i'r argyfwng hinsawdd."
- Mae angen i ni gynnwys pobl sy'n defnyddio trafndiaeth gyhoeddus, pobl mewn cymunedau a'r rheiny o grwpiau prin y clywir ganddynt, ar ddechrau'r broses dylunio trafndiaeth ac yn barhaus. Mae'r atebion gan bobl sy'n defnyddio'r systemau trafndiaeth, ac weithiau mae'r rhain yn bethau rhad a syml i'w gweithredu. Edrychwch ar ddefnyddwyr gwasanaethau fel yr arbenigwyr!

(Symud Ymlaen Gyda'n Gilydd [Moving Forward Together] Maniffesto Trafnidiaeth ar gyfer De Orllewin Cymru, Ebrill 2021, 4theRegion)

Tueddiadau a Rhagolygon i'r Dyfodol ar gyfer Abertawe

Mae Cyngor Abertawe, gweithredwyr trafndiaeth lleol a phartneriaid eraill yn datblygu nifer o fentrau trafndiaeth cynaliadwy newydd yn Abertawe, gan gynnwys:

- Mae cynlluniau ar gyfer Metro Bae Abertawe a Gorllewin Cymru yn mynd yn eu blaen gyda gwelliannau arfaethedig i'r rheilffordd leol a chreu metro ardal drefol newydd gyda gorsafoedd rheilffordd newydd.
- Mae cynigion hwb trafndiaeth gynaliadwy yn cael eu datblygu ar gyfer gorsaf Reilffordd Pontarddulais a Thregwyr i gefnogi darpariaeth aml-ddull.
- Mae Trafndiaeth Cymru wedi nodi gwelliannau i Brif Linell De Cymru a byddant yn edrych ar sut i fynd i'r afael â'r rhain.
- Mae opsiynau ar gyfer safle parcio a theithio newydd ar gyfer Glandŵr yn cael eu hasesu i ddarparu lleoliad sy'n fwy hygyrch i'r M4 ond ymhellach i ffwrdd oddi wrth ganol y ddinas, a fydd yn cefnogi ardal ehangach a defnydd aml-ddull.
- Mae Cynllun Amddiffyn Arfordir y Mwmbwls yn cynnwys uchelgais ar gyfer llwybr cyd-ddenyddio 6m o led.
- Mae Cyngor Abertawe'n gweithio'n agos gyda phartneriaid i roi'r wedd derfynol ar signalau bysiau hwyr wrth gyffyrdd er mwyn i hyn fod yn weithredol yn 2021/22

Integreiddio

Mae systemau trafndiaeth yn rhan hollbwysig o'n seilwaith economaidd gan alluogi symud deunyddiau, cynhyrchion, cyflogaion a chwsmeriaid, ond mae yna lawer o effeithiau cymdeithasol ac amgylcheddol gan ddibynnu ar y mathau o systemau sy'n cael eu rhoi ar waith a'r cyd-destun economaidd ehangach y mae'r rhain yn gweithredu ynddo. Mae trafndiaeth yn elfen allweddol o fasnach ryngwladol a thwristiaeth, felly gall penderfyniadau a newidiadau a wneir ar lefel leol neu ranbarthol e.e. cefnogi mwy o gynhyrchiant a marchnadoedd lleol, gael ystod o effeithiau economaidd a chymdeithasol mewn rhannau eraill o'r byd, nid yn unig o ran lleihau carbon a newid hinsawdd, ond o ran bywoliaethau.

Toriadau i drafndiaeth ar draws pob un o Nodau Llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) e.e. newid i economi carbon isel (Cymru Lewyrchus), sicrhau ecosystemau iach a gweithredol (Cymru Gydnerth), galluogi pobl i gyflawni'u potensial gyda mynediad teg at wasanaethau a gwaith (Cymru sy'n Fwy Cyfartal), hyrwyddo llesiant corfforol a meddyliol i'r eithaf (Cymru Iachach), creu cymunedau diogel sydd wedi'u cysylltu'n dda (Cymunedau Cydlynus), annog cyfranogiad yn y celfyddydau, chwaraeon a hamdden (Cymru â Diwylliant Bywiog) a gwneud cyfraniad cadarnhaol at lesiant byd-eang (Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang).

"... mae angen trafndiaeth ianach, gynaliadwy sy'n helpu i leihau tagfeydd, neu dollau aer glân, fel y'i cyflwynwyd mewn dinasoedd fel Caerfaddon i leddfufu llif traffig trwm, a defnyddio'r arian i helpu gyda rhaglenni sy'n lleihau allyriadau a chreu Abertawe 'gwyrddach'" – ymatebydd i'r arolwg.

Gwelliant

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi strategaeth newydd yn ddiweddar i ddatblygu system drafndiaeth hygyrch, gynaliadwy ac effeithlon yng Nghymru, a mynd i'r afael â'r effeithiau

negyddol a gaiff ar yr amgylchedd, iechyd a llesiant. Mae'r strategaeth hon yn amlygu tair blaenoriaeth allweddol:

- Dod â gwasanaethau i bobl er mwyn lleihau'r angen i deithio e.e. cysylltedd ffisegol a digidol gwell, mwy o wasanaethau lleol, gweithio o gartref a gweithio o bell, teithio llesol a hybiau aml-ddull
- Galluogi pobl a nwyddau i symud yn hawdd o ddrws i ddrws gan ddefnyddio gwasanaethau a seilwaith trafndiaeth hygyrch, cynaliadwy ac effeithlon e.e. gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus y mae pawb yn gallu eu defnyddio, am eu defnyddio ac yn eu defnyddio gyda seilwaith trafndiaeth diogel, hygyrch sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda
- Annog pobl i wneud i newid i drafndiaeth fwy cynaliadwy e.e. gwneud trafndiaeth gynaliadwy carbon isel yn fwy deniadol a fforddiadwy, a mabwysiadu datblygiadau arloesol sy'n ei gwneud yn haws ei defnyddio

Hefyd, bydd Cyd-bwyllgorau Corfforaethol Rhanbarthol yn paratoi Cynlluniau Trafndiaeth Rhanbarthol ar gyfer trafndiaeth yn eu hardal. Bydd y rhain yn cael eu llywio gan Strategaeth Drafndiaeth Cymru, Llwybr Newydd, a bydd yn cynnwys polisiau a chynlluniau cyflawni trafndiaeth ranbarthol ategol.

Ynglŷn â'r dystiolaeth

Mae cyfrifwyr traffig awtomatig a chyfrifwyr rhwydweithiau beicio yn darparu data defnyddiol ar hyd llwybrau allweddol er mwyn helpu monitro newidiadau mewn llif traffig a defnydd o feiciau.

Mae diffyg data lleol a diweddar ar y rhaniad moddol a'r farn gyhoeddus ar ba mor hawdd yw hi i gael mynediad i wasanaethau a chyfleusterau. Nid yw'r Arolygon Defnyddwyr Canol Dinas ac Arolygon Llais Abertawe a drefnwyd gan Gyngor Abertawe, a'r Arolygon Teithio Aelwydydd a gynhaliwyd yn flaenorol gan y bartneriaeth trafndiaeth ranbarthol, yn cael eu cynnal mwyach.

Casgliadau a negeseuon allweddol

- Defnyddio'r car yw'r dull trafndiaeth pennaf o hyd yn Abertawe ar gyfer cymudo a siwrneiau eraill, gyda lefelau isel o feicio a defnyddio trafndiaeth gyhoeddus.
- Mae nifer o fentrau trafndiaeth gynaliadwy yn mynd yn eu blaen yn Abertawe ac o amgylch Abertawe, fel hybiau trafndiaeth newydd, gwelliannau i'r rhwydwaith beicio a'r cynllun Metro.
- Gall gwelliannau i ansawdd, hygyrchedd a fforddiadwyedd trafndiaeth gyhoeddus fynnu gwaith diwygio mawr yn y diwydiant bysiau.
- Bydd newid i gerbydau allyriadau isel iawn yn cael effeithiau cadarnhaol sylweddol ar lygredd aer a dŵr, ac yn lleihau'r cyfraniad y mae trafndiaeth yn ei wneud at newid hinsawdd. Ond ni fydd yn lleihau tagfeydd traffig, damweiniau na'r diffyg ymarfer corff y mae defnyddio'r car yn eu hannog.
- Bydd cefnogi cynnydd mewn Teithio Llesol yn dod â llawer o fuddion sylweddol o ran yr amgylchedd, cymunedau ac iechyd.

Rheoli Gwastraff yn Gynaliadwy

Gall y ffordd y rheolwn ein gwastraff gael effeithiau niweidiol ar iechyd a llesiant, a gall gyfrannu at faterion tymor hwy fel newid hinsawdd. Mae lleihau gwastraff a lleihau defnydd diangen o adnoddau naturiol ac ynni yn lleihau'r effeithiau hyn. Mae gwelliannau i reoli gwastraff ledled Cymru, ac yn Abertawe, dros y degawd diwethaf wedi bod yn rhai sylweddol, gyda chynnydd mawr mewn cyfraddau ailgylchu a chompostio, a gostyngiadau mewn gwastraff sy'n mynd i'w dirlenwi. Ysgogwyd y newidiadau hyn i raddau helaeth gan bwysau deddfwriaethol, fel y Gyfarwydeb Tirlenwi Ewropeaidd, a strategaethau a thargedau cenedlaethol cynyddol.

Wrth wraidd strategaethau cenedlaethol a lleol ceir yr hierarchaeth wastraff, sy'n rhoi blaenoriaeth i leihau, ailddefnyddio ac atgyweirio dros ailgylchu a gwaredu, a'r egwyddor agosatrwydd, sy'n awgrymu y dylai gwastraff yn gyffredinol gael ei waredu mor agos at ei darddiad ag y bo modd. Mae'r egwyddorion hyn yn cydnabod goblygiadau ehangach defnyddio ynni a chcludiant. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae cysyniad economi gylchol wedi ennill tir – sef ymagwedd holistaidd a chynaliadwy at gynhyrchu a defnyddio sy'n ceisio dileu gwastraff, lleihau defnydd o ynni ac atgynhyrchu adnoddau naturiol.

Mae Llywodraeth Cymru'n pennu gofyniad ar awdurdodau lleol i ddarparu gwybodaeth fanwl am y gwastraff y maen nhw'n ei gasglu a sut caiff ei waredu. Mae hyn yn cynnwys nid yn unig faint o ddeunyddiau gwahanol sy'n cael eu gwahanu ar gyfer ailgylchu, compostio neu dirlenwi, ond i ble caiff y gwastraff ei anfon. Mae'r wybodaeth hon ar gael i'r cyhoedd ei gweld ar wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ailgylchu Cymru. Mae gwaith monitro sbwriel a glendid strydoedd yn cael ei wneud ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru, gan ddefnyddio'r System Reoli ar gyfer Archwilio'r Amgylchedd Lleol (LEAMS) a Mynegai Glanweithdra Cymru.

Tra bod awdurdodau lleol yn chwarae rhan flaenllaw yn rheoli gwastraff, mae'r sector gwirfoddol a phartneriaethau lleol yn chwarae rhan bwysig hefyd, yn enwedig gyda mentrau ailddefnyddio ac atgyweirio, ac ymgysylltu â chymunedau. Mae gweithredwyr gwastraff masnachol yn gysylltiedig hefyd.

Cryfderau ac Asedau

Mae Cyngor Abertawe wedi sefydlu strategaeth a system ailgylchu gadarn, gyda thrigolion a staff y Cyngor yn dangos ymrwymiad mawr i ailgylchu yn gyffredinol. Mae perfformiad ailgylchu cyffredinol y Cyngor yn parhau i fodloni targedau statudol Llywodraeth Cymru, a chyflawnodd oddeutu 65% yn 2019/20, a chynnal lefel debyg yn 2020/21 er gwaetha'r anawsterau yn sgil Covid.

Mae Cyngor Abertawe yn darparu gwasanaeth ailgylchu a gwastraff bob pythefnos i drigolion, gyda gwastraff bwyd yn cael ei gasglu bob wythnos. Ar wythnosau 'gwyrdd', mae trigolion yn defnyddio bagiau plastig gwyrdd ar gyfer caniau, gwydr, papur a cherdyn, a bagiau gwyn aml dro ar gyfer gwastraff gardd, yn ogystal â gwastraff bwyd. Ar wythnosau 'pinc', mae trigolion yn defnyddio bagiau plastig pinc a ddarparwyd gan y Cyngor ar gyfer poteli, tybiau a hambyrddau plastig, a hyd at dri bag du ar gyfer gwastraff gweddilliol, yn ogystal â'r bin

gwastraff bwyd. Hefyd, mae'r Cyngor yn rhedeg pum canolfan ailgylchu gwastraff cartrefi ledled y sir yn Llansamlet, Y Clun, Garngoch, Penlan a Thir John.

"Un gwasanaeth y mae Cyngor Abertawe yn ei gynnig yr wyf bob amser yn ei deimlo sy'n dda ac yn ddidrafferth yw'r casgliad gwastraff wythnosol. Bob amser yn ddymunol a chyda gwên" – ymatebydd i'r arolwg.

Mae Cyngor Abertawe wedi buddsoddi'n sylweddol i leihau gwastraff, yn bennaf drwy brosiectau atgyweirio ac ailddefnyddio. Mae hanes hir o weithio mewn partneriaeth gan dîm ailgylchu Cyngor Abertawe, ac mae wedi datblygu cysylltiadau cryf gyda'r Ganolfan Amgylcheddol a sefydliadau elusen eraill, yn enwedig mewn perthynas â lleihau gwastraff, atgyweirio ac ailddefnyddio.


Mae lefel dda o arbenigedd caffael gan Gyngor Abertawe, ac mae wrthi'n caffael ateb Troi Gwastraff yn Ynni i ddisodli ei drefn tirlenwi bresennol ar gyfer y mwyafrif o'i wastraff gweddilliol. Delir â'r mwyafrif helaeth o wastraff a gesglir gan Gyngor Abertawe ar gyfer ailgylchu a chompostio yng Nghymru neu Lloegr.

Mae Siop Ailddefnyddio Trysorau Tip y Cyngor yn cael ei gweld fel patrwm o siop ailddefnyddio, ac mae llawer o awdurdodau lleol eraill yn ymweld â hi.

Newidiadau dros gyfnod

Mae perfformiad ailgylchu yn Abertawe wedi cynyddu'n gyson o 48% yn 2012/13 a 60% yn 2015/16, pan gynhaliwyd yr asesiad llesiant diwethaf, gan fodloni pob targed ailgylchu Llywodraeth Cymru – yr un mwyaf diweddar oedd 64%. Mae'r cynnydd mewn ailgylchu a chompostio yn y Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartrefi yn Abertawe wedi cynyddu'n sylweddol hefyd dros y blynyddoedd diwethaf o 56% yn 2012/13 a 61% yn 2015/16 i 92% yn 2020/21. Mae'r gwelliannau hyn wedi'u gwneud drwy fentrau amrywiol dros y blynyddoedd, gan gynnwys cyflwyno'r terfyn 3 bag du, gwahardd deunyddiau y gellir eu hailgylchu o wastraff gweddilliol mewn canolfannau ailgylchu, a gwahardd deunyddiau y gellir eu hailgylchu o wastraff gweddilliol (bagiau du) ar garreg y drws.

Roedd cyfanswm ffigur 2019/20, sef 65%, yn cynnwys oddeutu 42% o ddeunyddiau eildro sych, a 23% o ddeunyddiau y gellir eu compostio o'r cynllun casglu ar garreg y drws, casgliadau gwastraff masnachol a ddarparwyd gan y Cyngor ac o ddeunyddiau a adawyd yn y canolfannau ailgylchu.



Ffigur En9: Cyfraddau ailgylchu a chompostio, Abertawe, 2006-2021

Mae cyfartaledd cyfanswm y gwastraff a gynhyrchir gan bob trigolyn yn Abertawe wedi bod ar duedd am i lawr dros y degawd diwethaf, ond yn ddiweddar mae wedi gwastatau (473kg yn 2013/14, 443kg yn 2017/18 yna 442kg yn 2018/19 a 2019/20). Mae'r gostyngiad hwn mewn gwastraff a gynhyrchir gan gartrefi ynghyd â'r gwelliant mewn cyfraddau ailgylchu wedi arwain at ostyngiad sylweddol ym maint y gwastraff gweddilliol y mae'n rhaid ei waredu trwy dirlenwi (o 223kg yn 2013/14 i 165kg yn 2017/18 a 155kg yn 2019/20).

Mae Cyngor Abertawe'n darparu gwasanaeth casglu gwastraff masnachol ar gyfer rhyw 1,500 o fusnesau a sefydliadau eraill. Mae hyn yn cynnwys ailgylchu bwyd, papur, cerdyn, gwydr a chaniau. Canran y gwastraff masnachol a gasglwyd gan y Cyngor sy'n cael ei ailgylchu neu'i gompostio oedd 63% yn 2020/21, i fyny o 28% yn 2012/13. Mae hyn yn cynnwys llawer iawn o ddeunydd wedi'i ailgylchu o un contract penodol, a phan dynnir hwn allan, y ganran ar draws yr holl gwsmeriaid eraill yw 58%. Nid oes data ar gael ar y lefel ailgylchu a gyflawnwyd gan gontractwyr gwastraff masnachol eraill.

Mae cyfleoedd i ailddefnyddio ac atgyweirio yn Abertawe wedi cynyddu yn y blynyddoedd diwethaf, gyda chynnydd mewn cynlluniau sy'n cael eu harwain gan y gymuned, yn cynnwys siopau elusen a chyflwyno caffis atgyweirio. Amharwyd ar y rhain gan gyfyngiadau Covid. Mae Siop Ailddefnyddio Trysorau Tip y Cyngor wedi tyfu o fod yn uned fach a chwpl o bebyll, i siop gweddol fawr sy'n cael ei rhedeg yn broffesiynol. Hefyd, mae'r Cyngor wedi ymgorffori 'llyfrgell o bethau' yn ddiweddar i alluogi benthyg offer a chyfarpar tŷ, ac mae wedi sefydlu uned symudol caffi atgyweirio.

Mae prosiect Mwy Nag Ailgylchu Abertawe, a reolir gan y Ganolfan Amgylcheddol, wedi darparu ffocws ar gyfer cefnogi amryw o fentrau cymunedol a phartneriaeth ar gyfer ailgylchu, ailddefnyddio ac atgyweirio. Mae'n cynnal caffi atgyweirio misol, sesiynau hyfforddiant cynnal a chadw beiciau rheolaidd ac, mewn partneriaeth â Chyngor Abertawe, mae wedi gosod nifer o orsafoedd trwsio beiciau ar draws Abertawe.

Yn 2019, fe wnaeth y Ganolfan Amgylcheddol a Chyngor Abertawe bartneru gydag elusen Hubbub yn Llundain i gynyddu ailgylchu wrth fynd, a threialu ailgylchu cwpanau coffi. Fel rhan o'r prosiect hwn gwelwyd biniau ailgylchu'n cael gorchudd newydd ar draws canol y ddinas, a chyflwyno biniau ychwanegol.

Gwelwyd ehangu yn y manau casglu a chyfranogiad yn y cynllun Terracycle ar draws Abertawe, sy'n casglu deunydd pecynnu nad yw'n cael ei gasglu trwy gynlluniau ailgylchu'r awdurdod lleol. Hefyd, cafwyd cynnydd yn nifer y digwyddiadau codi sbwriel cymunedol a glanhau traethau.

Cyflawnodd Abertawe Radd B neu'n uwch ar gyfer 96.4% o strydoedd a aseswyd drwy'r System Reoli ar gyfer Archwilio'r Amgylchedd Lleol (LEAMS) yn 2018/19 (i fyny o 91.8% yn 2016/17). Sgoriodd Abertawe 70.1 yn y Mynegai Glanweithdra y flwyddyn honno (i fyny o 69.3 yn 2016/17). Nid oes ffigurau ar gael ar gyfer 2019/20, ac ni chynhaliwyd asesiadau 2020/21 oherwydd Covid.

Mae nifer y digwyddiadau tipio anghyfreithlon a gofnodwyd ar gyfer Abertawe wedi gostwng yn sylweddol yn y pedir blynedd diwethaf o'r nifer uchaf erioed o dros 6,000 yn 2015/16 i 1,450 yn 2019/20 – er bod hyn oherwydd newidiadau mewn arferion gweithredu a meini prawf cofnodi gwahanol cyfatebol.

Cymariaethau â lleoedd eraill

Abertawe yw un o'r awdurdodau lleol trefol sydd â'r perfformiad uchaf o ran ailgylchu, ac mae'r gyfradd ailgylchu tua'r un peth â'r cyfartaledd cenedlaethol (Abertawe 65%, Caerdydd 58%, Castell-nedd Port Talbot 62%, Casnewydd 66%, Cymru 65%).

Mae cyfartaledd cyfanswm y gwastraff a gynhyrchir gan bob trigolyn yn Abertawe yn is na'r cyfartaledd ar draws Cymru (Abertawe: 443kg y pen yn 2019/20, Cymru: 480kg). Yn ddigon tebyg, mae'r gwastraff gweddilliol a gynhyrchir gan bob person yn Abertawe yn is nag chyfartaledd Cymru (Abertawe: 155kg y pen yn 2019/20, Cymru: 167kg).

Er bod Abertawe, yn gyffredinol, yn sgorio'n is na chyfartaledd Cymru ar y Mynegai Glanweithdra a thrwy LEAMS, mae'n ymddangos bod gwahaniaeth cyffredinol rhwng canlyniadau'r awdurdodau trefol mwyaf o gymharu â'r rhai mwy gwledig. Mae Abertawe'n cyflawni'n eithaf ffafriol o gymharu â siroedd tebyg (e.e. ar gyfer LEAMS cafodd radd B neu'n uwch yn 2018/19: Abertawe 96.4%, Caerdydd 96%, Casnewydd 89.6%, Castell-nedd Port Talbot 93.8% ac ar gyfer y Mynegai Glanweithdra yn 2018/19: Abertawe 67.1, Caerdydd 67.3, Casnewydd 64, Castell-nedd Port Talbot 65.9).

Mae nifer y digwyddiadau tipio anghyfreithlon ar hyd Cymru wedi lleihau yn y pedair blynedd diwethaf ond mae hyn yn fach o gymharu â'r gostyngiad sylweddol yn Abertawe (gweler uchod).

Gwahaniaethau ar draws Abertawe

Ar y cyfan, roedd y cynllun Keep Recycling Out (KRO) yn effeithiol o ran cynyddu cyfranogiad yn eang yn y cynllun ailgylchu ar garreg y drws ar draws Abertawe, heb unrhyw faterion nodedig mewn ardaloedd penodol. Yn amlwg mae rhai eiddo unigol lle mae cyfranogiad yn isel, ac mae'r tîm KRO yn gweithio i ymgysylltu â'r eiddo hyn wrth iddynt gael eu hadnabod. Yr eithriad i'r cyffredinol hwn yw fflatiau ac eiddo uchel iawn lle mae'n ymddangos bod llai o ailgylchu'n cael ei gynhyrchu gan y math hwn o eiddo nag mewn eiddo nodweddiadol ar garreg y drws. Mae'r tîm KRO yn gweithio gyda chwmnïau rheoli fflatiau i geisio deall hyn a'i wella.

O ran ailgylchu, mae yna bobl nad ydynt yn cyfranogi ac sy'n anodd eu cyrraedd ar draws yr ardal.

Canfyddiadau a phersbectifau

Cynhaliodd yr awdurdod lleol ymgynghoriadau cyhoeddus yn 2018/19 ynglŷn â chynigion Keep Recycling Out ar gyfer y cynllun casglu ar garreg y drws – roedd y cyhoedd i raddau helaeth o blaid cymryd camau yn erbyn y rheiny nad oeddent yn ailgylchu (roedd 89% yn cytuno'n gryf neu'n tueddu cytuno) – gyda 62% yn cefnogi camau gorfodi fel cam olaf yn erbyn y rhai sy'n gwrthod ailgylchu yn barhaus. Cynhaliwyd ymgynghoriad yn 2015/16 ynglŷn â newidiadau arfaethedig i'r Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartrefi. Roedd y cyhoedd yn cefnogi cynigion y Cyngor i gadw tair canolfan ar agor ar gyfer ailgylchu'n unig, gyda staff yn herio gwastraff na ellir ei ailgylchu ar y ddau safle arall (roedd 59% yn cefnogi).

"Does dim digon o finiau yn Abertawe o bell ffordd, ac mae mynd i'r safle tirlenwi'n anodd ac mae'n ddud trefnu i eitemau gael eu casglu a'u gwaredu hefyd, felly does dim syndod bod y tipio anghyfreithlon mor wael" - ymatebydd i'r arolwg.

Tueddiadau a Rhagolygon i'r Dyfodol ar gyfer Abertawe

Mae strategaeth rheoli gwastraff ddiwygiedig yn cael ei pharatoi gan Gyngor Abertawe i gynyddu perfformiad ailgylchu i 70% erbyn 2024/25, er bod potensial y gallai targedau uwch fyth gael eu gosod gan Lywodraeth Cymru ar ôl 2025.

Mae strategaeth newydd Llywodraeth Cymru, Mwy nag Ailgylchu, yn debygol o arwain at reoliadau a chanllawiau newydd, ac ysgogi gwahanu ac ailgylchu deunyddiau ychwanegol fel cewynnau neu blastig croeniog. Pan fydd cyfleusterau ailgylchu ar raddfa fwy wedi'u datblygu ac yn hyfyw, mae'n debyg y bydd Cyngor Abertawe'n addasu'u casgliadau ar garreg y drws a'r canolfannau ailgylchu gwastraff cartrefi i ddarparu ar gyfer hyn. Hefyd, bydd ffocws yn parhau ar atgyweirio ac aildefnyddio yn unol â'r hierarchaeth wastraff ac egwyddorion economi gylchol.

Mae'n bosibl hefyd y bydd Llywodraeth Cymru'n cyflwyno deddfwriaeth yn datgan y modd y mae'n rhaid cyflwyno deunyddiau y gellir eu hailgylchu ar wahân ar gyfer eu casglu, a gwahardd deunydd y gellir ei ailgylchu o wastraff gweddilliol masnachol. Ar hyn o bryd, mae Cyngor Abertawe'n gorfod mynnu bod cwsmeriaid masnachol yn ailgylchu er mwyn cyfrannu at y targedau ailgylchu, ond mae cwmnïau masnachol yn gallu derbyn contractau casglu

gwastraff heb fynnu ailgylchu i'r un lefel. Os yw rheolau newydd yn cael eu rhoi ar waith, yna byddai'n sicrhau tegwch rhwng y Cyngor a gweithredwyr masnachol, ac yn helpu ysgogi lleihau gwastraff gymaint â phosibl ac yn ysgogi cyfraddau ailgylchu.

Mae ateb newydd Troi Gwastraff yn Ynni Cyngor Abertawe i ddelio â gwastraff gweddilliol i'w roi ar waith erbyn mis Chwefror 2022. Hefyd, mae opsiynau Cerbydau Allyriadau Isel lawn (ULEV) ar gyfer y fflyd casglu gwastraff yn cael eu harchwilio gan y Cyngor.

Integreiddio

Mae'r ffordd y caiff gwastraff ei reoli yn gysylltiedig â nifer o themâu amgylcheddol a'r trywyddau eraill yn yr asesiad hwn. Er enghraifft, bydd y pellter cludo gwastraff at brosesu neu waredu, a'r math a nifer y cerbydau a ddefnyddir ar gyfer casglu a chludo, yn pennu effaith y gweithrediadau hyn ar ansawdd yr aer a newid hinsawdd. Mae gwaredu gwastraff gweddilliol ar safle tirlenwi neu drwy losgi yn allyrru nwyon sy'n newid yr hinsawdd a gallant gael effeithiau lleol hefyd ar iechyd a llesiant. Gallai symud tuag at economi gylchol ddod â llawer o gyfleoedd a buddion i'r amgylchedd, cymdeithas a'r economi yng Nghymru. Mae'r thema hon, felly, yn cysylltu'n gryf â phedwar o'r nodau llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Cymru Lewyrchus, Cymru Gydnerth, Cymru Iachach a Chymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang.

Gwelliant

Y prif ysgogwr ar gyfer gwelliannau mewn rheoli gwastraff yng Nghymru yn y dyfodol fydd strategaeth Mwy nag Ailgylchu Llywodraeth Cymru, sy'n pennu targedau newydd a chynllun i newid i economi gylchol yng Nghymru trwy gadw adnoddau a deunyddiau mewn defnydd cyhyd ag y bo modd ac osgoi pob gwastraff. Mae'r prif gamau gweithredu a gynigir yn y strategaeth yn cynnwys:

- Cefnogi busnesau i ddefnyddio adnoddau'n fwy effeithlon.
- Gweithio gyda dinasyddion i gefnogi mentrau lleol a chamau gweithredu sy'n defnyddio adnoddau'n effeithlon.
- Rhoi'r gorau'n raddol i ddefnyddio eitemau untro diangen, yn enwedig plastig.
- Peidio ag anfon unrhyw blastig i safleoedd tirlenwi a lleihau faint sy'n cael ei anfon i adfer ynni.
- Dileu gwastraff bwyd y gellir ei osgoi ar wahanol gamau – cynhyrchu, dosbarthu, prosesu, bwyta, gwaredu.
- Cyflawni'r cyfraddau ailgylchu uchaf yn y byd.
- Lleihau effaith casglu gwastraff o'n cartrefi a'n busnesau ar yr amgylchedd.
- Cymryd cyfrifoldeb llawn am ein gwastraff.

Disgwylir i Gyngor Abertawe bennu cwmpas y 3-4 blynedd nesaf o'i Strategaeth Rheoli Gwastraff, ac, ynghyd â phartneriaid lleol eraill, bydd yn chwarae rhan i gyflawni'r amcanion cenedlaethol hyn.

Ynglŷn â'r dystiolaeth

Mae data cynhwysfawr ar berfformiad ailgylchu gan awdurdodau lleol ledled Cymru yn cael ei nodi a'i adrodd drwy Wastedataflow a'i gyflwyno ar wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ailgylchu Cymru.

Gallai fod yn fuddiol i ddata o weithrediadau contractwyr gwastraff masnachol gael ei gasglu a'i adrodd mewn ffordd debyg. Hefyd, gellid archwilio mecanweithiau ar gyfer mesur effeithiau cynlluniau ailddefnyddio ac atgyweirio yn y gymuned.

Casgliadau a negeseuon allweddol

- Mae perfformiad ailgylchu cyffredinol Cyngor Abertawe yn parhau i fodloni targedau statudol Llywodraeth Cymru.
- Tra bod cyfraddau ailgylchu a chompostio gwastraff cartrefi yn parhau i godi, mae cyfanswm sgil-gynhyrchion gwastraff a lefelau gwastraff gweddilliol yn Abertawe yn parhau i ostwng.
- Disgwylir i strategaeth Llywodraeth Cymru, Mwy nag Ailgylchu, i ysgogi gwelliannau pellach.
- Ceir gweithio cryf mewn partneriaeth yn y maes rheoli gwastraff yn Abertawe rhwng yr awdurdod lleol, y Ganolfan Amgylcheddol a grwpiau lleol eraill, yn enwedig mewn perthynas â lleihau gwastraff, atgyweirio ac ailddefnyddio.
- Gall prosiectau sy'n cael eu harwain gan y gymuned a phrosiectau partneriaeth wneud cyfraniad nodedig at wthio rheoli gwastraff yn uwch i fyny'r hierarchaeth wastraff, ac ar gyfer delio â sbwriel a thipio anghyfreithlon.

Cynhyrchu a Defnyddio Ynni

Mae cynhyrchu a defnyddio ynni, yn enwedig o danwydd ffosil, yn un o brif yrwyr cynhesu byd-eang a arweiniodd at yr argyfwng hinsawdd. Mae hyn wedi creu pwysau ar adnoddau naturiol ac wedi effeithio'n negyddol ar ein hiechyd a'n llesiant. Bydd y newid i economi carbon isel drwy fwy o effeithlonrwydd ynni a chynhyrchu'r ynni rydym ei angen o ffynonellau cynaliadwy, adnewyddadwy yn ein galluogi i leihau'r effeithiau hyn.

Mae Cymru yn allforiwr net o drydan; ar ôl defnyddio tua 15TWh o drydan, mae'n cynhyrchu tua 30TWh. Daw tua 27% o'r trydan a gynhyrchir yng Nghymru o ynni adnewyddadwy, gyda llawer o'r gweddill yn cael ei gynhyrchu gan orsafoedd pŵer tanwydd nwy. Yn 2018, daeth 29% o allyriadau nwyon tŷ gwydr Cymru o'r sector cyflenwi ynni, ond mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu dileu bron yr holl allyriadau o orsafoedd pŵer erbyn 2035.

Bu cynhyrchu ynni adnewyddadwy yng Nghymru yn cynyddu'n gyflym yn ystod y blynyddoedd diwethaf, yn enwedig drwy osod paneli ffotofoltäig a thyrbinau gwynt ar y tir, ac mae llawer o gynlluniau'n cael eu datblygu i ehangu cynhyrchiant ynni adnewyddadwy ar lefel ddiwydiannol a chymunedol. Fodd bynnag, dylid nodi bod technolegau adnewyddadwy yn dal i gyfrannu at bwysau amgylcheddol ar argaeledd tir, ecosystemau ac iechyd dynol, a'r defnydd o adnoddau.

Mae'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR) diweddaraf a gyhoeddwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru yn 2020 yn nodi ynni fel un o dri maes allweddol, ochr yn ochr â bwyd a thrafnidiaeth, sy'n gofyn am drawsnewid cymdeithasol a systemau er mwyn mynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur. Mae adroddiad SoNaRR2020: Pontydd i'r Dyfodol yn awgrymu bod lleihau'r defnydd o ynni, cynyddu effeithlonrwydd, datblygu ynni adnewyddadwy a datgarboneiddio i gyd yn angenrheidiol i ymdrin ag allyriadau carbon ac ansawdd aer, a bydd yn golygu dull cydgysylltiedig rhwng y sectorau cyhoeddus a phreifat.

Bydd y trawsnewid hwn yn y system ynni nid yn unig yn helpu i fynd i'r afael â phryderon amgylcheddol ond hefyd yn dod â manteision cymdeithasol ac economaidd. Cyfeirir yn aml at y 'trilema ynni' gyda thri dimensiwn craidd o gynaliadwyedd ynni – sicrwydd ynni (symud tuag at fwy o leoleiddio a hunangynhaliath wrth gynhyrchu ynni), tegwch ynni (mynd i'r afael â thlodi ynni) a chynaliadwyedd amgylcheddol (datgarboneiddio ac effeithlonrwydd systemau ynni).

Un o'r prif ddefnyddiau ar gyfer ynni yw gwresogi, goleuo ac oeri ein cartrefi ac adeiladau eraill, gan gyfrif am tua 1/3 o allyriadau carbon yng Nghymru. Awgrymodd adroddiad gan y Pwyllgor ar Newid yn yr Hinsawdd yn 2019, os ydym am gwrdd â thargedau newid hinsawdd y DU sy'n gyfreithiol-rwymol, yna bydd angen dileu'r allyriadau nwyon tŷ gwydr o adeiladau bron yn gyfan gwbl. Byddai hyn yn cael ei gyflawni'n bennaf trwy fesurau effeithlonrwydd ynni, cynhyrchu trydan carbon isel ar y safle a defnyddio systemau gwresogi carbon isel.

Cryfderau ac Asedau

Mae sawl prosiect ynni adnewyddadwy cymunedol wedi datblygu yn Abertawe gan gynnwys fferm solar gymunedol gyntaf Cymru a sefydlwyd yn Abertawe yn 2017. Sefydlwyd y fferm solar arobryn 1MW ar y ddaear yn Nyfnant gan Gower Power, menter gymdeithasol leol, ac mae'n cynhyrchu digon o drydan glân i bweru dros 300 o dai. Mae'r holl elw yn mynd i gefnogi prosiectau cymunedol ac addysgol. Ers hynny, mae Gower Power wedi gosod cyfleuster storio ynni i alluogi busnesau a chartrefi lleol i newid i gyflenwad ynni gwyrdd lleol.

Bu Gower Power hefyd yn cydweithio â Chyngor Abertawe a'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni i sefydlu Cynllun Ynni a Menter Cymunedol Abertawe (SCEES) prosiect solar arall sy'n eiddo i'r gymuned a osododd baneli solar ffotofoltäig ar 9 ysgol ac 1 cartref gofal yn wardiau Townhill a Phenderi a'r cyffiniau yn Abertawe. Mae'r gosodiadau hyn yn darparu trydan glanach a mwy fforddiadwy ar gyfer pob adeilad ac maent yn adnodd addysgol gwerthfawr i'r gymuned leol, gydag unrhyw arian dros ben yn cefnogi prosiectau ynni a sgiliau yn rhai o gymunedau tlotaf Abertawe.

"Hoffwn weld mwy o baneli solar yn cael eu darparu ar gyfer perchnogion tai yn hytrach na thirfeddianwyr. Byddai hyn yn ynni gwyrdd rhatach mwy effeithlon" – ymatebydd i'r arolwg.

Mae Egni Co-op, a sefydlwyd gan yr elusen Awel Aman Tawe o Rydaman, wedi gosod dros 4,400KW o baneli solar to sy'n eiddo i'r gymuned ar 88 o ysgolion, busnesau bach ac adeiladau cymunedol ledled Cymru gan gynnwys dros 350KW o ynni solar ar nifer o ysgolion a chanolfannau cymunedol yn Abertawe.

Yn 2019, comisiynwyd fferm wynt Mynydd y Gwair. Mae'r datblygiad 16-tyrbin hwn, sydd wedi'i leoli rhwng Rhydaman a Chlydach, gyda chapasiti o 33MW, sy'n golygu mai hon yw'r nawfed fferm wynt fwyaf (yn ôl capasiti) yng Nghymru, y disgwylir iddi gynhyrchu trydan i bweru cyfwerth â 22,600 o gartrefi.

Mae amrediad y llanw ym Mae Abertawe yn addas ar gyfer cynlluniau ynni llanw posibl a chafwyd cyfres o gynigion ar gyfer prosiect morlyn llanw arloesol i Abertawe. Cefnogir y cynnig diweddaraf, Ynys y Ddraig, gan Gyngor Abertawe, ac mae'n cynnwys cynigion ar gyfer cartrefi ynni-ffeithlon arnofiol a fferm solar arnofiol.

"Fe ddylen ni adeiladu'r morglawdd [y morlyn llanw] i helpu i ddarparu ynni glân. Byddai'n darparu swyddi, cyfleoedd hamdden ac yn gwella'r hinsawdd" – ymatebydd i'r arolwg.

Mae gan Gyngor Abertawe a chymdeithasau tai sy'n gweithredu yn Abertawe hanes cryf o wneud gwelliannau effeithlonrwydd ynni i'w stoc tai ac adeiladu tai cymdeithasol newydd i safonau effeithlonrwydd ynni uchel a chyda thechnolegau ynni adnewyddadwy. Er enghraifft, adeiladwyd 18 o gartrefi ar Colliers Way ym Mhenlan, a agorwyd yn 2018 a dyma'r tai cyngor cyntaf i'w hadeiladu gan Gyngor Abertawe ers dros 50 mlynedd, i safon Passivhaus. O'r profiad a gafwyd trwy'r datblygiad hwn, gan weithio gyda chontractwyr mewnol, dyfeisiodd y Cyngor safon Abertawe ar gyfer ei holl dai newydd, sy'n anelu at gyflawni gwelliant o 25% ar y rheoliadau adeiladu presennol. Cymhwyswyd hyn i 16 o gartrefi newydd yng Ngellifedw a gwblhawyd yn 2020 ac ail gam cynllun Colliers Way yn 2021. Datblygwyd y rhain fel rhan o'r Rhaglen Tai Arloesol ac maent wedi'u dylunio fel gorsafoddd pŵer bach gyda thoeau solar, batris storio Tesla a phympiau gwres ffynhonnell daear.

Yn aml, mae Cyngor Abertawe a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig eraill wedi gallu sicrhau cyllid i gefnogi mesurau i wella effeithlonrwydd ynni mewn tai cymdeithasol presennol, megis inswleiddio a gosod boeleri newydd. Ers mis Ionawr 2020, mae Cyngor Abertawe hefyd wedi cefnogi cynllun ECO Flex Llywodraeth y DU sydd wedi'i anelu at gartrefi perchen-feddiannydd a chartrefi sy'n cael eu rhentu'n breifat sy'n aneffeithlon o ran ynni neu lle mae aelwydydd yn fwyaf tebygol o brofi tlodi tanwydd. Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, cafodd dros 100 o eiddo preifat yn Abertawe y cymorth hwn.

Mae llawer o gyrff cyhoeddus a sefydliadau a busnesau eraill yn Abertawe wedi bod yn cydweithio ers blynyddoedd lawer i leihau eu hallyriadau carbon a chostau ynni drwy rwydwaith unigryw Bae Abertawe Carbon Isel.

Mae Prifysgol Abertawe yn gartref i brosiect SPECIFIC sydd ar flaen y gad o ran arloesi mewn ymchwil technoleg ynni ac arddangosiadau ar raddfa lawn. Mae prosiectau ymchwil yn cynnwys systemau dal solar a storio ynni blaengar ac adeiladau arddangos ynni positif cwblweithredol wedi eu creu.

Mae portffolio prosiectau a rhaglenni Bargen Ddinesig Bae Abertawe yn canolbwyntio'n fawr ar ynni adnewyddadwy ac ynni glân, datgarboneiddio diwydiant a thwf carbon isel. Er bod llawer o'r prosiectau hyn wedi'u lleoli mewn siroedd eraill, gyda mentrau ynni allweddol wedi'u clystyru o amgylch Castell-nedd Port Talbot a Doc Penfro, mae'r prosiect Cartrefi fel

Gorsafoedd Pŵer yn cael ei gyflwyno ledled y rhanbarth. Mae'r fenter hon yn cyflwyno'r technolegau dylunio ac effeithlonrwydd ynni diweddaraf i filoedd o eiddo, gan gynnwys yn Abertawe, ac yn defnyddio rhai o'r datblygiadau arloesol a ddatblygwyd ym Mhrifysgol Abertawe.

Fel rhan o Brosiect Ail-Egnioli Cymru y Sefydliad Materion Cymreig, cynhaliodd sefydliad arbenigol ynni annibynnol, Regen, ddadansoddiad o'r galw am ynni yn y dyfodol a ffynonellau posibl o gynhyrchu ynni yn Ninas-Ranbarth Bae Abertawe a chyhoeddodd adroddiad cynhwysfawr yn 2018 sy'n darparu gweledigaeth a set o lwybrau posibl i greu system ynni carbon isel ar gyfer y rhanbarth erbyn 2035.

Newidiadau dros gyfnod

Mae cynhyrchu ynni adnewyddadwy yn Abertawe wedi bod yn cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf a dangosodd adroddiadau Cynhyrchu Ynni yng Nghymru, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, ei fod bron wedi dyblu o 87GWh yn 2018 i 162GWh yn 2019.

Ynghyd â'r rhan fwyaf o sefydliadau'r sector cyhoeddus, mae Cyngor Abertawe wedi bod yn lleihau ei ddefnydd o ynni fel rhan fawr o'i Ymrwymiad Lleihau Carbon (CRC). Yn 2019/20, nododd yr awdurdod lleol ostyngiad o 55% mewn allyriadau yn erbyn llinell sylfaen 2010. Ymhlith y polisiâu sydd wedi helpu i gyflawni'r gostyngiad hwn mae uwchraddio dros 21,000 o oleuadau stryd i oleuadau stryd LED. Mae Cyngor Abertawe hefyd yn caffael ei holl drydan o ffynonellau adnewyddadwy ac mae Cronfa Bensiwn Cyngor Abertawe wedi cyhoeddi cynlluniau i symud oddi wrth fuddsoddiadau mewn cwmnïau tanwydd ffosil.


Graddiad y Weithdrefn Asesu Safonol (SAP) yw'r system a ddefnyddir ar gyfer monitro ac adrodd ar effeithlonrwydd ynni adeiladau. Mae cyfradd SAP gyfartalog stoc tai cyngor Abertawe wedi bod ar duedd ar i fyny ers nifer o flynyddoedd ac wedi cyrraedd 69 - gofyniad y SATC yw 65.

Cymariaethau â lleoedd eraill

Mae capasiti cynhyrchu ynni yn Abertawe yn gymharol isel gyda chynhyrchu trydan yn seiliedig ar danwydd ffosil yn cyfrif am ychydig dros 1% o gyfanswm y capasiti ledled Cymru, a chynhyrchu ynni o ynni adnewyddadwy yn Abertawe o dan 2.5% o gyfanswm Cymru.

Er y bu rhai prosiectau ynni adnewyddadwy nodedig a arweinir gan y gymuned yn Abertawe, prin yw'r cynlluniau masnachol ac ar hyn o bryd mae gan Abertawe un o'r lefelau isaf o gynhyrchu ynni adnewyddadwy o'i chymharu â siroedd eraill yng Nghymru. Mae siroedd cyfagos Castell-nedd Port Talbot a Sir Gaerfyrddin ymhlith y rhai sydd â'r lefelau uchaf o ynni a gynhyrchir.

Maint yr ynni adnewyddadwy a gynhyrchwyd yn ôl ardal awdurdod lleol



Ffigur En10: Cynhyrchu ynni adnewyddadwy yng Nghymru, 2019

Nododd Arolwg Cyflwr Tai Cymru (WHCS) 2017-18 fod tua 10% o gartrefi yn Abertawe yn profi tloidi tanwydd. Er bod hyn ychydig yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru gyfan, mae'n cyfateb i nifer sylweddol o aelwydydd (tua 11,000).

Gwahaniaethau o fewn Abertawe

Cafodd Cyngor Abertawe gyllid sylweddol a chyflawnodd gynllun Ardal Adnewyddu Sandfields a oedd yn cynnwys gwelliannau effeithlonrwydd ynni i dai cymdeithasol a phreifat, ac yn dilyn ymlaen o gynllun tebyg yn Hafod. Mae cynlluniau grant a rhaglenni gwella eraill yn aml yn canolbwyntio ar dai cymdeithasol neu ar aelwydydd preifat sy'n profi tloidi tanwydd neu mewn perygl o hynny.

"Adeiladu cartrefi ynni effeithlon, byddai hyn yn helpu gyda thloidi gan y byddai llai o filiau ynni" – ymatebydd i'r arolwg.

Tueddiadau a rhagolygon i'r dyfodol i Abertawe

Mae Cynllun Cymru Sero-net Llywodraeth Cymru (Cyllideb Garbon 2,) a gyhoeddwyd yn 2021 yn nodi'r bwriad i bron ddileu allyriadau nwyon tŷ gwydr o bwerdai erbyn 2035, a sicrhau bod cyflenwad pŵer yn cael ei fodloni drwy ffynonellau sydd wedi'u datgarboneiddio cyn gynted â phosib ac o 2035 fan bellaf. Mae'n bwriadu cyflawni hyn drwy leihau'r pŵer a gynhyrchir gan danwydd ffosil yn gyffredinol; cynyddu'r defnydd o ynni adnewyddadwy fel bod Cymru'n cynhyrchu 70% o'i defnydd o drydan o ynni adnewyddadwy erbyn 2030, a thrwy gefnogi arloesedd yn y sector pŵer.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targedau uchelgeisiol ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy, gan gynnwys hyrwyddo perchnogaeth gymunedol. Yn ogystal â'r targed uchod o 70% ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy cyffredinol, mae hefyd yn anelu at

sicrhau bod un gigawat o gapasiti ynni adnewyddadwy yn cael ei berchenogi'n lleol erbyn 2030, a bod pob prosiect ynni adnewyddadwy newydd gydag o leiaf elfen o berchnogaeth leol o 2020.

Bydd ymrwymïadau carbon sero-net Llywodraeth Cymru, gan gynnwys sector cyhoeddus sero-net erbyn 2030 a chenedl sero-net erbyn 2050, yn cael effaith sylweddol ar gynhyrchu a defnyddio ynni ledled Cymru, dan arweiniad awdurdodau lleol a chyrrff eraill yn y sector cyhoeddus.

Mae nifer o ddatblygiadau tai cymdeithasol ac ôl-osodiadau yn cael eu darparu neu eu cynllunio yn Abertawe gan yr awdurdod lleol a chymdeithasau tai lleol, mewn rhai achosion mewn partneriaeth â phartneriaid yn y sector masnachol neu wirfoddol, i safonau effeithlonrwydd ynni lefel uchel neu gyda thechnolegau adeiladu adnewyddadwy neu arloesol.

Yng Nghynllun Cenedlaethol Cymru'r Dyfodol 2040 Llywodraeth Cymru, nodwyd Abertawe yn Faes Blaenoriaeth ar gyfer Rhwydweithiau Gwres Ardal. Mae hyn yn golygu y dylai fod gan ddatblygiadau defnydd cymysg ar raddfa fawr, lle bo'n ymarferol, rwydwaith gwres gyda ffynhonnell ynni adnewyddadwy/carbon isel neu wres gwastraff.

Mae tlodi tanwydd yn debygol o ddod yn bryder cynyddol yn y dyfodol agos o ganlyniad i gostau sy'n codi'n gyflym, ond bydd trawsnewid y system ynni yn ceisio mynd i'r afael â hyn yn y tymor hwy, ynghyd â materion amgylcheddol ac economaidd.

Integreiddio

Fel y soniwyd yn gynharach, mae'r trilema ynni yn amlygu'r cysylltiadau cryf sydd gan gynhyrchu a defnyddio ynni gyda materion economaidd a chymdeithasol, heb sôn am lawer o faterion amgylcheddol yn ogystal. Mae trawsnewid a datgarboneiddio'r sector ynni yn cynnig cyfleoedd ar gyfer datblygu busnes, cyflogaeth mewn swyddi medrus iawn, dileu tlodi tanwydd a gwelliannau i iechyd a llesiant dinasyddion, yn ein rhanbarth ni ac ar draws y byd. O'r herwydd, mae'r thema hon yn torri ar draws y rhan fwyaf o nodau llesiant Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol.

Gwelliant

- Datgarboneiddio'r sector ynni drwy gynnydd mewn cynhyrchu ynni o ffynonellau adnewyddadwy, gan gynnwys cynnydd mewn ynni sy'n eiddo i'r gymuned a chynhyrchu ynni yn lleol ac, o bosibl, y newid o nwy naturiol i hydrogen.
- Cynnydd mewn mesurau effeithlonrwydd ynni mewn cartrefi ac adeiladau eraill, gan gynnwys y defnydd o dechnolegau ynni cynaliadwy ac adnewyddadwy.
- Newid i gynhyrchu a defnyddio ynni mwy cynaliadwy sy'n galluogi pawb i ddiwallu eu hanghenion ynni.

Ynglŷn â'r dystiolaeth

Mae mecanweithiau yn eu lle ar gyfer mesur a monitro data ar gynhyrchu ynni a chapasiti ar lefel genedlaethol a lleol. Mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus a sefydliadau mwy fonitro'r defnydd o ynni fel rhan o'u hadroddiadau carbon. Cesglir data ar effeithlonrwydd ynni cartrefi fel rhan o Arolygon Cyflwr Tai a gynhelir gan awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru, a thrwy ddefnyddio Tystysgrifau Perfformiad Ynni (EPCs).

Casgliadau a negeseuon allweddol

- Mae polisiâu, targedau a chynlluniau yn eu lle yng Nghymru i leihau'r defnydd o danwydd ffosil, gwella effeithlonrwydd ynni a chynyddu'r defnydd o dechnoleg ynni adnewyddadwy.
- Ar hyn o bryd, lefel gymharol isel o ynni a gynhyrchir yn Abertawe, ond byddai sector ynni adnewyddadwy cryfach ym mherchnogaeth y gymuned a'r datblygiad arfaethedig o forlyn llanw yn gwneud gwahaniaeth sylweddol i'r gymhareb rhwng cynhyrchu a defnyddio yn Abertawe.
- Mae ymrwymïadau lleol cryf i ddatblygu cartrefi ynni effeithlon ac adeiladau eraill ond mae talu costau hyn mewn tai cymdeithasol a phreifat yn heriol iawn.
- Mae'r sector cyhoeddus yn Abertawe yn arwain ar yr agenda datgarboneiddio, y gostyngiad yn y defnydd o ynni a'r newid i dechnolegau carbon isel ac adnewyddadwy.
- Mae partneriaethau cryf yn Abertawe a'r rhanbarth ehangach sy'n cefnogi cydweithredu a rhannu gwybodaeth rhwng sefydliadau a sectorau.
- Dylai trawsnewid y system ynni ganolbwyntio ar ddileu tlodi tanwydd, yn ogystal ag ar fuddion amgylcheddol ac economaidd.

Llesiant diwylliannol

Cyflwyniad

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cydnabod diwylliant fel rhan annatod o lesiant am y tro cyntaf. Mae Llesiant Diwylliannol yn derm cyfannol sy'n ymdrin â lluo o bynciau o Dwristiaeth i Wirfoddoli a'r Iaith Gymraeg i Chwaraeon ac Iechyd. Gan nad yw Llesiant Diwylliannol wedi'i ddiffinio'n glir yn y Ddeddf, rydym wedi ystyried y diffiniad a ganlyn gan Weinyddiaeth Diwylliant a Threftadaeth Seland Newydd; "Y bywiogrwydd y mae cymunedau ac unigolion yn ei fwynhau trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden, creadigol a diwylliannol [a'r] rhyddid i gadw, dehongli a mynegi eu celfyddydau, eu hanes, eu treftadaeth a'u traddodiadau."

Mae nifer o Ddangosyddion Cenedlaethol yn gysylltiedig â Llesiant Diwylliannol, gan gynnwys y rhai sy'n canolbwyntio ar gyfranogiad yn y celfyddydau, diwylliant, gweithgareddau chwaraeon a threftadaeth, gallu yn y Gymraeg, ac ymdeimlad o berthyn i'r ardal leol.

Un o saith nod llesiant y Ddeddf yw "Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu". Y weledigaeth ar gyfer Cymru yw "erbyn 2050, bydd diwylliant ac iaith yn parhau i fod yn rhan o'n bywydau o ddydd i ddydd ac yn cael eu gwerthfawrogi fel nodwedd gynhenid o'n llesiant cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd. Bydd y Gymraeg yn ffynnu, gyda dros filiwn o siaradwyr Gymraeg yn ei defnyddio ym mhob agwedd o fywyd a gwaith bob dydd, ac addysg cyfrwng Gymraeg ar gael i bawb. Bydd creadigrwydd yn cael ei gydnabod fel sgil hanfodol a gwerthfawr a bydd pawb yn gallu cael mynediad i ddiwylliant a chymryd rhan ynddo, waeth beth fo'u cefndir neu ble maent yn byw."

Mae'r bennod hon yn nodi'r canlynol fel Pynciau Allweddol:

- Asedau Diwylliannol;
- Celfyddydau, Diwylliant, Treftadaeth a Digwyddiadau;
- Chwaraeon ac Iechyd;
- Yr Iaith Gymraeg; a
- Chyfranogiad Cymunedol.

Cafodd meysydd o fewn pynciau allweddol Llesiant Diwylliannol eu taro'n galed gan bandemig y Coronafeirws, gyda lleoliadau a gwasanaethau diwylliannol yn cau ar draws y ddinas. Nododd astudiaeth gan Brifysgol Sheffield "Gwelodd sector eang y Celfyddydau, Adloniant a Hamdden (sy'n cynnwys diwylliant, ond hefyd chwaraeon a gamblo) ostyngiad o 60% mewn allbwn (Gwerth Crynswth Ychwanegol) a 450k o swyddi ar ffyrlo.

Mae hyn yn cynrychioli 55% o gyfanswm y swyddi yn y sector (yr ail uchaf ar ôl Llety a Bwyd ar 56%, a llawer uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 16%). Cyflwynwyd 80,000 o hawliadau o dan y Cynllun Cymhorthdal Incwm Hunangyflogaeth (SEISS) yn yr un sector, sef 68% o'r boblogaeth gymwys." Lliniarwyd rhywfaint o hyn drwy ddefnyddio technoleg ddigidol, tra nad yw eraill yn dal i allu gweithredu o hyd.

Asedau Diwylliannol

Cryfderau ac Asedau

Gall asedau diwylliannol gynnwys y celfyddydau, adnoddau treftadaeth naturiol, celf gyhoeddus, lleoliadau diwylliannol, cyfleusterau hamdden a digwyddiadau.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae nifer y lleoliadau diwylliannol yn Abertawe wedi cynyddu, gydag ail-frandio'r Stryd Fawr yn 'bentref trefol' yn arbennig yn arwain at agor Theatr Volcano ac Oriol Elysium. Ymhlith y lleoliadau diwylliannol pwysig yn Abertawe mae Oriol Gelf Glynn Vivian (GVAG), Neuadd Brangwyn, Arddangosfa Dylan Thomas (DTE), Amgueddfa Abertawe, Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Canolfan Celfyddydau Taliesin, y Ganolfan Eifftaidd, a Neuadd Fawr Prifysgol Abertawe ar Gampws y Bae.

Mae 17 o lyfrgelloedd ar draws Abertawe sy'n darparu mynediad i gasgliadau hanesyddol, cyhoeddiadau, llyfrau, mapiau a phapurau newydd, a chyfryngau eraill sy'n dyddio'n ôl i'r cyfnod cyn sefydlu Llyfrgell Ganolog Abertawe yn 1887. Mae'r adnoddau yn cynorthwyo'r gwasanaeth i greu arddangosfeydd bach o ddeunyddiau lleol perthnasol i gefnogi themâu diwylliannol a threftadaeth lleol, a dathlu llwyddiannau hanesyddol.

Mae'r Gwasanaeth Llyfrgell yn dathlu ac yn adlewyrchu hanes ei gymunedau trwy lenyddiaeth, deunydd archif, ffotograffau a straeon a rennir.

Mae cyfleusterau hamdden Abertawe'n darparu profiad hamdden a ffitrwydd o safon sy'n anelu at gael effaith gadarnhaol ar iechyd a llesiant trigolion a chymunedau Abertawe; gan ddarparu cyfleoedd, lleihau rhwystrau a gwella hygyrchedd i bawb.

Mae ehangder y gwasanaethau yn cael eu cynnal trwy bartneriaethau cryf, ac economi gymysg o fodelau gweithredu amrywiol fel sy'n addas i'r cyfleusterau. Ategir cyfleusterau a ariennir yn gyhoeddus gan amrywiaeth o gyfleusterau mewn perchnogaeth breifat ac a weithredir yn breifat, ochr yn ochr ag asedau a reolir gan y gymuned ac asedau a hunanreolir, gan arwain at gynnig amrywiol, yn ddaearyddol ac yn economaidd, i amrywiaeth o gwsmeriaid a marchnadoedd.

Mae cestyll Ystumllwynarth a Weble yn enghreifftiau da o adeiladau treftadaeth a henebion cofrestredig, sy'n atyniadau poblogaidd i ymwelwyr. Cadw sy'n gyfrifol am adfeilion cestyll Abertawe, Weble a Chasllwchwr; a Chyngor Abertawe ar gyfer Cestyll Ystumllwynarth a Morris (mae'r olaf yn enghraifft gynnar o dai gweithwyr). Yn ogystal, mae llawer o eglwysi hanesyddol yn yr ardal, yn arbennig o nodedig yn eu plith mae'r eglwysi plwyf hynafol niferus ar Benrhyn Gŵyr. Mae parciau Fictoraidd Abertawe hefyd yn cynnwys adeiladau hanesyddol o ddiddordeb, fel y Swiss Cottage ym Mharc Singleton.

"Fe ddylen ni gynnal ein hadeiladau hanesyddol a'n henebion a'u hyrwyddo ym mhedwar ban byd. Pan oeddwn i'n gweithio dramor roedd pawb wedi'u swyno gan ein cestyll, ein llên gwerin am ddreigiau etc." – Ymatebydd i'r arolwg.

Mae Abertawe yn cael ei hadnabod fel Dinas mewn parc, gyda:

- 163 o barciau a manau gwyrdd gan gynnwys caeau chwaraeon, gerddi botanegol arbenigol a gerddi Clun;
- Tua 120 o gyfleusterau chwarae gan gynnwys 86 o feysydd chwarae, ardaloedd gemau amlddefnydd (MUGAs), cyfleusterau parc sglefrio, Llwybrau Trim a thraciau BMX;
- Dyfarnwyd statws baner werdd i nifer o barciau o un flwyddyn i'r llall; a
- Chynllun Plannu Blodau Gwylt gyda dros 41,000 metr sgwâr o flodau gwylt yn eu blodau bob blwyddyn ledled y ddinas.

Ar hyn o bryd, mae gan Abertawe 40 o adeiladau cymunedol ledled y ddinas, gan gynnwys canolfannau cymunedol, neuaddau coffa a phafiliynau. Cânt eu rhedeg gan bwyllgorau rheoli gwirfoddol sy'n cynnwys pobl o'u cymunedau lleol a'u cefnogi gan Dîm Datblygu Cymunedol i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn fywiog, cynhwysol ac ymatebol i anghenion eu cymunedau. Maent yn darparu gofod cymdeithasol y mae mawr ei angen a lleoliad fforddiadwy i hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol, diwylliannol ac ariannol, ac i gynyddu ymgysylltiad a chyfranogiad cymunedol.

"Cyfranogiad cymunedol a gwirfoddoli yw'r maes pwysicaf gan eu bod yn cyfrannu tuag at gadernid cymunedol ac yn gwella lles" – ymatebydd i'r arolwg.

Mae ystod o asedau yn cael eu prydlesu ar hyn o bryd i grwpiau Cymunedol ar draws Abertawe, gan gynnwys; 16 o randiroedd ochr yn ochr â nifer o gaeau chwarae, Pafiliynau Chwaraeon, Pafiliynau Bowlio, Mannau Gwyrdd ac, mewn rhai achosion, ardaloedd dynodedig o barciau penodol yn cael eu rheoli gan grwpiau 'Cyfeillion'.

Newidiadau dros gyfnod

Er bod parch mawr a phositifrwyd i'r cynnig diwylliannol ar draws Abertawe gyda nifer uchel yn manteisio arno, a bod argaeledd ac amrywiaeth yn y cynnig, nododd Asesiad 2017 y gellid datblygu cyfranogiad cymunedol ymhellach mewn rhai ardaloedd.

Rhaglen a gefnogir gan Lywodraeth Cymru yw Cyfuno, a ddyluniwyd i fynd i'r afael â thlodi drwy ddeall ein cymunedau a'u hanghenion yn well; ymgynghori a gwell gwaith partneriaeth; mapio ein gwaith a chynabod meysydd i'w datblygu; mynd i'r afael â rhwystrau i ymgysylltu – ariannol, daearyddol a seicolegol – er mwyn cefnogi pobl i wella eu llesiant eu hunain tra'n ennill sgiliau ar gyfer bywyd a chyflogaeth. Cydlynir y rhaglen yn Abertawe trwy bartneriaeth rwydweithio o'r enw Partneriaeth Dysgu Creadigol Abertawe ac fe'i dyfynnir yn rheolaidd fel enghraifft o arfer gorau, a darpariaeth lwyddiannus, gan gydweithwyr yn Llywodraeth Cymru.

Cyflawnwyd y buddsoddiad mewn adfer rhannau o safle Gwaith Copr Hafod-Morfa drwy Arian Treftadaeth y Loteri Genedlaethol a buddsoddiad preifat, yn rhannol ar gyfer creu menter newydd ac estyniad i ddistyllfeydd Penderyn – ac mae gwaith yn parhau i adfer a dod â'r agwedd hon ar hanes diwylliannol Abertawe yn ôl i ddefnydd masnachol a chymunedol. Mae'r adeiladau a'r dirwedd o'i chwmpas yn darparu 'amgueddfa fyw', gan helpu i ddarlunio a deall esblygiad y ddinas o'i dyddiau pryd y câi ei hadnabod fel Copperopolis, yn mewnforio ac allforio arloesedd diwydiannol yn fyd-eang, i effaith y chwyldro diwydiannol ar siâp presennol

canol y ddinas, adeiladau hanesyddol a chasgliadau celf a threftadaeth gyhoeddus. Yn 2014 hefyd, addaswyd at ddibenion gwahanol y ganolfan lenyddiaeth fel Canolfan ac Arddangosfa Dylan Thomas, ac fel rhan o ddathliadau Dylan 100, ochr yn ochr ag adfer adeilad rhestredig Gradd I Neuadd y Dref a Neuadd Brangwyn. Yn 2015, ailagorwyd Oriol Gelf Glynn Vivian yn dilyn buddsoddiad helaeth, gydag estyniad newydd a neuaddau arddangos ac ystafelloedd cadwraeth addas i'r diben, ac yn fwy diweddar, Theatr y Palas rhestredig Gradd II a Neuadd Albert, a fydd ill dau yn cynnig cwrpas ar gyfer diwydiannau creadigol a thechnoleg, celfyddydau byw, gofod cynadledda a pherfformio, am fuddsoddiad o £20m, gan ychwanegu at gynnig cyffredinol y ddinas fel lle ar gyfer datblygiad creadigol a diwylliannol. Yn ogystal, ar hyd yr amserlen, mae'r goedwig a'r dirwedd o amgylch hen dŷ Penllergaer yn cael eu hadfer gan Ymddiriedolaeth, ynghyd â llawer o'i nodweddion gardd hanesyddol, gan ychwanegu at barcdir hanesyddol sylweddol ac asedau naturiol yr ardal.

"Mae gan ddiwydiannau creadigol - y celfyddydau, pensaernïaeth, cerddoriaeth - fanteision economaidd enfawr ac maent hefyd yn creu ymdeimlad o falchder a pherthyn yn y gymuned" – ymatebydd i'r arolwg.

Mae cynaliadwyedd y portffolio yn ystyriaeth allweddol a rhwng 2015 a 2018, cynhaliwyd adolygiad sylweddol o asedau a redir gan y Cyngor i sicrhau gwerth gorau a rhagolygon hirdymor ar gyfer y portffolio hwn. O ganlyniad, dyfarnwyd contract Rheoli Hamdden am 19.5 mlynedd i Freedom Leisure Ltd i weithredu Canolfannau Hamdden (o 1 Hydref 2018), sy'n golygu diogelu swyddi a Buddsoddiad Cyfalaf o £5.16M yn yr asedau hyn. Cynhelir cyfleusterau eraill trwy bartneriaethau cymunedol neu sector cyhoeddus, tra bod y lleoliadau diwylliannol yn cael eu cynnal yn fewnol, yn amodol ar welliant parhaus ac arloesedd. Er enghraifft, mae Theatr y Grand a Neuadd Brangwyn wedi'u cyfuno fel man perfformio a lle cymunedol cydlynus; ac i gydnabod agoriad lleoliadau perfformio newydd, gan gynnwys Arena Abertawe, mae ganddynt gyfeiriad newydd ar gyfer cynllunio digwyddiadau, cynrychiadau a grëwyd yn Abertawe ac ymrwymiad i amrywio cynulleidfaoedd. Mae hyn yn cael ei wireddu trwy bartneriaethau gyda'r sector digwyddiadau preifat ac arlwy, cynhyrchwyr lleol a'r sefydliad ambarél cenedlaethol Race Council Cymru. Dangoswyd ymrwymiad i arallgyfeirio cynulleidfaoedd, a chefnogaeth i sicrhau bod cymunedau â nodweddion gwarchoddedig yn cael cynrychiolaeth deg a chyfartal a mynediad at ein rhaglenni, ychydig cyn y pandemig Covid trwy Addewid Amrywiaeth newydd ar gyfer Diwylliant yn y ddinas. Roedd yr addewid yn ganlyniad i raglen waith beilot ar gyfer Agenda 21: Diwylliant mewn Dinasoedd Cynaliadwy, gyda Dinasoedd Unedig a Llywodraeth Leol.

Archwiliodd y gwaith hwn ffactorau a blaenoriaethau ar gyfer diwylliant mewn dinasoedd Ewropeaidd, gan gynnwys ymrwymïadau polisi i naw egwyddor gan gynnwys Hawliau Diwylliannol; Diwylliant ac Addysg; Creu Lleoedd; Llywodraethu; mynediad at wybodaeth; polisi cynllunio a dosbarthu ochr yn ochr â ffactorau cymdeithasol ac economaidd. Wedi'u cefnogi a'u hategu gan raglenni tebyg i'r Ddinas sy'n Dysgu, Dinas Diwylliant, dinasoedd rhyngddiwylliannol ac ymrwymiad mwy diweddar i Hawliau Dynol, mae'r egwyddorion wedi'u plethu drwy gynllunio strategol y cynnig diwylliannol.

Rhoddodd y Pandemig ogwydd gwahanol ar y strategaeth ddiwylliannol oedd yn ymddangos, gan gynnwys yr angen i ailfeddwl sut rydym yn gweithredu yn ystod ac 'ar ôl Covid', i gynorthwyo adferiad y ddinas ac ailadeiladu hyder, sgiliau a gwella mynediad a dilyniant, yn

gyffredinol. Cafodd y cyfnod clo effaith sylweddol, oherwydd ym mis Mawrth 2020 caewyd yr holl leoliadau diwylliannol, adeiladau hamdden a manau hamdden a chwarae am ddim, yn ogystal ag adeiladau cymunedol, oherwydd y pandemig. Newidiwyd pedwar prif adeilad cymunedol yn Hybiau Dosbarthu Bwyd i gyflenwi a chefnogi banciau bwyd lleol a'r ardal. Drwy gydol y flwyddyn, roedd mynediad cyfyngedig yn unol â chynghor Llywodraeth Cymru ac ar brydiau, dim ond banciau bwyd a gofal plant a ganiatawyd.

Dangosodd asesiad o effaith Covid-19 ar chwarae a gynhaliwyd gan yr awdurdod lleol ym mis Mai 2020 fod gwelliannau mewn gwirionedd i gyfleoedd chwarae i lawer ond, os rhywbeth, roedd y bwlch mewn cyfleoedd chwarae wedi cynyddu rhwng y cyfoethog a'r tlawd. Yn ystod y cyfnod clo, nodwyd bod cyfleoedd i chwarae wedi cynyddu i'r plant a oedd â manau chwarae dan do ac awyr agored, rhieni o gwmpas yn amlach, a'r rhyddid i fynd allan i'w hardal leol. Fodd bynnag, roedd y plant a oedd gyda gofod cyfyngedig dan do ac awyr agored - yn enwedig ychydig o erddi neu ddim o gwbl - wedi gweld gostyngiad mewn cyfleoedd.

Cesglir ffigurau defnydd yn fisol o leoliadau a gwasanaethau diwylliannol. Mae defnydd o 2017 i 2021 wedi amrywio yn seiliedig ar amodau allanol. Enghraifft o hyn yw effaith COVID-19, a gaeodd nifer o leoliadau a gwasanaethau.

Arweiniodd hyn at ostyngiad o 87.4% mewn defnydd o lefel 2017 (6,942,639 i 681,613). Y defnydd cyffredinol yn y blynyddoedd hyn oedd:

2016/17 - 6,942,639

2017/18 - 6,993,874

2018/19 - 7,283,126

2019/20 - 6,215,561

2020/21 - 681,613

CYFANSWM - 28,116,813

Mae'r 17 llyfrgell yn parhau i fod y lleoliadau diwylliannol a ddefnyddir fwyaf, gyda 4.2 miliwn o ddefnyddwyr yn ystod y cyfnod (15% o gyfanswm defnydd asedau).

Yn dilyn comisiynu Canolfannau Hamdden i Freedom Leisure, achoswyd gostyngiad yn y defnydd o waith gwella a arweiniodd at gau rhai cyfleusterau tra'r oedd y cynllun hwn ar waith.

Cymariaethau â lleoedd eraill

Gwelir y model a ddefnyddir gan Gyngor Abertawe ar gyfer rhedeg adeiladau cymunedol yn cael ei ailadrodd yn llawn, neu'n rhannol, mewn ardaloedd eraill. Mae gan Gasnewydd gymysgedd o adeiladau sy'n cael eu rhedeg gan staff cyflogedig a gwirfoddolwyr, tra bod adeiladau Glasgow yn cael eu rhedeg gan elusen o'r enw Glasgow Life ar ran Cyngor Glasgow.

Ochr yn ochr â chynaliadwyedd ariannol, mae sicrhau ansawdd yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Mae Gwobr y Faner Werdd yn farc rhyngwladol o barc neu fan gwyrdd o safon. Cadwch Gymru'n Daclus sy'n gyfrifol am y cynllun yng Nghymru, gyda chefnogaeth gan Lywodraeth Cymru, ac mae'n cael ei benderfynu gan arbenigwyr manau gwyrdd sy'n gwirfoddoli eu hamser i ymweld â safleoedd ymgeisiol a'u hasesu yn erbyn meini prawf gan

gynnwys safonau garddwriaethol, glendid, cynaliadwyedd a chyfranogiad cymunedol. Abertawe yw un o'r siroedd arweiniol o ran ennill y wobwr gyda 18 Gwobr y Faner Werdd a Gwobr Gymunedol y Faner Werdd allan o 248 yng Nghymru. Yn yr un modd, rydym wedi cyflawni 4 gwobr Baner Las yn y sir (Bae Caswell, Bae Langland, Porth Einon a Marina Abertawe), sy'n parhau i fod yn asedau poblogaidd i'r gymuned ac i ymwelwyr. Mae'r baneri Glas yn eco-labeli byd-enwog sy'n amlygu'r addewid i wella ansawdd dŵr, diogelwch a rheolaeth amgylcheddol yn ogystal â hyrwyddo ymwybyddiaeth amgylcheddol a chyfrifoldeb cymdeithasol. Mae'r tri thraeth hefyd yn rhannau o Lwybr Arfordir Cymru, sy'n hybu iechyd a llesiant drwy ein harfordir naturiol.

Mae'r ddwy Archif a'r pedair Amgueddfa/Oriel Gelf yn y Ddinas i gyd wedi cyflawni Safon Achredu'r DU yn unol â Dangosydd Cenedlaethol 39.

Mae llawer o Gynghorau ar draws y DU naill ai wedi ymrwymo i bartneriaeth neu wedi contractio cyfleusterau, er bod rhai yn dal i gael eu gweithredu'n fewnol. Mae'n hollbwysig ein bod yn awr yn mynd i'r afael â'r storm berffaith o ddiffygion systemig o ran sut yr ydym yn edrych ar gyfraniad gwasanaethau chwaraeon a hamdden, effaith pwysau ariannu hirdymor, ac effaith uniongyrchol a hirdymor y pandemig iechyd ar ddarpariaeth ddiwylliannol, treftadaeth, chwaraeon a hamdden.

Yn eu hastudiaeth yn 2020, 'Mapio Trosglwyddiadau Asedau Cymunedol yng Nghymru', adroddodd yr Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau mai Abertawe oedd â'r nifer leiaf o Drosoglwyddiadau Asedau Cymunedol (CAT) yng Nghymru (9) a Gwynedd oedd â'r mwyaf (42). Roedd hefyd yn amlwg mai'r math o ased sy'n cael ei throsglwyddo amlaf yw Neuaddau Cymunedol.

Gwahaniaethau o fewn Abertawe

Mae prif leoliadau diwylliannol Abertawe wedi'u crynhoi yn ardal gymunedol y Ddinas, ac eithrio'r rhai sy'n eiddo i Brifysgol Abertawe, sy'n cael eu gweithredu a'u cynnal ganddi ac sydd ar un o'u 2 stâd campws mawr. Mae'r crynhoad o atyniadau diwylliannol mewn ardal gyfyng yn denu ymwelwyr i ganol y ddinas, nid yn unig o Abertawe ond o lawer ymhellach i ffwrdd, gan roi hwb i'r economi ymwelwyr a chyfyngu ar yr angen i deithio mewn car neu ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus rhwng lleoliadau.

Mewn cyferbyniad, mae ei hadeiladau treftadaeth, sy'n gymharol brin yng nghanol y ddinas oherwydd bomio adeg y rhyfel ac ailddatblygu ar ôl y rhyfel, wedi'u gwasgaru ar draws ardal yr awdurdod lleol gan adlewyrchu eu hamrywiaeth, o'r canoloesoedd i'r oes Fictoraidd, ac o adeiladau amaethyddol i rai diwydiannol. Mae gweddillion y cyfnod diwydiannol i'w cael yn bennaf yn ardaloedd cymunedol Cwm Tawe, Penderi a Llchwyr ac adfeilion ydynt yn bennaf. Mae adeiladau cyn-ddiwydiannol i'w cael yn bennaf yng Ngorllewin y Bae, yn fwyaf nodedig ar Benrhyn Gŵyr, ac maent yn rhan o atyniad ymwelwyr cenedlaethol i'r ardal hon (yn enwedig Canolfan Dreftadaeth Gŵyr a Chastell Weble).

"Mae'r celfyddydau a threftadaeth yn ffordd o ymgysylltu â diwylliant, y Gymraeg ac asedau diwylliannol, a'u hyrwyddo - mae pob un yn cael effaith gynyddol ar y llall" – ymatebydd i'r arolwg.

Mae gweithgareddau'n amrywio ychydig mewn ardaloedd, yn dibynnu ar amddifadedd. Un enghraifft yw bod mwy o ffocws ar fynd i'r afael â chyflogaeth a thlodi yn Ward Penderi gyda chysylltiadau â Chydlynwyr Ardaloedd Lleol a Chymunedau am Waith na wardiau Gorllewin Abertawe.

Ceir cyfleusterau a ariennir yn gyhoeddus yn Abertawe, fel canolfannau hamdden, canolfannau chwaraeon a chaeau 3G, ar draws y Ddinas, gyda chynlluniau i ddarparu rhai meysydd 3G newydd ym Mhenderi a Chwm Tawe wrthi'n cael eu hadeiladu.

Ar draws yr arlwy gyhoeddus, mae'r gweithredwyr Freedom Leisure Ltd yn sicrhau bod arlwy hamdden yn gyson ar draws eu portffolio ac maent wedi sicrhau bod yr holl gyfleusterau o safon debyg. Cyflwynwyd "Aelodaeth Dinas Gyfan" sy'n galluogi defnyddwyr i gael mynediad i'r holl gyfleusterau o dan un aelodaeth.

Mae Abertawe'n gartref i gyfleusterau fel y Ganolfan Tennis yng Nghwm Tawe, a Phwll Cenedlaethol Cymru a chyfleusterau Prifysgol Abertawe yng Ngorllewin y Bae, gan gyflenwi portffolio amrywiol o chwaraeon sy'n darparu ar gyfer dechreuwyr llwyr hyd at safon ryngwladol.

Ymgwymerwyd â Throsoglwyddo Asedau Cymunedol yn llwyddiannus ym mhob un o'r tair etholaeth etholiadol ar draws Abertawe; Dwyrain Abertawe (Pafiliwn Bowlio Parc Jersey; Cae Chwaraeon a Phafiliwn Trallwn), Gorllewin Abertawe (Clwb Bocsio Amatur Gwent; Man Gwyrdd yn Y-Llwyni) a Gŵyr (Caeau Chwarae Graig y Coed; Parc Underhill).

Canfyddiadau a phersbectifau

Mae'r GIG yn dibynnu ar gyfleusterau hamdden i ddarparu cynlluniau atgyfeirio i ymarfer corff, gweithgareddau presgripsiynu cymdeithasol a gwasanaethau adsefydlu, gyda 66 y cant o adsefydlu canser yn digwydd mewn cyfleusterau hamdden. Dangosodd ymchwil gan Rwydwaith y Cyngorau Dosbarth bod 94 y cant o ganolfannau hamdden cyngorau wedi cael eu defnyddio mewn cynlluniau i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd dros y 5 mlynedd diwethaf. Cadarnhaodd 84 y cant fod eu canolfannau hamdden wedi cael eu defnyddio mewn prosiectau sy'n anelu at aelodau cymunedol 'anodd eu cyrraedd' dros y 5 mlynedd diwethaf, a defnyddir 79 y cant o ganolfannau hamdden mewn rhaglenni presgripsiynu cymdeithasol. Mae grwpiau gwirfoddol fel Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub (RNLI) yn dibynnu ar byllau nofio cyhoeddus i hyfforddi eu hachubwyr bywydau yn ystod misoedd y gaeaf, ac mae 72 y cant o ysgolion cynradd yn dibynnu ar byllau cyhoeddus i gyflawni eu cyfrifoldeb statudol i ddysgu plant i nofio. Roedd y gwerth cymdeithasol a grëwyd o gymryd rhan mewn canolfannau hamdden yn dod i gyfanswm o bron i £262 miliwn ym mis Mai-Mehefin 2019.

Tueddiadau a rhagolygon i'r dyfodol i Abertawe

Mae agor Arena Abertawe yn cynrychioli'r hwb unigol mwyaf arwyddocaol, mae'n debyg, i leoliadau diwylliannol y ddinas mewn nifer o flynyddoedd ac yn cynnig cyfleoedd i ailgyfeirio rhan gyfan o ganol y ddinas tuag at weithgarwch diwylliannol a hamdden o fewn Bae Copr;

cymdogaeth sydd eisoes yn cynnwys dwy amgueddfa, theatr amatur fach a chanolfan hamdden. Bydd ailagor Neuadd Albert fel lleoliad diwylliannol annibynnol sylweddol hefyd yn dod â chynulleidfaoedd i ran ogleddol canol y ddinas. Mae'r bwriad i adleoli'r Llyfrgell Ganolog i safle mwy canolog, o fewn cynnig Hwb Cymunedol ar Stryd Rhydychen, ochr yn ochr â gwasanaethau cymunedol eraill, yn dod â'r posibilrwydd o ddenu cynulleidfa ehangach i ddefnyddio ei gwasanaethau ac ehangu'r arlwy ddiwylliannol, gan greu adeilad cyswllt ar hyd echel canol y ddinas, o Neuadd Brangwyn i Theatr y Grand a'r Hwb Cymunedol – gan agor canol y ddinas a chysylltiadau i gerddwyr, gyda'r manau trafndiaeth gyhoeddus a'r Bae Copr.

Ni ddylai'r buddsoddiad mewn adeiladau newydd danseilio'r cyfraniad a wneir i fywiogrwydd diwylliannol Abertawe gan y llu o leoliadau diwylliannol llai ac annibynnol presennol sydd wedi'u gwasgaru ar draws canol y ddinas. Mae angen cefnogi'r lleoliadau hyn a'u marchnata'n dda er mwyn adennill eu cynulleidfaoedd ar ôl y pandemig.

O ran ei hadeiladau treftadaeth, un datblygiad arwyddocaol, sy'n gyfochrog yn gronolegol ag adeiladu'r Arena, yw'r gwaith hir-ddisgwyliedig o adfer safle Gwaith Copr Hafod-Morfa a'r bont siglol gyfagos dros Afon Tawe. Pan fydd y safle ar agor, bydd hyn yn dod â hwb economaidd mawr ei angen i ardal gymunedol Cwm Tawe, gan ymgorffori distyllfa newydd gyda chanolfan ymwelwyr. Mae cyfleoedd yma i arallgyfeirio arlwy'r safle i ddod ag amrywiaeth o atyniadau ymwelwyr annibynnol eraill i'r ardal hon.

Mae rhai o'r prosiectau adfer presennol yn creu cyrchfannau diwylliannol a hamdden newydd mewn rhannau anghysbell o'r ardal drefol, megis Coed Penllergaer a Phier y Mwmbwls.

Byddai dull mwy cydgysylltiedig o ymdrin â chasgliadau treftadaeth y ddinas o fudd i'r ymdeimlad lleol o lesiant, a thrwy fwy o weithgarwch yn yr economi ymwelwyr byddai'n dod â thwf bychan i ffyniant economaidd yr ardal. Byddai hyn yn cael ei gyflawni trwy gydweithio agosach ar draws sectorau (amgueddfeydd, archifau, llyfrgelloedd) a mwy o gydweithio rhwng asiantaethau (Prifysgol, Cyngor, Amgueddfa Cymru) i farchnata eu gwasanaethau ar y cyd.

Ceid gwelliant hefyd trwy ddatrys problemau llety/lleoliad ar gyfer y casgliadau hynny nad ydynt yn gallu tyfu, neu a gedwir mewn eiddo sy'n rhan o strategaeth adfywio ehangach ar gyfer addasu i ddiben arall/defnydd amgen. Byddai agwedd aeddfed at hyn yn gweld sefydliadau treftadaeth a'u rhiant-asiantaethau yn cydweithredu i greu profiad gwell i ddefnyddwyr a naratif cryfach ar gyfer 'Stori Abertawe'. Byddai hyn yn golygu rhoi mwy o bwyslais ar bwysigrwydd treftadaeth ddiwylliannol o ran creu lleoedd a llywio'r economi ymwelwyr a chynaliadwyedd canol y ddinas.

Integreiddio

Mae pwnc lleoliadau diwylliannol ac adeiladau hanesyddol Abertawe yn rhan o ddimensiwn llesiant diwylliannol ac mae ganddo gysylltiad agos â statws a chyflwr asedau diwylliannol eraill y ddinas fel ei chasgliadau treftadaeth a'i threftadaeth ddiwylliannol anniriaethol. Mewn diffiniad ewdemonaid o lesiant, mae iechyd y maes pwnc hwn yn ychwanegu ymdeimlad o ystyr a phwrpas cyfunol i gymuned, ynghyd â'i hasedau diwylliannol eraill megis ei

cherfluniau, ei henebion ac enwau strydoedd. Nid oes unrhyw fylchau canfyddedig yn yr asesiad.

Mae trosglwyddo asedau cymunedol yn cysylltu â nifer o linyddau diwylliannol i wella llesiant gwirfoddolwyr sy'n eistedd ar bwyllgorau a'r cymunedau ehangach y maent yn eu gwasanaethu.

Ceir gorgyffwrdd â meysydd diwylliannol, gan gynnwys adeiladau/parciau cymunedol, manau agored, cyfleusterau hamdden, strategaeth gelfyddydol, mynediad a chyfranogiad, twristiaeth, pobl ifanc egniol, oedolion egniol, chwaraeon cymunedol, llesiant corfforol, ymyrraeth, yr iaith Gymraeg, dathlu diwylliant Cymreig, gwirfoddoli, ymgysylltu democrataidd, treftadaeth ddiwylliannol anniriaethol, cydlyniant cymunedol ac ymdeimlad o le.

"Rwy'n credu bod cyswllt annatod rhwng y Celfyddydau a Threftadaeth a Hunaniaeth Ddiwylliannol - er mwyn i'r celfyddydau a threftadaeth fod yn berthnasol mae'n rhaid iddynt gynnwys diwylliant lleol" – ymatebydd i'r arolwg.

Trosedd a Diogelwch – Arweiniodd cyfranogiad cymunedol mewn rhedeg a chynnal adeiladau sy'n eiddo i'r Cyngor at lai o ymddygiad gwrthgymdeithasol a throstedd. Mae pobl yn fwy parod i sôn wrth yr awdurdodau am achosion fandaliaeth a thipio anghyfreithlon, er enghraifft, pan fo'r gymuned yn ymweld yn weithredol ac yn defnyddio cyfleusterau.

Gwelliant

Byddai sylfaen defnyddwyr/cwsmeriaid cynyddol amrywiol yn arwydd o welliant - sylfaen sy'n elwa o sector ffyniannus o leoliadau diwylliannol a chadwraeth/adfer adeiladau/safleoedd treftadaeth sy'n denu trigolion ac ymwelwyr fel ei gilydd ar draws pob rhan o Ddinas a Sir Abertawe.

Wrth symud ymlaen, mae angen i Adeiladau Cymunedol fod yn gynaliadwy gydag amrywiaeth o fodolau gweithredu/economiâu cymysg o reolaeth a rennir a rheolaeth ddatganoledig (e.e. cefnogi pwyllgorau rheoli mewn Trosglwyddiadau Asedau Cymunedol). Bydd hyn yn rhoi'r cyfle i bwyllgorau gael mynediad at fwy o grantiau i wella'r adeilad a mynd i'r afael â newid hinsawdd gydag adeiladau ynni-effeithlon iawn.

Annog mwy o gyfranogiad cymunedol gyda thrigolion gweithgar a grwpiau cymunedol sy'n ymwneud â dylunio a rheoli gwasanaethau.

Rydym angen rhagor o gymorth i sicrhau rhaglen gytbwys o weithgareddau lleol fforddiadwy sy'n targedu'r cymunedau â nodweddion gwarchoddedig a grwpiau agored i niwed tra'n gwella'r amodau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ochr yn ochr â llesiant diwylliannol. Annog a hwyluso mwy o weithgareddau sy'n pontio'r cenedlaethau, gan gyfrannu at y blynyddoedd cynnar yn ogystal â'r cyfnodau trosiannol, drwodd i flaenoriaethau heneiddio'n dda mewn modd gweladwy, gydag adnoddau effeithiol.

Y nod uniongyrchol ar gyfer yr holl weithredwyr a'u cyfleusterau yw addasu i'r 'normal newydd' yn dilyn y pandemig, cynyddu incwm yn ôl i'r llinell sylfaen, a datblygu hyder cwsmeriaid er mwyn iddynt ddychwelyd a chymryd rhan yn eu gweithgareddau, fel yr oeddent yn arfer ei wneud. Gall cysylltiadau presennol ag ysgolion ymchwil Prifysgol Abertawe ar sut mae lle a chymuned yn cael eu llunio gan effaith COVID-19 lywio rhaglenni'r dyfodol yn well a chyfoethogi'r defnydd o'n parciau, mannau cyhoeddus a lleoliadau drwy gelfyddydau a diwylliant.

Ynglŷn â'r dystiolaeth

Mae Llywodraeth Cymru yn argymhell bod Awdurdodau Lleol yn mabwysiadu dull gweithredu seiliedig ar anghenion cymunedol a bod trosglwyddeaion yn cynnal archwiliad o fylchau yn eu harbenigedd a'u hanghenion hyfforddi i ddeall lle mae angen cymorth.

Cesglir data am Adeiladau Cymunedol ar ffurf defnydd, mae hyn yn cynnwys y math o weithgaredd, ystod oedran a nifer y mynychwyr. Y bylchau data yw:

- Cefndiroedd ethnig
- Rhywedd
- Anabledau
- Costau ariannol

Datblygu data:

- Arolygon lleol i awgrymiadau casglu
- Adborth a sylwadau

Er bod data ar gael ynghylch lleoliadau diwylliannol unigol, gellid gwneud mwy o waith ar y defnydd cyffredinol o gasgliadau treftadaeth y ddinas.

Casgliadau a negeseuon allweddol

Mae Abertawe'n arbennig o gryf o ran amrywiaeth ac ystod ei harlwy ddiwylliannol, o sefydliadau mawr fel y Cyngor a'r Prifysgolion, darparwyr chwaraeon elitaidd a chymunedol, i fusnesau annibynnol bychain. Nid yw ymwybyddiaeth a mwynhad o rai o'r lleoliadau mor eang ag y gallai fod ar draws pob rhan o'r gymuned, yn enwedig yn yr ardaloedd sy'n profi twf demograffig megis grwpiau lleiafrifoedd ethnig a phobl iau. Mae'r sector a'r gymuned fel ei gilydd wedi cael eu taro'n galed gan gyfnodau clo COVID.

Fodd bynnag, mae llawer o'r lleoliadau diwylliannol presennol eisoes yn gwneud gwaith deinamig ac arloesol i ddod â nhw at gynulleidfa ehangach, gan gynnwys gweithio gyda grwpiau sy'n draddodiadol anodd eu cyrraedd. Mae angen i hyn barhau i gael ei feithrin a'i gefnogi wrth symud ymlaen gan Lywodraeth Cymru a'r awdurdod lleol.

Defnyddir tir ac adeiladau'r Cyngor at amrywiaeth eang o ddibenion ac ar gyfer rhai o'r asedau hyn, gallai rheolaeth a pherchnogaeth gymunedol ddod â buddion i'r gymuned leol a buddion i'r awdurdod a darparwyr gwasanaethau eraill yn y sector cyhoeddus. Mae perchnogaeth gymunedol yn cynnig cyfleoedd ychwanegol i sicrhau adnoddau o fewn ardal leol ac i annog defnydd gan bobl a chymunedau lleol.

Gellid cael cydweithrediad agosach rhwng asiantaethau sy'n dal casgliadau diwylliannol er mwyn gwella profiad y defnyddiwr terfynol.

Rhaid inni barhau i gefnogi mynediad o fewn yr adeiladau presennol a gweithio gyda'r gwirfoddolwyr i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy ddarparu mwy o weithgareddau a gwasanaethau o fewn y gymuned.

Er efallai y bydd rhai newidiadau angen dull 'buddsoddi i arbed' mwy hirdymor, nid yw llawer o'r rhain yn rhad ac am ddim, nac yn gost-niwtral. Lle bo angen buddsoddiad, bydd hyn yn arbed arian yn y tymor hir drwy leihau'r defnydd o ynni, neu'r galw am lawdriniaethau costus y GIG, neu gymorth gofal cymdeithasol.

Mae'r cyfleusterau sydd ar gael ar draws Abertawe yn darparu ystod o wasanaethau i bob grŵp o gymdeithas a'r cyhoedd yn gyffredinol sy'n cefnogi eu llesiant, iechyd, profiadau diwylliannol a chymdeithasol mewn amrywiaeth o ffyrdd. Mae'r cyfleusterau'n darparu manau deniadol a chroesawgar a lleoedd i bob math o grwpiau eu defnyddio a theimlo'n gyfforddus, diogel, a gyda chyfle i ffynnu.

Byddai gweledigaeth ar y cyd a Strategaeth Ddiwylliannol newydd ar gyfer y ddinas – o fewn y ffiniau rhanbarthol – yn ddechrau da i helpu i gydlynu a chyfarwyddo cynllun gweithredu newydd ar gyfer diwylliant, fel etifeddiaeth y blaenoriaethau adfywio, cymdeithasol, economaidd, addysgol ac amgylcheddol presennol.

Celfyddydau, Diwylliant a Thwristiaeth

Cryfderau ac Asedau

Mae dau gynllun ar waith i gefnogi mynediad i'r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth yn Abertawe; Pasbort i Hamdden (PTL) a HYNT. Mae'r cynllun Pasbort i Hamdden yn cael ei weinyddu gan Gyngor Abertawe ac mae ar gael i'r rhai sy'n gymwys ar gyfer budd-daliadau prawf modd ynghyd â theuluoedd yn y system ofal, megis teuluoedd maeth, gan ganiatáu cyfraddau rhatach mewn amrywiaeth o leoliadau diwylliannol a chwaraeon. Mae'r cerdyn HYNT yn cael ei weinyddu gan CREU Cymru ac mae'n gynllun Cymru gyfan i roi cyfle i bobl anabl fynd â gofalwr gyda nhw, yn rhad ac am ddim, wrth fynychu digwyddiadau. Cyngor Abertawe sy'n gyfrifol am yr addasiadau ariannol angenrheidiol i'r ddau gynllun o ran incwm.

Yn 2018, dychwelodd Pride i Abertawe mewn digwyddiad a oedd yn cynnwys gorymdaith a digwyddiad cymunedol yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau. Yn 2019, roedd Pride Abertawe yn ddigwyddiad wythnos o hyd a daeth i ben gyda'r orymdaith fwyaf hyd yma a gŵyl yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau a Lawnt yr Amgueddfa. Yn anffodus, yn 2020 a 2021, canslwyd digwyddiad Pride oherwydd y pandemig COVID-19. Mae Pride Abertawe yn gweithio gyda lleoliadau diwylliannol lleol, megis Oriel Gelf Glynn Vivian (GVAG) i ddathlu Mis Hanes LHDT+.

Mae'r Rhaglen Cyfuno yn annog cydweithredu rhwng sefydliadau diwylliant a threftadaeth a chyrrff fel awdurdodau lleol, i gynyddu cyfleoedd i'r rheini mewn ardaloedd o anfantais economaidd. Mae'r cyfleoedd hyn yn cynnwys:

- mynediad at wirfoddoli;
- gweithio gyda chymunedau;
- profiad gwaith;
- gwella sgiliau digidol;
- blynyddoedd cynnar;
- dysgu fel teulu; a
- gwella dulliau dysgu a llesiant.

Mae'r rhaglen Digwyddiadau yn Abertawe wedi parhau i dyfu gyda mwy a mwy o ddigwyddiadau'n cael eu cynnal ledled y Ddinas. Ym Mharc Singleton cafwyd 'Penwythnos Fwyaf' BBC Radio 1, y Stereophonics, Olly Murs a Proms in the Park. Mae Sioe Awyr Cymru boblogaidd yn parhau, a sefydlwyd Gŵyl Fringe Abertawe yn 2017 ac mae wedi tyfu flwyddyn ar ôl blwyddyn. Cymaint yw poblogrwydd digwyddiadau arbennig, roedd Parc Singleton angen trwydded newydd ar gyfer 40,000 o fynychwyr (i fyny o 30,000).

"Lleoedd a gweithgareddau - o brofiad personol mae Abertawe'n parhau i dyfu fel lleoliad digwyddiadau sy'n wych ar gyfer y ddinas, ein diwylliant a'r economi" – ymatebydd i'r arolwg.

Mae Canolfan Dylan Thomas yn gweithio mewn partneriaeth â Phobl yn Gyntaf Gorllewin Morgannwg – sefydliad a arweinir gan ddefnyddwyr sy'n oedolion ag anabledd dysgu – i gydgyhyrchu prosiectau a dehongliadau. Cyn y cyfnod clo, roedd y grŵp yn cyfarfod yn wythnosol yn y Ganolfan, a bydd y sesiynau hyn yn ailddechrau pan fydd y canllawiau'n caniatáu.

Mae prosiect Cronfa Casgliadau Esmée Fairbairn yng Nghanolfan Dylan Thomas yn gweithio mewn partneriaeth â'r Ymddiriedolaeth Awtistiaeth Genedlaethol i ddarparu cymhwyster Amgueddfeydd achrededig newydd arloesol ar gyfer pobl awtistig. Mae Canolfan Dylan Thomas yn datblygu bagiau synhwyrdd mewn partneriaeth â Phobl yn Gyntaf Gorllewin Morgannwg ac ysgolion AAA lleol. Mae'r Cyngor yn gweithio'n rheolaidd gydag Ysgol Pen-y-Bryn ar brosiectau, gan gynnwys Diwrnod y Llyfr, datblygu deunyddiau ar gyfer y Cwricwlwm Newydd i Gymru, a phrosiectau ffilm ac animeiddio.

Mae rhaglen ddysgu ac ymgysylltu GVAG yn cynnwys gweithgareddau a phrosiectau hirdymor gyda grwpiau ar draws y nodweddion gwarchoddedig. Datblygir y rhaglen i helpu cyfranogwyr frwydro yn erbyn teimladau o unigrwydd ac unigedd, gan eu hysbrydoli i greu a bod yn greadigol. Mae tîm yr oriel yn y broses o ddatblygu cais am arian a fydd yn ceisio ymestyn y cyrhaeddiad hwn a rhannu buddion llesiant ein rhaglen gymunedol-ganolog gyda phobl o ardaloedd mwyaf difreintiedig y ddinas nad ydynt eisoes yn mynychu'r oriel.

Derbyniwyd Abertawe i raglen UCLG/Agenda 21 ar gyfer Diwylliant 'Dinasoedd Peilot' am y cyfnod 2016-2019. Arweiniodd ymarfer hunanasesu, a oedd yn cynnwys ymarferwyr celfyddydau lleol, at nifer o gasgliadau, gan gynnwys: "...mae diffyg cysylltedd, arloesedd cyfyngedig, amrywiaeth lleisiau a chymryd risgiau; yn ogystal â chynllunio etifeddiaeth gwael,

yn fygythiad i ddyfodol y ddinas fel canolfan ddiwylliannol esblygol a chynaliadwy. Rhaid i'r ddinas weithio'n galetach i gefnogi lleisiau amrywiol newydd a'u hintegreiddio yn ei harferion cynllunio." Penderfynodd y broses fod cwestiwn amrywiaeth ethnig yn "wendid o fewn sector diwylliannol ffurfiol Abertawe, fel y dangosir gan ddiffyg amrywiaeth yn y grŵp rhanddeiliaid penodedig. Teimlai'r grŵp nad oedd ganddynt ddigon o wybodaeth am y ffyrdd y mae lleiafrifoedd eraill yn y ddinas yn profi darpariaeth ddiwylliannol."

Ers 2017, datblygwyd nifer o fentrau i unioni'r anghydbwysedd hanesyddol mewn darpariaeth ddiwylliannol sydd o ddi-ddordeb i gymunedau amrywiol Abertawe ac sy'n adlewyrchu buddiannau cymunedau amrywiol Abertawe, ac sy'n hyrwyddo deialog a chyfnwid diwylliannol. Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae'r mentrau hyn yn defnyddio dull cydweithredol ac yn ystyried ac yn cynnwys pobl o bob oed ac amrywiaeth. Y prif fentrau yw: Addewid Amrywiaeth; partneriaeth gyda Race Council Cymru i sefydlu Canolfan Ddiwylliannol a Digidol; a chynnig Mae Bywydau Du o Bwys y Cyngor.

Mae Strategaeth y Celfyddydau yn ymwneud â chanol y ddinas a'r adfywio sylweddol sy'n digwydd yn yr ardal hon. Pwrpas y strategaeth yw annog busnesau, ymwelwyr, trigolion, gweithwyr proffesiynol a buddsoddwyr i ailddechmygu'r ddinas, gan annog persbectif newydd dros gyfnod graddol, yn arwain at y rhaglen adfywio a thu hwnt iddi. Y bwriad fu i ymyrraeth greadigol gael ei hintegreiddio mewn ffordd ddilys a chynaliadwy, a thrwy hynny gefnogi nodau llesiant cenedlaethol: 'lle â diwylliant bywiog a ffyniannus'. Ym mhob ffordd, mae'r ffocws ar hyrwyddo democratiaeth a defnydd cynaliadwy o'r parth cyhoeddus, gan greu manau cyhoeddus, digwyddiadau a strydoedd sy'n ddiogel, yn greadigol ac yn ddeniadol.

Mae'r gwasanaethau'n cynnig rhaglenni allgymorth sy'n cwmpasu digwyddiadau arbennig, gwasanaeth rheolaidd i ysgolion a phobl ifanc, a gwaith penodol gyda grwpiau bregus ac anodd eu cyrraedd. Mae timau Arddangosfa Dylan Thomas, Oriel Gelf Glynn Vivian ac Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn arbennig o gryf yn y categori olaf. Yn 2020, er enghraifft, enillodd menter Llenyddiaeth a Thrawma Arddangosfa Dylan Thomas wobr yng ngwobrau Amgueddfeydd yn Newid Bywydau Cymdeithas yr Amgueddfeydd. Gyda chynulleidfa darged o ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn byw yn Abertawe, enwyd y cynllun ysgrifennu creadigol hwn fel y prosiect amgueddfa fach gorau sy'n sicrhau effaith gymdeithasol. Gwahoddwyd y gwasanaeth hefyd i ysgrifennu Canllaw Arfer Da ar gyfer rhaglen Dinasoedd Peilot Agenda 21. Mae'r Canllaw yn manylu ar waith parhaus y Ganolfan gyda ffoaduriaid a phobl sy'n ceisio lloches. Mae'r Ganolfan Eifftaidd yn nodedig gan ei bod yn gweithredu'r unig raglen wirfoddoli amgueddfa barhaol yn y DU i blant a phobl ifanc. Yn 2021, cafodd Amgueddfa Abertawe ei chynnwys mewn adroddiad gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru fel un o'r amgueddfeydd yng Nghymru sy'n rhagori ar gasglu straeon o'u cymunedau.

Mae twristiaeth yn ddiwydiant hanfodol bwysig i Abertawe. Mae'n creu ac yn diogelu miloedd o swyddi, yn sicrhau buddsoddiad ac yn cynhyrchu cannoedd o filiynau o bunnoedd i'r economi leol. Mae Marchnata Twristiaeth yn denu marchnad i'r ddinas, sy'n creu galw am gyfleusterau gwell, sydd yn eu tro yn darparu gwell tirwedd, asedau naturiol a chyfleusterau cymunedol i fusnesau a thrigolion. Mae gwaith y tîm yn galluogi trigolion ac ymwelwyr i elwa o brofiadau unigryw trwy ddigwyddiadau, teithiau, gweithgareddau, atyniadau, lleoedd i aros a bwyta, ac ystod o ffactorau sy'n ymddangos mewn mynegeion ansawdd bywyd/trefi

hapusaf i fyw ynddynt. Mae hyn o les i'r ddwy ochr, o safbwynt gwella llesiant a meithrin ymdeimlad o falchder o fewn cymunedau, tra'n rhoi profiad pleserus i ymwelwyr.

Cryfder allweddol Abertawe yw ei chymysgedd unigryw o arlwy dinas, arfordir a gwlad o fewn un cyrchfan. Gyda thraethau sydd wedi ennill gwobrau ac sy'n cael eu cydnabod yn fyd-eang, parciau â statws baner werdd ac Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol gyntaf Prydain, mae'n bwysig cydnabod rôl hanfodol yr amgylchedd naturiol wrth hybu llesiant trigolion ac ymwelwyr.

Roedd 97% o'r ymwelwyr a holwyd yn 2019 yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod 'gwyliau a gwyliau byr yn bwysig i iechyd a llesiant unigolyn' a mwynhaodd 98% o'r ymwelwyr a gymerodd ran yn yr arolwg eu hymweliad.

Yn 2020, cafodd coronafeirws effaith ddinistriol ar y diwydiannau twristiaeth a lletygarwch, gan fod yn un o'r diwydiannau cyntaf i gau a'r olaf i ailagor. Mae'r diwydiant twristiaeth yn wynebu heriau sylweddol gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) ei natur dymhorol, prinder sgiliau (yn fwy cyffredin ar ôl Covid) a chanfyddiad gwael o gyflogau isel, oriau anghymdeithasol, ac ati.

Newidiadau dros gyfnod

Dosbarthwyd 2,451 o gardiau HYNT yn Abertawe allan o 20,526 ledled Cymru. Ers 2017, mae dros 10,000 o docynnau HYNT wedi cael eu defnyddio yn Theatr y Grand a Neuadd Brangwyn ar gost o dros £250,000. Mae'r cardiau'n annog aelodau anabl o'r gynulleidfa i fynychu digwyddiadau diwylliannol.

Ers 2017, mae PTL wedi newid yn aruthrol yn y ffordd y caiff ei weinyddu. Symleiddiwyd y broses ymgeisio, ac am y tro cyntaf roedd ar gael ar-lein.

Ar hyn o bryd, mae 1,255 o gardiau PTL gweithredol; cafodd y cynllun ergyd drom gan y Pandemig, gyda gostyngiad yn nifer y ceisiadau tra bo'r lleoliadau ar gau, ond mae hyn wedi dechrau cynyddu unwaith eto.

Mae Addewid Amrywiaeth Abertawe yn mabwysiadu'r cysyniad ehangaf o amrywiaeth i gynnwys pawb sydd â Nodweddion Gwarchodedig o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb, yn ogystal â siaradwyr Cymraeg a'r rhai sy'n byw dan anfantaes economaidd. Mae'r Adduned yn seiliedig ar werthoedd, gan honni bod gan bawb hawl gyfartal i gael budd o ddiwylliant a mynegi ei hun drwy ddiwylliant, a bod rhaid i Gyngor Abertawe fod yn rhagweithiol wrth hwyluso hyn. Mae'r Adduned yn ymarferol iawn. Mae'n herio'r Gwasanaeth trwy ofyn cwestiynau newydd a chwilio am atebion newydd trwy ffurfio sawl perthynas newydd, yn aml y tu hwnt i'w gylch gorchwyl traddodiadol.

Y fenter fwyaf uchelgeisiol yw datblygu Hwb Digidol a Diwylliannol yn Theatr y Grand Abertawe. Gan weithio gyda 24 o sefydliadau lleiafrifoedd ethnig yn y ddinas, mae'r bartneriaeth, a arweinir ar y cyd gan Gyngor Abertawe a Race Council Cymru, yn arloesi gyda model i ddarparu gwasanaethau a rhaglenni diwylliannol ar gyfer y cymunedau hyn. Tra'n cydnabod anghenion ar wahân rhai, mae'r Hwb hefyd yn cefnogi ymgysylltiad

rhyngddiwylliannol a thraws-adrannol lle mae pob rhan o'r gymuned yn cael ei hannog i ddod ynghyd i feithrin diwylliant o amrywiaeth, deialog a chyfnewid sy'n hyrwyddo cydlyniant cymunedol. Elfen fwyaf arloesol a heriol y fenter hon yw creu rhaglen artistig a fydd yn amrywiol ac yn gynhwysol. O ran ei chwmpas, ychydig o gyffelybiaethau sydd ganddi ym Mhrydain nac yn ehangach.

Ym mis Gorffennaf 2020, pasiodd Cyngor Abertawe gynnig yn mynegi ei fod yn cydsefyll â chymunedau BAME yn Abertawe a ledled y byd yn eu brwydr dros gyfiawnder. At hynny, cydnabu Cyngor Abertawe fod symbolau o orffennol trefedigaethol Prydain yn bodoli ar ffurf cerfluniau, enwau strydoedd, ac ati, a bod y rhain yn atgof poenus i bobl BAME o'r darostyngiad hanesyddol a'r anghydraddoldebau parhaus. Addawodd y Cyngor, felly, gynnal adolygiad o leoedd a sefydliadau'r ddinas ac asesu a ddylid gwneud unrhyw newidiadau, gyda'r nod o ddysgu o hanes, nid ei ddileu, a'i gynrychioli'n sensitif. Roedd y cynnig hefyd yn ymrwymo'r Cyngor i ddathlu a choffáu ystod ehangach o ddinasyddion gorffennol Abertawe, yn enwedig menywod, BAME, anabl, LHDT a phobl dosbarth gweithiol.

Yn 2021 daeth Cyngor Abertawe yn bartner yn 'The World Reimagined', sef prosiect addysg celf ledled y DU sy'n gweithio i drawsnewid ein dealltwriaeth o'r Fasnach Gaethwasiaeth Drawsatlantig a'i heffaith ar bob un ohonom, er mwyn ein helpu i wneud cyfiawnder hiliol yn realiti. Yn ystod y prosiect, bydd cymunedau'n archwilio ystod o themâu a dylanwadau diwylliannol a fydd yn uno cyfranogwyr a chynulleidfaoedd i ddeall ein dylanwadau diwylliannol yn gadarnhaol, a dathlu'r cyfleoedd presennol a chyfleoedd yn y dyfodol i bob un ohonom, trwy ddealltwriaeth ddyfnach o hanes a'r hyn sy'n ein cysylltu fel cymunedau.

Nid oes llinell sylfaen i ddangos newid yn sgil Strategaeth y Celfyddydau gan nad oedd strategaeth o'r fath ar waith yn 2017. Datblygwyd y strategaeth, a luniwyd yn 2019, i fodloni'r gofynion cynllunio ar gyfer adfywio canol y ddinas – yn benodol ar gyfer yr hyn a adwaenid fel Abertawe Ganolog, a elwir bellach yn Dde a Gogledd Bae Copr. Mae'r strategaeth yn cefnogi gwelededd asedau a chymunedau diwylliannol presennol ac arfaethedig, ac mae'n ceisio gwireddu gweledigaeth Abertawe i ailgyflwyno'r ddinaswedd fel tirwedd ddiwylliannol, hyrwyddo twristiaeth ddiwylliannol, datblygu a chynnal yr eco-system ar gyfer diwydiannau creadigol, adeiladu cynulleidfaoedd, sgiliau a chyflogadwyedd.

Mae cam cychwynnol gweithredu Strategaeth y Celfyddydau yn edrych ar gynllun ar gyfer 'adfeddiannu' canol y ddinas a dysgu ffyrdd newydd o weithio gyda'n hasedau digidol a manau cyhoeddus newydd. Nodwyd adeilad gwag wrth galon ardal adfywio'r ddinas i sefydlu Canolfan Greadigol ynddo, gyda chefnogaeth Cymru Greadigol, yn gweithredu fel Defnydd yn y Cyfamser o'r enw Arts Arkade. Bydd y gofod dros dro hwn yn cael ei ddefnyddio i ddod â rhwydweithiau artistiaid, ymarferwyr a grwpiau cymunedol i mewn i ofod i arbrofi â chelfyddydau gweledol a chymhwysol, er mwyn creu gwaith newydd ar gyfer y manau cyhoeddus newydd ac offer dysgu ar-lein i ysgolion.

Yn ystod y cyfnod 2017 – 2019, cynyddodd yr effaith economaidd a gynhyrchwyd gan dwristiaeth i'r ardal o dros £55m, o £421.83m i £477.22m. Yn ystod y cyfnod hwn, cynyddodd nifer yr ymwelwyr o 140,000, o 4.65m i 4.79m, a thyfodd cyfanswm cyflogaeth (CAL) a gefnogir gan dwristiaeth o 267, o 5,731 i 5,998.

Hefyd, bu twf yn y rhai sy'n aros mewn lletyau busnes. Tyfodd deiliadaeth llety heb wasanaeth o 5% dros y cyfnod o ddwy flynedd ac mae'n uwch na chyfartaledd Cymru o bron i 10%. Mae deiliadaeth llety â gwasanaeth wedi aros yn gyson ac yn uwch na chyfartaledd Cymru o tua 10%.

Ymgysylltodd Prosiectau Partneriaeth Cyfuno, mewn partneriaeth ag Amgueddfa Abertawe, Oriol Gelf Glynn Vivian, Canolfan Dylan Thomas, ac Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, â dros 25,000 o bobl rhwng Ebrill 2019 a Mawrth 2020, gyda 464 o unigolion di-waith, 2,683 o bobl hŷn, 2,389 o unigolion o grwpiau BAME a 1,879 o geiswyr lloches yn mynychu gweithgareddau/sesiynau. Mynychwyd sesiynau sy'n cefnogi gwell iechyd meddwl gan 1,942 o unigolion a mynychodd 3,190 o unigolion sesiynau neu weithgareddau cyfeillgar i awtistiaeth/ymlacio.

Dengys y tabl isod enghreifftiau o'r Rhaglen Dysgu ac Ymgysylltu GVAG ddiweddar sy'n canolbwyntio ar nodweddion gwarchoddedig.

Tabl C1: Gweithdai Rhaglenni Dysgu a Chynnwys Oriol Gelf Glynn Vivian

| | Gweithdai am ddim | Enw'r sesiwn | Cyfranogwyr Gorff 2020-Hyd 2021* | Disgrifiad |
|--|-------------------|---|----------------------------------|---|
| Rhaglenni Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches | 59 | Croeso | 576 | Gweithio gyda theuluoedd ac oedolion ar sesiynau crefft galw heibio rhithwir a phrosiectau hirdymor i oedolion - sef y faner Groeso, a dynnodd ystod o oedrannau a demograffeg i mewn i gydweithio. |
| Oed | 139 | Gweithdy Oedolion Dydd Mercher / Caffi Celf / Llinynnau / Newyddiadur Cymunedol | 2501 | Sesiynau celf a chrefft rheolaidd ar ddydd Mercher i bobl dros 55 oed, gan gynnwys caffi celf (grŵp trafod anffurfiol ar ddydd Llun, y dosbarth ymarferol ar ddydd Mercher a newyddiadur cymunedol a ddyfeisiwyd yn ystod y cyfnod clo i leihau unigedd i'r rhai nad oeddent yn gallu cysylltu ar-lein gyda'u cyfoedion). |
| Hil | 8 | Prosiect partneriaeth / artistiaid cyswllt x canolfan gymunedol Affricanaidd | 93 | Prosiect partneriaeth gyda'r ganolfan gymunedol Affricanaidd yn cynnig cyngor iach a sesiwn ymwybyddiaeth ofalgar greadigol i'w cleientiaid. |
| Anabledd | 24 | Grŵp celf Sightlife | 79 | Yn ystod y pandemig fe wnaethon ni ddyfeisio pynciau trafod mewn grŵp a ffonio aelodau'r grŵp bob wythnos, yn ddiweddarach buom yn gweithio gyda Sightlife i gynnig galwadau cynadledda fel y gallai pawb siarad â'i gilydd. Rydyn ni nawr yn ôl yn yr oriel ac yn edrych ymlaen at weithio'n bersonol gyda'r grŵp eto. |

| | Gweithdai am ddim | Enw'r sesiwn | Cyfranogwyr Gorff 2020-Hyd 2021* | Disgrifiad |
|---------------------------|-------------------|-------------------------------------|----------------------------------|--|
| Cyfeiriadedd Rhywiol | 3 | Prosiect Artist Cyswllt - GoodVibes | 33 | Artist yn gweithio gyda grŵp Goodvibes YMCA dros y 18 mis diwethaf. |
| Rhywedd | 1 | Kathryn Ashill / King Len Blanco | 150 | Trafodaeth am rywedd |
| Beichiogrwydd a Mamolaeth | 3 | Art Babas / Babanod Celf | 28 | Creu cynnwys ar-lein i rieni plant cyn oed ysgol yn y Gymraeg a'r Saesneg, gyda gweithgareddau a sesiynau thema. |

Sylwer: * Rhwng Mawrth – Mehefin, effeithiwyd ar y rhain gan y pandemig

Cymariaethau â lleoedd eraill

Mae gan drigolion Abertawe 11.9% o'r holl gardiau HYNT a ddsbarthwyd yng Nghymru, a 7.8% o boblogaeth Cymru.

Mae strategaethau diwylliannol mewn dinasoedd arfordirol tebyg sydd wedi dioddef dirywiad ôl-ddiwydiannol yn canolbwyntio ar ddefnyddio diwylliant i wella llesiant unigolion a ffyniant cymdeithasol ac economaidd y dinasoedd hyn.

O ran ei gwmpas, ychydig o gynlluniau tebyg i Hwb Diwylliannol a Digidol Abertawe sydd ar gael ym Mhrydain na thu draw. Fodd bynnag, mae RCC yn sefydlu Hybiau Diwylliannol a Digidol yng Nghasnewydd, Caerfyrddin a Gogledd Cymru yn seiliedig ar fodel Abertawe, er bod y rhain yn debygol o ganolbwyntio mwy ar wasanaethau cymunedol a diwylliannol yn hytrach na rhaglenni artistig.

Mae cyfraddau Abertawe'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer pobl sy'n mynychu a/neu'n cymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliant y celfyddydau neu dreftadaeth. (Dangosydd Cenedlaethol 35)

Tabl C2: Canran y bobl sy'n mynychu neu'n cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol, diwylliant neu dreftadaeth deirgwaith neu fwy y flwyddyn yn ôl awdurdod lleolⁱ

| Canran oedolion (16+) | 2017-18 | 2019-20 |
|--------------------------|--------------|--------------|
| Cymru | 74.92 | 70.84 |
| Sir Gaerfyrddin | 71.91 | 64.22 |
| Abertawe | 78.45 | 70.90 |
| Castell-nedd Port Talbot | 70.77 | 63.85 |
| Caerdydd | 83.32 | 84.28 |

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru, Llywodraeth Cymru.

Ni chafodd Abertawe y twf mwyaf o ran effaith economaidd, diwrnodau a niferoedd ymwelwyr, na chyfanswm cyflogaeth CALI, ond serch hynny, mae'n dal i fod yn duedd twf positif.

Tabl C3: Crynodeb Awdurdod Unedol STEAM 2018-19

| | Effaith economaidd £M 2019 | | | Diwrnodau ymwelwyr 000' oedd | | |
|--------------------------|----------------------------|---------------|----------|---------------------------------|--------------|----------|
| | 2019 | 2018 | % Newid | 2019 | 2018 | % Newid |
| Abertawe | 477.22 | 467.11 | 2 | 8,549 | 8,427 | 1 |
| Sir Gaerfyrddin | 513.25 | 477.51 | 7 | 7,023 | 6,628 | 6 |
| Castell-nedd Port Talbot | 129.30 | 127.62 | 1 | 2,067 | 2,066 | 0 |
| Caerdydd | 1,432.84 | 1,469.25 | -2 | 24,101 | 24,716 | -2 |

| | Nifer ymwelwyr 000' oedd | | | Cyfanswm cyflogaeth CALI | | |
|--------------------------|--------------------------|--------------|----------|--------------------------|--------------|----------|
| | 2019 | 2018 | % Newid | 2019 | 2018 | % Newid |
| Abertawe | 4,793 | 4,802 | 0 | 5,998 | 5,801 | 3 |
| Sir Gaerfyrddin | 3,436 | 3,330 | 3 | 6,645 | 6,272 | 6 |
| Castell-nedd Port Talbot | 1,506 | 1,516 | -1 | 1,626 | 1,575 | 3 |
| Caerdydd | 21,488 | 22,254 | -3 | 14,719 | 14,549 | 1 |

Ffynhonnell: Monitor Gweithgarwch Economaidd Twristiaeth Scarborough (STEAM), 2018-19.

Gwahaniaethau o fewn Abertawe

Mae Strategaeth y Celfyddydau yn ymwneud â chanol y ddinas ac, felly, nid yw gwahaniaethau o fewn ardaloedd cymunedol Abertawe yn berthnasol.

Roedd bron yr holl ymwelwyr â Gŵyr a holwyd yn 2019 (98%) yn cytuno bod 'gwyliau neu wyliau byr yn bwysig i iechyd a llesiant unigolyn'. Roedd y ffigur yn 97% ymhlith ymwelwyr ag Abertawe a'r Mwmbwls.

O ran mwynhad cyffredinol, roedd ymwelwyr Gŵyr yn arbennig o debygol o fod wedi mwynhau eu hymweliad – dywedodd 80% eu bod wedi 'mwynhau'n fawr' (o gymharu â chyfartaledd o 68% ar gyfer Abertawe, y Mwmbwls a Gŵyr gyda'i gilydd).

Rhoddodd ymwelwyr i Benrhyn Gŵyr farn am sawl agwedd ar eu hymweliad. Yr agweddau a gafodd y sgôr uchaf oedd y 'teimlad o ddiogelwch a sicrwydd rhag trosedd' ac 'ansawdd llety'. I'r Mwmbwls, 'teimlad o ddiogelwch a sicrwydd rhag trosedd' oedd yr ail ar y rhestr, ac i Abertawe, daeth hwn yn drydydd.

Canfyddiadau a phersbectifau

Uchelgais Llywodraeth Cymru a Chroeso Cymru yw sicrhau manteision llesiant i bawb drwy dwristiaeth.

Maent yn canolbwyntio ar dair colofn y cynnig craidd: tirwedd, diwylliant ac antur. Mae'r tair thema hyn yn cyd-fynd yn uniongyrchol â gweledigaeth Croeso Cymru i ddarparu a hyrwyddo buddion amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol, ac iechyd a llesiant ledled Cymru.

Crëwyd Cynllun Rheoli Cyrchfan (DMP) diweddaraf Cyngor Abertawe mewn partneriaeth ag adrannau mewnol, y sector preifat a'r trydydd sector i fynd i'r afael â'r rôl bwysig y mae twristiaeth yn ei chwarae, a pharhau i osod cyfeiriad strategol ar gyfer Bae Abertawe fel cyrchfan i ymwelwyr. O fewn y cynllun hwn, mae'r Cynllun Rheoli Cyrchfan yn gweithio tuag at y 7 nod a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015:

Bydd y Cynllun Rheoli Cyrchfannau (CRhC) yn gweithio tuag at y 7 nod a nodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Cymru lewyrchus
Un o gamau allweddol y CRhC yw i'r diwydiant twristiaeth fod mewn sefyllfa i gyflogi pobl leol drwy gydol y flwyddyn.

Cymru gydnerth
Bydd rheoli a gwarchod ein hamgylchedd naturiol, sy'n rheswm allweddol i ymweld ag ef, yn erbyn yr angen am ddatblygiad, yn parhau i fod yn ofyniad anodd.

Cymru iachach
Buddsoddi yn ein hisadeiledd cerdded/beicio, ein traethau, ein parciau a'n promenâd a'u cynnal fel bod gan bobl leol ac ymwelwyr fynediad uniongyrchol ac am ddim i gyfleusterau a all helpu i wella eu lles corfforol a meddyliol.

Cymru sy'n fwy cyfartal
Mae llawer o fyfyrwyr rhyngwladol yn gweithio yn y sector i wella'u sgiliau iechyd, ac mae symudiad rhydd llafur dros y degawd diwethaf wedi gweld y sector yn cyflogi pobl i rolau sydd aml wedi bod yn anodd eu llenwi.


Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

Mae hyn wrth wraidd yr hyn sy'n gwneud y gyrchfan yn unigryw, a'n hymrwymiad i hyrwyddo ac annog ein preswylwyr a'n hymwelwyr i gymryd rhan yn y Celfyddydau, Chwaraeon a Hamdden.

Cymru o gymunedau cydlynus
Nod y CRhC yw creu cymunedau atyniadol, hyfwrdd a diogel sydd â chysylltiadau da i breswylwyr ac ymwelwyr.

Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
Mae'r CRhC yn cydnabod egwyddorion datblygu cynaliadwy a sut mae twristiaeth yn effeithio ar yr amgylcheddau adeiledig a naturiol. "Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth or fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang a chenedlaethau'r dyfodol.

> Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015



Ffigwr C1: Cysylltiadau rhwng Cynllun Rheoli Cyrchfannau Abertawe a'r nodau cenedlaethol

Ar hyn o bryd, mae'r Cynllun Rheoli Cyrchfan yn cael ei adolygu, ac yn y cyfnod interim ar ôl Covid, cafodd ei ddisodli gan Gynllun Gweithredu i Adfer Twristiaeth (TRAP), i gynorthwyo adferiad y diwydiant twristiaeth yn ystod y cyfnod heriol hwn.

Tueddiadau a rhagolygon i'r dyfodol i Abertawe

Mae'r Strategaeth yn ategu blaenoriaethau rhanbarthol a ddatblygwyd drwy gydweithio - y Cynllun Rhanbarthol ar gyfer Adfywio a Chynllun Gweithredu Canol Trefi Rhanbarthol y De-orllewin, ac mae'n bodloni blaenoriaethau lleol a amlinellwyd mewn cynlluniau adfywio ac adfer economaidd. Mae gweithgareddau'r Ganolfan Greadigol (Arts Arkade) yn cyd-fynd â blaenoriaethau Cymru Greadigol ar gyfer cefnogi llwyfannau digidol a chrewyr cynnwys creadigol, gan adlewyrchu'r cynnydd yn y maes gwaith hwn, a dod ag artistiaid i mewn i'r sector yn ogystal â darparu cyfleoedd dysgu creadigol i grwpiau cymunedol a ysgolion.

Oherwydd y pandemig coronafeirws, gohiriwyd yr adolygiad o'r Cynllun Rheoli Cyrchfan, tra datblygwyd y TRAP ar gyfer 2021/22. Y bwriad yw adolygu'r Cynllun Rheoli Cyrchfan yn 2022/2023 a bydd hyn yn cyd-fynd â strategaethau twristiaeth cenedlaethol y dyfodol a gynhrychir gan Lywodraeth Cymru/Croeso Cymru.

O fewn y Cynllun Rheoli Cyrchfan newydd, bydd ffocws strategol cryf ar Adfywio Canol y Ddinas, gyda'r Arena Ddigidol newydd a datblygiad y Bae Copr yn arwain yr adfywiad hwn;

denu mwy o ddigwyddiadau mawr, a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar fuddsoddiadau eraill yn y diwydiant twristiaeth a lletygarwch, gan gynnwys gwestai ac atyniadau newydd i wella profiad cyffredinol ymwelwyr a thrigolion.

Mae'r pandemig coronafeirws a chyfyngiadau ar deithio dramor wedi arwain at gynydd mewn gwyliau yn y DU. Bae Abertawe yw'r pumed cyrchfan mwyaf poblogaidd yng Nghymru i'r rhai a oedd yn bwriadu teithio i Gymru rhwng Medi a Rhagfyr 2021.

Integreiddio

Mae Strategaeth y Celfyddydau yn cysylltu â'r pynciau canlynol:

- Mynediad a chyfranogiad: bydd prosiect Arts Arkade yn rhoi cyfleoedd i bobl ifanc 14-21 oed gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu creadigol.
- Twristiaeth: trwy gyflenwi gweithgareddau celfyddydol ac ymyriadau a fydd yn hyrwyddo twristiaeth ddiwylliannol a gwariant yn y ddinas.
- Naws am le: trwy wella canfyddiad pobl o'r ddinas, ymdeimlad o berchnogaeth a darparu lefelau newydd o fwynhad.

Mae cynyddu twristiaeth er lles Cymru yn golygu twf economaidd sy'n dod â buddion i bobl a lleoedd, gan gynnwys cynaliadwyedd amgylcheddol, cyfoethogi cymdeithasol a diwylliannol, a buddion iechyd.

Gwelliant

Gellid cyflawni gwelliant drwy Strategaeth Ddiwylliannol i holl ddinas a sir Abertawe a fyddai'n darparu fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau ac yn galluogi cyfeirio adnoddau at flaenoriaethau a nodwyd er mwyn gwella bywydau unigolion, ac iechyd a ffyniant cymdeithasol ac economaidd y ddinas.

Un o ofynion y Strategaeth Ddiwylliannol fyddai mynd i'r afael â'r lefelau gwahanol o gyfranogiad ac ymgysylltiad mewn diwylliant sy'n bodoli rhwng Dwyrain a Gorllewin y ddinas, er mwyn ysgogi adfywio a arweinir gan ddiwylliant a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb a datgysylltu yn y ddinas a'i chefnwlad.

Er mwyn datblygu twristiaeth yn gynaliadwy, mae angen i Abertawe (yn unol â Chroeso Cymru) fynd i'r afael â thair her allweddol:

- Tymhorolrwydd – ymestyn y tymor a chynyddu twristiaeth allfrig yn ystod y misoedd ysgwydd
- Gwariant - annog ymwelwyr i dreulio mwy o amser a gwario mwy yn Abertawe
- Lledaeniad – annog ymwelwyr i archwilio rhannau eraill o Abertawe (e.e. Mawr) yn ogystal â'r ardaloedd pot mêl traddodiadol, er mwyn lleihau'r pwysau a'r effaith ar yr amgylchedd a chymunedau.

Mae gwelliannau mewn perthynas â darparu cynnig twristiaeth mwy amrywiol ac o ansawdd gwell ar y gweill, gyda:

- Mwy o atyniadau o safon i ymwelwyr – Arena Abertawe, Distyllfa Penderyn (yn agor yn 2022) ac atyniadau mawr arfaethedig eraill (sydd wedi cyrraedd y camau datblygu terfynol).
- Cynnyrch twristiaeth o ansawdd gwell – grantiau ar gyfer gwelliannau i lety (Cronfa Cefnogi Twristiaeth ar y gweill), gwelliannau i lwybrau beicio a gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus.

Ynglŷn â'r dystiolaeth

Oherwydd ei ddatblygiad cymharol ddiweddar, ar hyn o bryd nid oes tystiolaeth na datblygiad data yn ymwneud â Strategaeth y Celfyddydau. Mae gan brosiect Arts Arkade ganlyniadau penodol a fydd yn cael eu monitro a'u gwerthuso drwy gydol y prosiect ac ar ôl ei gwblhau.

Y prif ganlyniad yw presenoldeb cynyddol gweithgareddau diwylliannol a chreadigol yng nghanol dinas Abertawe, gan arwain at:

- fywiogrwydd cynyddol
- cyfleoedd i artistiaid/creadigwyr lleol gymryd rhan mewn adeiladu gweithgareddau
- mwy o ymwelwyr
- ailgysylltu trigolion â chanol y ddinas sydd wedi newid yn fawr, gan ganiatáu iddynt ei hailddarganfod
- galluogi busnesau lleol i gynyddu eu trosiant, gan gefnogi cyflogaeth leol
- mwy o sgiliau digidol trwy ymwneud â gweithgareddau diwylliannol
- mwy o werthfawrogiad ac ymwneud â gweithgareddau creadigol a diwylliannol, gan wella profiad y cyhoedd

Mae rhai bylchau yn y data ynghylch effaith twristiaeth ar gymunedau lleol, gan gynnwys pwysau cyffredinol yn ystod y tymhorau brig megis parcio, traffig a phryderon ychwanegol o ganlyniad i'r pandemig coronafeirws gan gynnwys torfeydd, materion mynediad ac ati.

Bydd Data Busnes Twristiaeth yn cael sylw yn Arolwg Masnach 2022.

Casgliadau a negeseuon allweddol

Bydd Cyngor Abertawe'n parhau i alinio ag uchelgais Croeso Cymru i sicrhau manteision llesiant i bawb drwy dwristiaeth.

Cyflawnir hyn drwy'r Cynllun Rheoli Cyrchfan a adolygwyd, gan weithio tuag at y 7 nod a nodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Rhaid i'r Cynllun Rheoli Cyrchfan hwn sicrhau bod twristiaeth yn parhau i gyfrannu'n sylweddol at economi Bae Abertawe. Prif ffocws y Cynllun Rheoli Cyrchfan fydd Cynllun Gweithredu symlach, sydd ond yn cynnwys camau gweithredu sy'n dangos potensial cryf ar gyfer cyflenwi ac sy'n cysylltu â 4 thema strategol:

- 1) Gweithio mewn partneriaeth
- 2) Ansawdd
- 3) Tymhorolrwydd
- 4) Cynaliadwyedd

Y canlyniadau i'r Cynllun Rheoli Cyrchfan yw:

- Cyrchfan dwristiaeth a reolir yn dda, sy'n darparu profiad o'r radd flaenaf i ymwelwyr mewn amgylchedd dymunol a glân;
- Partneriaeth waith effeithiol rhwng y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector; a
- Diwydiant twristiaeth gwybodus gyda mynediad hawdd at hyfforddiant a chyllid perthnasol.

Chwaraeon ac Iechyd

Cryfderau ac Asedau

Mae'r gwasanaeth Chwaraeon ac Iechyd yn gweithio gyda phartneriaid i gyflenwi prosiectau chwaraeon a gweithgareddau corfforol ar draws Dinas a Sir Abertawe. Mae'n datblygu rhyngweithio cymdeithasol cadarnhaol a chydlyniant cymunedol o fewn, a rhwng, cymunedau trwy gyfranogiad gan oedolion mewn chwaraeon ffurfiol ac anffurfiol, a sicrhau bod cyfleoedd cyfranogiad oedolion yn bleserus ac wedi'u cynllunio mewn ymgynghoriad â phob sector o'r gymuned er mwyn diwallu eu hanghenion.

Mae buddsoddiad gan Chwaraeon Cymru, Chwaraeon Anabledd Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Gemau Stryd i Gyngor Abertawe wedi galluogi Chwaraeon ac Iechyd i wneud penderfyniadau lleol, gan nodi blaenoriaethau allweddol i wneud y gwahaniaeth mwyaf bosibl, a chefnogi iechyd a llesiant y dinasyddion sydd fwyaf ei angen drwy chwaraeon a gweithgarwch corfforol. Mae ymyriadau corfforol yn cynnwys:

- Y Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff (NERS) sy'n ymyriad iechyd seiliedig ar dystiolaeth, sy'n ymgorffori gweithgaredd corfforol a newid ymddygiad i gefnogi cleientiaid a atgyfeiriwyd i wneud newidiadau ffordd iach o fyw er mwyn gwella eu hiechyd a'u llesiant.
- Chwaraeon Trothwy'r Drws/StreetGames - Darparu cyfleoedd cyffrous ac anffurfiol sy'n ymateb i dueddiadau ac yn arloesol, a gyflwynir yn Abertawe drwy brosiect StreetSports Abertawe.
- Us Girls – cynlluniwyd hwn i gynyddu a chynnal cyfranogiad merched ifanc mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn y cymunedau mwyaf difreintiedig. Mae Us Girls Abertawe wedi gwneud cyfraniad mawr at hyrwyddo chwaraeon i ferched ifanc difreintiedig, gan ennill y Wobr Ymgysylltu â Menywod a Merched yn y Gwobrau StreetGames Cenedlaethol yn 2020.
- Chwaraeon Anabledd (Trawsnewid Bywydau trwy Rym Chwaraeon) – mae hwn yn creu sector chwaraeon mwy cynhwysol yn Abertawe.
- Mae Sports Diversity Cymru (SDC) (BME Sport Cymru - WCVA), Chwaraeon BME Abertawe gynt, yn helpu i gynyddu cyfranogiad BME mewn chwaraeon trwy gefnogi sefydliadau i weithio gyda chymunedau lleiafrifoedd ethnig.

Darparwyd chwaraeon a gweithgarwch corfforol lleol rhad ac am ddim neu gost-isel ar draws Abertawe gan y gwasanaeth Chwaraeon ac Iechyd. Nod y rhaglenni hyn yw annog unigolion,

o'r blynyddoedd cynnar i oedolion hŷn, i fod yn actif mewn ffyrdd sy'n cyfrannu fwyaf at eu llesiant corfforol ac sy'n bodloni canllawiau cyfredol y llywodraeth ar gyfer oedolion a phlant a phobl ifanc.

Bu Chwaraeon ac Iechyd, gyda Dechrau Gorau Abertawe, yn cefnogi datblygiad rhaglen SKIP (Meithrin) sy'n cymhwyso ymchwil Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant ar bwysigrwydd cefnogi datblygiad echddygol plant yn y blynyddoedd cynnar mewn ffordd ymarferol mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar ar draws Abertawe.

Mae'r gwasanaeth Chwaraeon ac Iechyd wedi parhau i ryngweithio â grwpiau cymunedol, sefydliadau proffesiynol, ac unigolion o ran ein cynllunio a'n darpariaeth. Gall hyn fod ar ffurf gwirfoddoli a chefnogaeth i wirfoddolwyr, neu gyflenwi partneriaethau a rhannu adnoddau o fewn rhwydwaith chwaraeon a gweithgarwch corfforol Abertawe.

Nod y gwasanaeth Chwaraeon Cymunedol yw cynyddu cyfranogiad a gwella safon y profiad o chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn Abertawe. Ei nod yw meithrin gallu o fewn cymunedau ac adeiladu seilwaith chwaraeon o glybiau, cyfleusterau a gwirfoddolwyr i gynnig amrywiaeth mor eang â phosibl o gyfleoedd.

Mae Chwaraeon Cymunedol wedi hwyluso nifer o welliannau gan gynnwys seilwaith chwaraeon (datblygu rhwydwaith o amgylcheddau naturiol ac adeiledig sy'n hwyluso cyfranogiad ffurfiol ac anffurfiol mewn chwaraeon), seilwaith hamdden/cystadleuol a seilwaith cyfleusterau (gan alluogi cyfleoedd cynhwysol ar gyfer cyfranogiad cynyddol a pharhaus). Mae'r gwasanaeth yn gweithio gyda chlybiau a Chyrff Rheoli Cenedlaethol (NGBs) i greu llwybr chwaraeon cryfach, o chwaraeon lefel mynediad hyd at chwaraeon cystadleuol a pherfformiad. Mae'n helpu i sicrhau mynediad at gyllid, datblygu'r gweithlu, cysylltiadau ag ysgolion a chymunedau cydlynol/cynaliadwy. Cynllunnir cyfleoedd mewn ymgynghoriad â'r gymuned, i gyflwyno, cynnal neu ehangu cyfleoedd, i leihau trosedd/ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ynysigrwydd cymdeithasol; a chynyddu cyflogadwyedd, cyrhaeddiad sgiliau (mewn addysg ffurfiol ac anffurfiol) a throsglwyddo asedau (cefnogi clybiau i ddod yn fwy hunangynhaliol).

Mae'r rhaglen Pobl Ifanc Egnïol (AYP) yn darparu sesiynau chwaraeon a gweithgarwch corfforol mewn amgylchedd diogel, hwyliog ac anghystadieuol a'i nod yw creu cenedlaeth o blant a phobl ifanc sydd wedi 'gwirioni ar Chwaraeon am Oes'. Gan weithredu mewn pedair ardal glwstwr yn Abertawe, mae'r rhaglen yn darparu cyfleoedd gweithgarwch corfforol i bobl ifanc mewn ysgolion cynradd ac uwchradd a'u cymunedau lleol sy'n atyniadol, yn gynhwysol ac yn hyrwyddo llythrennedd corfforol gydol oes. Mae ymyriadau wedi'u targedu ar grwpiau penodol sy'n agored i niwed, gan gynnwys y Blynyddoedd Cynnar, Menywod a Merched, Ardaloedd o Amddifadedd a grwpiau Amrywiaeth. Mae'n cefnogi rhaglenni gwyliau ledled y ddinas (e.e. Parklives, Us Girls) ac yn cyfrannu at Arolwg Chwaraeon Ysgol Chwaraeon Cymru.

Er mwyn cefnogi clybiau chwaraeon lleol i wella ar ôl i ni ddod allan o'r pandemig, hepgorwyd y ffioedd prydles ar gyfer caeau sy'n eiddo i'r Cyngor.

Newidiadau dros gyfnod

Mae amcangyfrifon cenedlaethol o gyfranogiad oedolion mewn chwaraeon ar gael o Arolwg Cenedlaethol Cymru 2018-19:

- Cymryd rhan mewn chwaraeon deirgwaith neu fwy yr wythnos: 23%; 259,000 o bobl
- Cymryd rhan mewn chwaraeon lai nag unwaith yr wythnos: 62%; 708,000 o bobl

Cyfranogiad oedolion yng Nghymru (tair gwaith neu fwy yr wythnos) yn ôl ethnigrwydd:

- Gwyn (Cymreig, Saesneg, Albanaidd, Gwyddelig Gogleddol, Prydeinig) 32% (739,000 o bobl)
- Gwyn arall (Gwyddelig, Ewropeaidd arall ac eraill) 40% (30,000 o bobl)
- Unrhyw grŵp ethnig arall (e.e. Asiaidd, Du, Cymysg, Arabaidd, Arall) 31% (35,000 o bobl).

Oherwydd y pandemig, bu gostyngiad o 90.6% yn y defnydd o chwaraeon cymunedol yn gyffredinol yn Abertawe (47,000 yn 2017/18 i 4,400 yn 2020/21).

Datgelodd ffigurau Cymru o Arolwg Chwaraeon 2018 y canlynol:

- Mae 48% o ddisgyblion ym Mlynnyddoedd 3-11 yn cymryd rhan mewn chwaraeon allgyrsiol neu gymunedol deirgwaith neu fwy yr wythnos. Nid yw hyn wedi newid ers 2015.
- Mae cyfrannau tebyg o ddisgyblion cynradd ac uwchradd yn cymryd rhan mewn chwaraeon allgyrsiol neu gymunedol deirgwaith neu fwy yr wythnos – 47% o ddisgyblion cynradd ym Mlynnyddoedd 3-6 a 48% o ddisgyblion uwchradd ym Mlynnyddoedd 7-11.
- Erys gwahaniaeth rhywedd o ran lefelau cyfranogiad, gyda 50% o fechgyn a 46% o ferched yn cymryd rhan mewn chwaraeon allgyrsiol neu gymunedol o leiaf deirgwaith yr wythnos.
- Mae lefelau cyfranogiad hefyd yn amrywio yn ôl oedran, ethnigrwydd, anabled a lefel gymharol o amddifadedd disgyblion.
- Mae 63% o ddisgyblion yn mwynhau gwersi Addysg Gorfforol 'yn fawr' a 48% o ddisgyblion yn mwynhau chwaraeon mewn clybiau ar ôl ysgol neu amser cinio (chwaraeon allgyrsiol) 'yn fawr'.
- Mae 56% o ddisgyblion yn meddwl bod gwersi Addysg Gorfforol a chwaraeon ysgol yn eu helpu 'yn fawr' i gael ffordd iach o fyw.

Cyngor Abertawe oedd yr awdurdod arweiniol ar gyfer rhaglen ParkLives yn Ne Cymru o 2016. Cryfhaodd y bartneriaeth ag awdurdodau lleol Castell-nedd Port Talbot a Chyngor Pen-y-bont ar Ogwr trwy gydweithio i ddarparu cyfleoedd chwaraeon awyr agored a gweithgarwch corfforol mewn cymunedau lleol ym mhob ardal. Daeth y bartneriaeth gyda Coca-Cola Great Britain ac UKActive i ben yn 2019 pan derfynwyd y cyllid; fodd bynnag, mae mewnwelediad a dysgu o'r rhaglen wedi galluogi datblygiad rhaglen awyr agored Chwaraeon ac Iechyd lwyddiannus.

Datgelodd yr Arolwg Chwaraeon Ysgol 2018 (yr arolwg diweddaraf) fod 63% o ddisgyblion yn Abertawe yn cymryd rhan mewn chwaraeon o leiaf unwaith yr wythnos mewn clwb cymunedol (cyfartaledd Cymru = 65%).

Gweithgareddau poblogaidd:

- Bechgyn – pêl-droed 37%; rygbi 24%; nofio 23%; rhedeg/loncian 15%
- Merched – nofio 30%; dawns 27%; gymnasteg 20%; rhedeg/loncian 16%

O ran gwirfoddoli ac aelodaeth o glybiau chwaraeon (2018):

- Dywedodd 60% o ddisgyblion eu bod yn aelod o glwb chwaraeon.
- Dywedodd 29% o ddisgyblion eu bod yn gwirfoddoli mewn rhyw ffordd o fewn yr ysgol neu tu allan iddi (Bechgyn: 30% / Merched: 28%). Cyfartaledd cyffredinol Cymru oedd 30% (Bechgyn: 31%/ Merched: 30%).

Mae Abertawe yn gyson wedi bodloni canlyniadau atgyfeirio (NERS), gan ddangos gwelliant mewn iechyd ers yr asesiad diwethaf yn 2017. Nododd adroddiad 2019/20 welliannau iechyd sylweddol trwy fwy o amser actif (NERS Abertawe 92%; Cymru 76.3%). Mae llawer o'r rhai a atgyfeiriwyd yn parhau i gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol ar ôl 12 mis, ac wedi nodi gwelliant mewn iechyd.

Ers 2017, mae'r Cyngor wedi gweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ar raglenni ataliol a chyfannol. Ehangodd hyn yr arlwy, ac mae'n cynnwys Rhaglen Ffordd o Fyw Ymarfer Corff (ELP), a chymorth NERS i'r gwasanaeth adsefydlu ysgyfeiniol (cleifion â COPD, Asthma, ac yn fwy diweddar, cleifion sydd â Covid hir).

Cymariaethau â lleoedd eraill

Yn Abertawe, cymerodd 35% o oedolion ran mewn gweithgareddau chwaraeon deirgwaith neu fwy yr wythnos yn 2019-20 (cyfartaledd Cymru oedd 32%).

- Caerdydd 38%
- Casnewydd 36%
- Sir Gaerfyrddin 35%
- Castell-nedd Port Talbot 26%
- Pen-y-bont ar Ogwr 31%

Cymryd rhan mewn Chwaraeon Cymunedol o leiaf unwaith yr wythnos – 2018

- Abertawe 63%
- Caerdydd 65%
- Castell-nedd Port Talbot 69%
- Sir Gaerfyrddin 65%
- Pen-y-bont ar Ogwr 66%
- Canolbarth a Gorllewin Cymru 66%
- Cymru Fetropolitan 66%
- Cyfartaledd Cymru 65%

Unrhyw gyfranogiad mewn chwaraeon mewn clwb y tu allan i'r ysgol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf – 2018

- Abertawe 71%
- Caerdydd 72%
- Castell-nedd Port Talbot 78.7%
- Sir Gaerfyrddin 74.7%
- Pen-y-bont ar Ogwr 72%

- Canolbarth a Gorllewin Cymru 74.9%
- Cymru Fetropolitan 72%
- Cyfartaledd Cymru 72%

Gwahaniaethau o fewn Abertawe

Mae'r tîm AYP yn bresennol ar draws pob ardal gymunedol ac mae lefelau cyfranogiad yn parhau i dyfu ym mhob ardal.

Mae mwy o glybiau chwaraeon yn ardaloedd Canol y Ddinas a Llwchwr yn Abertawe, tra bod ardal y Bae yn fwy gwledig a chyfoethog, felly mae pobl yn tueddu i deithio i gyfranogi.

Darperir ymyriadau ar draws pob ardal gymunedol. Ni fu unrhyw wahaniaeth amlwg yn nifer y plant ag oedi o ran eu datblygiad echddygol mewn gwahanol leoliadau daearyddol. Rydym wedi canfod bod plant ym mhob ardal yn Abertawe yn elwa ar raglenni ymyrraeth i wella eu sgiliau echddygol.

Mae statws pwysau iach yn fwy amlwg mewn ardaloedd economaidd-gymdeithasol uwch, tra bod oedi gwybyddol ac ieithyddol yn fwy cyffredin mewn ardaloedd economaidd-gymdeithasol is ac ardaloedd o amddifadedd. Mae chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn arwain at statws pwysau iachach ac yn gwella pob agwedd ar dwf a datblygiad gan wella iechyd a pherfformiad academaidd gwell.

Yn Abertawe:

- Mae 49% o ddisgyblion anabl/â nam yn cymryd rhan mewn chwaraeon deirgwaith neu fwy yr wythnos
- Mae 35% o ddisgyblion yn y Band Cinio Ysgol am Ddim (PYDd) isaf yn cymryd rhan deirgwaith neu fwy yr wythnos, o gymharu â 58% yn y band PYDd uchaf.
- Mae gwahaniaeth rhyw yn parhau mewn lefelau cyfranogiad yn Abertawe, gyda 49% o fechgyn a 44% o ferched yn cymryd rhan mewn chwaraeon allgyrsiol neu gymunedol o leiaf deirgwaith yr wythnos.

Yn 2018/19, dangosodd ymchwil fod y rhai sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd lleiaf difreintiedig yng Nghymru (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru) yn fwy tebygol (62%) o fod wedi bod yn actif am 150 munud yn yr wythnos flaenorol o gymharu â'r rhai yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig (42%).

Yn 2018/19, roedd gwahaniaeth yn y data rhwng dynion (58%) a menywod (47%) 16+ oed a oedd yn bodloni'r canllawiau a argymhellir o 150 munud yr wythnos MVPA.

Canfyddiadau a phersbectifau

Nododd Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae 2019 y canlynol;

- At ei gilydd, mae plant yn teimlo eu bod yn cael digon o gyfleoedd i chwarae yn eu hardal leol
- Eu hoff le i chwarae yw'r parc neu'r man chwarae lleol

Nododd gwerthusiad ParkLives o brosiect 2016-2020 lwyddiant y prosiect, gyda 28,369 o gyfranogwyr a dros 2078 o weithgareddau, sy'n effeithio'n gadarnhaol ar lesiant corfforol.

Mae Chwaraeon ac Iechyd wedi ymgynghori â'r gymuned ynghylch Oedolion Hŷn Egniol a Dychwelyd i Chwaraeon, a fu'n gefnogol i gyflenwi darpariaeth rhaglenni ar draws Abertawe.

Cesglir canlyniadau Oedolion Egniol mewn "Cipluniau Gweithredu" sy'n nodi perfformiad ansoddol yn seiliedig ar flaenoriaethau allweddol, gan gynnwys y nodau llesiant cenedlaethol a Chynllun Corfforaethol y Cyngor.

Gweledigaeth Chwaraeon Cymru ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru yw "cenedl egniol lle gall pawb gael mwynhad gydol oes o chwaraeon." Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan Chwaraeon Cymru.

Cesglir canlyniadau ymyrraeth, AYP, a Chwaraeon Cymunedol mewn "Cipluniau Gweithredu" sy'n nodi perfformiad ansoddol yn seiliedig ar flaenoriaethau cenedlaethol a lleol allweddol.

Tueddiadau a rhagolygon i'r dyfodol i Abertawe

- Cynnydd mewn seilwaith chwaraeon corfforol trwy drosglwyddo asedau parhaus a grymuso cymunedau lleol.
- Cyllid ar gael i gefnogi gwella cyfleusterau.
- Datblygu seilwaith cyfleusterau ar gyfer chwaraeon perfformio.
- Pwyslais ychwanegol ar drawsnewid digidol
- Datblygu Cynllun Gweithredu Creu Abertawe Egniol ac Iach newydd (CAHSAP).

Y weledigaeth ar gyfer chwaraeon a gweithgarwch corfforol yw y bydd "Abertawe'n parhau i fod yn un o'r dinasoedd iachaf yn y DU lle mae pawb yn cael mwynhad gydol oes o weithgarwch corfforol a chwaraeon."

Mae ymchwil gan y Gymdeithas Llythrennedd Corfforol Rhyngwladol (IPLA) wedi llywio ein gwaith gyda mwy o ffocws ar ddatblygiad cyfannol pobl ifanc a ffocws ar lythrennedd corfforol.

Bydd cynnydd yn nifer y plant ag oedi o ran datblygiad echddygol yn cynyddu ymyriadau arfer gorau a hyfforddiant i ymarferwyr i dargedu grwpiau agored i niwed a gwella cymhwysedd echddygol mewn pobl ifanc.

Bydd pwyslais ychwanegol ar drawsnewid digidol, gyda sesiynau gweithgarwch corfforol rhithwir, heriau a chyfleoedd hyfforddi.

Sefydlwyd prosiect ymchwil rhanbarthol (2021) i archwilio canfyddiadau pobl ifanc o weithgarwch corfforol mewn ardaloedd daearyddol gwahanol.

Mae'n ymddangos bod y pandemig wedi ehangu anghydraddoldebau mewn cyfranogiad ar draws rhywedd, statws economaidd-gymdeithasol, salwch neu gyflyrau hirsefydlog, ac oedran.

Ceir ystyriaeth o feysydd gwaith eraill a allai godi ar draws y sector, er enghraifft ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Cynllun Gweithredu LHDTC+.

Fel rhan o Gynllun Gweithredu Pwysau Iach Cymru Iach (HWHW) 2020-2022 Llywodraeth Cymru, lansiwyd Rhaglen Oedolion Hŷn Egniol newydd yn Abertawe ym mis Ionawr 2021. Mae Chwaraeon Cymru wedi buddsoddi yn Abertawe tan 2022 i ddarparu cynnig hamdden lleol i bobl dros 60 oed a fydd yn annog gweithgarwch corfforol a dewisiadau ffordd iach o fyw. Mae hwn yn ddull wedi'i dargedu i leihau anghydraddoldebau iechyd ac ynysigrwydd cymdeithasol. Yn ystod cam cychwynnol y rhaglen, cafwyd gwaith ymgynghori, datblygu theori newid, boreau coffi, a chyfleoedd gweithgarwch corfforol rhithwir ac wyneb yn wyneb. Trwy'r mewnwelediad a'r dysgu a ddatblygwyd eleni, rhagwelir y bydd y rhaglen yn parhau i ddatblygu ar draws Abertawe, gan weithio'n agos gyda'r Fforwm Heneiddio'n Dda.

Gan edrych i'r dyfodol, gwyddom oherwydd bod pobl yn byw'n hirach y bydd nifer y bobl hŷn yng Nghymru yn parhau i godi. Mae'n bwysig byw'n iach yn y blynyddoedd hyn. Mae'r Rhaglen Oedolion Hŷn Egniol yn Abertawe wedi cadarnhau cyllid i'r dyfodol i annog gweithgarwch corfforol a dewisiadau ffordd iach o fyw. Mae hwn yn ddull wedi'i dargedu i leihau anghydraddoldebau iechyd ac ynysigrwydd cymdeithasol.

Mae'n bwysig cadw'r diddordeb a'r brwdfrydedd dros weithgareddau awyr agored lleol i yrru mentrau lleol yn eu blaenau, gan gefnogi a chryfhau llesiant corfforol a chymunedau lleol trwy chwaraeon a gweithgarwch corfforol.

Bydd gan y Strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach oblygiadau ar gyfer datblygu rhaglen Oedolion Hŷn Egniol yn Abertawe.

Integreiddio

Mae cysylltiad agos rhwng chwaraeon ac iechyd a'r nodau cenedlaethol:

- Cymru iachach;
- Cymru fwy cyfartal; a
- Chymru o gymunedau cydlynus.

Mae'r testun hwn yn cysylltu'n agos â chyfranogiad cymunedol a'r Iaith Gymraeg a'r diwylliant – darparu gweithgarwch corfforol a chwaraeon drwy gyfrwng y Gymraeg, a chysylltiadau â phartneriaid o fewn yr Urdd.

Y Blynyddoedd Cynnar a Chwarae – Ceir gwaith ar y cyd i ddatblygu rhaglen SKIP Meithrin mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar yn Abertawe a phrosiectau chwarae corfforol fel marciau parciau yn 2020.

Dylanwadwyd yn uniongyrchol ar CAHSAP gan Abertawe Gynaliadwy, Nodau Llesiant Cenedlaethol a Gweledigaeth Chwaraeon Cymru ar gyfer Chwaraeon.

Cynllun Llesiant Lleol BGC – themâu Byw'n Dda, Heneiddio'n Dda a Chymunedau Cryf.

Nod y Gwasanaeth Chwaraeon ac Iechyd yw bodloni canllawiau gweithgarwch corfforol y Prif Swyddog Meddygol ar gyfer babanod, plant bach, plant cyn oed ysgol a phlant a phobl ifanc, gan ddarparu gweithgarwch corfforol ledled Abertawe.

Mae gwaith agos gydag Adrannau Addysg Gorfforol ac Arweinwyr Llesiant mewn ysgolion a'r gymuned leol yn digwydd er mwyn bodloni safonau llesiant cenedlaethol.

Gwelliant

Y weledigaeth ar gyfer chwaraeon a gweithgarwch corfforol yw y bydd "Abertawe'n parhau i fod yn un o ddinasoedd mwyaf iach y DU, lle gall pawb fwynhau gweithgarwch corfforol a chwaraeon drwy gydol eu hoes" ac i Abertawe fod yn leoliad lle:

- Mae chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn helpu i adeiladu cymunedau cryfach, iachach, hapusach a mwy diogel
- Mae mynediad diogel a hawdd at wasanaethau a chyfleusterau chwaraeon bywiog ac amrywiol Abertawe, yn adeiledig ac yn naturiol.
- Mae chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn cael eu gwella gan weithlu gwirfoddol a phroffesiynol ffyniannus.
- Mae perfformwyr dawnus Abertawe yn cael eu cefnogi i fod y gorau y gallant fod, ac yn cael eu cydnabod am eu cyflawniadau.
- Mae cymunedau'n cael llais ac yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu hiechyd a'u llesiant
- Bydd chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn dod allan o'r pandemig yn gryfach ac yn cael eu gwerthfawrogi'n fwy.
- Gall pob plentyn nofio i safon ddiogel a dysgir sgiliau hanfodol goroesi yn y dŵr mewn amgylchedd diogel a phleserus.
- Bydd unigolion yn gwerthfawrogi a chymryd cyfrifoldeb am eu hiechyd a'u llesiant eu hunain; a meddu ar y wybodaeth a'r ddealltwriaeth o sut i'w gynnal a'i wella.
- Bydd pobl o bob oed a gallu yn mwynhau taith llythrennedd corfforol gydol oes
- Rhoddir gwerth uchel ar iechyd a llesiant dinasyddion
- Eir i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd o enedigaeth a thrwy gydol oes.
- Rhennir mewnwelediad a dysgu am sut mae ymyriadau wedi ymgysylltu â chymunedau i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig â chwaraeon a gweithgarwch corfforol.

Y bwriad yw i Abertawe gyfan elwa ar ddarpariaeth CAHSAP, gan ganolbwyntio ar y canlynol:

- Pobl sy'n byw mewn ardaloedd o dlodi
- Menywod a merched
- Pobl ag anableddau
- Cymunedau amrywiol (BAME)
- Oedolion hŷn

Nod y ffocws hwn yw arwain at y canlyniadau hyn:

- Pobl yn gwneud ymarfer corff yn amlach
- Mynediad a thegwch
- Lefelau gwell o lesiant corfforol a meddyliol
- Disgwyliad oes uwch ac ansawdd bywyd gwell.

"Mae dod at ein gilydd ar gyfer y celfyddydau, diwylliant neu chwaraeon yn ffordd o ddatblygu'n hunain a'n cymdeithas. Mae COVID wedi dangos sut rydym yn dioddef yn feddylol os nad yw'r rhain ar gael" – ymatebydd i'r arolwg.

Mae data gwaelodlin yn awgrymu bod lefelau cyfranogiad mewn chwaraeon, gweithgarwch corfforol a gweithgareddau eraill sy'n ymwneud ag iechyd yn amrywio'n fawr yn ein hardal. Hefyd, mae rhaniad ystadegol rhwng gwahanol leoliadau daearyddol yn dangos anghydraddoldebau iechyd sydd â chydberthynas agos at lefelau is o weithgarwch corfforol. Felly mae dull strategol lle mae adnoddau'n cael eu halinio a'u defnyddio i'r eithaf yn hollbwysig.

Gyda'r ystyriaeth hon yn flaenllaw o ran cynllunio ac er mwyn gwireddu'r weledigaeth, bydd ffocws ar y blaenoriaethau strategol canlynol:

- Adeiladu Cymunedau Cryfach
- Mynd i'r Afael ag Anghydraddoldebau Iechyd
- Datblygu Seilwaith Chwaraeon
- Cefnogi Dysgu a Datblygu Sgiliau Bywyd.

Ynglŷn â'r dystiolaeth

Mae diffyg data llesiant corfforol ar gyfer pobl ifanc ar draws clystyrau iechyd/ardaloedd cymunedol.

Gallai cysylltiadau cryfach a deialog ag ymchwilyr gefnogi a datblygu rhaglenni yn y maes hwn.

Byddai croeso i arolwg sy'n cynnwys partneriaid ehangach er mwyn cael mewnwelediad pellach i greu dinas iachach trwy gynyddu gweithgarwch corfforol.

Mae data ar gael ar ystod oedran a nifer y plant sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni trwy dracwyr ardal, gan gynnwys data meintiol ac ansoddol ar ymyriadau manwl, cipluniau, adborth a chanmoliaeth, Datblygiad Proffesiynol Parhaus i staff, nifer y gwirfoddolwyr, cytundebau partneriaeth, gwybodaeth am glybiau chwaraeon, cyllid a grantiau, niferoedd a hyfforddwyd a gwybodaeth dysgu a mewnwelediad.

Fodd bynnag, erys bylchau yn y dystiolaeth, megis arolygon boddhad a gwybodaeth am gynaliadwyedd.

Cesglir mwy o ddata drwy gael cymaint o ysgolion â phosibl i gymryd rhan yn Arolwg 2021 ar Chwaraeon Ysgol er mwyn diweddar'u'r data cyfredol o 2018. Bydd hwn yn cael ei ddefnyddio i arwain rhaglenni a helpu i gyflenwi prosiectau lle maent yn fwyaf priodol.

Casgliadau a negeseuon allweddol

Mae papur a gyhoeddwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn nodi bod cyfleusterau hamdden a diwylliant yn darparu gwasanaethau iechyd, hamdden a llesiant hanfodol i gymunedau lleol ac y byddant yn wasanaeth ail-ymgysylltu allweddol i'r cymunedau hynny ar ôl pandemig COVID-19.

Y bwriad yw i Abertawe gyfan elwa ar ddarpariaeth CAHSAP. Fodd bynnag, bydd adnoddau'n canolbwyntio ar y sectorau hynny o'r boblogaeth lle bydd mynediad at gyfleoedd ffordd iach o fyw yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf.

Mae mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd yn parhau i fod yn faes blaenoriaeth ar draws Chwaraeon ac Iechyd. Mae cydweithredu, partneriaeth a chynnwys yn bwysig wrth ddatblygu ymyriadau sy'n cyfrannu at wella iechyd a llesiant, ac mae angen sicrhau fod y gymuned yn ymgysylltu. Mae adnoddau a chysylltiadau ychwanegol ar draws rhaglenni yn amlygu'r cymorth cyfunol y gellir ei ddarparu ar draws gwasanaethau. Mae'r Rhaglen Ffordd o Fyw o Ymarfer Corff a Gwasanaeth Cymorth Adsefydlu'r Ysgyfaint NERS yn enghreifftiau da ar draws ardal Bwrdd Iechyd Bae Abertawe.

Daeth pwysigrwydd llesiant corfforol yn fwy amlwg yn ddiweddar, ond mae angen datblygu hyn ar hyd rhychwant oes. Gwelir y dystiolaeth yn ehangder y ddarpariaeth ar draws Abertawe, ac mae angen parhau i adeiladu ar hyn i wneud y gwahaniaeth mwyaf.

Yr Iaith Gymraeg

Cryfderau ac Asedau

Mae'r iaith Gymraeg yn ddyledus iawn i hanes Abertawe; gellir olrhain gwreiddiau dwfn yr iaith a'i llenyddiaeth yn ôl y tu hwnt i'r canol oesoedd trwy feirdd Cymraeg a'u noddwyr (megis Casnodyn a Hopcyn ap Tomos), ymlaen at y 19eg ganrif (Gwyyrosydd, Daniel James, a ysgrifennodd Calon Lân) hyd y dydd heddiw. Cynorthwyodd Abertawe i fowldio traddodiadau diwylliannol Cymreig.

Abertawe yw prif ganolbwynt economaidd/diwylliannol De-orllewin Cymru, ac mae hanner siaradwyr Cymraeg Cymru yn byw o fewn taith awr i'r Ddinas. Mae cyrff fel Menter Iaith Abertawe yn ceisio annog pobl i ddefnyddio'r iaith ar draws Abertawe.

Sefydlwyd Menter Iaith Abertawe yn 2001, gyda'r nod o hybu ac ehangu'r defnydd o'r Gymraeg yn Ninas a Sir Abertawe. Eu datganiad cenhadaeth yw "hwyluso cyfleoedd cyfrwng Cymraeg i bobl yn sir Abertawe ac i fwynhau diwylliant Cymraeg yn eu bywydau bob dydd".

Yn 2021, sefydlwyd Gŵyl Tawe, gŵyl Gymraeg newydd i Abertawe, a gynhaliwyd ym mis Medi. Roedd yr ŵyl rhad ac am ddim hon yn agored i siaradwyr Cymraeg, dysgwyr a'r di-Gymraeg fel ei gilydd, gyda cherddoriaeth fyw a DJs, bwyd a diod. Fel rhan o Fringe Abertawe 2021, cynhaliwyd sioe Gomedï Gymraeg yn Nhŷ Tawe, siop y Fenter Iaith. Sefydlwyd Tŷ Tawe yn Abertawe yn 1987, ac mae'n parhau i fod yn brysur, gan gynnal nosweithiau cymdeithasol a gigs yn rheolaidd. Daw Côr Tŷ Tawe ynghyd i ymarfer yn Nhŷ Tawe yn wythnosol, cynhelir

sesiynau sgwrsio – a barhaodd ar-lein yn ystod cyfnod COVID-19 – ac mae siop Tŷ Tawe yn ffenestr i'r ganolfan.

Ers mis Mawrth 2016, mae pob corff cyhoeddus yng Nghymru wedi bod â dyletswydd statudol i gydymffurfio â Mesur y Gymraeg (Cymru) (2011) a Safonau'r Gymraeg a osodir gan y Mesur drwy is-ddeddfwriaeth (Safonau Rheoleiddio'r Gymraeg). Bwriad y safonau yw:

- sicrhau nad yw sefydliadau'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a
- hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg (gan ei gwneud yn haws i bobl ei defnyddio yn eu bywyd bob dydd).

Lansiodd Llywodraeth Cymru 'Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg' ym mis Gorffennaf 2017. Dyma ei 'dull hirdymor [...] i gyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050'.

Cynhaliwyd Croeso, sy'n ddatliad o'r ardal a'i threftadaeth Gymraeg a Chymreig, ers 2018 ac mae'n hyrwyddo'r Gymraeg a'r Diwylliant Cymraeg yng Nghanol y Ddinas. Mae Croeso yn wyl ddeuddydd a gynhelir yng nghanol dinas Abertawe ar y penwythnos agosaf at Ddydd Gŵyl Dewi.

Mae'r digwyddiad yn cynnwys y gorau o ddiwylliant Cymraeg lleol gan gynnwys:

- Stondinau bwyd a diod
- Arddangosiadau coginio (yn ddwyieithog)
- Cerddoriaeth fyw – Gyda cherddoriaeth fyw yn cynnwys cymysgedd o berfformiadau Cymraeg (mwy na 50%) a rhai sy'n cwmpasu bandiau/artistiaid eiconig Cymreig (a gyflwynir yn ddwyieithog gan MCs ar y llwyfan).
- Celfyddydau perfformio
- Gorymdaith
- Gweithgareddau plant – Ceir bws gweithgaredd celf a chrefft, ac mae'r gweithgareddau a gydlynir gan Fenter Iaith Abertawe yn cael eu cyflwyno'n ddwyieithog
- Digwyddiadau cerddoriaeth fyw 'ymylol' ym mariaau canol y ddinas

Gyda'i ffocws cryf ar ddiwylliant Cymraeg, mae Croeso yn rhoi cyfle i bobl brofi'r Gymraeg ac ymgysylltu â phobl sy'n ei defnyddio yn eu bywydau bob dydd. Adroddodd y digwyddiad Croeso diwethaf a gynhaliwyd ar 29 Chwefror a 1 Mawrth 2020 fod nifer yr ymwelwyr â Chanol Dinas Abertawe rhwng 14,000 a 24,000 y dydd.

Newidiadau dros gyfnod

Dengys ffigurau Cyfrifiad 2011 ostyngiad o 2% yn nifer y siaradwyr Cymraeg, sef 2,606, ers 2001 o'i gymharu â gostyngiadau o 20,352 ac 1.8% ledled Cymru.

Fodd bynnag, hyrwyddir addysg cyfrwng Cymraeg yn eang gyda'r canlyniad bod nifer y disgyblion sy'n cael eu haddysgu yn y sector hwn wedi cynyddu o 5,142 yn 2017 i 5,426 yn 2021, sef cynnydd o 5.5%.

Yn TGAU Cymraeg laith Gyntaf, mae dros 80% o fyfyrwyr yn cyrraedd y graddau uwch (A*-C), ac mae'r niferoedd sy'n sefyll y pwnc hwn wedi cynyddu'n gyson i 254 yn 2016. Mae canlyniadau cwrs llawn TGAU Cymraeg Ail laith yn dangos bod dros 90% yn cyrraedd graddau A*-C a bod y niferoedd sy'n sefyll y pwnc wedi cynyddu – cafwyd cyfradd gofrestru o 17.7% (426 cofrestriad) yn 2016 o'i gymharu â 9.2% (239 o gofrestrïadau) bedair blynedd ynghynt.

Cymariaethau â lleoedd eraill

- Dengys Cyfrifiad 2011 mai Abertawe, gyda 26,332 o siaradwyr Cymraeg, sydd â'r 8fed cyfanswm uchaf o blith 22 awdurdod lleol Cymru.
- Mae canran y siaradwyr Cymraeg (11.4% o'r rhai 3 oed a hŷn) yn gosod Abertawe yn 13eg o'r 22 awdurdod. Mae hyn yn cymharu â 19.0% ar gyfer Cymru gyfan.
- Yn 2011, cofnododd ein dau awdurdod lleol cyfagos – Sir Gaerfyrddin a Chastell-nedd Port Talbot – 78,048 (43.9%) a 20,698 (15.3%) o siaradwyr Cymraeg, yn y drefn honno.

Ceir amcangyfrifon mwy diweddar yn yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth.

Tabl C4: Y gallu i siarad Cymraeg fesul awdurdod lleol (y flwyddyn hyd at fis Mehefin 2021)

| | Pawb 3 oed a throsodd (1) | Yn gallu siarad Cymraeg | Ddim yn gallu siarad Cymraeg | Canran y bobl sy'n dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg (2) |
|--------------------------|---------------------------|-------------------------|------------------------------|---|
| Cymru | 3,034,400 | 884,300 | 2,147,800 | 29.16% |
| Sir Benfro | 122,400 | 39,300 | 83,000 | 32.14% |
| Sir Gaerfyrddin | 178,700 | 93,900 | 84,800 | 52.55% |
| Abertawe | 239,200 | 49,300 | 189,600 | 20.62% |
| Castell-nedd Port Talbot | 136,300 | 29,900 | 106,200 | 21.97% |

Ffynhonnell: Arolwg Poblogaeth Blynyddol, SYG.

Tabl C5: Y gallu i ddarllen/ysgrifennu/deall Cymraeg yn ôl awdurdod lleol (y flwyddyn hyd at fis Mehefin 2021)

| | Darllen Cymraeg | Ysgrifennu Cymraeg | Deall Cymraeg llafar |
|--------------------------|-----------------|--------------------|----------------------|
| Cymru | 25.87% | 23.70% | 33.59% |
| Sir Benfro | 26.46% | 23.99% | 38.46% |
| Sir Gaerfyrddin | 48.72% | 44.47% | 61.53% |
| Abertawe | 18.06% | 15.41% | 25.75% |
| Castell-nedd Port Talbot | 18.51% | 16.63% | 26.16% |

Ffynhonnell: Arolwg Poblogaeth Blynyddol, SYG.

Tabl C6: Amllder defnydd o'r Gymraeg yn ôl awdurdod lleol (y flwyddyn hyd at fis Mehefin 2021)

| | Dyddiol | Wythnosol | Llai aml | Byth |
|--------------------------|--------------|-------------|-------------|----------------|
| Cymru | 15.38 | 5.01 | 7.04 | 1.73937 |
| Sir Benfro | 16.20 | 5.23 | 9.04 | * |
| Sir Gaerfyrddin | 35.44 | 6.80 | 8.86 | * |
| Abertawe | 8.65 | 3.36 | 6.40 | * |
| Castell-nedd Port Talbot | 9.88 | 4.49 | 6.42 | * |

Ffynhonnell: Arolwg Poblogaeth Blynyddol, SYG.

Fodd bynnag, awgryma data o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth gynnydd sylweddol yn nifer y siaradwyr Cymraeg rhwng 2011 a 2021 (cynnydd o 32.9% dros y cyfnod o 10 mlynedd yn Abertawe; +12.6% yng Nghymru), er y dylid bod yn ofalus yma gan fod ffynonellau a methodoleg y Cyfrifiad a'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn wahanol. Gall canlyniadau Cyfrifiad 2021, pan fyddant ar gael, roi darlun mwy cywir o'r newid.

Gwahaniaethau o fewn Abertawe

Mae nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg (Cyfrifiad 2011) o fewn pob un o chwe ardal gymunedol Abertawe yn amrywio o 7,823 (18.4%) yn 'Llwchwr' a 6,957 (12.6%) yng 'Nghwm Tawe', i 2,426 (7.1%) yn 'Y Ddinas' a 2,234 (7.5%) ym 'Mhenderi'.

Mae canran y siaradwyr Cymraeg fesul ward etholiadol yn Abertawe yn amrywio rhwng 5.8% yn Townhill (10.5% gyda rhywfaint o sgiliau Cymraeg) a 38.3% ym Mawr (52.1%). O ran niferoedd, ward Pennard sydd â'r nifer lleiaf o siaradwyr Cymraeg ar 264 (10.1%) a Threforys ar 1,931 (11.8%) yr uchaf. Hefyd, mae dros 1,900 o bobl yn gallu siarad Cymraeg yn Llansamlet a Phontarddulais (Cyfrifiad 2011).

Ystyrir bod gogledd a gogledd-orllewin yr awdurdod yn draddodiadol fwy Cymraeg eu hiaith, ond mae'r boblogaeth yn rhai o'r ardaloedd hyn yn gymharol isel.

Canfyddiadau a phersbectifau

Ceir canfyddiad bod y sector cyhoeddus yng Nghymru yn Saesneg-ganolog. Mae angen gweithredu cadarnhaol gan gyrrff cyhoeddus i fynd i'r afael â hyn yn unol â Safonau'r Gymraeg.

Gall niferoedd cymharol uwch ond canran is o siaradwyr Cymraeg mewn ardaloedd o boblogaeth uwch guddio achosion o arwahanrwydd cymdeithasol a diffyg darpariaeth gwasanaeth Cymraeg i siaradwyr Cymraeg unigol – yn enwedig o gymharu â'r ardaloedd hynny sydd â chanran uwch a phresenoldeb mwy amlwg o'r Gymraeg.

Tueddiadau a rhagolygon i'r dyfodol i Abertawe

Mae'r niferoedd cynyddol sy'n manteisio ar addysg Gymraeg mewn ysgolion yn awgrymu bod cronfa o siaradwyr Cymraeg a fydd (ar ôl gadael yr ysgol) yn gwireddu twf rhagamcanol yn y galw am y Gymraeg yn y dyfodol.

Cymraeg 2050 yw strategaeth hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer yr iaith - erbyn 2050 "bydd diwylliant ac iaith yn parhau i fod yn rhan o'n bywydau o ddydd i ddydd ac yn cael eu gwerthfawrogi fel nodwedd gynhenid o'n llesiant cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd. Bydd y Gymraeg yn ffynnu, gyda dros filiwn o siaradwyr Cymraeg yn ei defnyddio ym mhob agwedd o fywyd a gwaith bob dydd, ac addysg cyfrwng Cymraeg ar gael i bawb." Bydd oblygiadau cenedlaethol a lleol i'r graddau y caiff hyn ei wireddu.

Gwelliant

Cynnydd cenedlaethol a lleol yn nifer y siaradwyr Cymraeg sydd â'r hyder i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywyd bob dydd ac yn eu hymwneud â chyrrff cyhoeddus a phreifat a'r disgwyliad y gallant dderbyn gwasanaeth Cymraeg fel mater o drefn.

Casgliadau a negeseuon allweddol

Bu cynnydd dramatig posibl yn nifer y siaradwyr Cymraeg ers Cyfrifiad 2011 yn y Ddinas a'r Sir, er y bydd cyhoeddi canlyniadau Cyfrifiad 2021 yn 2022 yn rhoi darlun mwy cyflawn.

Mae lleoedd ysgol gynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg wedi cynyddu o 5.5% ledled Abertawe.

Sefydlwyd digwyddiadau diwylliannol Cymraeg yn Abertawe gan y sector cyhoeddus a'r trydydd sector, gan roi cyfle i ddinasyddion ddathlu'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymraeg.

Cyfranogiad Cymunedol

Cryfderau ac Asedau

"Mae cyfranogiad cymunedol a gwirfoddoli yn y gymuned yn bwysig ac mae hyn wedi dod yn amlwg o ganlyniad i'r pandemig. Oni bai am gefnogaeth pobl mewn cymunedau a'r gwirfoddolwyr niferus ar draws Abertawe, byddai llawer o bobl wedi bod heb gymorth a chefnogaeth" – ymatebydd i'r arolwg.

Mae cyfranogiad cymunedol yn gonglfaen i unrhyw ddemocratiaeth. Fel y dywed Involve, "yn aml ystyrir bod manteision cyfranogiad fel a ganlyn:

- Gwell llywodraethu: gan gynnwys mwy o gyfreithlondeb democrataidd i sefydliadau oherwydd cysylltiadau agos â dinasyddion, gwell enw da i gyrff cyhoeddus, mwy o gyfleoedd ar gyfer dinasyddiaeth weithredol, a mwy o atebolrwydd i gyrff cyhoeddus oherwydd bod gwybodaeth yn cael ei lledaenu'n fwy effeithiol a gwell deialog.
- Mwy o gydlyniant cymdeithasol: gan gynnwys dod â chymunedau amrywiol ac weithiau gelyniaethus at ei gilydd, dod â grwpiau 'anodd eu cyrraedd' ac 'o dan anfantais' i drafodaethau, meithrin y berthynas o fewn a rhwng gwahanol gymunedau a grwpiau cymdeithasol, cryfhau a chreu rhwydweithiau newydd sy'n galluogi i wahanol fuddiannau weithio gyda'i gilydd o ganlyniad i feithrin perthynas fwy cadarnhaol yn seiliedig ar wybodaeth well am ein gilydd, a mwy o gydraddoldeb mynediad at brosesau polisi a gwneud penderfyniadau.
- Gwell ansawdd gwasanaethau, prosiectau a rhaglenni: gan gynnwys sicrhau bod buddsoddiad mewn gwasanaethau cyhoeddus yn fwy seiliedig ar yr anghenion a fynegwyd gan bobl, lleihau costau rheoli a chynnal a chadw trwy leihau fandaliaeth a chamddefnydd o ganlyniad i ennyn ymdeimlad o berchnogaeth, gan alluogi penderfyniadau cyflymach a haws (e.e. ar ddatblygiadau newydd neu ddynodiadau gwarchodol) drwy leihau gwrthdaro rhwng gwahanol bartïon a chynyddu ymddiriedaeth drwy well cyfathrebu, a galluogi pobl i rannu'r cyfrifoldeb am wella ansawdd eu bywyd eu hunain (e.e. iechyd a llesiant, neu'r amgylchedd lleol).

- Mwy o feithrin gallu a dysgu: gan gynnwys codi ymwybyddiaeth a chynyddu dealltwriaeth o sefydliadau cyhoeddus a'r ffordd y maent yn gweithio, galluogi dinasyddion i gael mynediad gwell at y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt, a deall ffiniau a chyfyngiadau gwahanol gyrff cyhoeddus, gan feithrin hyder ac optimistiaeth ymhlith dinasyddion sydd wedyn yn mynd ymlaen at ddysgu neu weithgareddau dinesig eraill, cefnogi'r sectorau gwirfoddol a chymunedol trwy gydnabod eu rôl hanfodol wrth feithrin gallu grwpiau buddiant cymunedol a phenodol (yn enwedig grwpiau difreintiedig ac eithriedig), a chynyddu sgiliau'r staff sy'n rhedeg cyfranogiad a'r rhai sy'n cymryd rhan (yn enwedig sgiliau rhyngbersonol)."

Mae Abertawe wedi cofrestru ar gyfer Culture 21 (Agenda 21 for Culture) o fewn y garfan Ewropeaidd, a ni oedd y ddinas gyntaf yn y DU i wneud hynny. Mae'r rhaglen yn golygu ein bod yn gweithio gyda dinasoedd cymheiriaid a chydweithwyr yn y Dinasoedd Unedig a Llywodraeth Leol i ymgorffori naw ymrwymiad yn ein polisiau a'n rhaglenni cyflenwi yn y ddinas. Fel rhan o'r rhaglen beilot, cynhyrchwyd Addewid Amrywiaeth i sicrhau mwy o amrywiaeth a chynrychiolaeth gymunedol yn ein rhaglenni a'n darpariaeth o seilwaith diwylliannol.

Y naw ymrwymiad yw:

1. Hawliau Diwylliannol: Dinasyddiaeth weithredol a chydabyddiaeth lawn o hawliau diwylliannol.
2. Treftadaeth, Amrywiaeth a Chreadigrwydd: Mae treftadaeth, amrywiaeth a chreadigedd yn sail i fywyd diwylliannol.
3. Diwylliant ac Addysg: Hyrwyddo dinasyddiaeth weithredol trwy adeiladu galluoedd diwylliannol.
4. Diwylliant a'r Amgylchedd: Ffactorau diwylliannol fel cyflymwyr cyfrifoldeb amgylcheddol.
5. Diwylliant a'r Economi: Mae cyfrifoldeb diwylliannol yn angenrheidiol i sicrhau economi gynaliadwy.
6. Diwylliant, Cydraddoldeb a Chynhwysiant Cymdeithasol: Mae diwylliant yn cyfrannu at rywau cymdeithasol newydd.
7. Diwylliant, Cynllunio Trefol a Mannau Cyhoeddus: Cynllunio dinasoedd a rhanbarthau gydag ymwybyddiaeth ac ystyr diwylliannol.
8. Diwylliant a Gwybodaeth: Technoleg a'i chyfraniadau at luosogrwydd ac adeiladu dinasyddiaeth.
9. Llywodraethu Diwylliant: Tuag at lywodraethu polisiau diwylliannol lleol yn gytbwys ac ar y cyd.

Arweinir darpariaeth gwasanaeth gan y 'Fframwaith' Datblygu Diwylliannol canlynol o flaenoriaethau y cytunwyd arnynt yn dilyn digwyddiadau ymgynghori cyhoeddus:

- Economi greadigol: archwilio'r cryfderau, y cyfleoedd a'r rhwystrau nodedig ar gyfer tyfu sector diwydiannau creadigol cryf a chynaliadwy;
- Diwylliant, cymuned a llesiant: cyflenwi Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol: archwilio rôl diwylliant wrth gefnogi cymunedau cydlynol, ffyniannus, cydnerth ac iach;
- Addysg, sgiliau ac ymchwil ddiwylliannol: sefydlu tirwedd wybodaeth gydgysylltiedig ar gyfer CCIs yn y ddinas sy'n harneisio arloesedd yn effeithiol ac yn sicrhau llwyddiant;

- Cynllunio diwylliannol: gwreiddio diwylliant a chreadigrwydd mewn datblygiadau, gan ganolbwyntio ar y cynlluniau adfywio allweddol yng Nghanol Dinas Abertawe a chynnig ehangach ym Mae Abertawe;
- Twristiaeth ddiwylliannol: nodi ffyrdd o gydlynu'r arlwy ddiwylliannol i arallgyfeirio a chynyddu twristiaeth.

Mae'r fframwaith uchod yn llywio rhaglenni, strategaethau datblygu cynulleidfa a darparu gwasanaethau ar gyfer orielau, amgueddfeydd, theatrau, digwyddiadau, rhaglen datblygu chwaraeon a gweithgareddau, a phrosiectau, cynlluniau gwaith a strategaethau unigol. Mae hyn yn cynnwys (er enghraifft) y Rhaglen Cyfuno; Dinasoedd Iach a Chreu Strategaeth Partneriaeth Abertawe Egniol ac Iach; Strategaeth Tlodi ac Atal; Amcan 6 y Strategaeth Rhianta Corfforaethol (cefnogi pobl ifanc mewn gofal neu brofiad o ofal i gynnal diddordebau gweithredol mewn gweithgareddau diwylliannol); a chyfrannu at raglenni Heneiddio'n Dda, Dinas Noddfa, y Blynnyddoedd Cynnar, Dinasoedd Rhyngddiwylliannol, Hawliau Dynol a Dinasoedd sy'n Dysgu.

Ar hyn o bryd, mae 938,000 o wirfoddolwyr yng Nghymru sy'n cyfrannu 145,000,000 o oriau o'u hamser yn flynyddol. Yn Abertawe yn 2017, gwirfoddolodd 26.2% o bobl, a chafwyd cynnydd i 28.5% yn 2020.

"Rwy'n credu mai cyfranogiad cymunedol a gwirfoddoli yw'r ffordd orau o ddod â phreswylwyr Abertawe sy'n rhannu'r un diddordebau ynghyd. Fel bodau dynol, rydym i gyd yn unigryw ac mae gennym wahanol ddiddordebau - gall cyfranogiad cymunedol osgoi'r rhwystrau hyn, er enghraifft nid yw rhai pobl yn gallu neu'n hoffi cymryd rhan mewn chwaraeon. Mae cyfranogiad cymunedol yn chwalu rhwystrau fel crefydd etc., ac yn uno pobl â nod cyffredin ac yn adeiladu cymunedau cefnogol, iach. Gall y cyfranogiad gynnwys y Gymraeg/chwaraeon etc." – Ymatebydd i'r arolwg.

Un o ddangosyddion allweddol rhaglen Cyfuno Llywodraeth Cymru yw "Gwirfoddoli rheolaidd fel llwybr at waith". Yn Abertawe, mae hyn wedi cyflawni'r canlynol:

- galluogi gwirfoddolwyr i gymryd rhan mewn gwneud podlediadau a ffilmiau.
- llwyddodd gwirfoddolwyr yng Ngardd y Glannau i ddychwelyd i weithio am 221 awr yn ystod haf 2021
- cefnogi Amgueddfa Abertawe gyda nifer o brosiectau bach o bell
- helpu Canolfan Dylan Thomas gyda phrosiectau creadigol
- cefnogi'r GVAG yn eu prosiectau ar-lein a phan fyddant ar agor yn yr haf.

Ar hyn o bryd, mae tua 630 o wirfoddolwyr yn helpu i redeg y 40 o adeiladau cymunedol ar draws Dwyrain Abertawe, Gorllewin Abertawe a chanol y ddinas. Mae'r pwyllgorau'n cynnwys pobl leol sy'n angerddol am y gwaith. Maent yn teimlo ymdeimlad o falchder, pwrpas a chyflawniad trwy ddarparu lleoliad fforddiadwy i hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol ac ariannol, a chynyddu ymgysylltiad a chyfranogiad cymunedol.

Ar hyn o bryd, mae 37 o grwpiau Cyfeillion Parciau a gyfansoddwyd wedi eu cofrestru gan Gyngor Abertawe. Mae'r rhwydwaith o wirfoddolwyr yn ased pellgyrhaeddol ac amhrisiadwy. Mae grwpiau cyfeillion yn ymrwymo i hyrwyddo arfer cynhwysol trwy eu cyfansoddiadau.

Mae oedolion o bob oed yn cymryd rhan a hefyd yn darparu cyfleoedd i blant a phobl ifanc. Anogir grwpiau agored i niwed i ymuno (e.e. mae Dinas Noddfa yn gweithio gyda Chyfeillion Parc Ravenhill).

Roedd y pandemig yn golygu bod rhaid cynnal democratiaeth leol mewn ffordd newydd, gyda chyfarfodydd ar-lein yn dod yn norm oherwydd gofynion pellhau cymdeithasol. Cynhaliwyd holl gyfarfodydd y Cyngor o bell ers 24 Ebrill 2020, trwy Microsoft Teams.

Mae Cyngor Abertawe a'r Cynghorau Cymuned/Tref (C/TC) o fewn ei ffiniau wedi ymrwymo i Siarter sy'n nodi'r ffordd y maent yn ceisio cydweithio er budd cymunedau lleol tra'n cydnabod eu priod gyfrifoldebau fel cyrff statudol. Mae hyn yn caniatáu cydweithredu ar y ddwy lefel o lywodraeth. Cynlluniwyd y Siarter i adeiladu ar egwyddorion a rennir, a'u cofleidio - sef bod yn agored, parchu barn ein gilydd, gonestrwydd a'n blaenoriaeth gyffredin o roi dinasyddion yn y canol. Mae'r Siarter hon yn seiliedig ar gydraddoldeb partneriaeth.

Mae'r cyfryngau cymdeithasol wedi chwarae rhan i annog cyfranogiad democrataidd ac mae gan gyfrif Twitter @DemSwansea 875 o ddilynwyr. Mae wedi trydaru 5,990 o weithiau ers mis Chwefror 2010. Defnyddiwyd y cyfrif i hyrwyddo pryd mae cyfarfodydd cyhoeddus yn cael eu cynnal, gwybodaeth am etholiadau, hyrwyddo cofrestru etholiadol a newidiadau ffiniau, yn ogystal ag ail-drydar negeseuon perthnasol eraill.

Newidiadau dros gyfnod

Pasiwyd Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) gan y Senedd ar 18 Tachwedd 2020, union flwyddyn ar ôl iddo gael ei gyflwyno yn 2019, a chafodd Gydsyniad Brenhinol ar 20 Ionawr 2021.

Roedd y Bil yn ymestyn yr etholfraint Llywodraeth Leol fel y gall pobl ifanc 16 ac 17 oed bleidleisio mewn unrhyw etholiadau o fewn yr etholfraint honno (e.e. Etholiadau Senedd ac Etholiadau Llywodraeth Leol). Caniatodd hyn i tua 65,000 o bobl ifanc yng Nghymru ymuno â'r etholfraint Llywodraeth Leol. Estynnodd hefyd yr etholfraint llywodraeth leol i ddinasyddion o unrhyw wlad ar yr amod eu bod yn bodloni'r meini prawf a nodir yn Adran 4(3) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (RPA). Hyrwyddwyd ymgyrch 'Croeso i'ch Pleidlais – Cymru' y Comisiwn Etholiadol drwy'r cyfryngau cymdeithasol, gan annog pobl ifanc 16 ac 17 oed a dinasyddion tramor cymwys i bleidleisio yn Etholiadau'r Senedd.

Ers dechrau'r Pandemig, mae 207 o gyfarfodydd wedi'u ffrydio'n fyw, ac mae recordiadau o 264 o gyfarfodydd ar gael i'r cyhoedd ar sianel YouTube Cyngor Abertawe. Ceir y dolenni i'r rhain o abertawe.gov.uk/democratiaeth a thudalennau cyfarfodydd perthnasol ar wefan Cyngor Abertawe.

Nid oes ystadegau ar gael ar gyfer y nifer sydd wedi edrych ar y ffrydiau byw. Yr uchaf a nodwyd oedd Pwyllgor y Rhaglen Graffu ar 19 Ionawr 2021 gyda dros 60 o bobl yn gwyllo'r ffrydiad byw. Mae'r recordiadau YouTube wedi cofnodi cyfanswm o 14,421 o ymweliadau (ar 18 Hydref 2021).

Defnyddiwyd y parciau, manau gwyrdd a choetiroedd yn amlach oherwydd cyfnodau clo a chanllawiau ‘aros yn lleol’.

Dywedodd trigolion eu bod yn cymryd mwy o ddi-ddordeb a balchder yn y manau hyn ac mae grwpiau Cyfeillion newydd wedi ymddangos o ganlyniad.

Mynegodd grwpiau cyfeillion ymdeimlad newydd o berchnogaeth, perthyn ac ymdeimlad o le, yn ogystal ag awydd i gynnal perthynas newydd â chymdogion a ddatblygodd yn ystod y cyfnodau clo.

Mae teuluoedd ifanc yn cysylltu â Chyngor Abertawe i gael gwybod am gyfleoedd ar gyfer prosiectau tyfu mewn parciau a sefydlu gerddi cymunedol a synhwyrdd o fewn parciau.

Cymariaethau â lleoedd eraill

Mae ffigurau ar gofrestru Etholwyr Llywodraeth Leol yn Abertawe yn dangos cynnydd o 173,300 yn 2017 i 178,495 yn 2019. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 3.0%, o'i gymharu â chynnydd o 2.6% (DU) a 3.5% (Cymru) yn ystod yr un cyfnod.

Mae ystadegau ar wirfoddoli yng Nghymru ar gael o'r Arolwg Cenedlaethol. Dengys y rhain ddadansoddiadau oedran a thueddiadau dros amser:

Tabl C7: Gwirfoddoli yng Nghymru, 2016-2020

| CYMRU | 2016-17 | 2017-18 | 2019-20 |
|----------------------------|---------|---------|---------|
| Canran oedolion (16+ oed): | | | |
| Bob oed | 28.39 | 27.97 | 26.12 |
| 16-24 | 22.08 | 34.09 | 27.28 |
| 25-44 | 27.65 | 24.97 | 23.91 |
| 45-64 | 29.57 | 25.51 | 25.86 |
| 65-74 | 33.33 | 34.98 | 30.12 |
| 75 a throsodd | 28.69 | 26.56 | 26.26 |

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru, Llywodraeth Cymru.

Mae'r Arolwg Cenedlaethol hefyd yn dangos tueddiadau yng nghanran y bobl sy'n fodlon ar eu hardal leol fel lle i fyw. Mae amcangyfrifon ar gael ar lefel awdurdod lleol:

Tabl C8: Pobl sy'n fodlon ar eu hardal leol fel lle i fyw, 2016-2021

| | 2016-17 | 2018-19 | 2020-21 |
|----------------------------|--------------|--------------|--------------|
| Canran oedolion (16+ oed): | | | |
| Cymru | 85.35 | 85.33 | 87.43 |
| Sir Benfro | 90.49 | 89.82 | 86.42 |
| Sir Gaerfyrddin | 88.75 | 88.38 | 88.65 |
| Abertawe | 87.28 | 87.68 | 83.55 |
| Castell-nedd Port Talbot | 80.83 | 83.66 | 81.77 |

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru, Llywodraeth Cymru.

Hefyd, ceir amcangyfrifon yr Arolwg Cenedlaethol ar gyfer canran y bobl sy'n teimlo y gallant ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardaloedd lleol:

Tabl C9: Pobl sy'n teimlo'u bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardaloedd lleol, 2016-2021

| | 2016-17 | 2018-19 | 2020-21 |
|----------------------------|--------------|--------------|--------------|
| Canran oedolion (16+ oed): | | | |
| Cymru | 20.32 | 18.75 | 25.89 |
| Sir Benfro | 18.33 | 15.76 | 36.15 |
| Sir Gaerfyrddin | 18.91 | 18.76 | 32.92 |
| Abertawe | 18.62 | 20.36 | 24.70 |
| Castell-nedd Port Talbot | 12.75 | 17.27 | 24.08 |

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru, Llywodraeth Cymru.

Gwahaniaethau o fewn Abertawe

Mae Abertawe fel awdurdod lleol yn cael ei gynrychioli ar hyn o bryd gan 72 o gynghorwyr etholedig o amrywiaeth o grwpiau gwleidyddol, gyda phob cynghorydd yn cael ei ethol i gynrychioli ardal benodol (ward etholiadol). Maent yn gweithredu ar ran y gymuned honno gan wneud penderfyniadau ynghylch gwasanaethau lleol, cyllidebau a lefel gyffredinol gwasanaethau'r cyngor. Mae'r 72 cynghorydd yn cynrychioli cyfanswm o 36 ward, yn amrywio o wardiau un aelod (18) i wardiau gyda 5 Cynghorydd (Treforys a Sgeti). Yn dilyn adolygiad diweddaraf y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol i Gymru, o fis Mai 2022 bydd Abertawe yn cynnwys 32 o wardiau etholiadol a wasanaethir gan 75 o gynghorwyr.

Mae haen ychwanegol o ymgysylltiad democrataidd, sef y gymuned, a dyma'r math lleiaf o ardal weinyddol yng Nghymru – mae'n cyfateb i blwyf yn Lloegr. Mae cynghorau cymuned neu dref yn gweithredu ledled Cymru, gyda chyfanswm o 870 o gymunedau, ac mae tua 730 ohonynt â chyngor ar hyn o bryd. Yn Abertawe, mae 39 o ardaloedd cyngor cymuned/tref diffiniedig, ac mae 24 ohonynt yn weithredol fel cynghorau ar hyn o bryd. Mae'r rhain yng Ngorllewin Abertawe a Gŵyr, yn bennaf y tu allan i brif ardaloedd trefol Abertawe. Mae nifer y Cynghorwyr sy'n gwasanaethu ar bob un (ac eithrio swyddi gweigion) yn amrywio o 4 (Three Crosses) i 18 (Mwmbwls).

Mae nifer o ffactorau y tu ôl i wahaniaethau mewn gwirfoddoli ar draws Abertawe gan gynnwys:

- Oed
- Lleoliad ac agosrwydd at adeilad cymunedol
- Teuluoedd un rhiant
- Oriau gweithio

Ar hyn o bryd, mae 37 o grwpiau Cyfeillion y Parciau; 14 yn Nwyrain Abertawe; 12 yng Ngorllewin Abertawe ac 11 yng Ngŵyr. Mae pob grŵp Cyfeillion yn wahanol; datblygodd aelodau'r pwyllgor eu cyfansoddiad eu hunain gan ddod â'u set unigryw eu hunain o sgiliau a phrofiadau i'r broses wirfoddoli. Mae'r grwpiau hefyd yn ymateb i anghenion cymunedau

amrywiol ar draws Abertawe, yn ogystal ag agweddau amgylcheddol y Parciau, Coetiroedd a'r mannau agored y maent yn gofalu amdanynt.

Gwnaeth grwpiau sefydledig gais llwyddiannus am arian Loteri i wneud gwelliannau ac ychwanegiadau i'w parciau, gan gyflwyno llecynnau ar gyfer natur, blodau gwyllt a pherllannau. Cynhaliwyd digwyddiadau a arweinir gan y gymuned i deuluoedd trwy arian Haf o Hwyl. Dethlir nodweddion gwarchoddedig trwy ddiwyddiadau gyda phartneriaid fel Dinas Noddfa.

Canfyddiadau a phersbectifau

Tystiolaeth Anecdotaidd gan Grwpiau Cyfeillion Newydd eu Sefydlu:

“Roedd y lle hwn yn noddfa i ni adeg y cyfnod clo, nid oes gennym ni ardd fawr felly mae'r lle hwn wedi bod mor bwysig i'n hiechyd meddwl, ac rydym eisiau parhau i ofalu amdano” (Cyfeillion Mynydd Birmingham)

“Rydyn ni i gyd eisiau gwneud gwahaniaeth cadarnhaol a throi ardal sydd wedi dirywio, lle mae tipio anghyfreithlon yn broblem, i fod yn ardd gymunedol hardd i bawb ei mwynhau” (Gerddi Cymunedol Cyfeillion y Clâs)

“Mae mannau gwyrdd yn hanfodol ar gyfer llesiant meddyliol a chorfforol a thrwy gydol y pandemig rydym wedi gweld pa mor bwysig fu'r mannau hyn i gymunedau lleol”, Julie James, Gweinidog Llywodraeth Cymru dros Newid Hinsawdd (Cadw Cymru'n Daclus, Dathlu Mannau Gwyrdd Cymru, 2021)

Tueddiadau a rhagolygon i'r dyfodol i Abertawe

Yn dilyn adolygiad o drefniadau etholiadol Abertawe gan y Comisiwn Ffiniau i Gymru, o fis Mai 2022, ceir 32 ward (o 36 ar hyn o bryd) a 75 o gynghorwyr (o 72 ar hyn o bryd). Llenwir y swyddi gweigion ychwanegol yn ystod yr Etholiadau Llywodraeth Leol ym mis Mai 2022. Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn nodi y bydd gan swyddogion a gweithwyr cyngor, ac eithrio'r rhai sy'n dal swyddi â chyfyngiadau gwleidyddol, yr hawl i sefyll etholiad i'w cyngor eu hunain. Dim ond os cânt eu hethol y bydd angen iddynt ymddiswyddo o'u swydd gyflogedig gyda'r cyngor. Bydd hyn yn ehangu'r gronfa o ymgeiswyr posibl tra'n sicrhau nad oes gwrthdaro buddiannau ar ôl i'r ymgeisydd gael ei ethol.

O ran gerddi synhwyraidd a gerddi cymunedol, mae awydd i sefydlu ardaloedd dynodedig llai o fewn parciau ar gyfer prosiectau penodol (e.e. Gardd Gymunedol o fewn Parc Hafod) lle mae grwpiau cynhwysol yn dod o hyd i le diogel i gyfranogi a throsglwyddo gwybodaeth/sgiliau.

Adroddodd grwpiau cyfeillion fod nifer y plant sydd wedi manteisio ar brofiadau dysgu awyr agored/ Ysgol Goedwig wedi cynyddu yn ystod ac ar ôl y cyfnod clo, gyda theuluoedd yn defnyddio Parciau a mannau gwyrdd agored ar gyfer dysgu yn yr awyr agored yn ystod misoedd yr haf.

Mae grwpiau cyfeillion yn parhau i ddatblygu partneriaethau lleol gydag ystod o sefydliadau amrywiol, ac ysgogwyd hyn gan y cyfnodau clo - er enghraifft, hyfforddwyr campfa/crefft ymladd yn cynnal dosbarthiadau awyr agored a bŵt-camp ar yr hen lawntiau bowlio, a gyflenwyd gyda chefnogaeth grwpiau Cyfeillion, Adran y Parciau a Digwyddiadau Arbennig.

Integreiddio

Diogelwch Cymunedol: Mae grwpiau cyfeillion yn gweithredu fel llygaid a chlustiau'r gymuned ac yn aml yn atal ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddau lleol trwy roi gwybod i'r Cyngor yn brydlon am unrhyw fandaliaeth/tipio anghyfreithlon/llosgi bwriadol.

Datblygu Sgiliau: Potensial pellach ar gyfer cysylltiadau â phrosiectau cyflogadwyedd (Y Tu Hwnt i Frics a Morter er enghraifft), hefyd Coleg Gŵyr Abertawe a Charchar Abertawe sydd ar hyn o bryd yn ymwneud â phrosiectau gwaith coed ar raddfa fach/cyfrannu eitemau i'r grwpiau Cyfeillion. Yn ogystal, mae potensial ar gyfer Dysgu yn yr Awyr Agored pellach mewn parciau gyda thîm Dysgu Gydol Oes/adnoddau symudol.

Yr Amgylchedd: Lleihau allyriadau carbon drwy annog gweithgarwch lleol; mentrau gwyrdd mewn Parciau, plannu coed ac annog bioamrywiaeth; annog plant ysgol i blannu/tyfu. Mae enghreifftiau pellach o dasgau ymarferol y mae'r grwpiau Cyfeillion yn cynorthwyo'r Cyngor â nhw yn cynnwys casglu sbwriel, plannu a chwynnu, monitro ac adrodd ar Glymog Japan, adeiladu a gosod blychau ystlumod ac adar, a chofnodi bioamrywiaeth.

Iechyd a Llesiant; mae'r grwpiau cyfeillion yn gweithio'n agos gyda Swyddog Datblygu Cerdded y Cyngor i hyrwyddo dewisiadau ffordd o fyw egnïol. Mae Cydlynwyr Ardaloedd Lleol hefyd yn cysylltu â grwpiau i annog cyfranogiad a gwell iechyd meddwl a llesiant unigolion ynysig/agored i niwed.

Mae'r agwedd gymdeithasol ar wirfoddoli yn enfawr. Nid yn unig y mae rolau gwirfoddol yn darparu gweithgareddau a phwrpas ar gyfer rhieni sy'n aros gartref/pobl wedi ymddeol/y di-waith, mae llawer o aelodau'r pwyllgor hefyd yn rhedeg grwpiau cymunedol di-elw fel cylchoedd chwarae, boreau coffi a grwpiau cyfeillgarwch - lle gall pobl yn y gymuned ddod at ei gilydd yn gymdeithasol. I rai o aelodau mwyaf ynysig ac agored i niwed y gymuned, mae hyn yn achubiaeth ac weithiau'r unig fath o ryngweithio dynol y maent yn ei gael trwy'r wythnos. Oni bai am wirfoddolwyr, byddai llawer llai o weithgareddau ar gael i aelodau'r gymuned, heb sôn am ryngweithio cymdeithasol, sy'n hynod bwysig.

Caiff y lleoliadau eu priso'n fforddiadwy fel y gellir cynnal mwy o weithgareddau, ac er mwyn i'r grwpiau defnyddwyr allu cynnal eu hunain yn ariannol. Caniateir i fusnesau bach redeg o adeiladau cymunedol cyn belled â'u bod yn darparu gwasanaeth i'r gymuned e.e. ysgolion dawns cymunedol. Ni fyddai'r rhan fwyaf yn masnachu oni bai am y lleoliadau fforddiadwy sydd ar gael i'w llogi. Anogir canolfannau i fuddsoddi'r arian a wnânt yn ôl i wella'r adeilad fel bod y gofod a ddarperir yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, a'i fod yn ddeniadol i'r gymuned ei ddefnyddio. Ni fyddai'r model canolfan gymunedol presennol yn hyfyw nac yn gynaliadwy pe bai angen talu i'r staff sy'n eu rhedeg. Byddai hyn bron yn sicr yn golygu y byddai'n rhaid i'r prisiau godi gan olygu na fyddai'r lleoliadau bellach yn fforddiadwy, a fyddai'n ei dro'n golygu bod llai o bobl yn eu defnyddio.

Mae gan y rhan fwyaf o ganolfannau fannau gwyrdd ynghlwm, y mae gwirfoddolwyr yn gofalu amdanynt. Mae gan rai glytiau llyisiau cymunedol sy'n darparu bwyd ffres i'r banciau bwyd cymunedol a redir o'r adeilad, ac mae'r cynlluniau hyn eto'n cael eu rheoli'n gyfan gwbl gan wirfoddolwyr.

Mae'r canolfannau'n darparu ystod eang o weithgareddau diwylliannol, o ddawnsio i hanes lleol, ffotograffiaeth, gosod blodau, canu ac ysgrifennu creadigol.

Mae rôl y gwirfoddolwr o fewn yr adeiladau cymunedol yn gwbl hanfodol ac ni fyddai adeiladau cymunedol yn bodoli pe na bai pobl yn gwirfoddoli i'w rhedeg. Pe bai hyn yn newid, byddai'n cael effaith aruthrol ar y gymuned mewn llawer o wahanol ffordd.

Gwelliant

Mwy o ymgysylltiad cymunedol mewn prosiectau. Gweithio gyda'r gwirfoddolwyr i gynnal boreau coffi a diwrnodau hwyl a digwyddiadau eraill. Hyrwyddo ymgyrch i gael pobl ifanc i gymryd rhan weithredol ar bwyllgorau adeiladu cymunedau er mwyn cynorthwyo cynaliadwyedd.

"Mae digwyddiadau cymunedol yn dda ar gyfer lles a hunan-barch ac yn helpu i fynd i'r afael ag unigrwydd" – ymatebydd i'r arolwg.

Recriwtio a chadw gwirfoddolwyr i ymgysylltu, cynrychioli a mynd i'r afael ag anghenion eu cymuned, tra'n sicrhau bod cyfleoedd hygyrch ac effeithiol ar gael.

Codi proffil gwirfoddolwyr fel eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi'n fwy, gan gynnwys defnyddio'r cyfryngau, a dyfarnu gwobrau lleol a chenedlaethol am wasanaeth i'r gymuned.

Ynglŷn â'r dystiolaeth

Cesglir data ymgeiswyr ar gyfer Etholiadau Llywodraeth Leol gan Lywodraeth Cymru, ond adroddir arnynt ar lefel genedlaethol heb ddadansoddiadau lleol.

Darparodd arolwg gan Lywodraeth Cymru ddata ar yr holl ymgeiswyr (etholedig ac anetholedig), yn etholiadau lleol 2017 yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2017). Dyma'r unig enghraifft a nodwyd o ymgais gyson neu unffurf gan awdurdodau llywodraeth leol i gasglu data ar amrywiaeth. Y nodweddion gwarchoddedig a ddadansoddwyd oedd oed, anabledd, hil, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. Defnyddiwyd data arsylwi ar gynghorwyr benywaidd yng Nghymru hefyd.

Casgliadau a negeseuon allweddol

Mae ehangu etholfraint Llywodraeth Leol yn caniatáu i fwy o bobl gymryd rhan mewn democratiaeth leol. Ochr yn ochr â hyn, bydd y gronfa ymgeiswyr yn cynyddu wrth i'r

rheolau'n ymwneud â gallu swyddogion y Cyngor i sefyll mewn etholiad i'w hawdurdod lleol eu hunain gael eu llacio.

Wrth ddod allan o'r pandemig, mae'r fethodoleg a ddefnyddiwyd i sicrhau y gallai cyfarfodydd barhau i gael eu cynnal yn caniatáu cyfle i gynyddu mynediad dinasgyddion at gyfarfodydd cyhoeddus (sef ffrydio byw, a recordiadau ar gael wedi hynny ar wefannau rhannu fideos).

Mae gwaith i'w wneud o hyd i annog ymgeisyddiaeth gan bobl â nodweddion gwarchoddedig ac mae hyn yn cael ei drefnu'n ganolog gan ymgyrchoedd CLILC. Mae Cyngor Abertawe'n darparu dolenni o'r dudalen we 'Byddwch yn Gyngorydd':

- Fideo Llywodraeth Cymru ar YouTube 'Erioed wedi meddwl am fod yn gyngorydd yng Nghymru?'
- Tudalennau gwe 'Byddwch yn Gyngorydd. Sicrhewch mai chi yw'r Newid' Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Mae gan Abertawe sylfaen dda o wirfoddolwyr, ond mae'n heneiddio. Mae angen inni gynyddu nifer y gwirfoddolwyr a cheisio cael pobl ifanc i gymryd rhan weithredol ar bwyllgorau gyda ffocws ar gynnwys y gymuned. Mae rolau gwirfoddol yn rhoi gweithgarwch a phwrpas i bobl leol tra'n gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae angen i ni godi proffil gwirfoddolwyr fel eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi fwy.
